

a: it is a condition of grant that you ... – un o amodau (rhoi)'r grant yw eich bod yn ...; **one step at a time** – un cam ar y tro

abandoned: many houses lie a. – mae llawer tŷ wedi'i adael yn wag, mae llawer o dai wedi'u gadael yn wag

to abate – lleddfu

to abdicate: to a. responsibility for – ymwrthod â'r cyfrifoldeb dros, llaesu dwylo o ran bod yn gyfrifol am

abeyance: to be (put) in a. – rhoi o'r neilltu; **to fall into a.** – dod i ben

to abide: to a. by the rules – parchu'r rheolau

abiding – safadwy

able: they have been a. to ... – maent wedi llwyddo i ...; **to be better/more a. to** – bod mewn gwell sefyllfa i

ably: a. assisted by ... – gyda chymorth glew ...

abortive: a. paperwork – gwaith papur diangen

to abound: examples a. of – ceir llond gwlad o enghreifftiau o ..., ceir enghreifftiau lu o/rif y gwylth o ...; **as whirlpools a. in the river** – am/gan fod cynifer o drobyllau yn yr afon, am/gan fod yr afon yn frith o drobyllau

about: to be a. – ymwneud â/ag

they must understand what the exercise is (all) a. – rhaid iddynt ddeall diben yr ymarfer; **what is this conference (all) a.?** – beth yw testun/pwnc/maes y gynhadledd hon?; **the questions are a. your health** – mae'r cwestiynau'n holi am eich iechyd/ynghŷn â'ch iechyd; **this assessment is (all) about ...** – ... yw canolbwynt/pwnc yr asesiad hwn; **a. to ...** – ar fin ..., ar fedr ...; **a. the sources** [*fel teitl*] – (gair/gair neu ddau am) y ffynonellau; **to be a. right** – bod yn eithaf agos at eu lle; **are there any results you are surprised a.?** – a oes unrhyw ganlyniad(au) sy'n eich synnu/sy'n peri syndod i chi; **successful business is all a. seizing opportunities** – hanfod pob busnes llwyddiannus yw bachu/manteisio ar bob cyfle/cydio ym mhob cyfle

above: a. all – uwchlaw pob dim, yn fwy/bwysicach na dim, yn anad dim, yn bennaf oll; **as a.** – fel y nodwyd/nodais uchod; **level 3 or a.** – lefel 3 neu uwchlaw hynny; **it will be clear from the a.** – o ddarllen yr uchod, fe welir yn glir bod/mai neu mae'n amlwg bod/mai; **this as, a. all, is a matter of ...** – mater o ..., yn fwy na dim, yw hwn; **a. and beyond ...** – yn fwy/yn llawer mwy na(g) ..., (ymhell) uwchlaw ...; **they are well a. this age** – maent (hwy) gryn dipyn yn hŷn na hynny

abreast: to keep/be kept a. of – (cael) gwybod (yn gyson) am; **in keeping a. of rapid strides in today's technological world** – drwy fanteisio ar ddatblygiadau diweddaraf yr oes dechnolegol sydd ohoni; **to stay a. of developments** – ymgyswrtio'n gyson â(r) datblygiadau, cael gwybod yn gyson am ddatblygiadau/am y datblygiadau (diweddaraf)

abridged: an a. version of ... – talfyriad o ...

abroad: from a. – o wlad dramor/wledydd tramor

abrupt: an a. change of plan – newid sydyn yn y cynllun

absence: in the a. of – os na cheir/nad oes/yw, gan nad oes/yw/oedd; **in the continuing a. of an invitation from ... to ...** – gan fod ... yn dal heb gynnig gwahoddiad i ...; **in spite of the a. of any reference in the Act** – er nad oes yr un cyfeiriad (ato/ati/atom/atoch/atynt) yn y Ddeddf; **the need to address the almost complete a. of appropriate training** – yr angen i roi sylw i'r ffaith nad oes bron dim hyfforddiant priodol

absent: such services are a. in most communities – nid yw'r gwasanaethau hyn(ny)/nid yw gwasanaethau o'r fath ar gael/i'w cael yn y mwyafrif o gymunedau, ni ddarperir/chynigir y gwasanaethau hyn(ny)/nid yw gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu/cynnig yn y mwyafrif o gymunedau, does yr un/mo'r un o'r gwasanaethau hyn(ny) yn y mwyafrif o gymunedau, does dim o'r gwasanaethau hyn(ny) yn y mwyafrif o gymunedau

absolute: a. silence – tawelwch llethol; **with a. peace of mind** – gan fod yn gwbl dawel eu meddwl; **a. folly** – ffolineb 'r mwyafrif; **it's an a. nightmare** – mae'r cwbl/cyfan yn hunllef/yn gawdel i gyd; **it's an a. mess** – mae'r cyfan/cwbl yn gawdel i gyd; **to pay an a. fortune for ...** – talu crochris am ...; **the case for this remains a.** – mae'r achos o blaid (gwneud) hyn yn dal i fod yn gwbl gadarn; **an a. beginner** – un/ dysgwr(aig) sy'n dechrau o'r dechrau('n deg), un (d)di-glem, un sy'n gwybod dim/ychydig iawn, dysgwr(aig) (d)dechreuol

absolutely: the a. central importance of ... – pwysigrwydd cwbl ganolog ...; **a. no ...** – affliw o ddim ...; **a. stupid** – yn ddwl/wirion bost; **a. dead/lifeless** – yn farw gorn/hoel; **if this describes it a.** – os yw hyn(ny) yn ei (d)disgrifio i'r dim; **a. free** – yn rhad ac am ddim; **we reject a. their belief that ...** – yr ydym yn gwrthod ar ei phen eu cred bod/mai/y(r) ...; **they should regard these commitments as a. as they do their other commitments** – dylent roi'r un parch/ddangos yr un parch (yn union) i'r hymrwymiaadau hyn ag i'w hymrwymiaadau eraill; **they a. hated it** – yr oeddent yn ei gasáu/yn ei chasáu â chas perffaith

to absolve: it then becomes a.-ed of its responsibility to provide ... – (a) dyna ddiwedd ar ei gyfrifoldeb/ei chyfrifoldeb i ddarparu ...

to absorb: to a. a language – dysgu iaith; **to a. (= take on) the work of another office** – cymryd/gwneud gwaith swyddfa arall, ymgymryd â gwaith swyddfa arall; **these guidelines have been a.-ed into ...** – mae'r canllawiau hyn wedi'u plethu i ...; **to a. the traditions of the profession** – cyfarwyddo/ymgyfarwyddo/cynefino/ymgynefino â thraddodiadau'r proffesiwn

absorbing: to be of a. interest – bod o ddiddordeb eithriadol

absurdity – hurtni

abundance: a relative a. of medical resources – adnoddau meddygol cymharol helaeth

abundant – lluosog; **research using this scale is not a.** – nid oes llawer/rhyw lawer o (waith) ymchwil wedi defnyddio'r raddfa hon; **a. opportunities** – llond (y) lle/llond gwlad o gyfle(oedd)

abundantly: to contribute a. to ... – cyfrannu cymaint i/at ...

abuse: human rights a.-s – treisio hawliau dynol, (achosion o) dreisio hawliau dynol (*ymateb Meg Elis igwestiwn ar welsh-termau-cymraeg*, 26.11.07)

to abuse: to a. verbally – bod yn llym eu tafod at ...

abysmal – arswydus, dychrynlyd

to accentuate: the problem is a.-ed in ... – mae'r broblem yn waeth yn/mewn; **to a. the importance of ...** – cynyddu pwysigrwydd ...

access: this program gives a. to 125,000 volumes – mae'r rhaglen hon yn fodd i gael mynediad i 125,000 o gyfrol, drwy ddefnyddio'r rhaglen hon gellir cael mynediad i 125,000 o gyfrolau; **they have exclusive a. to this room** – hwy'n unig/hwy, a hwy'n unig/hwy, a neb arall, (a) gaiff ddefnyddio'r ystafell (hon)

to access – cael mynediad i/mynd at ..., cael gafael ar ..., cysylltu â/ag ...; gweld, defnyddio; **the service may be a.-ed by (tele)phoning ...** – gellir cysylltu â'r gwasanaeth drwy ffonio ..., gellir ffonio'r gwasanaeth (hwn) ar

accessibility – (lleoliad) cyfleus/hwylus; **for easy a.** – er hwylustod; **the poem was simplified for easier a.** – symleiddiwyd y gerdd i'w gwneud hi'n haws ei deall; **to increase a. to ...** – hwyluso mynediad i ..., gwneud ... yn fwy hygyrch, ei gwneud hi'n haws cyrraedd/cyrchu ...

accessible: the text could be more a. – gallai'r testun fod yn haws ei ddeall; **to make a wide range of information a. to them** – agor y drws i amrywiaeth mawr o wybodaeth iddynt; **easily a.** – hwylus

to acclaim: it was published to great a. – pan gyhoeddwyd ef/hi, fe'i canmolwyd yn fawr/yn frwd/i'r cymylau/i'r entychion *neu* cafodd ei ganmol/ei chanmol yn frwd pan gyhoeddwyd ef/hi/adeg ei gyhoeddi/ei chyhoeddi

acclamation: these sentiments were endorsed with a. – cymeradwywyd y sylwadau hyn(ny) yn frwd/gyda brwdfrydedd

accolade – camp; **(a) double a.** – camp ddwbl; **this is not an a. that comes easily** – nid ar chwarae bach y mae cyflawni'r gamp hon/y cewch (chi) gyflawni'r gamp hon/y mae cyflawni'r gamp hon(no)/y cewch (chi) gyflawni'r gamp hon(no)/y cyflawnir y gamp hon(no)

to accommodate – rhoi lle i; **they need to a. gradually to a situation** – mae angen iddynt ymgysgu'r raddol â sefyllfa; **to a. customers wishing to ...** – bodloni dymuniadau cwsmeriaid a hoffai ...; **a course to a. pupils** – cwrs ar gyfer disgyblion; **to a. the special difficulties in ...** – (i) ymdrin â'r anawsterau arbennig yn/mewn ...; **a scheme suitably adapted to a. the specialist nature of the drama college** – cynllun sydd/a fydd wedi'i addasu'n briodol/a addaswyd/a addasir yn briodol i gyd-fynd â/i gyd-weddu â/i weddu i natur arbenigol y coleg drama; **to a. (= to cope with) differences** – ymdopi/dygymod â gwahaniaethau

accommodation – adeiladau (a mannau dysgu), ystafelloedd

accommodative: a. dysfunction – camweithrediad (*eg*) ymaddasol [?] [Optometreg]

accompanied: a. by – ynghyd â, law yn llaw â;

to accompany – dod yn sgil, anfon gyda; **this was a.-ied by the preparation of a leaflet** – i gyd-fynd â hyn(,) fe luniwyd taflen; **especially if they are a.-ied by community-based support** – yn enwedig os ategir hwy â chefnogaeth/chymorth y gymuned; **the application must be a.-ied by ...** – rhaid cyflwyno ... gyda'r cais *neu* gyda'r cais, rhaid cyflwyno ...; **to be a.-ied by** – dod yn sgil; **the risks that a. /the risks a.-ing innovation** – y risgiau sy'n codi wrth arloesi, y risgiau sydd ynghlwm wrth arloesi

accompanying – cysylltiedig, perthnasol; **the Edwardian age and the a. social changes** – oes yr Edwardiaid a newidiadau cymdeithasol y cyfnod

accord: out of a. with – heb fod yn gydnaws â/ag; **of their own a.** – o'u pen a'u pastwn eu hunain

to accord: to a. with – gweddu i

according: this can be amended a. to changing circumstances – mae modd diwygio hwn/hon/hyn wrth i amgylchiadau newid

acousto-optics – acwsto-opteg (*eb*) [Ffiseg a Seryddiaeth]

account – disgrifiad; **to take all considerations into a.** – rhoi sylw i'r holl ystyriaethau; **on that a.** – o'r herwydd, felly, o achos hynny; **by all a.-s** – yn ôl pob sôn; **having taken these considerations into a.** – ar ôl pwysu a mesur yr ystyriaethau hyn(ny); **they will be held to a. for their ...** – byddant yn atebol am eu ...; **to provide a detailed a. of ...** – manylu ar ...

to account: in emergency cases, which a. for 75% of hospital activity – ym maes gofal brys, sef 75% o weithgarwch ysbytai; **these a. for 50% of the market** – y rhain/rheiny yw/sydd â 50% o'r farchnad, gan y rhain/rheiny/ganddynt hwy y mae 50% o'r farchnad; **Wales a.-s for 50% of the workforce** – yng Nghymru y mae 50% o'r gweithlu/gweithwyr

to accrue – cael, ennill

accuracy: with remarkable a. – yn rhyfeddol o gywir

accustomed: to become a. to – cynefino â, cael eu dwyn i'r arfer o

acerbic – crafog

achievable – mae modd ei gyflawni, mae o fewn cyrraedd

to achieve – sicrhau, cael, cael y maen i'r wal, llwyddo i; **to a. standards** – cyrraedd safonau; **to a. success** – llwyddo, cael y maen i'r wal; **to a. fluency** – dod yn rhugl; **this could be a.-ed by** – gellid gwneud hyn(ny) drwy/cael y

maen i'r wal drwy; **a reduction in content has been a-ed by removing ...** – cwtogwyd ar y cynnwys drwy ddileu ...; **to a. mastery of** – meistrolï; **they have a-ed a record increase** – maent wedi cynyddu'n gynt nag e. (o'r blaen), maent wedi cynyddu mwy nag erioed o'r blaen; **to enable them to a. greater independence** – eu galluogi i fod yn fwy annibynnol/i fagu rhagor/mwy o annibyniaeth

achievement: a.-s – llwyddiannau; **it has a number of a.-s to its name** – mae (ef/hi) wedi cyflawni pethau mawr; **despite all these a.-s of ours/all our a.-s** – er i ni gyflawni cymaint/hyn oll/hyn i gyd; **to share in a sense of a.** – cyd-ymfalachio mewn (cyflawni) camp; **candidates with potential for high a.** – ymgeiswyr a allai wneud yn dda iawn/yn dda dros ben/yn arbennig o dda, ymgeiswyr sydd â'r potensial i wneud yn dda iawn/yn dda dros ben/yn arbennig o dda

achiever: high a.-s in mathematics – (y) rhai/y rheiny sy'n gwneud yn arbennig/eithriadol o dda mewn mathemateg

acid: the a. test – y prawf mawr/allweddol

to acknowledge: the staff usually a. me – bydd y staff fel rheol yn fy nghyfarch

to acquaint: to become a-ed with – dod yn gyfarwydd â/ag, ymgyfarwyddo â/ag

to acquire – prynu, meistrolï; meithrin, codi (sgiliau); **to a. a taste for** – magu blas at; **to a.** (= *attract, secure, obtain*) **revenue** – denu/sicrhau refeniw

across: to move something a. to – symud rhywbeth draw i/at; **a. Europe** – ledled Ewrop; **to cut a. the board** – torri/cwtogi ymhobman; **a. the board** – ym mhob rhan (o'r gwaith/busnes/sefydliad/gweithgaredd(au)); **a.**

Wales – ar hyd a lled y wlad/Cymru, ym mhob rhan o Gymru; **from a. Wales** – o bob rhan o'r wlad/o Gymru

act: to be in the a. of ... – (bod) wrthi'n ...; **a hard/tough a. to follow** – (w-t-c, 29.10.02) camp fydd cael neb (hanner) cystal, go brin y cawn ni rywun/neb hanner cystal (ag ef/â hi), bydd hi'n anodd llenwi sgidiau hwn/hon, ddaw neb i lenwi'i (h)esgidiau (am dipyn/am sbel go lew), rwy'n cydymdeimlo â'i (h)olynydd, druan â'i (h)olynydd, druan â'r sawl ddaw ar ei (h)ôl, bydd talcen caled o flaen/yn wynebu ei (h)olynydd, bydd hi'n anodd i neb arall gyflawni campau hwn/hon, bydd hi'n anodd i unrhyw un gyflawni'r fath gamp; **during the a. of practice** – wrth ymarfer; **when the sector gets it's a. together** – pan lwydda'r sector i gydweithio o ddifrif, pan fydd y sector yn trefnu digon ar bethau i gydweithio, pan aiff y sector ati'n drefnus/bwrpasol i gydweithio

to act: to a. as a bridge – pontio; **to a. to a candidate's disadvantage to the effect that ...** – peri cymaint o anfantais i'r ymgeisydd nes; **reason dictates that we a. with caution** – pwyll piau hi; **to a. as an introduction to ...** – bod yn gyflwyniad i ...; **it was designed to a. as an introduction to ...** – cynlluniwyd iddo'u cyflwyno i ...; **to a. up** (= *“to assume the full duties and responsibilities of another member of staff at a higher grade”*) – cymryd cyfrifoldeb dros dro, dirprwyo dros dro (*cynigion Magi Lewis ac Eirian Youngman ar welsh-termau-cymraeg, 26.01.06*)

action – gwneud, cam(au); **to take prompt a.** – gweithredu ar fyrder; **a. has been started on plans to ...** – mae cynlluniau ar y gweill i ...; **to take retaliatory a.** – talu'r pwyth yn ôl; **a crew in a.** – criw wrth eu gwaith; **should be taken to ensure that ...** – dylid sicrhau bod/mai/y, dylid cymryd camau i sicrhau bod/mai/y(r)...; **to take no a.** – gwneud dim; **remedial a.** – camau cywiro; **take a. to ...** – ewch ati i ...; **to demand a.** – mynnu bod camau/y camau priodol yn cael eu cymryd **to demand more a.** – mynnu bod rhagor yn cael ei wneud; **to put into a.** – gweithredu; **fire a.** – tân (*arwydd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth*), os bydd tân; **From Vision to Action** – Cyflawni'r Weledigaeth [Y Cynulliad]; **to see more of the a.** – gweld rhagor/mwy o'r hyn sy'n digwydd; **an a. and fulfilling social life** – bywyd cymdeithasol prysur a difyr/a phleserus/difyr a diddorol; **the programme recorded the structures before the potential for enemy a.** – cofnododd y rhaglen yr adeiladweithiau cyn i'r gelyn gael cyfle i'w dinistrio; **many of them took little a. to ...** – wnaeth llawer ohonynt fawr o ddim i ...

actionable: this risk assessment is a. (i.e. in law) – gall yr asesiad risg hwn(nw)/yr asesiad hwn(nw) o'r risg(iau) fod yn destun achos llys, gellir/mae modd dwyn achos llys yn erbyn yr asesiad hwn(nw), (= *capable of being implemented*) – rhaid bod modd/ rhaid iddi fod yn ymarferol bosibl gweithredu'r asesiad risg hwn(nw)/yr asesiad hwn(nw) o'r risg(iau), rhaid bod modd/ rhaid iddi fod yn ymarferol bosibl rhoi'r asesiad risg hwn(nw)/yr asesiad hwn(nw) o'r risg(iau) ar waith

action-packed – cyffrous, llawn cyffro

to activate – gweithredu, rhoi ar waith, rhoi (...) i weithio

active – gweithgar, ar waith; **giving a. consideration to** – wrthi'n ystyried; **a. steps** – camau pendant; **to give a. attention to ...** – rhoi sylw manwl i ...; **all our staff are returned as research a.** – mae'n/mae ein holl staff yn/n i'n gwneud ymchwil/yn ymgymryd ag ymchwil; **the camera becomes a. when ...** – bydd y camera'n dechrau gweithio pan..., bydd y camera'n dechrau ar ei waith pan ...; **those with an a. interest in ...** – y rhai/y rheiny/y sawl sy'n ymddiddori o ddifri(f) yn/mewn ..., y rhai/y rheiny/y sawl sydd â diddordeb byw yn/mewn ...

actively: a. considering – wrthi'n ystyried; **to be a. engaged in the pursuance of** – wrthi'n; **these a. encourage pupils to** – mae'r rhain/maent yn annog (y) disgyblion i; **to welcome ... a.** – croesawu ... yn frwd; **a. -listening to ...** – (wrthi'n) gwrando'n astud ar ...; **to work a.** – gweithio'n ddyfal/ddiwyd/galed; **they are a. encouraged to ...** – fe'u hanogir/cânt eu hannog yn gryf i ...; **to encourage them a. to use ...** – eu hannog i fwrw/fynd ati i ddefnyddio ...

activity: the place was a hive of a. – yr oedd y lle'n ferw gwyllt

actor: as an a. involved in the drafting of ... – fel un a fu'n ymwneud â drafftio .../â rhan yn y broses o ddrafftio ...

actual – union; **before the a. meeting** – cyn y cyfarfod ei hun; **I saw the a. accident** – gwelais y ddamwain yn digwydd/â'm llygaid fy hun

actually: this has a. impeded – bu hyn yn gyfrwng i rwystro; **the process of a. recording should not be ...** – ni ddylai'r broses gofnodi/recordio ei hun fod yn ...; **I was a. there when ...** – roeddwn i yn y fan a'r lle pan ...

acute – miniog; **an a. awareness of** – ymwybyddiaeth ddwys/glir o, bod yn ymwybodol dros ben o

acutely: to be a. aware of ... – bod yn ymwybodol dros ben o ...

adamant – pendant iawn, hollol bendant

adaptability – y gallu i ymaddasu

to add: to a. (greater) clarity to ... – gwneud ... yn gliriach; **it all a.-s up! (of expense)** – mae'r cyfan yn cyfrif!; **these figures don't a. up** – nid yw'r ffigurau hyn yn/hynny'n dal dŵr; **all this a.-s up to a life that is far from being boring and routine** – go brin, felly, y cewch chi fywyd sy'n ddiflas ac undonog/a digyffro neu swm a sylwedd hyn yw na chewch chi ddim bywyd sy'n ddiflas ac undonog/a digyffro; **a. in the ...** – ychwanegwch y(r) ... at hynny, ychwanegwch at hynny y(r) ...

added: a. to this – yn ychwanegol at hyn; **an a. complication** – cymhlethdod pellach; **to give a. clarity** – (i/er mwyn) ychwanegu at eglurder; **for a. peace of mind** – i (chi) gael rhagor o dawelwch meddwl; **with the a. convenience of (their) being able to ...** – a'r hwylustod ychwanegol yw eu bod yn gallu ...

addition: in a. – ar ben hynny

additionality – ychwanegoldeb (“i.e. it needs assistance to go ahead as planned”)

additionally – yn ogystal/ychwanegol/rhagor

to address: to a. oneself to new aims – wynebu amcanion newydd; **to a. oneself to questions** – ystyried cwestiynau; **to a. a problem** – rhoi sylw i broblem, mynd i'r afael/ymgodymu â phroblem, trafod problem, ceisio datrys problem; **to develop projects to a. circumstances in its area** – datblygu prosiectau yng ngoleuni'r amgylchiadau yn ei diriogaeth; **to a. a question** – gofyn cwestiwn, rhoi sylw i gwestiwn; **to be a.-ed** – cael sylw; **this does not fully a. ...** – nid yw hwn/hyn yn ymdrin yn llawn â/ag; **to a. a problem** – ymdrin â phroblem, trafod problem; **to a. this threat, go ...** – yn wyneb y bygythiad hwn, ewch ...

to adduce: (= to mention) sôn am ..., cyfeirio at ...; **to a. evidence at the hearing** – cyflwyno tystiolaeth yn y gwrandawriad

adept: (to be) a. at ... – bod â'r ddawn i ...; **to become a. at ...** – dod yn/datblygu'n hen law ar ...

adequate – teilwng, (yn d)digon da; **to be quite a.** – bod yn hen ddigon (da)

to administer: to a. a test – rhoi/gosod prawf

admission: on a. – adeg ei/eu (d)derbyn; **a. tutors** – tiwtoriaid derbyn

to admit: to a. their blame/that they were at fault/to being in the wrong – syrthio/cwmpo ar eu bai

admittedly – mae'n wir (bod)

to adopt: to a. a style – arfer arddull; **the measures a.-ed** – yr hyn a wneir/wnaed, y camau a gymerir/gymerwyd; **a different approach may need to be a.-ed towards each one** – gall fod angen ymdrin â phob un ohonynt mewn ffordd wahanol; **to a. a panic response** – ymateb yn wyllt; **to a. a professional attitude towards ...** – ymagweddu'n broffesiynol at ...

to adorn – harddu; **to a. oneself with ornaments** – gwisgo addurniadau

adult: a. learners – oedolion sy'n ddysgwyr; **the a. community** – y gymuned oedolion

advance: in a. of an improvement scheme – cyn i gynllun gwella gael ei weithredu

to advance: to a. an argument – dadlau bod; **as pupils a. through the school** – wrth i'r disgyblion fynd drwy'r ysgol; **to a. a career** – hybu gyrfa, rhoi hwb i yrfa; **to a. an awareness of ...** – cynyddu/dwysáu ymwybyddiaeth o ...

advanced – (*fel pennawd yn golygu 'more detailed study'*) – manylu; **to be too a. for** – wedi mynd/treiddio yn rhy bell i; **to be well a.** – wedi hen gychwyn; **a. in years** – mewn gwrth o oedran; **to be sufficiently far a.** – (mae) wedi datblygu digon, (mae) wedi symud ymlaen digon i; **this book is at an a. stage of preparation** – mae'r gwaith (paratoi) ar y llyfr hwn yn tynnu at ei derfyn; **an A. Subsidiary course** – cwrs Uwch Cyfrannol; **an a. study of ...** – astudiaeth fanwl o ..., astudio ... yn fanwl

advantage: this could, with a., be ... – buddiol/mantais fyddai ... hyn; **these have the a. of** – mantais y rhain yw (eu) bod (yn); **they are not used to a.** – ni ddefnyddir mohonynt yn bwrpasol; **these could be used to better a.** – gellid defnyddio'r rhain yn fwy pwrpasol; **to best a.** – yn fwyaf manteisiol; **to compete to (your) best a.** – cystadlu ar eich gorau; **it is to your a. to ...** – mantais i chi fydd ...; **to use ... to your a.** – manteisio ar ..., i chi fanteisio ar ...; **it has the a. over ... of ...** – mae'n rhagori ar ... o ran/yn (ei/eu)...

to advertise – tynnu sylw at

advice: your Council's a. – sylwadau'ch Cyngor

advisable: and, if a., ... – ac, os hynny sydd/fydd orau; **it is a. that ...** – fe'u/fe'ch cynghorir i ...

to advise: we would a. you not to make/against making ... – fe'ch cynghorwn (chi) i beidio â gwneud ..., ein cyngor ni i chi yw peidio/i chi beidio â gwneud ...; (= to inform) rhoi gwybod i; **you should be a.-ed that** – dylech wybod bod/mai/y; **would customers please be a.-ed that ...** – a fyddai cwsmeriaid cystal â sylwi bod/mai...

advocate: to be a firm a. of... – bod yn bendant o blaid ..., credu'n gryf mewn/yn ...

to advocate – dadlau o blaid

aerial: a. photographer – awyrluniwr (*eg*) [*awyrlunwyr*]; **a. reconnaissance** – taith/teithiau hedfan

affair: the present state of a-s is unsatisfactory – nid yw hyn yn/hynny'n foddhaol
to affect: the criticism didn't a. them – wnaeth y feirniadaeth ddim mennu dim arnyn nhw
to affix: a. a stamp – rhwng stamp yma
to afflict – amharu/effeithio ar
affordance: one of the key a-s of this approach is ... – un o fanteision allweddol y dull hwn(nw)/yr ymagwedd hon(no) yw ...
to affront: they were a-ed by the statements made – yr oedd y datganiadau a wnaed wedi eu digio/fe'u digiwyd gan y datganiadau a wnaed
afield: further a. – ymhellach oddi cartref; **in the local area or further a.** – yn yr ardal leol neu ymhellach i ffwrdd; **both in Wales and further a.** – yng Nghymru a thu hwnt
after: a. a while – ymhen amser/tipyn; **to be a. someone** – bod am waed rhywun; **a. a year had elapsed** – ymhen blwyddyn (a rhagor); **a. the United States, Britain attracts the most international students** – heblaw am yr Unol Daleithiau, Prydain sy'n denu'r nifer fwyaf o fyfyrwyr rhyngwladol
afterlife – ôl-fywyd (*Adroddiad Terfynol y Pwyllgor Hanes i Gymru*), bywyd ar ôl marw(olaeth)
again – yma/unwaith eto; **a.**, (ar ddechrau brawddeg) – a(c); **yet a.** – eto fyth; **to start all over a.** – dechrau o'r dechrau (unwaith eto)
against: to decide a. – penderfynu peidio â/ag; **performance measures a. which the outcomes could be measured** – meini prawf y gellid eu defnyddio i fesur i ba raddau y gwiredwyd y canlyniadau; **they won't hold it a. you** – fyddan nhw ddim dicach; **to go a. her family's wishes** – mynd yn groes i ddymuniadau ei theulu, tynnu'n groes i'w theulu; **we would advise you a. making ...** –fe'ch cynghorwn (chi) i beidio â gwneud ..., ein cyngor ni i chi yw peidio/i chi beidio â gwneud ...
age: with a. – wrth (iddynt) heneiddio/fynd yn hŷn; **to take a-s to** – cymryd oes/hydoedd i; **to come of a.** – ennill eu plwyf; **in this a. of information technology** – mewn oes pan fo technoleg gwybodaeth mor bwysig
age-old – hen, hen
aggreccanase – agreccanas (*eg*), agreccanasau [*Y Biowyddorau*]
aggregate: an a. score – sgôr dros ddau gymal (*pêl-droed*)
to aggrieve – tramgwyddo
aggrieved – blin, crac
ago: they arrived here about an hour a. – rhyw awr sydd ers iddynt gyrraedd, maent yma ers rhyw awr
to agree: do you a. to ... telling ... about ...? – a dydych yn fodlon i ... ddweud wrth ... am ...?
ahead – sydd i ddod; **a. of their arrival** – cyn iddynt gyrraedd; **to be a. of the game** – bod ar y blaen (i bawb (arall)); **a. of application** – cyn gwneud cais, cyn ymgeisio
aim: the long term a. should be – dylid anelu yn y tymor hir at/i; **with the a. of** – i; **in terms of their a-s to** – o ran llwyddo i
to aim: practices a-ed at helping them to ... – ymarferion i'w helpu i .../i geisio'u helpu i ...; **to a. at** – ceisio
aimless: and not an a. outpouring – ac nid yn falu awyr (yn unig)
air: an a. of neglect – ôl esgeulustod, esgeulustod i'w weld; **a woman with a kind, grandmotherly a.** – gwraig fel rhyw fam-gu/nain garedig; **to have a tolerant a. about them** – maent yn oddefgar eu hagwedd; **there was a buzz in the a. when ...** – yr oedd gwefr (arbennig) i'w theimlo pan ...
airtime (*ar ffôn symudol*) – amser ffonio
airy – braf
a.k.a. – (sef) enw arall ar
to alarm: to be a-ed – cael braw
albeit – bid siŵr; **one, a. negative, way of ...** – (un) ffordd – negyddol efallai – o ...; **the rate in Wales is increasing, a. not as fast as in Scotland** – mae'r gyfradd yng Nghymru'n cynyddu, ond nid (yw'n gwneud hynny) mor gyflym ag yn yr Alban/â'r gyfradd yn yr Alban
to alert: to a. them to ... – rhoi gwybod iddynt am ..., tynnu eu sylw at (ffaith fod/mai/y(r))..., gwneud/peri iddynt sylweddoli bod ...; **to be a-ed to** – cael gwybod am
to align: to a. standards – cysoni safonau; **to a. with** – cydreddeg â/ag; **these activities closely a. with our priorities** – mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd yn agos â'n blaenoriaethau ni
all: most disappointing of a. – y siom fwyaf (yw); **a. the more** – gymaint yn fwy; **a. in a.** – o dan yr amgylchiadau; **a.(-)round** – ym mhob ffordd; **a. the time** – drwy'r amser, ar hyd yr amser, yn gyson; **he used to be there a. the time** – arferai fyw a bod yno, byddai'n byw ac yn bod yno; **a. day** – drwy'r dydd; **in no time at a.** – mewn dim o dro; **worst of a.** – yn waeth na dim; **for a. time** – am byth; **for a. I know** – hyd y gwn i, am am (ddim a) wn i; **of a. things** – o bopeth dan haul; **no reason at a.** – dim (un) rheswm yn y byd; **no sense at a.** – dim rhych na rhawn/rheswm; **a. three** – ill tri/tair; **they did a. (that) they could/was in their power** – gwnaethant eu gorau glas; **to start a. over again** – dechrau o'r dechrau (unwaith eto); **to listen a. the more attentively** – gwranddo cymaint â hynny'n fwy astud; **first of a.** – yn gyntaf (oll); **from a. over Wales** – o bob rhan/cwr o Gymru; **to be a. very well** – bod yn iawn yn eu lle; **a. those who read should enjoy ...** – dylai pawb sy'n darllen fwynhau ...; **(a.) in a., about a hundred** – rhyw gant (ohonynt) i gyd; **a. along** – ar hyd yr amser; **a. the money** – pob dimai o'r arian; **a. over the place** – ar hyd y lle, ar draws ac ar hyd; **a.**

morning – ers ben bore; **to be a. too familiar with** – bod yn hengyfarwydd â/ag; **from a. over the world** – o bedwar ban (y) byd; **a. over the place** – ar chwâl/wasgar; **it would be easier a. round if ...** – byddai'n haws i bawb petai ...; **the greatest of a. time** – y gorauerioed/yr orau erioed, yr un (g)orau erioed, y rhai gorau erioed; **not at a. well** – ddim hanner da; **a. to soon** – yn rhy fuan o lawer/o'r hanner; **in a. but name** – i bob pwrpas; **this is a. that is possible** – dyma'r unig beth sy'n bosibl/y gellir/y mae modd ei wneud; **a. about grants** (*teitl adran mewn dogfen*) – gair am grantiau; **most of a.** – yn bennaf oll; **at all times of the year** – ar hyd y flwyddyn; **they must understand what the exercise is (a.) about** – rhaid iddynt ddeall diben yr ymarfer; **what is this conference (a.) about?** – beth yw testun/pwnc/maes y gynhadledd hon?; **this assessment is (a.) about ...** – ... yw canolbwynt/pwnc yr asesiad hwn; **successful business is all about seizing opportunities** – hanfod pob busnes llwyddiannus yw bachu/manteisio ar bob cyfle/cydio ym mhob cyfle

to allay: to a. the possibility – i ochrgamu(?)/osgoi/dileu'r posibilrwydd

all-consuming: a. activities – gweithgareddau sy'n mynd â'u bryd (yn llwyr)/sy'n mynd â'u holl sylw/sy'n cael eu holl sylw, gweithgareddau difyr (dros ben/tu hwnt), gweithgareddau hynod ddifyr

all-embracing – cynhwysfawr, cwbl gynhwysfawr

alley: to lead down blind a.-s – mynd ar drywydd dibwrpas/difudd/cyfeiliornus

allied: a. to – ynghyd â

to allocate: to a. to – rhoi i, rhoi yn nwylo; **to a. pupils to classes** – gosod disgyblion mewn dosbarthiadau; **to a. ... to** – symud, cysylltu â

to allot: to a. marks – rhoi marciau

to allow – bod yn fodd i, neilltuo; **this a.-s pupils to** – rhydd hyn gyfle i'r disgyblion *neu* felly/drwy wneud hyn(ny), gall/caiff y disgyblion ...; **this has the advantage of a.-ing pupils to be divided** – mantais hyn yw bod modd rhannu'r disgyblion; **the linking of material to specific skills would a. a pupil's comprehension to develop** – o gysylltu deunydd â medrau/sgiliau penodol, gallai dealltwriaeth y disgybl ddatblygu/gellid meithrin dealltwriaeth y disgyblion; **an effort is made to a. pupils to use their imagination** – ceisir cael y disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg; **to a. for** – caniatáu; **to a. for the possibility of** – rhag ofn y bydd/ceir/daw; **to be a.-ed to** – cael; **to a. efficient use of ...** – er mwyn (gallu) defnyddio ... yn effeithlon; **the office will be closed to a. for refurbishment** – bydd y swyddfa ar gau er mwyn iddi gael ei hailddodrefnu/hailwampio; **this a.-s (for) an easy transition to ...** – mae hwn/hyn yn hwyluso llawer ar y newid i/yn rhoi cyfle/yn gyfle i symud yn hwylus i ...

allowance: to make a.-(s) for – caniatáu ar gyfer; **parhabs we ought to make a.-s** – efallai y dylem fod yn drugarog, efallai y dylem gymryd eu hamgylchiadau i ystyriaeth

all-time: to slump to an a. – (bod) yn/syrthio/cwmpo'n is nag erioed o'r blaen

almost: a. at once/immediately – mewn dim o dro, cyn pen dim; **there is an a. total lack of** – nid oes yno odid ddim, prin bod yno unrhyw ..., prin bod yno'r mymryn lleiaf o; **a. famished** – ar lwgu

alone: this a. is rarely sufficient – anaml y bydd hyn(ny) ynddo'i hun yn ddigon; **to leave a.** – gadael ... yn llonydd; **to leave well a.** – gadael i bethau fod; **you are not a.** (= *you are not the only one*) – nid ti/chi yw'r unig un

along: a. the lines that – i'r perwyl bod; **a. the lines of** – tebyg i; **a. with** – ynghyd â/ag; **as they went a.** – wrth iddynt fynd yn eu blaen(au)

alright: she fell but she was a. – er iddi gwympo/syrthio, chafodd hi ddim niwed/fawr o niwed

also: a, don't ... – paid/peidiwch (y)chwaith â/ag ...

to alternate – rhoi/gosod am yn ail

alternative: as an a. to – yn hytrach na(g), yn lle; **there is no (cash) a. to the stated prizes** – ni chynigir/ni ellir cael arian yn lle'r gwobrau a enwir/enwyd; **there was no a./they were left (with) no a. but to walk** – nid oedd dim amdani ond cerdded; **a useful a. to ...** – dewis defnyddiol/buddiol yn lle ...

alternatively: a., do ... – dewis arall yw/fyddai ...; **a, fill in/complete a form** – neu(, fel dewis arall,) llenwch ffurflen

altogether: different objectives a. – amcanion cwbl wahanol; **to switch off a.** – colli pob diddordeb; **an a. more difficult concept** – cysyniad tipyn anos/mwy anodd

always: he was a. there – yr oedd (ef) yn byw ac yn bod yno; **as a.** – fel erioed; **this will a. remain an authoritative account of** – fe erys hwn yn ddisgrifiad safadwy o

to amaze: we were a.-ed – yr oeddem ni'n synnu a rhyfeddu

ambit – maes, cylch gweithredu

ambition: a.-s for ... – dyheadau i/ar gyfer ...; **they have a.-s to ...** – gobeithiant ..., maent yn gobeithio ..., eu gobaith/nod yw ...

ambulatory: a. therapy – therapi cerdded

amenable: a. to assessment – sy'n ei gynnig ei hun i'w asesu; **diseases that are not a. to treatment** – clefydau nad ydynt yn ildio'n rhwydd i driniaeth

amicably – mewn ysbryd da

among: a. other examples of ... are – mae enghreifftiau eraill o ... yn cynnwys, enghreifftiau eraill yw ...; **a. the advantages is ...** – un o'r manteision yw ...

amount: a large a. – llawer; **a considerable a.** – cryn dipyn; **the a. of time** – yr amser; **a limited a.** – rhywfaint,

peth; **only a limited a.** – dim ond hyn a hyn; **a vast a. of** – toreth o; **increasing a.-s of** – mwy a mwy o; **a greater a. of** – rhagor/mwy o; **this a. of** – cymaint/cyn lleied â hyn(ny); **a substantial a. of** – cryn dipyn/lawer o; **a record a.** – mwy nag erioed (o'r blaen); **to pay a tremendous a. for ...** – talu crochris am ...; **maximum a.** – uchafswm; **they have devoted a large a. of effort to ...** – maent wedi bod wrthi'n (egnïol/ddyfal/weithgar) yn ...; **no a. of recognition is enough to satisfy their need for admiration** – all llond gwlad o gydabyddiaeth ddim bodloni eu hangen am edmygedd

amounting: a. to – sef (cyfanswm o)

to amplify – manylu ar ...; **to a. a trend** – hybu tuedd; **these characteristics are a.-ied** (= *detailed*) **in ...** -- ceir disgrifiad/cewch (chi) ddisgrifiad helaethach o'r priodoleddau hyn(ny) yn/mewn ...

analogous: to be a. to ... – cydweddu â/ag ...

analysis: in the final/last a. – yn y pen draw; **a closer a. of ... shows that ...** – o ddadansoddi'r ... yn fanylach/yn fwy manwl, gwelir/fe welir bod ...

anathema: going there was a. to me – arswydwn rhag mynd yno

anatomy: the a. of an education system – (gwahanol) elfennau cyfundrefn addysg, disgrifiad bras/cyffredinol o gyfundrefn addysg

ancient: that's a. history – hen hen hanes yw hynny, mae hynny'n hen hen hanes, perthyn i'r gorffennol y mae hynny

and: for years a. years – am flynyddoedd lawer/maith; **to wait a. see** – aros i weld; **to try and (sic) see** – ceisio gweld; **they look at ... a. develop a ...** – edrychant ar ... gan ddatblygu/feithrin ...; **a. that is ...** – sef ...

andragogy – andragogaeth (= *addysgu oedolion*)

anecdotal – hanesiol

anecdotally: they had heard a. that ... – yr oeddent wedi clywed (rhywun yn/rhywrai'n) sôn bod/mai/y(r) ...

to anger – codi gwrychyn

to Anglicanise/Anglicanize – Anglicaneiddio

Anglicanised/Anglicanized – Anglicanedig, wedi'i Anglicaneiddio/Hanglicaneiddio/wedi'u Anglicaneiddio

animal: party a. – partiwr (mawr/brwd), tipyn o foi/ferch parti/partion/partis, tipyn o un am barti/bartion/bartis, un sydd wrth ei fodd/ei bodd mewn parti/partion/partis, un sy'n dwlu/ffoli ar barti/ar bartion/ar bartis (*awgrymiadau ar welsh-termau-cymraeg, 18.09.06*)

to annex – atodi

annotated – annodedig, gyda sylwadau priodol (amynt)

to annoy – tynnu blewyn o drwyn

annoyance – gofid

anonomie – anobaith

to anonymise: to a. data – tynnu(r)/dileu(r) enwau o ddata/o'r data, ni chaiff (eu h)enwau eu cynnwys/ni chaiff eich enw/(unrhyw)enw ei cynnwys yn y data, ni fydd (eu h)enwau i'w gweld/ni fydd eich enw/(unrhyw)enw i'w weld yn y data

anonymity: please indicate how you have treated the a. of service users – dywedwch/disgrifiwch/nodwch sut yr ydych (chi) wedi osgoi enwi defnyddwyr y gwasanaeth

another: from one authority to a. – o awdurdod i awdurdod; **to put it a. way** – hynny yw, mewn geiriau eraill

A.N.Other – Ann Hysbys

Anglo-American: A. relations – y berthynas rhwng Prydain ac America/Unol Daleithiau

to answer: your questions a.-ed – (*fel teitl*) atebion i'ch cwestiynau

antecedent: a.-s to the research – cefndir yr ymchwil

anticipation: to look forward with eager a. to ... – edrych ymlaen yn eiddgar at ...

anti-discriminatory – gwrthwahaniaethol

antidote: an a. to these problems – ffordd o wrthweithio/osgoi'r problemau hyn(ny)

any: at a. one time – ar y pryd/tro; **did a. of the work affect ...?** – a wnaeth unrhyw ran o'r gwaith effeithio ar ...?; **as good as a.** – cystal â'r un/â dim; **a. number of** – amryw byd o, cant a mil o ...; **in a. of them** – yn yr un ohonynt; **a. old how** – rhywsut rywfodd; **do not advance a. further** – peidiwch â mynd/dod gam ymhellach; **any m. than they could ...** – mwy nag y gallent (hwy) ...; **at a. time of the year** – ar hyd y flwyddyn

anymore: they don't go there a. – ni fyddant yn mynd yno ragor

anything: these are rarely used for a. other than – anaml y defnyddir hwy/y rhain at unrhyw ddiben heblaw; **if they don't say a.** – os na ddywedant hwy air(o'u pennau)/ddim byd

anywhere: there's no-one a. near (to) them for ... – nid oes neb yn yr un cae â hwy am ...

apart: to fall a. – cwmpo/syrthio'n ddarnau; **to drift a.** – pellhau; **wide a.** – ymhell oddi wrth ei gilydd, ar agor led y pen; **it is difficult to tell them a.** – mae'n anodd dweud p'un yw p'un

apolitical – amhleidiol

apoptosis – apoptosis [*Y Biowyddorau*]

apparent – i'w (g)weld; **to be a.** – amlygu; **with no a. difficulty** – yn ddigon diffwdan; **more a. than real** – addo mwy nag y gallant ei gyflawni; **to become a.** – gwelir, dod i'r amlwg

apparently – mae'n debyg, fe ymddengys

to appear – dod i'r golwg, (bod) i'w (g)weld; **their names a. in** – ceir/gwelir eu henwau yn/mewn; **to a. throughout a document** – britho dogfen

appearance – pryd a gwedd; **a document which is professional in a.** – dogfen (sy'n) broffesiynol ei diwyg; **keeping up a.-s** – (dim ond) dilyn y drefn, peidio â phechu (neb), gwneud yr hyn sydd raid (*fy awgrymiadau wrth ymateb i gais Eirian Youngman ar welsh-termau-cymraeg, 15.09.06*), er mwyn bodloni'r gofynion (yn unig) (*cynnig Ann Corkett, 15.09.06*) [*h.y.- meddai Eirian – gwneud rhywbeth dim ond oherwydd bod yn rhaid ei wneud, er mwyn 'ticio blwch' ar restr o ddyletswyddau.*]; **they often present a bowed and bent a.** – fe'u gwelir yn aml wedi camu a phlygu

to appertain: circumstances a.-ing to individual schools – yr amgylchiadau a geir mewn gwahanol ysgolion

appetite: this had given them the a. to ... – yr oedd hyn(ny) wedi magu awydd ynddynt i

application: the many a.-s of the figures include ... – defnyddir y ffigurau mewn llawer ffordd, gan gynnwys ...

to apply: to a. with even greater force – bod yn fwy cymwys fyth; **to a. to** – bod yr un mor wir am; **to a. with particular force to** – bod yn arbennig o wir am; **to a. a standard** – defnyddio safon; **to a. pressure to** – rhoi pwysau ar; **one or more situations which might a. to you** – un neu ragor o'r sefyllfaoedd a allai'ch wynebu (chi); **this might a. to a ...** – gallai hynny ddigwydd yn achos ...; **which age group a.-ies to you?** – i ba grŵp oedran/i ba un o'r grwpiau oedran hyn yr ydych chi'n perthyn?; **to a. to them for information** – gofyn iddynt am wybodaeth; **if this/that (description) a.-s to you** – os un/rhai felly ydych chi

appointeeship – apwynteiaeth (*eb*) (*gw. welsh-termau-cymraeg, 03.10.07*)

appointment: an open system of public a.-s – system/trefn agored o benodi i gyrff cyhoeddus

appreciable: without (any) a. change – heb fawr o newid

to appreciate – bod yn ymwybodol o/yn effro i; **to a. the rationale** – dilyn rhesymeg; **to a. needs** – ymdeimlo/ymgylwed ag anghenion; **while we a. the desire to** – er ein bod yn cydymdeimlo â'r awydd i; **we would a. it if you could ...** – byddem yn ddiolchgar pe gallech/petaech yn gallu; **any assistance will be more than a.-ed** – bydd croeso mawr i bob cymorth; **I would appreciate your views** – hoffwn gael gwybod eich barn

appreciated: any assistance will be more than a. – bydd croeso mawr i bob cymorth; **it would be a.-if you could ...** – byddai'n dda petaech chi'n

appreciation: a strong a. of the commercialisation challenges facing them – dirnadaeth/ymwybyddiaeth gref o'r sialensiau masnachu sy'n eu hwynebu

appreciative: to be a. of the potential of ... – bod yn ymwybodol o botensial ...

approach – ymagwedd, dull dysgu, patrwm/ffordd (o weithredu/weithio); **such an a. would be ...** – byddai gwneud hyn(ny) yn ...; **this a., if adopted, would ...** – o weithredu fel hyn(ny)/felly, byddai ..., *neu* o ddilyn y trywydd hwn; **a different a. may be need to be adopted for each one** – gall fod angen ymdrin â phob un mewn ffordd wahanol; **the a. to the factory** – y ffordd at y ffatri, sut mae cyrraedd y ffatri; **to make an a. to** – gwneud cais i; **a more careful a. is necessary when dealing with ...** – mae angen bod yn fwy gofalus wrth ymdrin/delio â ...; **I decided that the best a. would be to go there** – penderfynais mai'r peth gorau (i'w wneud) oedd mynd yno; **we need a team a. to this** – mae angen i ni ystyried hyn fel tîm, mae angen i ni fwrw/fynd ati fel tîm i ystyried hyn, **we need a team a.** – mae angen i ni feddwl/weithio fel tîm; **to take a different a.** – dilyn trywydd gwahanol; **this demands a critical a. to ...** – mae hwn/hyn yn mynnu'ch bod chi'n ymagweddu'n feirniadol at ...

to approach: to a. someone with a view to – mynd ar ofyn rhywun i; **to be a.-ing completion** – tynnu at y/eu terfyn; **they are fast a. the time when they will ...** – cyn hir, byddant yn ...; **people whom we may a.** – pobl y gallwn (ni) gysylltu â hwy; **as we a. the May elections** – wrth i etholiadau (mis) Mai agosáu

approximate: their pronunciation is a. – mae eu hynganu'n/hynganiad yn lled gywir; **their pronunciation is very a.** – mae eu hynganu'n/hynganiad yn weddol gywir

aquaculture – dyfrdyfiaeth, dyfrdyfu

arbiter: they are the final a. of ... – hwy sydd â'r gair olaf ynghylch ..., ganddynt hwy y mae'r gair olaf ynghylch ...; **this may make judges better a.-s of fact than an untrained jury** – gall hyn(ny) olygu/beri bod barnwr mewn gwell sefyllfa na rheithgor dihyfforddiant i benderfynu'r ffeithiau

arbitrary: a. units – unedau gwneud

archaeology (= *archaeological remains*) – olion archaeolegol

archival: a. staff – staff yr archif(au), staff archifau

archive: a. administration – archifyddiaeth [gw. *Termau Archifau*]

arduous: too a. a task – tasg ry feichus

area – tiriogaeth, darn (tir); **a. of experience** – cylch/maes profiad; **a. of study** – maes astudio; **in no a. is this neglect so apparent as in ...** – nid yw'r esgeulustod hwn(nw) mor amlwg yn unman ag (ydyw) yn ...; **home a.** – cynefin; **in that a. of Clwyd** – yn y rhan honno o Glwyd; **in the Canton a. of Cardiff** – yn ardal Treganna yng Nghaerdydd; **in the (immediate) a.** – yn y cyffiniau; **a difficult a. (of work)** – talcen caled

areal – parthol

arguably – efallai

to argue: to a. for – dadlau o blaid

argued: an a. recommendation – argymhelliad a ategir â dadleuon, argymhelliad ynghyd â dadleuon

argument: they make the a. that ... – eu dadl hwy yw ..., y ddadl a gyflwynant yw ..., dadleuant fod/mai ..., maent yn dadlau bod/mai ...

arid – diffwrwyth

to arise: when the need a.-es – pan fo angen; **as the need a.-es** – yn ôl y gofyn/galw; **if the need a.-es** – os oes/bydd angen; **the problems that/which a. from managing a small number of staff** – y problemau sy'n codi wrth reoli nifer fach o staff

arising: a. from – oherwydd

arithmogon – rhifogon(au) *eg* [bathiad John Lloyd, ACAC, a Huw Roberts, gynt o CBAC, Hydref 1996]

armed: a. with this knowledge, you will be ... – o wybod hyn(ny), byddwch yn/chi'n ...

armoury: linguistic a. – cronfa ieithyddol

arthrometer – arthromedr (*eg*) athromedrau [Astudiaethau Gofal Iechyd]

around: winter is just a. the corner – mae'r gaeaf ar ein gwarthaf; **lying a.** – yn gorwedd ar hyd y lle; **from a. the world** – o bedwar ban (y) byd; **a. the country** – ar hyd a lled y wlad; **people who have difficulty getting a.** – pobl sy'n methu â symud/cerdded rhyw lawer; **they're a.** – maen nhw ar hyd y lle; **she'll come a.** – fe ddaw hi at ei choed; **in and a. Cardiff** – yng Nghaerdydd a'r cyffiniau; **to work a. the clock** – gweithio bob awr o'r dydd a'r nos; **a. Wales** (*pennawd yn un o daflenni Twrsitiaeth Canolbarth Cymru*) – crwydro Cymru; **the best communicators a.** – y cyfathrebwyr gorau sy'n bod/gewch chi/sydd i'w cael; **in case word gets a.** – rhag i'r si fynd ar led, rhag i bobl ddechrau siarad (am hynny); **it's a pity that this website wasn't a. when I was a new graduate** – mae'n drueni nad oedd y wefan hon yn bod/honno'n bod pan oeddwn i newydd raddio

to arrange: to a. them in order – eu gosod/rhoi mewn trefn/yn eu trefn

arrangement: organisational a.-s – y patrwm trefniadaethol, patrwm y drefniadaeth

array: an a. of new courses – amryw byd o gyrsiau newydd; **the a. of evidence** – yr holl amrywiaeth o dystiolaeth; **a rich a. of ...** – amrywiaeth cyfoethog/mawr o ...; **a vast a. of ...** – llond gwlad o ...

arrear: you will be paid monthly in a.-s – cewch eich talu ar ddiwedd pob mis

to arrive: I hope the comments have a.-ed – gobeithio bod y sylwadau wedi dod i law; **to a. at a consistent interpretation of** – sicrhau dehongliad cyson o, sicrhau dehongli cyson ar, cytuno ar ddehongliad cyson o; **to a. in school** – cyrraedd yr ysgol; **to a. at a solution** – dod o hyd i ateb; ; **A. Alive** – Siwrne Saff

art: the a. of – cyfrinach; **a work of a.** – campwaith; **the a. of writing a mission statement is to ...** – y gamp wrth lunio/ysgrifennu datganiad cenhadaeth yw ...; **the a. of being interviewed** – (sut mae) gwneud/cyfrinach cyfweliad da/llwyddiannus

article: their system is not the finished a. – nid dyna'r drefn orffenedig, trefn anghyflawn/anorffenedig yw('r drefn) hon o hyd

to articulate – cyflew, rhoi mewn geiriau, lleisio; **to a. (an) experience** – llafareiddio profiad

as – ar ffurf; **it has its third tutor in as many years** – mae ganddo'i drydydd tiwtor mewn tair blynedd; **as are those** – ac felly hefyd y rhai/rheiny; **(as) important as these are** – er mor bwysig yw'r rhain, er pwysiced ydynt; **as to how this can be implemented** – ynghylch/o ran ei weithredu; **as is more likely** – a hyn sy'n fwy tebygol; **as best they can** – orau y gallant; **this work is attractive, containing as it does a variety of ...** – mae'r gwaith hwn yn ddeniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o ...; **this is as true of ... as it is of ...** – mae hyn lawn mor wir am ... ag (ydyw) am ...; **as such** – felly, fel y cyfryw; **many have recently graduated and, as such, are uniquely placed to ...** – gan i lawer (ohonynt) raddio'n ddiweddar/gan mai'n ddiweddar y graddiodd llawer ohonynt, maent mewn sefyllfa unigryw i ...; **as necessary/required** – yn ôl yr angen/y gofyn; **as appropriate** – os yw'n/ydynt yn/yw hyn yn/yw hynny'n briodol; **as best they can** – orau y gallant; **it would be as well to ...** – (llawn) crystal fyddai, byddai'n llawn crystal ...; **as/so long as they remember to ...** – ond iddynt gofio (bod/mai/y); **... was highlighted, as was ...** – tynnwyd sylw at/amlygwyd ..., a hefyd (at) ...; **to present interpretations a. statements of fact** – cyflwyno dehongliadau fel petaent yn ffeithiau/yn ddatganiadau ffeithiol; **this suggests ... as the ...** – mae hyn yn awgrymu mai ... yw'r ...; **such programmes should have as their objectives ...** – y nodau y dylai rhaglenni o'r fath eu harddel yw ...; **this term is explained as meaning ...** – esbonnir mai ystyr y term hwn yw ...; **as above** – fel y nodwyd uchod; **as though they were ...** – fel petaent yn ...; **as they were about to ...** – pan oeddent ar fin ..., a hwythau ar fin ...; **to regard ... as (being) seriously flawed** – credu/ ystyried bod i ... ddiffygion difrifol; **to function as planned** – gweithredu yn unol â'r cynllun; **as its contribution, the Authority provided ...** – cyfraniad yr Awdurdod i'r broses yw/oedd darparu ...; **as of the end of May** – hyd at ddiwedd Mai, ar ddiwedd Mai; **pupils who do not perform as expected** – disgyblion nad ydynt yn perfformio crystal â'r disgwyl; **as programmed** – yn unol â'r rhaglen; **as directed by ...** – yn unol â chyfarwyddyd ...; **in such a way as to encourage ...** – mewn ffordd sy'n annog (*pobl*)/hybu (*achos*)...; **students tell it as it is (teitl)** – gair o brofiad gan fyfyrwyr; **a case as to why they should ...** – achos sy'n esbonio pam y dylent ...; **these are taken just as seriously** – cymerir y rhain/fe'u cymerir/cânt eu cymryd lawn cymaint o ddifrif

to ascertain – darganfod

to ascribe: to a. a lefel – rhoi/dyrannu/dyfarnu lefel

aside: a. from ... – heblaw am ...

to ask: the question is a.-ed – gofynnir; **we a. of you what we a. of everyone else, to be inventive** – gofynnwn i chi, fel y gofynnwn i bawb/i bob un arall, fod yn ddyfeisgar

aspic: these regulations are not set in a. – nid deddf y Mediaid a'r Persiaid mo'r/yw'r rheoliadau hyn

aspiration: they have no a. to – ni fwrriadant; **students with a.-s for high grades on this module** – myfyrwyr sy'n gobeithio cael/sy'n awyddus i gael gradd(au) uchel ar y modiwl hwn(nw)

aspirational – dyheadol

to aspire: to a. to – anelu am/at, (ceisio) arddel; **to a. to the highest standards** – ceisio/gobeithio cyrraedd y safonau uchaf; **the standard to which they should a.** – y safon y dylent geisio'i chyrraedd

aspiring: a. journalists – darpar newyddiadurwyr, y rhai a hoffai fod/fynd yn newyddiadurwyr, y rhai sy'n awyddus i fod/fynd yn newyddiadurwyr

assault: a successful a. on the problems of ... requires ... – i dalclo problemau ... yn llwyddiannus, rhaid wrth ... *neu* rhaid wrth ... i daclo problemau ... yn llwyddiannus *neu* mae gofyn ... i fynd i'r afael yn llwyddiannus â phroblemau ...

to assert – mynegi, bod yn fynegiant o; **others a. the principle of teaching these pupils in mixed-ability classes** – bydd eraill yn arddel yr egwyddor o ddysgu'r disgyblion hyn mewn dosbarthiadau gallu cymysg; **to a. their adherence to the faith** – arddel eu hymlyniad wrth y ffydd

assiduous: a. supervision – goruchwyliaeth fanwl

to assist: communication is a.-ed by – gwneir (y) cyfathrebu'n haws drwy; **this has greatly a.-ed them** – mae hyn wedi bod o gymorth mawr iddynt

assistance: without a. – ohonynt eu hunain

to associate – cyplysu; **to be a.-ed with** – bod yn gysylltiedig â, bod ynghlwm wrth, cyplysir ... â

to assume – cymryd (yn ganiataol); **the role to be a.-ed by** – y rôl sydd i'w harfer gan; **to a. the chairmanship** – ymgymryd â'r gadeiryddiaeth, bod/dod yn gadeirydd; **to a. secondary importance** – dod yn ail i; **to a. responsibility for** – bod/mynd yn gyfrifol am, cymryd y cyfrifoldeb dros; **to a. greater importance** – magu rhagor o bwysigrwydd, bod yn fwy pwysig, tyfu'n fwyfwy pwysig; **a.-ing that** – a bwrw/chymryd bod; **to a. the mantle of ...** – cymryd iddynt eu hunain fantell ...

assumption: it is a safe a. that ... – gellir tybio'n ddigon teg *neu* fe ellir, yn ddigon teg, gymryd yn ganiataol bod/mai/y(r)

to assure: please be a.-ed that – hoffwn/hoffem eich sicrhau bod/mai/y

assured: rest a. [fel is-bennawd] – tawelwch meddwl; **please rest a. that ...** – gallaf/gallwn/gellir eich sicrhau bod/mai/y(r) ...; **you can be a. that ...** – gallwch fod yn dawel eich meddwl fod/mai/y(r) ...

assuredly: most a. – yn bendifaddau

at: income, at ..., was – yr oedd yr incwm, sef ..., (yn); **five tickets at £6.00** – pum tocyn £6.00/chwephunt; **at night** – liw nos; **the point at which** – y pwynt/yr adeg (pryd) y(r); **(s)he died at the age of 86** – bu (ef/hi) farw'n 86 oed; **not at all well** – ddim hanner da

at-a-glance: an a. guide to – canllaw cyflym i, cipolwg cyflym ar ...; **an a. table** – tabl (syml)

atmospherics (fel maes/pwnc)- atmosffereg

to attach: to a. to – bod ynghlwm wrth; **the list a.-ed at Appendix 1** – y rhestr sydd i'w gweld yn Atodiad 1; **we a. great importance to this** – mae hwn yn bwysig iawn i ni

attack: they felt that their professional judgement had come under a. – teimlent fod eu barn broffesiynol wedi cael ei beirniadu/wedi bod yn destun beirniadaeth/wedi dod o dan y lach/yr ordd, teimlent fod pobl wedi beirniadu/wedi gweld bai ar/wedi lladd ar eu barn broffesiynol

to attain: to a. potential – gwireddu potensial

attainable – posibl, ymarferol bosibl

attempt: in an a. to – er mwyn ceisio, wrth geisio

to attempt – rhoi cynnig ar

to attend – bod yn bresennol yn ..., dod/mynd i ...; **to a. a course** – mynd ar gwrs; **after a.-ing the course(,) you will have ...** – ar ôl i chi fod ar y cwrs/ar ôl i chi ddilyn y cwrs/erbyn diwedd y cwrs, byddwch chi wedi('ch) .../bydd gennych (chi) ...**to a. to ...** – gofalu am ...; **when a.-ing to collect mail** – wrth alw (heibio) (yma/yno) i gasglu('r) post; **to a. an incident** – cael eu galw i ddigwyddiad; **their endeavours were a.-ed by no useful results** – esgorodd mo'u hymdrechion ar unrhyw ganlyniadau buddiol, ddaeth dim (byd) (buddiol) o'u hymdrechion

attendance: in a. – yn gwasanaethu/o'r Gofrestrfa [*yn nghofnodion cyfarfodydd Llys Prifysgol Cymru*]; **through a. at the conference, participants will be aware of ...** – ar ôl bod/iddynt fod yn y gynhadledd, bydd y cynadleddwyr yn ymwybodol o .../yn gwybod am ...; **a. at this event will p. you with information about ...** – yn y digwyddiad hwn(nw), cewch (chi)/cei (di) wybodaeth am .../os dewch chi i'r digwyddiad hwn(nw), cewch (chi)/cei (di) wybodaeth am ...

attendant – ynghlwm wrth; **the a. benefits in (terms of) publicity** – y manteision sy'n dod/a ddaw/a ddaeth o gyhoeddusrwydd/o'r cyhoeddusrwydd

attendee: a.-s – aelodau ('yn gweithio weithiau', *Siân Roberts, welsh-termau-cymraeg, 04.-5.06*), gwahoddedigion (*Huw Tegid, welsh-termau-cymraeg, 04.05.06*), y rhai sy'n/a oedd yn/a fu'n bresennol, y rhai a ddaeth(ai) i'r

gynhadledd/cyfarfod, y rhai sydd/a oedd wedi dod yno/i'r gynhadledd/i'r cyfarfod, y rhai a oedd yna fu'n bresennol yn y gynhadledd/cyfarfod; **A.-s** (*fel pennawd*) – Presennol; **conference a.-s** – cynadleddwyr

attender: poor a.-s – mynychwyr gwael

attention: for your a. – i chi roi eich sylw iddo/iddi/iddynt; **a. deficit hyperactivity disorder** – anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio; **a. to detail** – (ymboeni ynghylch/ynghlŷn â) manylion; **her (conscientious) a. to detail** – ei manylder; **your a. to the optimum preparation of mail will enable us to ...** – os ewch ati i baratoi'ch post yn y ffordd orau, bydd modd i ni ...

attitude: to have a positive a. towards ... – ymagweddu'n gadarnhaol (tuag) at ...

to attract: they were a.-ed by the idea – apeliodd y syniad atynt; **this question a.-s 40 marks** – 40 marc sydd i'r cwestiwn hwn; **these schemes a. a very low rate of interest** – mae'r cyfraddau llog ar y cynlluniau hyn yn/hynny'n isel iawn, isel iawn yw'r llog ar y cynlluniau hyn(ny); **to a. attention** – ennyn diddordeb

attraction: areas of great scenic a. – ardaloedd hynod o hardd/brydferth

attractive: to make a. – harddu

attributable: this is partly a. to – mae hyn yn rhannol oherwydd

attribution: the Read Only a. remains – mae'r disgrifiad 'Read Only' yn aros *neu* mae'r tag 'Read Only' yn aros *neu* mae'n dal i fod yn destun 'Read Only' *neu* mae'r testun yn dal i fod yn (destun) 'Read Only' (*ateb i Tim Saunders, 02.02.05*)

to attune: to a. oneself to – ymglyfarwyddo/ymglywed â

attunement: an a. exercise – ymarfer ymglyfarwyddo

audibility – bod yn hyglyw

au fait: they are kept a. with ... – cânt wybod yn gyson am .../cânt wybod y (newyddion) diweddaraf am ...

auspice: outside the normal a.-s of the University – y tu allan i gylch awdurdod arferol y Brifysgol

to author: an a.-ing program – rhaglen awduredd

to authenticate – cadarnhau (dilysrwydd)

authority: please complete the following a. – llenwch y ffurflen awdurdodi hon/isod/a ganlyn

automatically: if a letter is not received, the offer will be a. withdrawn – os na cheir llythyr, fe dynnir y cynnig yn ôl/caiff y cynnig ei dynnu'n ôl (*gw.welsh-termau-cymraeg, Muiris Mag Ualghairg, 04.03.03*)

autonomy – rhyddid

autotronics – awtotroneg (*eb*)

avail: of/to no a. – yn ofer, waeth i mi fod yn siarad â'r wal ddim; **(but) to little a.** – ond doedd fawr o ddim yn tycio

available – a gynigir/-id/-iwyd, (bod) yn barod; **when a room becomes a.** – pan ddaw ystafell yn wag; **to make a.** – rhoi ... o fewn cyrraedd, darparu ..., trefnu i ... fod ar gael, rhyddhau ...; **to be made a.** – trefnu bod ... ar gael, (bod) wedi'u darparu/rhyddhau; **readily a.** – parod; **to be a. to teachers** – bod at wasanaeth athrawon; **to become a.** – dod i law, dechrau ymddangos; **as reports become a.** – wrth i adroddiadau gael eu cyhoeddi/rhyddhau; **to make ... more a.** – trefnu i ... fod ar gael yn helaethach

avenue: a.-s of experience – meysydd profiad

avid: a. readers – darllenwyr mawr

to avoid: to a. doing something – er mwyn peidio â gwneud rhywbeth; **to a. their having a disruptive effect on the class** – rhag iddynt darfu ar y dosbarth; **to only just a. ...** – ond y dim i ...; **a. pure description** – osgowch ddisgrifio'n unig, gwnewch fwy na dim ond disgrifio

to await: their decisions are a.-ed – nid yw eu penderfyniadau'n hysbys eto, nid yw eu penderfyniadau wedi eu cyhoeddi eto/hyd yn hyn; **these matters still a.-ed resolution** – yr oedd y materion hyn yn/hynny'n dal heb eu datrys; **a.-ing nomination** – heb ei/eu (h)enwebu eto; **they a. discovery** – ni ddarganfuwyd mohonynt eto/hyd yn hyn, ni chafwyd hyd iddynt eto/hyd yn hyn

award: double a. – dyfarniad dwbl; **single a.** – dyfarniad sengl

to award: to a. a mark – rhoi marc

aware: to be a. of – ymglywed â, bod yn effro i, sylweddoli; **to be made/become a. of** – sylweddoli; **they should become more a. of** – dylid meithrin eu hymwybyddiaeth o; **socially a.** – yn gymdeithasol effro; **they are fully a. of what is happening** – gwyddant yn iawn am yr hyn sy'n digwydd, maent yn sylweddoli'n iawn beth sy'n digwydd; **(please) be a. that (unless)...** – cofiwch fod/mai/y(r)... (oni); **they should be made a. of** – dylent gael gwybod am, dylid rhoi gwybod iddynt am, dylid dweud/sôn wrthynt am, dylid eu hysbysu o

awareness: to have an a. of – bod yn effro/fyw i; **to maintain an a. of** – bod yn gyson ymwybodol o

away: to keep a. – cadw draw; **your problems won't go a.** – wnaiff dy broblemau/eich problemau ddim diflannu (ohonynt eu hunain); **help is only a phone()call a.** – mae/bydd help/cymorth ar gael ar ben arall y ffôn

awayday – cwrdd i ffwrdd

awful – erchyll; **their French is a.** – mae eu Ffrangeg yn goch ryfeddol; **to pay an a. lot for ...** – talu crocbris am ...; **an a. thing** – cythraul/diawl o beth

awkward – yn fodiau i gyd; **an a. person** – person sy'n tynnu'n groes; **an a. old cuss** – person croes

back: b.(-)to(-) b. – gefn-gefn; **some time b.** – dro'n ôl; **to take a b. seat to ...** – bod yn ail/eilbeth i ...

to back: to b. away from – cefnu ar, ymwrthod â
back-up: b. and support – cymorth ategol ac ymarferol
backlog – tagfa; **maintenance b.** – y gwaith cynnal(-)a(-)chadw sydd wedi cronni
backsliding – dirywio
backyard – milltir sgwâr
bad: b. language – iaith aflednais; **not b.** – ddim yn ffôl
to badger – poeni, swian ar
badly: how b. – cymaint; **the economic regeneration the area so b. needs** – yr adfywio/adfywiad economaidd y mae cymaint o'i angen ar y fro/yr ardal; **there is something b. wrong** – mae rhywbeth mawr o'i le; **they were shaking b.** – yr oeddent yn crynu'n ofnadwy; **this can b. disrupt the scheme** – gall hyn(ny) darfu llawer iawn ar y cynllun
baggage: our own personal b. – ein storfa'n hunain o brofiadau/ragfarnau
balance: on b. – wedi/ar ôl pwyso a mesur; **to maintain a b. between ... and ...** – cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ... a(c) ...
ball: to take their eye off the b. – methu/peidio â chanolbwyntio'n llwyr
balm: a letter of apology can be a soothing b. on a difficult situation – gall llythyr o ymddiheuriad wneud byd o les mewn/leddfu llawer (iawn) ar sefyllfa anodd
banal – di-fflach
banana: to go b.-s – colli arnynt eu hunain, mynd o'u cof, mynd yn lloerig
bank: a b. of resources – cronfa o adnoddau; **this won't break the b.** – fydd hyn(ny) ddim yn rhy ddrud/gostus; **b. robbery** – lladrad banc, lladrad o fanc
to bank: to b. on – dibynnu ar, mentro'u harian
bar: all b. three of them – pob un ond tri ohonynt
bare – diaddurn; **to work with b. hands** – gweithio heb fenyg
barely: b. twelve months later – cwta ddeuddeg mis ar ôl hynny/yn ddiweddarach
bark: her b. is worse than her bite – mae(hi)'n well na'i gair (*ymadrodd Mrs Hilda Ethall*)
barnstormer: a b. of a speech – araith ysgubol
barnstorming: a b. speech – araith ysgubol
barrage – morglawdd
base: home b. – man sefydlog, canolfan, cartref; **b. line** – llinell waelod; **our client b.** – ein cwsmeriaid, y cwsmeriaid sydd gennym, ein cronfa o gwsmeriaid; **to touch b.** – cadw mewn cysylltiad
to base: the evidence on which the advice was b.-ed – y dystiolaeth a oedd yn sail i'r cyngor (hwnnw)
based: class-b. – ar raddfa dosbarth; **b. on** – yn seiliedig ar, yn deillio o
to bash – dilorni
basic – (syml a) diaddurn; **the living conditions were b.** – go ddigysur oedd yr amodau byw, yr oedd yr amodau byw yn eithaf digysur
basically – yn ei hanfod
basis: on an individual b. – fesul unigolyn; **on a rota b.** – yn ôl trefn rota; **on the b. that (there is/are)** – am/gan fod; **on a case-by-case b.** – fesul achos, un achos ar y tro; **on a county-wide b.** – ledled y sir; **it is unfortunate that, on the b. of the work seen, ...** – mae'n anffodus bod y gwaith a welwyd yn dangos (bod) ...; **these were trialled on a very restricted b.** – treialu cyfyngedig iawn a fu arnynt/ar y rhain/rheiny; **on a quarterly b.** – bob chwarter
bat: off their own b. – ohonynt eu hunain
battery: a b. of techniques – cronfa/amrywiaeth o dechnegau, nifer dda/fawr o (amrywiol) dechnegau
bay – (mewn ystafell/adeilad) llecyn
to be: ... is to be ... – bwriedir (i) ...; **... was to be ...** – y bwriad oedd ..., bwriedid ...; **the question to be addressed** – y cwestiwn sydd i gael sylw; **the question to be studied** – y cwestiwn sydd i'w astudio; **the second book to be completed was...** – yr ail lyfr a gwblhawyd oedd ...; **there has been a willingness to** – amlygwyd parodrwydd i; **the area (which is) being moved to** – yr ardal y symudir iddi; **(this/these) being a ...,** – gan eu bod yn ..., sef ...; **(and) they are (:/-)** – sef(:/-); **to know that there are different kinds of ...** – gwybod bod gwahanol fathau o ... i'w cael; **to leave ... be** – gadael llonydd i ..., gadael i ... fod; **husband-to-be** – darpar ŵr; **to be fair, it is not a matter of** – a bod yn deg, nid yw'n fater o; **how valid an interpretation is it?** – pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn(nw)?; **to be in two minds** – cloffi rhwng dau feddwl; **to be on their minds** – pwyso ar eu meddwl; **to be there for someone** – bod yn gefn i rywun; **being an increase of 10%** – sef cynnydd o 10%; **we've all been there** – dyna'n hanes ni i gyd, dyna hanes pob un ohonom; **if you have a dog, be a responsible owner** – os oes gennych gi, cofiwch fod yn berchennog cyfrifol; **we know you will have 'been' here before in reconsidering the scheme** – gwyddom y byddwch yn mynd dros yr un tir wrth ailystyried y cynllun
beacon: to be a b. of good practice – bod yn batrwm/esiampl o arferion da; **they are a b. for change** – newid yw eu nod/eu harwyddair
bean: they haven't (got) a b. – does 'da nhw ddim ceiniog (i'w henwau); **full of b.-s** – fel y gog
to bear: to b. testimony/witness to ... – tystio i ...; **to b. on** – ymwneud â/ag, effeithio ar; **this may well b. some relation to the reluctance of students to ...** – gall hyn, i ryw raddau, esbonio cyndynrwydd (y) myfyrwyr i ...; **to b. the**

hallmarks of hasty preparation – bod ag ôl paratoi brysiog arnynt; **they b. little relationship to ...** – nid oes fawr o berthynas rhyngddynt a(c) ...; **to b. a similarity to ...** – bod yn debyg i ...; **to bring pressure to b. on ...** – pwysu ar ...; **to bring knowledge to b. on ...** – cymhwyso gwybodaeth at/bwydo gwybodaeth i ...; **by bringing technology to b. on ...** – drwy roi technoleg ar waith i ...; **to bring their expertise to b. on ...** – rhoi o'u harbenigedd i/wrth ...; **to bring their experience to b. on ...** – dod â'u profiad at ..., defnyddio'u profiad i ...; **please b. with us** – diolch i chi am eich amynedd; **this is borne out by ...** – tystir i/cadarnheir/amlygir hyn(ny) gan ...; **they do not b. comparison with ...** – nid ydynt yn dal kannwyll i ...; **this does not b. thinking about** – thâl hi ddim/gwell peidio â meddwl am hynny, mae hyn (yn beth) sy'n/hynny'n (beth sy'n rhy ddychrynlyd i feddwl amdano); **I can't b. them** – maent yn dân ar fy nghroen; **to b. a grudge** – dal dig; **to b. examination** – dal dŵr; **to b. down on ...** – rhoi pwysau (mawr) ar ..., ceisio cael gwared ar ..., ceisio dileu ...; **to b. down on costs** – ceisio lleihau(r) costau, ceisio gostwng (y) costau; **to b. down continuously on costs** – ymdrechu'n gyson/barhaus i ostwng (y) costau/i gwtogi ar gostau/ar y costau; **to b. down on underperformance** – ymdrechu'n/mynd ati'n ddyfal i gael gwared ar danberfformio; **it b.-s an inscription**: arno/arni mae arysgrif, ceir arno/arni arysgrif

bearable: more b. – yn haws ei/eu goddef/(d)dioddef

bearer: I'm delighted to be the b. of good news – rwy'n falch iawn o ddod â newyddion da

bearing: to have a b. on – mae a wnelo ... â/ag ..., ymwneud â/ag ..., effeithio ar ...; **this has an important b. on** – mae hwn/hyn yn ddylanwad pwysig ar ..., mae hwn/hyn yn ymwneud mewn ffordd bwysig â/ag ...

beast: I would like to thank him for guiding me through the many(-)headed b. (= holl waith papur a biwrocratiaeth) that is the [name of the authority] – hoffwn ddiolch iddo am fy nhywys drwy ddrysfa [enw'r awdurdod] (awgrym Huw Garan ar welsh-termiau-cymraeg ar 30.10.07)

to beat: they b. their record – gwnaethant ragori ar eu record

to become – troi'n ..., tyfu'n ..., bod + bellach/erbyn hyn (yn) ..., erbyn hyn/bellach(.) + bod; **to b. a member of ...** – ymaelodi â/ag ...; **to b. used to** – arfer/cynefino/ ymgwyfarwyddo â/ag ...; **to b. pregnant** – beichiogi; **a situation that/which is b.-ing more common** – sefyllfa sy'n codi'n amlach, sefyllfa (sy'n (tyfu'n) (un)) fwyfwy cyffredin; **to b. thinner** – teneuo; **to b. confused** – drysu; **to b. insane** – mynd o'u cof; **to b. aware of ...** – sylweddoli; ... **to b. drunk** – ei dal hi; **to b. serious** – difrifoli; **as we b. older, the threat of falling b.-es more serious** – wrth i ni heneiddio, mae mwy a mwy o berygl i ni gwympto/syrthio; **to b. available** – dod i law, dechrau ymddangos; **no funding is available or b.-ing available** – nid oes arian/cyllid ar gael nac ar fin bod ar gael; **they should b. more aware of ...** – dylid meithrin eu hymwybyddiaeth o ...; **to b. darker** – tywyllu; **to b. an effective team** – tyfu'n dîm effeithiol; **to b. more popular** – tyfu'n fwy poblogaidd; **to b. a member** – ymaelodi (â/ag) ...; **to b. the best** – rhagori ar bawb; **to b. acquainted with ...** – dod yn gyfarwydd â/ag ..., ymgwyfarwyddo â/ag ...; **this is where the wisdom of doing so b.-s evident** – dyma lle/yma y gwelwn (ni) ddoethineb gwneud hynny; **to b. more savage** – ffyrnigo; **to prevent them (from) b.-ing involved in crime** – eu rhwystro rhag mynd ati/bwrw ati/ymroi i drosedd; **the camera b.-s active. when ...** – bydd y camera'n dechrau gweithio pan..., bydd y camera'n dechrau ar ei waith ...; **to b. interested in ...** – dechrau ymddiddori yn/mewn ...; **as the world b.-s smaller** – wrth i'r byd grebachu/leihau; **to b. dispirited/disheartened/ demoralised** – digalonni

to bed: to b. down – ymsefydlu

to bedevil – bod yn bla ar ...; **to b. the attainment of** – sy'n gymaint o rwystr i gyrraedd, sy'n gymaint rhwystr rhag cyrraedd

bedlam – fel ffair

bedrock: a b. of support – sylfaen gadarn o gefnogaeth/gefnogwyr

to beef: to b. up the team – cryfhau'r tîm

before: long b. – ymhell cyn (hynny); **b. you know it/they knew it** – cyn pen dim

beforehand: until shortly b. – tan ychydig cyn hynny, tan yn fuan cyn y(r)

to beg: to b. the question – codi'r cwestiwn [y *Saesneg wedi newid ei ystyr/pobl yn camddefnyddio'r ymadrodd?*]; **another chance gone (a-)b.-ging** – cyfle arall wedi mynd i'w golli

to begin: planning began with ... – cam cyntaf y cynllunio oedd ...

beginner: absolute b.-s – dysgwyr dechreuol (*mewn dogfen gan S4C*)

beginning: the b.-s of a scheme – elfennau cychwynnol cynllun

behest – anogaeth

behind: the principle b. this is – yr egwyddor sydd wrth wraidd/sy'n sail i hyn yw

belief: in the b. that – am eu bod yn credu, gan gredu; **it is their firm b. that** – credant yn bendant mai/bod; **sad beyond b.** – mwy trist na thristwch

to believe: we b. this to be one of our major strengths – i ni, dyma un o'n prif gryfderau/cryfderau mwyaf/pennaf

below: b. are some ideas – dyma rai syniadau

beneath: b. contempt – islaw sylw

benchmarking: b. exercises – ymarferion meincnodi

beneficial – er gwell

benefit: these have been translated for the **b. of ...** – cyfieithwyd y rhain/fe'u cyfieithwyd ar gyfer/er budd ...; **the b. of their experience** – ffrwyth eu profiad; **with the b. of experience** – yng ngoleuni profiad; **while there is b. in reading ...** – er ei bod yn fuddiol darllen ...; **to realise the b. of ...** – sylweddoli cymaint o werth/fudd sydd i/cymaint yw gwerth/mor fuddiol yw; **perceived b.** – mantais amlwg; **we cannot give you the b. of the doubt** – ni allwn gymryd pethau (amdanoch) yn ganiataol, sut mae modd i ni wybod hynny i sicrwydd?; **to have the b. of a modern office** – gallu defnyddio manteision/holl fanteision swyddfa fodern

to benefit: **to b. from** – elwa o/ar; **they would b. by** – byddent ar eu hennill petaent yn, byddent yn elwa petaent yn; **to b. by** – bod ar ei (h)ennill/elwa o/petai'n; **organisations that b. the sport** – mudiadau/cyrff sy'n gweithio ym myd/maes chwaraeon

benevolent: **Teachers B. Fund** – Cronfa'r Athrawon

benign – heb darfu (dim) ar ..., heb fod yn tarfu (dim) ar ...

to beset: **to be b. by fears** – cael eu poeni gan ofnau; **the tunnel vision which so often b.-s them** – y culni meddwl sy'n gymaint pla arnynt/sy'n eu goddiweddyd/llethu (?) mor aml

beside: **to be b. themselves** – bod yn gynddeiriog

bespoke – pwrpasol, at y pwrpas

best: **can b. acquire** – sydd debycaf o feithrin; **to the b. of their ability** – hyd eithaf eu gallu; **to the b. effect** – manteisio i'r eithaf ar; **they are b. avoided** – gorau oll os gellir/os oes modd eu hosgoi; **it is b. if** – y drefn orau yw i; **in the b. interests of** – er lles; **they are b. developed by** – y ffordd orau o'u datblygu/meithrin yw (drwy (gyfrwng)); **that would b. suit ...** – a fyddai'n fwyaf addas i; **you know b.** – chi wŷr eich pethau; **all the b.!** – pob hwyl!; **they are past their b.** – maent wedi gweld eu dyddiau gorau; **(the) b. of friends** – cyfeillion/ffrindiau pennaf; **the b. performing pupils** – y disgyblion sy'n gwneud orau/sy'n trechu pob un arall/sy'n rhagori ar bob un arall; **of the b. quality** – o'r radd flaenaf; **how b. to ...** – sut orau y mae ..., y ffordd orau o ..., y ffyrdd gorau o ...; **to the b. of my knowledge and belief** – hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred; **despite b. efforts** – er (gwaethaf) pob ymdrech; **this is b. thought of as ...** – y ffordd orau o synio am hyn yw meddwl amdano fel ..., y ffordd orau o feddwl am hyn yw ((i chi) synio amdano) fel ...; **to get the b. of ...** – cael y budd/lles mwyaf/pennaf o ..., elwa fwyaf o ...; **to get the b. from an opportunity** – manteisio'n llawn/(hyd) yr eithaf ar gyfle, elwa'n llawn o gyfle; **which do they like b.?** – p'un (ohonynt) y maent yn ei hoffi fwyaf?; **to be(come) the b.** – rhagori ar bawb; **to use their b. endeavours** – gwneud eu gorau glas; **to present themselves to b. effect** – eu cyflwyno'u hunain ar eu gorau; **give the examinations your b. (shot)** – gwnewch eich gorau glas yn yr arholiadau; **b. of all** – yn well na dim

bet: **your best b.** – eich gobaith gorau; ... fyddai ddoethaf; **it's a (fairly) safe b. that ...** – mae'n fwy na thebyg mai/bod/y(r) ..., mae'n bur debyg mai/bod/y(r) ...

to betray: **they have written nothing which b.-s their grasp of this material** – nid ydynt wedi ysgrifennu dim sy'n amlygu/dangos eu gafael ar y deunydd hwn

better: **b. suited** – mwy addas; **infinitely/miles/much b.** – yn frenin wrth/o'u cymharu â; **to get the b. of** – trechu; **no time b. than the present** – mae hwn crystal adeg/amser â dim/â'r un; **b. safe than sorry** – gwell gofalu na difaru; **to b. enable people to** – er mwyn i bobl fod mewn gwell sefyllfa i, er mwyn rhoi pobl mewn gwell sefyllfa i; **to be getting b.** – bod ar wellhad; **to m. an area look better** – gwella golwg ardal

between: **b. now and ...** – o hyn tan ...

to beware: **but b., there will be a(n) ...** – ond cofiwch y bydd ...; **b. of asking questions that/which ...** – osgowch ofyn cwestiynau sy'n ...

beyond: **it is b. the scope of this book to describe ...** – ni all y llyfr hwn ddisgrifio ...; **it is sad b. belief that ...** – mwy trist na thristwch yw bod ...

bias – gogwydd barn

biennially – bob yn ail flwyddyn

big: **a (very) b. ...** – clamp o ...; **a b. thank you!** – diolch o galon!

bill: **to fit the b.** – taro deuddeg

binding: **it will be b. in law** – bydd iddo rym cyfreithiol

bingeing – llowcio (a chyfogi (wedyn)), [gwell:] – cael pwl/pyliau o or-yfed/or-fwyta [gw. *welsh-termau-cymraeg*, 30-31.10.03]

bioactive – bioactif (*ans*) [Fferylliaeth] (*iw weld ar wefan Prifysgol Aberystwyth*)

biodiversity – bioamrywiaeth

bioresponsive – bioymatebol (*ans*) [Fferylliaeth]

birth: **a South Walian by b.** – yn frodor/hanu o Dde Cymru/o'r De; **from b. to death** – o'r crud i'r bedd

birthday: **it's their b.** – mae'n ben-blwydd arnynt; **the B. Honours List** – Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines

bit: **to tear someone to b.-s** – tynnu rhywun yn bedwar aelod a phen; **in b.-s** – yn deilchion; **b. by b.** – ychydig ar y tro, gan bwyll bach, yn raddol fach; **if you feel a little b. overwhelmed by the process** – os teimlwch (chi) fod/os ydych chi'n teimlo bod y broses yn dechrau mynd yn drech na chi/yn dechrau'ch llethu

bite: **intellectual b.** – miniogrwydd deallusol

bite-sized: **b. courses** – cyrsiau cryno (*welsh-termau-cymraeg*, 09.01.02)

bitterly: **to regret b.** – difaru'n ofnadwy; **they were b. opposed** – fe'u gwrthwynebwyd yn chwyrn

blackspot – man gwaeth, man lle ceir problemau gwaeth na'i gilydd; **the b. for ...** – y man/lle gwaethaf am ...; **an environmental b.-s** – y mannau/lleoedd lle mae'r amgylchedd wedi'i ddifrodi waethaf

to blame – bwrw(r) bai ar; ... **cannot be b.-ed** – nid ar ... y mae'r bai;

bland – digymeriad, arwynebol

blank: to refuse point b. – gwrthod ar ei ben/yn llwyr/yn lân/yn bendant; **to refuse to do something point b./to refuse point b. to do something** – pallu'n deg â gwneud rhywbeth; **my mind went (completely) b.** – aeth hi'n nos arnaf; **there can be no question of a 'b.' cheque** – ni ellir bod yn afradus; **to leave a question (on a questionnaire) b.** – gadael cwestiwn heb ei ateb

blanket: a b. ban – gwaharddiad llwyr; **there is a b. ban on us/our being members** – chawn ni ddim bod yn aelodau (am bris yn y byd)

to blast: to b. a scene with lights – boddi golygfa â goleuadau

bleak: a b. future – dyfodol du; **the outlook is b.** – nid oes fawr o obaith

to bleed: to b. them dry – eu godro'n sych

to blend: to b. into – cyd-fynd â/ag; **to b. into one another** – llifo i'w gilydd

blessed: of b. memory – coffa da amdanynt, o barchus goffadwriaeth

to blight: those b.-ing the lives of ... – y rhai/rheiny sy'n bla ar fywydau ...

blighted: communities b.-ed by ill-health – cymunedau sy'n/lle mae'r bobl yn dioddef yn ddrwg o afiechyd, cymunedau lle mae afiechyd yn bla/rhemp

blind: to lead down b. alleys – mynd ar drywydd cyfeiliornus/dibwrpas/difudd, mynd i'r gors(?); **b. obedience** – ufudd-dod digwestiwn

blitz: a b. on crime – ymgyrch fawr/ddygn yn erbyn tor-cyfraith/troseddu

bloodsucker – cnaf/cythraul/diawl/gwalch diegwyddor (*welsh-termau-cymraeg*, 01.03.07)

to blot: to b. out efforts to – llethu ymdrechion i

blow: to be dealt a mortal b. – cael eu taro yn eu talcen

to blow: to b. a myth apart – chwalu myth yn llwyr/yn rhacs (jibiders)/yn ulw (gyrbibion mân)

blue: out of the b. – yn gwbl/hollol annisgwyl, yn annisgwyl hollol, yn ddisymwth; **b. chip company** – cwmni o'r radd flaenaf

blueprint – patrwm (pendant/gwaelodol/sylfaenol), canllawiau; **your b. for future success (pennawd)** – sut mae/i sicrhau llwyddiant (at/yn y dyfodol)

blue(-)sky: b. research – ymchwil meddwl-cwbl-agored, ymchwil(io) â meddwl cwbl agored; **b. thinking** – meddwl yn gwbl ddilyffethair/rydd

board: to take on b. – rhoi sylw i, mabwysiadu, cynnwys, cymryd i ystyriaeth, cofio; **on b.** – yn y car/cerbyd; **to get on b. a train** – esgyn i drên, mynd ar y trên; **across the b.** – ym mhob rhan (o'r gwaith/busnes/sefydliad/gweithgaredd(au)); **to cut across the board** – torri/cwtogi ymhobman; **to keep staff on b.** – cadw staff (*Meg Elis, welsh-termau-cymraeg*, 20.04.06), cadw ymrwymiad staff (*Muiris Mag Ualghair, welsh-termau-cymraeg*, 21.04.06), cynnal ymrwymiad staff (*Wyn Hobson, welsh-termau-cymraeg*, 21.04.06), *cadw'r tîm ynghyd* (*Huw Roberts, welsh-termau-cymraeg*, 21.04.06), cadw'r/cadw'ch staff yn gytûn, cadw ymrwymiad y/eich staff, sicrhau ymrwymiad y/eich staff, cadw teyrngarwch y/eich staff, peidio â gadael i'r/i'ch staff fynd ar chwâl/chwalu, atal y/eich staff/rhwystro'r/rhwystro'ch staff rhag mynd ar chwâl/rhag chwalu

bob: a b. or two – ceiniog neu ddwy

body: there is a growing b. of opinion which believes that ... – y farn gynyddol yw bod/mai/y(r) ..., barn mwy a mwy o bobl yw ...; **b. language** – (holl) osgo'r corff

to bog: to become b.-ged down in administrative details – cael eu llethu/boddi gan fanylion gweinyddu/ gweinyddol

boil: to come to the b. – torri i'r berw [*Elwyn Thomas, Abergwili*]

to boil: what it (all) b.-s down to is ... – swm a sylwedd y peth/cyfan yw ...

boiling: b. hot water – dŵr berw

bold: he stood there as b. as brass – safai (ef) yno'n llanc i gyd

boldly: b. patterned surfaces – arwynebau (sydd) â phatrymau amlwg/pendant iawn

to bolster – rhoi hwb i, hybu

bolt: to have shot its b. – (bod) wedi chwythu ei blwc

to bolt: something b.-ed on – ychwanegiad

bolting – ysgub

bolt-on – ychwanegiad; **a 'b.' extra** – ychwanegiad

to bombard: to b. with requests – anfon cais ar ôl cais/ceisiadau lu at/i; **you will be b.-ed with ...** – cewch/teflir atoch ... o bob cyfeiriad, caiff ... ei daflu/ei thaflu/eu taflu atoch o bob cyfeiriad

to bond – cyplysu, cysylltu

bone: let's make no b.-es about it (the reason is/was ...) – y gwir plaen/amdani yw ...

bonkers: are you b.? – oes cnoc/colled arnat ti/arnoch chi?

bonus – mantais

to book: to b. an appointment – gwneud/trefu apwyntiad

booklet: b. guides – llyfrynau canllaw/cyfarwyddyd

to boom: ... is **b.-ing** – mae mynd mawr ar ...

boon – caffaeliad mawr

to boost – ychwanegu at, rhoi hwb i; **to b. your spirit(s)/morale** – eich calonogi; **to b. skills levels** – cynyddu lefelau(?) sgiliau

booster: a **morale b.** – hwb (i'r ysbryd)

borderline – ymylol; **they are in a very b. situation** (*financially*) – maent ar fin y dibyn (fel y mae hi)

boring: **to become b.** – troi'n syrffed

born: **to be b. of** – deillio o; **b. awkward** – un lletchwith fu ef/hi erioed

both – a'r ddau/ddwy (ohonynt) yn; **they must complete b. their written and oral exercises** – rhaid iddynt gwblhau eu hymarferion/hymarferiadau ysgrifenedig a'u hymarferion/hymarferiadau ar lafar

to bother: **the criticism didn't p. them** – wnaeth y feirniadaeth ddim mennu dim arnyn nhw

to bottle: **to b. things up** – cadw popeth iddynt eu hunain, gadael i bethau gronni

bottom: **the b. line** – elw(r busnes), yr elw (a wneir/wnaed)

bound: **their greed knows no b.-s** – does dim diwedd/pall ar eu trachwant

to bow: **to b. to public opinion** – ildio i farn y cyhoedd

to bowl: **we were b.-ed over by the welcome** – cawsom (ni) groeso (mor) eithriadol/twymgalon/mor dwymgalon/cynnes dros ben/eithriadol o dwymgalon/gynnes/mor dwymgalon/gynnes; **I was b.-ed over by ...** – gwirionais ar ...

box: **to think outside the b.** – meddwl yn/mewn ffordd wreiddiol

brainchild – syniad

brainstorming – pentyrru syniadau, cael pawb i gyfrannu/gynnig syniadau, byrlymu syniadau (*Magi Lewis, welsh-termau-cymraeg, 18.11.03*), sesiwn rhestru rhydd (*awgrym tiwtor Muir Mag Ulaghiarg, welsh-termau-cymraeg, 18.11.03*); **b. session** – sesiwn syniadau (*Bruce Griffiths, welsh-termau-cymraeg, 18.11.03*), sesiwn cyfrannu/cynnig/pentyrru syniadau,

brainwave – ysbrydoliaeth sydyn

brake: **to act as a b. on ...** – arafu ..., rhoi ffrwyn ar ..., ffrwyno ..., bod yn ffrwyn ar ...

to branch: **to b. out in a new direction** – torri cwys newydd; **to b. out into other areas** – mentro i feysydd/ ardaloedd eraill; **they b.-ed off to the right** – troesant i'r dde, aethant i'r dde

to brand: **they were b.-ed (as) liars** – cawsant yr enw o fod yn gelwyddgwn; **it was b.-ed a success** – dywedwyd iddo/iddi fod yn llwyddiant, dywedwyd iddo/iddi lwyddo

brass: **to be without a b. farthing** – bod heb yr un ddimai goch; **he stood there as bold as b.** – safai (ef) yno'n llanc i gyd

to brave: **if the thought of b.-ing the high street is too much for you ...** – os yw meddwl am wynebu'r stryd fawr/ei mentro hi i'r stryd fawr yn ormod i chi/yn codi braw arnoch chi

breach: **in b. of** – yn groes i; **injuries caused in b. of these duties** – anafiadau a achoswyd oherwydd torri'r dyletswyddau hyn(ny); **b. of confidence** – tor-cyfrinachedd (*eg*); **if they contain a minor b. of confidentiality** – os byddant yn torri cyfrinachedd mewn rhyw ffordd fach ddibwys

breadth: **to come within a hair's b. of** – dod o fewn (y) dim i

to break: **to b. the bank** – gwario'n wyllt/afradlon/wirion/ffôl/fel dŵr; **to b. the mould** – torri tir newydd; **to b. away from ...** – ymryddhau/dianc rhag ...; **to b. down** – diffygio, methu'n llwyr, datgymalu, mynd i'r gwellt; **to b. down barriers** – dileu/chwalu rhwystrau/ffiniau; **to b. a problem down into smaller elements** – rhannu problem yn elfennau llai; **the results are broken down by categories** – dangosir y canlyniadau fesul categori; **before the fire broke out** – cyn i'r tân gynnu

breakdown – dadansoddiad; **the b. of consensus** – consensws yn chwalu; **to give a more detailed b.** – manylu (ar); (= *description*): **a general b. of the services** – disgrifiad cyffredinol o'r gwasanaethau; **when there is a serious b. in service quality** – pan fydd/os bydd ansawdd y gwasanaeth(au) yn ddifffygiol iawn/yn ddifrifol o ddifffygiol; **to provide a b. of the contribution** – dangos/nodi/rhestru gwahanol elfennau/holl (wahanol) elfennau'r cyfraniad, manylu ar wahanol elfennau/holl (wahanol) elfennau'r cyfraniad

breaker: **b.'s yard** – iard ddatgymalu

breaking: **b. news** – y newyddion diweddaraf, y diweddaraf, newydd ddod i law (*Alison Reed, welsh-termau-cymraeg, 21.02.05*), newydd glywed, newydd gael gwybod

breakthrough – datblygiad allweddol/arloesol, llwyddo i dorri trwodd/llwyddiant wrth dorri trwodd, torri tir newydd; (= *yn nhermau gyrfa/enwogrwydd*) dod i amlygrwydd/i sylw'r cyhoedd, cyrraedd cynulleidfahangach, dechrau o ddifrif ar ei (g)yrfa, dod yn enwog/ennill enwogrwydd, torri trwodd, gwelodd ei (g)yrfa dro ar fyd, daeth haul ar fryn (iddo/iddi) (*cynigion mewn ymateb i gais gan Annes Gruffydd ar welsh-termau-cymraeg, 13.09.08*); **the two breakthrough pieces were ...** – y ddau ddarn pwysig oedd ...; **he took time to reach his first maturity: the two breakthrough pieces were ...** – bu ef beth amser cyn llunio' ddau ddarn aeddfed cyntaf, sef ... (*cynigion mewn ymateb i drafod bellach ar gais Annes Gruffydd ar welsh-termau-cymraeg, 15.09.08*), cymerodd gryn amser i gyrraedd aeddfedrwydd: y ddau ddarn a ddaeth ag ef i amlygrwydd gyntaf oedd... (*cynnig Geraint Lovgreen ar 16.09.08*)

breathtaking: **a b. vision** – gweledigaeth ysblennydd/nodedig (iawn)/gwbl nodedig/drawiadol dros ben; **with b. clarity** – yn syfrdanol/rhyfeddol o glir

to breeze: we'll b. through it – fe awn (ni) drwyddo/drwyddi fel y gwynt/boi
brevity: the need for b. – yr angen i fod yn gryno; **in the interests of b.** – rhag afradu geiriau; **b. is a virtue** – rhinwedd yw bod yn gryno
brewery: they couldn't organise-up/drink-up in a b. – allen nhw ddim trefnu'r peth symlaf/mwyaf elfennol, does dim siâp o gwbl arnyn nhw
bric-a-brac – petheuach, trugareddau
brief – swta; **in b.** – hynny yw, (*fel pennawd*) – pytiau byr, gair i gall; **our services in b.** – crynodeb o'n gwasanaethau; **a b. history of ...** – amlinelliad/braslun/crynodeb o hanes ..., gair (byr) am hanes ...
briefly – am ennyd (fer), am gyfnod byr; **he used to enquire b. about** – holai/arferai holi ychydig am
briefing – rhagdrifodaeth
to brighten – dod â sbonc i
bright: calling all b. sparks! – galwad i bawb/bob un sydd â syniadau(au) gwych!
brightly: b. coloured – lliwgar
brilliant: everyone/everybody thinks the idea is b. – (mae) pawb yn canmol y syniad i'r cymylau/entrychion; **it would be b. to be able to ...** – gwych o beth fyddai gallu ...
brimming: b. with confidence – yn byrlymu o hyder
to bring: this will b. about agricultural benefits – bydd i hyn(ny) fanteision amaethyddol; **to b. a realisation that** – gwneud/peri i bobl sylweddoli bod/mai/y; **what advantage might this b.?** – pa fantais a allai ddeillio o hyn(ny)?, pa fantais y gallai hyn(ny) esgor arni?; **the foundation the children b. to school** – y sylfaen sydd gan y plant wrth (iddynt) ddod i'r ysgol; **to b. about an increased awareness of ...** – cynyddu'r ymwybyddiaeth o ..., gwneud pobl yn fwy ymwybodol o ...; **to b. about a situation** – arwain at sefyllfa, bod wrth wraidd sefyllfa, esgor ar sefyllfa; **to b. about a better understanding** – sicrhau/meithrin gwell dealltwriaeth; **to be brought about by** – a ddaw yn sgil, a achosir gan, sy'n codi/digwydd oherwydd; **this will b. about agricultural benefits** – bydd i hyn(ny) fanteision amaethyddol; **to b. about a realisation that** – gwneud/peri i bobl sylweddoli bod/mai/y; **what advantage might this b. about** – pa fantais a allai ddeillio o hyn(ny)?, pa fantais y gallai hyn(ny) esgor arni?; **to b. a recommendation before a committee** – gosod argymhelliad gerbron pwyllgor; **to b. forward suggestions** – cyflwyno awgrymiadau; **to b. home** – amlygu, dod â ... i'r amlwg, ei gwneud hi'n amlwg, cyfleu'n fyw, cyfeirio'n glir at; **this brought home to him that ...** – gwnaeth (hyn/hynny) iddo sylweddoli'n fwy fyth/fwy nag erioed/gliriach byth/nag erioed fod/mai ...; **to b. in a revised plan** – cyflwyno cynllun diwygiedig; **to b. into being** – sefydlu; **to b. into disrepute** – dwyn anfrif ar; **to b. into effect** – gweithredu; **to b. into service/use** – rhoi ar waith, dechrau defnyddio; **to b. the principle into sharp focus** – hoelio sylw'n bendant iawn ar yr egwyddor; **to b. knowledge to bear on** – cymhwyso gwybodaeth at; **to b. out** – amlygu, dod â ... i'r amlwg, ei gwneud hi'n amlwg, cyfleu'n fyw, cyfeirio'n glir at **an item that b.-s out the fun of the festival** – eitem sy'n crisialu hwyl yr wyl; **to b. to light** – amlygu; **to b. to a close** – cau pen y mwdwl; **to b. to an end** – rhoi terfyn ar, terfynu, dileu; **to b. to the attention of** – cyflwyno i sylw, tynnu sylw ... at; **to b. together** – crynhoi, dwyn ... ynghyd/at ei gilydd; **to b. up imaginary problems** – codi bwganod; **to b. pressure to bear on** – pwyso ar; **to b. knowledge to bear on** – cymhwyso gwybodaeth at/bwydo gwybodaeth i; **by b.-ing technology to bear on** – drwy roi technoleg ar waith i; **to b. their expertise to bear on** – rhoi o'u harbenigedd i/wrth, defnyddio'u harbenigedd i; **to b. their experience to bear on ...** – dod â'u profiad at ...; **to b. criminals to justice** – dod â throseddwyr gerbron y llysoedd
brink: on the b. of – ar drothwy; **species which are on the b.** – rhywogaethau sydd ar fin diflannu/darfod amdanynt/o'r tir
broad: to have/wear a b. smile – bod yn wên o glust i glust; **in b. terms** – (a siarad) yn gyffredinol
broadly – i gryn raddau; **b. speaking** – yn gyffredinol; **this is b. unchanged/unaltered** – nid oes fawr o newid wedi bod yn hwn/hyn
brunt: the full b. of – holl/llawn rym
to brush: to b. the surface – cyffwrdd â'r wyneb
brute: b. strength – nerth bôn braich
brutalist – (dienaidd/dieneiniad o d)diaddurn, cwbl ddiaddurn, moel a didaddurn
brutish: nasty, b. and short – byr, brwnt a brau [*Dan Gadarn Goncrit*, Mihangel Morgan]
to bubble: a country b.-ing with ideas – gwlad sy'n byrlymu/fwrlwm/berwi/ferw o syniadau
to buck: to b. the trend – mynd yn groes i'r duedd; **to b. up** – llonni/sirioli (drwyddynt)
budding: b. inventors – darpar ddyfeiswyr
budget: if you're on a b. – os yw arian yn dynn/brin; **on time and within b.** – yn unol â'r amserlen a'r gyllideb
bug: the millennium b. – y chwileniwm (!)
to bug: the question that b.-s me – y cwestiwn sy'n fy mhlagio/fy mhoeni (i)
to bugger: b. the cost/expense! – does dim pwys/(diawl o) ots am y gost!
buggy – gwibgart (*Llawlyfr Technoleg*)
build: the vehicles are in b. – mae'r cerbydau'n cael eu hadeiladu
to build: to b. an image of themselves as writers – dechrau eu gweld eu hunain yn ysgrifenyddwyr/llenorion, dechrau meddwl/synio amdanynt eu hunain fel ysgrifenyddwyr/llenorion; **to b. a better understanding of ...** – datblygu/

meithrin gwell dealltwriaeth o ...; **the impetus for independence is b.-ing** – mae'r awydd i sicrhau (mwy a mwy o/rhagor o) annibyniaeth yn cynyddu; **to be built in** – bydd iddo; **the issues which are built into this module** – y materion sy'n rhan o'r modiwl hwn, y materion sy'n cael sylw yn y modiwl hwn, y materion sydd wedi'u cynnwys yn y modiwl hwn; **they can be built into** – y gellir eu hymgorffori yn/ mewn/eu plethu i; **to b. on contacts** – meithrin cysylltiadau ymhellach; **these notes b. on the general information in the ...** – mae'r nodiadau hyn yn ychwanegu at y(r) wybodaeth gyffredinol yn y(r) ...; **to b. up** – ffurfio, datblygu; **to b. up sets of books** – cynnull setiau o lyfrau; **to b. up descriptions** – graddol lunio disgrifiadau; **to b. up an extensive knowledge of ...** – ychwanegu llawer at eu gwybodaeth o/am; **to b. up their confidence** – meithrin eu hyder; **they will have built up a sufficient knowledge of ...** – (erbyn hynny,) byddant wedi casglu/crynhoi digon o wybodaeth am ..., (erbyn hynny,) bydd ganddynt ddigon o wybodaeth am ..., (erbyn hynny,) byddant yn gwybod digon am ...; **the impetus for independence is b.-ing up** – mae'r awydd i sicrhau (mwy a mwy o/rhagor o) annibyniaeth yn cynyddu

builder: the experience was a great confidence b. – bu'r/yr oedd y profiad yn hwb mawr i'm/i'th/i'w/i'n/i'ch hyder, gwnaeth y profiad fyd o les i'm/i'th/i'w/i'n/i'ch hyder

build-up: there was a b. of traffic – yr oedd/gwelwyd/cafwyd mwy a mwy o draffig; **there has been a b. of them in the atmosphere** – mae mwy a mwy ohonynt wedi cronni/i'w cael yn yr atmosffer

bulky – mawr; **b. files** – ffeiliau llwythog

bull: to take the b. of reforming .../of ... reform by the horns – mynd i'r afael o ddifrif â diwygio(r) ...

bumper: a b. season – tymor eithriadol/anarferol (o lwyddiannus), tymor llwyddiannus dros ben; **a b. package of ...** – pecyn swmpus o ...

bumpy – garw

bunch: thanks a b.! – diolch yn *fawr!*, diolch yn *dalpe!*

to bunch – crynhoi

bunching – gor-dyrru

to buoy: to b. them – rhoi hwb iddynt, bod yn hwb iddynt; **b.-ed up by the good news that they had won** – ar sail y newyddion da eu bod wedi ennill, (a hwythau) uwchben eu digon/wrth eu bodd/ar ben y byd o glywed eu bod wedi ennill, a'r newyddion da eu bod wedi ennill yn hwb mawr/aruthrol iddynt, yn sgil yr hwb/y wefr o glywed y newyddion da eu bod wedi ennill ...

buoyant – ffyniannus; **a b. market** – marchnad lewyrchus

to burn: to b. up – llosgi'n ddim/ulw

burnout – gorweithio nes cael eu llethu'n llwyr/nes llwyr ymlâdd/ nes ymlâdd yn llwyr

bursting – methu byw yn eu crwyn; **b. with ...** – yn byrlymu o ...

business: to go about their b. – mynd o gwmpas eu pethau; **by close of b.** – erbyn diwedd (yr) oriau gwaith; **to go out of b.** – mynd i'r wal; **this makes sound b. sense** – mae hyn yn/hynny'n (gam) synhwyrol o safbwynt (y) busnes; **the company is in the b. of ...** – busnes y cwmni yw ..., ... yw busnes y cwmni; **to get down to b.** – dechrau trafod o ddifrif(f), troi at bapurau'r cyfarfod

business-like: the meeting should be clear and b. – dylai'r cyfarfod fod yn glir a diwastraff/di-lol

bustle – bwrlwm

busy: b. b. b. (*fel pennawd neu gapsiwn*) – wrthi o fore gwyn tan nos, wrthi bob awr o'r dydd a'r nos

but: all b. eradicated – bron â chael ei ddileu'n llwyr/wedi'i ddileu bron iawn; **all b. the most able** – pob un heblaw'r galluocaf; **b. for** – oni bai am; **they cannot b. be concerned about** – ni allant beidio ag ymboeni ynghylch/ynghylch â/ag; **no b.-s** – (does) dim 'ond' amdani; **there's no room for ifs or b.-s** – does dim lle i falu awyr/hel dail/chwilibawan

butt: to be the b. – bod yn destun sbort/gwawd

buoyant: a b. market – marchnad lewyrchus

to buy: this will help to b. you time to ... – bydd hwn/hyn yn eich helpu i gael/wneud amser i ..., bydd hwn/hyn yn help i chi roi (o'ch) amser i ..., bydd hwn/hyn yn rhoi amser i chi ...; **to b. into sustainable development** – coleddu datblygu cynal(i)adwy, ymroi i ddatblygu cynal(i)adwy/ddatblygu'n gynal(i)adwy; **do you b. into this idea?** – a ydych yn/chi'n derbyn y syniad hwn(nw)?, a ydych yn/chi'n cytuno â'r syniad hwn(nw), a ydych yn/chi'n cytuno â'r syniad hwn(nw), a yw'r syniad hwn yn/hwnnw'n apelio atoch chi?

buzz – cyffro, gwefr, bwrlwm; **I get a b. when ...** – rwyf/byddaf wrth fy modd pan/o/os ...

to buzz: to (be) b.(-ing) with ... – byrlymu o ...

buzzword – y gair mawr/ffasiynol

by: by and large – ar y cyfan, at ei gilydd, i raddau helaeth; **to set by ability** – setio yn ôl gallu; **to reduce by approximately 10%** – cwtogi rhyw 10% ar; **by that stage** – erbyn hynny; **by which time** – pryd y bydd(ai); **by the by** – damwain a hap, gyda llaw; **by the way** – gyda llaw; **(to be) addressed by name** – wedi ei gyfeirio yn ôl ei (h)enw; **a means by which ... can develop** – cyfrwng sy'n fodd i ... ddatblygu; **by which** – sy'n fodd i; **by themselves** – ar eu pennau eu hunain; **drop by drop** – diferyn ar y tro, fesul diferyn; **step by step** – o gam i gam; **side by side** – ochr yn ochr; **this may be achieved by regular discussions with** – gellir cyflawni hyn(ny) drwy gyfrwng/gynnal trafodaethau rheolaidd gyda; **to vary by country** – amrywio o wlad i wlad; **the methods**

by which they would ... – y dulliau y byddent yn eu defnyddio i ...; **to rise/increase/ grow by four per cent** – codi/cynyddu/tyfu bedwar y cant; **by its nature** – oherwydd ei natur; **by reference to ...** – gan gyfeirio at ...
bygone: b. days – yr oes a fu, ers talwm llethol (*chwedl John Roberts Williams ar Dros fy Sbectol* rywdro)

cake: to sell like hot c.-s – gwerthu fel y boi

calibre: high c. students – myfyrwyr disglair

call: there is no c. for – nid oes angen; **to give someone a c.** – ffonio rhywun

to call: the thousands who have no home to c. their own – y miloedd sydd heb yr un cartref; **c.-ing all students** (*pennawd ar boster*) – neges i bob myfyriwr; **c.-ing all bright sparks!** – galwad i bawb/bob un sydd â syniadau gwych!; **the defensive attitude change c.-s up** – yr agwedd amddiffynol y bydd newid yn/newidiadau'n ei hysgogi/ei chyffroi/yn esgor arni, yr agwedd amddiffynol a ysgogir/a gyffroi/yr esgorir arni gan newid(iadau); ; **to c. a halt to** – atal, stopio

called – o'r enw

calm: to c. down – pwylllo; **to appeal for c.** – gofyn i/erfyn ar bobl i (ym)bwylllo

calmly – yn ddiffwdan

can: how c. they be convinced of ...? – sut mae eu hargyhoeddi o ...?; **we can't wait to ...** – yr ydym ar dân o eisiau ...

candidate: one of the main c.-s – un o'r ceffylau blaen; **this may be a c. for (being) the smallest** – gall hwn(nw)/hon(no) fod yn un o'r rhai lleiaf/ymhlith y (rhai) lleiaf, gall mai hwn yw'r lleiaf; **this is an ideal c. to pilot the use of ...** – mae hwn/hon/hyn yn ei gynnig/ei chynnig/ei gynnig ei hun yn (arbennig o) dda/yn dda iawn ar gyfer treialu defnyddio ..., mae hwn yn lle gwych/dyma lle gwych i dreialu defnyddio ... ynddo; **several c.-s (= possibilities) have been suggested** – mae sawl posibilrwydd wedi'i awgrymu

candidly – yn gwbl agored

canon: in c. – y naill ar ôl y llall, un ar ôl y llall

canteen: c. staff – staff y gegin/ffreutur

to canvass: after c.-ing other alternatives – ar ôl pwyso a mesur/ystyried (trefniadau) eraill; **to c. your interest** – holi/gofyn a oes/fyddai gennych ddiddordeb

cap: to go c. in hand to ... – mynd ar ofyn ...

capability – modd [*awgrym Geraint Løvgreen ar welsh-termiau-cymraeg, 20.10.04*]

capable: which/who are c. of – a all, sy'n gallu; **which they are c. of attaining** – sydd o fewn eu gallu; **they are c. of being photocopied** – mae modd eu llun-gopïo

capacity: members are appointed in a personal c. rather than as representatives of organisations – penodir aelodau fel unigolion yn hytrach nag fel cynrychiolwyr cyrff/mudiadau/sefydliadau; **in a non-voting c.** – ni chânt bleidleisio, aelodau di-bleidlais; **to their full c.** – hyd yr eithaf, hyd eu heithaf; **to be filled to c.** – wedi'u llenwi i'r/hyd yr ymylon, yn llawn dop, dan ei sang; **a seating c. of 300** – seddau i 300, 300 o seddau; (*cywiriad i Eiriadur yr Academi: a bus with a seating c. of 40* – bws â/ac ynddo seddau i 40 (*gall 'bws â lle i 40 o bobl' olygu bod ynddo seddau i 30 a lle i 10 o bobl sefyll*); **c. building** – (“yn yr ystyr *cymdeithasol, adfywio cymuned a yyb, nid adeiladau llawn*”) – meithrin galluoedd (*Annes Gruffydd, welsh-termiau-cymraeg, 30.09.03*)

capital: (cyfieithiad posibl o slogan Prifysgol Caerdydd) a c. university – prifysgol o'r radd flaenaf

to captivate – cydio (yn ...)

to capture: to what extent does this c. the international response to ...? – i ba raddau y mae hyn yn/hynny'n crisialu'r/cyfleu'r ymateb rhyngwladol i ...?; **to c. fully the complex nature of ...** – darlunio natur gymhleth ... yn llawn; **to c. the imagination** – cyffroi/tanio'r dychymyg, apelio at y dychymyg; **to c. the interest of ...** – cyffroi/ennyn/tanio diddordeb ...

care: without a c. in the world – heb boen yn y byd; **to exercise c.** – bod yn ofalus; **c. should be taken to ensure that** – dylid sicrhau bod/mai/y

to care: all they c. about is ... – ... yw popeth/yw'r cyfan iddynt, mae ... yn bopeth iddynt, y cyfan y maent yn meddwl amdano yw ..., ... yw'r cyfan y meddyliant/maent yn meddwl amdano; **those/the ones/the people you c. about** – eich anwyliaid; **to c. little for** – (peidio â) malio botwm corn/ffeuen/dim, hidio'r un ffeuen/ dim; **to c. about** – ymboeni am/ynghylch/ynghlŷn â/ag

career: c. countdown – gyrfa ar y gorwel [*ond roedd yn well gan y cwsmer:*] gŵyl yrfaoedd

carefree – didaro

careful: they should be c. not to ... – dylent ofalu nad ydynt yn ...; **be c.!** – pwyll pia(u) hi

carefully: to be c. monitored – cadw llygad craff/barcud/manwl ar; **to look c. at** – craffu ar; **her c. crafted letters** – saerniaeth ofalus ei llythyrau

to carry: to c. out – ymgymryd â; **to c. out a project to its final conclusion** – cwblhau prosiect yn foddhaol; **to c. through** – gweithredu('n llawn), bod yn ddigon; **to c. them through** – eu harfogi'n ddiogel; **to c. forward** – bwrw ymlaen â; **to c. on a business** – rhedeg busnes; **the marking of the ... will be c.-ied out by ...** – caiff y ... eu marcio gan y ..., y ... fydd yn marcio'r ...; **each question c.-ies an equal number of marks** – yr un nifer o

farciau sydd i bob cwestiwn; **we need to c. on campaigning** – mae angen i ni ddal i ymgyrchu; **smile, but don't get c.-ied away!** – gwenwch, ond peidiwch â'i gorwneud hi! / â gwenu'n hurt/wirion (bost)/fel giât/ffŵl

case: to know if this is the c. – gwybod yr ateb/ai felly y mae; **this is not the c.** – nid felly y mae, ni wneir hynny; **this is not necessarily the c.** – nid yw hynny'n anorfod; **this is not always the c.** – ni ddigwydd hynny bob tro; **it remains the c.** – y ffaith amdani yw, yn dal/o hyd; **than is the c. at present** – nag a wneir ar hyn o bryd; **it may be a c. of** – gall fod yn fater o; **than is usually the c.** – nag a geir fel arfer; **even in c.-s where** – hyd yn oed lle; **this being the c.** – felly; **it is very much the c. that** – mae'n rhaid, ...; **than may have been the c. in the past** – nag a wnaed, o bosibl, yn y gorffennol; **in which/that c.** – (ac) (os) felly, os/pe digwyddai hynny; **to become increasingly the c.** – dod yn fwyfwy gwir/felly; **in c.** – fel na; **as is the c. with** – fel sy'n digwydd yn achos; **it is certainly the c. that ...** – mae'n ddigon gwir mai/bod/y(r) ...; **it is generally the c. that ...** – fel rheol, ... *neu* mae'n fwy na thebyg bod/mai/y(r) ...; **proof that this is the c.** – prawf bod/fod hyn yn/hynny'n wir, prawf bod/fod hyn(ny) wedi digwydd, prawf mai hyn(ny) a ddigwyddodd, prawf mai dyna a ddigwyddodd, prawf mai hyn(ny) sydd wedi digwydd, prawf mai dyna sydd wedi digwydd, prawf mai felly y bu (pethau), prawf mai dyna'r sefyllfa; **worst c. scenario** – yn y sefyllfa waethaf (y gellir ei dychmygu), petai pethau'n mynd i'r pen, petai gorfod wyneb'r gwaethaf; **it is the c. that ...** – mae'n wir dweud bod/mai/y(r) ...; **to make the c. for ...** – dadlau bod/mai/dros/o blaid ...

case-hardened: a jury is not c. as they sit only for two weeks – dydy/fydd rheithgor ddim yn blino ar (wrandu) achosion am mai am bythefnos yn unig y maen/byddan nhw'n eistedd/am nad ydyn nhw/fyddan nhw'n eistedd ond am bythefnos; **if judges become c.** – os bydd agwedd barnwyr at achosion yn caledu

to cast: to c. doubts on – codi amheuan ynghylch, bwrw amheuan ar; **c.-ing aside any ...** – o anwybyddu ...; **to c. an idea in the form of ...** – cyflwyno/cyfleu/mynegi syniad ar ffurf ...

to castigate – rhoi pryd (llym) o dafod i ..., dweud y drefn (yn hallt) wrth ...

cast-off – peth sydd wedi ei droi heibio

casual – difater; **to the c. observer** – ar yr olwg gyntaf; **a c. observation** – sylw wrth fynd heibio, sylw dros ysgwydd

casualty: the intended emphasis on ... is a frequent c. of arrangements which – mae trefniadau sy'n ... yn aml yn arwain at golli golwg ar y bwriad i bwysleisio ...

to catalyse – ysgogi, symbylu, esgor ar

catalyst: it should be a c. for ... – dylai ysgogi/symbylu ...

to catalyse/catalyze – ysgogi, symbylu, esgor ar

to catch: Britain has some c.-ing up to do – mae Prydain (gryn/gryn dipyn) ar ei hôl hi; **to c. up on ideas** – cael gwybod am y syniadau diweddarach; **to c. light** – mynd ar dân; **to c. the imagination** – apelio at y dychmyg

catch-all – cynhwysfawr

catchphrase – ymadrodd bachog

catchy – trawiadol

to cater: c.-ing for – ar gyfer

cause: to be a c. of – esgor ar, achosi; **in the common c.** – er lles pawb

to cause: to be c.-ed by – deillio o, (bod/a hynny) oherwydd; **the upset c.-ed to you** – y gofid a gawsoch; **this will not c. offence to ...** – ni fydd hyn yn/hynny'n tramgwyddo ...

caustic: a c. reply – ateb crafog

caution: to exercise c. – bod yn wylidwrus/ofalus; **a word of c.** – gair i gall; **to err on the side of c.** – peidio â bod yn rhy fentrus, peidio â mentro gormod, peidio â'i mentro hi, bod yn ofalus/bwyllog, pwylllo, peidio â bod yn rhy uchelgeisiol/yn or-uchelgeisiol, gweithredu/mentro gan bwyll (bach)

cautious: be c.! – pwyll pia(u) hi

caveman: it was like a c. flying an aeroplane! – roedd hi fel (petai) dyn/gŵr o oes yr arth a'r blaidd yn hedfan awyren!

to cease: to c. – bod ar ben; **to c. to study a subject** – rhoi'r gorau i bwnc, ymwrthod â phwnc; **we must never c. to remind them** – rhaid i ni eu hatgoffa'n gyson/bob amser/tro

ceasing: never c. – di-baid, oesol, diddiwedd

ceiling: up to a c. of – hyd at derfyn o; **a glass c.** – rhywbeth anweledig (sy'n atal/rhwystro), rhyw rym anweledig (sy'n atal/rhwystro); **to break through the glass c.** – chwalu/trechu'r grym sy'n eu dal yn ôl, chwalu/ trechu'r grym/rhywbeth' (annifiniol) (hwnnw) sy'n eu dal yn ôl

to celebrate – canu clodydd

celebrated: a c. pianist – pianydd nodedig

celebratory – (i d)dathlu

cell: c. biology – bioleg celloedd

cellular: to undergo c. confinement – cael eu cyfyngu i gell; **c. memory** (*organau a drawsblannwyd yn dod ag atgof o gof y rhoddwr*) – cof y celloedd

to cement: to c. them together – eu cydio'n dynn yn/wrth ei gilydd; **to c. our (already) excellent relationship with them** – cryfhau rhagor eto ar ein perthynas ragorol â hwy

central: is c. to – mae i ... le allweddol yn; **c. to this strategy is ...** – yr hyn sy'n ganolog i'r strategaeth hon yw ..., elfen ganolog/elfennau canolog y strategaeth hon yw ...

centrality – lle canolog

centre: to put/place the citizen c. stage – hoelio sylw ar y cwsmer

to centre: these differences often c. around/on the emphasis given to ... – mae'r gwahaniaethau hyn yn aml yn deillio'n bennaf o'r/yn ymwneud yn bennaf â'r pwyslais a roir ar ...; **learning which c.-s around/on the teacher and student working together in partnership** – dysgu sy'n canoli'n bennaf ar gael yr athro a'r myfyriwr i gydweithio mewn partneriaeth; **the project c.-ed around/on ...** – prif ganolbwynt y prosiect oedd ...

certain: within a c. number of days – cyn pen hyn a hyn o ddyddiau/ddiwrnodau

chalk: by a long c. – o ddigon, o bell ffordd

challenging: c. behaviour – ymddygiad anhydrin; **change is always c.** – daw newid â her/sialens yn ei sgil bob amser; **students are certain to find this course c.** – mae'n siŵr/sicr y bydd y cwrs yn (y cwrs hwn yn/ hwnnw'n) (ym)estyn (y) myfyrwyr

champion: c.-s – pleidwyr, cefnogwr/hyrwyddwr (*gw. welsh-termau-cymraeg, 26.02.02*)

to champion – dadlau'n gryf/huawdl o blaid, **to c. the use of ...** – hybu/hyrwyddo defnyddio ..., hybu/hyrwyddo'r defnydd o ...

chance: there seems to be little c. of – go brin y gellir; **to leave nothing to c.** – cynllunio'n drylwyr/drwyadl, sicrhau bod y drefn yn drwyadl/drylwyr; **if, by c., they do not ...** – os nad ydynt/na fyddant, am ryw reswm, yn ...

change: to make a career c. – newid cwrs (eu) gyrfa; **percentage c.** – y newid yn y ganran; **numerical c.** – y newid yn y nifer

to change: things have c.-ed (considerably) – bu cryn dro ar fyd, mae'r rhod yn/wedi (dechrau) troi

changed: the c. nature of ... – oherwydd y newid(iadau) yn natur ...

changing: a fast c. society – cymdeithas sy'n cyflym newid; **in the light of experience and c. circumstances** – yng ngoleuni profiad ac wrth i(r) amgylchiadau newid

chaos – fel syrcau

chaotic – cwbl ddi-drefn, fel syrcau

character: the c. of the work – natur y gwaith

to characterise: a working life c.-ed by rapid change – bywyd gweithio/oes o weithio a wêl/welodd newidiadau cyflym; **another area c. by improved facilities** – man arall lle gwelwyd gwella ar y cyfleusterau/lle gwelwyd y cyfleusterau'n gwella/lle gwelodd y cyfleusterau

characteristic: c. features – nodweddion arferol

characteristically: these buildings are c. sited on ... – fel arfer/rheol, safai'r adeiladu hyn(ny) ar ...

charge: free of c. – am ddim, yn ddi-dâl; **to be firmly in c.** – bod â'r awennau'n gadarn/dynn yn eu dwylo; **for no extra c.** – heb godi tâl/unrhyw dâl ychwanegol, heb godi'r un geiniog (ar)

to charge – codi tâl; **to c. them to do so** – eu cyfarwyddo i wneud hynny; **they were c.-d by the Minister to ...** -- cawsant (hwy) gyfarwyddyd gan y Gweinidog i ...; **to be c.-ed with** – bod yn gyfrifol am; **we will c. to your account a fee of £...** – byddwn yn tynnu ffi o £... o'ch cyfrif; **to c. the expense of typing to the student** – cael y myfyriwr i dalu cost y teipio; **to c. them with looking after** – rhoi iddynt/cael y dasg/gwaith o warchod/o ofalu am...

charismatic – cyfareddol

charity: those who are the objects of c. – y rhai sy'n cael (cymorth (gan)) elusen(nau)

charm: to retain the c. of the original – cadw apêl y gwreiddiol

to chart – olrhain; **they had been c.-ing his progress** – yr oeddent wedi bod yn cadw golwg/llygad ar ei gynnydd/ar y cynnydd y mae ef wedi'i wneud/ar ei hynt a'i helynt

to chase – mynd ar ôl; **they are c.-ing different priorities** – maent yn ceisio cyflawni blaenoriaethau gwahanol, maent ar drywydd blaenoriaethau gwahanol, maent yn arddel blaenoriaethau gwahanol, mae ganddynt flaenoriaethau gwahanol, blaenoriaethau gwahanol sydd ganddynt (hwy)

cheap: a c. joke/observation – sylw gwamal/ceiniog a dimai

check: to keep a c. (on things)/to keep things in c. – cadw trefn ar bethau; **a reality c.** – (gorfod) wynebu'r gwir, (gorfod) wynebu realiti (creulon) bywyd (*awgrymiadau i welsh-termau-cymraeg, 31.01.07*), wynebu llym herfeiddiol fyd (*Beryl Jones, welsh-termau-cymraeg, 31.01.07*), sobri am eiliad (*Non, welsh-termau-cymraeg, 31.01.07*), dod at ei goed//ei choed/eu coed (*Catrin Alun, welsh-termau-cymraeg, 31.01.07*)

to check – bwrw golwg ar; **to c. with them** – eu holi; **c. for ...** – chwiliwch am; **c. for errors** – cywirwch unrhyw wall(au)/gamgymeriad(au); **c. it out** – holwch, ewch i weld; **please c. the following** – a yw'r canlynol/a yw hyn yn gywir?; **c. the requirements** – astudiwch y gofynion (yn ofalus); **c.that/whether ...** – gofynnwch/ holwch a/ai ...

check-list – rhestr gyfeirio

cheek: c. by jowl with one another – yn/wrth ymyl ei gilydd, (y) drws neasf i'w gilydd

to chew: to c. over the activities – pwyso a mesur y gweithgareddau

chief: C. Examiner – Uwch Arholwr [**Principal Examiner** – Prif Arholwr] [CBAC]

childhood: their c. home – eu cartref pan oeddent yn blant/yn ystod eu plentynodod

children: the true c. of the soil – hen yd y wlad

chilly – digysur

to chime: to c. with ... – cyd-fynd â/ag ...

China: for all the tea in C. – am bris yn y byd

choice: patient c. – dewisiadau'r claf/cleifion, y dewis(iadau) sydd gan y claf/cleifion, y dewis(iadau) a gaiff y claf/cleifion, y dewis(iadau) a gynigir i'r claf/cleifion

to choose: to c. from ... – dewis o blith ...; **there is not much/not a lot/not a great deal to c. between them** – nid yw'r naill yn rhagori rhyw lawer ar y llall, nid yw'r un ohonynt fawr gwell na'r llall/lleill

choral: c. recitation – cydadrodd

chronically: c. sick people – pobl â salwch cronig

church: our party is a broad c. – mae'n plaid ni'n rhychwantu amryw byd/amrywiaeth/llawer/llu o safbwyntiau

to circulate: c. among the groups – crwydrwch/ewch o grŵp i grŵp/o'r naill grŵp i'r llall

circulation: c. spaces – mannau tramwy

circumscribed – cyfyng

circumstance: in all c.-s – beth bynnag fo'r/yw'r amgylchiadau; **this will only be done in/under c.-s where ...** – ni wneir hyn(ny) ond os ...; **whatever the c.-s may be** – doed a ddelo

to circumvent – ochrgamu

to cite: many examples could be c.-d – gellid lluosogi/amlhau enghreifftiau o; **to c. the same reason** – rhoi'r un rheswm; **are all references correctly c.-ed?** – a yw/(a) ydy pob cyfeiriad wedi'i nodi'n gywir?, a yw'r/(a) ydy'r holl gyfeiriadau wedi'u nodi'n gywir?

claim: their c. to fame – eu camp fwyaf (nodedig), eu prif gamp, eu camp bennaf

clamour – yr holl alw

to clamp: the police are c.-ing down on ... – mae'r heddlu ar drywydd ...

clarification: points requiring c. – pwyntiau aneglur

to clarify – crisialu, (dy)nodi'n gliriach, creu/cynnig cliriach darlun o ..., rhoi gwedd gliriach ar ..., cynyddu eglurder, gwneud yn fwy clir/yn gliriach, dangos (yn fwy clir); **to c. the meaning** – (dy)nodi'r ystyr yn fwy clir/yn glir(iach), taflu goleuni ar yr ystyr

to clash: to c. with ... – gwrthdaro â/ag ...

class: top(-)c. – o'r radd flaenaf

classic: a c. introduction to ... – clasur o gyflwyniad i ...

to claw-back – adfachu

clear: c.-cut – clir, yn gwbl/hollol glir, pendant; **there is a c. need for ...** – mae'n amlwg bod angen ...; **to be c. about ...** – bod yn glir eu meddwl am/ynghylch/ynghlân â/ag ...; **we are c. that ...** – credwn yn bendant bod/mai/y(r) ...; **time c. of ...** – amser yn rhydd o ...; **to make c.** – nodi'n glir, datgan yn glir; **to make it c. that ...** – dangos yn glir bod/mai/y(r) ...; **to be of c. relevance to ...** – bod yn gwbl berthnasol i ...;

to clear: to c. up confusion – dileu dryswch; **to c. a hurdle** – goresgyn rhwystr

clearing: a c.-house for ideas – man cyflwyno syniadau; **it could act as a c.-house for requests** – gallai ailgyfeirio ceisiadau

clearly: c. defined – pendant; **there is c. a need for ...** – mae'n amlwg bod angen ...

clever – craff; **to be c. enough to ...** – bod yn ddigon craff i ..., bod â digon o grebwyll i ...; **c.(-)clogs** – (rhyw)un clyfar, (rhyw)un clyfrach na'i gilydd

click: this website will quickly become the first c. for information about ... – at y wefan hon y bydd pobl yn troi gyntaf, cyn hir, i gael gwybod(aeth) am/ynghylch/ynghlân â/ag ...

to click: it all c.-s – mae'r cyfan/mae popeth yn syrthio i'w le

climate: in the present c. of change – gyda'r holl newidiadau yn y byd sydd ohoni

to climb: to have a (large) mountain to climb – bod â champ/thasg enfawr/aruthrol i'w chyflawni, wynebu tasg enfawr/aruthrol (fawr)

clip: a film c. – pwt o ffilm

clock: to work around the c. around the c. – gweithio bob awr o'r dydd a'r nos

clockwork: to run like c. – rhedeg fel wats

to clog: to c. up – tagu

close: as the year drew to a c. – wrth i'r flwyddyn ddod/ddirwyn i ben; **by c. of business** – erbyn diwedd yr oriau gwaith/agor; **or, c.-er to home, ...** – neu, a dod yn nes adref, ...; **those in need of the c.-est support** – y rhai y mae angen y gefnogaeth lwyraf/y cymorth mwyaf arnynt; **to keep a c. eye on ...** – cadw llygad barcud ar ...; **we are sailing c. to the wind (economically-speaking)** – does fawr o lewyrch ar bethau, cael a chael fydd hi i ni gael y cwch i'r lan, mae hi'n (o) fain arnom ni, dydyn ni ddim yn gwneud fawr o elw, bach iawn (iawn) o elw rydyn ni'n ei wneud

closely: for c. related reasons – am resymau tebyg iawn; **to observe them c.** – sylwi arnynt yn fanwl, eu harsylwi'n fanwl

closure: closure – cau pen y mwddwl, dod â'r cyfan/mater i ben (yn daclus), dwyn i ben, dod â'r cyfan i fwcwl, cau'r mater (yn dwt), rhoi terfyn/diwedd (ar drafodaeth/ffrae ac ati); **case c.** – dwyn achos i ben; **to bring c. to ...** -- troi'r clo ar (*hanes*), dod â/ag ... i fwcwl [?]

clue: they haven't a c. – maent yn gwbl ddi-glem

to clue: this c.-ed the children into being more aware of ... – fe ysgogodd hyn y/hynny'r plant i fod yn fwy ymwybodol o ..., fe ddeffrôdd hyn y/hynny'r plant i sylwi mwy ar ...; **to be c.-ed up about ...** – bod yn wybodus iawn am/ynghylch/ynghlŷn â/ag ...

to clutter: all the things that c. (up) your desk – yr holl (bethau/drugareddau sy'n creu) annibendod ar eich desg
coasteering – arfordira (39 enghraifft ar Google ar 17.05.07 – a dyma'r ffurf y mae Delyth Prys o Ganolfan Bedwyr a golygydd y Termiadur yn ei ffafrio. Dyma'i sylw: 'Arfordira' fyddwn i'n ei ddewis yn reddfod (sa i'n siŵr pam – efallai fod y terfyniad '-o' yn rhy debyg i 'tirio' yn yr ystyr o 'dod i'r lan'. Mae '-a' yn cyd-fynd yn well â phethau fel 'diota', 'gwagswmera', 'chwilota' a phethau felly lle mae rhywun yn rhyw rollo o gwmpas....Yn anwyddonol iawn, Delyth), arfordiro (35 enghraifft ar Google ar 17.05.07), arforgampau (awgrym Richard Crowe ar welsh-termau-cymraeg ar 15.11.2001 – a dyna sydd yn Termcymru)

cogent – cadarn, dilys

cognisance: to take c. of – cymryd i ystyriaeth, rhoi sylw i

coherence – cydlyniaeth, cyfanrwydd; **Government had a c. which had long been lacking...** – (i) bu'r dull o lywodraethu ar chwâl ers tro byd, ond y tro hwn cafwyd cyfnod/ond gwawriodd cyfnod/ond daeth dro ar fyd a welodd gyfnod o lywodraethu pwrpasol ac unedig *neu* (ii) digon di-sut fu'r llywodraethu ers tro (byd), ond bellach gwelwyd undod a phwrpas i'r gwaith/ond daeth y llywodraeth hon/newydd ag undod a phwrpas i'w gwaith *neu* (iii) yn wahanol i'w rhagflaenwyr/i'r llywodraethau blaenorol, yr oedd undod a phwrpas i weithgareddau'r llywodraeth hon; *neu* (iv) fe welwyd, am y tro cyntaf ers blynyddoedd (maith), lywodraethu unedig a phwrpasol; *neu* (v) dyma lywodraeth unedig a phwrpasol – y gyntaf ers tro (byd) [*cynigion ar welsh-termau-cymraeg, Gorffennaf 2003*]

coherent: a c. whole – cyfanwaith crwn

to coincide – (bod) yr un â; **it c.-ed with the publication of ...** – yr un pryd/tua'r un pryd/adeg fe gyhoeddwyd ...

cold: that's c. comfort – dyw/dydy/dydi hynny'n fawr o gysur, dyna gysur "mawr", bach iawn o gysur yw hwn'na

collaboration: in c. with ... – ar y cyd â/ag ...; **planned c.-s** – cynlluniau i gydweithio

collaborative: c. teaching of English and Welsh – addysgu Cymraeg a Saesneg ar y cyd

collaboratively – ar y cyd

to collapse – cwmpo/syrthio'n ddarnau/deilchion, mynd i'r gwellt/â'u pen iddynt; **areas where the housing market has c.-ed** – ardaloedd lle mae'r farchnad dai wedi mynd i'r gwellt; **confidence/faith in them has c.-ed** – mae ffydd/hyder (pobl) ynddynt wedi diflannu/darfod/mynd, mae pobl wedi colli ffydd ynddynt yn llwyr/yn gyfan gwbl

to collect: to c. children from school – cyrchu plant o'r ysgol

collective: c. listening – gwrando torfol; **c. worship** – cydaddoli

collectively – ar y cyd, gyda'i gilydd

collegiality – cydymdrechu('n gytŷn)

colloquially: which may be c. termed ... – sydd, ac arfer ymadrodd cyffredin, yn ...; **they are/were known c. as** – fe'u llysenwir/llysenwyd yn

colograph (*a print made from a low relief collage* – www.artlex.com) – colograff (eg), ll. colograffau

colossal: a c. waste of time – gwastraff arswydus ar amser

to combat – mynd i'r afael â/ag ..., ymgodymu â/ag ...; **to c. the risk of ...** – ceisio lleihau'r risg o ...

to combine – priodi; **all these factors c. to create a ...** – gyda'i gilydd, mae'r holl ffactorau hyn yn creu ..., mae'r ffactorau hyn i gyd yn creu ...

combined – gyda'i gilydd; **c. with** – ynghyd â; **the combined effects are obvious** – mae effaith/effeithiau hyn oll/i gyd yn amlwg

to come: to c. up – dod i'r amlwg; **to c. about through ...** – deillio o ...; **to c. forward with an offer of ...** – cynnig; **to c.**

to an end – dod i ben; **the time has c. to finish ...** – mae'n bryd gorffen ...; **it will c. as no surprise** – ni fydd yn

syndod; **it all c.-es down to money** – diwedd y gân yw'r geiniog; **when it c.-es to ...** – pan ddaw (hi)'n fater o;

.../o ran ...; **c. to that ...** – petai'n dod i hynny ...; **c. Friday, ...** – erbyn dydd Gwener, ...; **a lot of vocabulary c.-**

es out of this – mae hyn yn esgor ar lawer o eirfa/bydd llawer o eirfa'n deillio o hyn(ny); **in years to c.** – ymhen

blynyddoedd, yn y dyfodol; **to c. across someone** – taro ar rywun; **to c. off drugs** – eu rhyddhau eu hunain o

afael cyffuriau; **to c. to understand that ...** – dechrau deall bod/mai/y(r) ...; **to c. to realise that ...** –

sylweddoli'n raddol bod/mai/y ..., sylweddoli o dipyn i beth fod/mai/y ...; **this service has now o c. of age** –

erbyn hyn/bellach(,) mae'r gwasanaeth (hwn(nw)) wedi ennill ei blwyf; **these are the services we have c. to**

expect – dyma'r gwasanaethau yr ydym bellach yn eu disgwyl/ yn eu disgwyl bellach/erbyn hyn; ..., **where**

shopping c.-es to life – ..., lle mae siopa'n bleser pur; **to c. up with an idea** – meddwl am syniad; **National**

Eisteddfod, here we c.! – i ffwrdd â ni i'r Eisteddfod Genedlaethol!; **this is not an accolade that c.-s easily** –

nid ar chwarae bach y mae cyflawni'r gamp hon(no)/y cewch (chi) gyflawni'r gamp hon(no)/y cyflawnir y gamp

hon(no); **when Wales c.-s to vote again** – pan ddaw hi'n bryd/pan fydd hi'n bryd i Gymru bleidleisio (unwaith)

eto, y tro nesaf y bydd (pobl) Cymru'n pleidleisio/bwrw'u pleidlais; **c. along** (*to a meeting*) – dewch atom,

dewch i'r cyfarfod/i'n cyfarfod; **c. Friday** – ddydd Gwener; **this is a strategy which/that c.-es into its own**

when ... – dyma/mae hon yn strategaeth sy'n talu ar ei chanfed pan ...; **she'll c. (a)round** – fe ddaw hi at ei

choed; **to c. up with a plan** – dyfeisio/creu cynllun, meddwl am gynllun; **to c. up with an idea** – meddwl am

syniad, awgrymu syniad; **this is where the strategy c.-s into play** – dyma lle mae'r strategaeth yn (dechrau) magu pwysigrwydd, dyma lle y gweithredir y strategaeth/lle y dechreuir gweithredu'r strategaeth, dyma lle mae'r strategaeth yn (dechrau) dangos ei dannedd, dyma lle y rhoir y/y dechreuir rhoi'r strategaeth ar waith; **events c.-ing up** – digwyddiadau (sydd) ar y gweill; **these rooms c. equipped with special facilities** – mae/ceir/cewch gyfleusterau arbennig yn yr ystafelloedd hyn(ny); **this is where we c. in** – dyma lle (y) down ni i'r adwy, dyma'n gwaith/cyfraniad ni; **for some time to c.** – am beth amser eto; ; **coming up next** – yn y rhaglen/rhifyn nesaf; **when you c. to apply for a job** – pan ewch (chi) ati i (ym)geisio/i gynnig/i wneud cais am swydd; **all the potential hazards that c. with driving on British roads** – yr holl beryglon a all godi wrth (i ddyn/i rywun/i ni/i chi/iddynt) yrru ar ffyrdd Prydain; **this is where we c. in** – dyma lle y gallwn (ni) (eich) helpu; **plagiarism c.-s in three forms** – mae tair ffurf ar lèn-ladrad/lèn-ladrata; **this c.-s with a cost** – mae cost ynghlwm wrth hwn/hyn(ny)

coming: the c. autumn term – tymor yr hydref eleni; **the c. spring term** – tymor y gwanwyn y flwyddyn nesaf

comfort: we should take little c. from a situation where ... – ni ddylem ymfodloni ar sefyllfa lle ...; **from the c. of your own home** – heb i chi (orfod) symud (cam) o'ch cartref/cadair freichiau; **that's cold c.** – dyw/dydy/ ydi hynny'n fawr o gysur, dyna gysur "mawr", bach iawn o gysur yw hwn'na

comfortably: c.-off – cysurus/cyffyrddus eu byd

comforting – llawn cysur; **it would be c. to ...** – cysur fyddai ...

command: the c. word – y gair gorchmynnol; **the store of information/knowledge at their c.** – y stôr o wybodaeth sydd ganddynt; **based on their c. of the material** – ar sail eu gafael gadarn ar y deunydd

to command: these decisions should c. the assent of all – dylai pawb gymeradwyo/amenio'r penderfyniadau hyn(ny)

commanding: a site with c. views – safle y mae/yr oedd modd/y gellir/gellid gweld ymhell ohono; **to have a c. lead** – bod ymhell ar y blaen; **to have a c. majority** – bod â mwyafrif sylweddol iawn/llethol

to commend: this has much to c. it – mae llawer i'w ddweud o blaid hwn/hyn; **this may c. itself in some areas** – gall hyn(ny) fod o fantais mewn rhai ardaloedd; **this practice could be c.-ed to other schools** – gellid cymeradwyo'r arfer hwn(nw) i sylw ysgolion eraill; **such a policy would not c. itself to ...** – ni fyddai ... yn cymeradwyo polisi o'r fath/y polisi hwnnw, ni fyddai polisi o'r fath/y polisi hwnnw'n gymeradwy gan

commendation: to deserve c. – mae lle i ganmol, i'w ganmol

commensurate: c. with – o'r un safon â

comment: for c. – i gael (eu) sylwadau; (= *critical comment*) – sylwadau beirniadol, beirniadaeth

to comment: to c. on – cyflwyno sylwadau ar, sôn am; **one school c.-ed ...** – meddai un ysgol ..., sylw/barn un ysgol oedd ...; **as one man c.-ed** – fel y dywedodd un dyn; **one girl c.-ed that this is** – yn ôl un ferch, mae hyn yn/ hynny'n

to commit: they are c.-ted to a policy of ... – maent yn arddel polisi o ...

commitment: to honour their c.(-s) – cadw at eu gair; **without the c. on the part of the builders to follow a specific plan** – pe na bai'r adeiladwyr mor benderfynol o ddilyn cynllun penodol; **to make a c. to** – ymrwymo i

committed – ymroddgar, rhonc (?)

committee: c. participation (= *participating in committees*)- pwyllgora

commodity: waste is a valuable c. – mae gwastraff yn (beth g)werthfawr

common: it is c. knowledge that ... – mae'n ddigon hysbys bod ..., fe wŷr pawb fod/mai ..., mae pawb yn gwybodbod/mai ...; **this has become c. knowledge** – mae'r newyddion hyn (wedi mynd) ar led; **for the c. good/cause** – er lles pawb; **a situation which is becoming increasingly c.** – sefyllfa sy'n codi'n amlach; **in c. with** – fel (sy'n digwydd/y fel y gwneir) mewn/yn/ym/yngh ... , yn debyg i, (yn union) fel y gwna; **to have a sense of c. purpose** – anelu('n bendant/gadarn) at yr un nod

commonality: c. of purpose – pwrpas cyffredin; **there is considerable c. between** – mae cryn dipyn yn gyffredin rhwng; **areas of c.** – meysydd lle ceir/ac iddynt elfennau cyffredin

commonly – amlaf, y drefn arferol (oedd/yw/fydd)

commonplace: to be c. – bod yn ddigwyddiad cyffredin, bod i'w cael yn gyffredin; **it is a c. that there should be ...** – afraid dweud y dylai .../credir yn gyffredin y dylai ...

to communicate – cyflew, rhoi gwybod i

companion: a c. document – chwaer-ddogfen

comparable: facilities c. to the best in Britain – cyfleusterau sydd gyda'r gorau ym Mhrydain

to compare: there's no-one to c. with them for ... – nid oes neb yn yr un cae â hwy am ...

comparison: it does not bear/stand c. with ... – nid yw'n dal kannwyll i ...; **it stands c. with the best of ...** – gellir (yn deg/yn ddigon teg) ei gymharu/ei chymharu â goreuon ..., mae ef/hiystal â goreuon ...

compelling – trawiadol, allweddol, atyniadol, apelgar, pendant (iawn); **to write c. prose** – ysgrifennu rhyddiaith afaelgar; **c. reasons for ...** – rhesymau arbennig/eithriadol/neilltuol/tu hwnt o dda/gryf dros ...

to compete: to c. for – ymgiprys am

competently – yn bur ddechrau, yn foddhaol

competing: to balance the c. requirements of ... -- cydbwysu gofynion gwahanol (y/yr)...

competition: they set out to beat the c. – aethant ati i guro'u/trechu eu cystadleuwyr

competitive: scholarships are offered on a c. basis – rhaid cystadlu am yr ysgoloriaethau (a gynigir)

competitiveness – cystadleurwydd

competitively: others are performing c. in the sector – mae eraill yn cystadlu'n frwd yn y sector
to compile: a handbook is being c.-ed – mae llawlyfr ar y gweill
complacent – di-hid
complacency – llaesu dwylo, diffyg ymboeni
complaint: without c. – yn ddirwgnach
to complement – (cyd)ategu, yn ogystal â, cyd-fynd â
complementarity – cydategolrwydd
complementary – cydategol
complete: to be c. masters of their work – maent yn feistri corn ar eu gwaith; **to be in c. agreement with ...** – cytuno i'r carn â/ag ...; **c. and utter hypocrisy** – rhagrith noeth; **c. with a message** – ynghyd â neges; **c. with sounds and smells** – ynghyd â(r holl) synau ac aroglau
to complete: c. Form A with your details – rhowch eich manylion/y manylion amdanoch ar Ffurflen A; **... c.-s the booklet** – mae gweddill y llyfryn yn cynnwys ..., ... yw gweddill y llyfryn
completed: thank you for returning your c. application form – diolch i chi am lenwi a dychwelyd eich ffurflen gais; **please return your c. form to ...** – ar ôl i chi lenwi'r ffurflen, dychwelwch hi i .../anfonwch hi at .../i...; **send your c. form to ...** – anfonwch y ffurflen, a'ch atebion arni, i/at ...; **half(-)c.** – ar eu hanner; **the c. work** – y gwaith ar ôl ei orffen/gwblhau
completely: to wear away c. – treulio'n ddim; **almost c.** – o fewn (y) dim i; **to be c. dead/lifeless** – bod yn farw gorn; **to be c. inadequate** – bod yn gwbl annigonol; **to disappear c.** – diflannu o'r tir; **please fill this form carefully and c.** – llenwch y ffurflen hon yn ofalus ac yn drylwyr; **the bag must be c. filled** – rhaid llenwi'r bag/sach i'r/hyd yr ymylon; **we reject c. their belief that ...** – yr ydym yn gwrthod ar ei phen eu cred bod/ mai/y(r) ...
complex: to make more c. – cymhlethu
complicated: to make more c. – cymhlethu
to compound: to c. a situation – gwaethygu sefyllfa; **the situation was c.-ed when ...** – aeth y sefyllfa o ddrwg i waeth pan ...
comprehensive – cyflawn
comprehensively: a c. revised document – dogfen sydd wedi'i diwygio'n drwyadl
comprehensiveness – llawnder
to comprise: these c. the only type of written work – y rhain yw'r unig fath o waith ysgrifenedig; **the group c.-es ...** – aelodau'r grŵp yw ..., dyma (enwau) aelodau'r grŵp(:) ..., yn y grŵp mae ...; **the unit c.-es two main elements** – mae i'r uned ddwy brif elfen, dwy brif elfen sydd i'r uned; **it c.-es 25% academic work and 75% workplace-based learning** – mae 25% ohono'n/ohoni'n waith academaidd a 75% ohono'n/ohoni'n ddysgu/waith dysgu yn y gweithle
to compromise: to c. the credibility of ... – tanseilio hygrededd ...; **to c. the quality of** – amharu ar ansawdd; **without c.-ing standards of translation** – heb ostwng safon y cyfieithu, sicrhau bod safon y cyfieithu'n gyson (uchel)
computational: simple mental c. error – gwall syml wrth gyfrif(o) yn y pen
to concede – cydnabod
conceivable: every c. aspect – pob agwedd dan haul
conceived: narrowly c. – cyfyng
to concentrate: which no longer c.-s on ... – nad yw bellach yn gyfyngedig i ...; **to c. attention on ...** – hoelio sylw ar ...; **to c. their energies on ...** – rhoi eu holl sylw i ..., canolbwyntio o ddifrif (calon) ar ...; **they are c. in ...** – maent i'w cael yn ...gan mwyaf/yn bennaf; yn ... y'u ceir (hwy)/y'u gwelir (hwy)/y'u cewch (chi) hwy'n bennaf/gan mwyaf
conception: the c. of projects – creu prosiectau
to conceptualise – cysyniadu
concern: to be a major cause for c. – achosi pryder mawr/llawer iawn o bryder; **a c. to ...** – awydd i ...; **the twin c.-s of this report are ...** – dau brif faes yr adroddiad hwn yw.../dyma ddau brif faes yr adroddiad hwn ...; **to show c. for ...** – ymboeni am/ynghylch/ynghlŷn â/ag ...; **a lack of concern** – dihidrwydd; **our c. must be to ...** – rhaid i ni anelu at ..., rhaid i ni geisio (sicrhau) ...; **the most frequent c. was ...** – y pryder a leisiwyd amlaf oedd ...; **grave c.** – pryder mawr/ dwfn; **one of our utmost c.-s is your safety** – un o'r pethau pwysigaf i ni yw eich diogelwch, mae eich diogelwch o'r pwys pennaaf/yn bwysig iawn/dros ben i ni; **this is less of a c. to us than ...** – mae hwn/hon/ hyn yn llai pwysig i ni na(g yw) ...; **this has become a major c.** – mae hwn/hyn/hynny wedi mynd yn/dod yn/datblygu'n/tyfu'n bwnc sy'n cael sylw mawr; **if you have c.-s about ...** – os ydych yn/chi'n pryderu am/ ynghylch/ynghlŷn â/ag ...; **our main c. has to be the safety of ...** – rhaid mai'r brif ystyriaeth, i ni, yw diogelwch ...
to concern: to c. itself with – ymwneud â, rhoi sylw i
concerned: c. to – ceisio; **to be c. to see that** – bod yn awyddus i weld bod/mai/y; **insofar as ... is c.** – o ran ...; **c. with** – ynghlŷn â/ag, ynghylch; **to be c. about ...** – ymboeni am/ynghlŷn â/ag .../ynghylch ..., bod â ... yn pwysu ar eu meddwl; **they were c. to note** – yr oedd yn ofid ganddynt glywed/gael ar ddeall; **they were c. to find that ...** – achos gofid/pryder iddynt oedd gweld bod ..., yr oedd gweld bod ... yn achos(i) pryder/ gofid iddynt; **to be c. with** – anelu at, rhoi sylw i; **what I am c. (= care) about is ...** – yr hyn sydd o bwys i mi yw ...

concert: in c. – gyda’i gilydd
concerted – trefnus, pwrpasol; **a c. effort** – (cyd)ymdrech (u’n) unedig/benderfynol/bwrpasol/ddygn
concession – goddefiad
to conclude: to c. **inquiries** – cwblhau ymholiadau; **to be c.-ed** – dod i ben; **(and) to c., ...** – (ac) i glori, ...
conclusion – diweddsglo; **this has led them to the c. that ...** – mae hyn wedi peri iddynt benderfynu bod/mai/y(r) ...; **in c.** – i glori; **to bring ... to a c.** – dod â/ag ... i ben; **to carry/take it to its final c.** – mynd â/cymryd ... i’w ben draw (eithaf); **to carry out a project to its final c.** – cwblhau prosiect yn foddhaol
conclusive: **the evidence is not c.** – nid yw’r dystiolaeth yn argyhoeddi’n llwyr/yn torri’r ddadl yn derfynol/yn clensio’r ddadl
conclusively: **to demonstrate c.** – dangos yn bendant iawn/ddigon
concomitant: **further c.-s of ...** – elfennau eraill sy’n gysylltiedig â/ag ...; **an essential c.** – ac mae hyn yn dilyn yn anorfod
concrete: **to make c.** – diriaethu; **the rules are not set in c.** – nid yw’r rheolau’n gwbl haearnaidd/anhyblyg, mae modd newid y rheolau, nid deddf y Mediaid a’r Persiaid mo’r/yw’r rheolau hyn
concurrent – cydgyfredol
concurrently: **to run c. with ...** – cyd-redeg â/ag ...
to condemn – collfarnu
condition: **under the c.-s prevailing at the time** – o dan yr amgylchiadau ar y pryd; **on c. that they remember to ...** – ond iddynt gofio ...; **under such c.-s** – bryd hynny, os felly; **these aren’t in very good c./their c. isn’t (particularly) good/wonderful** – does dim llawer o raen ar y rhain
conditional: **grant is c. on ..** – mae rhoi(’r) grant yn dibynnu ar; **grant is c. on your receiving ...** – rhoir (y) grant ar yr amod eich bod yn cael/sicrhau ...
to condone – cydsynio â/ag ..., derbyn ..., peidio â gwrthwynebu ...; **to accept and c. low standards** – bodloni ar safonau isel
conducive: **to be c. to ...** – hybu, bod yn addas i ...
conduit: **to be a c. to/to act as a c. to ...** – pontio rhwng ..., bod yn bont rhwng ...
to conduct – cynnal; **to c. a conversation** – sgwrsio; **to c. them around the building** – eu tywys o amgylch/gwmpas yr adeilad; **to c. research/an experiment** – gwneud ymchwil/arbrawf; **a project (which is) being c.-ed** – prosiect sydd ar waith
conduit – cyfrwng
to confer – cydymgyngori, ymgynghori â’i gilydd, rhoi, cyflwyno; **the huge advantages a university education c.-s** – y manteision enfawr/y budd aruthrol a ddaw/sy’n deillio o gael addysg brifysgol
conference: **a c. presentation** – cyflwyniad i gynhadledd
confession: **this is where I have a c. to make** – dyma lle mae’n rhaid i mi syrthio/gwympo ar fy mai
confidence: **to have the c. of ...** – ennyn hyder/ffydd ...; **the experience was a great c. builder** – bu’r/yr oedd y profiad yn hwb mawr i’w/i’th /i’w/i’n/i’ch hyder, gwnaeth y profiad fyd o les i’w/i’th/i’w/i’n/i’ch hyder; **duty of c.** – dyletswydd i barchu cyfrinachedd
confines: **outside the c.-s of academic study** – y tu allan i faes (cyfyng) astudio academiaidd
confinement: **to undergo cellular c.** – cael eu cyfyngu i gell, cael eu caethiwo mewn cell
to confirm: **please c. if/whether ...** – byddwch cystal â dweud/rhoi gwybod a(i) ...
conflict: **to (be in) c. with ...** – bod yn groes i ..., bod yn gwrthdaro â/ag ...
conflicting – sy’n gwrthdaro
to conform: **to c. with the latest fashion** – cyd-fynd â’r ffasiwn (d)diweddaraf
confronted: **to be c. with** – wynebu; **to c. crime** – mynd i’r afael â throsedd/â thor-cyfraith
confrontation: **try to avoid becoming involved in any c. with the member of staff** – ceisiwch osgoi dal pen rheswm â’r aelod o’r staff, peidiwch â cheisio dal pen rheswm â’r aelod o’r staff, ceisiwch osgoi sefyllfa lle byddwch chi ag aelod o’r staff benben â’ch gilydd
confrontational – ymosodol
Confucius – Conffiwsiws
congenial: **they found this idea more c.** – yr oedd y syniad hwn yn/hwnnw’n fwy at eu dant; **a c. atmosphere** – awyrgylch dymunol
conger: **c. eel** – cyhyren (*Crwydro Sir Benfro, E. Llwyd Williams, td 51*)
congruent: **these things are not c. with our beliefs** – nid yw’r pethau hyn(ny) yn gydnaws/cyd-fynd â’n daliadau/credoau (ni)
conjunction: **in c. with ...** – i gyd-fynd â/ag ...
to conjure: **what does this c. up in your mind?** – pa ddarlun y mae hwn/hyn yn ei greu yn eich meddwl?; **he/his was a name to c. with in archaeology** – bu ef yn/bu’n flaenllaw/bu’n enw blaenllaw ym myd/maes archaeoleg
connectedness – cysylltiedigrwydd
conscious: **they are c. that ...** – sylweddolant/gwyddant (fod/mai) ...
consciously: **to think c. about ...** – meddwl yn fwriadus am/ynghylch/ynghlŷn â/ag ...
consecutive – o’r bron

consensus – barn gyffredinol, cytundeb cyffredinol

consequence: to be a c. of – deillio o; **he/she is a person of no c.** – nid yw'n neb o bwys; **without any c. to ...** – heb i hynny effeithio ar ..., (=without any **negative c. to ...**) = heb amharu ar

consequent – yn sgil hynny

to consider: they are c.-ed as – fe'u cyfrifir yn; **we c. this to be one of our major strengths** – i ni, dyma un o'n prif gryfderau/cryfderau mawr/pennaf

considerable: they have made (very) c. efforts/put c. effort into – maent wedi ymdrechu'n lew/ddygn/galed i; **quite a c. distance** – bellter ffordd; **a c. volume of ...** – cryn lawer o, ... helaeth

considerably: we shall be investing very c. in ... – byddwn yn/ni'n buddsoddi'n helaeth iawn yn/mewn ...

consideration: to show c. – bod yn ystyriol; **to give c. to ...** – ystyried; **to have under (active) c.** – bod wrthi'n ystyried

considered – ystyrlon, cytbwys; **it is our c. opinion that ...** – credwn yn bendant bod/mai/y(r) ...

to consign: generations of young people were consigned to the scrap(-)heap – condemniwyd cenedlaethau o bobl ifanc i fyw ar y dŵl

to consist: the summary should c. of a prose passage – dylai'r crynodeb fod yn ddarn o ryddiaith; **which c.-s of/ c.-ing of** – sef; **the play c.-s of three acts** – tair act sydd i'r ddrama; **the committee will c. of a chairman and seven members** – bydd i'r pwyllgor/bydd gan y pwyllgor gadeirydd a saith aelod

consistent: to be c. with ... – cyd-fynd â/ag ...

to consolidate – cryfhau

consonant: to be c. with ... – cyd-fynd â/ag ...

conspicuous: c. consumption – ymblesera amlwg (*ar wefan Prifysgol Aberystwyth, ar wefan welsh-termau-cymraeg, 19.10.07, drwy Tim Saunders*)

to constitute: this would c. a change – byddai hyn yn/hynny'n gyfystyr â newid; **this c.-s ...** – dyma ...; **to c. good cause for ...** – golygu bod achos da i ...

constituency – (*nid yn yr ystyr 'etholaeth'*) carfan (?), elfen (mewn cymdeithas); **a wider c.** – cylch/cynulleidfa ehangach

to constrain – cyfyngu ar

constrained – cyfyngus

to consult: to c. advisers – troi at ymgynghorwyr

consultation: in c. with ... – gan ymgynghori â/ag ...

to consume – dihybyddu; **to c. food and drink** – bwyta bwyd ac yfed diod

consummate: a c. musician – cerddor o'i gorun/o'i chorun i'w sawdl; **with c. ease** – yn hynod/eithriadol/rhyfeddol/feistrolgar o rwydd/hwylus, yn rhwydd/hwylus dros ben, yn rhwydd/hwylus i'w ryfeddu

consumption: for internal c. – i'w ddefnyddio'n fewnol; **coal c.** – llosgi glo; **conspicuous c.** – ymblesera amlwg (*ar wefan Prifysgol Aberystwyth, ar wefan welsh-termau-cymraeg, 19.10.07, drwy Tim Saunders*)

contact: without the foot (being) in c. with the floor – heb i'r droed gyffwrdd â'r llawr; **(on any issue,) make your tutor your first point of c.** – (i godi/drafod unrhyw fater,) trowch at eich tiwtor yn gyntaf

to contact: please c. 029 20... – ffoniwch 029 20...

to contain: each class c.-s a group of pupils who ... – ym mhob dosbarth ceir grŵp o ddisgyblion sy'n ...; **every clause the document c.-s** – pob cymal (sydd) yn y ddogfen; **to c. a fire** – cyfyngu tân/ar dân; **it should c.** – dylid rhoi ynddo

contemporaneously: c. and historically – ddoe a heddiw

contemporary – ar y pryd; **in c. life** – heddiw; **c. post()cards** – cardiau post y/o'r cyfnod (hwnnw)/o'r un cyfnod, cardiau post yr/o'r oes honno; **up to the c. era** – hyd (at) (y dydd) heddiw, hyd at yr oes sydd ohoni

contempt: beneath c. – islaw sylw

contented – bodlon (ar) eu byd

contentious: a c. issue – pwnc llosg

coterminous: c. with – â'r un ffiniau/terfynau â/ag; **to be c. with ...** – cydffinio â/ag ... (*gw. neges Alwyn Evans i welsh-termau-cymraeg, 26.11.06*)

contested: this is a hotly c. area – mae hwn (yn faes sydd) wedi ennyn/cyffroi/sbarduno/ysgogi cryn anghytundeb/ anghytuno mawr, mae hwn yn faes y codwyd llawer/llu o amheuan yn ei gylch/y bu cwestiynu mawr/brwd yn ei gylch

to contextualise: provided they are c.-ed appropriately – cyhyd â bod iddynt gyd-destun(au) priodol, cyhyd ag y cânt eu rhoi mewn cyd-destun priodol

contextualised: c. questions – cwestiynau â chyd-destun, cwestiynau ac iddynt gyd-destun, cwestiynau mewn cyd-destun

continental: in c. Europe – ar dir mawr Ewrop

contingency – argyfwng

continually – yn gyson

to continue: to c. to – dal ati i; **the same pattern c.-s into years 4 and 5** – yr un yw'r patrwm ym

mlynnyddoedd 4 a 5; **c. overleaf, if necessary** – cewch ysgrifennu trosodd, os oes/bydd angen; **'I was', he c.-ed, 'going to ...'** – 'yr oeddwn i,' meddai (ef) wedyn/ymhellach, 'yn mynd i ...'

continued: thank you for your c. support for ... – diolch i chi am barhau i gefnogi/gynorthwyo ...

continuing: **c. vigilance** – bod yn gyson wyliadwrus; **the c. work is ...** – mae'r gwaith sy'n dal/parhau i fynd rhagddo/yn ei flaen yn ...; **in the c. absence of an invitation from ... to ...** – gan fod ... yn dal heb gynnig gwahoddiad i ...; **thank you for your c. support for ...** – diolch i chi am barhau i gefnogi/gynorthwyo ...; **in a c. effort to ..., the University is ...** – gan fod y Brifysgol bob amser yn ceisio ..., bydd yn

continuous: **c. writing** – ysgrifen glwm

continuously: **applications will be considered c. until the fund is exhausted** – caiff ceisiadau eu hystyried un/y naill ar ôl y llall tan i'r gronfa gael ei dihysbyddu

contraband – eitemau gwaharddedig

to contract: **to c. a disease** – cael/dal clefyd

contraction: **the c.-s of/in the situation** – elfennau croes y sefyllfa

contradiction: **c.-s** – croestyniadau (?)

contrary: **to be c.** – tynnu'n groes

contrast: **in/by c.** – ar y llaw arall, eto; **in c. to** – yn wahanol i; **(to be/stand) in stark/marked/striking/sharp c. to ...** – bod yn dra gwahanol i, bod yn wahanol iawn i ...

contribution: **... have their c. to make** – mae i ... eu lle; **to make a c. to ...** – bod yn gyfraniad i ...

contributing: **to be a c. factor** – bod yn ffactor perthnasol

to contrive: **to c. to ...** – mynd ati i ...

contrived – (sy'n) dangos ôl straen

control: **c. of** – gafael ar; **to take c.** – cymryd yr awenau; **to lose c.** – colli arnynt eu hunain, colli eu limpin; **to go out of c.** – colli eu limpin; **to act as a c.** – i'w cymharu â hwy

to control: **to be c.-led by ...** – bod o dan reolaeth ...

controlled – graddol, trefnus

controversial: **a c. matter/issue** – pwnc llosg

convenience: **I enclose an envelope for your c.** – amgaeaf amlen i chi ei defnyddio

conventional: **the c. way of ...** – y ffordd arferol o ...

to converge: **thousands will be c.-ing on ...** – bydd miloedd yn heidio i ...

conversant: **to become fully c. with** – ymgysylltyddu'n fanwl/drylwyr/drwyadl â/ag; **to be thoroughly c. with ...** – wedi hen arfer â/ag ...

to converse: **to c. with ...** – dal pen rheswm â/ag ...

conversely – ar y llaw arall

converted: **c. amount** – swm wedi'i drosi, swm o'i drosi, swm newydd, troswyd i (*awgrymiadau i gais Dafydd Lewis ar welsh-termau-cymraeg ar 31.07.07 am gyfieithiad i'w roi mewn blwch*)

to convey: **please c. these to your wife** – rhoewch y rhain i'ch gwraig; **decisions will be c.-ed to you** – cewch wybod (am) y penderfyniadau

convinced: **we are c. that ...** – yr ydym yn gwbl/hollol siŵr/sicr bod/mai/y ...; **they are more c. than ever that ...** – maent yn credu'n fwy pendant nag erioed fod/mai/y(r) ...

convincingly: **to argue c.** – argyhoeddi wrth ddadlau; **they have yet to be dated c.** – nid ydynt wedi'u dyddio'n gwbl bendant eto.hyd yn hyn

conviction: **c. could lead to a fine** – os ceir hwy'n euog, gellir eu dirwyo

cook: **to do a 'C.'s Tour' of ...** – mynd ar daith gyflym/ar wib o amgylch/gwmpas ...

cool: **c. postcards** – cardiau post difyr/hwyliog/da; **keep c.!** – gan bwyll!; **how c. is that?** – da, 'te? *neu* 'na dda, ondife?

to cool: **to c. down** – oeri'n raddol, pwylllo, callio

co-operation – parodrwydd i gydweithredu; **in c. with** – law yn llaw

co-operative – parod i gydweithredu

co-optee – cyfetholai (*eg, ll. cyfetholeion*)

co-ordinator – cydgysylltydd

to cope – dygymod/ymgodymu â; **to c. (with pupils)** – rheoli (disgyblion); **to c. with demands** – ceisio cwrdd â gofynion; **to c. with stress/pressure** – dal y pwysau

copious: **a c. answer** – ateb hirfaith; **c. amounts of water** – digonedd o ddwr

cop: **they're not much c.** – does dim llawer o siâp arnyn nhw

to copy: **to c. a letter to** – anfon copi o lythyr at/i, rhoi/cyflwyno copi i

core: **c. skills** – medrau creiddiol; **a hard c. of irresponsible drivers** – cnewyllyn (y)styfnig o yrwyr anghyfrifol

corner: **winter is just around the c.** – mae'r gaeaf ar ein gwarthaf; **to fight your c.** – sefyll i fyny/ymhladd dros eich safbwynt/drosoch eich (chi'ch) hun(ain), ymladd eich achos; **to fight the c. for Wales** – brwydro dros Gymru

corollary: **with the c. that** – gan gydnabod yr un pryd fod/mai/y

correspondent – llythyrwr(aig)

corresponding: **there was a c. (= similar) desire to ...** -- gwelwyd/cafwyd (bod) awydd tebyg i ...

correspondingly – cymaint â hynny'n; (*ar ddechrau brawddeg*) – ochr yn ochr â hynny

cost: **at all c.-s** – yn ddi-wahân, doed a ddelo; **at no c. to themselves** – (yn rhad ac) am ddim; **at no c. to your business** – heb i'ch busnes dalu dim/orfod talu dim/dalu'r un geiniog/orfod talu'r un geiniog

to cost: it won't c. you a penny – fe'i cewch (ef/hi) yn rhad ac am ddim; **failure to do so will c. you marks** – os methwch (chi) â gwneud hynny, fe gollwch (chi) farciau

coterminosity – bod â'r un ffiniau('n union)/â'r un diriogaeth/tiriogaethau('n union), cyd-derfynaeth (*eb*)

coterminous – â'r un ffiniau('n union), â'r un diriogaeth/tiriogaethau('n union)

to couch: the language we c. it in – yr iaith y byddwn yn ei gyfleu/fynegi ynddi, yr iaith y'i mynegwn ynddicommitments **c.-ed with conditions** – ymrwymïadau ac/sydd ag amodau ynghlwm wrthynt

count: on this c. – yn hyn o beth

to count: just when it c.-s – ar yr adeg dyngedfennol/ar yr adegau tyngedfennol

countdown: career c. – gyrfa ar y gorwel [*ond roedd yn well gan y cwsmer:*] gŵyl yrfaoedd

to countenance – ystyried

counter: as a c. to the argument (that) – fel ateb i'r ddadl

to counter – mynd i'r afael â/ag; **they c. this tendency by ...** – byddant yn ymladd y duedd hon(no) drwy ...; **to c. the financial barriers** – goresgyn y rhwystrau ariannol

counter-argument – gwrth-ddadl *eb* gwrth-ddadleuon

counter-intuitive – gwrth-reddfol, gwrthreddfol, yn groes i reddf dyn/rhywun

counterpart: c.-s – cymrodryr

countless – llond gwlad o

county-wide – sirol, ledled y sir

to couple: this is c.-ed with the expectation that ... – ynghyd â hynny, disgwylir bod/mai ... *neu* ynghyd â hynny, y disgwyl yw bod/y bydd/mai/y(r) ...

courage: to summon up enough c. to ... – magu digon o blwg i ...

course: as a matter of c. – yn ddigwestiwn, fel rhan o'r drefn, wrth gwrs; **we no longer accept this decline as a matter of c.** – nid ydym/ni fyddwn yn derbyn bod y dirywiad hwn yn/hwnnw'n anochel, nid ydym/ni fyddwn yn derbyn y dirywiad hwn yn/hwnnw'n ddigwestiwn; **in c. of preparation** – ar y gweill; **in the c. of their work** – wrth (iddynt) wneud eu gwaith; **c. of study** – cwrs astudio; **c. of action** – dull gweithredu; **the best c. of action** – y peth gorau i'w wneud; **a sensible c. of action** – cam(au) doeth/trefn ddoeth, ffordd ddoeth o weithredu; **the only reasonable c. is to ...** – yr unig beth rhesymol i'w wneud yw; **the Board may adopt either of the following c.-s of action** – gall/caiff y Bwrdd wneud y naill neu'r llall o'r canlynol; **by following this c. of action** – drwy wneud hyn(ny); **they are absolutely positive that this is the c. of action they wish to follow** – maent yn gwbl bendant mai dyma y dymunant ei wneud; **why did you choose this (particular) c. of action?** – pam y dewisoch chi wneud hynny/weithredu fel y gwnaethoch chi?; **over/during the c. of the project** – yn ystod y prosiect; **the c. of events** – yr hyn a ddigwyddodd/a fydd yn digwydd/sy'n digwydd (ar hyn o bryd); **in due c.** – maes o law; **during the c. of this Parliament** – yn ystod oes y Senedd hon; **if you feel your career has run its c.** – os teimlwch fod eich gyrfa'n sefyll/troi yn ei hunfan; **to be on c.** – (bod yn) dilyn y llwybr/trywydd cywir/iawn; **to stay the c.** – dal ati hyd/tan y diwedd

court: C. of Estrays – y Siêd Ddefaid (*gw. Crwydro Gorllewin Dinbych, td 100*)

to cover – gwasanaethu (*Carolyn Iorwerth, welsh-termau-cymraeg, 18.06.08*), bod yn gyfrifol am (*Xxxxx Xxxx, welsh-termau-cymraeg, 18?.06.08*), cwmpasu, cynnwys, astudio (pwnc), trafod, ymdrin â/ag ..., ymwneud â/ag ..., rhoi sylw i ...; **activities c.-ed by ...** – gweithgareddau (sydd/a fydd/ a oedd) i'w cyflawni/gwneud gan ...; **they will c. the whole of Wales** – byddant yn gweithredu ledled Cymru; **to be c.-ed by ...** – dod o dan ...; **an essay which c.-ed 12 pages** – traethawd a lanwodd 12 tudalen, traethawd 12-tudalen, traethawd (sy'n) 12 tudalen o hyd; **to c. the costs** – talu'r costau; **regulations c.-ing ...** – rheoliadau ynghylch/ynghlân â/ag ...; **the post is to c. for staff absence** – diben y swydd yw llenwi bwlch oherwydd absenoldeb (ymhlith y) staff/am fod (y) staff/rhai o'r staff yn absennol; **these repayments will only c. the minimum wage** – ni fydd yr ad-daliadau hyn(ny) ond yn cyfateb i'r isafswm/i daliadau'r isafswm cyflog

coverage – ymdriniaeth; **what c. and depth of treatment is intended** – y bwriad o ran hyd a lled a dyfnder yr ymdriniaeth; **our geographical c.** – ein cwmpas daearyddol

covering: the c. envelope – y brif amlen; **c. letter** – llythyr cyflwyno

covert – cudd

to crack: to c. up – colli pwyll/synhwyrau/arnynt eu hunain, drysu'n lân; **to c. on with the work** – bwrw ymlaen â'r gwaith, mynd ati i wneud y gwaith; **we're (really) c.-ing on with this work** – rydyn ni'n tasgu drwy'r gwaith (hwn/ma); **to c. down on ...** – cwtogi'n llym ar ...; **a challenge they are keen to c. on with** – her/ sialens y maent yn awyddus i fynd i'r afael â hi

cracking – godidog, rhagorol, arbennig o dda; **a c. game** – chwip o gêm (*Nia Wyn Edwards, 02.09.10*)

crafted: her carefully c. crafted letters – saerniaeth ofalus ei llythyrau

to crash – mynd i'r gwellt, (*in a game = to lose badly*) cael crasfa

to crave: to c. attention – dyheu/ysu am (gael) sylw

crazy: to be c. about ... – dwlu ar ...

credit: I'm capable of (doing) more than I gave myself c. for – gallaf wneud mwy nag y tybiwn/nag a dybiwn/nag y credwn/nag roeddwn i'n tybio/credu; **she has three books to her c.** – mae ganddi dri llyfr i'w henw, mae'n/mae hi'n awdur tri llyfr, mae hi wedi ysgrifennu tri llyfr

creditable: they have made c. efforts to ... – maent wedi ymdrechu'n lew i ...

creep: independence c. – graddol lithro/llithro'n raddol i (*negyddol*: bydew/felltith/enbydrwydd/bla/uffern/diflastod; *cadarnhaol*: oleuni/ryddid/odidogrwydd) annibyniaeth (*trafodaeth ar welsh-termiau-cymraeg ar 19.09.07*)

cremator – amlosgydd

crippling: c. poverty – tlodi affwysol

crisis: c. of meaning – argyfwng gwacter ystyr; **the system was in c.** – yr oedd yn/hi'n argyfwng ar y system/ gyfundrefn, yr oedd y system/gyfundrefn yn wynebu argyfwng

criss-crossed: a country c. by rivers and canals – gwlad sy'n frith o afonydd a chamlesi

critical – argyfyngus, hanfodol/allweddol bwysig, hollbwysig, o'r pwys pennaf; **to be of c. importance/to be very c.** – bod yn allweddol/hanfodol bwysig; **nothing of c. importance** – dim byd o anfeidrol bwys; **a c. mass of ...** – digon o ..., nifer dda/fawr o ...; **to be (very) c. of ...** – beirniadu ... (yn hallt)

critically: c., ... – yn bwysicach na dim, yr hyn sy'n hanfodol (bwysig)/sy'n allweddol bwysig yw bod

to criticise: to be (severely) c.-ed – bod o dan yr ordd

to critique – pwysu a mesur

crop: the next c. of students – y to nesaf o fyfyrwyr

to crop: a problem which has c.-ped up – problem sydd wedi codi ei phen

cross: to be c. with them – bod yn ddig/grac wrthynt, rhoi pryd o dafod iddynt

to cross: to c. out ... – rhoi llinell drwy ...

cross-curricular – trawsgwricwlaidd

cross-curricularity – trawsgwricwledd

cross-disciplinary – trawsdidgyblaethol

crossphase: c. issues – materion sy'n rhychwantu'r cynradd a'r uwchradd

to cross-reference – trawsgyfeirio

crotchety – pigog

crowd: to stand out from the c. – bod yn wahanol i bawb arall

to crowd – llwytho

crucial – allweddol; **c. to the development of ... is ...** – yr elfen hollbwysig wrth ddatblygu/feithrin ... yw ...

crucially: this depends c. on ... – mae hyn yn dibynnu, uwchlaw pob dim/yn bennaf oll, ar ...; **c., they need to ...** – (y) pwynt hollbwysig yw bod angen iddynt ...

crude: in c. terms – a siarad yn fras, mewn gair

to crumble – cwmpo/syrthio'n ddarnau

crunch: c. point – pwynt tyngedfennol

to crush: to c. the trade unions – chwalu'r undebau llafur, malu'r undebau llafur yn rhacs

cry: this is a far c. from ... – mae hwn/hyn yn wahanol iawn i

to cry: to c. wolf – codi bwganod; **to c. (out) in pain** – gwichian gan boen

crystal: c. clear – cwbl/hollol glir, fel hoel ar bost; **one does not need a c. ball to see that ...** – does dim angen bod yn (rhyw lawer o/fawr o) ddewin/broffwyd i weld bod/mai/y(r) ..., does dim angen llawer o grebwyll i weld bod/mai/y(r) ..., does dim angen bod yn graff/yn rhyw graff iawn i weld bod/mai/y(r) ...

cue: right on c. – ar y gair, i'r eiliad

cuff: off the c. – ffwrdd â hi

to cull – dileu; **information c.-ed from** – gwybodaeth a loffwyd o

culminating: c. in a ... – ac ymlaen (yn y pen draw) at/i ..., gan arwain ymlaen (yn y pen draw) at/i ..., gan esgor (yn y pen draw) ar ...

culmination – uchafbwynt, ffrwyth, penllanw; **to mark the c. of ...** – (bod) yn ffrwyth ...; **the c. of this experience is ...** – ffrwyth yr holl brofiad hwn(nw) yw ...

cultish – cwltaidd

cultural : c. shift – newid agwedd (ledled y sefydliad), newid yn meddylfryd (y sefydliad)

culture – meddylfryd; **to change the c.** – newid (yr holl) ffordd o feddwl **a c. shock** – sioc i'r system; **c. vulture** – diwyllgi

cumbersome – gorgymhleth; **less c.** – mwy hwylus

cumulative: their effect will be incremental and c. – bydd eu heffaith yn cynyddu ac yn cronni

to curate – curaduro [*gw. welsh-termiau-cymraeg, 2002*]

curiously – yn rhyfedd iawn

to curl: to c. up with our prejudices – anwylo'n rhagfarnau, porthi'n rhagfarnau

currency: during the c. of ... – tra bydd ... ar waith/mewn grym; **how to ensure the c., accuracy and reliability of information** – sut i/mae sicrhau bod gwybodaeth yn gyfoes/gyfredol, yn gywir ac yn ddibynadwy (*David Bullock, welsh-termiau-cymraeg, 02.10.02*)

current: c. issues – materion y dydd; **a c. rumour is that** – mae si ar led bod/mai/y

currently: c. being prepared – ar y gweill

curricular: c. continuity – parhad yn y cwricwlwm

curriculum: pastoral c. – rhaglen fugeiliol

cursory: a c. half page of – cwta hanner tudalen o

curve: c. stitching – pwytho cromlin; **steep learning c.** – dysgu'n gyflym/sydyn, dysgu llawer mewn dim o dro
(*gw.welsh-termau-cymraeg, 28.11.01*)

curving – ar dro

to cushion: to c. a blow – lliniaru ergyd

cusp: to be on the c. of change – bod ynghanol/ynghanol newidiadau

customary: it is c. to – yr arfer yw; **with its c. concentration on** – gan ganolbwyntio, yn ôl ei arfer, ar

customer: our c. research – ymchwil ymhlith/ymysg ein cwsmeriaid

customised: c. training – hyfforddiant pwrpasol

cut: a short c. – ffordd fer; (= *torri pethau allan*) chwyniad; **the c. and thrust of debate** – y trin a'r trafod mewn dadl, yr ymryson mewn dadl

to cut: they have c. a whole scene – maent wedi hepgor golygfa gyfan; **to c. one's coat according to one's cloth** –

llunio'r wadn fel y bo'r droed; **they had their work c. out there** – yr oedd ganddynt dalcen caled yno; **to c. by**

half – haneru; **he wasn't c. out to be a martyr** – doedd dim defnydd merthyr ynddo

cutaway – trychiadol

cytoskeleton – cytosgerbwd (*eg*), cytosgerbydau [Y Biowyddorau]

cutout: newspaper c.-s – torion o bapur(au) newydd

cutting: to be at the c. edge – bod ar y blaen, bod ar flaen y gad (o ran)

cutting-edge: c. technology – y dechnoleg ddiweddaraf (un), y dechnoleg fwyaf arloesol

daily – o ddydd i ddydd

damaging: to be d. to their reputation – (bod yn) gwneud drwg i'w henw da

to dampen: without d.-ing the creation of new jobs – heb amharu ar greu swyddi, heb lesteirio/rwystro creu swyddi

danger: they are in d. of falling – mae perygl y byddant yn syrthio/y syrthiant/mai syrthio wnân nhw

to dare: I d. say! – digon posib(l)!

dark: after d. – wedi nos; **to get/become d.-er** – tywyllu; **to make a colour d.-er** – tywyllu lliw; **by then it was d.** – erbyn hynny yr oedd hi wedi nosi; **to be in the d. about something** – gwybod (fawr o d)dim am rywbeth

darkness: hours of d. – oriau'r nos, wedi nos

darling: you're a (real) (little) d.! – rwy'ti'n werth y byd!

dash – gorwahannod (*Elwyn Davies, Cyfarwyddiadau i Awduron, Gwasg y Brifysgol, 195x*), llinell fer (*gw. tt122-124 yn y Golygiadur gan Rhiannon Ifans, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, 2006*); **a d. for growth** – ehangu mawr (a chyflym)

date: to d. – (*yn y gorffennol* =) hyd/tan hynny; **d. (by which it is) to be handed in** – i'w gyflwyno/i'w chyflwyno erbyn ...; **at a later d.** – yn ddiweddarach; **this can be completed at a later d.** – gellir/mae modd cwblhau hwn rywbryd/rywdro eto

to date: to d. from ... – mynd yn ôl i ...

dated – hen; **due to their d. content** – oherwydd henaint eu cynnwys

daunting – ... trech ..., beichus, trafferthus, braidd yn frawychus; **to be a d. task** – bod yn dipyn o waith/dasg/ broblem/gamp, bod yn dasg go frawychus

to dawdle – gweithio'n linc-di-lonc

dawn: a false d. – addewid gwag, ni thorrodd y wawr (honno), nid dyna fu/a gafwyd, nid felly y bu, nid felly fu, chwalwyd y gobeithion, ni wireddwyd y freuddwyd, camargraff/twyll ydoedd, siom a gafwyd; **since the d. of time** – ers dechrau amser, erioed

day: the Vice-Chancellor of the d. – yr Is-Ganghellor ar y pryd; **in this d. and age** – erbyn heddiw, yn y byd sydd ohoni; **d. in d. out** – Sul, gŵyl a gwaith neu drwy'r dydd, bob dydd; **in their d.** – yn eu cyfnod hwy; **to return another d.** – dychwelyd rywdro eto; **the d.-s are long gone when ...** – ffarweliwyd ers tro (byd) â'r) sefyllfa lle/(â'r)ag oes pan ..., mae'r oes pan ... wedi hen ddarhod/ddirwyn i ben/beidio

to de-accessionize – dad-dderbyn (*ar wefannau'r Llyfrgell Genedlaethol a Cyngor Wrecsam, 09.09.08*)

dead: to be d. set on winning – bod yn awyddus iawn/dros be i ennill, bod yn ysu am gael ennill, bod â'i bryd ar ennill; **a d. end** – trywydd diffwrth; **to head down a d. end** – (gweithredu) yn gwbl ofer/ddi-fudd, dilyn trywydd diffwrth

dead-end: a d. job – swydd ddi-ddyfodol/ddisbonc/ddiddim/ceiniog a dimai, gwaith di-ddyfodol/disbonc/diddim/ ceiniog a dimai

deadline – terfyn amser; **when's the d. for this?** – erbyn pryd y mae hwn i fod yn barod?, erbyn pryd y mae'n rhaid i hwn fod yn barod?; **by the d. provided/indicated** – erbyn y dyddiad/yr amser/yr adeg a nodir/nodwyd

deal: a great d. of – swmp/cryn lawer; **a good d. of** – llawer o; **they respect her a great d.** – mae ganddynt feddwl mawr ohoni

to deal: this is d.-t with in – rhoir sylw i hwn(nw)/hyn(ny) yn/mewn, caiff hwn(nw)/hyn(ny) sylw yn/mewn; **the book d.-s with ...** – pwnc/testun y llyfr yw ...; **to deal: to d. with someone** – cosbi rhywun; **this is dealt with more fully in ...** – manylir/ymhelaethir ar hyn mewn/yn ...

dear: the values they hold d. – y gwerthoedd y maent yn eu coleddu/harddel

death: these subjects have been done to d. – mae'r pynciau hyn(ny) wedi'u trafod/gwyntyllu hyd (at) syrffed

debatable: that's d. – mater o farn (yw hynny)

to debate: to d. the role of ... – ceisio canfod/dirnad rôl ...

debilitating: d. tension – tensiwn niweidiol; **the d. effects of ...** – effeithiau llethol ...

debriefing – ôl-drafodaeth, ôl-drafod, cyflwyno adroddiad, rhoi/cyflwyno'r ffeithiau, trafod y ffeithiau, disgrifio'r sefyllfa, trafod y sefyllfa

to decatastrophise – dad-drychinebu

deceased – a fu farw

decent: d. housing – tai teilwng

decision: d. time (*anogaeth mewn hysbyseb*) – daeth yr awr (*Sian Ithel, 03.03.04*)

decisive: this vote will be d. – y bleidlais hon fydd yn torri'r ddadl

decisiveness – gweithredu'n bendant

to declare: all ... must be d.-ed to the ... – rhaid hysbysu'r... o bob ..., rhaid rhoi gwybod i'r ... am bob ...

declared: the d. strategy was – y strategaeth a arddelid oedd

decline: in d. – ar drai; **their popularity was in d.** – yr oeddent yn llai a llai poblogaidd

to decline – edwino, crebachu; **contacts have d.-ed** – prinhau wnaeth y cysylltiadau, mae'r cysylltiadau wedi prinhau; **their popularity was d.-ing** – yr oeddent yn llai a llai poblogaidd

decoding – adnabod llythrennau, darllen

decontextualised – di-gyd-destun

to decrease: the turmoil d.-ed – distewodd y cynnwrf/cythrwl, peidiodd y cynnwrf/cythrwl o dipyn i beth
to dedicate: an evening d.-ed to – noson a neilltuir/neilltuwyd i; **to d. time to** – rhoi (o'ch) amser i, neilltuo amser i
dedicated: a d. network – rhwydwaith pwrpasol; **a website d. to supporting ...** – gwefan sy'n bodoli'n unswydd i gynorthwyo/helpu/gefnogi ...; **an inscription d. to ...** – arysgrif i ...; **a facility d. to the needs of ...** – cyfleuster a ddarperir/a godwyd yn unswydd i ateb/ddiwallu anghenion ...

to deduce: to d. meaning from – dyfalu ystyr o
to deem – credu, cyfrif

deep: d. underground – ym mherfeddion y ddaear; **deep d.** – ym mêr eu hesgyrn, yn y bôn; **with d. regret** – gyda gofid mawr; **d. cuts** – toriadau mawr(ion); **I developed a d.-er interest in the subject** – ymddiddorais fwy a mwy yn y pwnc

deeply: to be d. embedded in ... – bod â'u gwreiddiau'n ddwfn yn/mewn ...; **to be d. involved in/with ...** – ymwneud llawer iawn â/ag ...; **we are d. in their debt/we are d. indebted to them** – yr ydym yn ddyledus iawn/dros ben iddynt

default: in d. of which ... – (ac) o'r herwydd ...; **by d.** – drwy amryfusedd, yn ddamweiniol (?); **this situation has arisen by d. rather than by design** – mae'r sefyllfa hon(no) wedi codi/datblygu ohoni'i hun yn hytrach nag o fwriad *neu* ohoni'i hun, yn hytrach nag o fwriad, y mae'r sefyllfa hon wedi codi/datblygu; **don't slip into it by d. because you can't think of anything else to do** – peidiwch â llithro (i mewn) iddo am na allwch chi ddim (â) meddwl am ddim byd arall i'w wneud

to defeat – bod yn drech na(g) ...
defeatist: to become d. – gwangalonni
defence: the first line of d. – yr amddiffyniad yn y lle cyntaf (*Nia Humphreys, 24.04.14*)
defiance: in d. – yn herfeiddiol
deficient: to be found d. – eu cael yn brin
defined: this pattern is tightly d. – mae patrwm pendant iawn i'r gwaith hwn, mae i'r gwaith hwn batrwm pendant iawn
definitely: the only thing known d. about this is ... – yr unig beth a wyddom i sicrwydd am hwn/hyn yw ...; **this is an opportunity d. not to be missed** – dyma gyfle na ddylid ei golli/na ddylech (chi) ei/mo'i golli am bris yn y byd
defining: d. characteristic – nodwedd ddiamheuol
definition: by d. – wrth reswm, oherwydd ei natur
definitive: d. stamps – stampiau diffiniol; **to be d.** – rhagori ar bob un/bawb arall
to deflect: to d. an accusation – ochrgamu cyhuddiad
defunct: the ... was now d. – yr oedd oes y ... bellach ar ben, yr oedd oes y ... ar ben erbyn hynny
to defuse: to d. a situation – tawelu'r dyfroedd, tynnu'r colyn o sefyllfa, tawelu sefyllfa, lleddfu drwgdeimlad/tensiwn/tyndra, cael gwared ar ddrwgdeimlad/densiwn/dyndra
to defy – bod yn drech na; **to d. expectations** – rhagori ar y disgwyliadau; **her son had defied all the odds to remain alive** – yr oedd ei mab yn dal (i fod) yn fyw/ar dir y byw/wedi goroesi er gwaethaf popeth/serch pob dim
to degrade: without d.-ing the image quality – heb amharu ar ansawdd y ddelwedd/darlun/llun
degree – peth; **the/this/that d. of flexibility** – yr hyblygrwydd hwnnw; **with any d. of thoroughness** – yn drylwyr o gwbl; **it is unusual to see this d. of detail** – anghyffredin yw gweld cymaint (â hyn) o fanylder/fanylu; **the d. of self-discipline required** – (maint) yr hunan-ddisgyblaeth a fynnir/y mae ei hangen; **to some d.** – yn lled-; **a comment on the d. to which** – sylw sy'n nodi/disgrifio i ba raddau (y mae); **d. of satisfaction with** – pa mor fodlon yr ydynt/yr oeddent/y byddant ar; **without this d. of specificity** – heb fanylu fel hyn/cymaint â hyn; **this shows the d. of threat** – mae hwn/hyn/hynny'n dangos hyd a lled/maint y bygythiad/pa mor ddifrifol yw'r bygythiad; **a small d. of** – ychydig o; **to develop a d. of knowledge which/that enables them to ...** – datblygu digon o wybodaeth iddynt allu ...; **a high d. of certainty** – gyda chryn llawer/llawer iawn o sicrwydd

dehydrated: you may become d. – efallai y bydd eich corff yn colli gormod o ddŵr
delay: with the minimum of d. – yn ddi-oed
to delay: don't d. – ewch ati'n syth/ar unwaith/yn ddiymdroi; **without d.-ing other items of mail** – heb beri oedi i eitemau eraill yn y post
delegate: (conference) d.-s – cynadleddwyr
deleterious: to have a d. effect on – amharu ar
deliberation: with sufficient d. – yn ddigon bwriadus
deliberative: d. committee – pwyllgor trafod
delicacy: d. (of design) – ceinder
delight – pleser o'r mwyaf
delighted: they were d. – pleser o'r mwyaf (iddynt) oedd ..., fe'u pleswyd yn fawr; **to be d. that** – bod yn falch dros ben (o glywed/o weld/o gael ar ddeall) bod/mai
to deliver: to d. the goods – bodystal â'u gair; **to d. a better future** – sicrhau gwell dyfodol; **to d. positive returns** – esgor ar ganlyniadau cadarnhaol; **the Government has d.-ed on its promises** – mae'r Llywodraeth wedi cadw'i haddewidion/wedi cyflawni ei haddewidion, mae'r Llywodraeth wedi cadw at ei gair; **to d. results** – dwyn ffrwyth; **D.-ing the Connections** – Cyflawni'r Cysylltiadau [Y Cynulliad]

deliverable: a d. policy – polisi y gellir/y mae modd/y mae'n (ymarferol) bosibl ei gyflawni/weithredu, polisi ymarferol (bosibl)

delivery: allow xx days for d. – caniatewch xx diwrnod iddo'ch/iddi'ch/iddynt eich cyrraedd

delusion – breuddwyd gwrach wrth ei hewyllys

to delve: questions you'd love to d. into – cwestiynau yr ydych chi'n awyddus iawn i fynd ar eu trywydd, cwestiynau yr hoffech (chi) yn fawr fynd ar eu trywydd; **research that d.-s deeper into these problems** – ymchwil sy'n treiddio'n ddyfnach i'r problemau hyn(ny)

demand: back by popular d. – yn ôl/unwaith eto – ar gais y miloedd/y bobl, ar gais y cyhoedd (*Annes Gruffydd, welsh-termau-cymraeg, 13.06.03*); **due to p. demand** – am/gan fod cymaint o alw/gan gymaint y galw, mae/yr oedd/bu/cafwyd cymaint o alw (amdano/amdani/amdanynt)/cymaint o fynd arno/arni/arnynt nes ...; **without making any d.-s on the body** – heb drethu'r corff (o gwbl);

to demand: this d.-s ... – oherwydd hyn(ny), rhaid ...; **to d. action** – mynnu bod camau/y camau priodol yn cael eu cymryd

demanding: yn gofyn llawer (ganddynt); **highly d.** – yn gofyn llawer iawn ganddynt; **the d. nature of the reading material** – anhawster y deunydd darllen; **to be more d.** – bod yn fwy anodd/yn fwy o faich; **(to be) excessively d.** – (bod) yn gofyn llawer gormod

to demarcate: to use punctuation to d. sentences – defnyddio atalnodi i wahanu brawddegau

to demean – diraddio, iselhau

demeaning – braidd yn sarhaus

demise – terfynu; **the d. of these courses is imminent** – mae'r cyrsiau hyn ar fin darfod/cael eu dileu, mae oes y cyrsiau hyn ar fin dod i ben; **despite the d. of ...** – er i ... ddarfod amdanynt; **in the face of the imminent d. of the South Wales collieries** – am/gan fod pyllau glo'r De ar fin cau

to demolish – dryllio

to demonstrate: this d.-es our commitment to ... – mae hyn/hwn yn brawf o'n hymrwymiad i ...

demonstrably: a d. better foundation – cadarnach sylfaen; **d. inconsistent** – amlwg anghyson; **this individual is d. capable of ...** – mae modd/gellir dangos bod yr unigolyn hwn yn gallu ...

demonstration: a d. of – yn amlygu

to demoralise – llethu ysbryd

demoralising – (sy'n) peri digalondid, (sy'n) arwain at golli hyder

to demotivate – digalonni, diysgogi, dad-symbylu, di-symbylu (*cynigion Catrin Alun ar welsh-termau-cymraeg ar 07.10.05 yw'r ddau olaf*)

demotivated – digalon, wedi colli'r awydd/ysfa/cymhelliad (i weithio) neu wedi colli eu hawch am waith/i weithio (*trafodaeth ar welsh-termau-cymraeg, 07.10.05*), di-symbyliad (*cynnig Catrin Alun ar welsh-termau-cymraeg, 07.10.05*)

demotivation – digalondid, diysgogiad (*cynnig Catrin Alun ar welsh-termau-cymraeg, 07.10.05*)

demotivating – yn amharu ar gymhelliant; **totally/utterly d.** – yn lladd/pylu/mygu/llethu (pob) cymhelliant

demountable: d. classrooms – cabanau (symudol)

to demystify – egluro, chwalu natur anghyffwrdd ...; **to d. the arts** – dod â'r celfyddydau'n nes at y bobl; **composing d.-ied** – chwalu dirgelion cyfansoddi

den: a notorious d. of iniquity – canolfan pob/i bob math o drythyllwch

dendrophone – dendroffon

to denigrate – wfftio, bychanu, dilorni

denominator: the common d. is that ... – yr elfen/hyn (sy'n) gyffredin yw (bod/mai) ...

to dentil – deintellu (*bathwyd 19.06.03*)

dentilled – wedi'i (d)deintellu, wedi'u deintellu (*bathwyd 19.06.03*)

to deny: to d. them the right to – eu hamddifadu o'r hawl i; **a service which would otherwise be d.-ied to many villages** – gwasanaeth na fyddai ar gael, fel arall, i lawer pentref; **to d. permission** – gwrthod rhoi caniatâd, gwrthod caniatáu

to depart: they have d.-ed from the usual arrangement – maent wedi ymwrthod/ymwadu â'r drefn arferol/wedi anwybyddu'r drefn arferol/wedi penderfynu peidio â dilyn y drefn arferol

departure: this is a radical d. from ... – mae hyn yn dra gwahanol i ...; **any d. from ...** – unrhyw achos o beidio/ymwrthod â/ag ...; **any d. from current practice** – unrhyw droi cefn ar yr arferion presennol; **a new d. for ...** – cam/datblygiad newydd yn hanes ...

dependent: d. on demand – os oedd/byddai/oes/bydd digon o alw

depending: d. on demand – os oedd/byddai/oes/bydd digon o alw; **d. on the nature of** – yn ôl natur

deplorable – gwarthus, ofnadwy

depleted: the senior staff were d. in number – yr oedd nifer y staff uwch/hyn wedi gostwng

to deploy – defnyddio, rhoi ar waith; **to d. strategies** – arfer strategaethau, rhoi strategaethau ar waith

deployment: staff d. – y modd y defnyddir/gosodir (y) staff

depressing – heb fod yn codi calon (dyn)

depressingly: it's a d. sad fact that ... – mwy trist na thristwch yw bod/mai ...

depth: in d. – yn fanwl [gw. hefyd o dan **in-depth**]; **to a greater d.** – yn fanylach; **d. of information** – manylder y wybodaeth; **to go into greater d.** – manylu mwy ar

deranged: to become (mentally) d. – colli arnynt eu hunain

derecognise- datgydnabod (*David Bullock, welsh-termau-cymraeg, 06.03.03*)

derelict – llwm ei fyd/ei byd/eu byd/ei (g)wedd/eu gwedd; **d. land** – tir diffaith

to derive: greater advantage could be d.-ed from – gellid manteisio mwy ar; **we can d. a contribution from ...** – gallwn (ni) sicrhau cyfraniad gan ...

to describe – cwmpasu; **in this paper you will find d.-ed the characteristics of ...** – yn y papur hwn cewch ddisgrifiad o nodweddion ...

desertscape: anialdirwedd (*eb*)

to deserve: what they d.(-ed) – eu haeddiant

designate: director(-) d. – darpar gyfarwyddwr(aig)

to designate – neilltuo ... yn

designed: d. to – sy'n ceisio/anelu at

desirable – mae angen, i'w chwennych; **this was particularly d.** – yr oedd mawr angen (gwneud) hyn(ny)

desire – ysfa

to desire – deisyfu, crefu/ysu am; **to leave something to be d.-ed when compared with** – heb fod llawn cystal â

desired – dymunol; **your d. outcome** – y canlyniad yr hoffech (chi) ei weld

despair – digalondid

to despair – digalonni

desperate: they are (really) d. – mae hi wedi mynd i'r pen arnynt; **to be d. for a pet** – awchu/ysu am gael anifail anwes; **they are d. to avoid ...** – maent yn awyddus iawn/dros ben i osgoi ..., fe wnânt unrhyw beth i osgoi ...

desperately: d. poor – (yn) enbyd o dlawd, tlawd/yn dlawd fel llygod(en) eglwys; **it's a d. sad fact that ...** – mwy trist na thristwch yw bod/mai ...; **they d. want to ...** – maent yn boenus o awyddus i ...

desperation: out of d. – am nad oedd unrhyw beth arall y gallai (ef/hi)/gallent (hwy) ei wneud, yn niffyg unrhyw ddewis arall, am nad oedd (ganddo/ganddi/ganddynt) unrhyw ddewis/obaith arall

despicable – gwarthus

to despise – wfftio

despite: d. its importance – er pwysiced/mor bwysig ydyw/(yd)oedd (ef/hi)/yw/oedd/fu/fydd ef/hi

destination: far-off d.-s – pellafoedd byd

to destroy – dryllio

destroyed – drylliedig

detached – mewn gwaed oer

detail: in considerable d. – yn bur fanwl; ; **in considerable d., you have demonstrated ...** – drwy fanylu cryn dipyn, yr ydych wedi dangos ...; **to go into (greater) d.** – manylu (ymhellach) ar; **they talk in generalities rather than in specific d.** – maent/byddant yn cyffredinol yn hytrach nag yn manylu; **it gives no d. of/about ...** – nid yw'n manylu ar/ynghylch/ynglŷn a/ag ...; **it gives no d. of/about ...** – nid yw'n manylu ar/ynghylch/ ynglŷn a/ag ...; **in considerable d., you have demonstrated ...** – drwy fanylu cryn dipyn, yr ydych wedi dangos ...; **some more (specific) d. about ...** – rhywfaint/tipyn o fanylu ar/ynghylch/ynglŷn â/ag ..., peth manylu ar/ ynghylch/ynglŷn â/ag ...

to detail – nodi, rhoi/nodi manylion, disgrifio

detailed: the d. nature of ... – manylder y(r) ..., pa mor fanwl yw ...; **detailed: to provide a d. account of ...** – manylu ar ...

to detect – gweld; **to d. a note of** – (meddwl/credu eu bod yn) clywed tinc

detectable – hyd y gellir gweld, y gellir ei/eu (g)weld

to deter: lest they d. attendance by ... – rhag iddynt beri i ... gadw draw

to deteriorate – (*am iechyd*) gwaelu

determination – awydd pendant/penderfynol/mawr/angerddol, dyhead mawr/angerddol; **they had considered the reasons for his d. to ...** – yr oeddent wedi ystyried pam y mae/yr oedd (ef) mor benderfynol o ...; **a matter for local d.** – mater i'w benderfynu'n lleol, mater y dylid penderfynu arno'n lleol

to determine – nodi

determined: a d. effort – ymdrech lew; **they were very d.** – doedd dim troi arny'n nhw

determining: the d. factors – y ffactorau pwysicaf

deterrent: the magazine's reputation for ... is a d. to contributors – mae enw (drwg) y cylchgrawn am ... yn digalonni cyfranwyr

to detract: to d. (attention) from ... – tynnu sylw oddi ar ..., cymylu ...

detriment: to the d. of ... – ar draul ..., tra bo ... yn dioddef, (bod yn) andwyol i, amharu ar; **without d. to** – heb amharu ar

detrimental – andwyol; **to be d. to/to have a d. effect on** – amharu ar

to devastate – amharu'n ddifrifol ar, gwneud drwg/niwed mawr/dychrynlyd/ofnadwy i; **they were d.-ed by the tragedy** – fe'u lloriwyd/cawsant eu llorio gan y drychineb

devastating – enbyd, arswydus; **d. experiences** – profiad ysgytwol/ysgytiol; **d. consequences** – canlyniadau dychrynlyd
devastation – difrod dychrynlyd/ofnadwy

to develop – meithrin; **they are d.-ing an interest in** – maent wedi dechrau ymddiddori yn/mewn; **to d. out of** – deillio o; **it d.-ed into something worse** – trodd yn rhywbeth gwaeth

developing: to show the d. historical understanding of the individual – amlygu'r/dangos y datblygiad yn nealltwriaeth hanesyddol yr unigolyn

development – twf; **under d.** – ar y gweill

deviant: d. tendencies – tueddiadau anffodus

deviation: if there is a d. of/by more than 10% on either side of the limit – os bydd ef 10% yn fwy neu'n llai na hynny

device: they are left to their own d.-s to produce the work – gadewir iddynt gynhyrchu'r gwaith o'u pen a'u pastwn eu hunain; **students are left too much to their own d.-s** – rhaid i'r myfyrwyr ddygymod/ymdopi orau y gallant – yn ormodol felly; **(if) left to their own d.-s** – o'u gadael yn llonydd, o beidio â'u cyfarwyddo, o beidio â rhoi cyfarwyddyd iddynt

to devise: to d. terms – bathu termau

devising: of their own d. – o'u pen a'u pastwn eu hunain

devoid: land d. of ... – tir/gwlad sydd heb (unrhyw) (i'w gael/i'w chael/i'w cael), tir/gwlad lle nad oes (unrhyw) ... (i'w gael/i'w chael/i'w cael)

to devote: to d. time to – treulio; **to d. the will to** – plygu'r ewyllys i; **the work is d.-ed to completing ...** – mae'r gwaith yn canolbwyntio ar ...; **they have d.-ed a large amount of effort to ...** – maent wedi bod wrthi'n (egniol/ddyfal/weithgar) yn ...

to diagnose – ceisio canfod; **they are more likely to be d.-ed as having the disease** – maent yn fwy tebyg(ol) o gael diagnosis bod y clefyd arnynt

to dial: D.-a-ride – Galw a Theithio (*dyma'r cyfieithiad y mae Sir Gaerfyrddin yn ei ddefnyddio, yn ôl ymateb Llŷr Evans i gais gan Sioned Edge ar welsh-termau-cymraeg, 11-12.08.08*)

diary: d. marker – dyddiad i'w nodi

to dictate – pennu; **the size of the rooms d.-s the number of staff that can work in them** – mae maint yr ystafelloedd yn cyfyngu ar nifer y staff a all weithio/sy'n gallu gweithio ynddynt; **to be d.-ed to** – bod ar drugaredd; **reason d.-s that we act with caution** – pwyll piau hi; **conditions may d. that we must go** – gall (yr) amodau olygu bod rhaid i ni fynd

diction – geirio

to die: they were dying to go home – yr oeddent ar dân (o) eisiau/yn ysu am gael mynd adref

dielectrics – deuelectreg (*eb*)

to differ – peidio â chyfateb; **the cost will d. for every organisation** – bydd y gost yn amrywio o sefydliad i sefydliad/o gorff i gorff/o fudiad i fudiad

difference: although there are slight d.-s between A and B – er nad yw A a B yn union debyg

different: widely d. purposes – dibenion amrywiol iawn; **they are no d.** – maent yr un mor (+ *ans.*)

to differentiate: they wish to d. (= show that they can do better than others) themselves further by ... – dymunant/hoffent ragori ymhellach drwy .../maent yn dymuno rhagori ymhellach drwy/maent yn awyddus i ragori ymhellach drwy ...

differently – mewn ffordd wahanol

differing: widely d. purposes – dibenion amrywiol iawn

difficult: what is d. is to ... – y gamp yw ...; **the most d. part is starting/getting started** – deuparth gwaith ei ddechrau; **I found it d. to go there/going there was d. for me** – yr oedd yn dipyn o dreth arnaf i fynd yno, yr oedd mynd yno'n dipyn o dreth arnaf

difficulty: with no apparent d. – yn ddigon diffwdan; **the d. is ...** – y gamp yw ...; **to experience d.** – cael trafferth; **it is with no little d. that** – nid ar chwarae bach y mae; **to get into serious financial d.-ies** – mynd i ddyfroedd ariannol dyfnion; **to face d.-ies in investing ...** – ei chael hi'n anodd buddsoddi yn/mewn ...

to digest: to d. the contents of ... – ymglyfarwyddo â chynnwys ...; **to have d.-ed the contents of ...** – bod yn gyfarwydd â chynnwys ...

to dilute – amharu ar, glastwreiddio; **to ensure that the main messages of the report are not d.-ed by a mass of detail** – sicrhau na chaiff prif negeseuon yr adroddiad eu boddi/llurgunio gan bentwr/lwyth o fanylion, sicrhau nad yw gor-fanylu'n llethu/pylu prif negeseuon yr adroddiad

diluted – glastwraidd

dimension: but not of such d.-s that ... – ond nid i gymaint graddau nes ...

to diminish – pylu; **to d. in quality** – gostwng (o ran) safon/ansawdd

Diocletian – Diocletaidd (http://www.ggat.org.uk/historic%20landscapes/Blaenavon/Cymraeg/Blaenavon_018_cym.htm, *cyrchwyd 10.03.08*)

to dip: a book to d. into – llyfr i bori ynddo (o dro i dro/o bryd i'w gilydd)

direct: NHS D. – Galw Iechyd Cymru

to direct: to d. at/towards – anelu at

direction – trywydd; **this booklet is designed to point you in the right d.** – cynlluniwyd y llyfryn hwn i'ch gosod/rhoi ar ben y ffordd, cynlluniwyd y llyfryn hwn i fod yn ganllaw i chi

directly: the pwynt should be made d. that – dylid gwneud y pwynt yn glir/blaen bod/mai/y/nad, dylid ei gwneud yn bendant glir (a diamwys); ar eu hunion

dirt: d. cheap – ffiaidd o rad

disadvantage: to cause women financial d. – peri i fenywod/ferched ddioddef yn ariannol/fod ar eu colled

to disadvantage – amharu ar ...

disadvantaged: to be d. – (bod) ar eu colled

to disallow – peidio â chaniatáu; **to d. a penalty that/which has been imposed** – dileu cosb sydd wedi'i gosod/rhoi

to disappear – darfod o'r tir

to disassociate: to d. oneself from ... – ymddieithrio oddi wrth ...

to discard – rhoi o'r neilltu

discernible: to be d. – amlygu, gellir gweld i'w (g)weld, fe'i gwelir, hyd y gellir gweld, hyd y gallaf/gallwn (ni)/gallant weld

discharge: the Secretary will not be a member of the Committee for the d. of this item – ni fydd yr Ysgrifennydd yn aelod o'r Pwyllgor ar gyfer ymdrin/pan ymdrinnir â'r eitem hon

discomfort – anniddigrwydd

to disconcert – taflu (rhywun) oddi ar ei echel, digalonni; **people may be d.-ed by this change** – gall y newid hwn darfu ar bobl

disconcerting – anfoddhaol

disconsolate – fel iâr ar y glaw

discontinuous – digyswllt (?)

to discount: to d. suggestions – difrio/diarddel/gwrthod/gwadu/gwrthod credu/gwrthod, derbyn/anwybyddu/ anghofio awgrymiadau, rhoi syniadau o'r neilltu

to discourage: to d. teachers from – tueddu i rwystro athrawon rhag, peri i athrawon ymgadw/ymatal rhag; **to d. weeds** – atal/rhwystro/llesteirio chwyn (rhag tyfu); **to d. poor behaviour** – annog y plant/disgyblion/myfyrwyr/pobl i beidio ag ymddwyn yn wael

discouraged: to feel d. – (bod wedi) digalonni, bod wedi'u llethu

discourtesy – diffyg cwrteisi

to discover: now you can d. for yourself how to – dewch i chi gael gweld sut mae ..., ewch ati'n awr i weld sut mae ...; **d. more about ...** – i gael gwybod rhagor am ..., cewch wybod rhagor drwy, i wybod rhagor drwy ...

discredited: d. theories – damcaniaethau y gwelwyd/dangoswyd/profwyd nad oes fawr o sail/nad oes dim sail/gwerth iddynt, damcaniaethau a danseiliwyd

discreet: d. ring – canu'n dawel/canu tawel/caniad tawel, canu grwndi (*am ffôn*) (*ymateb i gais Dafydd Lewis ar welsh-termau-cymraeg ar 0.08.08*)

discrete – annibynnol; **to be a d. area** – bod yn faes/bwnc ynddo'i hun; **they are not wholly d.** – nid ydynt yn gwbl annibynnol ar ei gilydd

discretion: to have d. to ... – bod yn rhydd i ...; **at the d. of ...** – mater i'r ... benderfynu arno/ei bennu yw a ddylid/ddylent/a ydynt yn dymuno ..., caiff y ... benderfynu a ddylid/ddylent/a ydynt yn dymuno ..., caiff y ... bennu ...mae'r ... yn rhydd i benderfynu a ddylid/ddylent/a ydynt yn dymuno ..., mae'r ... yn rhydd i bennu ...

to discriminate: the right not to be d.-ed against – yr hawl i neb (gael g)wahaniaethu yn dy erbyn/eich erbyn/eu herbyn

discrimination: a sense of d. – chwaeth; **with d.** – yn chwaethus/gelfydd; **to improve aural d.** – rhoi min ar glust

discursive: d. essay – traethodau sy'n trin a thrafod; **d. essay writing** – traethodau trafod, traethodau sy'n trin a thrafod

discussion: the questions that/which are/will be under d. – y cwestiynau a drafodir; **the questions that/ which were be under d.** – y cwestiynau a drafodwyd

to disempower – dwyn grym oddi ar

disenchanted: to be d. with ... – colli ffydd yn/mewn

to disengage – cilio, troi cefn ar,

disengaged: d. young people – pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio [?], pobl ifanc anfoddog [*Muiris Mag Ualghairg, welsh-termau-cymraeg, 7.11.01*]

disengagement: gradual d. from – ymryddhau'n raddol rhag, ymwrthod yn raddol â/ag ..., troi cefn yn raddol ar ...

to disentangle: this enables us to d. what is happening – mae hyn yn/hynny'n fodd i ni ganfod beth yn union sy'n digwydd

to disestablish – dadsefydlu (*dyma'r term yn y Geiriadur Mawr, ond nid yw wedi'i gynnwys yng Ngeiriadur yr Academi*)

disgrace: their French is a d. – mae eu Ffrangeg yn goch

disgraceful: their French is d. – mae eu Ffrangeg yn goch ryfeddol

to disgust: it d.-s me – mae'n troi arnaf

disillusioned: to become d. with ... – colli ffydd yn/mewn ...

disincentive – (yn) llesteirio; **to be a major d.** – peidio ag apelio (atynt) o gwbl

disjointed – tameidiog

dislike: likes and d.-s – hoffterau a chasbethau

to dislike: they are d.-ed – nid oes fawr o hoffter ohonynt, nid oes fawr o gariad tuag atynt, nid oes fawr o neb/does neb yn eu hoffi; **I (really) d.-ed going there** – arswydw'n rhag mynd yno

to dismiss: to d. an offer – cau'r drws ar/i gynnig; **don't d. the offer out of hand** – paid/peidiwch â diystyru'r cynnig heb feddwl/yn ddifeddwl

to disparage – lladd ar ...

disparate – amrywiol

disparity – amrywiaeth

to dispense: your services might be d.-ed with – gellid terfynu'ch gwasanaeth

dispirited – â'u pen yn eu plu

display: a d. of hatred – mynegiant o gasineb

to display: to d. care – arfer gofal; **to d. a great willingness to ...** – bod yn barod iawn i ...

disposal: the money at my d. – yr arian sydd ar gael i mi/sydd gennyf (i'w wario); **to put at the d. of** – rhoi at wasanaeth; **to decide on the s. of failed students** – penderfynu ar yr hyn y dylid ei wneud yn achos myfyrwyr sydd wedi methu

to dispose: they are d.-ed to – maent fel petaent am; **let us d. of an urban myth** – gadewch i ni daro cred ddi-sail yn ei thalcen [*welsh-termau-cymraeg, 03.09.03*], gadewch i ni chwalu cred ddi-sail

dispute: their importance is not in d. – nid gwadu/amau eu pwysigrwydd yr ywf/yr ydym a wnaf/wnawn/wneir; **the matter in d.** – y mater y mae anghydfod/anghyd-weld amdano/yn ei gylch, y mater sy'n destun/bwnc (yr) anghydfod/anghyd-weld

disrepair: they were allowed to fall into d. – gadawyd i'w cyflwr ddirywio('n dost/arw/dost), yr oedd eu cyflwr (erbyn hyn(ny)/bellach) yn ddigon adfydus/truenus

disrepute: to fall into d. – ennill enw drwg

to disrupt – (bod yn) anystywallt

disruptive: to be d. – tarfu, (bod yn) anystywallt

to dissent: to d. from ... – dadlau â'r ...

to dissipate: to become d.-ed – pylu

dissociated: d. from experience – y tu allan i gyd-destun profiad, heb gysylltiad â phrofiad

to dissuade: they could not be d.-ed – doedd dim troi arny'n nhw

distance: d. learning – dysgu o bell; **at a greater d.** – ymhellach i ffwrdd; **to travel a long d.** – teithio ymhell; **to win by a d.** – ennill o hewl/o (gryn) dipyn; **to be within spitting d. of ...** – bod o fewn ergyd carreg i ...

distant: a d. paradise – man gwyn(,) man draw

to distil – crisialu

distinct: these, as d. from those in the previous column, must be moved ... – rhaid i'r rhain, yn wahanol i'r rhai yn y golofn flaenorol, gael eu symud

distinction: of some d. – go/pur arbennig; **to make a d. between** – gwahaniaethu rhwng; **there is no clear d. between** – nid oes ffin bendant rhwng; **to serve with d.** – gwasanaethu'n rhagorol/ardderchog, rhoi gwasanaeth rhagorol/ardderchog; **the following d. needs to be drawn** – mae angen gwahaniaethu (rhyngddynt) fel hyn/fel a ganlyn; **to d. a clear distinction between** – gwahaniaethu'n glir rhwng; **to d. an important distinction between** – nodi gwahaniaeth pwysig rhwng

distinctive – gwahanol, trawiadol

to distinguish – dynodi'r gwahaniaeth

to distract: you should not be d.-ed from this focus – ni ddylech golli golwg ar y canolbwynt hwn(nw)

distraction – eilbeth; **we view this as a d.** – peth dibwys yw hwn/hyn i ni, nid yw hwn/hyn o ryw bwys mawr i ni, ni roddwn fawr o bwys ar hwn/hyn; **this is a d. they can do without** – fydd hwn/hyn yn/hynny'n ddim help (o gwbl) iddyn nhw/ddim yn eu helpu i ganolbwyntio

distressing: it is most d. for you and for us if you go to attend the wrong ceremony – bydd hi'n/yn ofid (mawr) i chi ac i ni os ewch chi i'r seremoni anghywir

to disturb: I am in a meeting. Please do not d. – Yr wyf mewn cyfarfod. Peidiwch â thorri ar ei draws/ein traws; **please do not d.** – llonydd, os gwelwch yn dda (*Meleri Hughes, welsh-termau-cymraeg, 02.09.03*)

to dither – methu penderfynu/methu â phenderfynu, cloffi rhwng dau feddwl, bod mewn cyfyng-gyngor

divergent: hugely d. interests – diddordebau amrywiol iawn/dros ben

diversification – arallgyfeirio

to diversify: here the courses d. – yma, mae'r/bydd y cyrsiau'n mynd i wahanol gyfeiriadau, dyma lle (y) bydd y cyrsiau'n mynd i wahanol gyfeiriadau

divide: bridging the academic and vocational d. – pontio('r bwlch) rhwng yr academiaidd a'r galwedigaethol

to divide: the course is d.-ed into three parts – mae tair rhan i'r cwrs

dividend: to pay d.-s – dwyn ffrwyth; **to pay rich/huge d.-s** – talu ar ei ganfed

divinely: a d. inspired artist – artist sydd wedi'i ysbrydoli/a ysbrydolir gan Dduw, artist ag ysbrydoliaeth ddwyfol

division – ffin; **a d. of opinion** – gwahaniaeth barn; **this d. of expenditure is shown in ...** – dangosir gwahanol elfennau'r gwariant hwn yn /mewn ...

divisive: likely to be d. – yn debyg(ol) o greu rhaniadau

to divorce: they are often d.-ed from one another – maent yn aml ar wahân i'w gilydd; **to be d.-ed from** – bod heb gysylltiad â

to do: as does – a(c felly) hefyd; **to (have to) do with ...** – ymwneud â/ag ...; **they always stay the same, or do they?** – maent bob amser yr un fath, ond tybed?; **this has less to do with ... and more to do with ...** – mae hyn yn/hynny'n ymwneud nid yn gymaint â ... ond â ...; **they are done for** – mae hi wedi canu/ar ben arnynt; **after all is said and done** – wedi'r cyfan; **to do well** – cael hwyl arni; **do call** – galwa, da ti neu galwch, da chi, cofia/cofiwch alw; **they could do with a holiday** – gwnâi gwyliau fyd o les iddynt; **that's what animals do** – dyna natur anifeiliaid; **well done to them all!** – llongyfarchiadau i bob un ohonynt!; **when only the best will do** – pan fydd rhaid cael y goreuon (*dyfynnwyd ar welsh-termau-cymraeg gan David Bullock, 11.03.08*)

do: do's and don't's – cynghorion (ynghylch/ynghlŷn â/ag ...), gair i gall, pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud/a phethau i beidio â'u gwneud; **do's, don'ts** (*fel penawdau*)– cofiwch (wneud hyn)(:), gwnewch hyn(:), peidiwch (â gwneud hyn)(:), gair i gall, da/call/doeth a dwl, call a hanner call

to document – cofnodi

dog: it's a d.'s life – does dim blas byw

to dog: A is d.-ged by B – mae B yn bla ar A

dominant – mwyaf blaenllaw; **they are very/highly d. in the market** – mae ganddynt gyfran fawr (iawn)/enfawr o'r farchnad

to dominate – gorymyrryd, rheoli, bod yn brif elfen/yn elfen amlycaf yn/ mewn ...; **this year's work was d.-ed by ...** – prif elfen y gwaith eleni oedd ..., prif elfen gwaith y flwyddyn oedd ...; **the car d.-s the street** – y car yw'r peth amlycaf yn y stryd; **to d. your way of thinking** – bod yn ddylanwad pennaf/yn brif ddylanwad ar eich ffordd o feddwl/eich meddylfryd, bod yn drech na phob ystyriaeth arall yn eich meddwl, (bod yn) llethu pob ystyriaeth arall yn eich meddwl; **writing the dissertation will d. your summer** – bydd llunio'ch / ysgrifennu'ch traethawd hir yn llenwi'ch haf/yn llyncu'ch haf/cymryd eich haf i gyd, fe dreuliwch chi'ch haf i gyd/chi'r haf cyfan yn llunio'ch/yn ysgrifennu'ch traethawd hir

dominated: with the market (so) heavily d. by ... – am/gan fod/oherwydd bod ... â chyfran mor enfawr/mor aruthrol (fawr)/mor (eithriadol o) helaeth/mor llethol o'r farchnad

domestically: to compete d. and internationally – cystadlu gartref/yma/yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor

to dominate: the archaeological record was d.-ed by these structures – yr oedd y cofnod archaeolegol yn frith o'r adeiladweithiau hyn(ny), yr oedd y cofnod archaeolegol yn cynnwys mwy o'r adeiladweithiau hyn(ny) nag o'r un (math) arall

dominating – llywodraethol

done: half-d. – ar eu hanner

donkey: I haven't seen them for d.'s years – dwi ddim wedi eu gweld nhw ers amser maith; mae blynnyddoedd (maith/mawr) ers i mi eu gweld hwy (ddiwethaf)

don't: dos and d.-s – gair i gall, pethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud/a phethau i beidio â'u gwneud, gair i gall, da/doeth a dwl, call a hanner call, cofiwch/peidiwch

doom: d. and gloom – gofid a gwae

doomed: they are d.-ed – mae hi wedi canu arnynt; **it is not d.** – nid yw dranc yn anochel; **this plan is d. to fail** – mae'n fwy na thebyg mai methu (a) wnaiff y cynllun (hwn(nw))/mai methu fydd hanes y cynllun (hwn(nw)), mae'r cynllun (hwn yn/hwnnw'n) siŵr o fethu, mae'r cynllun (hwn yn/hwnnw'n) rhwym o fethu, (yn) siŵr i chi)

doorstep – tafell drwchus o fara

dose: we're going through this work like a d. of salts – rydyn ni'n tasgu drwy'r gwaith (hwn/ma)

dotted: d. through the year – yn awr ac yn y man ar hyd y flwyddyn

double: to see d. – gweld dau o bob peth/o bobeth

to double: the cinema d.-s as a lecture theatre – mae'r sinema hefyd yn ddarlithfa, defnyddir y sinema'n ddarlithfa, mae hi'n sinema ac yn ddarlithfa; **schools should d. up as community centres** – dylai ysgolion fod hefyd yn ganolfannau cymunedol

double-edged: email communication is something of a d. sword – mae i gyfathrebu drwy e-bost ei anfanteision yn ogystal â'i fanteision

double-quick: we're doing with this work in d. time – rydyn ni'n tasgu drwy'r gwaith (hwn/ma)

doubt: without (a) d., ... – nid oes dwywaith nad (oes/yw etc) ..., heb os nac oni bai; **... is in d.** – mae ... yn y fantol; **in d.** – yn amheus; **there is d. about their future** – mae ansicrwydd ynghlŷn â'u dyfodol; **they were in no d. that ...** – yr oeddent yn (gwbl) bendant (eu barn) mai/fod ...; **this leaves us in no d. about/that ...** – mae hyn yn/hynny'n dangos yn glir i ni fod ..., mae hyn yn/hynny'n dileu pob amheuaeth (sydd gennym) ynghylch/bod ...

doubtless – mae'n siŵr, nid oes dwywaith (nad)

to dovetail – addasu, cyd-fynd yn union â/ag ..., bod yn unol â/ag ...

down: to be blown d. – cael eu chwythu i'r llawr; **to cool d.** – oeri'n raddol, oeri graddol; **when they are d.** – pan fyddant yn eu gwendid; **deep d.** – yn y bôn, ym mêr eu hesgyrn; **looking back d. the years** – o/wrth edrych yn ôl dros ysgwydd/ar hyd y blynnyddoedd; **just a few miles d. the road** – ymhen ychydig filltiroedd, cyn pen dim;

others are just d. the road – mae eraill (i'w cael) yn gyfleus (o agos); **d. the generations** – o genhedlaeth i genhedlaeth

downside – gwendid(au)/diffyg(ion) yn/mewn; **the d. of this analysis is ...** – y newyddion drwg/llai calonogol o'r dadansoddiad hwn(nw) yw ..., ochr dywyll y dadansoddiad hwn(nw) yw ...

downswing: that's when there are d. in the local economy – dyna pryd y mae'r/pryd y bydd yr economi lleol yn crebachu

downturn: that's when there are d. in the local economy – dyna pryd y mae'r/pryd y bydd yr economi lleol yn crebachu

downward – o'r brig i'r bôn; **d. spiral** – cylch cythreulig; **the d. trend** – y duedd i'r ffigurau ostwng

drab – di-fflach, diflas

draconian – llethol, arswydus, eithafol, gormesol, caeth

to drag: I d.-ged you here – fi fynnod dy fod ti'n/eich bod chi'n dod yma

drain: to be a d. on – bod yn faich ar; **the economy has gone downthe d.** – mae'r economi wedi mynd i'r gors

to drain: their satisfaction d.-ed away – pylodd eu bodlonrwydd, pylu wnaeth eu bodlonrwydd

drained: they were physically and emotionally/mentally d. – yr oeddent wedi blino/ymlâdd, gorff ac enaid

dramatic: those seeking such a d. a change of s. – y rhai sy'n chwilio am gymaint o newid byd; **to have a d. effect on ...** – cael effaith ysgytwol ar ...; **it underwent d. alterations** – newidiwyd llawer iawn (iawn) arno/arni, fe'i gweddnewidiwyd/trawsnewidiwyd

dramatically: to improve something d. – gwella rhywbeth yn aruthrol; **this d. enhances our knowledge of ...** – mae hyn yn/hynny'n cyfoethogi llawer (iawn) ar ein gwybodaeth o/am/ynghylch/ynghlân â/ag ..., mae hyn yn/ hynny'n ychwanegu llawer (iawn) at ein gwybodaeth o/am/ynghylch/ynghlân â/ag ...; **its appearance was changed d.** – newidiwyd llawer iawn (iawn) ar ei (g)olwg/ei bryd a'i wedd/ei phryd a'i gwedd, gweddnewidiwyd/trawsnewidiwyd yr olwg (a oedd) arno/arni

drastic: to be in need of d. overhaul – mae angen chwynnu'n arw arnynt, mae angen eu hailwampio'n llwyr

drastically: to reduce ... d. – cwtogi'n fawr (iawn)/aruthrol ar ...; **this can d. alter your ...** – gall hyn(ny) newid llawer iawn ar eich .../gall hyn(ny) drawsnewid eich ...

to draw: to d. closer/nearer to – closio at; **to d. out** – amlygu, crisialu; **to d. out particular features in the work** – tynnu sylw at nodweddion penodol yn y gwaith; **to d. to a close** – dirwyn i ben; **to d. a lesson from** – dysgu gwers oddi wrth; **to d. a response** – ennyn ymateb; **we were drawn to the idea** – apeliodd y syniad atom, cydiodd y syniad ynom; **the following distinction needs to be d.-n** – mae angen gwahaniaethu (rhyngddynt) fel hyn/fel a ganlyn; **to d. a clear distinction between** – gwahaniaethu'n glir rhwng; **to d. an important distinction between** – nodi gwahaniaeth pwysig rhwng; **to d. an activity more closely into the curriculum** – plethu gweithgaredd yn fwy i'r cwricwlwm; **as the year drew to a close** – wrth i'r flwyddyn ddirwyn/ddod i ben; **please d. out in explicit ways the progress being made** – manylwch ar y cynnydd sy'n cael ei wneud; **they drew strength from ...** – calondid/hwb iddynt oedd ...; **they drew encouragement from the report** – teimlent fod yr adroddiad yn galondid/yn (rhoi) hwb iddynt/yn eu calonogi

drawback: to be a major d. – llesteirio ... yn ddifrifol

drawn: a d. record – cofnod lluniadol (?)

dreadful: their French is d. – mae eu Ffrangeg yn goch ryfeddol; **a d. thing** – cythraul/diawl o beth

dream: the job of my d.-s/my d. job – fy swydd ddelfrydol; **a d. holiday** – gwyliau gwyh

drift – diffyg cyfeiriad; **the d. of the conversation** – cyfeiriad y drafodaeth, y cyfeiriad y mae'r/yr oedd y/y bydd y drafodaeth yn mynd iddo; **to get the d. of the conversation before deciding to ...** – sylwi ar gyfeiriad y drafodaeth cyn penderfynu ..., gweld i ba gyfeiriad y mae'r/yr oedd y/y bydd y drafodaeth yn mynd cyn penderfynu ..., aros i weld i ba gyfeiriad y mae/yr oedd y/y bydd y gwynt yn chwythu cyn penderfynu ...

to drift: to d. away – cilio, crwydro

drink: we serve d.-s not drunks – llymeitwyr llon - dim meddwon (*awgrym Meleri H Hughes ar welsh-termau-cymraeg, 20.03.08*)

drink-up: they couldn't organise a d. in a brewery – allen nhw ddim trefnu'r peth symlaf/mwyaf elfennol, does dim siâp o gwbl arnyn nhw

drive: in the d. to – yn yr ymdrech/ymgais i

to drive: to d. home the message that ... – cael pobl i sylweddoli mai/bod ..., **to d. home the point** – cyfleu'r pwynt yn glir/fyw iawn; **to d. forward a strategy** – gwthio strategaeth yn ei blaen, bwrw ymlaen â strategaeth; **to d. through change** – gyrru/gwthio newidiadau yn eu blaen, gweithredu/ysgogi/symbylu newidiadau, bwrw ymlaen â newidiadau

driven: a history-d. topic – topig sy'n canolbwyntio ar hanes; **formula-d.** – seiliedig-ar-fformwla; **target-d.** – a thargedau'n nod iddynt/ganddynt, yn anelu/cyrchu at dargedau, sy'n seiliedig ar dargedau/ar gyrraedd targedau, targedau sy'n gyrru'r ... (yn eu blaen); **a targed set by the Government and d.-n by expenditure pressures** – targed a bennir/bennwyd gan y Llywodraeth yng ngoleuni'r/yn sgil y pwysau ar wariant/i wario

driver: to use science as a d. of economic growth – defnyddio gwyddoniaeth i sbarduno/ysgogi twf economaidd/twf yr economi

driving: this will be the d. force behind the campaign – hwn/hyn(ny) fydd yn ysgogi'r ymgyrch; **to be in the d. seat** – bod wrth y llyw; **a d. ambition** – uchelgais gref/fawr

to drop: to d. out – cilio, ymgilio; **the figure has d.-ped to five** – mae'r ffigur wedi gostwng i bump

drunk: we serve drinks not d.-s – llymeitwyr llon - dim meddwon (*awgrym Meleri H Hughes ar welsh-termau-cymraeg, 20.03.08*)

dry: a 'd. run' viva – ffug arholiad llafar

to dry: to d. up – sychu'n grimp/llwyr

to dual – deuoli; **to d. the A470** – troi'r A470 yn ffordd ddeuol

to duck: we don't d. difficult choices – ni fyddwn ni'n/fyddwn ni ddim yn ochrgamu dewisiadau anodd, ni fyddwn ni'n/fyddwn ni ddim yn osgoi gwneud dewisiadau anodd

due: in d. course – maes o law, yn y man; **to fall d.** – sydd i'w talu, sy'n daladwy; **the third week before your baby is d.** – y drydedd wythnos cyn (yr un) y disgwylir i'ch baban gyrraedd; **d. allowance has to be made for ...** – rhaid caniatáu'n briodol ar gyfer ...; **assessors whose accreditation is d. for renewal** – aseswyr y mae eu harchediad ar fin dod i ben ac i gael ei adnewyddu; **d. to ...** – am/gan fod ..., yn deillio o ..., bod wrth wraidd ..., yn codi o ...; **d. mainly to ...** – yn bennaf am fod ...; **this is largely d. to ...** – i raddau helaeth gellir priodoli hyn(ny) i .../mae hynny i raddau helaeth i'w briodoli i ...; **in the event of their being lost d. to the fault of ...** – os digwydd iddynt fynd ar goll/gael eu colli a bod ... ar fai; **they are d. to be completed by ...** – disgwylir iddynt gael eu cwblhau erbyn ...; **they regard this as their d.** – maent yn credu eu bod yn haeddu hyn(ny)

dull – disbonc; **very d.** – anniddorol tost

to dupe – twyllo

durability – hirhoedledd

duration – o hyd, (*ei hepgor*); **of short d.** – byr(hoedlog); **for a limited d.** – am gyfnod cyfyngedig; **for the (entire) d. of** – ar hyd; **for the d. of the project** – tra bydd y/bu'r prosiect ar waith/yn parhau, drwy gydol y prosiect; **for the d. of the exclusion period** – tra bydd cyfnod y gwaharddiad yn parhau; **for the d. of their course** – tra byddant yn dilyn y/eu cwrs

during – adeg; **d. their work on** – wrth iddynt weithio ar; **d. the process of obtaining consent** – wrth geisio cael/sicrhau caniatâd/cydsyniad

dusting: a light d. of snow – haen denau o eira, yr ychydig eira ar y tir

duty: d. of confidence – dyletswydd i barchu cyfrinachedd

to dwarf – bod yn llawer mwy na(g), bod yn fwy o lawer na(g)

to dwindle: their number(s) d.-ed – prinhau a wnaethant, prinhau fu eu hanes

dynamism – bywiogrwydd

dynamogism – dynamogaeth (*eb*)

dysfluency – camruglder

dysmorphic – dysmorffig (*ans*)

eagerly: it is e. awaited – mae disgwyl mawr amdano/amdani

ear: a word in your e. – gair i gall

early: at the e.-iest – o leiaf; **an e. reply** – ateb buan; **in the e. hours** – yn yr oriau mân; **to make an e. start/start (off) e.** – cychwyn ben bore; **at the e.-iest opportunity** – cyn gynted â phosibl; **in the e. eighteenth century** – ym mlynnyddoedd cynnar y ddeunawfed ganrif

earlier: e., ... – cyn hynny, ...

earnestly: they e. hope that ... – eu gobaith didwyll yw bod/mai/y(r)...

earth: E. Sciences – Gwyddorau'r Ddaear; **planet E.** – y blaned hon, planed y Ddaear; **what on e.?** – beth yn y byd mawr?, beth ar ddaear las?; **to promise the e.** – addo môr a mynydd; **we don't promise the e.** – nid ydym yn addo cyflawni gwyrthiau

ease: to put them at their e. – gwneud iddynt deimlo'n dawl eu meddwl/yn gatrefol/yn gysurus/yn gyffyrddus

to ease – hwyluso

easily – yn ddifffwdan, heb fawr o drafferth; **to be e. obtained** – (bod) ar gael/i'w cael yn hwylus; **e. accessible** – hwylus; **this does not come e.** [amrywiad ar y Saesneg yng *Ngeiriadur yr Academi*] – nid ar chwarae bach y gwneir hyn(ny)

easy – didrafferth, diffwdan; **less e.** – mwy anodd; **it is no e. task/undertaking/matter to ...** – nid ar chwarae bach y mae ...; **e. to use** – hwylus; **within e. reach** – o fewn cyrraedd hwylus; **winning an election is not e.** – nid ar chwarae bach y mae ennill etholiad; **no(t an) e. (thing) to do!** – tipyn o dasg!; **they will not rest e. until ...** – ni fyddant yn fodlon tan/nes i/y(r)

easy-to-use – hwylus

to eat: to e. together – cydfwyta

echo-free – diatsain

to eclipse: to e. the record of ... – bod yn uwch/drech na'r record o ..., curo'r record o ...

economic: in e. terms – mewn termau ariannol, (a siarad) yn nhermau arian; **it was beyond e. repair** – yr oedd (ef) yn/hi'n rhy ddrud/gostus i'w (h)atgyweirio, byddai ei (h)atgyweirio'n costio gormod/yn ormod o gost, fe gostiai ormod i'w (h)atgyweirio, gwastraff arian fyddai ei (h)atgyweirio

economical: it may be even more e. to ... – gallwch/gellir arbed rhagor o arian drwy ...

economy: in the interests of e. – rhag bod yn wastraffus/afradus; **it is a false e. to try to save time in this instance** – camgymeriad/ffolineb yw ceisio arbed amser yn yr achos hwn

edge: information technology has become a critical e. in managing services – mae technoleg gwybodaeth wedi datblygu'n arf hanfodol o ran rheoli/wrth reoli gwasanaethau; **to give their members a competitive e.** – rhoi/gosod eu haelodau ar y blaen yn gystadleuol; **a competitive e.** – mantais gystadleuol; **to approach a task with a competitive e.** – ymagweddu'n gystadleuol/gystadleugar at dasg; **to maintain a competitive e.** – dal i fod ar y blaen; **to be at the leading e. (of)** – bod ar y blaen, bod ar flaen y gad (o ran); **Direct Mail delivers the e.** – mae'r Post Uniongyrchol yn eich rhoi chi ar y blaen; **to give your company a/the leading e.** – rhoi eich cwmni ar y blaen; **I was on the e. of my seat to register for it** – roeddwn i'n ysu am gael cofrestru i'w gael/i'w chael/ar ei gyfer/ar ei chyfer, roeddwn i ar dân (o) eisiau cofrestru i'w gael/i'w chael/ar ei gyfer/ar ei chyfer

edifying: the Welsh figures make less than e. reading – mae ffigurau Cymru/mae'r ffigurau am Gymru yn llai na boddhaol, dydy ffigurau Cymru/ffigurau am Gymru ddim yn rhyw foddhaol iawn, braidd yn druenus yw ffigurau Cymru/yw'r ffigurau am Gymru

education: science e. – addysg wyddonol; **to be in e.** – bod yn/wrthi'n cael addysg

effect: to good e. – yn gelfydd, yn fanteisiol, yn effeithiol; **to better e.** – yn fwy celfydd; **to the best e.** – manteisio i'r eithaf ar, er sicrhau'r lles/budd pennaf, ar eu gorau; **to great e.** – yn effeithiol/drawiadol/llwyddiannus iawn; **to little e.** – heb (gael) fawr o lwyddiant; **to come into/have e.** – dod i rym; **to bring/put into e.** – gweithredu; **to the/that e.** – i'r perwyl (hwnnw); **in e.** – effaith hynny yw; **to have a 'magnet' e.** – gweithredu fel magnet; **a suggestion to the e. that ...** – awgrym *neu* sef ...; awgrymu; **to such e. that** – cymaint nes, i gymaint graddau nes; **to put limited resources to the maximum e.** – cael y budd pennaf o(r) adnoddau cyfyngedig; **this had the e. of** – effaith hyn(ny) oedd/fu; **with immediate e.** – ar unwaith; **a paragraph to the e. that ...** – paragraff i ddweud bod/mai/y(r); **to (the) best e.** – gan/er(mwyn) sicrhau'r effaith orau; **to have a positive e. on their confidence** – rhoi hwb i'w hyder

to effect: to e. improvements – sicrhau gwelliannau; **to e. delivery** – (sicrhau) dosbarthu

effectively – ac felly('n) ...

efficacy – effeithiolrwydd, gweithredu'n effeithiol

effort: e.-s are being made to – ceisir; **they made every e. to** – gwnaethant eu gorau glas i; **to put so much e. into ... as they do** – ymdrechu cymaint â hwy/ag y gwnânt hwy; **this can be done with minimum e.** – gellir gwneud hyn(ny) yn ddiddrafferth; **they are inspired to make the e. by ...** – fe'u hysbrydolir i fwrw ati('n ddygn/o ddifrif) gan ...

effrontery: to have the e. to – bod â digon o wyneb i

either: e. way (*ar ddechrau brawddeg*) – beth bynnag (yw'r/oedd y/fydd y sefyllfa)

elaborate – cywrain

to elapse: once/after a year had e.-ed – ymhen blwyddyn

elastohydrodynamic – elastohydrodynamig (*ans*) [Peirianeg]

electrolaryngography – electrolaryngograffeg

electropalatography – electropalatograffeg

electrophysiology – electroffisioleg (*eb*) [Meddygaeth]

elegant – cywrain

element: an e. of – rhywfaint o; **there is no e. of competition in** – nid oes unrhyw gystadlu yn/mewn

to elicit: to e. from – cael gan, cael ... i ...; **to e. attention** – denu/dal sylw; **to e. the improper influence of ...** – galw ar ddylanwad amhriodol ..., mynd ar ofyn (rhywun) i arfer ei (d)dylanwad (yn) amhriodol, gofyn i (rywun) arfer ei (d)dylanwad (yn) amhriodol, ceisio cael (rhywun) i arfer dylanwad amhriodol, ceisio cael gan (rywun) arfer dylanwad amhriodol; **to e. the purpose of ...** – (ceisio) darganfod (beth yw/oedd/fydd)/canfod diben ..., holi/trafod er mwyn (ceisio) darganfod (beth yw/oedd/fydd) diben

elicitation: e. phase – cyfnod darganfod

eligible: e. to ... – ar dir i ...

elite: e. sportsmen – y mabolgampwyr gorau un/oll/o'r cyfan/o'r cwbl, mabolgampwyr o'r radd flaenaf (un); **e. techniques** – y technegau gorau (un)

else: if nothing e, ... (*ar ddechrau brawddeg*) – yn un peth, ...; **more a matter of ... than anything else** – yn fater o .. yn fwy na dim; **how e.?** – yma mha ffordd arall/ffyrdd eraill?, pa ffordd arall/ffyrdd eraill sydd o ...?

elsewhere – mewn mannau eraill, mewn rhannau eraill o'r wlad/byd; **e. in Wales** – mewn mannau eraill yng Nghymru, mewn rhannau eraill o Gymru; **in Wales and e.** – yng Nghymru a(c) mewn gwledydd eraill; **people in education, business and e.** – pobl ym myd addysg, byd busnes a meysydd eraill; **to take your business e.** – mynd â'ch busnes at gwmni arall/gwmniau eraill; **they are unparalleled e.** – nid oes eu tebyg/cystal/rhagorach yn unman (arall)

elusive: solutions to this problem have proved (to be) e. – ni lwyddwyd (eto) i gael gafael ar/i gael hyd i/i ddod o hyd i atebion i'r broblem hon(no); **e. animals** – anifeiliad swil

to embargo: e.-ed until ... (*ar ddatganiad i'r wasg*) – rhaid peidio â chyhoeddi hwn tan/cyn

to embed – ymgorffori, gwreiddio (yn/mewn); **to e. an efficiency agenda into ...** – plethu agenda effeithlonrwydd i ...

embedded: to become e.-ded – ennill eu plwyf, gwreiddio yn/mewn; **to be deeply e.-ded in** – bod â'u gwreiddiau'n ddwfn yn/mewn; **to be e.-ed in** – bod ynghlwm wrth; **the majority of people felt e. in their community** – teimlai'r mwyafrif o'r bobl eu bod yn rhan o wead eu cymuned/cymdeithas

emboldened – (bod) yn hy/feiddgar

embrace: to release from the e. of matter – rhyddhau o afael/grombil mater

to embrace: to e. developments – coleddu datblygiadau; **to e. broad issues of personal and social development** – rhychwantu materion cyffredinol datblygiad personol a chymdeithasol; **sport e.-es much more than ...** – mae chwaraeon yn cynnwys/rhychwantu llawer mwy na(g) ..., mae i chwaraeon lawer mwy na(g) ...; **to e. a standard** – arddel safon

embryo: an e. board – darpar fwrdd, egin-fwrdd

to emerge – datblygu, dod o, codi, dod i law/i'r amlwg; **any challenge which/that can/may e. from ...** – unrhyw her/sialens a all ddeillio/godi o ...; **does a pattern e.?** – a oes patrwm i'w weld?; **they will e. from the course with a thorough grounding in the ...** – erbyn diwedd y cwrs, byddant wedi'u trwytho yn y(r) ... neu bydd y cwrs yn eu trwytho yn y(r) ...

emergence: to promote the e. of – hybu datblygu/datblygiad ... (newydd)

emergency: in an e. – os bydd taro

emergent: e. issues – (y) materion sy'n codi/a gododd

emerging: an e. strategy – strategaeth sydd/a oedd ar y gweill; **e. fields of research** – meysydd ymchwil sy'n ymagor

emmetropisation – emetropeiddio (*be*) [Optometreg]

emotive – synhwyrus; **to be e.** – (bod) yn corddi/cyffroi teimladau cryf (iawn)

to empathise – arfer empathi

to emphasise: to e. the importance of ... – tanlinellu pwysigrwydd ...

emphatic – pendant iawn/dros ben

emphatically: to underline e. – tanlinellu i'r dim/yn bendant iawn/yn bendant glir a diamwys; **it e. illustrates a problem** – rhydd ddarlun clir a diamwys o broblem; **this is (most) e. not a ...** – rhaid pwysleisio/tanlinellu nad yw hwn/hon/hyn yn ...

employ: to leave the employ of ... – gadael swydd gyda(r) ...

to employ: another strategy e.-ed by some is ... – strategaeth arall a geir/sydd ar waith gan rai; **by e.-ing a range of materials to be compared** – drwy ei gwneud yn bosibl cymharu amrywiaeth o ddefnyddiau/ ddeunyddiau

employability: to increase your employability – (eich) gwneud eich hun(an) yn fwy cyflogadwy/yn fwy deniadol/atyniadol i gyflogw(y)r

employment – swyddi; **e. prospects** – rhagolygon o gael gwaith

to empower – grymuso, rhoi'r pŵer i ...

to emulate: a system for all to e. – system a fydd yn batrwm i bawb

to enable – felly, gall; o gael ..., gallai; (er mwyn) iddynt allu; bod yn gyfle i; ei gwneud yn bosibl i; **their fluency is such as to e. them to be taught in Welsh** – maent mor rhugl nes bod modd eu haddysgu yn/drwy'r Gymraeg; **these elements will e. the ... to play ...** – oherwydd yr elfennau hyn(ny), bydd modd/yn bosibl i/gall ... chwarae ...; **your attention to the optimum preparation of mail will e. us to ...** – os ewch ati i baratoi'ch post yn y ffordd orau, bydd modd i ni ...; **to encourage and e.** – hybu a hwyluso; **with the aim of e.-ing projects that ...** – er mwyn gallu/i allu cynnal prosiectau sy'n/a fydd yn ...

to enact: to e. a strategy – gweithredu strategaeth

enactive: e. experience helps to ... – mae/bydd byw'r profiad yn/profiadau'n helpu i ...

to encapsulate – crisialu

enclave – llecyn

to enclose: the words must be e.-ed in inverted commas – rhaid rhoi'r geiriau mewn dyfynodau

enclosed: please find e. – amgaeaf/amgaeawn/amgaeir

encounter – cysylltiad

to encounter – wynebu, cael, gweld, dod wyneb yn wyneb â; **is e.-ed** – gwelir; **problems not commonly e.-ed** – problemau (pur/go) anghyffredin; **they e.-ed fierce/tremendous opposition** – fe'u gwrthwynebwyd yn ffyrnig

to encourage – cael ... i, tywys; **to e. high aspirations in individuals** – annog unigolion i arddel dyheadau uchel; **to e. new business** – denu busnes newydd; **to e. visitors to the area** – annog ymwelwyr i ddod i'r ardal, annog pobl i (ddod i) ymweld â'r ardal, denu pobl i'r ardal

encouraging – calondid, (bod) yn argoeli'n dda

to encroach: to be e.-ing on ... – ymledu i ...; **without e.-ing on ...** – heb amharu ar ...

end: to this/that e. – i'r perwyl hwn(nw), i wneud hyn(ny), felly; **for years on e.** – am flynyddoedd bwy gilydd; **there was no e. to** – nid oedd pall/taw ar; **to praise them no e.** – eu canmol i'r cymylau/entrychion; **in the e.** – ymhen hir a hwyr; **in at the deep e.** – mentro i'r dwfn; **this can mean an e. to the provision** – gall hyn olygu bod y

ddarpariaeth yn dod i ben; **those at the receiving e.** – (*cadarnhaol*) y rhai sy'n elwa/ar eu hennill/cael budd, (*negyddol*) y rhai sy'n dioddef; (*ariannol*) y rhai sy'n cael (yr) arian/(y) grantiau' (*gw. y drafodaeth ar welsh-termau-cymraeg*, 7 Chwefror 2002); **those at the sharp e. of delivering patient care** – y rhai sydd wrthi'n rhoi gofal i gleifion; **a dead e.** – trywydd diffrwyth; **to head down a dead e.** – (gweithredu) yn gwbl ofer/ddi-fudd, dilyn trywydd diffrwyth

to end: to e. in failure – mynd i'r gwellt; **but the story does not e. there** – ond nid dyna ddiwedd y stori; **their backing did not e. /has not e.-ed there** – nid dyna ben draw/ddiwedd eu cefnogaeth/cymorth, aeth eu cefnogaeth/cymorth ymhellach (na hynny); **this e.-ed in ...** – diwedd hyn(ny) fu, y canlyniad oedd/fu ...; **they could e. up feeling ...** – yn y pen draw gallent fynd i deimlo'n ...; **a third of them e.-ed up with the right answer** – llwyddodd traean ohonynt i roi'r ateb cywir yn y pen draw, llwyddodd traean ohonynt – rhywsut – i roi'r ateb cywir; **you will e. up with ...** – (erb)yn y diwedd, bydd gennych (chi) ...

endeavour: the customer shall use best e.-s to ... – rhaid i'r cwsmer wneud ei orau glas i ...;

endless: a pattern repeated e. times – patrwm a geir/a ddigwyddodd/sydd wedi digwydd dro ar ôl tro (ar ôl tro)

endorphin – endorffin *eg* (ll. endorffiniau)

endosomotropic – endosomotropig (*ans*) [Fferylliaeth]

endowed: the valley is richly e. with archaeological remains – mae'r cwm/dyffryn yn gyforiog o olion archaeolegol

end-product – canlyniad, ffrwyth

to endure: his/her ideas have e.-ed – mae ei syniadau (ef/hi) wedi byw; **this craft e.-ed unchanged until ...** – daliwyd i arfer y grefft (hon(no)) yn ei llawn rym/yn ei holl ogoniant tan/hyd/hyd nes ...

enduring – safadwy (*ceir 'safadwy = enduring' yn GPC*)

to energise – ysgogi

to engage: when actively e.-ed in – wrthi'n; **to e. their interest** – ennyn/ysgogi eu diddordeb; **to e. them in the conversation** – eu cynnwys yn y sgwrs; **to e. them in setting up investigations** – eu cynnwys yn y broses o sefydlu ymchwiliadau; **to 'e.' with a work of art** – mynd i'r afael â gwaith celf; **to e. in behaviour which ...** – ymddwyn mewn ffordd sy'n/a oedd yn ...; **to e. in discussion and debate** – trafod a dadlau; **to be e.-ed in activities which** – bod wrthi'n/yn cyflawni gweithgareddau sy'n; **to e. in conduct which ...** – ymddwyn mewn ffordd sy'n ...; **to e. the imagination** – cyffroi/tanio'r dychymyg; **to (try to) e. young people in politics** – (ceisio) cael pobl ifanc i ymwneud â gwleidyddiaeth, (ceisio) cael pobl ifanc i ymddiddori/cymryd diddordeb mewn gwleidyddiaeth

engaging – apelgar, difyr, annwyl a difyr, difyr/dengar a diddorol/dymumol, annwyl (iawn) ac apelgar/(a chwbl) ymroddgar/ymroddedig, gafaelgar

engagement: the result was her total e. in – o ganlyniad fe lwyr ymgollodd hi yn/mewn; **e. partner** – partner ymgysylltu (*dyma a ddefnyddir gan y Swyddfa Archwilio – neges drwy Ann Corkett, welsh-termau-cymraeg*, 04.05.06); **your rules of e.** – rheolau'ch ymwneud â'ch gilydd

to engender: to e. an interest in – codi diddordeb yn/mewn; **to be e.-ed by** – (bod/a hynny) oherwydd; **to e. debate** – cyffroi/ysgogi dadl

engine: the University is a major e. of development – mae'r Brifysgol yn un o brif ysgogwyr datblygu/datblygiadau, mae'r Brifysgol yn un o'r prif gyrff sy'n gyrru'r datblygu (yn ei flaen)/sy'n gyrru(r) datblygiadau (yn eu blaen)

to engineer: to e. a change – sicrhau newid

England: E. and Wales – Cymru a Lloegr (*newid y drefn*); **sleeping for E.** – cysgu am hydoedd; **in E.** – dros Glawdd Offa; **going to/crossing into E.** – mynd dros Glawdd Offa

English: E. and Welsh – Cymraeg a Saesneg (*newid y drefn*)

to enhance – gwella golwg, cryfhau; **to e. the value of ...** – cynyddu gwerth ...; **to e. or detract from the enjoyment** – cynyddu neu leihau'r mwynhad; **prospects ar e.-ed when ...** – mae'r rhagolygon gymaint gwell pan/os ...; **to e. Britain's competitiveness** – cynyddu cystadleurwydd Prydain; **to e. access to ...** – hwyluso mynediad i ..., hwyluso cyrchu ..., gwneud cyrchu ... yn haws/yn fwy cyfleus/rhwydd/ yn rhwyddach, ei gwneud yn/hi'n haws/yn fwy cyfleus/yn fwy rhwydd/ yn rhwyddach cyrchu/cael mynediad i ...; **to e. the house's visibility** – gwneud y tŷ'n haws ei weld, ei gwneud hi'n haws gweld y tŷ; **to e. a view** – harddu golygfa

enhanced – pellach, rhagor o, gwell, uwch, helaethach; **an e. consciousness** – ymwybyddiaeth ddwysach/fwy byw

enhancement: vocational e. grant – grant cynyddu galwedigaethol

to enjoy: the success that they e.-ed – y llwyddiant a gawsant/a ddaeth i'w rhan; **they thoroughly e. an interview** – maent wrth eu bodd mewn cyfweiliad; **they e. a close relationship with** – mae ganddynt berthynas agos â/ag; **they were thanked for ensuring that the work e.-ed a successful start** – diolchwyd iddynt am sicrhau cychwyn/dechrau llwyddiannus i'r gwaith; **to e. the convenience of ...** – manteisio ar hwylustod ...; **'partnership' e.-s a prominent position in the contemporary political lexicon** – mae i 'bartneriaeth' le amlwg yn yr eirfa wleidyddol gyfoes; **the advantages are impossible to e. without ...** – mae'n amhosibl/ni ellir/nid oes modd sicrhau'r manteision heb ...

enlightening – buddiol, difyr, yn (dipyn) o agoriad llygad

to enlist: their resources should be e.-ed in order to ... – dylid galw ar eu hadnoddau er mwyn ...; **to e. the support of** – ennyn/ennill cefnogaeth

to enliven – rhoi sbonc i

enormity – graddfa enfawr/aruthrol, aruthredd, (pa) mor ddychrynlyd/ofnadwy/ysgeler

enormous – digon mawr i alw chi arno/arni/arnynt; **it is with e. pleasure that I say that ...** – pleser o'r mwyaf (i mi) yw (cael) dweud bod/mai/y(r) ...

enormously – yn ddifawr, yn fawr dros ben; **we take this e. seriously** – yr ydym yn cymryd hyn o ddifrif calon; **this is e. time-consuming** – mae hwn/hyn yn cymryd llawer iawn iawn o amser

enough: for businesses who think good isn't good e. – i fusnesau sy'n credu nad da lle gellir gwell

enquiring: an e. mind – meddwl ymchwilgar

enquiry – cwestiwn

to enrich: the programme has been e.-ed by ... – mae'r rhaglen ar ei hennill oherwydd/yn sgil ...

enriching – cyfoethog

enrichment: Welsh-language e. courses – cyrsiau gloywi iaith

to enshrine – ymgorffori; **to enshrine: they are e.-ed in ...** – maent i'w gweld yn/mewn ...; **e.-ed at its heart** – yn gwbl (gwbl) ganolog/greiddiol iddo/iddi

to ensue – byddai, ceid; **a stimulating discussion e.-ed** – cafwyd trafodaeth ysgogol; **the confusion that might e.** – y dryswch a allai godi

to ensure – gofalu bod, denu (*os bydd 'ensure' a 'secure' yn dilyn ei gilydd*); **care should be taken to e. that** – dylid gofalu bod/mai/y

to entail – golygu bod rhaid; **to be e.-ed** – (dod) yn sgil hynny, (bod) ynghlwm wrth hynny, deillio o hynny

enter: press E. – pwyswch y dychwelydd/y fysell ddychwelyd (*mewn e-bost ar 05 Medi 2007 gan Caren Evans, cyn-ddarlithydd ar y cwrs gweinyddu dwyieithog yng Ngholeg Menai a chyn-Swyddog Datblygu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, cafwyd yr ymateb hwn i'm hawgrym i y ellid ei alw'n 'fysell ddychwelyd: 'Roeddem ni'n dweud 'dychwelydd' am 'Enter' yng Ngholeg Menai – sy'n eithaf tebyg i'ch 'bysell ddychwelyd' chi*).

to enter: to e. into a new phase – cychwyn ar gyfnod newydd; **to e. a scheme** – ymuno â cynllun; **no correspondence will be e.-ed into** – nid atebir unrhyw ohebiaeth; **to e. a competition** – cystadlu; **to e. new markets** – mentro i farchnadoedd newydd; **you have been e.-ed to sit the examination** – mae trefniant wedi'i wneud i chi gymryd/sefyll yr arholiad; **they will be e.-ed into the scheme** – cânt eu cynnwys/fe'u cynhwysir yn y cynllun; **where the river e.-s the sea** – lle mae'r afon yn llifo i'r môr, yr aber; **the water has e.-ed the shop** – mae'r dŵr wedi llifo i'r siop, mae dŵr yn y siop

to entertain: any ideas they e.-ed – unrhyw syniadau a oedd ganddynt/yn eu pennau; **no appeal will be e.-ed** – nid ystyrir apêl, ni chynhelir apêl, ni fydd apêl

enterprise: an e. initiative – menter fentro

to enthuse – cyffroi/ennyn brwdfrydedd; **they left the meeting equally enthused** – yr oedd eraill lawn mor frwd(frydig) wrth adael y cyfarfod, yr oedd brwdfrydedd (pobl) eraill wedi'i danio lawn cymaint wrth iddynt adael y cyfarfod

enthusiast – un sy'n ymddiddori'n fawr yn/mewn ..., un sy'n dwlu/ffoli ar ..., un sydd wedi mopio'i ben/wedi mopio'i phen

entire: the e. course is ... – mae'r cwrs drwyddo draw/ar ei hyd yn ...

entirely: section C is e. devoted to ... – neilltuir y cwbl/cyfan o adran C i... neu neilltuir adran C yn ei chyfanrwydd i ...; **this remains e. unaltered/unchanged/the same** – nid oes/ni fu unrhyw newid yn hwn/ynddo o gwbl, nid yw hwn wedi newid dim/o gwbl; **to move to another/a different website e.** – symud i wefan gwbl wahanol

entirety: in their e. – ar eu hyd; **a ...'s programme in its e.** – y cyfan o raglen ..., rhaglen gyfan y(r) ...

entitled – o'r enw, a elwir/alwyd yn; **everyone/everybody is e. to his/their own opinion** – rhydd i bawb ei farn; **it is claimed that he/she is entitled to a local right to ...** -- honnir bod ganddo/ganddi'r hawl i arfer hawl leol i ...

entrant: a competition e.- cystadleuydd

to entrench: there is a need to e. economic stablitiy – mae angen sicrhau parhad (y) sefydlogrwydd economaidd

entrenched – wedi hen ymsefydlu; (*am eiriau*) – angori, gwaelodi; **the principle of equal opportunity is so well e. that** – mae egwyddor cyfle cyfartal wedi ennill ei phlwyf i gymaint graddau nes

entry – ymgais, cynnig; **a five form e.** – pum dosbarth mynediad (*nid: mynediad pum dosbarth*); **an e. form/a competition e. form** – ffurflen gystadlu; **subject e.-ies (for examinations)** – cofrestriadau pwnc [CBAC]; **to be an e. route into ...** – agor y drws i ...

to enunciate: the objectives e.-ed in the document – yr amcanion a fynegir/nodir yn y ddogfen

enviable: an e. knowledge of – gwybodaeth aruthrol o/am; **you may find yourself in the e. position of ...** – efallai y cewch chi'ch hun yn y sefyllfa braf/hyfyd/ffodus o ...; **an e. record of ...** – record arbennig/neilltuol o dda o ...

to envelope – amlennu, cwmpasu

enviable: an e. knowledge of ... – gwybodaeth aruthrol o/am ...

to environmentalise – amgylcheddoli

environmentally: to develop e. responsible attitudes – meithrin agweddau cyfrifol (tuag) at yr amgylchedd; **e.-friendly** – cydawns â'r amgylchedd; **e.-friendly ways of disposing of explosives** – ffyrdd o gael gwared ar ffrwydron heb wneud drwg i'r amgylchedd

to envisage: these are e.-ed as ... – cânt eu hystyried yn ..., edrychir arnynt fel ...; **they can be e.-ed as ...** – gellir meddwl/synied amdanynt fel ...; **to be e.-ed** – bod mewn golwg

to envision: we've e.-ed this as being ... – yr ydym (ni) wedi synio am hwn/hyn fel peth/rhywbeth sy'n .../ein bwriad/nod (ni) wrth greu/sefydlu hwn yw iddo fod yn ...

envy: **this system is the e. of other councils** – mae cynghorau eraill yn edmygu'r system hon yn fawr, byddai cynghorau eraill wrth eu bodd petaen nhw'n gallu cael gafael/eu bachau ar y system hon

equal: **e. attention** – yr un faint o sylw; **of e. concern is** – yr hyn sy'n peri/achosi llawn cymaint o bryder yw; **everyone is e. before the law** – mae pawb ar yr un tir gerbron y gyfraith; **all other things being e.** – os yw popeth arall yn gyfartal/yr un peth; **to be e. to the challenge** – ymateb yn deilwng i'r her/sialens

to equal: **3 and 5 e.-s 8** – 3 a 5 yw 8; **does 3 and 5 e. 8?** – a yw 3 a 5 yn gwneud 8?

to equalise: **to e. opportunities** – sicrhau cyfle cyfartal

equality: **in the event of an e. of votes** – os bydd/ceir nifer cyfartal o bleidleisiau, os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal

equally: **e., ...** – yn yr un modd, llawn cymaint; **e. + adj.** – llawn mor + *ans.*, yr un mor (*ans*) â'i gilydd; **they need e. to face** – mae llawn cymaint o angen iddynt wynebu; **e., we do not see that ...** – ni welwn ychwaith fod/mai ...; **it is clear that this is true and it is e. the case that ...** – maen amlwg bod hyn yn/hynny'n wir ac mae hi'r un mor amlwg bod/mai/y(r) ...

equanimity: **to upset their e.** – tarfu arnynt

to equate: **to e. to ...** – bod yn gyfystyr/gymesur â/ag ..., gweddu i ...; **this is e.-ed with ...** – cymerir bod hyn(ny) yn gyfystyr â/yn cyfateb i ...

to equip: **these rooms are/come e.-ped with special facilities** – mae/ceir/cewch gyfleusterau arbennig yn yr ystafelloedd hyn(ny); **a theatre e.-ped with professional facilities** – theatr sy'n cynnig cyfleusterau proffesiynol; **to e. them with skills** – (ad)dysgu medrau/sgiliau iddynt; **to e. them for the future** – eu paratoi ar gyfer y dyfodol, eu paratoi i wynebu'r dyfodol; **to e. them to ...** – (er mwyn) iddynt allu ...

equitable: **to put the whole situation on a more e. footing** – rhoi tecach trefn ar yr holl sefyllfa

equitably: **to be e. treated** – cael chwarae teg

equivalent: **the e. (in value) of ...** – yr hyn sy'n gyfwerth â/ag ...

equivalently – yn gyfartal deg

episode: **the (controversial) Herception e.** – helynt Herceptin

e-rostering: e-drefnu, e-amserlennu (*awgrymiadau mewn ymateb i gais gan Melanie Davies i welsh-termau-cymraeg, 12.10.07; o'r ddau, e-drefnu oedd dewis Melanie*)

to err: **to e. on the side of caution** – peidio â bod yn rhy fentrus, peidio â mentro gormod, peidio â'i mentro hi, bod yn ofalus/bwylllog, pwylllo, peidio â bod yn rhy uchelgeisiol/yn or-uchelgeisiol, gweithredu/mentro gan bwyll (bach)

error: **in e.** – ar gam; **e.-strewn** – yn wallus (iawn), yn frith o wallau/gamgymeriadau

erstwhile: **an e. school** – arferai fod yn ysgol, a fu/oedd yn ysgol ar un adeg

escalating – cynyddol; **to lead to e. losses of species** – arwain at golli mwy a mwy o rywogaethau

escapade: **e.-s** – helyntion

escape: **make your great e. ...** (*slogan pamffledyn Awdurdod Datblygu Cymru, Mehefin 2003*) – dyma gyfle gwych i ddianc ...

to escape – cael eu traed yn rhydd

escort – hebryngwr(aig)

especially: **e. good** – da ar y naw, campus

essence: **time is of the e.** – mae amser o'r pwys pennaf, amser sy'n (holl)bwysig nawr, mae amser yn hollbwysig, mae angen gweithredu'n syth/ar unwaith, rhaid taro tra bo'r haearn yn boeth

essential: **... will be e.** – bydd yn hanfodol cael .../bydd cael ... yn hanfodol; **this is e. to the smooth runnig of the network** – mae hyn yn/hynny'n hanfodol er mwyn (gallu) rhedeg y rhwydwaith yn ddidrafferth/er mwyn i'r rhwydwaith allu rhedeg yn ddidrafferth; rhaid wrth hwn(nw)/hon(no)/hyn(ny) er mwyn (gallu) rhedeg y rhwydwaith yn ddidrafferth/er mwyn i'r rhwydwaith allu rhedeg yn ddidrafferth

to establish – gwreiddio; **if it can be e.-ed (that)** – os gellir dangos (bod/mai); **research to e. whether ...** – ymchwil i ddarganfod/weld a(i) ...; **to e. themselves** – cael eu traed (o)danynt; **to e. themselves as ...** – datblygu'n ..., ennill eu plwyf fel ...; **to become e.-ed** – gwreiddio, ennill eu plwyf, ymsefydlu; **the linguistic needs of the individual will need to be e.-ed** – bydd angen gofyn/holi ynghylch anghenion ieithyddol yr unigolyn; **to e. scientific proof of the effectiveness of ...** – sicrhau tystiolaeth wyddonol (bendant) o effeithiolrwydd ...

esteem: **parity of e.** – parch cyfartal, yr un faint o barch

esteemed: **our e. customers** – ein cwsmeriaid hyglod

estimated: **the total e. time requirements are ...** – amcangyfrifir mai cyfanswm y gofynion amser yw/fydd

estuarine: **e. archaeology** – archaeoleg aberoedd

ethic: **work e.** – ymroddiad i'w/i'ch (g)waith, awydd/ysfa i weithio

ethnological: **e. studies** – astudiaethau gwerin (*Prifysgol Caerdydd*)

euphoria – llawenydd, llawenhau, ymlawenhau

to evaluate – gwerthuso, arfarnu

even: **e. more** – rhagor eto o; **e. allowing for** – hyd yn oed a chaniatáu ar gyfer; **e. allowing for the fact that** – a hynny er bod; **e. so** – er hynny; **e. this is rarely achieved** – anaml y cyflawnir cymaint â hyn(ny); **e. today** – hyd (y dydd) heddiw

event – achlysur, camp; **in any e.** – er/serch hynny; **after the e.** – yn ddiweddarach; **it's easy to be wise after the e.** – hawdd doethinebu heddiw/drannoeth; **the course of e.-s** – yr hyn a ddigwyddodd, yr hyn sy'n digwydd (ar hyn o

bryd), yr hyn a fydd yn digwydd; **in the e., they didn't come** – fel y digwyddodd hi/pethau, ddaethon nhw ddim neu ddaethon nhw ddim yn y diwedd; **in the normal course of e.-s** – yn nhrefn arferol pethau

eventuality: to be prepared for all e.-ies – bod yn barod i wynebu beth bynnag (a) ddaw/i wynebu'r gwaethaf

eventually – ymhén hir a hwyr

ever: e. since – hyd heddiw; **e. mindful of their ...** – gan gyson gofio'u ...; **as e., we look forward to seeing you** – fel o'r blaen/fel y gwnawn bob tro, edrychwn ymlaen at eich gweld; **e. more companies are ...** – mae mwy a mwy o gwmnïau'n ...; **without (their) e. having been promoted** – heb (iddynt) gael eu dyrchafu unwaith, heb (iddynt) gael dyrchafiad unwaith; **e. closer** – mwyfwy agos, yn fwyfwy agos, yn fwy a mwy agos, yn agosach ac (yn) agosach

ever-changing: e. needs – anghenion sy'n cyson newid/sy'n newid yn gyson, y newid cyson mewn anghenion

ever-present – yma/yno bob amser, yma/yno drwy'r amser; **the legacy of 19th century industrial activity is e.** – mae olion gweithgarwch diwydiannol y 19eg ganrif i'w gweld ymhobman

every: each and e. one of them – pob un (copa walltog) ohonynt; **they made e. effort to** – gwnaethant eu gorau glas i

everything: in business, speed is e. – ym myd busnes, cyflymder sy'n cyfrif/cyflymder yw'r peth pwysicaf (un) neu ym myd busnes, mae cyflymder o'r pwys pennaf/yn hanfodol/yn allweddol bwysig/yn bwysicach na dim

evidence: to be much less in e. – ceir/gwelir cryn dipyn yn llai o; **to give/be e. of** – tystio i; **to be in e.** – ceir, i'w (g)weld; **the e. is that** – dengys y dystiolaeth fod; **to be much in e.** – bod yn amlwg iawn, bod i'w cael yn aml

to evidence – cyflwyno/dangos dystiolaeth; **this is best e.-ed by ...** – y dystiolaeth orau o hyn(ny) yw ...; **to be e.-ed** – dangosir, amlygir

evident – i'w (g)weld; **to be e.** – ceir; **this is where the wisdom of doing so becomes e.** – dyma lle/yma y gwelwn (ni) ddoethineb gwneud hynny; **certain inaccuracies are e.** – mae rhai gwallau (yma/i'w cael/gweld) (ynddo/ynddi/ynddynt)

evidential: a more secure e. base – sylfaen gadarnach/sylfaen fwy cadarn/cadarnach sylfaen o dystiolaeth

evil: it's a necessary e. – mae'n gaffaeliad (, mae'n debyg,) er gwaetha'i broblemau/phroblemau, rhaid wrtho/wrthi (, mae'n debyg,) er gwaetha'i broblemau/phroblemau

evocative – adleisiol, hudolus

to evoke – deillio; **to e. an atmosphere** – creu/cyfleu awyrgylch

to evolve – llunio

evolving – esblygol

exact – i drwch y blewyn, taro'r hoelen ar ei phen; **at that e. moment** – (ac) ar y gair

exacting: e. standards – safonau uchel iawn/dros ben/hynod uchel; ; **these requirements set an e. standard** – nid ar chwarae bach y mae cyrraedd y safonau a osodir/fynnir gan y gofynion hyn(ny); **e. skills** – sgiliau (sy'n) anodd eu meistroli/dysgu('n iawn/llwyr)

exactly – i drwch y blewyn, taro'r hoelen ar ei phen; **e. the thing** – yr union beth; **they were e. right** – yr oeddent yn llygaid eu lle; **to find e. what you need** – i ddod o/gael hyd i'r union beth(au) y mae arnoch ei angen/eu hangen

examination: careful e. of ... would provide ... – o edrych yn/graffu'n fanwl ar ... ceid ...; **to stand up to/bear e.** – dal dŵr

to examine – astudio, edrych ar ...; **you need your head e.-ed** – mae eisiau clymu dy ben di

to exceed – bod yn uwch na(g) ..., bod dros ...; **to e. 60 minutes** – para mwy na 60 munud; **to e. 500 grammes** – pwyso dros/mwy na 500 gram, bod yn drymach/fwy na 500 gram; **to e. the ambition** – rhagori ar yr uchelgaïs; **to e. a target** – curo targed, rhagori ar darged

exceedingly: e. slow – yn boenus o araf

excellence: work of the highest e. – gwaith o'r safon uchaf un

excellent – tan gamp

except: e. that/for – ond; **e. in exceptional circumstances** – os na fydd amgylchiadau annisgwyl

exception: with the possible e. of ... – ac eithrio, efallai/hwyrach/o bosibl, ...; **this is the e. rather than the rule** – eithriad (prin) yw hwn(nw)/hon(no)/hyn(ny), mae hwn/hon/hyn yn eithriad (prin)/mae hwnnw/honno/hynny'n eithriad (prin), bod yn gymharol brin

exceptionally: e. good – yn dda dros ben/ar y naw

excess: in e. of – yn uwch na(g) ..., dros ..., mwy na(g) ...; **the amount due in e. of the deposit** – y swm sy'n ddyledus ar ôl tynnu'r blaendal ohono; **bankers' e.-es** – ffolinebau(r) bancwyr

excessive – gormod; **an e. number/amount of ...** – gormod o ...

excessively: to be e. demanding – bod yn gofyn llawer gormod

exchangeable: this voucher is not e. for cash – ni ellir/nid oes modd/ni cheir cyfnewid y daleb hon am arian (parod)

exchange: in the oral e.-s – yn y cydadwaith llafar

to exchange: an opportunity for them to to e. experiences – cyfle iddynt sôn wrth ei gilydd am eu profiadau, cyfle iddynt ddisgrifio'u profiadau wrth ei gilydd

excitedly – yn frwd

to exclude – disodli, anwybyddu, cau allan, hepgor, gwrthod mynediad i; [**to e. a pupil** – gwahardd disgybl]

exclusion: they are used to the e. of other methods – fe'u defnyddir gan anwybyddu pob dull arall

exclusive – llwyr-gyfyngedig; **they have e. access to this room** – hwy'n unig/hwy, a hwy'n unig/hwy, a neb arall, (a) gaiff ddefnyddio'r ystafell (hon); **membership of these clusters is not mutually e.** – nid yw perthyn i un o'r clystyrau hyn yn/hynny'n rhwystro/gwarafun perthyn i glwstwr arall/i'r clystyrau eraill

exclusively – yn llwyr, yn unswydd; **generally, but not e., they have gone to ...** – fel rheol, ond nid bob tro, maent wedi mynd i ...

exclusivity – llwyr-gyfyngedigrwydd (?)

to excuse – bod yn esgus dros ...

exegesis – esbonio dehongliadol **exclusive: membership of these clusters is not mutually e.** – nid yw perthyn i un o'r clystyrau hyn yn/hynny'n rhwystro/gwarafun perthyn i glwstwr arall/i'r clystyrau eraill

exemplar: to form an e. – cynnig esiampl; **e. material** – deunydd enghreifftiol

exemplarily: they have been e. restored – maent wedi'u hadfer yn rhagorol/yn eithriadol/hynod o gelfydd

exemplary: in an e. manner – yn rhagorol; **to be e.** – bod yn esiampl/yn batrwm (rhagorol/ardderchog/penigamp/campus)

to exemplify – amlygu, cynnig/gosod esiampl/patrwm, enghreifftio; **to e. and illustrate** – egluro ac eglurebu; **as e.-ied by ...** – fel y dangosir/dangoswyd gan ...

exercise: the whole e. – hyn(ny) i gyd, yr holl beth

to exercise: to e. (an) influence – dylanwadu, bod â dylanwad; **to e. pressure** – rhoi/dwyn pwysau ar, pwysu ar; **to e. care** – gofalu, bod yn ofalus, y gofal a geir; **to e. themselves** – (bod yn) poeni am; **to e. their discretion** – gwneud eu penderfyniadau; **to e. caution** – bod yn wylidwys/ar eu gwyliadwraeth; **they have been e.-ed by the need to ...** – maent wedi rhoi sylw mawr i'r angen i ..., maent wedi rhoi llawer o sylw i'r angen i ...; **to e. the imagination** – rhoi'r dychymyg ar waith, defnyddio'r dychymyg (*Hywel Hughes, welsh-termau-cymraeg, 18.02.03*); **to e. choice** – dewis, gwneud dewis, manteisio ar ddewis

to exert: to e. an influence – cael dylanwad, dylanwadu; **to e. their profound influence on ...** – arfer eu dylanwad aruthrol ar ...; **to e. pressure on ...** – rhoi/dwyn pwysau ar ..., pwysu ar ...; **to e. maximum effort** – defnyddio'r ymdrech fwyaf, gwneud eu gorau glas

to exhaust: until all the stock is e.-ed – tan/nes i'r holl stoc ddod i ben

exhaustive: this list is not e. – nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth; **the ideas are not e.** – nid yw'r syniadau'n awgrymu/cwmpasu/cynnig/rhestru pob posibilrwydd/yn ymdrin â phob posibilrwydd

exhaustively: studied so e. – a astudiwyd gyda'r fath drylwyrdd

to exhibit: they e.-ed at the conference – yr oedd ganddynt arddangosfa yn y gynhadledd, yr oedd arddangosfa ganddynt yn yr arddangosfa

exhilarating – gwefreiddiol

exigency: subject to the e.-ies of the duties of the post – yn darostyngedig i/yn amodol ar yr amgylchiadau a all godi wrth gyflawni dyletswyddau'r swydd

exile: to go into e. – troi'n alltud

to exist – sydd i'w gweld/cael, a geir/welir; **what opportunities e. for ... to ...** – pa gyfle(oedd) a gaiff/sydd i ... i .../sydd i'w cael i ...; **they e. to ...** – eu diben/pwrpas yw ...; **they no longer e.** – maent wedi darfod amdanynt/o'r tir/wedi peidio â bod

existing: their e. knowledge – y wybodaeth sydd ganddynt eisoes/yn barod, yr hyn y maent/yr oeddent yn ei wybod (eisoes/yn barod); **e. knowledge/information** – y(r) wybodaeth sy'n bod yn barod

exorbitant: to charge e. fees – codi ffioedd arswydus/dychrynlyd (o uchel/fawr)/ffioedd aruthrol, codi crocbris

expanding: information accumulated at an e. rate – gwybodaeth sy'n cael ei chronni'n gynt ac yn gynt

to expect: they are e.-ed to ... – mae disgwyl iddynt ...; **the standards e.-ed of them** – y safonau y disgwylir iddynt eu cyrraedd; **to know what is e.-ed of you** – gwybod yr hyn y disgwylir i chi ei wneud/ei gyflawni

expectation: together with the e. that ... – ynghyd â'r ffaith fod disgwyl i ...; **there is a high e. that ...** – mae disgwyl mawr y bydd ...

expedient: an e. – ffordd hwylus o ...

expedition: with the greatest possible e. – cyn gynted â phosibl

to expel: to e. a pupil – diarddel disgybl

to expend: one club was e.-ing considerable efforts in practising for – yr oedd un clwb wrthi'n ymarfer yn ddyfal/wrthi'n ddyfal yn ymarfer ar gyfer

expense: even at the e. of – hyd yn oed os collir; **to have the examination script typed at the candidate's e.** – trefnu i'r sgrïpt arholiad gael ei thepio a chael yr ymgeisydd i dalu'r gost/i dalu cost y teipio/gwneud hynny; **not at the e. of** – heb amharu/andwyo dim ar/y mymryn lleiaf ar/yr un iot ar

experience: to put it down to e. – ei droi'n/wneud yn rhan o'u stôr o brofiadau, ei droi'n ddim (byd) ond profiad arall; (*mewn deialog ac fel anogaeth gysurlon*) profiad arall i ti, achan/'machgen i/twel (*neu ryw ymadrodd tebyg*)!; (*mewn deialog, a rhywun yn sôn amdano 'i hun:*) wel, roedd e'n brofiad, ta beth; (*tric*) fel y dywed y Sais/ys dwedai'r Sais/chwedl y Sais, 'put it down to experience'!

to experience: to e. difficulty – wynebu anhawster/trafferth; **another area which had e.-ed decline** – ardal arall lle gwelwyd/sydd wedi gweld dirywiad; **the delay (which was) e.-ed** – yr oedi a fu/gafwyd

experienced: an e. womaniser – mae hen blu ar hwnna [*yn ôl Elwyn Thomas, Rhiwbeina, gynt o Abergwili*]; **staff e. in dealing with ...** – staff (sydd) â phrofiad maith/helaeth o ymdrin â/ag ...

experiential: e. learning – dysgu-drwy-brofiad; **a rich e. base of ...** – sylfaen gyfoethog o brofiad(au) o ...

expert: an e. marksman – saethwr tan gamp/penigamp/rhagorol/gwych

expertise: specialist staff with e. in various disciplines – staff arbenigol sy'n hyddysg mewn amrywio/gwahanol ddisgyblaethau

expertly: e. designed – wedi'i(d)dylunio/wedi'u dylunio'n arbennig iawn/gelfydd (iawn) (gan arbenigwr)

explanation: an e. of why you believe – eglurhad sy'n esbonio pam yr ydych chi'n credu

explicable: they/these are e. in terms of ... – mae modd eu hesbonio/eu hegluro yn nhermau ... , gellir eu hesbonio/eu hegluro yn nhermau ...

explicit: these are made e. – manylir ar y rhain, (dy)nodir y rhain yn benodol, fe'u dangosir yn glir, mae'r rhain/ rheiny i'w gweld yn/mewn; **this is made e. in** – dywedir hyn yn/hynny'n blwmp ac yn blaen yn/mewn, maent/mae'r rhain/rheiny i'w gweld yn/mewn; **this is to make e. (the fact) that ...** – diben (dweud) hyn(ny) yw ei gwneud yn/hi'n gwbl glir bod/mai/y(r) ...; **please draw out in e. ways the progress being made** – manylwch ar y cynnydd sy'n cael ei wneud

explicitly: either e. or implicitly – naill ai'n amlwg neu drwy awgrym yn unig

to explode: to e. a myth – dryllio cred gyffredin/gyfeiliornus, dryllio delw (?); **the population e.-ed** – cynyddodd y boblogaeth yn aruthrol/rhyfeddol, gwelwyd cynnydd aruthrol yn y boblogaeth

to exploit – manteisio'n llawn ar; **to e. fully** – manteisio i'r eithaf ar ...

exploitation: the Knowledge E. Fund – y Gronfa Datblygu Gwybodaeth

to explore – ymchwilio i ...

explosion: there has been an e. of interest in the ... – mae'r diddordeb yn y(r) ... wedi cynyddu'n aruthrol/ rhyfeddol

to expose: to be e.-ed to ... – wynebu ..., cael profiad o ..., dod i'r amlwg/golwg; **to e. ... to market forces** – dod â ...wyneb yn wyneb â grym(oedd) y farchnad; **to be e.-ed to advertisements** – clywed neu weld hysbysebion; **to be(come) e.-ed to more gas** – dod i gysylltiad â rhagor o nwy; **they will be e.-ed to (= learn about) recent developments** – fe'i cyflwynir i ddatblygiadau diweddar, cânt wybod am ddatblygiadau diweddar; **your first year of study will e. you to a wide range of experiences** – yn ystod eich blwyddyn gyntaf o astudio(,) cewch amrywiaeth mawr o brofiadau; **children (who are) e.-ed to an anti-smoking programme** – plant sy'n dilyn rhaglen gwrth-ysmygu, plant y cyflwynir rhaglen gwrth-ysmygu iddynt

exposure: e. to work will improve their ... – bydd cael profiad o waith yn gwella'u ...; **to receive/be given e.** – cael sylw (gan/yn y cyfryngau), bod y cyfryngau'n rhoi sylw i; **e. to the enterprise culture** – dod wyneb yn wyneb â'r diwylliant mentro, cael eu cyflwyno i'r diwylliant mentro; **e. to more gas** – dod i gysylltiad â rhagor o nwy; **mere e. to experience is insufficient** – nid yw profiad ynddo'i hyn yn ddigon (cynigion Ann Corkett ar *welsh-termau-cymraeg*, 11.07.03) **maximum e. limit/occupational e. standard** – terfyn uchaf y peryglu/safon peryglu galwedigaethol; **monitoring of e.** – monitro dinoethiad; **early e. to Welsh** – cysylltiad cynnar â'r Gymraeg; **pupils' e. to Welsh within their families** – cyswllt y plant â'r Gymraeg o fewn eu teuluoedd; **areas where e. guidelines to radio frequency radiation may be exceeded** – mannau lle gallai fod gormodedd o ymbelydredd radio yn ôl y canllawiau; **to ensure that e. guidelines are not exceeded** – sicrhau na fydd yr ymbelydredd yn uwch na'r canllawiau; **e. of asbestos** – dinoethi asbestos; (cynnig John Puw ar *welsh-termau-cymraeg*, 11.07.03) **e. to harm** – bod yn agored i niwed

express: for the e. purpose of ... – yn swydd er mwyn ...

to express: this e.-es itself in – mae hyn i'w weld yn/mewn

expression: the e.-s on their faces – yr olwg ar eu hwynebau; **(people's) facial e.-s are usually very important** – fel rheol, mae'r olwg (sydd) ar wynebau pobl yn bwysig iawn, fel rheol, mae'r hyn y mae wynebau pobl yn ei gyfleu yn bwysig iawn (*w-t-c, 08-10-02*); **richness of e.** – cyfoeth iaith

expressly: should be e. identified – dylid nodi'n glir/benodol

exquisite – cywrain (iawn/dros ben)

to extend: to e. good practice – lledaenu arferion da; **to e. the readership** – cynyddu nifer y darllenwyr, ehangu cylch y darllenwyr; **this guarantee does not e. to the small number of late-arrivals** – nid yw'r warant hon yn cynnwys y nifer fach o hwyrddyfodiaid, ni chynigir y warant hon i'r nifer fach o hwyrddyfodiaid

extensive: by/through the e. use of ... – drwy ddefnyddio llawer ar ...

extent: to such an e. (that) – cymaint/i gymaint graddau (nes); **to the fullest possible e.** – hyd yr eithaf; **to an e.** – i (ryw) raddau; **to some e.** – i ryw raddau, yn lled ...; **to deteriorate to an unacceptable e.** – dirywio/edwino'n ddifrifol; **the e. of ...** – mae cyfraniad ... neu hyd a lled ...; **the e. to which** – cymaint y(r); **to what e.** – cymaint; **to what e. can they believe what the ... is saying?** – faint o goel y gallant ei roi ar yr hyn y mae'r ... yn ei ddweud?/ar eiriau'r ...?; **in the e. to which** – o ran; **to any significant e.** – i unrhyw raddau sylweddol; **disorganised to the e. that** – mor ddi-drefn nes bod; **they can only be used to a limited e.** – ni ellir defnyddio mwy na mwy arnynt; **the validity of the data is seen in the e. to which ...** – gwelir dilysrwydd y data drwy ystyried i ba raddau/cymaint y mae/y bydd/yr oedd ...; **she emphasised the e. of their wealth** – fe bwysleisiodd (hi) helaethrwydd eu cyfoeth, pwysleisiodd pa mor helaeth oedd eu cyfoeth, pwysleisiodd pa mor gyfoethog/gefnog oeddent, pwysleisiodd (hi) gymaint o gyfoeth/fodd (a) oedd ganddynt; **she emphasised the e.**

of their poverty – pwysleisiodd pa mor fain/llwm yr oedd hi arnynt, pwysleisiodd (hi) pa mor dlawd oeddent;
showers will reach Pembrokeshire, but that will be the e. of it – bydd (y) cawodydd yn cyrraedd Sir Benfro, ond dyna i gyd/ond dyna'r cyfan/ond (ni fyddant yn lledu) dim pellach (na hynny)

extinct – wedi darfod o'r tir

extra: to bring in e. safeguards – eu diogelu'n well; **to add an e. dimension to** – ychwanegu dimensiwn pellach/newydd at; **news e.** – newyddion pellach/munud-olaf, rhagor (eto); **to add e. elements to ...** – ychwanegu rhagor o elfennau at ...

extract: a prose e. – darn o ryddiaith

to extract: to e. principles from a body of work – crisialu'r egwyddorion sydd mewn darn o waith; **to e. information** – tynnu/codi gwybodaeth

extraordinary: an e. meeting – cyfarfod arbennig (iawn)

extrapolation: and, by e., ... – ac(,) yn sgil hynny (,) ...

to extrapolate: one should not e. too much from ... – ni ddylid seilio gormod o obeithion ar, ni ddylid dibynnu gormod ar ...

extravagant – helaeth, hael

extreme: with e. care – yn ofalus dros ben; **the outer e.-s of the universe** – cyrion eithaf y bydysawd

extremely – hynod; **it would be e. helpful if you could ...** – byddai o gymorth mawr pe gallet (ti)/gallech (chi) ...; **to be e. rich** – bod yn graig o arian; **I'm e. worried about them** – yr wyf yn poeni llawer iawn amdanynt; **these studentships are e. competitive** – ceir/mae cystadlu brwd/ffyrnig (iawn/dros ben) am yr ysgoloriaethau ymchwil/efrydyddiaethau hyn, mae'r cystadlu/gystadleuaeth am yr ysgoloriaethau ymchwil/efrydyddiaethau hyn yn frwd/ffyrnig (iawn/dros ben)

to extricate: to. e. oneself from a situation/problem – cael eich hun allan o sefyllfa/broblem, dianc rhag sefyllfa/problem

to exude: to e. confidence – byrlymu o hyder; **this building e.-s character** – mae'r adeilad hwn yn llawn cymeriad, dyma adeilad sy'n llawn cymeriad

eye: to keep a close e. on ... – cadw llygad barcud ar ...; **in my e.-s this is a ...** – i mi, mae hwn/hyn yn ...; **a good e. for detail** – sylwgar, yn ymdrin yn drylwyr/yn drwyadl / yn ofalus â manylion, yn rhoi sylw trylwyr/trwyadl/ gofalus i fanylion, yn gallu manylu'n graff, â llygad i weld (*welsh-termau-cymraeg, 18.01.05*), â llygad craff (*John Pugh, welsh-termau-cymraeg, 18.01.05*), â llygad barcud (*Nia Cole-Jones, welsh-termau-cymraeg, 18.01.05*); **to take their e. off the ball** – methu/peidio â chanolbwyntio'n llwyr; **to bring this to the public e.** – dod â hwn/hyn i sylw'r cyhoedd, ei gyflwyno/ei chyflwyno i sylw'r cyhoedd, tynnu sylw'r cyhoedd ato/ati; **to read with a critical e.** – darllen yn feirniadol

eye-catching – yn/sy'n tynnu sylw

facade: a f. of ... – rhyw esgus o ...

face: to disappear off the f. off the earth – diflannu o'r tir; **f. like a fiddle** – wyneb fel wythnos wlyb; **the special £5 stamp will be sold at f. value** – fe werthir y stamp £5 arbennig am bumpunt; **in the f. of the imminent demise of the South Wales collieries** – am/gan fod pyllau glo'r De ar fin cau

to face: (when) f.-ed with increasing pressure – wrth i'r pwysau (arnynt) gynyddu; **to f. difficulties in investing ...** – ei chael hi'n anodd buddsoddi yn/mewn ...; **they were f.-ing ruin** – yr oedd hi bron â bod ar ben arnynt

facelift: to give ... a f. – newid golwg/diwyg ...

facial: (people's) f. expressions are usually very important – fel rheol, mae'r olwg (sydd) ar wynebau pobl yn bwysig iawn, fel rheol, mae'r hyn y mae wynebau pobl yn ei gyfleu yn bwysig iawn

facility: to have a f. for learning languages – bod â'r ddawn i ddysgu ieithoedd

fact: in view of the f. that ... – gan (fod) ..., oherwydd (bod) ...; **in f.** – yn wir; **despite the f. that ...** – er bod ...; **it is a f. that ...** – mae'n ddigon gwir bod/mai/y(r) ...; **the f. of the matter is ...** – y ffaith/gwir amdani yw ...; **f. not fantasy** – ffeithiau nid ffwlbrî; **to know for a f.** – gwybod i sicrwydd; **and that's a/the f.** – a dyna'r gwirionedd (i ti/i chi)

faculty (yn yr ystyr eglwysig) – hawleb (yn ôl y *Parchedig Aled Edwards, ficer eglwys Dewi Sant, Caerdydd, 10.11.95*)

to fade: to f. (away) – cilio

fail: failure to submit (work) will be deemed a f. outcome – os methir â chyflwyno(r) gwaith, bydd yr ymgeisydd yn methu *neu* methu wnaiff/fydd hanes yr ymgeisydd os bydd yn methu â chyflwyno(r) gwaith

to fail: f.-ing that ... – fel arall, os nad yw hynny'n bosibl, os nad oes modd gwneud hynny

failed: we will end the f. policy of ... – gan iddo fethu, byddwn yn rhoi terfyn ar y polisi o; **a f. past** – methiannau'r gorffennol

failure: to end in f. – mynd i'r gwellt; **a f. by you to ensure that ... will mean ...** – os methwch â sicrhau bod/ mai/y(r), bydd hynny'n golygu ...

fair: (in order) to be f. to ... – er tegwch i ...

fairness: in f. to ... – er tegwch i ...

fairly: f. good – lled dda

fairness: in f. – a bod yn deg; **in f. to ...** – er tegwch i ...

faithful: two ‘old f.-s’ – dau ‘hen gyfaill (ffyddlon)’, dau o’r ‘hen ffyddloniaid’

to fall: to f. to ... – dod i ran ...; gostwng i ...; **to f. into categories** – ymrannu’n/rhannu’n categorïau; **to f. into a category** – perthyn i gategori; **to stand or f.** – llwyddo neu fethu; **to f. through** – mynd i’r gwellt; **to f. into bad habits** – (dechrau) magu arferion drwg; **a performance which f.-s short of expectation** – perfformiad o safon sydd islaw’r disgwyl; **it f.-s to them to ...** – eu cyfrifoldeb/braint/hanrhydedd hwy yw ...; **to f. due** – sydd i’w talu, sy’n daladwy; **to f. derelict** – (yn) dadfeilio, (yn) mynd â’u pen iddynt, adfeiliedig, yn adfail, anghyfannedd; **to f. at the last fence** – boddi yn ymyl y lan; **to f. pregnant** – beichiogi; **to f. behind** – bod ar ei hôl hi; **to f. (well) short of** – (bod) (tipyn) yn llai na(g); heb fod yn ddigon (difrifol/cadarn neu ryw ansoddair priodol arall) (o bell ffordd); (o dan ‘short’ yng Ngeiriadur yr Academi ceir hefyd: **to f. short of the mark** – methu’r nod, methu cyrraedd y nod); **it f.-s short of providing ...** – ni lwydda/nid yw’n llwyddo i ddarparu/gynnig ...; **the Act fell short of imposing a duty to ...** – nid aeth y Ddeddf mor bell â gosod dyletswydd i ...; **with each component f.-ing (= being put) into place** – a phob cydran yn dod i’w lle, a phob cydran yn cael ei rhoi yn ei lle/yn ei phriod le; **to fall: to f. from fashion** – peidio â bod yn ffasiynol

fall-off: there has been a marked f. in (the number of) ... – mae’n amlwg bod (nifer y(r)) ... yn gostwng (yn sydyn), mae’n amlwg bod y(r) ... yn prinhau(’n sydyn)

false: there is a f. perception that – fe dybir ar gam fod/mai; **it is a f. economy to try to save time in this instance** – camgymeriad/ffolineb yw ceisio arbed amser yn yr achos hwn; **the best way of avoiding f. starts** – y ffordd orau o beidio ag/osgoi mynd ar gyfeiliorn (droeon) (wrth gychwyn/ddechrau); **a f. dawn** – adnewid gwag, ni thorodd y wawr (honno), nid dyna fu/a gafwyd, nid felly y bu, nid felly fu, chwalwyd y gobeithion, ni wireddwyd y freuddwyd, camargraff/twyll ydoedd, siom a gafwyd; **a f. assumption** – tyb(iaeth) ddi-sail

to falter – baglu (dros eiriau)

fame: their claim to f. – eu camp fwyaf (nodedig), eu prif gamp, eu camp bennaf

familiar: to become f. with ... – ymgyfarwyddo â/ag ...

to familiarise: to f. them with the opportunities to ... – eu cael (hwy) i ymgyfarwyddo â’r cyfleoedd i ..., sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â’r cyfleoedd i ..., sicrhau eu bod yn cael gwybod am y cyfleoedd i ..., rhoi gwybod iddynt am y cyfleoedd i ...

familistic – teuluyddol (?)

family: a f. matter – mater i’r teulu

fanfare – sylw, cyhoeddusrwydd, randibw (!)

fantastic – gwych (o beth), rhagorol, campus, ardderchog

fantastical – ffantasiol

far: how f. – i ba raddau, hyd a lled; **f. from easy** – ymhell o fod yn hawdd/rhwydd; **f. too common** – yn rhy gyffredin o lawer; **few and f. between** – prin; **f. and away** – o gryn dipyn, o lawer, o ddigon; **at f. too early a stage** – yn llawer rhy gynnar, yn rhy gynnar o lawer; **with f. too little regard to** – heb roi hanner digon o sylw i; **to test how f. they have understood ...** – rhoi prawf ar hyd a lled eu dealltwriaeth o; **to be f. superior to** – tra rhagori ar; **f., f. better** – yn anrhaethol well; **f., f. wider** – yn lletach o lawer (iawn); **it is sufficiently f. advanced to ...** – (mae) wedi datblygu digon/wedi symud ymlaen ddigon i; **in the f. west of the Park** – ym mhellafoedd gorllewinol y Parc; **you won’t have to travel f. if you’re going places** – ni fydd yn rhaid i chi fynd ymhell i fynd ymhellach/i weld y byd/i grwydro’r byd; **their activities range f. and wide** – mae eu gweithgareddau’n amrywio’n fawr (iawn), mae eu gweithgareddau’n cwmpasu amryw byd o feysydd; **the story spread f. and wide** – lledodd y stori i bob cyfeiriad, aeth y stori ar led; **in so f. as** – i’r graddau bod/mai/y(r); **this is not too f. removed from ...** – nid yw hyn mor wahanol â hynny i/yn rhyw wahanol iawn i ...; **this is a f. cry from ...** – mae hwn/hyn yn wahanol iawn i ...

far(-)fetched: it’s a vision that may not be as f. as it seems – mae’n weledigaeth a all beidio â bod mor bell (â hynny) ohoni, efallai nad yw (hi)’n weledigaeth sydd mor bell ohoni â hynny/â hynny ohoni

far-off: f. destinations – pellafoedd byd

far-reaching: f. reform of this policy was agreed – cytunwyd i ddiwygio llawer (iawn) ar y polisi hwn

fare: what’s the fare? – beth yw cost y daith? faint y mae’r daith yn ei gostio? faint (yw hi)?

to fare: to f. well – cael hwyl arni; **to f. less well** – peidio â chael cystal hwyl arni; **to f. badly** – dioddef; **how will passengers f. in the next decade?** – sut fydd hi ar deithwyr yn ystod y degawd nesaf? **how does this f. (when) compared to ...** – pa mor llwyddiannus/aflwyddiannus yw hwn(nw)/hon(no)/hyn(ny) o’i gymharu/o’i chymharu â/ag ...

to fascinate – mynd â bryd; **to become f.-ed by** – ymddiddori’n fawr yn

fascination: their f. with ... – eu diddordeb ysol yn/mewn ...

fascinating – hynod/tra diddorol, diddorol/difyr dros ben, digon o ryfeddod

fashion: in similar f. – yn yr un modd; **to fall from f.** – peidio â bod yn ffasiynol

fast: a hard and f. rule – trefn/rheol gaeth, rheol bendant (iawn)/gwbl bendant; **living in the f. lane** – byw ar wib; **to be f. asleep** – cysgu’n drwm/ sownd; **to pull a f. one (on them)** – (eu) twyllo ((o) dan eu trwynau), chwarae tric brwnt/budr arnynt

fast(-)stream – cyflym, carlam

fast-track – carlam; **a f. approach to ...** – ffordd gyflym o ymdrin â/ag/o ddatblygu ...

fatally: to f. undermine public confidence – tanseilio llawer iawn ar ffydd y cyhoedd, chwalu/tanseilio ffydd y cyhoedd yn llwyr/yn gyfan gwbl, bod yn ergyd farwol i ffydd y cyhoedd

faultless: with almost f. accuracy – bron heb (wneud) unrhyw wall(au)/gamgymeriad(au) o gwbl

favour: to find f. – apelio at; **to gain f.** – dod yn boblogaidd, magu poblogrwydd; **this will count in your f.** – bydd hyn(ny) o’ch plaid/yn cryfhau’ch achos; **he is a composer who is currently out of f.** – mae’n gyfansoddwr nad yw’n cael fawr/llawer/rhyw lawer o sylw erbyn hyn/bellach/ar hyn o bryd/nad yw’n ffasiynol erbyn hyn/bellach (*cynnig Ann Corkett ar welsh termau-cymraeg, 31.03.06*), mae’n gyfansoddwr nad yw’n ffasiynol erbyn hyn/bellach/ar hyn o bryd, mae’n gyfansoddwr y mae ei boblogrwydd wedi wedi pylu/edwino (*Rhian Huws, w-t-c, 31.03.06*), mae’n gyfansoddwr nad oes cymaint o fri arno (*Gomer Roberts, w-t-c, 31.03.06*), mae’n gyfansoddwr nad oes fawr o fynd arno (*Annes Gruffydd, w-t-c, 30.03.06*)

to favour: the arrangement f.-ed in – y trefniant a geir yn/mewn; **a strategy f.-ed by one school** – strategaeth a arferir mewn un ysgol

favourably: to affect ... f. and unfavourably – effeithio ar ... er gwell ac er gwaeth

favourite: television f.-s – hoff raglenni teledu

feasibility: to discuss the f. of – trafod pa mor ymarferol bosibl yw/trafod a oes/fydd modd ...

feasible: if f., ... – os oes/bydd modd, ...

feast – arlwy

feature – eitem nodwedd; **to be a f. of** – bod yn nodwedd ar; **one of the weakest f.-s** – un o’r manau gwannaf; **characteristic/typical f.-s** – nodweddion arferol

to feature – rhoi sylw i, cael sylw: **which are f.-ed in** – sydd i’w cael/a geir/sy’n ymddangos yn/mewn, sy’n cael sylw yn/mewn, rhoi sylw i; **one approach likely to f. in mathematics** – un dull sy’n debyg(ol) o gael ei arddel mewn mathemateg; **the descriptions f.-ed in** – y disgrifiadau sydd i’w gweld/y rhoir sylw iddynt/a ddangosir yn/mewn; **some aspects also f. in** – bydd rhai agweddau hefyd yn codi yn; **practical activities f. regularly in ...** – mae i weithgareddau ymarferol le cyson yn/mewn ...; **a calendar f.-ing pictures by ...** – calendr sy’n cynnwys lluniau gan ...; **the buildings f.-ed in this book** – yr adeiladau a drafodir/y sonnir amdanynt yn y llyfr hwn; **this should f. highly/strongly in our discussions** – dylai fod lle amlwg i hwn/hyn yn ein trafodaethau, dylai’n trafodaethau roi lle amlwg/sylw mawr i hwn/hyn

to feed: to be fed up with ... – bod wedi hen flino ar

feedback – sylwadau; **f. sessions** – sesiynau/cyfarfodydd i rannu profiad

to feedback: encourage them to f. on this idea – anogwch hwy i sôn am eu syniadau

feed-forward – blaenborth (?)

feel: to gain a f. for ... – magu ymwybyddiaeth/dirnadaeth o ...; **to get a f. for how you are getting on** – cael rhyw syniad o’ch cynnydd/ynghylch â’ch cynnydd/ynghylch faint o gynnydd yr ydych yn ei/wedi’i wneud/ynghylch pa mor dda yr ydych yn ei wneud/ ynghylch sut yr ydych yn dod yn eich blaen; **this is intended to give you a f. for the ethos of the ...** – diben hwn/hyn/hon yw cyfleu rhywfaint/tipyn/peth o ethos/news y(r) ...

to feel: please f. free/welcome to ... – (mae/bydd) croeso i chi ...; **to f. the atmosphere** – ymglywed/ymdeimlo â’r awyrgylch; **to f. up to going** – teimlo’n ddigon cryf i fynd; **not to f. up to going** – teimlo’n/bod yn rhy lesg i fynd; **to f. discouraged/despondent** – (bod wedi) digalonni; **to make itself felt** – cael effaith, ei amlygu ei hun

feely: f. bag – bag teimlo

fence: to fall at the last f. – boddi yn ymyl y lan

ferment – bwrllwm

ferocity: with unusual f. – yn anarferol o chwyrn

festive: f. fun – hwyl yr Ŵyl

few: f. if any – prin yw’r ..., os oes yr un/rhai o gwbl, sy’n ...; **in very f. are these fully spelled out** – (yn) anaml iawn y manylir yn llawn ar y rhain; **are f. in number** – prin yw’r; **very f. depend on ...** – prin iawn yw’r rhai sy’n dibynnu ar ...; **so f.** – cyn lleied o; **just a f. words about ...** – gair byr am, gair neu ddau am ...

fewer: no f. than ... – cynifer â/ag ...; **f. still can ...** – prinnach eto yw’r rhai a all ...

fiasco: to be(come) a f. – mynd i’r gwellt

fibrillin – ffibrilin (*eg*) [Optometreg]

fibrocartilage – ffibrocartilag (*eg*), ffibrocartilaga [Y Biowyddorau]

fickle: to depend on the f. wind – dibynnu ar fympwy’r gwynt

fiction: fact not f. – ffeithiau nid ffwlbri

fiddle: a face like a f. – wyneb fel wythnos wlyb

to fiddle: to f. with ... – chwarae â/ag ...

field: to have a f. day – cael modd i fyw; **to secure a level playing f.** – sicrhau bod yr amodau yr un fath i bawb (*w-t-c, 29.10.02*), sicrhau’r un amodau i bawb, sicrhau maes cystadlu gwastad/teg; **on the f. of play** – ar dir y chwarae

fierce – chwyrn

fiercely: f. competitive – hynod gystadleuol

to fight: to f. your corner – sefyll i fyny/ymladd/brwydro dros eich safbwynt/drosoch eich (chi’ch) hun(ain), ymladd eich achos; **to f. the corner for Wales** – brwydro dros Gymru

fighting: to be f. fit – bod yn iach fel cneuen/cricsyn

to figure: they f. prominently in ... – mae lle amlwg/blawenllaw iddynt mewn/yn ..., mae iddynt le amlwg/blawenllaw mewn/yn ...

file: suspended f.-s – ffeiliau crog

fileserver – ffeil weinyddwr [td 69 Geiriadur Termau Cyfrifiadureg – ond nid yw i'w weld yn Ngeiriadur yr Academi]

to filter: to f. through – dod i'r amlwg (gan bwyll (bach)/yn raddol (fach)), clywyd/daeth y newyddion o dipyn i beth

final: a f. reminder (*fel pennawd*) – i'ch atgoffa cyn cloi; **some f. comments** (*pennawd*) – rhai sylwadau i/wrth gloi; **as a f. point** – i gloi; **f. thoughts** (*fel pennawd*) i gloi

to finalise – rhoi'r wedd derfynol ar ..., penderfynu'n derfynol ar ...; **the contract should be f.-ed soon** – dylai'r contract terfynol fod ar gael cyn hir; **as this report was being f.-ed** – wrth i'r adroddiad hwn(nw) gyrraedd ei ffurf/wedd derfynol, wrth i fersiwn terfynol yr adroddiad hwn(nw) gael ei lunio; **if these have not yet been f.-ed** – os nad ydynt (hwy)/os nad yw'r rhain/rheiny ar eu ffurf derfynol eto; **before f.-ing your decision** – cyn i chi benderfynu'n derfynol, cyn penderfynu'n derfynol; **the conference programme hasn't yet been f.-ed** – nid yw rhaglen y gynhadledd wedi'i threfnu'n derfynol eto

finally – i gloi; **when it was f. realised that ...** – pan sylweddolwyd ymhen hir a hwyr fod/mai/y(r)

finance: the state of their f.-s – eu cyflwr ariannol, sut y mae hi arnynt yn ariannol

to find – teimlo, cael gafael ar; **... is found** – ceir ..., (mae ... i'w (g)weld); **you may f. that** – mae'n bosibl bod ..., cofiwch fod ...; **I f. it easy to believe** – mae'n hawdd gennyf gredu; **to f. favour with** – apelio at; **the survey found that ...** – dangosodd yr arolwg fod/mai..., dyma ganlyniadau'r arolwg: ...; **to f. their feet** – ymsefydlu('n gadarn); **to be found** – (bod) i'w gael/i'w chael/i'w cael; **to f. fame** – dod yn enwog; **they will f. it useful to ...** – bydd yn ddefnyddiol iddynt ... *neu* fe'i cânt yn ddefnyddiol ... *neu* iddynt hwy, bydd yn ddefnyddiol...; **they f. it useful to ...** – yn eu profiad hwy, mae'n fuddiol/fanteisiol ...; **they f. little difficulty in ...** – ni chânt fawr o anhawster wrth ...; **please f. enclosed** – amgaeaf/amgaeawn/amgaeir; **I hope you f. these papers of interest** – gobeithio y bydd y papurau hyn o ddiddordeb i chi; **in this paper you will f. described the characteristics of ...** – yn y papur hwn cewch ddisgrifiad o nodweddion ...; **I found them easy to get on with** – yn fy mhrofiad i, yr oedd hi'n hawdd cyd-dynnu â hwy; **you will f. yourself unable to (= not allowed to) move on to ...** – ni chewch/chewch chi ddim symud ymlaen i ..., fe welwch (chi) na chewch chi ddim symud ymlaen i ...; **to f. out about ...** – ceisio/darganfod gwybodaeth am ..., dod o hyd i wybodaeth am ..., i gael gwybod(aeth) am/ynghylch/ynghlân â/ag ... **phone to f. out** – ffoniwch i holi/ofyn, cewch yr ateb drwy ffonio, cewch wybod drwy ffonio/os ffoniwch, codwch y ffôn i holi/ofyn; **f. out more about ...** – i gael gwybod rhagor am ..., cewch wybod rhagor drwy ..., i wybod rhagor drwy ...; **contact them to f. out if/ whether you are ...** – cysylltwch â hwy i holi a ydych yn/ydych chi'n ...; **what can you do to help? – open this card to f. out** – beth allwch chi ei wneud i helpu? – agorwch y cerdyn hwn i (gael g)weld; **they can f. out from the photographs what their village looked like** – gallant astudio/ddefnyddio'r ffotograffau i ddarganfod/weld sut olwg oedd ar eu pentref *neu* gallant ddarganfod/weld sut olwg oedd ar eu pentref drwy astudio/ ddefnyddio'r ffotograffau; **how did you f. it?** (= *what was the experience like?*) – sut brofiad oedd ef/hwnnw/hynny?; **I hope you f. it useful** – gobeithio y bydd o ddefnydd/yn ddefnyddiol i chi

finding: if the f. of the enquiry is that ... – os daw'r ymchwiliad i'r casgliad bod/mai/y; **f.-s** – gwybodaeth a loffwyd, darganfyddion, canlyniadau, ffrwyth (gwaith) ymchwil

fine – cywrain, cain; **a f. distinction** – gwahaniaethu'n fanwl, bach iawn o wahaniaeth sydd/oedd; **f. control** – rheolaeth fanwl; **f. motor skills** – medrau/sgiliau symud celfydd/cywrair; **that suits me f.** – mae hynny'n taro i'r dim i mi; **this is a f. ...** – mae canmol mawr ar ...; **f.!** – iawn!, o'r gorau!, di-fai!; **they are f.** – maent o gwmpas eu pethau; **f. rain** – glaw mân; **the f.-er points** – y pwyntiau mân; **this is f.** – nid oes dim o'i le ar hyn(ny); **one of the f.-st church buildings** – un o'r adeiladau eglwysig godidocaf

to fine-tune – mireinio, caboli, addasu'n fanwl

finely: each degree programme is f. tuned to meet the needs of students – mae rhaglen pob gradd/pob rhaglen gradd wedi'i chynllunio'n/threfnu'n ofalus i ateb/ddiwallu/fodloni anghenion (y) myfyrwyr

to finish: they are f.-ed – mae hi wedi mynd i'r pen arnynt

finished: their system is not the f. article – nid dyna'r drefn orffenedig, trefn anghyflawn/anorffenedig yw('r drefn) hon o hyd

finite: the world's resources are f. – mae pen draw i adnoddau'r byd, nid yw adnoddau'r byd yn ddi-ben-draw/ddiderfyn/ddihysbydd, ni ellir/nid oedd modd adnewyddu adnoddau'r byd, nid yw'n bosibl adnewyddu adnoddau'r byd, nid yw adnewyddu adnoddau'r byd yn bosibl

firm – pendant; **to get a f.-er grasp of ...** – cryfhau gafael ar ...; **to be a f. advocate of...** – bod yn bendant o blaid ..., credu'n gryf mewn/yn ...

to firm: to f. up arrangements – gwneud trefniadau (mwy) pendant

first: f. and foremost – uwchlaw pob dim, yn fwy na dim, yn bennaf/gyntaf oll; **as (it) f. appears** – ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf; **to view at f. hand** – gweld drostynt eu hunain; **to study archaeological sites at f. hand** – astudio safleoedd archaeolegol yn y fan a'r lle; **from the very f.** – o'r cychwyn cyntaf; **at f.** – i gychwyn; **f. class post** – post (*nid llythyrau – mae'n cynnwys mwy na llythyrau*) dosbarth cyntaf; **this is a f. for us** – i ni(,) dyma'r datblygiad cyntaf o'i fath, dyma'r tro cyntaf i ni wneud hyn(ny), mae hwn yn ddatblygiad cwbl newydd i ni; **F.**

Minister (*of the Welsh Assembly*) – Prif Weinidog Cymru; **research students must f. complete and pass a course in ...** – rhaid i fyfyrwyr fynd ati'n gyntaf i gwblhau a llwyddo mewn cwrs sy'n ...; **f. principles** – egwyddorion sylfaenol (?); **the f. line of defence** – yr amddiffyniad yn y lle cyntaf (*Nia Humphreys, 24.04.14*)

fishy: there was something f. going on – yr oedd rhyw ddrwg yn y caws

fit: to see f. to – gweld y ffordd yn glir i; **to be f. (enough) (after illness) to** – bod yn (ddigon) iach i; **to be fighting f.** – bod yn iach fel cneuen/cricsyn; **to be in a f. state to ...** – bod mewn cyflwr i ...

to fit: to f. happily into ... – cyd-fynd yn hwylus â/ag ...; **to be f.-ted into ...** – priodi â/ag ...; **to f. the bill** – taro deuddeg/i'r dim, ateb y gofyn, cyfateb i'r disgrifiad; **a 'one size f.-s all' provision** – darpariaeth unffurf; **a one size f.-s all strategy** – strategaeth 'run fath i bawb; **a one size f.-s all strategy was not feasible** – na wnâi dim ond un strategaeth (gynhwysfawr) y tro, na wnâi dim ond un strategaeth (gynhwysfawr) ateb y diben, na wnâi un strategaeth yn unig y tro, na wnâi un strategaeth yn unig ateb y diben, bod angen mwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), bod rhaid cael mwy/bod rhaid bod â mwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), bod (yn) rhaid wrth fwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), na ellid bodloni ar (gael) un strategaeth (yn unig), na fyddai(r) un strategaeth yn ddigon, na ellid/nad oedd modd llunio strategaeth (gwbl) gynhwysfawr (*gw. welsh-termau-cymraeg, 22-23.10.04*); **to f. their studies around their work** – trefnu eu hastudiaethau o amgylch/gwmpas eu gwaith

fix: there is no short-term f. for environmental improvement – nid oes (yr un/unrhyw) ffordd tymor-byr/gyflym o wella'r amgylchedd; **to be in a f.** – bod mewn twll; **a quick f.** – ateb cyflym/sydyn, ffordd fer/gyflym o ...

to fixate: to be f.-ed by an idea – (bod) wedi ffoli/meddwi/dwlu/gwirioni/mopio/dotio ar syniad, (bod) wedi'u hudo/cyfareddu gan syniad

fixture: a permanent f. – eitem/elfen barhaol

to flag – cyfeirio at, tynnu sylw at, amlygu, codi; **to f. up ...** – cyfeirio at ..., tynnu sylw at ..., amlygu ..., codi ...

flagrant: a f. disregard for the law – anwybyddu'r/diystyru'r gyfraith yn llwyr

flagship: a f. reminder – esiamp/ptrwm i bawb; **a f. programme** – prif raglen, rhaglen bwysicaf; **a f. development** – datblygiad blaengar; **a f. fishery** – pysgodfa o'r radd flaenaf

flair – dawn/doniau arbennig/neilltuol

flash: a f. in the pan – byrhoedlog (*Muiris Mag Ualghairg, welsh-termau-cymraeg, 24.02.03*), seren wib (*Ken Owen, welsh-termau-cymraeg, 24.02.03*)

flat: to work f. out – gweithio hyd yr eithaf/fel y boi/yn ddi-stop/yn ddi-baid/fel y gwynt/yn ddygn

to flatten: all the trees were f.-ed – bwriwyd/chwythwyd pob coeden i'r llawr

flattered: feeling f. is a poor reason to start a PhD – nid yw (cael) canmoliaeth/cael eich canmol yn rheswm da dros gychwyn ar PhD; **I found it f.-ing to collaborate with ...** – yr oedd (cael) cydweithio â/ag ... yn hwb i mi/i'm balchder *neui* mi, yr oedd (cael) cydweithio â/ag ... yn hwb mawr

Flavian – Fflafiaidd (*ar www.gwyddoniadur.com, 22.04.08*)

flavour: here is a f. of what you can expect – dyma ragflas o'r hyn y gallwch ei ddisgwyl/y gallwch ddisgwyl ei weld

fleeting – tân siafins (o beth)

to flesh: to f. out – ymhelaethu ar, ychwanegu at; **to f. out an account** – ychwanegu at ddisgrifiad, rhoi disgrifiad helaethach/manylach/llawnach, manylu ar ddisgrifiad, disgrifio'n helaethach/fanylach/llawnach

flexible: your choice of module order is f. – cewch (chi) ddewis ym mha drefn y gwnewch chi'r/'ch modiwlau, cewch (chi) gymryd/wneud y/eich modiwlau mewn unrhyw drefn/ym mha bynnag drefn y dymunwch/yr hoffech (eu cymryd/gwneud)

flight: in f. – ar ffo

flimsy: the evidence is f. – mae'r dystiolaeth yn sigledig, sigledig yw'r dystiolaeth, bach/ychydig iawn o dystiolaeth (gadarn/bendant) sydd

to flinch: (s)he did not f. from ... – ni cheisiodd osgoi ..., wynebodd ... yn ddewr/wrol(!)

flip: the f. side is that ... – ochr arall y geiniog yw bod.mai/y(r) ...

flipchart – siart troi, siart cip

flipside – ochr arall y geiniog

to flood: they were f.-ed with replies – cawsant atebion lu; **this will not bring job offers f.-ing in** – wnaiff hyn(ny) ddim sicrhau y cewch (chi) gynnig llw o swyddi

floor: to wipe the f. with ... – rhoi pryd/yffach o bryd o dafod i rywun, rhoi llond pen/yffach o lond pen i ...

flourish: to finish with a f. – gorffen yn drawiadol/mewn ffordd drawiadol

flow: f. cytometry – cytometreg (*eb*) llif(oedd) [Meddygaeth]

fluency – ystwythder llafar

fluent: f. writing – ysgrifennu('n) llyfn

fluently (= *easily*) – yn ddidrafferth, yn hwylus

fluid: the situation remains f. – gallai'r sefyllfa newid eto

to flummox: I was f.-ed – aeth hi'n nos arna i

to fluorinate – fflworineiddio (gwefan http://64.233.183.104/search?q=cache:J3N9lGueHzcJ:riocorp.viewstaging.uk.com/library/reports/PDFs/2000_socEnv_Anglesey_Welsh.pdf+fflworineiddio&hl=cy&ct=clnk&cd=1, gwelwyd 14.11.07)

fluorinated – fflworineiddiedig (gwefan http://www.netregs.gov.uk/netregs/processes/416904/?version=1&lang=_w, gwelwyd 14.11.07)

flying: to get off to a f. start – cael cychwyn campus/rhagorol/ardderchog/cadarn/gwych/(arbennig o d)da/tan gamp, cychwyn yn gampus/yn rhagorol/yn ardderchog/yn wych/yn (arbennig o d)da

focal: a f. point – man amlwg

focus: they are the f. of much discussion – maent yn destun llawer o drafod; **lacking in f.** – ar chwâl; ... **continues to be a f. for their attention** – mae ... yn dal i hawlio'u sylw; **to throw into sharp f.** – amlygu'n glir, dangos yn glir; **to bring the principle into sharp f.** – hoelio sylw'n bendant iawn ar yr egwyddor; **to keep the priorities in f.** – cadw'r blaenoriaethau (o'u blaen/o flen eu llygaid/ar flaen eu meddyliau) yn glir; **the f. is on ...** – canolbwyntir ar ...; **their f. will be on ...** – fe ganolbwyntiant ar .../byddant yn canolbwyntio ar .../byddant yn hoelio'u sylw ar ..., ar ... y canolbwyntiant/ar ... y byddant yn canolbwyntio/ar ... y byddant yn hoelio'u sylw, canolbwynt eu sylw fydd ...

to focus: action has been f.-ed on – anelwyd y gweithredu at; **their work needs to be more f.-ed** – mae angen cliriach canolbwynt ar eu gwaith; **they should be more f.-ed** – dylai fod cliriach canolbwynt iddynt; **they should be exclusively/totally f.-ed on ...** – dylent roi eu holl sylw i ...

focus(s)ed – clir eu canolbwynt, canolbwyntiedig

to follow: some examples f. – dyma rai enghreifftiau; **(they/these are) as f.-s** – fel hyn, sef; **during the years that f.-ed 1962** – yn ystod y blynyddoedd ar ôl 1962; **there now f.-s a list of** – isod(,) fe welwch restr o, dyma restr o; **a hard/tough act to f.** – (w-t-c, 29.10.02) camp fydd cael neb (hanner) cystal, go brin y cawn ni rywun/neb hanner cystal (ag ef/â hi), bydd hi'n anodd llenwi sgidiau hwn/hon, ddaw neb i lenwi'i (h)esgidiau (am dipyn/am sbel go lew), rwy'n cydymdeimlo â'i (h)olynydd, druan â'i (h)olynydd, druan â'r sawl ddaw ar ei (h)ôl, bydd talcen caled o flaen/yn wynebu ei (h)olynydd, bydd hi'n anodd i neb arall gyflawni campau hwn/hon, bydd hi'n anodd i unrhyw un gyflawni'r fath gamp; **the second year f.-s a similar pattern** – patrwm tebyg sydd i'r ail flwyddyn; **(this is) f.-ed by** – ac yna; **a proposal to ... has been f.-ed through** – cafwyd gweithredu pellach ar gynnig i ...; **to f. through on instructions** – dilyn cyfarwyddiadau i'r pen; **to f. up students who had ...** – mynd ar drywydd myfyrwyr a oedd wedi ...; **to f. up comments** – rhoi sylw i sylwadau; **they could f. up the discussions by asking ...** – ar sail y drafodaeth, gallent ofyn/holi ...; **they will f. this up with you** – byddant yn codi'r mater hwn(nw) gyda chi

following: f. the demonstration – ar ddiwedd yr arddangosiad/y brotest/yr arddangosiad; **in the f. manner** – fel hyn; **f. the failure of ...** – oherwydd methiant ..., oherwydd/gan/am i ... fethu; **the f. main benefits resulted from the project** – dyma'r prif fanteision a ddeilliodd o'r prosiect; **the f. questions** – y cwestiynau hyn/isod; **f. this/which (,) the pupils devised ...** – ac yna dyfeisiodd y disgyblion ...; **during the f. months** – yn ystod y misoedd ar ôl hynny; **the f. distinction needs to be drawn:** – mae angen gwahaniaethu (rhyngddynt) fel hyn/fel a ganlyn;; **a good report will include the f.:** – bydd adroddiad da'n cynnwys y rhain:

follow-up – atodol, ategol; **a f. interview** – cyfweiliad pellach

to foment: to f. crises – ysgogi argyfyngau

fond: f. memories – atgofion braf/cynnes/melys

food: the high standard of the poems gave the adjudicators much f. for thought – oherwydd safon uchel y cerddi neu am/gan fod/oherwydd bod safon y cerddi mor uchel, bu'r beirniaid wrthi'n eu tafoli/cloriannu am amser maith/fe gymerodd (hi) amser maith i'r beirniaid eu cloriannu/tafoli

fool: more f. me! – fel rôn i dwpa/wiriona; **that f. of a doctor** – y tipyn doctor/meddyg 'na

foolproof: there is no f. way of ... – nid oes yr un/unrhyw ffordd gwbl berffaith/ddiogel o ...

foot: to get their f. on the property ladder – prynu eu cartref cyntaf

foothold: to gain a significant f. – cydio o ddifrif

football: a political f. – cocyn hitio (gwleidyddol)

foothold: they hope to gain a greater f. in ... – eu gobaith yw/maent yn gobeithio ennill rhagor o dir yn/ym/yng ...

footing: to put the situation on a more equitable f. – rhoi tecach trefn ar y sefyllfa; **on an e. footing** – i'r un graddau, ar yr un lefel

footprint: ecological f. – effaith ecolegol (*argymhelliad yr Athro Deri Tomos, Ebrill 2007*)

for: they go to ... f. a 60 minute lesson – ânt i/at ... i gael gwers 60-munud; **this is a course f. ...** – anelir y cwrs hwn at ...; **f. a community school** – yn achos ysgol gymuned; **it is f. the head to decide** – mater i'r pennaeht yw penderfynu; **they are withdrawn f. special tuition** – fe'u tynnir allan i roi hyfforddiant arbennig iddynt; **f. this to work** – er mwyn i hyn(ny) weithio; **f. one thing** – yn un peth; **reason/responsibility f.** – rheswm/ cyfrifoldeb dros; **instructions f. filling** – cyfarwyddiadau (ynghylch) llenwi; **suggestions f. development** – awgrymiadau ynghylch datglygu/ynghylch â datblygu; **opportunities f. an integrated approach** – cyfle i arfer ymagwedd integredig; **what are they f.?** – beth yw eu diben?; **targets f. which ... will need to decide** – targedau lle bydd angen i ... benderfynu; **to take f. granted** – cymryd yn ganiataol; **to question the need f. any ...** – amau a oes angen unrhyw ...; **f. God/heaven's/goodness sake** – er mwyn dyn/y nefoedd/popeth, neno'r Tad; **a tool f.**

learning – arf dysgu; **f. shame** – rhag cywilydd; **the Secretary of State f. Wales** – Ysgrifennydd Gwladol Cymru; **the Secretary of State f. Education** – yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg; **f. all their protestations** – er gwaethaf eu holl brotestiadau; **this work depends f. its success on ...** – mae llwyddiant y gwaith hwn yn dibynnu ar ...; **to hope f. the best** – gobeithio'r gorau; **f. their age, they were ...** – o ystyried eu hoed(ran), yr oeddent yn ...; **please ring the bell f. Bureau de Change** – canwch y gloch i gael sylw'r Bureau de Change; **f. comment** – i gael (eu) sylwadau; **the case f.** – yr achos o blaid; **the information they need f. their work** – y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud eu gwaith; **f. no extra charge** – heb godi tâl/unrhyw dâl ychwanegol, heb godi'r un geiniog(ar); **is management f. you?** – ai rheoli yw'r maes (iawn) i chi?; **peat used to be cut f. fuel** – torrid/arferid torri mawn i'w ddefnyddio'n danwydd; **the meeting has been confirmed f. 18 October** – cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 18 Hydref; **go to/turn to/see table 1 f. a summary of ...** – cewch grynoded o ... yn nhabl 1, yn nhabl 1 cewch grynoded o ..., mae crynoded o ... i'w weld/gael yn nhabl 1; **a document on/re using program X f. collaboration in education** – dogfen am ddefnyddio rhaglen X i hwyluso cydweithio ym myd addysg; **this diploma is required f. further professional training** – rhaid wrth/(bod wedi) cael/(bod wedi) ennill y diploma hwn cyn (cael) mynd/symud ymlaen i gael rhagor o hyfforddiant proffesiynol; **a list f. the public of which offices are open** – rhestr sy'n dweud wrth y cyhoedd/sy'n rhoi gwybod i'r cyhoedd pa swyddfeydd sydd ar agor, rhestr sy'n hysbysu'r cyhoedd o'r swyddfeydd/o ba swyddfeydd sydd ar agor

force: to join f.-s with – cydweithio â, mynd ati i gydweithio â, ymuno â; **dod ynghyd i; through f. of circumstances** – oherwydd (yr) amgylchiadau; **a powerful f.** – grym mawr/aruthrol/enbyd/dychrynlyd

to force – gorfodi; **to be f.-ed** – (bod yn) gorfod; **he was f.-ed out of his job** – cafodd ei orfodi/fe'i gorfodwyd i adael ei swydd

forced: a f. smile – gwên anfoddog; **the combination didn't feel f.** – doedd dim teimlad o ieuo'r anghymarus ynglŷn â'r cyfuniad

fore: to bring ... to the f. – rhoi/sicrhau lle blaenllaw i ...; **to bring it to the f.** – dod ag ef/â hi i amlygrwydd; **this brings the European dimension to the f.** – mae hyn yn amlygu'r dimensiwn Ewropeaidd, mae hyn yn tynnu sylw at y dimensiwn Ewropeaidd; **to keep such considerations to the f.** – cadw'r ystyriaethau hyn(ny)/cadw ystyriaethau o'r fath ar flaen y meddwl; **to come to the f.** – dod i du blaen y darlun; **to be to the f. in efforts to ...** – bod ar flaen y gad yn yr ymdrechion i ...

to forecast – rhag-weld

to forfeit – ildio

forefront: to be in the f. of – bod ar flaen y gad o ran; **these issues began to move to the f. in the field of ...** – dechreuodd y materion/problemau hyn(ny) ddod yn amlwg iawn yn/ynghym .../ym myd/maes ...

to forego: to f. free time to offer tuition – rhoi o'u hamser rhydd i gynnig hyfforddiant; **they do so, even f.-ing behaviour such as eating** – fe wnânt (hwy) hynny, hyd yn oed ar draul (cyflawni) ymddygiadau fel/megis bwyta

foregoing: it should be obvious from the f. that – dylai fod yn amlwg o ddarllen yr uchod fod/mai

foremost – mwyaf blaenllaw; **first and f.** – uwchlaw pob dim

forensics – ffforenseg *eb (26 enghraifft o'r term ar y we, yn ôl Google ar 14.05.07)*

foreshock – blaengryniad

forethought: with f., this could have been avoided – o feddwl (tipyn) ymlaen llaw, gellid bod wedi osgoi hyn(ny) *neu* byddai meddwl/tipyn o feddwl ymlaen llaw wedi osgoi hyn

forever – byth a hefyd/beunydd; **will they last for()ever?** – a fyddant yn para byth?

to forge: to f. links with – sefydlu cysylltiadau â; **to f. ahead** – ennill y blaen ar, bwrw ymlaen; **to f. a career** – sefydlu/gwneud gyrfa

form: in their present f. – ar eu gwedd bresennol, fel y maent ar hyn o bryd; **a new building in the f. of a ...** – adeilad newydd, sef ...; **this can take the f. of ...** – gall hwn/hyn/hwnnw/hynny gynnwys ...; **assessment takes the f. of an examination** – asesir drwy gyfrwng arholiad; **to decide what f. these should take** – penderfynu pa ffurf a ddylai fod iddynt/i'r rhain/i'r rheiny, penderfynu ar ba ffurf y dylent fod/y dylai'r rhain/ rheiny fod

formality: to be a f. – bod yn rhan o'r drefn (arferol); **to complete the f.-ies** – cwblhau'r camau ffurfiol

format: in bilingual f. – yn ddwyieithog; **in their present f.** – fel y maent

formative – (*Sch.*) rhagolygol; **this is a scheme (which/that is) still in its f. stages-** mae'r cynllun hwn yn dal i fod ar y gweill, cynllun yw hwn sy'n/dyma gynllun sy'n dal i fod ar y gweill, mae'n dal i fod yn ddyddiau cynnar ar y cynllun/yn hanes y cynllun hwn, maent yn dal i weithio ar gamau cynnar/cynharaf y cynllun hwn

former: f. and current theorists – damcaniaethwyr ddoe a heddiw

formerly: f. they used to go – arferent (hwy) fynd

formidable: the castle is a f. statement of the invaders' power – mae'r castell yn fynegiant trawiadol o rym y goresgynwyr; **a f. partnership** – partneriaeth gadarn/gref/gadarn gref/sy'n ddigon i ddychryn dyn/rhywun; **a f. group** – grŵp grymus

formulary – datganiad o gredoau (?)

to formulate – llunio, dyfeisio; **to f. some idea of ...** – datblygu rhyw syniad o ...; **to be in the process of being f.-ed** – ar y gweill

formulation – geiriad

foreseeable: for the f. future – am beth amser/gryn amser eto, am gyfnod go faith

Forth: like painting the F. Bridge – fel peintio arwydd Llanfair Pwllgwyngyll (*Geraint Lovgreen ar raglen Croma, S4C, 28.02.03*)

forthcoming – (i) sydd ar y gweill/i’w gynnal, sydd i ddod,(ii) croyw, heb flewyn ar ei dafod, llafar; **the f.**

debate – y ddadl sydd i’w chynnal; **if ... is/are f.** – os ceir/cewch/daw ...; **not very f.** – nid yw’n/ydynt yn datgelu fawr ddim, nid yw’n/ydynt yn rhyw lafar iawn, dywedwst; **to ensure that money is f.** – sicrhau bod yr arian yn mynd i ddod/gyrraedd; **(s)he referred to the f. retirement of ... as ...** – cyfeiriodd at y ffaith fod ... ar fin ymddeol o fod yn ...; **if no ideas are f.** – os na chynigir syniadau

forthrightly – yn groyw

forthwith – ar fyrder, yn y fan a’r lle

fortunate: to be f. in having – bod yn ffodus am fod ganddynt

fortunately – drwy drugaredd

fortune: to pay a (small/an absolute) fortune for ... – talu crochris am ...

forward-thinking – craff, â gweledigaeth

fossilised: to become f. – mynd i rigol

foul: in a f. temper – yn flin fel tincer

founding: the Assembly’s f. First Secretary – Prif Ysgrifennydd cyntaf y Cynulliad

fraction – darn/dernyn bach, rhan/cyfran fach; **for a f. of the price** – am lawer yn/(gryn) dipyn yn llai na’r pris

llawn/gryn dipyn yn rhatach, gan arbed llawer iawn (iawn) o arian; **only a f. of ...** – dim ond ychydig (bach) o ...

fracture: (fel maes): she is an expert on the f. of structural materials – mae hi’n arbenigo ar doriant defnyddiau strwythurol/mae hi’n arbenigwraig ym maes toriant defnyddiau strwythurol (*ond ‘toriant’ = ‘scission’ yn ôl y Termiadur Ysgol*)

to fragment – chwalu, mynd ar chwâl, tameidio

fragmented – ar chwâl

frame: he got up in a happy f. of mind – cododd fel y gog

frank: to be f. – a bod yn onest

frankly: to speak f. – siarad heb flewyn ar eu tafod

fraud: I always felt something of a f. – yr oeddwn i bob amser yn teimlo’n annigonol/yn teimlo braidd yn annigonol

free – dilestair, dilyffethair; **f. period** – cyfnod di-wers; **f. standing** – annibynnol; **f. of charge** – yn rhad ac am ddim;

please feel f. to – mae/bydd croeso i chi; **to be given f. play to ...** – cael rhwydd hynt/rhyddid llwyr i ...; **to give f. rein to the imagination** – rhoi rhwydd hynt i’r dychymyg; **you are required to be f. from discrimination** – mae gofyn i chi beidio â gwahaniaethu; **f.-to-air** – digidol-am-ddim (*w-t-c, Tachwedd 2002*)

trouble-f. – diffwdan, didrafferth; **jargon-f.** – di-jargon; **hassle-f.** – didrafferth, diffwdan; **problem-f.** – yn rhydd rhag problemau, heb eu problemau, heb yr un problem, heb unrhyw broblem, dim problemau, didrafferth; **error-f.** – dim gwallau, heb wall, heb yr un wall, dim camgymeriadau; **guilt-f.** – heb (iddynt) deimlo’n euog

freedom: complete f. – rhwydd hynt, tragwyddol heol

free(-)fall: those in economic f. – y rhai y mae/yr oedd/y bydd eu sefyllfa ariannol yn adfyddus/arswyddus/yn dirywio’n gyflym iawn/arswyddus/yn gwaethygu’n (arswyddus o)gyflym/yn mynd i’r gwellt

freely – yn ddigyfyngiad; **to write f.** – ysgrifennu’n helaeth/rhwydd

frequency: to show the f. with which they ... – dangos pa mor aml y byddant yn ...

frequent: this is f. – mae hwn yn/hwnnw’n digwydd yn fynych, mae hwn(nw) i’w weld yn fynych; **they make f. use of ...** – byddant yn defnyddio llawer ar ..., (fe d)defnyddiant lawer ar ...

fresh: a f.-er appearance – golwg fwy braf; **to make a f. start** – dechrau o’r dechrau (unwaith eto)

freshly: when f. built – pan oeddent/fyddent newydd gael eu codi/eu hadeiladu

friendly: environmentally-f. – cydnaws â’r amgylchedd; **environmentally-f. ways of disposing of explosives** – ffyrdd o gael gwared ar ffrwydrion heb wneud drwg i’r amgylchedd; **reader-f.** – hawdd eu darllen; ; **child-f. communities** – cymunedau sy’n dirion wrth blant

(*awgrymiadau Helen Smith ar welsh-termau-cymraeg, 08.04.03:*) **a user-f. application** – cymhwysiad hydrin; **a family-f. beer-garden** – gardd gwrw sy’n croesawu teuluoedd; **environment-f. plastic bottles** – poteli plastig nad ydynt yn niweidio’r amgylchedd/yn gwneud drwg/niwed i’r amgylchedd; **user-f.** – syml, hwylus, hawdd ei ddefnyddio/ei defnyddio/eu defnyddio

frightener: to put the f.-s on them – rhoi llond twll o ofn iddynt

frieze: f.-s – borderi

to frighten – codi ofn ar

from: to choose f. – dewis o blith; **one incident f. the history of science** – un digwyddiad yn hanes gwyddoniaeth; **to draw conclusions f.** – tynnu casgliadau ar sail; **to come f.** – deillio o; **50 years f. now** – ymhen hanner canrif; **to learn f. experience and from your mistakes** – dysgu o brofiad ac oddi wrth eich camgymeriadau; **looking south f. near Plymlimon** – gan edrych tua’r de o le/fan ger Pumlumon; **the problems that/which arise f. managing a small number of staff** – y problemau sy’n codi wrth reoli nifer fach o staff

front: **on this f.** – yn y maes hwn; **in f.** – ar y blaen; **on the criminal f.** – o ran y gyfraith troseddau; **to pay up f.** – talu'n syth; **to be u.(-)f. about it** – bod yn agored amdano/am y peth

frontier: **on the f.-s of science** – ar derfynau eithaf gwyddoniaeth; **f. technology** – technoleg arloesol

front-line: **a f. yachting centre** – canolfan hwylio o'r radd flaenaf

front-loading – blaenlwytho

fruitful – cyfoethog

fruition: **to bring their plans to f.** – eu helpu i gyflawni eu cynlluniau

frustrating: **it is f.** – mae'n achosi/peri rhwystredigaeth

to fuel – porthi; **to f. a controversy** – ychwanegu at (wres/boethder/ffyrnigrwydd) y dadlau/yr helynt; **f.-led by these successes, they set about ...** – ar sail y llwyddiannau hyn, wedi'u hysgogi/symbylu gan y llwyddiannau hyn

to fulfil: **to f. criteria** – bodloni meini prawf; **they f.-led their promises** – buont cystal â'u gair

fulfilling: **an active and f. social life** – bywyd cymdeithasol prysur a difyr/a phleserus/difyr a diddorol

fulfilment: **f. house** – tŷ cyflawni

full: **to the f.** – hyd yr eithaf; **f. potential** – holl botensial; **to be f. of** – (bod) yn berwi o; **the f. 35 minutes** – y cyfan o'r 35 munud; **f. of beans** – fel y gog

full-on: **a f. weekend** – penwythnos llawn/cyflawn (*Catrin Alun, welsh-termiau-cymraeg, 09.03.07*), penwythnos llawn mynd/cyffro (*Huw Garan, welsh-termiau-cymraeg, 09.03.07*), penwythnos llawn o hwyl a sbort a sbri, penwythnos hwyliog/prysur/egniol

full-scale: **a f. assault on poverty** – ymosod(iad) o ddifrif (calon) ar dlodi

full-time: **in f. use** – a ddefnyddir drwy'r amser

fully: **f. grown men** – dynion yn eu hoed a'u hamser; **f. a third of** – traean da o; **to be f. conversant with** – ymgyfarwyddo'n fanwl/drylwyr/drwyadl â; **they were f. justified in ...** – yr oedd ganddynt bob cyfiawnhad dros ...; **f. 68 constituencies failed to ...** – methodd cynifer/cymaint â/ag 68 etholaeth/o etholaethau; **I f. intend to** – dyna'r union beth/dyna'n union (yr hyn) rwy'n bwriadu ei wneud, **I f. intend to ...** – fy mwriad pendant yw ... neu yn bendant, rwy'n bwriadu; **a form which has not been f. completed** – ffurflen na lenwyd pob adran ohoni, ffurflen nad yw pob adran ohoni wedi'i llenwi; **we f. support the scheme** – yr ydym yn cefnogi'r cynllun gant y cant; **this is dealt with more f. in ...** – manylir/ymhelaethir ar hyn mewn/yn ...

fulsome: **to be f. in their praise for/of/to ...** – bod yn hael/ddibrin eu canmoliaeth i..., ..., canmol ... yn fawr/i'r cymylau/entrychion

fun: **to make f. of ...** – gwneud ... yn destun sbort; **f. activities** – gweithgareddau hwyliog/difyr; **it would be a f. thing to do** – byddai'n (dipyn o) hwyl (ei wneud), bydd gwneud hyn yn/hynny'n (dipyn o) hwyl, byddai'n dipyn o hwyl gwneud hynny, byddai'n ddifyr gwneud hynny; **they are purely f. questions** – dim ond cwestiynau i godi (tipyn o) hwyl yw'r rhain

function: **he described the machine's f.** – disgrifiodd (ef) yr hyn y mae'r peiriant yn ei wneud

to function – (bod) ar waith; **to be fully f.-ing** – bod ar waith yn llawn; **my brain (just) stopped f.-ing** – aeth hi'n nos arnaf

functional: **the website is fully f.** – mae'r wefan ar waith yn llawn

fundamental: **f. review** – arolwg trwyadl/trylwyr; **of f. importance** – o'r pwys pennaf; **f. reform of the system** – diwygio'r system drwyddi draw; **f. to the ...** – yr hyn sy'n sylfaenol i ..., (yr) elfen sylfaenol yn y(r) ...

fundamentally: **to change f.** – newid yn llwyr, newid o'r bôn i'r brig, newid llawer (iawn) ar

funding: **their f.** – yr arian/y cyllid a gânt

to furnish: **to f. replies to questions** – ateb cwestiynau; **to f. a report** – cyflwyno adroddiad; **this f.-es them with an opportunity to ...** – mae hwn/hyn yn/ hynny'n yn gyfle iddynt ..., dyma gyfle iddynt ...

furnishing: **(home) f.-s** – defnyddiau dodrefnu (*Mary Jones, welsh-termiau-cymraeg, 23.10.07*)

furor – strach

further: **to move f. (and f.) away** – pellhau; **they were reappointed for a f. two years** – fe'u hailbenodwyd am ddwy flynedd arall; **is there f. to go?** – a oes rhagor o ffordd i fynd?; **we can f. improve this rate by ...** – gallwn (ni) ragori ymhellach ar y gyfradd hon(no) drwy ...; **f. to your letter ...** – yn dilyn eich llythyr

to further: **to f. their understanding** – cynyddu/dyfinau eu dealltwriaeth; **an opportunity to f. your education** – cyfle i chi gael rhagor o addysg

furthermore – yn ogystal

fuss: **to make too much (of a) f. about something** – gwneud môr a mynydd o rywbeth

future: **in f.** – o hyn ymlaen; **on a/some f. occasion** – rywdro eto; **their f. plans** – eu cynlluniau at y dyfodol; **f. generations** – cenedlaethau'r dyfodol; **for f. use** – i'w (d)defnyddio rywdro eto; **in f. years** – yn y dyfodol, yn y blynyddoedd sydd i ddod

future-proofed: **access must be f.** – rhaid i fynediad fod wedi'i ddiogelu/sicrhau/warantu('n bendant/gadarn) at y dyfodol (*awgrym i welsh-termiau-cymraeg, 05.12.07 mewn ymateb i gais gan Huw Garan*)

gain: **the greatest g.** – y caffaeliad pennaf

to gain: **to g. more experience** – cael/magu/sicrhau mwy o brofiad; **to g. respect** – ennyn parch; **to g. attention** – dal sylw; **no-one g.-s from ...** – nid yw ... o fudd i neb; **to g. an insight into** – dirnad; **to g. additional insights into** – treiddio ymhellach i; **to g. acceptance** – (cael eu) derbyn; **because of the mutual benefits that can be g.-ed (from them)** – oherwydd y manteision a all ddeillio ohonynt i'r ddwy ochr; **to g. access to** – sicrhau mynediad i, cael at, gallu defnyddio/troi at; **they are g.-ing in competence and confidence** – mae eu cymhwysedd a'u hyder yn cynyddu; **to g. knowledge of** – dod i wybod am; **to g. a response** – cael/ennyn ymateb; **to g. a reputation for** – dod yn enwog am; **tell us what you hope to g. from it** – dywedwch wrthym pa fudd y gobeithiwch ei gael ohono, soniwrch wrthym am y budd y gobeithiwch ei gael ohono; **to g. the most from ...** – elwa i'r eithaf o/ar ..., elwa cymaint â phosibl ar/o ...

gainful: **to secure/obtain g. employment** – ennill bywoliaeth

galaxy: **a g. of stars was/were present** – yr oedd y lle'n llawn o sêr/yn diferu o sêr, yr oedd llond y lle o sêr

game: **to raise one's g.** – mynd ati'n/ymdrechu'n fwy dyfal/egniol/ddyncnach, cystadlu'n ffyrnicach, anelu'n uwch, mynd amdani o ddifri(f) (calon); **by upping their g. against ...** – drwy ffyrnigo/dwysáu eu brwydr yn erbyn ..., drwy (iddynt) weithredu'n ddwysach/gyfrwysach/yn fwy soffistigedig yn erbyn ..., drwy (iddynt) gymryd camau dwysach/mwy soffistigedig/cyfrwys yn erbyn ..., drwy godi safon eu chwarae (*mewn camp*), drwy (iddynt) wneud llawer yn rhagor i ..., drwy (iddynt) ymdrechu'n ddyncnach (lawer)/fwy dyfal/egniol, drwy (iddynt) ddwysáu/cynyddu eu hymdrechion i ...; **to be ahead of the g.** – bod ar y blaen (i bawb (arall))

gamut: **he/she ranged through the whole g. of crime** – cyflawnodd bob trosedd dan haul

gas: **g. stop cocks** – tapiau nwy

gateway: **the Centre is a g. to** – mae'r Ganolfan yn agor y drws i/yn eich cysylltu â/ag ...

to gather: **to have time to g. one's thoughts** – cael (yr) amser/bod ag amser i bwysu a mesur (pethau/y sefyllfa/y camau nesaf)

gathering – cyfarfod

to gauge – (pwysu a) mesur, mesur/canfod hyd a lled

gaze: **they turned their g. (= attention) towards ...** – troesant eu sylw at ...

to gear: **to g. experiences** – trefnu profiadau; **their services are g.-ed towards providing ...** – nod eu gwasanaethau yw rhoi/cynnig/darparu/sicrhau ..., mae eu gwasanaethau'n ceisio rhoi/cynnig/darparu/sicrhau ...; **to be g.-ed to** – gweddu i, anelu at, nod ... yw ...; (= *to cater for*) – lle gwnaed trefniadau (ar gyfer); **to be g.-ing up to** – (bod wrthi'n) paratoi/ymbaratoi i; **the factory isn't g.-ed to produce as much as that** – ni all y ffatri gynhyrchu cymaint â hynny

to gel: **helping the group to g.** – helpu'r grŵp i gyd-dynnu/i gydweithio fel un

gender: **g. issues** – materion y ddau ryw

general: **in g.** – ar y cyfan, at ei gilydd, fel rheol/arfer, yn amlach na pheidio; **it should be paid for from g. taxation** – dylid talu amdano/amdani o bwrs y wlad

generality: **the g. of pupils** – disgyblion yn gyffredinol; **they talk in g.-ies rather than in specific detail** – maent/byddant yn cyffredinoli yn hytrach nag yn manylu; **the g. of the foregoing** – ystyr gyffredinol yr uchod [?]

generally – ar y cyfan, fel rheol/arfer, yn amlach na pheidio; **this was not g. favoured** – nid oedd y farn gyffredinol o blaid hyn(ny); **it is g. the case that ...** – fel rheol, ... *neu* mae'n fwy na thebyg bod/mai/y(r) ...; **g. speaking** – ar y cyfan, at ei gilydd, fel arfer/rheol, yn amlach na pheidio

to generate – rhoi bod i, symbylu, creu, meithrin, ysgogi, esgor ar; **demands g.-ed by** – gofynion sy'n deillio o; **the documents g.-ed by the discussion** – y dogfennau sy'n ffrwyth y trafod/drafodaeth; ; **it g.-es its income by operating ...** – caiff ei (h)incwm drwy weithredu/rhedeg ...; **to g. a plan** – llunio cynllun

generational: **g. change** – (y) newid(iadau) (a gafwyd/a welwyd/a fu o genhedlaeth o genhedlaeth

generosity: **g. of spirit** – ysbryd/natur haelionus [*gw. welsh-termau-cymraeg, 22.09.03*]

genesis: **the g. of this approach is ...** – man cychwyn yr ymagwedd hon(no) yw ...

genre – ffurf lenyddol

gentle: **a g. introduction to ...** – cyflwyniad pwylllog/gan bwyll/fesul tipyn/o dipyn i beth i ...

gently: **very g.** – gan bwyll bach

genuinely: **to feel g. that** – teimlo o ddifrif calon fod/mai/y

geocaching – geostorio (*be*), geocelcio (*gwefan y BBC, Ionawr 2009*)

geofluid – geohylif

geomatics – geomateg (*eb*)

gestation: **this scheme has been in g. since** – mae'r cynllun hwn ar y gweill ers ...

to get: **to g. someone started on ...** – rhoi rhywun ar ben y ffordd i ...; **to g. around an obstacle** – goresgyn rhwystr; **to g. a round (the) town** – mynd o le i le yn y dref; **to g. a message across** – cyfleu neges; **an opportunity to g. your point across** – cyfle i (chi) ddweud eich dweud, cyfle i (chi) gael dweud eich dweud; **to g. rid of tiredness** – bwrw blinder; **things will g. better** – daw haul ar fryn; **to g. a firmer grasp of** – cryfhau gafael ar; **to be g.-ting on for ...** – tynnu at ..., yn agos i ...; **as their breathing g.-s faster** – wrth i'w hanadl gyflymu; **to g. the attention of** – dal sylw; **to get/be g.-ting nowhere** – mynd i'r gwellt, peidio â bod (damaid) yn nes i'r lan/damaid callach; **getting n.?** – dim lwc?, damaid callach?; **to g. old(er)** – mynd i oed; **g.-ting on in years** –

mewn gwith o oedran; **to g. off to a slow start** – dechrau/cychwyn gan bwyll (bach)/yn araf deg; **to g. off to a good start** – dechrau'n dda; **to g. there** – dwyn y maen i'r wal; **g. them to think about ...** – gofynnwch iddynt feddwl am ..., ysgogwch/anogwch hwy i feddwl am ...; **this will g. you thinking** – bydd hyn yn procio'ch meddwl; **(do you) g. the picture?** – wyt ti/ydych chi'n deall?; **to g. into the habit of ...** – meithrin yr arfer o ...; **don't let it g. to you** – paid/peidiwch â gadael iddo dy fecso/ boeni (di)/eich becsu/poeni (chi); **to be (only just) g.-ting by** – crafu byw; **to g. by** – cael dau ben llinyn ynghyd; **to g. experience** – magu profiad; **to g. it right** – taro deuddeg; **people who have difficulty g.-ting around** – pobl sy'n methu â symud/cerdded rhyw lawer; **don't you g. it?** – wyt ti/ydych chi ddim yn deall?; **to g. undressed** – diosg eich dillad; **to g. to do something** – cael cyfle i wneud rhywbeth, cael gwneud rhywbeth; **try to g. the message across/over** – cyfleu/llwyddo i gyfleu'r neges; **to g. your money out of the bank** – tynnu/codi'ch arian o'r banc (yn Bruce?); **to g. the most from ...** – elwa i'r eithaf o/ar ..., elwa cymaint â phosibl ar/o ...; **to g. the most out of ...** – cael y budd/lles mwyaf/pennaf o ...; **to g. the most out of people** – cael pobl i roi o'u gorau; **that's as good as it g.-s** dyna'r (gwasanaeth) gorau (a) gewch chi/y gellir ei gael/y gallwch/y mae modd ei gael; **to g. the meaning out** – cyfleu'r/trosglwyddo'r neges, rhoi gwybod i (bobl); **what you g. out of it** – y budd a gewch (chi) ohono/ohoni; **in case word g.-s (a)round** – rhag i'r si fynd ar led, rhag i bobl ddechrau siarad (am hynny); **to g. the answer right** – rhoi'r ateb cywir; **g. involved (in cycling)!** – dewch i feicio! (*Llais y Ddinas, Caerdydd, 12.04.12*)

giant: the banking g. – y cwmni bancio enfawr; **it's a g. step forward** – mae'n anferth o gam ymlaen

gingerly – fel iâr yn sengi ar farmor, gan bwyll

to give: to be g.-n an opportunity to – cael cyfle i; **to g. rise to** – rhoi bod i, arwain at; **to g. rise to questions** – codi cwestiynau; **this g.-s rise to several problems** – mae sawl problem yn codi o hyn, mae hyn yn esgor ar/achosi/codi sawl problem; **the main emphasis is g.-n to ...** – mae'r prif bwyslais ar ..., ar ... y mae'r prif bwyslais; **to g. up a subject** – gollwng pwnc; **to g. up** – rhoi'r ffidil yn y to; **to g. consideration to** – ystyried; **that g.-es a total of ...** – dyna gyfanswm o ...; **this g.-es a clear sign that ...** – mae hyn yn arwydd clir bod/mai/y ...; **whose names are g.-n on page ...** – y gwelir eu henwau ar dudalen ..., y mae eu henwau i'w gweld ar dudalen; **in the examples g.-n below** – yn yr enghreifftiau isod; **it g.-es me great pleasure to** – pleser mawr i mi yw; **those who gave up their valuable time to** – y rhai a roes o'u hamser gwerthfawr i; **to g. power away** – rhoi peth/rhywfaint/tipyn o'u grym/pŵer i rywun arall/i rywrai eraill, ildio peth/ rhywfaint/tipyn o'u grym/pŵer i rywun arall/i rywrai eraill; **G. Way** – Ildiwch (*nid* 'Arhoswch' – gw. *Geiriadur yr Academi – does dim rhaid stopio os nad oes cerbyd yn mynd ar hyd y brif ffordd*); **g. it a rest!** – rho'r gorau iddi/rhowch y gorau iddi, taw/tewch; **decades of economic decline gave us the highest rate of ...** – canlyniad degawdau o ddirwasgiad yw mai gennym ni y mae'r gyfradd uchaf o ...

given ... – o gael/o gofio/o ystyried/oherwydd/o achos ...; **g. that ...** – am/gan fod ..., oherwydd bod ...; **g. the creation of ...** – pe câi ... eu creu; **at a g. stage** – ar adeg benodedig; **in a g. group** – mewn unrhyw grŵp (penodol); **g. a choice** – os oes dewis, o ddewis; **g. these recommendations** – yng ngoleuni'r argymhellion hyn(ny); **g. this situation** – yn wyneb/oherwydd y/wrth wynebu'r sefyllfa hon/sydd ohoni; **they are not g. to change** – nid ydynt yn awyddus i newid

given: this is a g. – cymerir hyn yn ganiataol; rhagdybiaeth (*Bruce Griffiths, welsh-termau-cymraeg, 6.11.01*); (*cyngor John Daniels o Adran Athroniaeth Llamed, welsh-termau-cymraeg, 6.11.01*;) os derbynnir ... fel ffaith, os derbynnir bod ... yn ..., os rhagdybir bod ..., os yw ... yn rhagdyb(iaeth)

gladly: I would g. ... – byddwn i'n barod iawn i ...; **your comments will be g. received** – bydd croeso (mawr/ cynnes) i'ch sylwadau

glance: direct marketing at-a-g. – cipolwg cyflym ar farchnata uniongyrchol; **to show, at a g., how well we've done** – dangos yn gryno cystal /pa mor dda yr ydym wedi gwneud

glaringly – amlwg iawn; **g. obvious** – yn gwbl/hollol amlwg

glass: a g. ceiling – rhywbeth (anweledig) (sy'n atal/rhwystro), rhyw rym anweledig (sy'n atal/rhwystro); **to break through the g. ceiling** – chwalu/trechur grym sy'n eu dal yn ôl

gleam: a g. of an idea – egin syniad

to glean: to g. information – cywain/casglu/codi gwybodaeth; **the only information I could g.** – yr unig wybodaeth y gallwn i gael gafael arni *neu* yr unig wybodaeth y llwyddais i gael gafael arni

glitch – nam

global: a g. approach – ymagwedd gynhwysfawr; **to reach 99% of the g. population** – cyrraedd 99% o boblogaeth y byd; **g. travel** – teithio ar hyd a lled y byd

globalisation – gweithredu ar raddfa fyd-eang

globally – ledled y byd, ar hyd a lled y byd; **his expertise is sought g.** – ceisir ei arbenigedd o bob cwr/rhan o'r byd/ o bedwar ban y byd, daw ceisiadau am ei farn arbenigol o bob cwr/rhan o'r byd/o bedwar ban y byd

gloom: the story of ... is not all g. and doom – nid yw stori ... yn ddu i gyd; **g. and doom** – gofid a gwaie

to gloss: to g. over points – ochrgamu/anwybyddu pwyntiau

glossary (= *list of terms used/terminology*) – termau, rhestr o dermau

glove: hand in g. with – law yn llaw â

glycation – glyceiddio (*be*) [Optometreg]

go: to have too many things on the go – bod â gormod o heyrn yn y tân; **all in one go** – i gyd/y cyfan/y cwbl (lot) gyda'i

gilydd; **to have a go** – mentro, ei mentro hi

go-ahead: to be given the g. – cael caniatâd (i fynd rhagddo/rhagddi/rhagddynt/yn ei flaen/yn ei blaen/yn eu blaen)

to go: to go ahead with – bwrw ymlaen â; **to go without saying** – go brin bod angen/rhaid dweud; **to go deeper** – treiddio'n ddyfnach; **this dilemma will never go away** – chawn ni byth wared ar y broblem hon, ni fydd y broblem hon byth yn diflannu; ... **has a number of things going for it** – mae gan ... amryw o bethau o'i blaid; **to go off the subject** – mynd ar ôl sgwarnog; **to go it alone** – mentro (ar eich liwt/pen eich hun); **to go through a difficult period** – gweld cyfnod anodd, bod yn gyfnod anodd ar; **to go on reading** – parhau/dal ati i ddarllen; **to go out of fashion** – chwythu eu plwc; **to go out of their minds** – colli eu pwyll; **go for it!** – ewch ati!; **the changes that are going on** – y newidiadau sydd ar waith/sy'n mynd rhagddynt; **how to go about it** – sut mae ei wneud; **to go to great lengths to ...** – gwneud llawer iawn/ymdrech fawr i ...; **what thoughts were going on in your mind?** – pa syniadau oedd yn cyniwair yn dy feddwl/eich meddwl?; **everything that was going** – popeth dan haul; **the list goes on ...** – mae'n rhestr faith/ddiddiwedd ...; **this, she went on to say, is the ...** – hwn, meddai (hi) ymhellach, yw'r ... *neu* dyma, meddai (hi) ymhellach, y(r) ...; **if this performance is anything to go by, ...** – a barnu wrth/yn ôl y perfformiad hwn(nw), ...; **(s)he goes on to say ...** – yna, dywed ...

goal – cyrchnod

goalpost: to move the g.-s – newid y rheolau, newid yr amcanion (*cynigion Huw Garan, welsh-termau-cymraeg, 04.09.07*)

goggles – sbectolau diogelwch

gone: here today and g. tomorrow – tân siafins, dro dro, am gyfnod byr *neu* pwysig/enwog heddiw, di-nod/di-sôn amdanynt yfory; **not a here today gone tomorrow company** – ac nid cwmni byrhoedlog” (*Garmon Davies ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), cwmni sydd yma i aros (*John Puw ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), seren wib o gwmni (*Ann Corkett ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), cwmni dros nos (*Dr Bruce Griffiths ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), nid cwmni undydd unnos (*Rhisiart Hincks ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*)

good – graenus, celfydd, medrus; **a g. many** – cryn lawer (o); **in g. faith** – yn (hollol) ddidwyll; **a g. sized farm** – fferm o faint diogel; **for g. (and all)** – am byth; **a g. two miles** – dwy filltir go dda; **it was so g. to see them** – yr oedd hi mor braf eu gweld; **to hold g. for** – bod yn wir am; **the g., the bad and the ugly** – y da, y drwg a'r dychrynlyd; **the holiday has been so g. for them** – mae'r gwyliau wedi gwneud byd o les iddynt; **for businesses who think g. isn't g. enough** – i fusnesau sy'n credu nad da lle gellir gwella; **g. with figures** – (un) (d)da/rhai da am drin ffigurau; **that g.(-)for(-) nothing doctor** – y tipyn doctor/meddyg 'na; **he's a (real) g. for nothing!** – un coch yw e!; **it's no g. making decisions about ...** – does dim diben/pwynt gwneud penderfyniadau ynghylch/ynghlân â/ag ...; **that's as g. as it gets** – dyna'r (gwasanaeth) gorau (a) gewch chi/y gellir ei gael/y gallwch/y mae modd ei gael; **for the greater g.** – er lles cymdeithas yn gyffredinol (*Geraint Lovgreen ar welsh-termau-cymraeg, 03.09.08*), er lles y mwyafrif (*Muiris ar welsh-termau-cymraeg, 01.09.08*), er lles pawb (yn y pen draw)

goods: to deliver the g.-s – bod cystal â'u gair

to gossip: to be g.-ed about – bod yn destun siarad

to govern: the (person) shall be g.-ed solely by the principles of justice – rhaid i'r (person) arfer egwyddorion cyfiawnder yn unig

governing: rules g. ... – rheolau ynghylch/ynghlân â/ag ...; **g. principles** – egwyddorion sylfaenol

grab: the prizes (that are) up for g.-s – y gwobrau sydd i'w hennill

to grab: to g. their attention – hoelio'u sylw

grace: g. of movement – ceinder y symud(iadau)

to grace: clocks g.-ed many parlours – ceid cloc (yn addurn(o)/yn harddu) mewn llawer parlwr

graceful – cywrair

graft: some hard g. – tipyn o waith caib a rhaw/o waith caled

grand: g. total – (y) prif gyfanswm, (y) cyfanswm terfynol

grandparenting: g. criteria – meini prawf priodol (ar gyfer ymgeiswyr profiadol)

to grant: they g.-ed £1.5 million of funding to ... – rhoesant grant(iau) o £1.5 miliwn i ...

grapevine: I heard it on/through the g. – clywed/clywais sôn amdano/amdani/amdanynt, (digwydd) clywed pobl/cyfeillion/ffrindiau/cydweithwyr yn sôn/dweud amdano/amdani/amdanynt (wnes i), clywais bobl/cyfeillion/ffrindiau/cydweithwyr yn sôn/dweud amdano/amdani/amdanynt, rhyw dderyn bach ddwedodd wrtha i [*gw. welsh-termau-cymraeg, 25.02.02*], clywed/clywais sôn amdano/amdani/amdanynt gan/drwy ffrindiau/gydweithwyr [*Muiris Mag Ualghairg, welsh-termau-cymraeg, 25.02.03*], brân wen [*Catrin Alun, welsh-termau-cymraeg, 25.02.03*]

to grasp: he had not g.-ed that ... – nid oedd (ef) wedi sylweddoli bod/mai/y; **to g. an opportunity** – manteisio/ bachu ar gyfle

grass: the g. is always greener on the other side – man gwyn(.) man draw

grassed: occasionally these sites are completely g. over – ambell waith, bydd gwair/glaswellt (wedi'i dyfu)/porfa (wedi'i thyfu) dros y cyfan o'r safleoedd hyn(ny)

grasshopper: (ever) since I was knee-high to a g. – er pan ôn i'n ddim o beth

grateful: I am most g. to them – (hoffwn d)diolch o galon iddynt

gratification: (to be) a matter of g. to ... – rhoi boddhad i ..., (bod yn) destun balchder i ...
gratifying: it is g. to see ... – da/amheuthun/hyfryd yw gweld ...; **particularly g.** – amheuthun iawn/dros ben; **a g. increase in ...** – cynnydd calonogol mewn/yn ...
gratitude – diolch
grave: g. concern – pryder mawr/dwfn; **to it will incur a g. penalty** – caiff ei gosbi'n llym, fe'i cosbir yn llym
gravity: to consider the g. of the situation – ystyried pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa
great: to place g. stress on ... – rhoi pwys(lais) mawr/pwyslais trwm ar ...; **writing letters is g.** – mae ysgrifennu llythyrau'n hwyl; **to a g.-er depth** – yn fanylach; **to go into g.-er detail** – manylu ymhellach ar; **where the variety of ... is g.-est** – lle ceir yr amrywiaeth mwyaf o ...; **it is with the g.-est pleasure that I say ...** – pleser o'r mwyaf i mi yw (cael) dweud...; **at their g.-est** – yn/ar eu hanterth; **a site of very g. importance** – safle pwysig dros ben; **where the impact of ... is g.-est** – lle mae effaith ... i'w gweld gliriaf; **at a g.-er distance** – ymhellach i ffwrdd; **she is g. at writing letters** – mae ganddi ddawn arbennig (iawn) i ysgrifennu llythyrau, mae hi'n ysgrifennu llythyrau difyr dros ben/tu hwnt, mae ei llythyrau'n ddifyr/ gelfydd tu hwnt/dros ben; **you're g. at it!** – mae gennych ddawn arbennig!; **we hope you have a g. night out** – gobeithio y cewch chi noson wrth eich bodd; **it is g. to see that ...** – calondid yw gweld bod ...; **it would be g. to be able to ...** – gwyb o beth fyddai gallu ...; **they respect her a g. deal** – mae ganddynt feddwl mawr ohoni; **a g. deal of** – swmp/cryn lawer; **at a g. depth** – yn ddwfn iawn iawn; **at a g.-er depth** – yn ddyfnach; **for the g.-er good** – er lles cymdeithas yn gyffredinol (*Geraint Lovgreen ar welsh-termau-cymraeg, 03.09.08*), er lles y mwyafrif (*Muiris ar welsh-termau-cymraeg, 01.09.08*), er lles pawb; **of no g. importance** – heb fod o anfeidrol/dragwyddol bwys
greatly – cryn lawer, llawer iawn; **this has g. assisted him (in)** – mae hyn wedi bod o gymorth mawr iddo
greedily: to eat g. – bwyta'n awchus
green: to get the g. light for ... – cael sêl bendith i (ddechrau/gychwyn) ...; **g. dock beetle** – chwilen werdd y tafol [?]; **the grass is always g.-er on the other side** – man gwyn(,) man draw
to greenwash (*cwmniau'n cymryd arnynt fod eu gweithgareddau'n garedig wrth yr amgylchedd*) – gwyrddgalchu
to greet: when they were g.-ed with (derisive) laughter – pan chwaddwyd am eu pennau; **disappointment will g. this announcement/this announcement will be g.-ed with disappointment** – siom fydd yr ymateb i'r cyhoeddiad (hwn(nw))
grey – di-liw, digymeriad; **a g. area** – maes (sy'n d)digon/eithaf aneglur/ansicr/anelwig/amhendant, maes (sydd) braidd yn aneglur/ansicr/anelwig/amhendant, maes lle mae tipyn o amheuaeth, maes y mae rhywfaint/tipyn o ansicrwydd yn ei gylch, maes (sydd) heb ganllawiau pendant
to grill: to g. someone – holi rhywun yn dwll
grid: National G. for Learning – Grid Dysgu Cenedlaethol
grievance: to rake up old g.-es – codi hen grachod
grip: to come to g.-s with – cael gafael ar; **to be in the g. of scandals** – bod yn byrlymu/frith o sgandalau, mae sgandalau'n bla (yno)
grossly: to be g. inadequate – bod yn ddifrifol o annigonol; **to be g. substandard** – bod ymhell islaw'r safon; **to be g. deficient** – bod yn hynod ddifffgiol/yn ddifffgiol iawn; **to be g. exaggerated** – wedi eu camliwio'n enbyd
ground: there is enough common g. between – mae digon yn gyffredin rhwng; **there are good g.-s for this argument** – mae cryn sylwedd yn y ddadl hon; **there are g.-s for thinking** – mae achos dros/le i gredu; **on the g.-s that** – am fod, oherwydd bod; **this may be justified on the g.-s that** – gellir cyfiawnhau hyn drwy ddadlau bod; **g. nesting birds** – adar sy'n nythu ar y ddaear; **to get something off the g.** – rhoi rhywbeth ar waith; **to lose g. (completely)** – colli'r dydd; **on their own g.** – ar eu tomen eu hunain; **g. rules** – rheolau sylfaenol; **on g.-s of consistency** – er mwyn sicrhau cysondeb; **these reports give much g. for encouragement** – mae'r adroddiadau hyn yn gryn/yn rhoi cryn hwb i'r galon; **to help them get projects off the g.** – eu helpu i roi prosiectau ar ben y ffordd; **to get your venture off the g.** – rhoi cychwyn cadarn i'ch menter newydd; **these developments give g.-s for optimism** – mae'r datblygiadau hyn yn rheswm dros fod yn optimistaidd, mae'r datblygiadau hyn yn ysgogi optimistaeth/yn codi calon dyn/yn peri i ddyn godi ei galon/deimlo'n ffyddiog/optimistaidd; **the conditions on the g.** – yr amodau ar y tir ei hun/dan eu traed; **where reasonable g.-s exist** – lle bo/os oes achos rhesymol
groundbreaking – arloesol, yn/sy'n/a fydd yn torri tir newydd, a oedd yn torri tir newydd
grounding: they have a thorough g. in ... – fe'u trwythwyd mewn/yn/ym/yngh ... , maent wedi eu trwytho mewn/yn/ym/yngh ...; **to give them an excellent/a thorough g. in ...** – eu trwytho'n rhagorol/drwyadl/drylwyr mewn/yn/ym/yngh ...; **a practical g. in the subject** – trwytho yn hanfodion/elfennau ymarferol yn y pwnc
groundwork: to prepare the g. for ... – paratoi'r ffordd/tir ar gyfer ..., braenaru'r tir ar gyfer ...; **to do the g. for ...** – gwneud y gwaith cychwynnol/caib a rhaw ar gyfer ..., braenaru'r tir ar gyfer ...
to grow: to g. in complexity – mynd yn fwyfwy cymhleth; **to g. in understanding** – meithrin dealltwriaeth; **as their understanding g.-s** – wrth i'w dealltwriaeth gynyddu; **to g. more savage** – ffyrnigo; **to g. the use of ...** – cynyddu'r defnydd o ..., cynyddu'r defnyddio sydd ar ...; **jobs will g. by ten thousand by 2012** – bydd nifer y swyddi ddeg mil yn uwch erbyn 2012 *neu* erbyn 2012, bydd nifer y swyddi ddeg mil yn uwch; **the staff grew in number/staff numbers grew** – cododd/cynyddodd (nifer) y staff, codi/cynyddu wnaeth (nifer) y staff
grown: fully g. men – dynion yn eu hoed a'u hamser
growth: a g. area – maes twf

grumpy – croen ei din ar ei dalcen
guarantee: there is no g. that – nid oes sicrwydd
guard: to hold g. – gwarchod
to guard: to g. against – gwarchod rhag
guess: it's anybody/anyone's g. – pwy a wŷr
to guess: to keep your competitors g.-ing about your activities – peidio â datgelu'ch gweithgareddau i'ch cystadleuwyr, peidio â gadael i'ch cystadleuwyr wybod yr hyn/beth yr ydych chi'n ei wneud, cadw'ch cystadleuwyr rhag gwybod am eich gweithgareddau; **to g. wildly** – dyfalu'n garlamus
guesswork: wild g. – dyfalu carlamus, dyfalu'n garlamus
guessing: wild g. – dyfalu carlamus, dyfalu'n garlamus
guide: booklet g. – llyfryn cyfarwyddyd/canllaw
to guide – llywio, bod yn ganllaw i ...
guideline – canllaw
guiding: g. principle – egwyddor ganolog; **these aims are the g. lights of all educational activity** – at yr amcanion hyn(ny) y mae pob gweithgaredd/gweithgarwch addysgol yn anelu
guilt: g.-free – heb (iddynt) deimlo'n euog
guise: in the g. of – (a hwythau) fel petaent yn; **under the g. of giving schools more freedom, they are abolishing LEAs** – gan gymryd arnynt/esgus eu bod yn rhoi rhagor o ryddid i ysgolion, maent mewn gwirionedd yn dileu(r) AALlau
gumption – clem
gut: if you had any g.-s at all – petai gen ti'r/gennyh chi'r mymryn lleiaf o asgwrn cefn; **g. feeling** – teimlad yn eich dŵr/ym mêr eich esgryn

habitually: they h. went – arferent fynd
hackneyed: h. themes – hen themâu cyfarwydd
to hail: a group h.-ed by ... as being leaders in their field... – grŵp sydd/a oedd, yn ôl ..., yn arweinwyr yn eu maes/yn ei faes; **H. and Ride** – Aros ar Gais (*dyma'r cyfieithiad y mae Sir Gaerfyrddin yn ei ddefnyddio, yn ôl ymateb Llŷr Evans i gais gan Sioned Edge ar welsh-termau-cymraeg, 11-12.08.08*)
half: to cut by h. – haneru; **he's not h. the man his father is/was** – nid yw h. cystal (dyn) â'i dad; **the programme is over h. way to completion** – mae dros hanner y rhaglen wedi'i gwblhau
hallmark – nodwedd amlycaf; **to be the h. of ...** – bod yn gymaint nodwedd ar .../bod yn nodwedd amlwg (iawn/dros ben) ar ...; **to bear the h.-s of hasty preparation** – bod ag ôl paratoi brysio arnynt; **to bear all the h.-s of ...** – bod â/amlygu holl olion ...
halt: to call a h. to – atal, stopio
hamlet: village and h.-s – pentrefi mawr a mân
to hammer: to be h.-ed (= criticised) – bod o dan yr ordd; **to h. home** – pwysleisio dro ar ôl tro
to hamper – amharu ar
hand: the matter in h. – y mater dan sylw (nid *pwnc*: *pwnc* = subject); **the right-h. half** – yr hanner dde; **the work is w. in hand** – mae'r gwaith ar y gweill ers tro/wedi hen gychwyn/ddechrau/yn mynd rhagddo'n dda; **h.-s of the clock** – bysedd y cloc; **to run h.-in-h. with** – cydreded â; **to see at first h.** – gweld drostynt eu hunain; **to discuss with you at first h.** – trafod gyda chi wyneb yn wyneb, yn bersonol; **she is good with her h.-s** – mae hi'n dda ar ei llaw [*Hilda Ethall, 19.8.00*]; **to get one's h.-s on ...** – cael gafael ar ...; **on h.** – wrth law; **to put in h. a range of actions** – rhoi amrywiaeth/ystod o gamau ar waith; **work should be put in h. to ...** – dylid bwrw/mynd ati i ...; **to set in h.** – rhoi ar waith; **h. print** – print llaw; **to have a h. in these changes** – cyfrannu i'r/at y newidiadau hyn(ny)
to hand: to h. in – rhoi, cyflwyno
hand out: h. material – deunydd (i'w d)dosbarthu
handsome: to pay h. dividends – talu ar ei ganfed
handy: a h. tip – gair i gall
to hanker: to h. after ... – (bod yn) ysu am gael
to hang: h. on! – hanner munud!; **to h. out** together – cadw cwmni i'w gilydd
haphazard – mympwyol, digynllun, di-glem, chwit chwat; **their method is h.** – mae eu dull yn ddirifn, maent yn ddirifn eu dull
happily: h., ... – mae'n braf/dda/bleser cael dweud bod/mai/y/nad, peth braf/da/pleser yw cael dweud bod/mai/y/nad; **we will h. do so** – fe wnawn ni hynny â chroeso
happy: to be h. with – ymfodloni ar; **to be h. to** – bod yn ddigon parod i; **to make someone h./h.-ier** – codi calon rhywun; **make someone h. with a phone call** – codwch y ffôn i godi calon (*hen slogan BT*)
to harass: to h. someone – bod ar gefn rhywun
to harbour: to h. ideas – arddel syniadau

hard: a **h. statistical basis** – sylfaen ystadegol gadarn; **to be h. at it/work** – bod wrthi'n ddyfal; **h. evidence** – tystiolaeth bendant; **to be h. done by** – cael cam; **to have a h. time** – mynd drwy'r felin; **he took it h.** – teimlodd (ef) (y peth) i'r byw; **the h. sell** – gwerthu('n) ymosodol; **they are already h. pressed** – maent eisoes (o) dan bwysau; **h. times** – dyddiau blin; **progress has been h. won** – drwy ymdrech fawr/ddygn/ drwy ymdrechu'n ddygn/galed y mae cynnydd wedi'i sicrhau/y cafwyd cynnydd/y sicrhawyd cynnydd; **I found it h. to go there/going there was h. for me** – yr oedd yn dipyn o dreth arnaf i fynd yno, yr oedd mynd yno'n dipyn o dreth arnaf; **a h. act to follow** – (*welsh-termau-cymraeg*, 29.10.02) camp fydd cael neb (hanner) cystal, go brin y cawn ni rywun/neb hanner cystal (ag ef/â hi), bydd hi'n anodd llenwi sgidiau hwn/hon, ddaw neb i lenwi'i (h)esgidiau (am dipyn/am sbel go lew), rwy'n cydymdeimlo â'i (h)olynydd, druan â'i (h)olynydd, druan â'r sawl ddaw ar ei (h)ôl, bydd talcen caled o flaen/yn wynebu ei (h)olynydd, bydd hi'n anodd i neb arall gyflawni campau hwn/hon, bydd hi'n anodd i unrhyw un gyflawni'r fath gamp; **to be h.-est hit** – ei chael ei waethaf; **a hard and f. rule** – trefn/rheol gaeth, rheol bendant (iawn)/gwbl bendant; **old habits die h.** – araf y cilia/palla hen arferion, o'u hanfodd y cilia hen arferion, anodd tynnu cast o hen geffyl; **to learn the h. way** – dysgu o/drwy brofiad, dysgu drwy brofiad chwerw, dysgu drwy ymdrech fawr; **a h. core of irresponsible drivers** – cnewyllyn (y)styfnig o yrwyr anghyfrifol; **h. on the heels of ...** – yn fuan (iawn)/yn syth ar ôl (i) ...

hardened: **a jury is not case-h. as they sit only for two weeks** – dydy/fydd rheithgor ddim yn blino ar (wrando) achosion am mai am bythefnos yn unig y maen/byddan nhw'n eistedd/am nad ydyn nhw/fyddan nhw'n eistedd ond am bythefnos; **if judges become case-h.** – os bydd agwedd barnwyr at achosion yn caledu

hard-hitting – ergydol, diflewyn ar dafod

hard-pressed: **they are already h.** – maent eisoes (o) dan bwysau; **this says much for the h. team who provided support** – mae hyn yn/hynny'n dweud llawer am y tîm a roes/roddodd/ddarparodd gymorth er gwaetha'r pwysau (oedd/a oedd) arnynt *neu* mae hyn yn/hynny'n dweud llawer am y tîm a lwyddodd, er gwaetha'r pwysau (oedd/a oedd) arnynt, i helpu/i gynorthwyo/i roi cymorth/i ddarparu cymorth; **we'll be h. to finish it by Friday** – cael a chael fydd hi i ni orffen/i ni ddod i ben erbyn dydd Gwener

hardship: **students in h.** – myfyrwyr sy'n dioddef/wynebu caledi

hard-wired: **to be h. into** – wedi'i wreiddio yn/mewn ..., wedi'u gwreiddio yn/mewn ...

to hark: **to h. back to the old days** – troi'n/cyfeirio'n ôl at yr hen ddyddiau, hiraethu am yr hen ddyddiau, sôn (byth a hefyd/beunydd) am yr hen ddyddiau, hel atgofion am yr hen ddyddiau

harm: **he kept his daughter out of harm's way** – cadwodd (ef) ei ferch rhag dichell dynion; **to be in h.'s way** – bod mewn perygl

to harm: **to h. the beauty of ...** – amharu ar harddwch ...

harmful: **to be h. to the beauty of ...** – amharu ar harddwch ...

harmless: **it is h.** – nid yw'n gwneud fawr o ddrwg/niwed

harmonious: **a h. relationship** – perthynas esmwyth; **a h. combination** – cyfuniad braf

to harmonise: **to h. with ...** – cydweddu â/ag ...

harmony – cysain; **the h. of contradictions** – cytundeb yr anghytûn (concordia discors)

harness: **in h., they were always willing to ...** – wrth eu gwaith, yr oeddent bob amser yn barod i ...

hassle – ffwdan; **without the h. of (your) having to phone** – heb i chi orfod (mynd i'r drafferth i) ffonio; **h.-free** – hwylus, didrafferth; **to cut the h.** – hwyluso pethau, hwyluso'r gwaith/drefn

to hate: **to h. something** – (bod) rhywbeth yn dân ar eu croen; **I hated the prospect/(very) thought of going there** – arswydwn rhag mynd yno

haunting – adleisiol

to have: **it has three elements** – mae/perthyn iddo/iddi dair elfen; **h. a safe journey home!** – taith ddiogel adref i chi!; **this will h. agricultural benefits** – bydd i hyn fanteision amaethyddol; **having examined ...** – ar ôl archwilio/astudio ...; **we will h. our staff wear name labels** – byddwn yn trefnu i'n staff wisgo labeli enw/byddwn yn sicrhau bod ein staff yn gwisgo labeli enw; **this material would h. value for all departments** – byddai'r deunydd hwn o werth i bob adran; **this has the effect/benefit of** – effaith/mantais hwn(nw)/hyn(ny) yw; **although they need to h. quick recall of ...** – er bod angen iddynt (allu g)alw ... i gof yn gyflym; **h. them refer to their work on ...** – gofynnwch iddynt feddwl am eu gwaith ar ...; **this is not the only class to h. swimming lessons** – nid hwn yw'r unig ddosbarth sy'n cael gwersi nofio; **to h. a positive attitude towards ...** – ymagweddu'n gadarnhaol (tuag) at ...

havoc: **to cause h.** – achosi pob math o helyntion/helyntion o bob math

haymaking – lladd gwair

to hazard: **she h.-ed a date of ... for this** – (fe) awgrymodd (hi) ... yn betrus yn ddyddiad i hwn, (fe) awgrymodd yn/hi'n betrus i hwn/hon gael ei godi/ei chodi yn/ym/yng(h) ..., ei hawgrym petrus oedd mai yn/ym/yng(h) ... y codwyd hwn

head: **to compete h. to h. with ...** – cystadlu'n uniongyrchol â/ag ...; **are you off your h.?** – wyt ti'n gall (,dwed)? *neu* ydych chi'n gall (dwedwch)?, oes cnoc/colled arnat ti/arnoch chi?; **to tackle problems h. on** – taelo problemau'n ddiwyro/'n syth/'n ddioed/ar unwaith/o ddifrif/heb hel dail/heb geisio'u hosgoi/heb drïo'u hochrgamu, mynd i'r afael â phroblemau'n syth/'n ddioed/ar unwaith/o ddifrif/heb hel dail/heb geisio'u

hosgoi/heb drïo'u hochrgamu; **to give you a h. start** – eich rhoi (chi) (dipyn) ar y blaen; **a h. start in life** (*fel pennawd*) – dechrau ar y blaen

to head: to h. a list – bod ar frig rhestr; **to h. for ...** – mynd i/am ..., bwrw draw i/am ...; **she is h.-ing our preparations for ...** – hi sy'n arwain ein paratodau ar gyfer ...; **they h.-ed for the park** – aethant draw i'r parc, (draw)/(i ffwrdd) i'r parc â nhw, i ffwrdd â nhw i'r parc; **the ship h.-s west to ...** – mae'r llong yn hwylio tua'r gorllewin i ...; **to h. down a dead end** – (gweithredu) yn gwbl ofer/ddi-fudd; **to h. up ...** – bod yn bennaeth ar ...

headache – problem ddryys

headed: h. paper – papur swyddogol; **I would like to thank him for guiding me through the many(-)h. beast** (= *holl waith papur a biwrocratiaeth*) **that is the [name of the authority]** – hoffwn ddiolch iddo am fy nhywys drwy ddrysa [enw'r awdurdod] (*awgrym Huw Garan ar welsh-termau-cymraeg ar 30.10.07*)

headless: the h. chicken approach – gweithredu'n wyllt a(c yn d)direswm/didrefn

headline: health and fitness has become a h. issue – mae iechyd a ffirwydd (yn fater sydd) wedi cipio'r penawdau

headship: h. experience – profiad o fod yn brifathro/brifathrawes/bennaeth

headway: to make h. – dod yn eu blaen, gwneud llawer/rhyw lawer/hewl ohoni

health: such websites should come with/carry a h. warning – peidiwch â llyncu cynnwys y gwefannau hyn(ny)/gwefannau o'r fath yn ddihalen, dylid bod/dylech (chi) fod yn ofalus iawn wrth gredu cynnwys/wrth dderbyn geirwired y gwefannau hyn(ny)/gwefannau o'r fath

heap: to be reduced to a h. – cael eu dymchwel i'r llawr/yn garn; **to be reduced to a h. (laughing)** – roedden nhw'n g'lanna chwerthin, roedden nhw'n chwerthin ei hochor hi, rôn nhw'n wherthin nes bo' nhw'n wan

hearing: a h. defect – diffyg ar eu clyw

heart: the h. of the earth – crombil y ddaear; **take h.!** – codwch eich calon(nau)!, paid/peidiwch (â) digalonni; **to change people's h.-s and minds** – newid barn (a rhagfarn) pobl, argyhoeddi pobl; **after their own h.-s** – wrth fodd eu calon; **to sing to your h.'s content** – canu faint fynni di/faint fynnwch chi

heart-felt – o lwyrfryd calon; **(my) h. thanks** – diolch o galon

heartily – yn frwd

heartland: Welsh h.-s – y brodydd Cymraeg

heavily: to rely h. on ... – dibynnu'n fawr/helaeth/llawer ar ...; **they h. outweigh ...** – maent yn drech o lawer na(g) ...; **to be h. criticised** – cael eu beirniadu'n hallt; **to be h. involved in ...** – ymwneud llawer iawn â/ag ...; **to be h. defeated** – methu (o hewl) â dod yn agos at lwyddo

heaving: the place was h. – yr oedd llond y lle o bobl

heavy: (a) h. demand for ... – galw mawr am ...; **h. rain** – glaw mawr; **to pay a h. price for ...** – talu'n hallt am ...

hectic – prysur iawn/dros ben/ar y naw; **it's h. here!** – mae hi fel ffair yma!

to heed: to h. the advice of ... – dilyn cyngor ...

heel: hard on the h.-s of ... – yn fuan (iawn)/yn syth ar ôl (i) ...

hefty: a h. £40 million – cryn £40 miliwn

height: at the h. of the depression – pan oedd y dirwasgiad ar ei waethaf

to heighten: to h. an awareness – meithrin/datblygu ymwybyddiaeth

heightened: an emotionally h. situation – sefyllfa emosiynol iawn, sefyllfa eithaf/bur/go emosiynol, sefyllfa (sy'n l)lawn emosiwn

hell: to go through h. and high water for – mynd drwy ddwr a tân dros; **to h. with the cost!** – (does) dim ots/pwys am y gost, waeth beth/beth bynnag fydd y gost, (naw) wfft i'r gost, dyw'r gost ddim yn bwysig/'ma na 'co/dydy'r gost ddim yma nac acw, nid y gost sy'n bwysig, paid/peidiwch â phoeni am y gost *neu* y gost, wir!; **get the h. out of here!** – heglu hi o 'ma'r diawl!/heglwch hi o 'ma'r diawlaid!; **there'll be h. to pay** – bydd lle ar (y) cythraul/diawl yma/yno; **to h. with them!** – naw wfft iddyn nhw!

to help – bod o gymorth/help

helpful – buddiol, adeiladol, bendithiol, yn barod i helpu, llesol, o les; **to be h.** – bod yn gaffaeliad; **not very h. if ...** – peth gwastraffus iawn os ...; **they may prove h. in ensuring that...** – (efallai y) gallant helpu i sicrhau bod/mai/y(r)...

helpless: to be h. in the face of change – bod ar drugaredd newidiadau

hence: h. the need for ... – dyna sy'n esbonio'r angen am/i ...

to herald: to h. a new era in ... – agor oes newydd yn hanes ...

here – [= *in this respect*] – yn hyn o beth; **h. can be seen a picture of ...** – dyma lun o ...; **h. today and gone tomorrow** – tân siafins, dro dro, am gyfnod byr *neu* pwysig/enwog heddiw, di-nod/di-sôn amdanynt yfory; **not a h. today gone tomorrow company** – nid cwmni byrhoedlog (*Garmon Davies ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), cwmni sydd yma i aros (*John Puw ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), seren wib o gwmni (*Ann Corkett ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), nid cwmni dros nos (*Dr Bruce Griffiths ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), nid cwmni undydd unnos (*Rhisiart Hincks ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*); **the h. and now** – y presennol

herein – yn hwn(nw)/hyn(ny)

heretofore: this may make it more difficult than h. to ... – gall hyn ei gwneud yn anos eto/yn anos na chynt i ...

herewith: h. the ... – dyma'r ...

to hesitate – cloffi rhwng dau feddwl; **please do not h. to contact me** – mae/bydd croeso i chi gysylltu â mi; **I hope you**

will not h. to contact me – gobeithio y byddwch yn cysylltu â mi'n syth/ar unwaith, gobeithio yr ewch chi ati'n syth/ar unwaith i gysylltu â mi; **please do not h. to use it** – cofiwch y gallwch chi bob amser ei (d)defnyddio (*Sian Ithel*, 29.06.06), peidiwch â meddwl ddwywaith cyn ei (d)defnyddio, ewch ati'n syth/ddiymdroi i'w (d)defnyddio

het: to be all h. up – poeni'n arw/fawr

hetrearchical (*sillafiad anghywir?*) – hetrearchiadd (heterarchaidd?)

to hide: to h. oneself – mynd i guddio

high: a h. proportion of ... – cyfran fawr o ...; **of the h.-est importance** – o'r pwys pennaf; **to go through hell and h. water for** – mynd drwy ddŵr a tân dros; **h. quality** – graenus; **this has been a year of h.-s and lows** – mae hi/eleni wedi bod yn flwyddyn o lanw a thrai; **h. calibre students** – myfyrwyr disglair; **many had h. hopes that his would ...** – yr oedd gan lawer (ohonynt)/arddelai llawer ohonynt obaith mawr y byddai hyn yn..., yr oedd llawer ohonynt yn gobeithio'n fawr y byddai hyn yn..., yr oedd llawer ohonynt yn obeithiol iawn y bydd hyn yn/mai effaith/canlyniad hyn(ny) fyddai...; **to be on (their/one's etc) h. horse** – clochdar; **to be left h. and dry** – cael ei adael/eu gadael yn ddinodded/ddiamddiffyn; **to pay a h. price for ...** – talu'n hallt am ...; **to place a high v. on the support provided by ...** – bod â pharch mawr at gymorth ...; **people place a high v. on local access to services** – mae pobl yn awyddus (iawn) i wasanaethau fod ar gael yn lleol; **to be at a record h.** – bod yn fwy/uwch nag erioed (o'r blaen); **support of the h.-est order** – cymorth o'r radd flaenaf; **a h. degree of certainty** – gyda chryn llawer/llawer iawn o sicrwydd; **anti-Irish feeling was running so h. that ...** – yr oedd (y) teimladau gwrth-Wyddelig wedi cyffroi/yn corddi cymaint nes ..., cymaint oedd (cryfder/ ffymigrwydd) (y) teimladau gwrth-Wyddelig nes ...; **a h. socio-economic area** – ardal economaidd-gymdeithasol lewyrchus/ffyniannus/gefnog

highbrow: h. science – uchel-wyddoniaeth

high-heeled: h. shoes – esgidiau sodlau main

to highlight – tynnu sylw (at), tanlinellu, dangos, (dangos) yn glir/bendant, rhoi sylw i ..., nodi, rhoi lle blaenllaw i ...; **be insufficiently h.-ed** – peidio â rhoi digon o sylw i ...

highlighter: h. pens – lliwleuwyr (CAI)

highly: h. motivated – cryf eu cymhelliad; **h. effective** – hynod effeithiol, effeithiol dros ben; **h. enthusiastic** – llawn brwdfrydedd; **h. trained** – helaeth eu hyfforddiant; **it is h. likely that ...** – mae'n fwy na thebyg bod/mai/y(r) ...; **a school which r.-s research so h.** – ysgol sydd â chymaint o barch i/at ymchwil; **this should feature h. in our discussions** – dylai fod lle amlwg i hwn/hyn yn ein trafodaethau, dylai'n trafodaethau roi lle amlwg/sylw mawr i hwn/hyn(ny); **they are h. regarded** – maent yn uchel eu parch; **to speak h. of ...** – canmol, sôn yn ganmoliaethus/llawn canmoliaeth am ...

high-performance: a h. car – car cyflym/pwerus iawn, car â thipyn/cryn dipyn/llawer (iawn) o fynd ynddo

high-profile – amlwg, uchel-eu-proffil

high-quality – graenus

high-risk: a h. strategy – strategaeth fentrus/berylus

hindsight – ôl-welediad [*foresight* = *rhagwelediad* (GyrA)]; **in h.** – o/wrth edrych yn ôl; **with the benefit of h.** – gyda synnwyr yfory/drannoeth, (ond) hawdd doethinebu heddiw

hint – gair o gyngor: **useful h.-s** – gair i gall; **a h. of ...** – tinc o ...

to hint – taro'r post i'r pared glywed, lled-gyfleu, rhoi rhyw syniad o ...

historical: h. studies – astudiaethau hanes; **a(n) h. investigation of the development of ...** – ymchwiliad i hanes datblygu/datblygiad ...; **a(n) h. account of ...** – disgrifiad o hanes ...; **h. interest in these ... is not new** – nid peth newydd yw'r/mo'r diddordeb yn hanes y blaenau hyn

historically (= *previously*) – gynt, yn y gorffennol

history: throughout their short h. – drwy gydol eu hoes fer; **this place is h.** – mae hi ar ben ar y lle 'ma; **a h. of controversy** (*fel pennawd*) – testun dadl(au) ar hyd yr oesoedd/y canrifoedd/ers tro byd; **poverty will never be h. unless ...** – chawn ni byth wared ar dlodi oni(d) ...; **it has, throughout its h., hosted a variety of events** – cynhaliwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau yno/ynddo/ynddi o dro i dro/o bryd i'w gilydd/ar hyd y blynyddoedd/o'r dechrau'n deg/o'r cychwyn cyntaf

hit: it doesn't have to be h. or miss – nid oes rhaid iddo fod yn fater o hap a damwain/yn broses o hap a damwain; **to be a great h. with ...** – apelio'n fawr at ..., denu llawer iawn o (sylw/bobl), llawer o bobl wedi dotio ar ..., bod yn llwyddiant mawr/ysgubol ymhlith ...

to hit: to h. the headlines – cipio'r penawdau; **to/you've h. the nail on the head** – dyna ddweud calon y gwir, gwir pob gair; **to h. the ground running** – bod yn barod i weithredu'n syth/ar unwaith/yn ddi-oed/yn ddiymdroi/cyn gynted ag y bydd y drysau'n/y swyddfa'n/y(r) ... yn agor, bwrw/mynd ati'n syth/ar unwaith/yn ddi-oed/yn ddiymdroi/cyn gynted ag y bydd y drysau'n/y swyddfa'n/y(r) ... yn agor; **for a project of such short duration it is necessary to h. the ground running** – gan fod cyfnod y prosiect mor fyr, bydd angen bwrw ati'n ddiymdroi; **to h. the ground running in their new role** – mynd/ bwrw ati'n syth yn eu rôl newydd, mynd i'r afael â'u rôl newydd yn syth/ar unwaith; **to be hardest h.** – ei chael ei waethaf; **interest rates h. 15%** – cododd cyfraddau llog i 15%/mor uchel â 15%

hitch: it went without a h. – (fe) aeth yn (gwbl) ddidrafferth/yn hwylus ddigon

hive: the place was a h. of activity – yr oedd y lle'n ferw gwyllt/lle'n fwrlwm o weithgarwch

hold: to be on h. – aros yn eu hunfan; **to put a matter on h.** – atal mater (am y tro/dros dro), rhoi mater o'r neilltu (am y tro/dros dro), dal mater yn ôl (am y tro/dros dro), peidio â gweithredu (ymhellach) ynghylch mater, peidio â mynd rhagddo/rhagddo/rhagddynt, peidio â symud yn ei flaen/ei blaen/eu blaen; **to put further action on h.** – ymatal rhag gweithredu ymhellach/rhag cymryd camau pellach; **their holidays are on h.** – maent wedi gohirio (trefnu) eu gwyliau; **a debate with no h.-s barred** – dadl ddiflewyn ar dafod;

to hold – credu, bod o'r farn; **to h. good/true for ...** – bod yn wir am ...; **to h. (the) attention** – dal a chadw sylw; **the number of books they h.** – nifer y llyfrau sydd ganddynt/(sydd) yn eu meddiant; **to be h.-ing their own** – bod yn dal eu tir; **a record sheet held at the centre** – taflen gofnodi a gedwir yn y ganolfan; **this should h. no mysteries for them** – ni ddylai hyn fod yn ddirgelwch iddynt; **to h. a viewpoint** – arddel safbwynt; **h. on!** – hanner munud!, aros/arhosa/ arhoswch funud; **the high regard in which they are held** – y parch mawr sydd iddynt; **sometimes letters are held up** – weithiau bydd oedi yn achos llythyrau; **to h. consultations with ...** – ymgynghori â/ag ...; **to h. information on computer** – cadw gwybodaeth ar gyfrifiadur; **to h. out the possibility that ...** – codi'r/cynnig y posibilrwydd bod/mai/y(r) ...; **the numbers are h.-ing up well** – nid yw'r niferoedd wedi gostwng fawr ddim/bron o gwbl, mae'r niferoedd yn dal yn eitha(f) (da), ni chollwyd fawr o(r) aelodau; **the majority ruling held sway** – penderfyniad y mwyafrif (a) aeth â hi; **they won't h. it against you** – fyddan nh w ddim dicach; **to feel that the future h.-s no hope** – teimlo nad yw'r dyfodol yn cynnig unrhyw obaith; **to h. promise** – bod yn addawol; **they will be held to account for their ...** – byddant yn atebol am eu ...; **what the future is likely to h for mankind** – yr hyn sy'n debyg o ddigwydd i'r ddynolryw yn y dyfodol; ; **to h. a degree/qualification** – bod â gradd/â chymhwyster; **they h. (out) the prospect of affecting ...** – maent yn debyg/eithaf tebyg o effeithio ar ...; **people may h. their culture close to them** – gall pobl gredu bod eu diwylliant yn werthfawr iddynt/yn golygu llawer iddynt/bod eu diwylliant yn annwyl iawn ganddynt

holder: if you are not a degree h. – os nad oes gennych (chi) radd, os nad oes gradd gennych (chi)

hollow – gwantan

holy: the H. land – Israel

home: h. area – cynefin; **to bring h. to** – ei gwneud hi'n glir i, cael/gwneud i ... sylweddoli; **this brought home to him that ...** – gwnaeth (hyn/hynny) iddo sylweddoli'n fwy fyth/fwy nag erioed/gliriach byth/nag erioed fod/mai ...; **London and the H. Counties** – Llundain a'r siroedd cyfagos; **to get the message h.** – cael (pobl) i ddeall y neges, cael (pobl) i sylweddoli mor wir yw'r neges; **to drive/slam h. the point** – cyfleu'r pwynt yn glir/fyw iawn; **my h. town** – y dref/ddinas lle cefais fy magu/lle y treuliais fy mhlentynod, y dref/ddinas a fu'n/a oedd yn gartref i mi

homelessness – digartrefedd; **h. has increased to unprecedented levels** – mae nifer y digartref yn uwch nag erioed (o'r blaen)

homely: a h. style – arddull agos-atoch

to hone: to h. skills – mireinio/caboli sgiliau

honed: h. skills – sgiliau praff

honestly: h.! – wir i chi!

honesty: in all h. – a bod yn hollol/gwbl onest

honour: in h. of – o barch i; **on my h.** – ar fy ngair (*cynnig Carolyn Iorwerth wrth ymateb i gais gan Catrin Beard ar welsh-termau-cymraeg, 12.08.08*)

to honour: to h. their commitment(s) – cadw (at) eu gair; **to h. their obligations** – cyflawni eu rhwymedigaethau, cydymffurfio â'u rhwymedigaethau

hooked: to become 'h.' on reading – troi/datblygu'n ddarllenydd/ddarllenwyr mawr/selog; **to be h. on computers** – wedi gwirioni ar gyfrifiaduron, wrth eu bodd â chyfrifiaduron

hope: many had high h.-s that his would ... – yr oedd gan lawer (ohonynt)/arddelai llawer ohonynt obaith mawr y byddai hyn yn..., yr oedd llawer ohonynt yn gobeithio'n fawr y byddai hyn yn..., yr oedd llawer ohonynt yn obeithiol iawn y bydd hyn yn/mai effaith/canlyniad hyn(ny) fyddai...; **a vain hope** – breuddwyd gwrach wrth ei hewyllys; **more social equality was a vain h.** – go brin y gwelid rhagor o gydraddoldeb cymdeithasol

to hope: it is to be h.-ed – gobeithio; **to h. against h.** – gobeithio yn groes i'r disgwyl (*Alan Llwyd, Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu, td 301*); **the outcomes/results they are h.-ing for** – y canlyniadau y maent yn gobeithio'u gweld/y gobeithiant eu gweld;

hopeless: their situation is h. – mae hi wedi mynd i'r pen arnynt, mae hi ar ben arnynt

horrible: a h. thing – cythraul/diawl o beth

horrifying – dirdynnol

horror: h.-s – erchylltra

horse: to run with the h.-s and the hounds – gweiddi hai efo'r cwn a hwi efo'r cadno; **to be on (their/one's etc) high h.** – clochdar

horseplay: h. and practical jokes can have unforeseen and tragic consequences – gall chwarae droi'n chwerw (a hwyl yn hunllef)

to hospitalise – derbyn/cymryd i(r) ysbyty

host: h. company – cwmni croesawu; **a (whole) h. of ...** – cant a mil o .../cannoedd ar filoedd o ..., llond gwlad o ..., llu

(mawr) o ...

to host – cynnal, estyn croeso i ...; **to be h.-ed by ...** – wrth y llyw yr oedd/y mae/y bydd ...; **a debate h.-ed by ...** – dadl a ... wrth y llyw; **the Park will h. a race** – fe gynhelir ras yn y Parc, bydd y Parc yn cynnal ras; **the department h.-s a research unit** – mae'r adran yn gartref i uned ymchwil, yr adran yw cartref uned ychwil; **to h. a visit** – gofalu am (drefniadau) ymweliad; **the college will h. a table at the dinner** – bydd gan y coleg fwrdd yn y cinio; **to h. a football game/match** – llwyfannu gêm bêl-droed

hostile: in h. territory – ar dir(oedd) y gelyn

hot: to sell like h. cakes – gwerthu fel y boi

hotline – llinell arbennig/frys

hotlink – cyswllt cyflym

hotspot: a crime h. – man/lle gwael (am) droseddu/dorcyfraith, manau problemus (*John Puw, welsh-termau-cymraeg, 14.11.03*); **the h. for ...** – y man/lle gwaethaf am ...

house: the H.-es of Parliament – Dau Dŷ'r Senedd

to house: it h.-es ... – ynddo/ynddi ceir ..., mae'n gartref i ...; **a library which h.-s a selection of books** – llyfrgell sy'n cynnwys/lle cedwir detholiad o lyfrau, llyfrgell ac ynddi ddetholiad o lyfrau

household: h. salt – halen cegin; **a h. name** – enw (sy'n) adnabyddus (i lawer/i bawb)

housing: to specialise in h. – arbenigo ym maes tai

how (+ adj) – mor (+ ans); **h. far** – i ba raddau, pa mor bell; **h. far they have understood** – hyd a lled eu dealltwriaeth; **h. long is ...?** – (ers) faint (o amser) y mae ...?; **to assess h. well ... has been understood** – asesu i ba raddau y deallwyd ...; **to assess h. well they are meeting the requirements of ...** – i asesu eu llwyddiant o ran ateb gofynion...; **an explanation of h. ...** – esboniad o'r ffordd y bydd ...; **guidelines on h. resources are to be used** – canllawiau defnyddio adnoddau, canllawiau ynghylch defnyddio(r) adnoddau; **have you noticed h. (= that) you eat ... when** – ydych chi wedi sylwi eich bod yn bwyta ... pan; **h. can they be convinced of ...?** – sut mae eu hargyhoeddi o ...?; **h. badly they had been hit** – cymaint y cawsant eu taro/cymaint yr ergyd a gawsant, pa mor boenus/dost oedd yr ergyd a gawsant; **that is h. things are** – dyna'r drefn; **any old h.** – rhywsut rywsut/rywfodd; **that's h. it is** – dyna fel y mae hi; **h. best to ...** – sut orau y mae ..., y ffordd orau/ffyrdd gorau o ...; **h. will I benefit?** – beth yw'r/fydd y fantais i mi?; **is this h. you see yourself?** – ai fel hyn yr wyt ti'n dy weld dy hun(an); ai fel hyn yr ydych chi'n eich gweld eich hun(an/ain); **to explore h. these can be used to ...** – ymchwilio i ffyrdd posibl o'u defnyddio i/o ddefnyddio'r rhain i ...; **to learn h. to make ...** – dysgu gwneud ...; **to change h. things are** – newid trefn pethau

however – ond, eto, eto i gyd; **h. well qualified** – er cystal eu cymwysterau; **on h. small a scale** – waeth pa mor fach, pa mor fach bynnag

hub: a h. site – safle canolog

huge – digon mawr i alw chi arno/arni/arnynt; **h. amounts of ...** – llawer iawn iawn o ..., llond gwlad o ...

hugely: h. popular – yn arbennig o boblogaidd

human: h.-s – pobl; **he/she is/they are only h.** – heb ei fai, heb ei eni; **we are only h.** – dim ond (bodau) meidrol ydym; **h. knowledge** – gwybodaeth dyn/y ddynolryw, gwybodaeth yn gyffredinol, y wybodaeth sy'n hysbys, y wybodaeth sydd gan ddyn/y ddynolryw; **h. activities** – gweithgareddau pobl

to humanise: h. your writing by ... – gwnewch eich ysgrifennu'n fwy agos-atoch

humanities: a h. subject – pwnc dyniaethol

humbling: a h. experience – gwers mewn gostyngieddrwydd, agoriad llygad, profiad sy'n dangos be 'dy be/beth sydd wir yn cyfrif/gwir faint(ioli) dyn; **it was a h. experience to be in their company** – yr oeddwn/yr oeddem yn teimlo mai braint oedd bod yn eu cwmni (*Geraint Lovgreen ar welsh-termau-cymraeg, 18.10.05*), yr oeddwn/yr oeddem yn teimlo'n wylaidd (*John Puw ar welsh-termau-cymraeg, 18.10.05*)

humdrum – di-fflach

humour: in good h. – yn hwyliog (?), mewn hwyliau da

hunch: a h. told him/her that – dywedodd/dywedai rhyw reddf wrtho/wrthi fod/mai/y, dywedodd/dywedai rhywbeth ym mêr ei (h)esgryn wrtho/wrthi fod/mai/y, teimlai ym mêr ei (h)esgryn fod/mai/y

hundred: many h.-s – cannoedd ar gannoedd

hungry: to be h. for – deisyfu, dyheu am (gael)

hunt: the h. is on for ... – mae'r chwilio am ... wedi cychwyn/dechrau

hurry: there's no (great/tearing) h. – does dim byd (mawr) yn galw

to hurt: the criticism didn't h. them – wnaeth y feirniadaeth ddim menno dim arnyn nhw

hustle: h. and bustle – bwrllwm

hyaluronate – hyalwronad (*bathiad ar sail* halyuronic – halywronig yn y Termiadur)

hydrobiology – hydrobioleg (*eb*) [Peirianeg]

hydrogeology – hydroddaeareg (*eb*) [Peirianeg]

hymnsheet: to sing from the same h. – canu'r un gân, (sicrhau) bod y neges yn (un) gyson, peidio â chyfleu/osgoi cyfleu negeseuon gwahanol, (cyson d)dilyn yr un drefn, dilyn yr un drefn yn (gwbl) gyson, bod yn gytûn (ynghylch) ...

hyperpolarization hyperbolareiddio (*be*) [Meddygaeth]

hypnotics – hypnoteg (*eb*) [Meddygaeth]

hyposomniac – (rhyw)un/unigolyn/person sy'n cysgu tipyn llai na'r cyffredin, byr-gysgwr (?)
to hypothecate – neilltuo

ice: their proposals cut very little i. – ni chafodd eu cynigion fawr o effaith/ddylanwad/groeso

iceberg: this figure is just the tip of the i. – dydy'r ffigur hwn(nw) ddim yn rhoi'r darlun i gyd o bell ffordd

idea: some/a general/rough i. – bras amcan

identifiable: the icon will be readily i. – bydd yr eicon yn hawdd ei weld, bydd yr eicon i'w weld yn glir, bydd hi'n hawdd gweld yr eicon

to identify – nodi, canfod, darganfod, rhestru, dod o hyd i ..., cael hyd i ...; **to be i-ed with ...** – a gysylltir/gyplysir â/ag ...; **those who only i. with their peer-group** – y rhai sy'n cadw at eu tebyg; **we do not ask you to i. yourself by name** – nid ydym yn gofyn i chi roi'ch enw; **to be i.-ied in ...** – sydd i'w (g)weld yn/mewn ..., sydd wedi'i gofnodi/wedi'i chofnodi/wedi'u cofnodi yn/mewn ...; **children will i. with this beautiful stamp** – bydd plant wrth eu bodd â'r stamp prydferth/hardd/hyfyd hwn; **analysis of table 3 i.-ies clearly that this is ...** – o ddadansoddi tabl 3, fe welir yn glir bod/mai ...; **to help them to i. whether sounds are near or far** – eu helpu i ddweud a yw synau'n bell neu'n agos; **to provide sufficient detail to i. the information required** – rhoi digon o fanylion (i ni) allu gwybod pa wybodaeth y gofynnir amdani

identifying: the reports should include no i. features – ni ddylai'r adroddiad gynnwys unrhyw nodwedd sy'n fodd i adnabod neb na dim/unrhyw unigolyn neu sefydliad

identity: their Welsh i. – eu Cymreictod

idiosyncrasy: i.-ies of language – teithi iaith

idle: it is i. to speculate – difudd yw dyfalu; **i. chatter** – cleber wast; **i. fancy** – ffansi'r funud

if: this would be eased if the ... were used for ... – hwylusid hyn(ny) drwy ddefnyddio'r ... ar gyfer/i; **if nothing else** – yn un peth; **there's no room for ifs or b.-s** – does dim lle i falu awyr/hel dail/chwilibawan; **apart for the need for electricity if China is to develop ...** – ar wahân i'r angen am drydan (er mwyn) i China ddatblygu ..., ar wahân i angen China am drydan i ddatblygu

ignorance: to talk in i. – siarad yn/ar ei gyfer

ignorantly: to talk i. – siarad yn/ar ei gyfer

ill-considered – anystyriol

ill-effect – anfantais, effaith niweidiol; **these restrictions are causing more i.-s than the perceived threats actually pose** – mae'r cyfyngiadau hyn yn achosi mwy o ddrwg nag o les

ill-founded – heb sail (gadarn)

ill-health – afiechyd, gwael eu hiechyd

ill-prepared: they are i. to ... – ni pharatowyd hanner digon arnynt i ...

ill-thought-out – heb eu hystyried yn drylwyr/drwyadl, heb eu pwyso a'u mesur yn drylwyr/drwyadl, arwynebol

illuminating: comparing maps with pictures can be even more i. – gall cymharu mapiau â lluniau/darluniau roi mwy byth/rhagor eto o wybodaeth (i chi)/ddatgelu/ddadlennu mwy byth/rhagor eto (i chi), mae modd dysgu/ gellir dysgu rhagor eto/mwy byth wrth/drwy gymharu mapiau â lluniau/darluniau

to illustrate: these examples i. only some of the help we can provide – nid yw'r enghreifftiau hyn(ny) ond yn cyfleu peth/yn rhoi rhyw syniad o'r cymorth y gallwn ei roi; **this i.-s our commitment** – mae hyn yn/hynny'n cyfleu ein hymrwymiad/hymroddiad

illustrious: its i. past – gogoniant ei (g)orffennol

illustrative: to be i. of – darlunio

image: to build an i. of themselves as writers – dechrau eu gweld eu hunain fel ysgrifenyddwyr

imaginative: try to be i. when you choose – ceisiwch ddefnyddio'ch dychymyg wrth (i chi) ddewis

imaginatively: to enter i. into the experiences of others – ymglywed, drwy'r dychymyg, â phrofiadau pobl eraill

to imagine: those who fondly imagine that ... – y rhai sy'n credu'n ddiniwed mai/bod/nad ...

to imbue: to i. their sculptures with grace – cynysgaeddu eu cerfluniau â gosgeiddrwydd, rhoi gosgeiddgrwydd i'w cerfluniau, cynhyrchu cerfluniau gosgeiddig; **he/she i.-ed them with the principles of ...** – fe'u trwythodd yn egwyddorion ..., trwythodd (hi) hwy yn egwyddorion ...

immaculate: i. condition – cyflwr bendigedig/ardderchog/rhagorol

immeasurable – aruthrol

immeasurably: i. better – yn well o lawer iawn (iawn)

immediacy: i. of response – ymateb yn gyflym, ymateb cyflym

immediate: items that can be put to i. use – eitemau y gellir eu defnyddio yn y fan a'r lle; **i. needs** – anghenion cyfredol/ar y pryd; **in the i. future** – cyn hir; **the i. area** – y cyffiniau; **the i. environment** – yr amgylchedd/cyffiniau agos; **their i. environment** – yr amgylchedd o'u cwmpas; **the i. past President** – y cyn-Lywydd diwethaf; **an i. assessment** – asesu/asesiad a wneir yn y fan a'r lle; **with i. effect** – ar unwaith; **i. experiences** – profiadau'r funud

immediately – ar fyrder, yn y fan a'r lle, ar yr olwg gyntaf; **to be i. obvious** – bod yn gwbl amlwg; **i. upon** – cyn gynted ag (y bydd)

immensely: we are i. grateful – yr ydym yn ddiolchgar dros ben

immersion: total i. – ymgolli'n llwyr

imminent – yn y dyfodol agos, cyn hir, cyn pen fawr o dro, ar fin cyrraedd, ni fyddai'n hir cyn ...; **the demise of these courses is i.** – mae'r cyrsiau hyn ar fin darfod/cael eu dileu/dod i ben

immune: they are not i. from criticism – nid ydynt yn rhydd rhag beirniadaeth, nid ydynt uwchlaw beirniadaeth; **this organisation is not i. to/from economic trends** – nid yw'r corff/mudiad/sefydliad hwn yn gallu osgoi/ochrgamu('r) tueddiadau economaidd, ni all y corff/mudiad/sefydliad hwn osgoi/ochrgamu('r) tueddiadau economaidd, nid yw'r corff/mudiad/sefydliad hwn yn gallu dianc rhag (y) tueddiadau economaidd, ni all y corff/mudiad/sefydliad hwn ddianc rhag (y) tueddiadau economaidd, nid oes modd i'r corff/mudiad/sefydliad hwn osgoi/ ochrgamu('r) tueddiadau economaidd, nid oes modd i'r corff/mudiad/sefydliad hwn ddianc rhag (y) tueddiadau economaidd

immunocytochemistry – imiwnocytocemeg (eb) [Fferylliaeth]

to impact: special circumstances i.-ing performance – amgylchiadau arbennig sy'n/sydd wedi/a fydd yn/a oedd yn/a oedd wedi/a fydd wedi effeithio/amharu ar berfformiad/ar eich perfformiad/ar eu perfformiad (ac ati)

to impart: to i. information – rhannu gwybodaeth

impassable: some of the paths are i. – ni ellir/nid oes modd/nid yw'n bosibl troedio rhai o'r llwybrau

impassioned: an i. speech – araith danbaid; **an i. call for** – galwad daer am

to impede – amharu ar

impending: (s)he referred to ... 's i. retirement – cyfeiriodd at y ffaith fod ... ar fin ymddeol

imperative – allweddol/hanfodol bwysig/hollbwysig; **the operational i.-s of the project** – yr agweddau hanfodol ar weithredu'r prosiect; **there is no i. to ...** – nid oes rheidrwydd i ...

impetus: the i. for independence is building (up) – mae'r awydd i sicrhau (mwy a mwy o) annibyniaeth yn cynyddu/ar gynnydd/yn tyfu

to impinge: to i. on ... – ymwneud â/sg ..., effeithio ar ...

to implement: the computerisation of ... is being i.-ed – mae'r gwaith o roi('r) ... ar gyfrifiadur yn mynd rhagddo/yn ei flaen; **to i. an action programme** – rhoi rhaglen weithredu ar waith

implication: this is, by i., a ... – gellir casglu mai ... yw hwn/hon/hyn, mae hynny'n awgrymu bod hwn/hon/hyn yn ...

implicitly: either explicitly or i. – naill ai'n amlwg neu drwy awgrym yn unig neu naill ai'n amlwg neu'n ymhlyg

to imply – lled-awgrymu

to import: to i. into ... – dwyn i ...

importance: they appreciate the i. of ... – maent yn sylweddoli bwysiced/pa mor bwysig yw ...; **we believe in the i. of treating...** – credwn ei bod hi'n bwysig trin ...

importantly: ... but i., there is ... – ond, a hyn sy'n bwysig, mae..., ond pwynt pwysig yw ...; **i., people's environment has an impact on ...** – mae'n bwysig cofio/(y) peth/pwynt pwysig yw cofio/peth/pwynt pwysig i'w gofio yw bod amgylchedd pobl yn cael effaith ar .../y caiff amgylchedd pobl effaith ar ...; **i, the question is ...** – y cwestiwn pwysig yw ...

imposing – trawiadol

impoverished – glastwraidd

imprecise – niwlog

to impress: to i. upon them the importance of – eu cael i sylweddoli mor bwysig yw, pwysleisio wrthynt bwysiced yw/pa mor bwysig yw

impression: to gain some i. of ... – cael rhyw syniad o ...

to imprint: to be i.-ed on the memory – wedi eu serio ar y cof

to improve – gloywi, bod o les i ...; **to i. confidence** – meithrin hyder; **to i. efficiency** – cynyddu effeithlonrwydd; **things will i.** – daw haul ar fryn; **the quality of the discussion will be i.-ed when ...** – bydd ansawdd y drafodaeth yn gwella pan/os ...; **they (= their health) are i.-ing** – maent ar wellhad; **despite i.-ing on their performance in 1998** – er/serch iddynt ragori ar eu perfformiad ym/yn 1998; **we can further i. this rate by ...** – gallwn (ni) ragori ymhellach ar y gyfradd hon(no) drwy ...; **to i. the safety of a situation** – gwneud sefyllfa'n fwy diogel

improved: (very) much i. – bod yn frenin (o'i gymharu â/ag) ...

improvement: there have been considerable i.-s since then – bu cryn dro ar fyd ers hynny; **this will be an i. on ...** – bydd hyn yn rhagori ar ...

improvisation – gwaith byrfyfyr

to impugn: to i. their good name – pardduo'u henw da

impulsivity – byrbwylltra

in – ym maes/myd, yn ystod; **a course in ...** – cwrs ar ...; **in that ...** – i'r graddau bod ..., yn gymaint â (bod) ..., sef (bod) ...; **in that they allow ...** – drwy (iddynt) adael/ganiatáu i ...; **one in seven** – un o bob saith; **in the belief that** – gan gredu, am eu bod yn credu (bod); **in the knowledge that** – gan wybod; **in twos** – mewn parau, fesul dau, bob yn ddau; **in three months' time** – ymhnen tri mis; **to encourage in ... professional attitudes that** – annog ... i arddel agweddau proffesiynol sy'n ...; **to be unanimous in their opinion** – bod yn unfryd(ol) eu barn/unfryd unfarn; **these can play an important part in the planning of ...** – gall y rhain/gallant chwarae rhan bwysig adeg cynllunio ...; **the year in which ...** – y flwyddyn pryd y(r) ...; **the ins and outs of everyday life** –

cymhlethdodau bywyd bob-dydd; **in their second year** – ar eu hail flwyddyn; **the ‘in’ word** – y gair mawr; **teach-ins** – sesiynau dysgu cyhoeddus/parhaus; **sit-in** – meddiannu; **are there any advantages in ...?** – a oes unrhyw fantais yn deillio o .../ynghlwm wrth ...?; **day in, day out** – drwy’r dydd, bob dydd; **ten days in which to seek to ...** – deg diwrnod i geisio ...; **to participate in the teaching of ...** – cyfranogi/cymryd rhan yn y broses o addysgu ...; **if they can get in(to an institution)** – os gallant gael eu pig i mewn; **in passing** – wrth sôn am bethau eraill, wrth drin a thrafod pethau eraill; **what’s in it for me?** – beth sydd gan hyn i’w gynnig i mi?, pa fantais y mae hwn yn ei gynnig/y gall hwn ei gynnig i mi?; **in consultation with ...** – gan ymgynghori â/ag ...; **there was a delay in payment/paying** – bu/cafwyd oedi wrth dalu; **their intention in going there** – eu bwriad wrth fynd yno/ pan aethant yno

inaccessible – na ellir ei gyrraedd, y tu hwnt i gyrraedd

inadequate: to be moving at an i. rate – heb fod yn symud yn ddigon/hanner digon cyflym

inadvertent – damweiniol

inadvertently – drwy amryfusedd, yn anfwriadol, ar gam

to inaugurate – rhoi ar waith, dechrau defnyddio

inbuilt – cynhenid, greddfoll; **a ... with an i. ...** – ... sydd â/ag ... yn rhan (annatod) ohono/ohoni

incandescent: to be i. with rage – yn berwi o gynddaredd, yn uffernol o grac, wedi mynd i dop caets

incarnation: its latest i. – ei ffurf ddiweddaraf

to incense – cynddeiriogi, codi gwrychyn

to incentivise – ysgogi, symbylu

incessant – cyson

incessantly: (s)he talks i. – mae’n siarad fel pwll y môr/fel pwll tro

incidence: the high i. of change – yr holl newid; **the i. of ... is comparatively low** – cymharol brin yw(’r) ...; **where the i. of ... is much higher** – lle mae ... yn llawer mwy cyffredin

incident: such i.-s may occur – gall pethau fel hyn ddigwydd; **until this i. occurred** – tan/nes i hyn(ny) ddigwydd

incidental – ambell

incipient – egin

to include: i.-ed below is a ... – isod(,) ceir/gwelir/mae ...; **the wider issues i.-ed ...** – ymhlith y materion ehangach yr oedd ...; **it will i. some questions which will require ...** – ynddo(,) bydd cwestiynau a fydd yn gofyn ...; **they i. ...** – yn eu plith(,) mae

inclusiveness – cynhwysiant (*Y Cynulliad*)

inclusivity – cynwysoldeb

incoming: the i. chairman – y darpar gadeirydd; **your latest i. messages** – y negeseuon diweddaraf yr ydych (chi) wedi’u cael, y negeseuon diweddaraf sydd wedi cyrraedd i chi, y negeseuon diweddaraf i chi

incomparable – diguro, heb eu hail

inconclusive – heb ddwyn ffrwyth; **the evidence is i.** – nid yw’r dystiolaeth yn torri’r ddadl (y naill ffordd na’r llall)

increase: to be on the i. – (bod) yn cynyddu/codi

to increase: their vulnerability is i.-ing – mae eu sefyllfa’n fwyfwy bregus; **the price has i.-ed by four per cent** – mae’r pris wedi codi/cynyddu bedwar y cant; **to i. the likelihood that ...** – ei gwneud yn/hi’n fwy tebyg(ol) bod/mai/y bydd ...; golygu/peri ei bod yn/hi’n fwy tebyg(ol) bod/mai/y bydd ...; **to i. accessibility to ...** – hwyluso mynediad i ..., gwneud ... yn fwy hygyrch, ei gwneud hi’n haws cyrraedd/cyrchu ...; **to i. your employability** – (eich) gwneud eich hun(an) yn fwy cyflogadwy/yn fwy deniadol/atyniadol i gyflogw(y)r

increased: an i. proportion of – cyfran helaethach o

increasing: i. numbers of learners – mwy a mwy o ddysgwyr; **to lay/place/give i. emphasis on/to ...** – cynyddu’r pwyslais ar ...

increasingly: this is i. a cause for concern – mae hyn yn/hynny’n achosi/peri mwy a mwy o bryder

incredibly: i., they are still ... – y rhyfeddod yw eu bod yn dal i ...

incremental: in an i. manner – fesul tipyn; **their effect will be i. and cumulative** – bydd eu heffaith yn cynyddu ac yn cronni; **an i. increase** – cynnydd/cynyddu/codi fesul tipyn, ychydig (bach) o gynnydd, tipyn bach o gynnydd

incrementally – fesul tipyn

to inculcate – dysgu, meithrin

incumbent: to be i. on – mae gofyn i

to incur: is i.-red by – a ddaw yn sgil; **they repay the time and effort i.-red** – maent yn werth yr amser a’r ymdrech a roir iddynt; **to i. losses** – gwneud colledion; **some categories i. higher charges** – bydd taliadau uwch mewn/ar gyfer rhai categorïau; **late cancellations of bookings will i. the following fines** – bydd (yn) rhaid talu’r ffioedd canlynol/a ganlyn os caiff y trefniant/trefniadau llogi eu canslo’n hwyr *neu* os caiff y trefniant/trefniadau llogi eu canslo’n hwyr, bydd (yn) rhaid talu’r ffioedd canlynol/a ganlyn; **to it will i. a grave penalty** – caiff ei gosbi’n llym, fe’i cosbir yn llym

indebted: to be i. to – bod mewn dyled i; **I am very i. to her** – mae fy nyled iddi’n fawr

indecent: with i. haste – yn amhriodol o frysiog, ar frys mawr/rhy fawr, ar ormod o frys

indecision – methu penderfynu

indeed: there is i. a need to – mae gwir angen; **there is very little evidence i. of** – ychydig iawn o dystiolaeth sydd, prin iawn yw'r dystiolaeth bod/mai/y; **they are very happy i.** – maent wrth eu bodd

indefinite: i. leave to remain – caniatâd i aros am amser amhenodol

indefinitely – yn ddi-ddiwedd/ddi-ben-draw/ddi-stop, am byth

in-depth: an i. study – astudio'n/astudiaeth fanwl; **for a more i. look at what the regulations will mean** – i gael gwybod rhagor am yr hyn y bydd y rheoliadau'n ei olygu

indescribable: a dramatic effect i. in mere words – effaith ddramatig (gwbl) ysgytwol sydd y tu hwnt i eiriau/na all geiriau brau mo'i chyfleu

to index: the report should be i.-ed – dylid darparu mynegai i'r adroddiad

to indicate – nodi, dweud, awgrymu, amlygu; **to i. errors in a report** – tynnu sylw at wallau mewn adroddiad; **to i. a willingness to** – dweud eu bod yn barod i; **to be i.-ed in** – sydd i'w (g)weld yn/mewn, sydd wedi ei gofnodi/ei chofnodi/eu cofnodi; **a note i.-ing the nature of the problem** – nodyn sy'n egluro/esbonio natur y broblem; **a few areas, and these are i.-ed below ...** – ambell ardal/faes, sef ...

indication – (rhyw) awgrym, (rhyw) syniad; **together with an i. of the standard** – ynghyd ag amcan/â rhyw amcan o'r safon; **a fuller i. of** – darlun llawnach o; **an i. of** – disgrifiad (bras/cryno) o; **an i. of how ...** – datganiad sy'n nodi sut mae ...

indicative: to be i. of – amlygu; **an i. list of ...** – rhestr sy'n amlinellu ...

indifferent: of (an) i. quality – o ansawdd digon cyffredin; **they are i. to ...** – nid ydynt yn poeni dim am ...

indifferently – ddim ... rhyw lawer

indignantly: i. denying their guilt – yn gwadu'n llwyr/groch eu bod yn euog

indispensable – rhaid wrth ...; **... and ... are i. to each other** – ni ellir ysgaru ... oddi wrth .../ni all ... a ... wneud heb ei gilydd

indisputably – yn sicr ddigon

individual: i. needs – anghenion unigolion; **as this is a very i. situation ...** – am/fod fod sefyllfa(oedd) unigolion/sefyllfa pob unigolyn yn amrywio cymaint ...; **your i. circumstances** – eich amgylchiadau (chi) (fel unigolyn)

individualised – unigol (eu gogwydd)

individually – bob yn un ac un

induction: i. programme – rhaglen bontio/sefydlu

to indulge: to i. in small talk – clebran

indulgence: to seek i. – erfyn maddeuant

industrial: on an i. scale – ar raddfa fawr/helaeth (iawn/dros ben)

inept – di-sut

inertia – diymadferthedd

inevitable – yn rhwym o

inexpedient – di-fudd

inexpensive: this item is i. – mae cost yr eitem hon yn rhesymol (iawn); **an i. city** – dinas resymol ei phrisiau

inexplicably – am ryw reswm (nad oes neb yn ei ddeall)

inextricably: these are i. linked – mae cyswllt annatod rhwng y rhain/rheiny

infancy: to be in its i. – mae'n ddyddiau cynnar ar

to infer: to i. meaning from – dirmad ystyr o

infested: a crime(-)i. area – ardal lle mae troseddu'n bla, ardal lle mae tor-cyfraith yn bla; **a rat(-)i. house** – tŷ sy'n/a oedd yn llawn llygod mawr

infinitely: to be i. better than – bod yn frenin wrth/i/o'u cymharu â

inflexible – haearnaid

to inform – rhoi gwybodaeth i, cyfoethogi, bwydo i ..., cyfrannu at ...; **to be i.-ed by our research programme ...** – elwa ar ein/o'n rhaglen ymchwil ..., yng ngoleuni (ffrwyth) ein rhaglen ymchwil ...; **this is used to i. further development** – defnyddir hyn(ny) wrth wneud gwaith datblygu pellach; **the feedback has been used to i. some of the recommendations** – mae'r adborth wedi'i ddefnyddio wrth lunio rhai o'r argymhellion; **to i. our understanding of ...** – ychwanegu at ein dealltwriaeth o ...; **recognition of this should i. their consent** – dylent sylweddoli hyn(ny) cyn rhoi/cyn iddynt roi eu cydsyniad ysgrifenedig, dylent gael gwybod hynny cyn rhoi/cyn iddynt roi eu cydsyniad ysgrifenedig, dylid rhoi gwybod iddynt am hynny cyn iddynt roi eu cydsyniad ysgrifenedig

[*e-bost gan Ann Corkett i welsh-termau-cymraeg*, 27.11.06:] Geirfa Tim Saunders: **to i.** – bod yn sail i ..., dylanwadu ar ..., llywio; **in order to i. the preparation of this plan** – er mwyn hyrwyddo paratoi'r cynllun hwn; (*cyfieithiadau o 'Ein hiaith-Ein Dyfodol' – gyda rhai gwelliannau(!) iddynt gan BPJ*): **there is a need for better data on the usage of and attitude towards the Welsh language in order to inform policy development** – mae angen gwell data ynghylch y/ynghylch â'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg, a'r agweddau tuag ati, fel y gellir/er mwyn gallu seilio polisiau arnynt; **the findings of this audit should i. future policy development** – dylai canfyddiadau'r archwiliad hwn fod yn sail i/wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol; **... which can help to inform future policy development** – a all helpu i roi gwybodaeth ar gyfer datblygiadau polisi yn y dyfodol; (*Siân Roberts ar w-t-c*, 27.11.06) cyfrannu; **the planning process needs to be i.-ed by the sensitivity to the**

coastal heritage – mae angen i'r broses gynllunio fod yn effro i'r sensitifrwydd i dreftadaeth yr arfordir; **the project has i-ed the partnership of the benefits of ...** – mae'r prosiect wedi dysgu tipyn i'r bartneriaeth am fanteision ..., mae'r prosiect wedi goleuo'r bartneriaeth ynglŷn â/ynglŷnch manteision ...

informatics – gwybodeg (*eb*) (*drwy Delyth Prys*)

information: bits of i. – gwybodaethau; **you will find i. on how to** – cewch wybod sut mae; **i. was received that ...** – cafwyd gwybod bod/mai/y; **to turn i. into knowledge** – troi gwybodaeth yn wybodaeth hysbys, mewnnoli gwybodaeth; **for further i.,** – i (gael g)wybod rhagor, ...; **i. refused** (*categori mewn tabl, h.y. respondent refused to provide the information*) – gwrthod(wyd) dweud/datgelu, gwrthododd ddweud/ddatgelu, gwrthod(wyd) rhoi'r wybodaeth, gwrthod(odd) roi'r wybodaeth

informative: an i. and helpful meeting – cyfarfod buddiol a diddorol; **i. as it is, this prospectus can only ...** – er cymaint o wybodaeth sydd ynddo, ni all y prospectws hwn ond ... *neu* er cymaint o wybodaeth sydd yn y prospectws hwn, ni all ond ...; **interesting and i.** – difyr a diddorol

to infringe – amharu ar, tramgwyddo; **to i. human rights** – ymyrryd â hawliau dynol

to infuriate – codi gwrychyn

to infuse – treiddio i

infusion: an i. of – chwistrelliad o

to ingrain: to i. the importance of ... in ... – gwreiddio pwysigrwydd ... yn/mewn ...

inherent: to be i. in – bod ynghlwm wrth; **the i. link between ... and ...** – y cysylltiad anochel/anorfod (sydd) rhwng ... a(c) ...

to inhibit – cyfyngu ar; **did this i. their work?** – a wnaeth hyn(ny) amharu ar eu gwaith?

inhibiting: small groups are less i. for the learner – mae/bydd grwpiau bach yn cyfyngu llai ar y dysgwr/yn cyfyngu llai ar barodrwydd y dysgwr i gyfrannu/siarad, mewn grwpiau bach mae'r/bydd y dysgwr yn barotach i gymryd rhan

inhospitable – annymunol, llwm

in-house: our i. facilities – y cyfleusterau sydd gennym (ni) (yma), ein cyfleusterau (ni) (yma), cyfleusterau'r adran/ysgol/brifysgol hon/sefydliad/cwmni/coleg hwn, cyfleusterau'n/cyfleusterau ein hadran/hysgol/prifysgol/sefydliad/cwmni/coleg

inimical – yn groes i

to initiate – cychwyn/symbylu/cynnig/cyflwyno ohonynt eu hunain, rhoi bod i, rhoi cychwyn ar, gwthio'r cwch i'r dŵr; **to i. activities** – cychwyn gweithgareddau newydd; **to i. links** – cysylltu; **to i. an awareness** – deffro ymwybyddiaeth

initiative: to take the i. in – mentro, bwrw ati (eu hunain) (ohonynt eu hunain) i; **to take i.-s in** – bwrw ati i; **held at the i. of ...** – a gynhaliwyd ar awgrym ...'; **but keep the i. throughout the discussion** – ond cadwch yr awenau yn eich dwylo drwy gydol y drafodaeth

to inject: to i. some pace into – cyflymu peth/rhywfaint ar; **to i. ideas** – cynnwys/cyflwyno syniadau

to injure: to be slightly i.-ed – cael mân anafiadau; **to be seriously i.-ed** – cael anafiadau difrifol

inland: the cave is now several miles i. – erbyn yn/bellach, mae'r ogof sawl milltir/rai milltiroedd o'r môr

innocuous: to render them i. – tynnu eu dannedd

to innovate: they have i.-ed with new fforms of ... – maent wedi cyflwyno ffurfiau newydd ar ...

innovation – torri tir newydd, datblygiad newydd/arloesol; **it has the i. to ...** – mae ganddo/ganddi'r meddylfryd arloesol i ...

innumerable: i. obstacles – cant a mil o rwystrau, rhwystrau di-ben-draw/lu/rif y gwlith

inoculative – rhybuddiol

inoperative – segur, heb fod ar yn gweithio, di-rym

input: i. of language – bwydo ieithyddol

inquisition: the presentation is not meant to be an i. – ni fwriedir i'r cyflwyniad fod yn gyfle i groesholi('n llym)

inroads: to make significant i. into tackling – gwneud cyfraniad o bwys i daclo; **to make further i. into the complexity of ...** – cwtogi tipyn yn rhagor/tipyn eto/rhagor eto ar gymhlethdod ...; **to make further i.-s into the problem...** – ymdrin â'r broblem yn fwyfwy/yn fwy a mwy llwyddiannus, cael mwy a mwy o lwyddiant wrth ymdrin â'r broblem, llwyddo mwyfwy/mwy a mwy i ymdrin â'r broblem; **these techniques have yet to make significant i. into the literature** – nid yw'r technegau hyn(ny) wedi cael llawer/rhyw lawer o le/sylw/amlygrwydd yn y llenyddiaeth eto/hyd yn hyn/hyn yma, nid yw'r technegau hyn(ny) wedi cael rhyw lawer o ddylanwad/wedi dylanwadu rhyw lawer ar y llenyddiaeth eto/hyd yn hyn/hyn yma; **to make i. into narrowing the poverty gap** – llwyddo i gulhau rhywfaint/peth ar y bwlch tlodi

insecure: an i. grasp of – gafael ansicr ar; **pupils with an i. grasp of Welsh** – disgyblion bregus eu Cymraeg

insensate – yn teimo dim, heb deimlo dim, diymateb (? – defnyddir 'diymateb i gyfleu 'vegetative' yn 'persistent vegetative state')

insensitive: to be wholly i. to – peidio â malu dim/botwm corn/yr un ffeuen am, bod yn gwbl ddall i

to insert: please i. a section on ... – cynhwyswch adran ar ...

insidious – andwyol, deifiol, cyfrwys

insight: to gain additional i.-s into ... – cael gwybod rhagor am ...; **to gain a clearer i. into the size and scope of ...** – cael darlun cliriach o .../cael gwybod rhagor am faint/helaethrwydd a chwmpas ...; **to gain an i. into ...** – cael

rhyw syniad o/gwybod rhagor am ..., cael cipolwg ar hanfodion ...; **to give them an i. into the ideas of ...** – eu galluogi i amgyffred syniadau ...; **those with i.-s to offer** – y rhai sydd â rhywbeth (arbennig) i'w gynnig/â phrofiadau/â syniadau i'w cynnig/â gwybodaeth i'w chynnig, y rhai a all daflu goleuni ar ...; **to provide i.-s into ...** – taflu goleuni ar ...; **to demonstrate i. into ...** – dangos ymwybyddiaeth o .../eu bod yn ymwybodol o .../eu bod yn gwybod bod/mai/y(r) ...; **no matter how sharp your i.-s** – pa mor graff bynnag yw'ch/fydd eich sylwadau, waeth pa mor graff yw'ch/fydd eich sylwadau

insightfulness – treiddgarwch, craffter, mewnweledrwydd (?)

insignificant: it was i. compared to ... – nid oedd yn ddim o'i gymharu â/ag ...

insofar: i. as ... – i'r graddau bod/mai/y(r) ...

inspiralling – mewnsbiralu (be) [Ffiseg a Seryddiaeth]

inspirational: i. material – deunydd ysbrydoli

to inspire: to i. confidence – ennyn ffydd

inspired: i. by the success of ... – yn sgil llwyddiant ...; **a divinely i. artist** – artist/arlunydd ag ysbrydoliaeth ddwyfol, artist/arlunydd sydd wedi'i (h)ysbrydoli gan Dduw

inspiring: an i. example of ... – enghraifft lachar o ...; **the I. Learning Scheme** – y Cynllun Annog Addysg

instalment: this will be paid in one i. (*ystyr y gair wedi mynd ar goll!*) – caiff hwn ei dalu mewn un taliad

instance: consult your tutor in the first i. – ymgynghorwch â'ch tiwtor yn gyntaf, ymgynghorwch yn gyntaf â'ch tiwtor

to instigate – sefydlu, cychwyn, rhoi bod i; **to i. a review** – cychwyn arolwg, gorchymyn cynnal arolwg

instigation: these objectives had been developed at the organisation's own i. – yr oedd y corff/sefydliad wedi datblygu'r amcanion (hyn(ny)) o'i ben a'i bastwn ei hun, o'i ben a'i bastwn ei hun yr oedd y corff/ sefydliad wedi datblygu'r amcanion (hyn(ny))

institute [of higher education] – athrofa

to institute: to i. proceedings – dwyn achos; **before i.-ing the complaints procedure** – cyn troi at y (weith)drefn gwyno, cyn dilyn y (weith)drefn gwyno, cyn rhoi'r (weith)drefn gwyno ar waith

instructive: it is particularly look i. to at ... – mae modd dysgu/gellir dysgu llawer iawn wrth/drwy astudio ...

instrumental: experiences which are i. in furthering personal development – profiadau sy'n hybu datblygiad personol; **to be i. in ...** – bod â rhan allweddol yn/mewn ...; **to be i. in providing opportunities for ...** – rhoi cyfle i ...

to insult – bwrw sen ar; **do not i. their intelligence** – peidiwch â'u trin fel petaent yn dwp/ddwl

intact – cyflawn

intangible – annifiniol

integral: this is i. to ... (= *an integral part of ...*) – mae hwn/hon/hyn yn/hwnnw'n/honno'n/hynny'n rhan annatod o ...

to integrate – cyd-blethu, plethu, priodi, cyfannu; **to i. into ...** – cyfuno ... yn ...; **they should be i.-ed into a programme** – dylent fod yn rhan o raglen; **the area (which/that) was best i.-ed into the Roman Empire** – yr ardal a oedd wedi ymdoddi orau i'r Ymerodraeth Rufeinig

integrated: the area was best i.-ed into the Roman Empire – yr ardal a oedd wedi ymdoddi orau i'r Ymerodraeth Rufeinig

integrity – unplygrwydd; **it should have i. in its own right** – dylai fod yn ddilys ynddo'i hun; **structural i.** – cadernid adeileddol/strwythurol

intellectual – ymenyddol; **i. ability** – gallu meddyliol

intelligence – crebwyll; **do not insult their i.** – peidiwch â'u trin fel petaent yn dwp/ddwl

to intend: these are usually i.-ed to ... – diben/bwriad y rhain fel arfer yw ...; **they are not i.-ed as tests** – nid oes bwriad iddynt fod yn brofion

intense: i. activity – gweithgarwch prysur/mawr iawn

intensely: an i. competitive market – marchnad hynod/eithriadol/ffyrnig o gystadleuol

intensified: i. global competition – ffyrnicach cystadleuaeth fyd-eang

to intensify: the fighting has i.-ed – mae'r ymladd wedi ffyrnigo; **the argument has i.-ied** – mae'r dadlau/ddadl wedi ffyrnigo/poethi

intensive – manwl

intention: with the i. of ... – er mwyn ...

interchangeably: these two terms were used almost i. – defnyddiwyd y ddau derm (hyn(ny)) bron fel petaent yn gyfystyr (â'i gilydd)

interconnected – rhyng-gysylltiedig

interdisciplinarity – rhyngddisgyblaethrwydd (*eg*)

interest: to pursue an i. – dilyn trywydd; **in the i.(-s) of** – er (mwyn) sicrhau; **it is in the i. of** – mae'n fuddiol i, buddiol/mantais i ... yw; **places of i.** – mannau diddorol; **in the best i.-s of** – er lles; **in the i.-s of brevity** – rhag afradu geiriau; **in the i.-s of economy** – rhag bod yn wastraffus/afradus; **it would be in your best i.(-s) to go** – y peth gorau i chi (ei wneud) fyddai mynd, y cam gorau i chi (ei gymryd) fyddai mynd; **students with an i./interests in music from ... to ...** – myfyrwyr sy'n ymddiddori mewn cerddoriaeth o ... i ...

to interest – bod â/o (d)diddordeb, denu diddordeb; **the subject which/that most i.-ed you** – y pwnc a aeth â'ch bryd

interested: they are only i. in ... – eu hunig ddiddordeb yw ...; **they were i. to hear about research** – fe wnaethon nhw wrando'n llawn diddordeb ar ddisgrifiad o ymchwil; **they were i. in further study** – yr oeddent yn awyddus i astudio ymhellach; ; **those who are i. (in doing so) should go ...** – dylai'r rhai/sawl a hoffai wneud hyn(ny) fynd

...

interest-free – di-log

interestingly – yn ddiddorol ddigon, mae'n ddiddorol sylwi bod/mai/y(r)

interface: those at the public i. – y rhai sy'n ymwneud/dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd

to interfere: to i. with – amharu ar

inter-governmentalism – rhynglywodraetholdeb

interim: the i. days – y dyddiau rhwng y dyddi(ad)au hynny

interiority – mewndoldeb

to interlock – cydieuo

intermediate: objectives with i. steps are noted – nodir yr amcanion gam wrth gam; (*o ran profiad*) – eithaf profiadol, pur/go brofiadol, profiadol; **or some i. combination** – neu ryw gyfuniad o'r ddau/ddwy

intermittent – bylchog

international: for i. good – er lles (gwledydd) y byd

internationally: to establish links with centres i. – sefydlu cysylltiadau â chanolfannau mewn gwledydd eraill

interoperability – rhyngweithiadwyedd (*eg*) [Cyfrifiadureg], rhyngweithredadwyedd (*yn gywirach?*), gallu i ryngweithredu (*dyna sydd gan Fwrdd yr Iaith yn ôl Meleri Hughes ar welsh-termau-cymraeg, 16.10.07*)

internship – lle hyfforddi i raddedigion yn bennaf (*mae 'externship' yn bod hefyd!*)

to interpret: this should not be i.-ed as – ni ddylid ystyried bod hyn yn

interrelatedness – cydberthynasoldeb (-rwydd?) (?)

interspersed: to be i. with – am yn ail â, yn gymysg â, (bod) yn britho, a(c) ... rhyngddynt

intertwined: they are so i. that ... – maent gymaint ynghlwm wrth ei gilydd nes/fel ...

interval: at reasonably frequent i.-s – yn weddol gyson; **at 4/5 year i.-s** – bob 4/5 mlynedd; **at two or three week i.-s** – bob rhyw ddwy neu dair wythnos

intervening: on the i. slopes – ar y llethrau/llechweddau rhyngddynt

intervertebral – rhyngfertebrol (*ans*) [Y Biowyddorau]

inter-war: the i. years – y blynyddoedd rhwng y ddau Ryfel Byd

interwoven – wedi'u plethu i'w gilydd

intimate: an i. forum – fforwm cartrefol; **an i.** – enaid hoff cytûn

intimately: these are i. linked with ... – mae cysylltiad agos iawn/dros ben rhwng y rhain a ...

into: to develop i. ... – datblygu'n ... ; **i. the future** – (ymlaen) i'r dyfodol; **to divide i. strips** – rhannu'n stribedi; **ten**

minutes i. an interview- ddeg munud ar ôl i gyfweiliad ddechrau/gychwyn; **they were six months i. their**

project when ... – yr oeddent wedi bod yn gweithio ar eu prosiect am chwe mis pan .../ yr oeddent wedi bod yn gwneud eu prosiect am chwe mis pan .../chwe mis ar ôl iddynt gychwyn/ddechrau (gweithio) ar eu

prosiect/gwneud eu prosiect, ...

intonation – goslefu

intractable: an i. problem – problem ddyrys (iawn/dros ben)

intracytoplasmic – mewngytoplasmig (*ans*) [Fferylliaeth]

intranet – mewnrwyd (*eb*)

to intrigue – cyffroi chwilfrydedd

intriguing – gogleisiol, hudolus, difyr

intrinsic – allweddol, hollbwysig; **i. motivation** – cymhelliant mewnol

to introduce – dechrau defnyddio; **which is i.-ed by ...** – a ddaw yn sgil ...; **to i. into ...** – ychwanegu at ...

introducer: an 'i.' representative – cynrychiolydd cyflwyno

to inundate: to be i.-ed with requests – cael llw (mawr) o geisiadau, bod dros eu pen(nau) a'u clustiau mewn ceisiadau

to invalidate – tansilio gwerth/dilysrwydd, dileu dilysrwydd

invaluable – gwerthfawr (dros ben/tu hwnt), hynod werthfawr, yn werth y byd

invariably: this will i. involve – mae'n sicr/siŵr y bydd hyn yn/hynny'n golygu/cynnwys

to invest: the team has i.-ed time – mae'r tîm wedi treulio cryn amser ar ...; **to i. information with meaning** – rhoi ystyr i wybodaeth

to investigate – gwyntyllu, chwilota, ceisio darganfod, mynd ar drywydd, chwilio a chwalu; **they are i.-ing whether this can be done** – maent yn/wrthi'n ymchwilio i weld a oes modd/a ellir/a yw'n bosibl gwneud hyn(ny)

invidious – anffodus, llechwraidd, heb fod yn deg, annymunol

inviolable: these rules are not i. – nid set gwbl gaeth/haearnaidd o reolau yw'r rhain, nid deddfau'r Mediaid a'r Persiaid yw'r rheolau hyn, nid yw'r rheolau hyn yn/hynny'n gwbl haearnaidd

invisible: they are i. from the air – ni ellir/nid oes modd/hid yw'n bosibl eu gweld o'r awyr

to invite: to i. suspicion – codi/cyffroi amheuan

inviting – gwahodddgar

invitation: (an) HMI i. conference – cynhadledd AEM i wahoddedigion; **i. conference** – cynhadledd drwy wahoddiad

to invoke – gofyn i; **to i. a procedure** – defnyddio trefn/gweithdrefn, troi at weithdrefn; **before i.-ing the complaints procedure** – cyn troi at y (weith)drefn gwyno, cyn dilyn y (weith)drefn gwyno, cyn rhoi'r (weith)drefn gwyno ar waith

to involve – mynnu; **this i.-es the use of** – defnyddir; **this i.-es more than ...** – mae mwy i hyn(ny) na(g); **the work i.-es pupils in collecting ...** – mae'r gwaith yn gofyn i'r disgyblion gasglu ...; **the next step will i. him joining with them to ...** – y cam nesaf fydd iddo ymuno â hwy i ...; **the work i.-ed them in collecting ...** – yr oedd y gwaith yn gofyn iddynt gasglu ...; **I shouldn't i. you in this (mess)/in all this** – ddylwn i ddim dy dynnu/ lusgo (di)/eich llusgo/tynnu (chi) i mewn i'r cawl/helynt 'ma; **to be i.-ed in an accident** – bod mewn damwain; **were there any problems i.-ed in finding accommodation?** – a gafwyd/gawsoch (chi)/gawsant unrhyw broblem wrth (i chi/iddynt) ddod o hyd i lety?, a gododd unrhyw broblem wrth (i chi/iddynt) ddod/wrth (i chi/iddynt) geisio dod o hyd i lety?

involved – perthnasol; **to be i.** – ymroi i, ymwneud â, bod (ynghlwm) wrth, dan sylw; **to be actively i. in** – ymwneud yn weithgar â, wrthi'n; **the factors i. in various situations** – y ffactorau (a geir) mewn gwahanol sefyllfaoedd; **there were special factors i.** – yr oedd ffactorau arbennig ar waith; **in view of the numbers i.** – gan fod cymaint/cynifer/cyn lleied ohonynt; **the legal issues i.** – y materion cyfreithiol sy'n codi; **who should be i.?** – pwy a ddylai gymryd rhan (yn y broses hon(no))?; **to be heavily i. in** – ymwneud llawer iawn â/ag; **try to avoid becoming i. in any confrontation with the member of staff** – ceisiwch osgoi dal pen rheswm â'r aelod o'r staff, peidiwch â cheisio dal pen rheswm â'r aelod o'r staff; **don't get i. with him!** – paid (ti)/peidiwch (chi) â chyboli efo fo!; **g. involved (in cycling)!** – dewch i feicio! (*Llais y Ddinas, Caerdydd, 12.04.12*); **the staff i.** – y staff sydd/a fu/a oedd ynglŷn â'r peth; **to prevent them (from) becoming i. in crime** – eu rhwystro rhag mynd ati/bwrw ati/ymroi i droseddau

involvement: deeper intellectual i. – ymwneud yn ddyfnach ar lefel ymenyddol

iota: not one i. – dim, dim byd, dim byd hyn, dim byd o gwbl

irksome – llethol

iron (= unshakeable) – disgil

to iron: to i. out fluctuations – dileu amrywiadau; **to i. out difficulties** – datrys problemau, goresgyn trafferthion, cael gwared ar anawsterau/trafferthion, dileu anawsterau/trafferthion

irrelevance: they are sliding into i. – maen nhw'n prysur droi'n amherthnasol

irrespective: i. of where they live – ble bynnag y maent yn byw; **i. of who they are** – pwy bynnag ydynt; **i. of whether this has been the subject of a review** – p'un a yw hwn(nw) wedi bod yn destun adolygiad neu beidio

irreversible: (an) i. change – newid am byth

irrevocable – di-droi'n ôl

irritant: minor i.-s – mân boenau

to irritate – mynd dan groen

irritation – poen(dod)

isokinetic – isocinetig (*ans*) [Astudiaethau Gofal Iechyd]

to isolate – datgysylltu (oddi wrth)

isolated: i. techniques – technegau digyswllt

isolation: professional i. – diffyg cysylltiad â rhai eraill/â'u tebyg; **in i. from relevant contexts** – y tu allan i gyd-destunau perthnasol; **in splendid i.** – ar (ei) ben ei hun bach

issue – mater llosg/dadleuol, ystyriaeth; **the major i. (mewn anghydfod)** – prif asgwrn y gynnen; **on the i. of** – o ran, ar fater; **to take i. with** – anghytuno â; **this is not an i.** – nid yw hyn yn/hynny'n codi, nid yw hyn yn/hynny'n bwysig, nid yw hyn(ny) o bwys; **they would be the first to take i. with us** – hwy fyddai'r cyntaf i godi'r mater (hwn) gyda ni/i dynnu'n sylw at y mater (hwn); **i.-s analysis** – dadansoddi(iad o'r) materion llosg/perthnasol, dadansoddi(r) materion/ystyriaethau sy'n codi('n aml/fynych/gyson), dadansoddiad o(r) materion/ystyriaethau sy'n codi('n aml/fynych/gyson); **I don't have an i. with that** – nid yw hynny'n broblem i mi, nid yw hynny'n fy mhoeni i, nid yw hynny'n mennu dim arnaf, nid yw hynny'n achosi trafferth i mi, nid yw hynny'n ddim trafferth i mi; **we'd better meet to discuss your financial i.-s** – gwell i ni gyfarfod/gwrdd i drafod eich problemau/sefyllfa/trafferthion ariannol

it: don't mention it – peidiwch â sôn; **it is wise to ...** – cam/peth doeth yw ...; **it is always the same, or is it?** – mae hwn bob amser yr un fath, ond/wel tybed?/ond (tybed) (a) ydy hynny'n wir?, mae hwn bob amser yr un fath, ond (tybed) ai dyna'r gwir?; **to know how important it is to go** – gwybod pa mor bwysig yw mynd; **on the face of it** – ar yr wyneb; **what's in it for me?** – beth sydd gan hyn i'w gynnig i mi? *neu* pa fantais y mae hwn yn ei gynnig/y gall hwn ei gynnig i mi?; **if you think about it** – os meddylwch chi am y peth; **making it safe** – gwneud y cyfan yn ddiogel

to itemise: a list i.-ing ... – rhestr o ...

iterative – ailadroddus

its: i. head of department – pennaeth yr adran yno

jack: every j. one – pob un (copa walltog) ohonynt

jealously: these were j. guarded – caent/câi'r rhain/rheiny eu gwarchod yn ddyfal, fe'u gwarchodid yn ddyfal
to jeopardise: to j. the balance – tanseilio cydbwysedd
jeopardy: to be in j. – bod yn y fantol
jewel: the j. in the crown – y trysor pennaf (o'r holl drysorau), un o'r trysorau pennaf/mwyaf, un o'r prif drysorau
job: to be up to the j. – bod yn ddigon da; **is he up to the j.?** – ydy e'n ddigon o ddyn i (allu g)wneud y gwaith/ swydd?, all e wneud y gwaith/swydd?
to join: to j. forces with ... – cydweithio â/ag ..., mynd ati i gydweithio â/ag ..., ymuno â/ag ..., dod ynghyd i ...; **the Unit and the Department j.-ed forces to organise a conference** – aeth yr Uned a'r Adran ati (gyda'i gilydd) i drefnu cynhadledd, cyd-drefnodd yr Uned a'r Adran gynhadledd; **they were j.-ed by ...** – atynt, daeth ...
joined-up: j. government – llywodraeth gydgysylltiedig/gydlynol, llywodraethu'n gydgysylltiedig/gydlynol, llywodraethu cydgysylltiedig/cydlynol
jointly: j. with – ar y cyd â
journalise – ieithwedd newyddiadurwyr/papur-newydd
journalism: j. opportunities – cyfleoedd i newyddiadura
joy: the j. of – y wefr o; **no j.** – yn ofer, dim lwc, heb (gael) lwc; **I didn't get much joy from ...** – ches/chefais i fawr o fudd o ...
jubilant – (bod yn) gorfoleddu, bod ar ei/eu (h)uchelfannau
to judge: you don't/one doesn't j. a book by its cover – nid wrth ei big y mae prynu cyffyllog; **to j. an application** – pwyso a mesur cais; **the outcome of the assessment is that the teaching here is j.-ed to be excellent** – casgliad yr asesiadau yw bod safon yr addysgu yma'n rhagorol
judg(e)ment: to make j.-s about – pwyso a mesur, barnu; **to use their own j. as to whether they should** – barnu/penderfynu drostynt eu hunain a ddylent; **to come to j.-s** – barnu, ffurfio barn; **to make j.-s** – barnu (cyrhaeddiad etc)
junctional – cyfforddol (*ans*) [Meddygaeth]
juncture: at an appropriate j. – ar adeg briodol; **it was at this j. that** – a dyma/dyna pryd y(r)
jury: the j. is still out – does dim penderfyniad wedi'i wneud eto, rhaid aros i weld, amser a ddengys
just: j. south of ... – ychydig i'r de o ...; **to be j. right for you** – taro deuddeg i chi; **Christmas is j. around the corner** – mae'r Nadolig ar ein gwarthaf; **j. three weeks before** – cwta dair wythnos cyn (hynny); **to underline j. how important it is to ...** – tanlinellu'n glir pa mor bwysig yw; **to answer j. this need** – ateb yr union angen hwn(nw); **they can be used only j. so much** – ni ellir defnyddio mwy na mwy arnynt; **j. before Christmas** – yn union/ychydig cyn y Nadolig; **j. a few words about** – gair byr am; **j. suppose that you ...** – a bwrw am eiliad eich bod yn ...; **j. as relevant** – yr un mor berthnasol; **j. as they were going out** – wrth iddynt fynd allan, gyda'u bod yn mynd allan; **j. at that very moment** – (ac) ar y gair; **I j. wanted to thank you (mewn llythyr)** – gair byr i ddiolch i chi; **to j. lose/miss out** – boddi yn ymyl y lan; ; **I j. wish I'd gone there** – trueni mawr nad es i ddim yno/dyna trueni nad es i ddim yno; **others are j. down the road** – mae eraill (i'w cael) yn gyfleus (o agos); **j. ask!** – gofynnwch! dim ond gofyn sy(dd) raid!; **with j. a click of the mouse** – drwy glicio'r llygoden, drwy wneud dim mwy na chlicio'r llygoden; **j. offshore** – ychydig o bellter/ffordd o'r lan, heb fod y bell o'r lan
justice: to do less than j. to ... – nid yw'n gwbl deg â/sg ..., mae'n gwneud cam â/ag ...
justifiable: the j. concern for animal welfare – y pryder(u) cwbl/hollol gyfiawn am/ynghylch lles anifeiliaid
justifiably – yn ddigon teg/cyfiawn, yn deg/cyfiawn ddigon
justification: j. for ... – cyfiawnhad dros ...
justified: they are valid and j. – maent yn ddilys ac yn hawdd eu cyfiawnhau; **is this j.?** – a oes cyfiawnhad i hyn(ny)?; **they were fully j. in ...** – yr oedd ganddynt bob cyfiawnhad dros ...
keel: to bring thing back to an even k. – dod â phethau'n ôl i drefn
keen: a k. sense of ... – ymwybyddiaeth fyw o ...; **to take a k. interest in ...** – ymddiddori'n fawr yn/mewn ...
keenly: k. aware – yn dra ymwybodol, yn ymwybodol dros ben; **it is k. awaited** – mae disgwyl mawr amdano/amdani
to keep: to k. to – glynu wrth; **to k. on** – dal ati i; **k. (on) trying** – dyfal donc, daliwch ati; **to k. to a minimum** – cwtogi/cyfyngu cymaint â phosibl ar; **to k. to an absolute minimum** – cwtogi/cyfyngu hyd yr eithaf ar; **in k.-ing abreast of rapid strides in today's technological world** – drwy fanteisio ar ddatblygiadau diweddaraf yr oes dechnolegol sydd ohoni; **to k. (on) recurring** – digwydd dro ar ôl tro; **they kept (on) cropping up** – yr oeddent/byddent yn codi droeon/byth a hefyd/beunydd/dro ar ôl tro; **to k. up to date with ...** – ymglyfarwyddo â'r datblygiadau diweddaraf ym maes/o ran ...
keeping: in k. with – yn cyd-fynd/cydweddu â
to kettle – corlannu (*newyddion y BBC*)
key: colour k. – allwedd i'r lliwiau; **to be of k. importance** – bod yn allweddol bwysig; **the k. word is quality rather than/not quantity** – ansawdd/safon, nid nifer, sy'n bwysig
keynote – prif amcan; **k. speech** – prif araith, araith arbennig
key()word: the k. is quality rather than/not quantity – ansawdd/safon, nid nifer, sy'n bwysig
to kick-start – rhoi cychwyn egniol i ...
to kid – twyllo, tynnu coes; **only k.-ding!** – dim ond tynnu dy goes/tynnu'ch coes!

kind: though excellent of its k. – er cystal ydyw (yn ei faes); **people of the k. necessary to secure** – y math o bobl y mae eu hangen i sicrhau; **in k.** – ar ffurf rhoddion; **of all k.-s** – o bob lliw a llun

kingdom: all other members of the animal k. – pob anifail arall

kitemark: it is very much a 'k.' of quality assurance – mae'n arwydd pendant iawn o sicrwydd ansawdd

knee: his government has brought the country to its k.-s – mae ei lywodraeth wedi gwanhau'r wlad yn enbyd/wedi chwalu'r wlad yn rhacs/wedi rhoi ergyd farwol i (economi)'r wlad. wedi difetha/dryllio economi'r wlad, mae ei lywodraeth wedi gwneud drwg/niwed mawr/enbyd i'r wlad, mae'r wlad ar ei gliniau oherwydd (gweithredoedd) ei lywodraeth ef

knife-edge: their ability to cope is on a k. – dim ond o drwch blewyn y maent yn llwyddo i ymdopi

knee-high: (ever) since I was k. to a grasshopper – er pan ôn i'n ddim o beth

knot: we're going through this work at a rate of k.-s – rydyn ni'n tasgu drwy'r gwaith (hwn/'ma)

to know: their greed k.-s no b.-s – does dim diwedd/pall ar eu trachwant; **everyone/everybody they k./knew** – pob un/pawb o'u cydnabod; **say it repeatedly until they k. it (off) by heart** – dywedwch ef dro ar ôl tro tan iddynt ei ddysgu ar eu cof; **they have been k.-n to go missing** – maent wedi mynd ar goll yn y gorffennol/o'r blaen

know-how – gwybodaeth a phrofiad ymarferol

knowing: there's no k. – does dim dal

knowingly: if you have k. omitted any facts – os ydych chi'n fwriadol wedi hepgor unrhyw ffaith/ffeithiau

knowledge: in the k. that ... – gan/o wybod bod/mai/y(r) ...; **this has become c. knowledge** – mae'r newyddion hyn (wedi mynd) ar led

knowledgeable: to be k. about ... – gwybod llawer am ...

known: k. as – a elwir (yn) ...; **to make known their objections** – lleisio'u gwrthwynebiad; **a little-k. feature** – nodwedd na wŷr/wyddai fawr o neb amdani

to label: they cannot be l.-led criminals – ni ellir eu galw'n droseddwyd

to labour: to l. under a misapprehension – bod o dan gamargraff; **an interesting piece of work which l.-s under a difficulty** – darn diddorol o waith, ond mae un anhawster/problem (yn codi), sef bod/mai/y(r) ... *neu* darn diddorol o waith, ond yr anhawster/y broblem (sy'n codi) yw bod/mai/y(r) ...

laboured – llafurus

lack – bod heb, yn ddi-, yn brin o, peidio â bod â/ag, heb fod â/ag; **l. of concern** – dihidrwydd; **their concern at the l. of an effective mechanism to ensure that ...** – eu pryder ynglŷn â'r ffaith nad oes mecanwaith effeithiol i sicrhau bod/mai/y; **owing/due to the l. of proper treatment, they went to ...** – am na chawsant eu trin yn iawn/briodol, aethant i ...; **there is a serious l. of** – nid oes hanner digon o;

to lack – bod heb, bod yn brin o, peidio â bod â/ag, heb fod â/ag; **they l.** – nid oes ganddynt, ni cheir ynddynt; **they l. clarity** – nid ydynt yn glir/yn ddigon clir; **they l. the formality of...** – nid oes iddynt ffurfioldeb...; **to l. ... totally** – bod heb ronyn/fymryn/owns o ..., does dim tamaid/whithryn o ... ar eu cyfyl/yn agos atyn nhw

lackadaisical – di-hid

lacking – ar goll, nid oes yno ddim, sydd eisiau, yn brin o; **l. in variety** – diamrywiaeth; **l. in focus** – ar chwâl; **to be totally l. in** – bod heb ronyn/owns/fymryn, does dim tamaid/whithryn o ... ar eu cyfyl/yn agos atyn nhw; **Government had a coherence which had long been l. ...** – (i) bu'r dull o lywodraethu ar chwâl ers tro byd, ond y tro hwn cafwyd cyfnod/ond gwawriodd cyfnod/ond daeth dro ar fyd a welodd gyfnod o lywodraethu pwrpasol ac unedig *neu* (ii) digon di-sut fu'r llywodraethu ers tro (byd), ond bellach gwelwyd undod a phwrpas i'r gwaith/ond daeth y llywodraeth hon/newydd ag undod a phwrpas i'w gwaith *neu* (iii) yn wahanol i'w rhagflaenwyr/i'r llywodraethau blaenorol, yr oedd undod a phwrpas i weithgareddau'r llywodraeth hon; *neu* (iv) fe welwyd, am y tro cyntaf ers blynyddoedd (maith), lywodraethu unedig a phwrpasol; *neu* (v) dyma lywodraeth unedig a phwrpasol – y gyntaf ers tro (byd) [*cynigion ar welsh-termau-cymraeg, Gorffennaf 2003*]; **the kind of guidance that is often l. in ...** – y math o arweiniad nad oes modd ei ddarparu/gael yn/mewn ...

lad: a bit of a lad – tipyn o dderyn/aderyn

ladder: a l. of opportunity – llwybr(au) at gyfleoedd

laddish – llencynnaidd

lag sequential analysis – dadansoddiad oediad-ddilyniannol [*gw. welsh-termau-cymraeg, 10.09.04, a neges Delyth Prys, 18.10.04*]

to lag: Britain is l.-ging behind other countries – nid yw Prydain yn gwneud cystal â gwledydd eraill

to lament: to l. the loss of ... – gresynu at golli ...

landfill – tirlenwi

landmark – cam pwysig, digwyddiad o bwys, carreg filltir

language – ieithwedd; **to ask them to use l. you can understand** – gofyn iddynt ddefnyddio geiriau y gallwch eu deall; **body l.** – (holl) osgo'r corff; **this l. (=m mode of expression) hints at ...** – mae'r geiriad hwn yn lled awgrymu/yn rhyw led awgrymu ..., mae naws yr iaith yma/yn y fan hon yn lled awgrymu/yn rhyw led awgrymu ...

to lap: they'll be l.-ping it up – bydd yn fêl ar eu bysedd

lapse – diffyg; **the l. of time** – y bwlch amser; **before a l. of three years** – cyn i dair blynedd fynd heibio; **because of a momentary l. of concentration** – am/gan/oherwydd methu/iddo/iddi/iddynt fethu â chanolbwyntio am eiliad/ennyd

to lapse: this practice has been allowed to l. – gadawyd/caniatawyd i'r arfer hwn farw; **to l. into English** – troi i'r Saesneg

large: the world at l. – y byd yn gyffredinol; **they are still at l.** – maent yn dal â'u traed yn rhydd; **a (very) l. ...** – clamp o ...; **to make a l. contribution to** – cyfrannu'n helaeth i/at; **l. volumes of useful information** – llond gwlad o wybodaeth ddefnyddiol; **a l.-er than life character** – cymeriad a hanner

largely – gan mwyaf; **l. unchanged** – yn bur ddigyfnawid, fwy neu lai'n ddigyfnawid; **this is l. unchanged/unaltered** – nid oes fawr o newid wedi bod yn hwn/hyn; **it falls l. to them to ...** – eu cyfrifoldeb hwy yn bennaf yw ...; **traces have l. been obliterated** – mae llawer o(r) olion wedi'u dileu, cafwyd gwared ar lawer o olion

large-scale – helaeth

lark: he got up like the l. – cododd fel y gog

last: 31st March l. – 31ain Mawrth y llynedd; **the night before l.** – echnos; **it was the l. place I wanted to go-** arswydw'n rhag mynd yno; **l.(.) but not least** – (ac) i gloi; **at long l.** – wedi hir ddisgwyl

to last: the programme l.-s 5 minutes – 5 munud yw hyd y rhaglen

lasting – hirhoedlog, oesol, arhosol

late: of l. – yn ddiweddar

later: no(t) l. than ... – cyn ..., erbyn ... fan bellaf; **later: no(t) l. than two weeks after ...** – cyn pen pythefnos ar ôl/wedi ...; **l. on** – yn nes ymlaen; **to keep something for l.** – cadw rhywbeth at eto

late-arrivals – hwyr-ddyfodiaid, newydd-ddyfodiaid hwyr

latent – ynghladd

laudable – i'w canmol

laughter: the l. of yesteryear – doniolwch/hiwmor slawer dydd/ers talwm

launch – cyfarfod/seremoni (i) lansio; **launch(ing): they are using this as a l. pad into relevant jobs** – maent yn defnyddio/defnyddiant hwn/hyn i'w lansio('u hunain) i mewn i swyddi perthnasol

launching: they are using this as a l. pad into relevant jobs – maent yn defnyddio/defnyddiant hwn/hyn i'w lansio('u hunain) i mewn i swyddi perthnasol

laurel: to rest on their l.-s – gorffwys ar eu rhwyfau, llaesu dwylo

lavishly: l. illustrated – ac ynddo/ynddi/ynddynt lu (mawr)/llond gwlad/amryw byd/nifer fawr (iawn) o luniau ynddo, sy'n cynnwys llu (mawr)/llond gwlad/amryw byd/nifer fawr (iawn) o luniau

to lay: to l. down criteria – pennu meini prawf; **to l. down foundations** – gosod seiliau/sylfeini; **to l. stress on** – pwysleisio, rhoi pwyslais ar; **to l. on a service** – darparu/trefnu gwasanaeth; **this guidance is laid out in four sections** – mae i'r cyfarwyddyd hwn bedair rhan, trefnwyd y cyfarwyddyd hwn yn bedair rhan, mae'r cyfarwyddyd hwn wedi'i drefnu'n bedair rhan; **to l. to rest the view that ...** – chwalu'r farn fod/mai/y ..., rhoi ergyd farwol i'r farn fod/mai/y ...; **it l.-s out the context of ...** – mae'n amlinellu/disgrifio cyd-destun ...

lead – trywydd; **to take the l.** – cymryd yr awenau, arwain (y broses o ...), mynd ar y blaen; **to take the l. in arranging** – mynd/bwrw ati i drefnu; **l. lesson** – gwers agoriadol/arweiniol; **l. boards** – byrddau arweiniol (PDAG); **the l. role** – rhan y prif gymeriad

to lead: to l. the way – bod ar flaen y gad; **to l. to (the creation of)** – rhoi bod i; **to l. down blind alleys** – mynd ar drywydd cyfeiliornus/dibwrpas/difudd; **this led to a decision to** – oherwydd hyn(ny) neu penderfynwyd/ felly neu penderfynwyd; **they do not invariably l. to their offering advice to ...** – ni fyddant bob amser yn arwain at sefyllfa lle (y) byddant yn cynnig cyngor i ...; **this l.-s me to believe that ...** – mae hyn yn/hynny'n peri i mi gredu bod/mai/y(r) ...; **to l. to strains** – achosi straen; **their fragility has now led to them/their receiving special attention** – am/gan/oherwydd eu bod mor fregus, cânt sylw arbennig

leader – ceffyl blaen (= *follow my l.*)

leading – mwyaf blaenllaw; **to be at the l. edge** – bod ar y blaen; **a l. player** – ceffyl blaen

leading-edge – arloesol, mwyaf datblygedig

leaf: to turn over a new l. – troi dalen newydd

league: to be in l. with – (bod) law yn llaw â/ag; **there is no-one in the same l. as him** – nid oes neb yn yr un cae ag ef

to leak: if the liquid l.-s – os yw'r hylif yn dianc; gollwng y gath o'r cwd (yn ddistaw bach/yn llechwraidd), datgelu'n ddistaw bach/yn llechwraidd

lean: a l. period – cyfnod anodd/tlodaid; **a l. process** – proses dynn/ddiwastraff

leaning: to have a l. towards ... – tueddu i/at ...

leap: to improve in l.-s and bounds – gwella'n aruthrol; **to increase by l.-s and bounds** – cynyddu ar garlam

to learn: it is surprising to l. that ... – syndod yw (cael ar d)deall bod ...; **I am sorry to l.** – mae'n flin gennyf wybod/glywed/ weld; **they learnt about it through ...** – daethant i wybod amdano drwy ...; **to l. the ropes** – dysgu'r grefft, dysgu'r hanfodion, dysgu sut mae gwneud (hyn(ny)); **we wish to l. about ...** – hoffem wybod am ...

learnedirect (enw cynllun) – cyswlltdysgu

learner – disgybl o ddysgwr; **Welsh L.-s Week** – Wythnos Dysgu Cymru

learning: to assess their l. – asesu'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu, asesu faint yr oeddent wedi'i ddysgu; **steep l. curve** – dysgu'n gyflym/sydyn, dysgu llawer mewn dim o dro (*gw. welsh-termau-cymraeg*, 28.11.01)

lease: it will get a new l. of life when ... – bydd cyfnod newydd yn agor yn ei hanes pan ... ; **to give the site a new l. of life** – dod â bywyd newydd i'r safle

least: at the very l. – a dweud y lleiaf; **they have not the l. interest** – nid oes ganddynt rithyn o ddiddordeb; **l. said soonest mended** – taw piau hi; **not l. because** – yn rhannol am fod; **not l. in** – yn enwedig yn/mewn ...; **this is important not l. because ...** – mae hwn yn bwysig am/gan fod/oherwydd ...; **not the l. of which is/are/being ...** – gan gynnwys ...; **last:(s) but not l.** – (ac) i gloi

leave: to take l. of their senses – colli arnynt eu hunain; **to grant l. of absence** – caniatáu cyfnod o absenoldeb; **indefinite l. to remain** – caniatâd i aros am amser amhenodol

to leave: to l. out – anghofio, hepgor; **(if) left to their own devices** – o'u gadael yn llonydd; **the results are left to your imagination** – cewch ddychmygu'r canlyniadau; **to l. no stone unturned** – gweithio/chwilio'n ddiflino; **to l. well alone** – gadael i bethau fod; **areas the ... left behind** – ardaloedd a esgeuluswyd gan y(r) ...; **these tendencies, (if) left unchecked, will ...** – bydd y tueddiadau hyn(ny), o beidio â'u cywiro/o'u gadael fel y maent/o'u gadael heb eu cywiro/o'u gadael heb eu gwrthweithio/o roi rhwydd hynt iddynt/os na chywirir mohonynt/os na chânt eu cywiroos na wneir rhywbeth yn eu cylch, yn ...

leaver: a l.'s course – cwrs ymadael; **school l.'s certificate** – tystysgrif gadael ysgol

led: midwifery-l. – o dan arweiniad bydwragedd

leeway – lle, rhyddid

left (= left over) – ar ôl, dros ben; **what's l.** – y gweddill; **on the l. (= left-hand side) of the screen** – ar ochr chwith y sgrin

leg: the first l. of the journey – cam cyntaf/rhan gyntaf y daith

legacy – treftadaeth; ffrwyth (polisi etc); **the l. of the Tories/of Tory policies** – ffrwyth/canlyniadau polisiâu'r Torïaid, gwaddol (?) y Torïaid; **the l. of industrial activity is apparent everywhere** – mae olion/effaith/ effeithiau gweithgarwch diwydiannol i'w gweld ymhobman

legend: footballing l.-s – arwyr pêl-droed; **a living l.** – cawr (yn) ein cyfnod, un o gewri heddiw, un o gewri'r oes, un o gewri'n hoes (*gw. welsh-termau-cymraeg*, 10.04.02)

legibly – yn glir, mewn (llaw)ysgrifen glir/ddarllenadwy

to legislate: to l. for ... – deddfu o blaid/i greu/i sefydlu ...

legislation: to be passed into l. – dod yn gyfraith gwlad

legitimate – dilys

legitimately: to l. pass queues of traffig – mynd heibio i resi o draffig heb dorri unrhyw reol/heb dorri'r un rheol

leisure: at your l. – wrth eich pwysau; **in l.-ly fashion** – wrth eu pwysau

to lend: to l. weight to an argument – cryfhau dadl; **to l. weight to a decision** – ategu penderfyniad; **to l. them rigidity to ...** – eu dal/helpu i'w dal yn gadarn yn eu lle

length: to write at much greater l. – ysgrifennu'n llawer helaethach, ysgrifennu llawer mwy; **at l.** – yn faith, yn helaeth; maes o law, ymhen hir a hwyr; **to discuss at l.** – trafod yn fanwl; **at some l.** – yn bur faith, am gryn amser; **over a l. of time** – dros gyfnod; **to go to great l.-s to ...** – mynd i drafferth mawr i ..., gwneud llawer iawn/ymdrech fawr i ...; **a l. o** – darn o ...; **from the l. and breadth of the country** – o bob rhan o'r wlad; **to write a dissertation (maximum l. 20,000 words)** – llunio/ysgrifennu hir (hyd at/dim mwy nag 20,000 o eiriau)

lengthways – ar eu hyd

lengthy: these discussions may be l. – fe all/gall y trafodaethau hyn(ny) bara sbel go lew/eitha sbel/bara/barhau am amser maith/gymryd cryn amser

lenient – caredig; **more l. standards** – safonau llai caeth/llym

less: they could not care l. – nid oeddent yn malio botwm corn/ffeuen/taten/dim; **due l. to ...** – nid yn gymaint oherwydd/o achos ...; **l. easy** – mwy anodd; **including no l. than...** – gan gynnwys cymaint/cynifer â/ag ...; **no l. than £50** – o leiaf £50; **a concept no l. valid now than ...** – (cy)syniad nad yw damaid yn llai dilys (heddiw) na(g yr oedd) ...; **circumstances that are l. than ideal** – amgylchiadau nad ydynt yn (gwbl) ddelfrydol; **to do l. than justice to ...** – nid yw'n gwbl deg â/ag ...; **l. than clear** – braidd yn niwlog; **l. than heroic** – digon anarwrol

lesser: a l. offence. – trosedd lai difrifol

lesson: we will not take l.-s from him about ... – chaiff ef ddim pregethu wrthym ni am/ynghylch ...

to let: l. alone ... – chwaethach ..., heb sôn am ...; **l.'s persevere!** – dyfalbarhad amdani!; **l.'s ... !** – beth am ...?; **l.'s go** – bant/i ffwrdd â ni; **to l. go** – rhyddhau; **for l.-ting them down (so) badly** – am eu siomi cymaint/eu siomi'n fawr; **to l. themselves in for such work** – tynnu'r fath waith yn eu pennau; **l. us/let's hope that ...** – gobeithio('n wir) bod/fod/mai/y(r) ...

letter: to the l. – i'r dim; **a red l. day** – dydd o lawen chwedl, diwrnod nodedig, diwrnod arbennig iawn

level – uchder; **at/to GCSE l.** – hyd at TGAU; **at local l.** – yn lleol; **they did their l. best** – gwnaethant eu gorau glas; **to reduce such occurrences to the lowest possible l.** – cwtogi hyd yr eithaf/cymaint â phosibl ar ddigwyddiadau o'r fath; **a l. playing field** – maes cystadlu gwastad/teg; **to secure a l. playing field** – sicrhau bod yr amodau yr un fath i bawb (*w-t-c*, 29.10.02), sicrhau'r un amodau i bawb

levelness – lefelrwydd

lever: to act as a l. – bod yn gyfrwng i
to lever: to l. in – denu, sicrhau
to leverage: to help to l. additional resources – helpu i sicrhau rhagor o adnoddau
liability: he's a l.! – mae e'n (gryn) dipyn o gyfrifoldeb/o faich
liable: l. to ... – yn agored i ..., yn dueddol o ...
liaison – cysylltiadau, cysylltu, cyswllt gwaith
liberal – helaeth
to liberalise – llacio('r rheolau)
liberty: to be at l. – bod (â'u traed) yn rhydd
to lie – palu/rhaffu celwyddau; **responsibility for A l.-s with B** – mae'r cyfrifoldeb dros A yn nwylo B neu yn nwylo B y mae'r cyfrifoldeb dros A neu cyfrifoldeb B yw A; **the blame must l. with ...** – rhaid rhoi'r bai ar ...; **my interest l.-s in** – yn ... y mae fy niddordeb i, mae fy niddordeb yn ymwneud â ...; **their value l.-s in their ...** – mae eu gwerth yn deillio o'u ...; **what difficulties l. ahead?** – pa anawsterau sy'n codi?, pa drafferthion sy'n ein hwynebu; **their usefulness l.-s in the way in which they ...** – maent yn ddefnyddiol am/oherwydd eu bod yn ...; **many houses l. abandoned** – mae llawer tŷ wedi'i adael yn wag, mae llawer o dai wedi'u gadael yn wag
lie-in: to have a l. – cysgu'n hwyr, diogi yn y gwely
life: l. and times – hanes (oes); **for the l. of them** – yn eu byw; ..., **where shopping comes to l.** – ..., lle mae siopa'n bleser pur; **in their l. history** – yn eu hanes; **that's l.** – fel 'na mae (hi); **in real l.** – mewn gwirionedd; **they drew them from l.** – fe'u darluniasant/darlunient fel yr oeddent
lifeblood: new customers are the l. of any business – daw cwsmeriaid newydd â busnes newydd, rhaid i bob busnes wrth gwsmeriaid/gael cwsmeriaid newydd/ddenu cwsmeriaid newydd; **new ideas are the l. of progressive change** – syniadau newydd sy'n ysgogi newidiadau blaengar, rhaid wrth syniadau newydd i ysgogi newidiadau blaengar, mae syniadau newydd yn hollbwysig/hanfodol/allweddol wrth ysgogi newidiadau blaengar
lifeline: the town's l. – (y) peth sy'n gwbl allweddol i ffyniant y dref; **a mobile phone can literally be a l.** – gall ffôn symudol fod yn werth y byd
life-saving – gweithgareddau arbed bywyd(au)
lifespan – hyd oes, hirhoedledd; **to have a short l.** – para/byw am gyfnod byr, heb fyw yn hir, byrhoedlog; **the project's l.** – oes y prosiect
lifestyle: our choice of l. – y ffordd y dewiswn fyw
lifetime: very early in its l., the Council decided to ... – yn fuan ar ôl ei sefydlu, penderfynodd y Cyngor ...; **during/in my l.** – tra byddaf byw; **a once in a l. journey** – taith unwaith(-)mewn(-)oes
lift-off: the economy is now in/at the l.-stage – mae'r economi ar fin brasgamu/sboncio yn ei flaen; **they need to be able to achieve 'l.' into their own project** – mae angen iddynt allu rhoi cychwyn cadarn i'w prosiect eu hunain
to lift: to l. conditions – dileu amodau
light: to bring to l. – amlygu; **to come to l.** – dod i olau dydd; **it subsequently comes to l. that ...** – fe ddarganfyddir yn ddiweddarach bod/mai/y(r) ...; **these remains have only recently come to l.** – dim ond yn ddiweddar y cafwyd hyd i'r olion hyn(ny), dim ond yn ddiweddar y darganfuwyd yr olion hyn(ny); **according to their l.-s** – fel y gwelant yn dda; **to give the green l. to ...** – caniatáu ...; **these aims are the guiding l.-s of all our activities** – at yr amcanion hyn(ny) y mae pob un o'n gweithgareddau'n anelu/ein holl weithgareddau'n anelu, dyma'r amcanion y mae pob un o'n gweithgareddau'n anelu/ein holl weithgareddau'n anelu atynt; **it subsequently comes to l. that ...** – fe ddarganfyddir yn ddiweddarach bod/mai/y(r) ...; **to catch l.** – mynd ar dân; **in the l. of the EU's recent expansion** – gan i'r UE ehangu'n ddiweddar; **answers which/that will present/show them in a better l.** – atebion a rydd/a wnaiff roi gwell argraff ohonynt
light-fingered – dwylo blewog
light-hearted: – hwyliog
lightly – yn ddi-hid/ddifeddwl; **to let them off l.** – peidio â bod/heb fod yn ddigon llawdrwm/llym arnynt, peidio â cheryddu/chosbi digon arnynt, heb geryddu/gosbi digon arnynt, peidio â bod/heb fod yn ddigon beirniadol ohonynt, peidio â'u beirniadu/ceryddu/cosbi'n ddigon hallt
light-touch: a l. overview – trosolwg eithaf/gweddol arwynebol
lightweight – ysgafn
like: what it's l. to ...? – sut beth/brofiad yw ...?; **what do pancakes taste l.?** – pa/sut flas sydd ar gremmpog?; **what are they l.?** – sut rai/bobl ydynt?; **what is the town l.?** – sut le yw'r dref?, sut dref yw hi, pa fath o dref yw hi?
to like: they don't really l. the idea of ... – nid yw'r syniad o ... yn apelio fawr atynt
likelihood: the l. is that they will go – y tebyg yw y byddant yn mynd/mai mynd wnân nhw; **there is every l. that** – yn ôl pob tebyg, bydd
likely: l. to – yn debyg(ol) o; **it is highly l. that ...** – mae'n fwy na thebyg bod/mai/y(r) ...
like-minded – o gyffelyb fryd; **a l. company** – cwmni sy'n arddel meddylfryd tebyg, cwmni sydd â meddylfryd tebyg
likes – hoffterau; **the l. of you** – eich teip chi, chi a'ch teip
likewise – yn yr un modd, felly hefyd; **to do l.** – gwneud yr un peth
liking: more to their l. – yn fwy at eu dant
limbus – limbws (eg) [Optometreg]

limelight – sylw; **to be in the l.** – bod yn ganolbwynt sylw; **activities that do not attract the l.** – gweithgareddau nad ydynt yn tynnu sylw (mawr) (atynt eu hunain)/yn tynnu rhyw lawer o sylw (atynt eu hunain)

limit: to push to the l. – gwrthio i'r eithaf, gwrthio hyd yr eithaf; **there are l-s to what they can do** – mae pen draw i'r hyn y gallant ei wneud; **the sky's the l.!** – gorau po fwyaf!; **the maximum time l. for the degree overall is 7 years** – ni chaiff y radd i gyd gymryd mwy na 7 mlynedd (i'w gwneud), chewch chi ddim cymryd mwy na 7 mlynedd i wneud y gradd i gyd

limitations: at a time of financial l. – (ar adeg) pan fo cyllid yn brin

limited: l. in nature – tlodaidd; **more l.** – llai o; **l. in scope** – cyfyng(edig); **on a very l. basis** – ychydig bach o; **a l. amount** – rhywfaint, peth; **only a l. amount** – dim ond hyn a hyn o; **they can only be used to a l. extent** – ni ellir defnyddio mwy na mwy arnynt; **they have l. access to appropriate accommodation** – ni chânt ddefnyddio mwy na mwy ar yr ystafelloedd priodol;

limiting – cyfyngus

line: to bring into l. – cysoni, cydymffurfio, sicrhau eu bod yn cyd-fynd/unol â; **to stand in (a) l.** – sefyll mewn rhes; **in l. with ...** – yn unol â/ag ..., yn cyd-fynd/cydymffurfio â/ag ...; **to be very much in l. with ...** – bod yn agos iawn at ...; **l. of an argument** – trywydd dadl; **along these l-s** – tebyg i hyn; **along the l-s that ...** – i'r perwyl bod ...; **this l. of action** – gweithredu fel hyn; **the bottom l.** – yr elw (a wneir/wnaed), elw ('r busnes); **to bring the publication cycle back into l.** – dod â'r cylch cyhoeddi yn ôl i drefn; **to be out of l. with ...** – bod yn anghyson â/ag ...; **the first l. of defence** – yr amddiffyniad yn y lle cyntaf (*Nia Humphreys, 24.04.14*); **their l. on this is to ...** – eu safbwynt (hwy) ynghylch/ynghlŷn â hyn(ny) yw ...

to line: does this information l. up with your own experience? – a yw'r wybodaeth hon(no) yn cyd-fynd â'ch profiad chi?

linear: the path is rarely l. – anaml y bydd y llwybr yn (un (cwbl)) (gwbl) syth

linen: l. basket – basged dillad brwnt/budr

link – dolen gyswllt; **l. courses** – cyrsiau cyswllt; **this provides (=fills) the missing l. in a chain of ...** – mae hwn/hon/hyn yn llenwi'r bwlch yn y gadwyn o; **to maintain l-s with ...** – cadw mewn cysylltiad â/ag ...

to link: to be closely l.-ed to – bod ynghlwm wrth; **to l. up with ...** – sefydlu cysylltiad â/ag ...; **this will be l.-ed to future levels of funding** – bydd hyn yn/hynny'n dibynnu ar lefel y cyllid/faint o gyllid a geir yn y dyfodol

lipofuscin – lipoffwsgin (*eg*), lipoffwsginau [Optometreg]

lip-service: despite all the l. about ... – er yr holl sôn am, er (gwaethaf) y geiriau teg a siaredir am; **little more than l. is paid to ...** – prin yw'r parch sydd i ...

to list: the points l.-ed below – y pwyntiau isod; **below are l.-ed some examples** – isod ceir/gwelir/mae rhai enghreifftiau

litany: a l. of miscarriages of justice – rhestr/cyfras (hir/faith/anffodus/drist) o aflwyddiannau cyfiawnder

literacy: musical l. – llythrennedd cerddorol; **financial l.** – gwybodaeth am arian/am fyd arian/am arian a byd arian/am faterion ariannol (*awgrymiadau mewn ymateb i gais gan Rhian Huws i welsh-termau-cymraeg, 12.10.07*), amgyffred ariannol (*awgrym Dafydd Lewis, w-t-c, 13.10.07*)

literally: l. hundreds of ... – cannoedd ar gannoedd o ...; **a mobile phone can l. be a lifeline** – gall ffôn symudol fod yn werth y byd

literature: visual l. – llunyddiaeth

litmus: a political l. test – prawf gwleidyddol syml/(cwbl) sylfaenol

littered: l. with mistakes – yn frith o gamgymeriadau

little: l. or no – odid ddim; **very l./l. or nothing** – fawr o ddim, odid ddim; **it is of l. value** – nid yw fawr o werth; **there is l. hope** – nid oes fawr o obaith; **the/what l. money they have** – eu harian prin, yr ychydig arian sydd ganddynt; **far too l.** – dim hanner digon; **to open the door a l.** – agor cil y drws; **to care l. for** – (peidio â) malio botwm corn/ffeuen/dim, hidio'r un ffeuen/dim; **this may take a l. while** – gall hwn/hyn gymryd ychydig (o amser); **a l. of us dies when ...** – bydd rhywfaint bach ohonom yn marw pan ...; **l. did they think that ...** – wnaethon nhw ddim meddwl (o gwbl), bron, fod/mai/y(r) ... *neu* go bryn y meddylion nhw fod/mai/y(r) ... *neu* go brin iddyn feddwl bod/mai/y(r) ...; **a l.-known feature** – nodwedd na wŷr/wyddai fawr o neb amdani; **to l. effect** – heb (gael) fawr o lwyddiant

little-known: a l. feature – nodwedd na wŷr/wyddai fawr o neb amdani

to live: countries and those who l. in them – gwledydd a'u trigolion; **how can you l. with yourself?** – sut fedri di fyw yn dy groen/sut fedrwch chi fyw yn eich croen?; **to l. up to (their) expectations** – cyflawni (eu) disgwyliadau

living: within l. memory – o fewn cof pobl sy'n byw yn awr/sy'n dal ar dir y byw/sy'n fyw heddiw

lively – sionc; **to make more l.** – bywiogi

to liven: to l. things up a bit – rhoi tipyn o sbonc i bethau

living: l. things – creaduriaid; **a l. legend** – cawr (yn) ein cyfnod, un o gewri heddiw, un o gewri'r oes, un o gewri'n hoes (*gw. welsh-termau-cymraeg, 10.04.02*)

load: teaching l. – baich addysgu; **there are l-s of them there** – mae llond gwlad/cant a mil ohonynt yno; **there are l-s of opportunities to ...** – mae digonedd/llond gwlad o gyfleoedd (yn bod) i ...

loaded: a l. question – cwestiwn a bach wrtho

loath – amharod, cyndyn; **to be rather l. to go** – bod braidd yn anfodlon mynd

lobster: female l. – sioden; **young l.** – cimwchyn (*y ddau yn Crwydro Sir Benfro, E. Llwyd Williams, td 51*)

localised – lleol

locally: unemployment l. has fallen – mae diweithdra yma/yno/yn yr ardal hon(no) wedi gostwng, gwelwyd gostyngiad mewn diweithdra yma/yno/yn yr ardal hon(no)

localness – lleolrwydd (?), gweithredu ar (y) lefel leol, natur leol (y)

to locate – nodi lleoliad; **to l. information** – dod o hyd i wybodaeth; **work on ... is best l.-ed towards the end of ...** – yr adeg orau/y lle gorau i gynnwys gwaith ar ... yw tua diwedd ...; tua diwedd ... yw'r lle gorau i gynnwys gwaith ar ..

lock: under l. and key – dan glo

to lock: to be l.-ed up – dan glo; **to l. in our economic stability** – cloi ein sefydlogrwydd economaidd i'w le, sicrhau parhad (tymor-hir) ein sefydlogrwydd economaidd, sicrhau ein sefydlogrwydd economaidd parhaus; **to l. themselves into a system of ...** – eu clymu (eu hunain) wrth system (o) ...

to lodge: to l. an appeal – cyflwyno apêl

to log: please l. your questions with the awarding body – rhwngch wybod i'r corff dyfarnu am eich cwestiynau, hysbyswch y corff dyfarnu o'ch cwestiynau; **l. on at/to www. ...** – ewch i www ...; **so that the information can be l.-ged on the file** – er mwyn gallu rhoi'r wybodaeth ar y ffeil

loggerheads: at l. – benben â'i gilydd, croestynnu

logical: there is no l. reason for ... – nid oes (unrhyw) r(h)eswm da dros ...

logistical – cyflenwol

long: it has l. been recognised that ... – cydnabuwyd ers amser maith/ers tro byd fod/mai/y(r) ...; **for a l. time** – ers tro byd; **l. ago** – amser maith yn ôl, ers talwm; **in days l. past** – ddyddiau fu, slawer dydd; **l. before transfer** – ymhell cyn trosglwyddo; **to go a l. way to(wards) ...** – gwneud llawer i ... **so l. as they remember that ...** – ond iddynt gofio (bod/mai) ...; **how l.** – (ers) faint (o amser); **a l. way** – bellter ffordd; **l. may that last!** – boed i hynny barhau!; **for as l. as they can** – tra gallant; **l. past neu l. since forgotten** – wedi eu hen anghofio; **to think l. and hard** – meddwl a meddwl, meddwl llawer (iawn), meddwl yn ddwys (iawn); **a week(-)l. course** – cwrs wythnos; **a week(-) l. bridging course** – cwrs pontio sy'n para wythnos; **as/so l. as** – ar yr amod, ar yr amodau hyn(:); **to travel a l. distance** – teithio ymhell; **they can argue l. into the night about this** – gallant ddadlau hyd/tan berfeddion (nos)/hyd yr oriau mân am/ynghylch hyn(ny); **l. into the future** – ymhell i'r dyfodol; **you should spend no l.-er than an hour on this** – ni ddylech (chi) dreulio/ddylech chi ddim treulio mwy nag awr ar hwn/hon/hyn; **you are advised to spend no l.-er than an hour on this** – fe'ch cynghorir i beidio â threulio mwy nag awr ar hwn/hon/hyn

long-awaited – hirddisgwyliedig

longer: it will no l. be possible – bellach, ni fydd modd; **it will (then) no l. be possible for them to go ...** – ni fydd yn bosibl, ar ôl hynny, iddynt fynd ...; **it no l. exists** – mae ef/hi wedi peidio â bod, mae ef/hi wedi darfod amdano/amdani

long-established – hirhoedlog, cyfarwydd, wedi hen ymsefydlu, wedi hen ennill eu plwyf

long-standing – ers tro byd; **l. views** – barn sydd wedi'i choleddu ers tro byd, safbwyntiau sydd wedi'u coleddu/ harddel ers tro byd; **a l. record of ...** – record faith o ...

long-termism – meddwl yn nhermau'r tymor hir yn unig, meddylfryd tymor-hir

look: the school took a (long) hard l. at how it could improve – aeth yr ysgol ati o ddifrif i ystyried sut y gallai hi wella; **they have the 'l. and feel' of prehistoric sites** – mae iddynt naws safleoedd cynhanesyddol, naws safleoedd cynhanesyddol sydd iddynt; **to have a quick l. at** – cael cipolwg ar

to look: to l. after – gwarchod, gofalu am; **to l. at** – ystyried, astudio, rhoi sylw i; **to l. for** – chwilio am; **to l. into** – ymchwilio i; **and l. out any child who ...** – a gwae unrhyw blentyn a/sy'n ...; **to l. to** – disgwyl i, gobeithio, bwriadu, (bod wrthi'n) ystyried; **to l. to ensure ...** – ceisio sicrhau ...; **to l. up new words** – chwilio am ystyron geiriau newydd; **l. inside!** – beth am gael cip?; **an opportunity to l. around** – cyfle i weld y lle; **we are always l.-ing to improve** – byddwn (ni) bob amser yn ceisio gwella; **things are l.-ing up** – mae pethau ar i fyny, mae pethau'n gwella, mae pethau ar wella; **to l. carefully at** – craffu ar; **we will l. to establish a ...** – bwriadwn sefydlu ..., fe ystyriwn sefydlu ...; **businesses l.-ing to grow** – busnesau sy'n dymuno tyfu/sy'n awyddus i dyfu; **to make an area l. better** – gwella golwg ardal; **ensure that your booklets l. professional** – gwnewch yn siŵr bod/ sicrhewch fod diwyg proffesiynol i'ch llyfrynau; **people wishing to l. at their skills** – pobl a hoffai/sy'n dymuno pwyso a mesur eu sgiliau

looking: a professional l.-ing document – dogfen broffesiynol ei diwyg

look-out: to be on the l. in case of – bod ar eu gwyliadwraeth rhag

to loom: they do not l. as large in ... as in ... – nid oes iddynt/ganddynt le mor amlwg yn ... ag yn ...; **as the introduction of the new law l.-s** – wrth i ddydd(iad) gweithredu'r ddeddf newydd agosáu/ddod yn nes, wrth i'r dydd(iad) y daw'r ddeddf newydd ddod i rym agosáu/ddod yn nes

loop: out of the l. – ddim yn rhan o'r drafodaeth bellach, ni chylchredir gwybodaeth iddo/iddi (bellach), ddim yn derbyn y wybodaeth/newyddion diweddaraf (bellach), wedi'i gau allan o'r drafodaeth (erbyn hyn/bellach), ddim yn gwybod y wybodaeth/newyddion diweddaraf (*cynigion Muirir Mag Ualghairg ar welsh-termau-cymraeg, 04.03.03*), wedi'i (g)adael/wedi'u gadael allan o'r drafodaeth/trafodaethau, heb fod yn rhan o'r

cylch trafod/cyfrin, heb fod yn un o'r rhai sy'n 'gwybod'/yn un o'r 'gwybodusion'; **l. trail** – cylch-lwybr (*eg*), cylch-lwybrau

to lose: to l. one's temper – gwylltio; **to l. out** – cael cam, dioddef, colli busnes; **I am lost** – mae hi wedi canu arnaf; **to l. heart** – digalonni, gwangelonni; **all is not lost** – dyw hi ddim/fydd hynny ddim yn ddiweddd y byd; **to just l. out** – boddi yn ymyl y lan; **to l. no time in ...** – mynd ati'n syth i ...

loser: they are the l.-s – hwy sy'n colli, hwy sydd ar eu colled

loss: they are at a l. to – ni allant yn eu byw (â/ag); **without l. of quality** – heb i'r safon ostwng/ddirywio, heb amharu ar safon/ansawdd y(r) ...

lost: get l.! – dos i ganu!

lot (= situation) – sefyllfa; **they are thoroughly happy with their l.** – maent yn gwbl hapus ar eu byd; **quite a l.** – cryn dipyn; **a (thoroughly) bad l.** – cythraul mewn croen; **l.-s of** – mil a mwy o ...; **such a l. of** – cymaint/cynifer o; **employers publish a l. of literature** – bydd cyflogwyr yn cyhoeddi swmp o lenyddiaeth; **to pay an awful l. for ...** – talu crocbris am ...; **there is a l. of competition for these grants** – ceir cystadlu brwd am y grantiau hyn; **a l. of rain** – glaw mawr; **they respect her a l.** – mae ganddynt feddwl mawr ohoni

loud(ly) – (yn) uchel eu cloch; **to shout as l. as they could** – gweiddi nerth eu pennau

love: with l. (as a farewell/on a card) – cariad mawr, llawer o gariad

loved: l. ones – anwyliaid

lovingly: l. restored – wedi eu hadfer i'w hen/holl ogoniant

low: to slump to an all-time l. – (bod) yn/syrthio'n is nag erioed o'r blaen

to lower: to l. the stat us of – diraddio

lowest: to reduce such occurrences to the l. possible level – cwtogi hyd yr eithaf ar ddigwyddiadau o'r fath

low-grade: l. jobs – swyddi ceiniog-a-dimai

low-key: the l. activities at the centre – (*ffeithiol*) y gweithgareddau yn y ganolfan nad ydynt yn mynnu llawer o sylw/rhyw lawer o sylw/ yn tynnu llawer/rhyw lawer o sylw (atynt eu hunain), (*beirniadol*) anamlwg, distadl (*yr olaf yn gynnig gan David Bullock ar welsh-termau-cymraeg, 24.09.07*)

low-level: l. crime – mân droseddu

lucky: l. old you!/you l. (old) thing!'you really are l.!/aren't you l.?! – gwyn dy fyd (di)!/gwyn eich byd (chi)!

luckily – drwy drugaredd

lucrative – yn talu'n dda; **the most l.** – yr un/y rhai sy'n talu orau

ludic (= turns anything into a game or ritual) – chwaraeol (?)

lunch: packed l. – pecyn cinio; **there's no such thing as a free l.** – mewn trap y mae'r unig gaws am ddim

luxury: few have the l. of having ... – prin yw'r rhai sy'n ddigon ffodus i gael/fod â

lysosometric – lysosometrig (*ans*) [Fferylliaeth]

machine: this is proof positive to me that the military authorities have captured the m. and are able to do as/what they like with us – i mi, mae hyn yn brawf/dyma brawf pendant (i mi) (1) fod yr awdurdodau milwrol wedi cipio'r drefn (sydd ohoni) (i'w dwylo'u hunain) ac yn gallu gwneud fel fyd fynnan nhw/fel y mynnan nhw â ni, (2) fod yr awdurdodau milwrol wedi meddiannu'r drefn (sydd ohoni) ac yn gallu gwneud fel fyd fynnan nhw/fel y mynnan nhw â ni; (3) mai'r awdurdodau milwrol sy'n tra-arglwyddiaethu/sy'n mynd â hi/sydd wedi ennill y dydd ac yn gallu gwneud fel fyd fynnan nhw/fel y mynnan nhw â ni, (4) fod yr awdurdodau milwrol yn drech na (dymuniadau)'r wlad(wriaeth) ac yn gallu gwneud fel fyd fynnan nhw/fel y mynnan nhw â ni, (5) fod yr awdurdodau milwrol wedi cael y llaw uchaf/drechaf ar y wlad(wriaeth) ac yn gallu gwneud fel fyd fynnan nhw/fel y mynnan nhw â ni, (6) fod dymuniadau'r fyddin yn drech (o lawer) na'r rhai'r bobl/werin bobl ac yn gallu gwneud fel fyd fynnan nhw/fel y mynnan nhw â ni, (7) mai trech byddin na llais y werin a'u bod yn gallu gwneud fel fyd fynnan nhw/fel y mynnan nhw â ni [*ymateb i gais ar welsh-termau-cymraeg ar 25.02.02 oddi wrth John D Williams, cyfieithydd Ysgol Morgan Llwyd. Y cyd-destun: Gwrthwynebwyr cydwybodol ym Mehefin 1917 yn sgwennu at ei wraig gan ofni ei fod yn mynd i gael ei saethu.*]

mad – crac, blin; **to become m. with rage** – gwylltio'n gaelwm/gacwn (wyllt); **are you m.?** – wyt ti'n gall (dwed)?, ydych chi'n gall (dwedwch)?, oes cnoc/colled arnat ti/arnoch chi?; **like m.** – am fywyd

made-up: a 'm.' village – pentref dychmygol

magic: a 'm.' figure – ffigur hollbwysig; **there is no m. formula for** – nid oes unrhyw/yr un fformiwla ddiffael i (sicrhau)/ar gyfer; **there is no m. wand that will ensure that ...** – nid ar chwarae bach y sicrheir bod/mai ...; **to be full of m.** – bod yn llawn rhyfeddodau

magically – yn wyrthiol (bron)

magnanimous: be m. to your prisoners – byddwch yn dirion wrth eich carcharorion

maid: m.-of-all-work – morwyn-bob-galw (*Dic Jones, Cymeriadau De Ceredigion, td 77*)

main: in the m. – gan mwyaf

mainly – yn fwy na dim

mainstay: to provide the m. of – bod yn brif elfen (yn)

mainstream: m. classes – dosbarthiadau priffrwd

to mainstream – prif ffrydio [*Muiris Mag Ualghairg, welsh-termau-cymraeg, 23.11.02*]; **best example practices will need to be m.-ed** – bydd angen i enghreifftiau o'r arferion gorau gael eu gweithredu ledled y wlad/ar raddfa helaethach o lawer; **to m. equality into all development activities** – sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o brif ffrwd pob gweithgaredd datblygu/yr holl weithgareddau datblygu

to maintain: (so) it is m.-ed – (fe d)dywedir; **to m. the rigour of ...** – diogelu/cadw trylwyredd ...; **to m. (an) awareness of ...** – bod yn gyson ymwybodol o; **to m. a competitive edge** – cadw ar y blaen yn gystadleuol; **steps will be taken to m. awareness** – cymerir camau i sicrhau ymwybyddiaeth barhaus (ohonynt); **to m. good practice** – gweithredu arferion da; **candidates are expected to m. a good standard of (written) English/Welsh** – disgwylir i(r) ymgeiswyr ysgrifennu Cymraeg/Saesneg da/graenus; **if equality of opportunity is to be m.-ed** – os bwriedir parhau i sicrhau cyfle cyfartal; **to m. a commitment** – glynu wrth ymrwymiad, cyflawni ymrwymiad; **this, they m.-ed, was the ...** – yr oedd hyn, meddent, yn ... *neu* hyn, meddent, oedd ... *neu* dyma, meddent, oedd ...; **to m. links with ...** – cadw mewn cysylltiad â/ag ...; **to m. a balance between ... and ...** – cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ... a(c) ...; **how to make your paper interesting while m.-ing intellectual rigour** – sut mae gwneud eich papur yn ddiddorol heb (iddo) golli dim o'i drylwyredd deallusol; **to m. one's innocence** – mynnu/dal i fynnu eich bod yn ddieuog

major: of m. importance – o bwys mawr; **to make a m. contribution to ...** – cyfrannu llawer at ..., cyfrannu'n helaeth at ...; **to be a m. cause for concern** – peri llawer iawn o bryder, peri pryder mawr iawn; **a m. restoration of** – (gwneud) gwaith adfer helaeth ar; **to be a m. drawback to ...** – llesteirio ... yn ddifrifol; **a m. part** – rhan fawr

majority: there was a m. view that ... – barn y mwyafrif oedd bod/mai/y(r) ...

make: on the m. – uchelgeisiol

to make: to m. the most of – datblygu ... hyd yr eithaf; **to m. a contribution to ...** – bod yn gyfraniad i ...; **to m. progress** – amlygu cynnydd, dod yn eu blaen; **where pupils can be made to ...** – lle gellir peri i'r disgyblion ...; **to m. a start** – cychwyn, dechrau, gwrthio'r cwch i'r dŵr; **to m. a start on ...** – cychwyn/dechrau ar ...; **to m. for ...** – hwyluso, arwain at/esgor ar ..., sicrhau; **to m. something a success** – sicrhau llwyddiant rhywbeth; **to be made of money** – bod yn graig o arian; **... m.-es it inevitable that ...** – oherwydd ..., mae'n anochel bod/mai/y ...; **some uncertainty about the use to be made of ...** – peth ansicrwydd ynghylch sut mae defnyddio ...; **to m. a presentation** – cyflwyno, cynnal cyflwyniad; **to m. a decision** – penderfynu; **it m.-es sense to ...** – cam/peth synhwyrol yw ...; **to m. obvious** – amlygu; **to m. clear** – nodi'n glir, datgan/ dangos yn glir; **that m.-es a total of ...** – dyna gyfanswm o ...; **to m. known their objection** – lleisio'u gwrthwynebiad; **to m. their views known** – (cael) dweud eu dweud, lleisio'u barn; **to m. (= perceive) connections** – canfod/gweld y cysylltiadau; **to m. something accessible** – peri/sicrhau bod rhywbeth yn hygyrch/o fewn cyrraedd, trefnu i rywbeth fod yn hygyrch/o fewn cyrraedd; **to m. (good) use of opportunities** – manteisio ar gyfleoedd; **to m. (the) maximum use of ...** – manteisio i'r/hyd yr eithaf ar ...; **to m. their way to ...** – mynd/ymrwymu i ...; **to m. judgments about ...** – barnu, ffurfio barn am ...; **to m. them aware of ...** – rhoi gwybod iddynt ... am ...; **they should be made aware of ...** – dylent gael gwybod am ..., dylid rhoi gwybod iddynt am ..., dylid eu hysbysu o ..., dylid dweud/sôn wrthynt am ...; **everybody should m. it their first task to ...** – dylai pawb fynd ati'n gyntaf peth/ati'n syth i ...; **to m. contact with ...** – cysylltu â/ag ..., dod i gysylltiad â/ag ...; **to m. connections with ...** – gweld (y) cysylltiad(au) â/ag ...; **Making the Connections** – Creu'r Cysylltiadau [*Y Cynulliad*]; **to m. the situation clear** – egluro'r sefyllfa; **to m. someone happy/happier** – codi calon rhywun; **the move to ... m.-es this an urgent matter** – mae'r symud i/at .. yn golygu bod hwn yn fater brys; **to m. ... over to** – cyflwyno/trosglwyddo ... i; **to m. clear** – datgan/dangos yn glir, nodi'n glir; **to m. good a deficit** – cywiro diffyg; **to m. more complex/complicated** – cymhlethu; **m. it easy: pay by direct debit** – mae'r ateb yn hawdd: talwch drwy ddebyd uniongyrchol; **to m. oneself/itself more perfect** – ymberffeithio; **to m. the most of it** – gwneud yn fawr/y gorau o'r cyfle, manteisio i'r eithaf ar y cyfle; **to m. your business l. more professional** – rhoi gwedd fwy proffesiynol i'ch busnes; **to m. the colour darker** – tywyllu'r lliw; **a card m.-s everyone's Christmas** – mae cerdyn yn llonni Nadolig pawb; **to m. this permanent** – gwneud hwn/hyn yn drefniant parhaol; **to convince them that this m.-s sound sense** – eu hargyhoeddi mai doeth/da o beth/peth doeth/da/call yw gwneud hyn(ny), eu hargyhoeddi ei bod hi'n ddoeth/dda/beth doeth gwneud hyn(ny), eu hargyhoeddi bod ... yn beth doeth/call i'w wneud; **to m. the headlines** – cipio'r penawdau; **to m. progress** – sicrhau cynnydd, dod yn eich blaen; **to m. an area look better** – gwella golwg ardal; **to m. a commitment to ...** – ymrwymo i; **they aim to m. the business a success** – eu nod yw sicrhau llwyddiant y busnes; **to m. the whole process (more) manageable** – hwyluso'r holl broses; **they are inspired to m. the effort by ...** – fe'u hysbrydolir i fwrw ati('ddyn/o ddifrif) gan ...; **made p. by** – oherwydd; **this has been made p. by ...** – mae hwn/hyn yn bosibl oherwydd bod/mai/y(r)/am fod/mai/y(r) ... *neu* oherwydd + (berf)enw; **the proposed road is 20 miles long, m.-ing it one of the largest developments in ...** – mae'r ffordd arfaethedig yn 20 milltir o hyd(.) ac felly'n un o'r datblygiadau mwyaf mewn/yn ... *neu* gan fod y ffordd arfaethedig yn 20 milltir o hyd, mae'n un o'r datblygiadau mwyaf mewn/yn ...; **the fact that we are ... m.-s us an attractive partner** – gan ein bod ni'n ..., yr ydym yn bartner deniadol/atyniadol; **this m.-es them the most successful in Europe** – hwy, felly yw'r/dyna pam mai hwy yw'r rhai mwyaf llwyddiannus yn Ewrop; **to m. up lost work** – adennill y gwaith a gollwyd; **to m. up** – creu; **they m. up ten per cent of the population** – maent yn ddeg y cant o'r boblogaeth; **to m. up for** – gwneud iawn am; **the community that m.-es up the School of ...** – y gymuned sydd i'w chael yn Ysgol ... ; **the**

characteristics that m. up our communities – y nodweddion sy'n rhan o wead ein cymunedau, y nodweddion sydd i'w cael yn ein cymunedau/gwahanol gymunedau, nodweddion ein cymunedau/gwahanol gymunedau; ...

will m. up the national curriculum – (a) fydd yn ffurfio'r cwricwlwm cenedlaethol; **to be made up** – (bod) yn waith/ffurwyth y dychymyg; **the factors which m. up this complex process** – y ffactorau sy'n cyfrannu i'r broses gymhleth hon; **the three components which m. up this provision** – y tair cydran sydd i'r ddarpariaeth hon(no); **without m.-ing any demands on the body** – heb drethu'r corff (o gwbl); **it was demolished to m. way for the expansion of ...** – fe'i dymchwelwyd (ef/hi) er mwyn (iddo/iddi/iddynt allu) ehangu ...; **to m. itself felt** – cael effaith, ei amlygu ei hun; **to m. the case for ...** – dadlau bod/mai/dros/o blaid ...; **they m. the argument that ...** – eu dadl hwy yw ..., y ddadl a gyflwynant yw ..., dadleuant fod/mai ..., maent yn dadlau bod/mai ...

makeshift: some teachers resort to m. devices – bydd rhai athrawon yn trefnu pethau orau y gallant

making: in the m. – ar y gweill; **not of their m.** – nad ydynt yn gyfrifol amdanynt/na wnaethant eu hachosi

malpractice – camweithred(u)

man: to a m. – pob/bob (yr) un ohonynt, pob/bob copa walltog (ohonynt)

to man: to m. a stand – staffio stondin

to manage – cael dau ben llinyn ynghyd; **to m. to** – cael y maen i'r wal

manageable – cryno; ; **to make the whole process (more) m.** – hwyluso'r holl broses

management: m. (= administrative procedure for handling) of results – trefn ymdrin â chanlyniadau/â'r canlyniadau

mandate – awdurdod

mania: railway m. – clefyd y cledrau

to manifest – cael; **to m. themselves** – (bod) i'w gweld yn amlwg; **the problems that m. themselves** – y problemau sy'n codi

manifestation – adlewyrchiad

manifold: the reasons for these changes are m. – mae amryw byd o resymau dros y newidiadau hyn(ny)

manner: in a confident m. – yn hyderus; **in a disciplined m.** – gyda disgyblaeth, yn ddisgybledig; **the m. in which they** – eu ffordd o; **in the following m.** – fel hyn

manoeuvre: freedom of m. – rhyddid i weithredu

manoeuvrability – hwylustod symud

manual: m. dexterity – dehurwydd gyda'r dwylo

many – llawer un; **m. and varied ...** – cant a mil o ...; **m. and varied opportunities** – llu o wahanol gyfleoedd, llu o gyfleoedd amrywiol; **for m. years** – am flynyddoedd maith/bwygilydd/mawr; **m. congratulations** – llongyfarchiadau mawr; **m. thousands of** – miloedd lawer o, miloedd ar filoedd o, **m. thanks** – diolch o galon; **m., m. thanks** – diolch o waelod calon; **in m., m. ways** – mewn llawer iawn/llu mawr o ffyrdd; **v. many** – llu mawr (o)

many-headed: I would like to thank him for guiding me through the m. beast (= holl waith papur a biwrocratiaeth) that is the [name of the authority] – hoffwn ddiolch iddo am fy nhywys drwy ddrysfa [enw'r awdurdod] (awgrym Huw Garan ar welsh-termau-cymraeg ar 30.10.07)

to map: to m. out – nodi, manylu ar, disgrifio, cyflwyno; **to m. out a strategy** – llunio strategaeth

to mar – hagra; **to be m.-red by spelling errors** – bod yn frith o wallau sillafu

march: the m. of events since ... – yr hyn sydd wedi digwydd ers ..., y digwyddiadau (a welwyd) ers

margin: to win by the smallest/narrowest/slenderest of m.-s – ennill o drwch blewyn (yn unig); **by a small m.** – o ychydig; **by quite a m.** – o gryn dipyn

marginal – ychydig, rhywfaint, ymyl-y-ddalen; **the population is in an economically m. position** – mae'r boblogaeth yn (ddigon) llwm eu byd

to marginalise – neilltuo/bwrw i'r ymylon

marginally – ychydig bach, mymryn; **and then only m. (so)** – a hynny o drwch blewyn yn unig; **only m. different from** – (heb fod) fawr gwahanol i; **even m.** – hyd yn oed o ychydig bach

marine: tell that to the m.-s! – gad dy gelwydd!

mark: at about the 80 minute m. – ymhen/ar ôl/wedi 80 munud, rhyw 80 munud ar ôl cychwyn/yn ddiweddarach

to mark: ... m.-ed the beginning of 1991 – gwelodd dechrau 1991 ..., dechreuodd 1991 gyda ..., ar ddechrau 1991 bu/yr oedd/cafwyd/gwelwyd/ ...; **use arrows to m. the three locations** – defnyddiwch saethau i ddynodi'r tri lleoliad; **you m. my words** – cred ti fi/credwch chi fi, gwranda di arna i/gwrandewch chi arna i'; **students should not be m.-ed down for minor errors** – ni ddylid cosbi myfyrwyr am fân wallau/am wneud mân wallau, ni ddylai myfyrwyr golli marciau am fân wallau/am wneud mân wallau; **the tradition is more strongly m.-ed in ...** – mae'r traddodiad yn (nodwedd) amlycach mewn/yn ...

marked – cryn; **a m. effect on** – effaith o bwys ar; **to have a m. effect on** – dylanwadu'n fawr ar, cael effaith o bwys ar; **particularly m.** – yn arbennig o wir (am); **in (such) m. contrast** – yn wahanol iawn i; **in m. contrast** – ar y llaw arall; **m. contrasts** – gwahaniaethau mawr; **no(t a) m. difference** – dim llawer o wahaniaeth; **there has been a m. fall-off in (the number of) ...** – mae'n amlwg bod (nifer y(r)) ... yn gostwng (yn sydyn), mae'n amlwg bod y(r) ... yn prnhau('n sydyn)

markedly: to vary m. – amrywio'n fawr; **m. less than** – tipyn/cryn dipyn yn llai na; **some may not progress m. beyond this stage** – gall rhai (ohonynt) beidio â mynd rhyw lawer/fawr y tu hwnt i'r cam hwn; **not m. different from** – heb fod yn wahanol iawn i

marker – carreg filltir

market: a difficult m. – talcen caled; **m.(-)orientated** – marchnad-gyfeiriedig, yn hoelio'u sylw/yn canolbwyntio ar y farchnad, yn rhoi sylw manwl/mawr i'r farchnad, yn dwys ystyried y farchnad

marvellous – anfarwol; **you're really m.** – rwyf ti'n/rydych chi'n werth y byd

mass: a m. of detail – pentwr o fanylion; **a critical m. of ...** – digon o ..., nifer dda/fawr o ...

massive – aruthrol

massively – yn aruthrol; **they were m.** – yr oeddent yn aruthrol eu maint

master: to be a complete/total m. of – bod yn feistr corn ar; **a m. plan** – prif gynllun; **the m. plan is to ...** – y cynllun gorau/doethaf yw ...

to master: to have completely/totally m.-ed – bod yn feistr corn ar

mastery: to show/display a complete/total m. of – bod yn feistr corn ar; **to achieve m. of** – meistrolï

match – cyfatebiaeth

to match – gweddu, cyfateb i; **to m. expectations** – cystal â'r disgwyl; **they cannot m. ...** – ni allant gystadlu â/ag ...; **better m.-ed by ...** – mwy cymesur â/ag ...; **to be m.-ed with ...** – cyd-fynd â/ag ...; **this is rarely m.-ed by the same careful analysis of ...** – anaml y gwelir yr un gofal wrth ddadansoddi ...; **to be more closely m.-ed to ...** – gweddu'n well i ...; **to be poorly m.-ed with ...** – ymhell o fod yn gymesur â/ag ...; **to m. funding** – darparu cyllid cyfatebol; **m.-ed by ...** – ac ..., ynghyd â/ag ...; **a commitment not m.-ed by the others** – ymrwymiad nad yw'r lleill yn ei gynnig; **this is a commitment m.-ed by ...** – cynigir ymrwymiad tebyg gan ...; **few can m. the complexity of ...** – prin yw'r rhai sydd mor gymhleth (eu gwead) â/ag ...; **to m. the speed of the traffig** – mynd yr/teithio'r un mor gyflym â'r traffig

match-funding – ariannu cyfatebol; **a m. scheme** – cynllun punt am bunt

material: in all m. respects – ym mhob agwedd berthnasol (*cynnig Mary Jones wrth ymateb i gais gan Rhian Huws ar welsh-termau-cymraeg, 12.08.08*), ym mhob ffordd o bwys

to materialise: ... did not m. – ni chafwyd/welwyd ...; **these developments did not m.** – ni wireddwyd y datblygiadau hyn

materially: this will m. affect your ... – bydd hyn yn/hynny'n effeithio/amharu('n fawr/'n bendant/cryn dipyn/cryn llawer/llawer ar eich ...

maternal: m. grandmother – mam y fam; **m. grandfather** – tad y fam

maternalist – mamolaethol

matter: as a m. of course – yn ddi-gwestiwn, fel rhan o'r drefn; **we no longer accept this decline as a m. of course** – nid ydym/ni fyddwn yn derbyn bod y dirywiad hwn yn/hwnnw'n anochel, nid ydym/ni fyddwn yn derbyn y dirywiad hwn yn/hwnnw'n ddigwestiwn **to improve m.-s** – gwella'r sefyllfa; **on the m. of, on m.-s of ...** – o ran ...; **these have been the m. of some discussion** – bu'r rhain/buont yn destun peth trafod, bu rhywfaint/ tipyn o drafod ar y rhain/arnynt; **it's all a m. of money** – diwedd y gân yw'r geiniog; **to be a m. of gratification to ...** – rhoi boddhad i ..., bod yn destun balchder i ...; **m. of fact** – (braidd yn d)diserch; **in the m.(-)of(-) fact way** – yn y ffordd ddifffwdan; **in a very m. of fact way** – yn ddigon ffeithiol/diffwdan/swta/ di-lol/moel; **the subject m. being tested** – yr hyn a brofir/y rhoir prawf arno; **in a m. of days** – ymhen ychydig ddyddiau; **it is no small/easy m. to ...** – nid ar chwarae bach y mae ...

to matter – cyfrif; **to really m.** – bod o wir bwys

to maximise – cynyddu/datblygu/gwella hyd yr eithaf/cymaint â phosibl ar ...; **to m. the advantages of ...** – manteisio i'r eithaf ar ...; **to m. its potential to ...** – gwireddu ei holl botensial o ran ...; **for them to m. their potential as individuals** – (er mwyn) iddynt gynyddu/datblygu hyd eithaf eu potensial fel unigolion; **to m. the student's learning** – i sicrhau bod y myfyriwr yn dysgu cymaint â phosibl

maximum – ar y mwyaf, fan bellaf; **the m. degree of ...** – cymaint â phosibl o ...; **m. advantage** – y budd pennaf; **on the scale m.** – ar frig y raddfa; **to make (the) m. use of** – manteisio i'r/hyd yr eithaf ar; **to their m. capacity** – hyd eithaf eu gallu; **up to a m. of two years** – (am) hyd at ddwy flynedd, dim mwy na dwy flynedd; **the m. time limit for the degree overall is 7 years** – ni chaiff y radd i gyd gymryd mwy na 7 flynedd, chewch chi ddim cymryd mwy na 7 flynedd i wneud y gradd i gyd

may: this m. well be possible – gall hyn(ny) fod yn ddigon posibl, gall hyn yn/hynny'n rhwydd fod yn bosibl; **come what m.** – doed a ddelo; **they m. as well go** – man a man iddynt fynd

maze: the tax m. – cymhlethdodau'r dreth, holl gymhlethdodau'r dreth

to mean: this will m. that – felly, ...; **which m.-s that** – (ac) felly; **this m.-s that ...** – oherwydd hyn(ny), (mae) ...; **what it all m.-s** – diben/pwrpas y cyfan; **what is m.-t by ...?** – beth a olygir gan ...?; **this m.-s that they must ...** – o ganlyniad, rhaid iddynt ... neu rhaid, felly, iddynt ...; **she m.-s well** – mae ei chalon (hi) yn y lle iawn; **this m.-s that ...** – ystyr hyn(ny) yw ..., felly, ... , *os daw'r ymadrodd hwn ar ddechrau brawddeg, gellir dechrau'r frawddeg flaenorol â Gan fod, rhoi coma ar ddiwedd y frawddeg honno a throi'r ail frawddeg yn brif gymal i'r frawddeg Gymraeg; (slogan) No documents = No car ... and we m. no car!* – Dim dogfennau = Dim car ... a 'dan ni o ddifri (*cynnig Non ar welsh-termau-cymraeg ar 14.08.08*) neu dim car o gwbl!

means: **this could be the m. of ...** – gallai hyn(ny) esgor ar ...; **to have the m. to ...** – bod â'r gallu/arian/cyllid i ...; **by any/no m.** – o bell ffordd, ddim yn ... o gwbl; **by no m. enough** – dim hanner digon; **as a m. of** – fel ffordd o; **by this m.** – fel hyn; **consideration needs to be given to m. of ...** – mae angen ystyried sut mae ...; **to confuse m. with ends** – drysu modd a diben; **to be a m. to an end** – bod yn fodd i gyflawni diben/yn ffordd o gyrraedd (y nod); **a m. by which ... can develop** – cyfrwng sy'n fodd i ddatblygu/feithrin .../i ... ddatblygu; **by postal m.-s** – drwy'r post; **to have private m.** – bod ag arian wrth gefn, bod â digon o fodd

measure: **a m. of** – peth, rhywfaint; **in some m.** – rhywfaint; **a large m. of** – cryn lawer o; **in large m.** – i raddau helaeth; **a greater m. of** – mwy o; **to apply in even greater m. to** – bod yn fwy gwir byth am; **a m. of** – hyn a hyn o; **to depend in no small m. on** – dibynnu cryn dipyn/yn helaeth/llawer (iawn)/i raddau helaeth ar; **this m. would result in** – canlyniad (gwneud) hyn(ny) fyddai; **a simple m.** – gweithred syml

to measure: **this m.-es 8 metres across** – mae hwn yn 8 metr o led; **this will show how you m. up to a standard** – bydd hyn yn dangos sut yr ydych chi'n cymharu â(r) safon; **how the evidence m.-s up to the competenc(i)es** – i ba raddau y mae'r dystiolaeth yn (methu (â)) bodloni'r cymwyseddau

mechanism: **an effective m. for** – ffordd effeithiol o; ... **may be an effective m.** – gall ... fod yn gam effeithiol *neu* cam effeithiol, o bosibl, yw ...; **this can be a useful m. for mapping** – gall hwn fod yn ddefnyddiol wrth fapio, gall hwn fod yn ffordd ddefnyddiol o fapio

mechatronics – mecatroneg

media: **m. studies** – astudio'r cyfryngau

medically: **have you ever been m. retired?** – a ydych chi erioed wedi gorfod ymddeol am resymau meddygol/ oherwydd (cyflwr) eich iechyd?

mediocre: **of m. standard** – o safon ddigon cyffredin

to meet: **to m. needs** – ateb anghenion; **to m. demands** – bodloni gofynion; **to m. with success** – llwyddo, cael llwyddiant; **to m. a target** – cyrraedd targed; **to m. a range of materials** – cael profiad o amrywiaeth o ddeunyddiau/ddefnyddiau; **to make ends m.** – cael dau ben llinyn ynghyd; **the different interpretations they m.** – y gwahanol ddehongliadau y deuant/dônt ar eu traws; **to m. a challenge** – mynd i'r afael â sialens; **to m. responsibilities** – cyflawni cyfrifoldebau; **to m. a shortfall** – ymgodymu â diffyg; **they were adapted to m. the concerns expressed by** – fe'u haddaswyd yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd gan; **this fully m.-s expectations** – mae hwn llawn cystal â'r disgwyl; **to m. the intended outcomes** – cyrraedd y canlyniadau a fwriedir/fwriadwyd; **to m. and greet** – croeso a chyfarch (*gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 06.05.08*); **it has failed to m. with academic approval** – nid yw (ef/hi) wedi ennyn/sicrhau cymeradwyaeth academiaidd / academwyr/academyddion, ni chafwyd cymerawyaeth yr academwyr/academyddion iddo/iddi

member: **their m. institutions** – eu haelod-sefydliadau, y sefydliadau sy'n aelodau ohonynt; **to any interested m.-s of the public** – i bawb/unrhyw un sydd â diddordeb

membership: **to be in m. of** – bod yn aelod o; **a m. form** – ffurflen ymaelodi; **the group, m. of which would be voluntary, will ...** – bydd y grŵp, y gellir ymaelodi ag ef yn wirfoddol, yn ...

memento – crair

to memorise: **I've m.-ed the poem** – mae gen i'r gerdd ar fy nghof

memorised – wedi eu dysgu, (fe'u dysgwyd) ar y cof

to mention: **to m. only/but a few** – ac enwi dim ond ychydig, ac enwi ambell un yn unig

memory: **their m.-ies of ... are** – maent yn cofio ...; **in m. of ...** – er cof am ...

merciless – cignoeth

mere: **the m. production of ... did not lead to** – nid oedd cynhyrchu ... ynddo'i hun yn esgor ar; **m. exposure to experience is insufficient** – nid yw profiad ynddo'i hyn yn ddigon; **a dramatic effect indescribable in m. words** – effaith ddramatig (gwbl) ysgytwol sydd y tu hwnt i eiriau/na all geiriau brau mo'i chyfleu; **a m. appendage (to a dissertation)** – ryw fân ychwanegiad/atodiad (i draethawd hir); **m. fancy** – ffansi'r funud

merely – nid yw ond (yn), yn ddim ond; **there was m.** – bodlonwyd ar; **they m.** – y cyfan a wnânt yw/wnaent oedd

to merge – uno

merit – mantais, rhagoriaeth; **on their m.-s** – yn ôl eu teilyngdod; **there is great m. in this suggestion** – mae llawer i'w ddweud o blaid yr awgrym hwn(nw)

to mesh: **to m. with** – cydblethu â/ag

to mesmerise – cyfareddu

to mess: **don't m. about with her!** – paid (ti)/peidiwch (chi) â chyboli efo hi!

metallophyte – meteloffyt (*gw. welsh-termau-cymraeg, 19 a 21.03.07*)

metalloproteinases – meteloproteinasau (*ell*) [Optometreg]

methodology: **if this m. is followed** – o wneud hyn(ny), os gwneir hyn(ny), o ddilyn/os dilynir y patrwm hwn(nw)

meticulous – tra gofalus, manwl manwl, manwl i'w ryfeddu, manwl tu hwnt

metrical – mesuriadol (?)

Michaelmas: **M. term** – tymor yr hydref

microarray – micro-arae (*eb*) [Meddygaeth]

microdissection – microddyrrannu (*be*) [Y Biowyddorau]

microscope: **to put ... under the m.** – rhoi ... o dan y chwyddwydr

mid-point: at the m. of this placement – hanner ffordd drwy'r lleoliad hwn
might: they m. as well go – man a man iddynt fynd
mild: a m. difficulty – anhawster bach
mile: m.-s better – yn llawer (iawn) gwell, yn well o lawer (iawn), yn frenin i/wrth/o'u cymharu â
to militate: to m. against ... – (bod/gweithio) yn erbyn ...
milkround: careers m. – helfa yrfaoedd [*Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Cymru, Caerdydd*]
million: you're one in a m. – rwyt ti/rydych chi'n werth y byd
to mimic: thus m.-ing the present arrangements – gan ddilyn (patrwm) y drefn bresennol
to mince: without m.-ing matters – yn ddiflewyn ar dafod
mind: nobody in their right m. – neb call; **with this in m.** – felly *neu* o ganlyniad; **to speak one's m.** – siarad yn ddiflewyn ar dafod; **are you out of your m.?** – wyt ti'n gall (, dwed)/ydydych chi'n gall (dwedwch)?, oes cnoc/colled arnat ti/arnoch chi?; **he got up in a happy frame of m.** – cododd fel y gog
to mind: never m. the cost/expense! – does dim pwys/(diawl o) ots am y gost!
mind-blowing – ysgytwol, ysgytiol
minded: they are m. to .. – maent â'u bryd ar ..., maent yn bwriadu ...
mindful: they should be m. of the need to ... – dylent gofio bod angen ...; **we are m. of the impact this will have** – yr ydym yn sylweddoli cymaint o effaith a gaiff hwn/hon/hyn; **m. of her responsibilities, she went ...** – o gofio'i chyfrifoldebau, (fe) aeth (hi) ...
minibeast – anifail bach
minimal – odid ddim, ychydig iawn iawn (o), bach iawn iawn (o), prin iawn
to minimise – ysgafnhau (bach), lleddfu cymaint â phosibl ar, cwtogi, lleddfu/leihau hyd yr eithaf ar
minimum: to keep/reduce to a m. – cwtogi/cyfyngu cymaint â phosibl ar; **to keep to a m.** – defnyddio cyn lleied â phosibl ar, defnyddio cyn lleied o/ar ... â phosibl; **to keep/reduce to an absolute m.** – cwtogi/cyfyngu hyd yr eithaf ar; **they have only the m. of experience of** – nid oes ganddynt ond y profiad lleiaf o/ond y mymryn lleiaf o brofiad o; **with the m. of delay** – yn ddioed/diymdroi, cyn gynted â phosibl; **a m. of two** – o leiaf ddau/ddwy; **as a m.** – o leiaf; **with a m. of disruption to** – gan darfu cyn lleied â phosibl ar; **keep (the) recording (work) to a m.** – cadwch y cofnodion mor gryno â phosibl; **this can be done with m. effort** – gellir gwneud hyn(ny) yn ddiddrafferth/yn ddigon didrafferth
minus: A m. B – tynnwch B o A
minute: just a m.! – hanner munud!
minute (adj.): to examine a building in m. detail – (ar)chwilio pob twll a chornel o adeilad
mirror: m. tile – teilsen ddrych; **to be a m. image of ...** – bod yn ddrych o ...
to mirror – bod yn ddrych o ...; **to m. movements** – efelychu symudiadau; **to m. their needs** – cyd-fynd â'u hanghenion; **to m. closely** – cyd-fynd/cydredeg yn agos â/ag ...; **this is m.-ed in ...** – felly('n union) y mae hi mewn/yn ..., gwelir/ceir (rhywbeth) tebyg mewn/yn ..., tebyg yw'r sefyllfa mewn/yn ...; **it is m.-ed internationally** – caiff ei (g)weld /fe'i gwelir/fe'i cewch (mewn gwledydd eraill) ar hyd a lled y byd/ledled y byd)
misapprehension: to labour under a m. – bod o dan gamargraff
misconceived – cyfeiliornus
miscue: m. analysis – camddarllen llythrennau
to misdeliver – camddosbarthu, dosbarthu ar gam
miserable: a m. day – diwrnod digysur; **that m. little specimen of a doctor** – y tipyn doctor 'na
misery: to make life a m. – gwneud bywyd yn boen; **to make their lives a m.** – gwneud/troi eu bywydau'n uffern (ar y ddaear)
misguided – ffôl
misinformation – twyllwybodaeth
misleading: a m. impression – camargraff
mismatch – diffyg cydberthynas, ieuo'r anghymarus, diffyg cyfatebiaeth, nid yw ... yn cyfateb i/yn cyd-fynd â/ag; **the m. between myth and reality** – y bwlch/gwahaniaeth (sydd) rhwng myth a realiti; **so great a m. between ...** – cymaint o wahaniaeth rhwng ...
misplaced: her concerns were m. – yr oedd hi'n pryderu ar gam/yn ddiangen/heb fod eisiau/heb fod angen
to misrepresent – gwneud cam â
to miss: to m. someone – gweld colli rhywun, teimlo'n chwith o golli/ar ôl colli rhywun; **to only just m.** – bod ond y dim i; **to m. out on ...** – colli('r) cyfle i ...; **to just m. out** – boddi yn ymyl y lan; **don't m. out!** – peidiwch â cholli'r cyfle!, manteisiwch ar y cyfle; **the special atmosphere should not be m.-sed** – (yn bendant iawn/yn sicr ddigon,) dylech flasu'r awyrgylch arbennig; **an opportunity not to be m.-sed** – cyfle (sy'n/a fydd yn) rhy dda i'w golli, manteisiwch ar y cyfle; **an event not to be m.-sed** – digwyddiad cwbl arbennig, (cyfle/digwyddiad) rhy dda i'w golli, peidiwch â'i golli (*oll ar welsh-termau-cymraeg, 21.11.07*); **they could be m.-ing out by not ...** – drwy beidio â/ag ..., gallent fod yn cymryd cam gwag
missing: this provides (=fills) the m. link in a chain of ... – mae hwn/hon/hyn yn llenwi'r bwlch yn y gadwyn o
mission – cyrch (*gw.awgrym David Bullock ar welsh-termau-cymraeg, 25.11.04*)
mis-statement – camddatganiad

mistake: why does this contain so many m.-s? – pam y mae hwn mor wallus?

mistaken: to be m. – camsynied

to mix: to m. and match – dewis a dethol

mixed: m.(-)target – cymysg eu nod

mix-up – amryfusedd

to mobilise: to m. the support of ... – ennyn cefnogaeth ..., galw ar/am gefnogaeth/gymorth ...; **to m. resources** – rhoi adnoddau ar waith, galw ar adnoddau; **to m. the international community to ...** – ysgogi'r gymuned ryngwladol/gwledydd y byd i ...

mobility: areas of high residential m. – ardaloedd lle mae/ceir llawer o fynd a dod ymhlith/ymysg y boblogaeth

mock: m. examinations – arholiadau ffug, ffug(-)arholiadau

to mock – bychanu

mode: m. of thinking – meddylfryd; **the party has benn in campaigning m.** – mae'r blaid wedi bod wrthi'n ymgyrchu

model: a language m. – patrwm o iaith; **a m. answer** – patrwm o ateb; **m. answers** – atebion enghreifftiol/safonol

to model: m.-ed on – ar batrwm

moderate – cyffredin; **pupils of m. ability** – disgyblion cyffredin eu gallu/o allu cyffredin

to moderate – canoli

moderation: without m. – yn ddi-ymyrraeth

modern: in the m. world – yn y byd sydd ohoni

modest: of m. ability – o allu cyffredin, canolig, (digon) cymedrol; **a m. increase** – rhywfaint o gynnydd, peth cynnydd; **a more m. rate of growth** – ehangu tipyn arafach, tyfu tipyn yn arafach; **a more m. request** – cais nad yw'n gofyn cymaint

modicum – rhywfaint

to modify – diwygio rhywfaint/peth ar

moment: of any m. – o bwys; **for the m.** – am y tro; **at the m.** – ar hyn o bryd; **in a m.** – mewn munud; **in a m. of weakness** – ar awr wan; **(just) at that very m.** – (ac) ar y gair; **during the m. action is taken** – wrth weithredu; **at a m.'s notice** – ar amrantiad, ar unwaith, yn syth, yn ddi-oed, yn ddiymdroi

momentary: because of a m. lapse of concentration – am/gan/oherwydd methu/iddo/iddi/iddynt fethu â chanolbwytio am eiliad/ennyd

momentous – eithriadol o bwysig, pwysig eithriadol/dros ben

momentum: to gather m. – cyflymu, amlhau; **to add m. to** – rhoi hwb i

money: m. talks – diwedd y gân yw'r geiniog; **m. matters** (*pennawd*)- diwedd y gân yw'r geiniog; **to put its m. where its mouth is** – ategu ei (g)eiriau â'i (h)arian

to monitor – monitro, cadw llygad (craff/gofalus/barcud/manwl) ar, bwrw golwg dros, arolygu

to montage – creu 'montage' o

mood – ysbryd

moon: to promise the m. – addo môr a mynydd

to moon – tin-noethi (!!)

morbidity – afiachedd

more: m. than a principle is at stake – nid egwyddor yn unig sydd yn y fantol; **to have m. than enough** – bod uwchben eu digon, bod â hen ddigon; **what is m.** – at hynny, ar ben hynny; **to be no m.** – darfod o'r tir/darfod amdanynt, diflannu o'r tir/oddi ar wyneb (y d)daear; **m. importantly** – yn bwysicach fyth/eto/na hynny; **to m. than cope with** – dygymod yn hwylus/hawdd/rhwydd â; **m. than 20 years** – 20 mlynedd a rhagor; **to be m. than aware of ...** – bod yn effro iawn i ...; **children tend to feel the cold m.** – mae plant yn fwy tueddol o deimlo'r oerfel/oerni/deimlo'n oer; **any m. than they could ...** – mwy nag y gallent (hwy) ...; **you are m. than welcome to stay** – mae/bydd croeso cynnes (iawn) i chi aros; **what m. could they do?** – pa bethau eraill y gallent eu gwneud? beth arall y gallent ei wneud; **they have m. than a little interest in ...** – mae ganddynt gryn (dipyn o) ddiddordeb yn/mewn ...; **m. than that** (*ymadrodd ar ddechrau brawddeg*) – at hynny, ar ben hynny; **an essay of no m. than 6,000 words** – traethawd o hyd at 6,000 o eiriau

mortal: to be dealt a m. blow – taro yn ei dalcen

most – hynod (o), tra/yn dra, dros ben; **m. of all** – yn bennaf oll, yn fwy na dim; **at m.** – fan bellaf; **better than m.** – gwell na'u hanner; **to make the m. of it** – manteisio (i'r eithaf) arno, gwneud yn fawr/y gorau o'r cyfle, manteisio i'r eithaf ar y cyfle; **m. attention** – y sylw pennaf; **making the m. out of milk** (*slogan*) – cael y lles mwyaf o'n llaeth; **m. of the time** – gan/ran amlaf; **m. importantly** – yn bwysicach na dim/na'r un dim arall; **the m. trusted one** – yr un y mae pobl yn ymddiried fwyaf ynddo/ynddi, yr un y mae gan bobl fwyaf o ffydd/ymddiriedaeth ynddo/ynddi, yr un y mae gan bobl y ffydd fwyaf ynddo/ynddi, yr un sy'n ennyn fwyaf o ffydd/ymddiriedaeth ynddo/ynddi; **you are m. welcome to come** – mae/bydd croeso cynnes i chi ddod; **to get/gain the m. from ...** – elwa i'r eithaf o/ar ..., elwa cymaint â phosibl ar/o ...; **to get the m. out of ...** – cael y budd/lles mwyaf/pennaf o ...; **to get the m. out of people** – cael pobl i roi o'u gorau; **what would you m. like to change?** – beth yr hoffec h chi ei newid yn fwy na dim? beth, yn fwy na dim, yr hoffec h chi ei newid?

mostly – i raddau helaeth

mother: M.'s Day – Gŵyl y Mamau, Sul y Mamau

motivated: poorly m. – prin eu cymhelliant; **highly m.** – uchel eu cymhelliant; **entirely self-m. work** – gwaith o'u pen a'u pastwn eu hunain

motivating: to be highly m. – bod yn hwb mawr i

motivation – cymhelliant

motor: m. maintenance – trwsio ceir; **this expertise will be a m. for economic growth** – bydd yr arbenigedd hwn yn/hwnnw'n symbylu/ysgogi twf economaidd

mould: to break the m. – torri tir newydd

to mount: to m. a course – cynnal cwrs; **as job losses continue to m.** – wrth i fwy a mwy o swyddi gael eu colli

mountain: to have a (large) m. to climb – bod â thalcen caled o'u blaen, bod â champ/thasg enfawr/aruthrol i'w chyflawni/o'u blaen, wynebu tasg enfawr/aruthrol (fawr)

mounting – cynyddol; **m. concern** – mwy a mwy o bryder

mouth: to put its money where its m. is – ategu ei (g)eiriau â'i (h)arian

move: there has been a m. away from ... – dechreuwyd ymwrthod â/ag ...; **there has been a m. towards the use of ...** – dechreuwyd defnyddio ...; **on the m.** – ar y ffordd, (*fel pennawd*) – symudiadau; **before you make your m.** – cyn i chi wneud dim, cyn i chi fwrw ati/iddi, cyn i chi fentro'ch lwc/gymryd eich siawns; **get a m. on!** – tân dani!, siapa dy stwmps!; **they're (so) slow to get a m. on** – maen nhw fel heddiw a(c y)fory

to move: to m. away from ... – rhoi heibio, newid, dechrau ymwrthod â(r) (hen) ...; **to m. further (and further) away from** – pellhau oddi wrth; **m. on to the next question** – ewch (ymlaen) i'r cwestiwn nesaf; **they will m. quickly to ...** – byddant yn mynd/fe ânt ati'n fuan/gyflym i ...; **their compassion has m.-ed them to ...** – mae eu tosturi wedi'u hysgogi/symbylu i ...

moving – dwys, sy'n cyffwrdd/a gyffyrddodd â'r galon; **a m. tribute** – teyrnged deimladwy

much – (rhan) helaeth (o); **to do m. to** – bod o gymorth mawr i, cyfrannu'n fawr at/i; **m. in the way of ...** – rhyw lawer o ...; **to be very m. the exception** – bod yn eithriad prin (iawn); **... is m. needed** – mae dwys/gwir angen ...; **only so m.** – (neg.) + mwy na mwy o; **to be (very) m. in evidence** – bod yn amlwg iawn, bod i'w cael yn aml; **m. the same applies to ...** – mae'r un peth yn wir, i raddau helaeth/gan mwyaf, am ...; **to be (very) m. improved ...** – bod yn frenin i/wrth/o'u cymharu â/ag ...; **so m. the better** – gorau oll; **this says m. for ...** – mae hwn/hyn yn/hwnnw/ hynny'n glod (mawr) i ...; **it is not too m. to say that ...** – nid gormodiaith yw dweud bod/mai/y ...; **I thought as m.** – dyna'r oeddwn i'n ei feddwl/amau; **this m.** – cymaint â hyn; **they don't think m. of ...** – nid oes ganddynt fawr o olwg ar ...; **to suffer very m.** – dioddef yn arw; **to see its role very m. as ...** – ystyried/bod yn bendant iawn mai ei rôl yw ...; **to make too m. (of a fuss)/(out) of ...** – gwneud môr a mynydd o ...; **m. needed accommodation** – llety y mae/yr oedd/y bydd cymaint o'i angen; **I haven't seen m. of you today** – rwy'ti wedi bod yn ddierth heddiw; **they're not up to m.** – does dim llawer o siâp arnyn nhw; **whether it will be of m. use** – a fydd yn/ef yn/hi'n rhyw ddefnyddiol iawn; **to feel something very m.** – teimlo rhywbeth i'r byw; **nothing very m.** – dim byd mawr; **this is very m. a problem** – mae hon/hyn yn broblem fawr; **this is very m. a privilege rather than a right** – braint yn hytrach na hawl, wrth gwrs, yw hwn/braint yn hytrach na hawl yw hwn, wrth gwrs; **you will see that this is very m. a team effort** – fe weli di/fe welwchi'n glir iawn mai ymdrech gan dîm yw hwn/hon/hyn

to muck: to m. in – torchi llewys

muirburn – goddaith

to mull: to m. over ... – pendroni ynghylch/ynglŷn â/ag ...; **to m. over the advantages** – pwysu a mesur y manteision

multi- : those with m.-sensory impairments – y rhai sydd â nam ar amryw o'u synhwyrau

multi-faith – amlgredo [?]

multifarious – amryw byd o, yr holl amrywiol

multi-million: m. pound deals – cytundebau sy'n werth miliynau (lawer/ar filiynau) o bunnoedd

multiple: m. questions – rhaffu cwestiynau, cyfres/rhibidirês o gwestiynau, y naill gwestiwn ar ôl y llall, cwestiynau un/y naill ar ôl/wrth gwt y llall

multiplicity – llu o, amryw byd o ..., llond gwlad o ...

multi-tasking – amlwasgio (*yn ôl termcymru*), gwneud sawl peth yr un pryd

mundane: at a more m. level – ar lefel lai dyrchafedig

to muse – pendroni

music: to be m. to their ears – yr oeddent wrth eu bodd, yr oeddent ar ben eu digon

musical: m. literacy – llythrennedd cerddorol

must – bod yn rhwym o; **our priority m. be to ...** – rhaid iddi fod yn flaenoriaeth gennym i ..., rhaid i ni roi blaenoriaeth/roi'r flaenoriaeth i ..., y flaenoriaeth y mae'n rhaid i ni ei harddel yw ...

to mutate: these later m. into lower aspirations – byddant/bydd y rhain yn/bydd y rheiny'n ddirywio'n /troi'n ddyheadau is yn ddiweddarach, ni fyddant yn/ni fydd y rhain yn/rheiny'n anelu mor uchel yn ddiweddarach

to mutter – (siarad) dan eu dannedd

mutual: m. respect – parchu ei/ein/eich gilydd; **the m. benefits** – y manteision i'r ddwy ochr; **to our m. benefit** – o les i chi ac i mi/ni, o les i bob un ohonom

mutually: they will be m. supportive – byddant yn cydategu ei gilydd/yn gydgyngalgar; **at a m. convenient date** – ar ddyddiad sy'n gyfleus i chi ac i mi/ni, ar ddyddiad sy'n gyfleus i bob un ohonom/i ni i gyd; **these have been so**

m. beneficial – maent/mae'r rhain/rheiny wedi bod o gymaint lles i'r ddwy ochr; **membership of these clusters is not m. exclusive** – nid yw perthyn i un o'r clystyrau hyn yn/hynny'n rhwystro/gwarafun perthyn i glwstwr arall/i'r clystyrau eraill

myography – myograffeg (*eb*) [Meddygaeth]

myriad – lluo (o) ..., amryw byd o ..., llond gwlad/lle o ...

mystique – dirgelwch

myth: to dispel common m.-s – chwalu camsyniadau cyffredin

nailbiting – dirdynol

name: it has a number of achievements to its n. – mae (ef/hi) wedi cyflawni pethau mawr; **in all but n.** – i bob pwrpas; **prioritisation is the n. of the game** – blaenoriaethu sy'n cael y flaenoriaeth; ar drywydd blaenoriaethu y maent yn mynd, ar flaenoriaethu y maent yn canolbwyntio/yn hoelio('u) sylw

to name: (to) n. and shame – enwi a chodi cywilydd, enwi er cywilydd [gw. *welsh-termau-cymraeg*, 15/05/03]

narration: some liveliness in the n. – peth bywiogrwydd yn y dweud

narrative: a n. passage – darn storiol

narrow: a n. escape – cael a chael; **to win by the n.-est of margins** – ennill o drwch blewyn

to narrow: you will need to n. down the topic sufficiently to ... – bydd angen i chi (raddol) grisialu digon ar y topig i ..., bydd angen i chi (raddol) grisialu mwy a mwy ar y topig nes ...

narrowly: to be too n. conceived as – bod yn rhy gyfyng fel

nascent: n. tensions – tensiynau sy'n dechrau ffrwtian/codi

nasty: to turn n. – chwarae'n troi'n chwerw

national: to transcend n. boundaries – codi uwchlaw ffiniau gwledydd, codi uwchlaw'r ffiniau rhwng gwledydd

nationwide – ledled Cymru/Prydain, yng Nghymru/ym Mhrydain gyfan

naturally – ohonynt (hwy) eu hunain

nature: work of a repetitive n. – gwaith ailadroddus; **what should be the n. of the advice** – sut gyngor y dylai hwnnw fod; **the detailed n. of** – manylder y(r)

to navigate: to n. the text – symud drwy'r testun (*gw. hefyd welsh-termau-cymraeg*)

navigation: this section of canal is being restored to n. – mae'r darn hwn o'r gamlas yn cael ei adfer i gychod allu mynd/teithio ar hyd-ddo

near: with the n. demise of ... – gan fod ... bron â diflannu; **are there bridges n. you?** – a oes pontydd yn eich ardal chi?; **anywhere/nowhere n.** – ar gyfyl; **to be n.-er** – bod yn nes i'r lan; **to be no n.-er** – peidio â bod damaid nes i'r lan; **looking south from n. Plymlimon** – gan edrych tua'r de o le/fan ger Pumlumon; **n. the time of ...** – heb fod yn (rhyw) hir iawn cyn .../cyn i ... ddigwydd; **a n. miss** – sefyllfa/achos lle bu damwain/gwrthdrawiad bron â digwydd/lle'r osgowyd damwain o drwch blewyn; **to have a n.** – osgoi damwain o drwch blewyn; **'n. miss' accidents** – damweiniau a osgowyd o drwch blewyn

to near: to be n.-ing completion – tynnu at y terfyn; **n.-ing completion** – ar fin cael eu cwblhau; **investigations are n.-ing completion** – mae'r ymchwiliadau'n tynnu at eu terfyn

nearby: n. schools – ysgolion (sydd) yn y cyffiniau

nearly: he's not n. a good a man as his father – nid yw (ef) hanner cystal (dyn) â'i dad

near-miss: a n. miss – sefyllfa/achos lle bu damwain/gwrthdrawiad bron â digwydd/lle'r osgowyd damwain o drwch blewyn; **to have a n.** – osgoi damwain o drwch blewyn; **'n. miss' accidents** – damweiniau a osgowyd o drwch blewyn

near-term: a number of n. improvements – nifer/amryw o welliannau y gellir eu gwneud bron ar unwaith/ bron yn syth

neatly: it n. illustrates ... – mae'n dangos yn glir/bert bod/mai/y(r) ...

necessary: it's a n. evil – mae'n gaffaeliad (, mae'n debyg,) er gwaetha'i broblemau/phroblemau, rhaid wrtho/wrthi (, mae'n debyg,) er gwaetha'i broblemau/phroblemau

to necessitate – golygu bod rhaid; **this n.-es** – o'r herwydd, oherwydd hyn(ny), (mae'n) rhaid, canlyniad hyn yw, rhaid (wrth); **this n.-es a period of work experience** – rhaid gwneud cyfnod o brofiad gwaith

necessity: to avoid the n. of explaining – osgoi gorfod esbonio; **of n.** – o raid; **to release them from the n. of (having to) ...** – eu harbed rhag gorfod ...

need: n.-s must – mater o raid; **the 'n.-s must' situation meant that they had to go to ...** – am nad oedd ganddynt fawr o ddewis/fawr ddim dewis, bu('n) rhaid iddynt fynd i ...

needed: much n. accommodation – llety y mae/yr oedd/y bydd cymaint o'i angen

needless: n. to say, they are going – go brin bod angen dweud eu bod yn mynd

to negate – diddymu; **to n. a need** – dileu angen

negative: to have a n. effect on ... – amharu ar ...

negatively: behaviour which positively or n. affects the pupil's progress – ymddygiad sy'n effeithio er gwell neu er gwaeth ar gynnydd y disgybl

negligible – bron dim, fawr o ddim, bach iawn (iawn), y nesaf peth i ddim; **any increase has been n.** – prin/bach iawn (iawn) fu unrhyw gynnydd

neighbour: each item pressed tightly against its neighbour – pob eitem wedi'i gwasgu'n dynn yn erbyn yr un nesaf ati
neoplasias – neoplasias (*eg*) [Y Biowyddorau]
neovascularisation – neofasgwlaiddio (*be*) [Optometreg]
nephropathy – neffropatheg (*eb*) [Meddygaeth]
nerve: n.(-)centre – calon
net: the n. effect is – effaith hyn oll yw
neurobiological – niwrobiologol (*ans*) [Astudiaethau Gofal Iechyd]
neurobiology – niwrobiolog
neurodegeneration – niwroddirywio (*be*), niwroddirywiad (*eg*), niwroddirywiadau [Meddygaeth]
neurodegenerative – niwroddirywiol (*ans*) [Meddygaeth]
neuroendocrinology – niwro-endocrinoleg (*eb*) [Meddygaeth]
neurogenetics – niwrogeneteg (*eb*) [Meddygaeth]
neurogenic – niwrogenig
neuroimaging – niwroddelweddu
neuromusculoskeletal – nerf-gyhyr-ysgerbydol (*ans*) [Astudiaethau Gofal Iechyd]
neuropharmacological – niwroffarmacolegol (*ans*) [Fferylliaeth]
neuropharmacology – niwroffarmacoleg (*eb*) [Meddygaeth]
neuropsychiatry – niwroseiciatreg (*eb*) [Meddygaeth]
neuropsychology – niwroseicoleg (*eb*) [Astudiaethau Gofal Iechyd]
neuorehabilitation – niwro-ailsefydlu (*be*) [Meddygaeth]
neutraceutical – maethroddwr [*bathwyd ar y cyd â Mari Watcyn, cyfieithydd Prifysgol Cymru, Abertawe, 20.8.98 – bathwyd y gair Saesneg gan eu Hadran Bioleg*]
neutrophil – newtroffil (*eg*), neutroffilau [Meddygaeth]
never – byth bythoedd; **this has n. been so important** – mae hwn(nw)/hyn yn/hynny'n bwysicach nag erioed; **n. mind the cost/expense!** – does dim pwys/(diawl o) ots am y gost!
new: staff n. to this approach – staff sydd heb ddefnyddio'r/arfer yr ymagwedd hon o'r blaen; **agencies n. to this type of work** – asiantaethau nad ydynt yn gyfarwydd â'r math hwn o waith, asiantaethau y mae'r math hwn o waith yn faes (sy'n) newydd iddynt; **a pupil n. to this school** – disgybl sydd newydd symud i'r ysgol (hon)
new-fangled: n. ideas – rhyw (hen) syniadau newydd gwirion/twp/dwl
new-look – ar eu newydd wedd
news: n. extra – newyddion pellach/munud-olaf *neu* rhagor (eto)
next: in n. to no time (at all) – mewn dim o dro; **from one year to the n.** – o'r naill flwyddyn i'r llall; **n. to nothing** – y nesaf peth i ddim
nexus – rhwydwaith
nicely: to be n. answered by ... – cael eu hateb yn daclus gan ...
niche – safle
nick: these aren't in very good n. – does dim llawer o raen ar y rhain; **they arrived just in the n. of time** – cael a chael oedd hi iddynt gyrraedd (mewn pryd)
nigh – ar ddigwydd/ddyfod
night: they can argue long into the n. about this – gallant ddadlau hyd/tan berfeddion (nos)/hyd yr oriau mân am/ynghylch hyn(ny); **n., n.** – nos da (,bach)
nil: the additional cost is virtually n. – bach iawn yw'r gost ychwanegol, mae'r gost ychwanegol yn fach iawn; **your chances of winning are almost n.** – prin iawn (iawn) yw'ch gobaith/siawns o ennill, nid oes gennych fawr ddim gobaith o lwyddo
nitty-gritty – hanfodion ymarferol
no: for no other reason than that – am y rheswm syml (eu) bod yn; **no school had ...** – nid oedd gan yr un ysgol ...; **no chance!** – gobaith caneri/mul mewn Grand National!; **in next to no time (at all)** – mewn dim o dro
noble: a n. motive – cymhelliad dyrchafol
nocturnal: n. creatures – creaduriaid y nos
no-frills: a n. bank account – cyfrif banc syml
no-go: n. areas for the police – ardaloedd/mannau nad ydynt/sydd heb fod o fewn cyrraedd i'r heddlu/sydd y tu hwnt i gyrraedd yr heddlu/na chaiff yr heddlu fynd/fynediad iddynt
noisily – yn uchel eu cloch
noisy – uchel eu cloch
no-lose: it was a 'n' situation – yr oedd hi'n sefyllfa/sefyllfa oedd hi lle nad oedd/na fyddai neb ar ei golled
non-advanced: n. further education (NAFE) – addysg bellach is (ABI)
non-aural – heb glywed
non-award: n. bearing courses – cyrsiau di(-)gymhwyster
non-biblical – anfeiblaidd
non-contact: n. time – amser di-wers
non-disabled: n. people – pobl sydd heb fod yn anabl

none: **n. for the road** – dim diferyn, dim difaru [*Slogan ‘dim yfed’ ymgyrch y Swyddfa Gymreig, Nadolig 1997*]; **n. of this is your fault** – does dim bai arnat ti (am hyn) (o gwbl), nid arnat ti (y) mae’r bai (am hyn) (o gwbl)

non-: **a non-engineering discipline** – disgyblaeth heblaw peirianeg

non-directive: **n. instructions** – awgrymiadau, nid cyfarwyddiadau

non-existent: **the n. recording of ...** – peidio/methu â chofnodi ...

non-examination – di-arholiad

non-fiction – anffuglen; **fiction and n.** – ffuglen ac fel arall

non-graduate: **n.-s** – (y) rhai/y sawl sydd heb radd; **n.-s with appropriate professional experience** – (y) rhai/y sawl sydd heb radd ond â phrofiad/â’r profia proffesiynol priodol

non-linguistic – di-iaith

non-malignant – anfalaen (*ans*) [Meddygaeth]

non-negotiable: **standards should not always be n.** –ni ddylai(’r) safonau fod yn (gwbl) haearnaidd bob amser/tro

non-parametric – amharametrig

to nonplus: **they were n.-ed** – cawsant eu bwrw/taflu oddi ar eu hechel

non-political – amhleidiol

non-professional – gweithfaol

nonsense: **to talk n.** – siarad yn/ar eu cyfer, mwytro; **n.!** – twt y baw!

non-sighted – heb weld

non-standard – ansafonol

non-success – aflwyddiant

non-teaching: **n. time** – amser yn rhydd o ddysgu

non-technical – annhechnegol

non-threatening – anfygythiol

non-traditional – anhraddodiadol

non-verbal – heb eiriau, di-eiriau, di-iaith

non-visual – heb weld

non-voting: **in a n. capacity** – ni chânt bleidleisio

none: **he would have n. of that argument** – wfftiodd (ef) (at) y ddadl honno

nook: **every n. and cranny** – pob twll a chornel

no-one – neb

NoR (Number on Register) – NaG (Nifer ar y Gofrestr)

norm: **the n. is that ...** – y drefn arferol/yr arfer yw bod/mai/y(r) ...

to norm – normio, pennu norm(au)

normal: **the n. practice** – yr arfer (cyffredin), y drefn arferol; **to get back to n.** – dod atynt eu hunain, dod yn ôl i drefn

normally: **to develop n.** – datblygu’n ddidrafferth

not: **n. unexpectedly/surprisingly, ...** – nid yw’n syndod (bod/mai) ...; **n. infrequently** – yn bur aml/fynych; **more often than n.** – yn amlach na pheidio; **n. later than ...** – erbyn ... (fan bellaf); **n. least because** – yn rhannol am fod; **not I. in** – yn enwedig yn/mewn ...; **this is n. to suggest** – ni fwriedir awgrymu; **this is n. to say that this is n. important** – nid gwadu/bychanu pwysigrwydd hwn/hyn(ny) yr ydym (ni) (wrth ddweud hynny), nid gwadu/bychanu ei bwysigrwydd yr ydym (ni) (wrth ddweud hynny), nid ydym yn/ni’n gwadu/bychanu ei bwysigrwydd (wrth ddweud hynny); **n. least because ...** – yn rhannol am fod ...; **they have n. the least interest** – nid oes ganddynt rithyn o ddiddordeb; **this is important n. least because ...** – mae hwn yn bwysig am/gan fod/oherydd ...; **n. the least of which is/are ...** – gan gynnwys ...; **important points to n.** – pwyntiau pwysig i’w cofio/i’w cadw mewn cof; **n. for unauthorized quotation or publication** – ni chaniateir/cheir dyfynnu o’r adroddiad hwn na’i gyhoeddi heb ganiatâd, rhaid peidio â dyfynnu o’r adroddiad hwn na’i gyhoeddi heb ganiatâd/heb gael caniatâd (*gw. welsh-termau-cymraeg, 31.04.07*)

notably: **n., five (out) of our departments were rated (as being) in the top ten** – camp nodedig oedd i bump o’n hadrannau gael eu gosod yn y deg uchaf

note: **worthy of n.** – yn haeddu sylw; **to take n. of ...** – nodi, sylwi ar ...; **of particular n. is (the fact that) ...** – datblygiad/digwyddiad/rhywbeth/peth nodedig/o bwys yw ..., datblygiad/ digwyddiad/rhywbeth/peth gwerth sylwi arno yw ..., dylid sylwi’n arbennig ar ..., mae’n werth nodi’n arbennig bod/mai/y(r) ...

to note: **it should be n.-ed that ...** – dylid cofio/sylweddoli/sylwi, dylech (chi) gofio, sylweddoli/sylwi

noteworthy – gwerth sylwi arnynt, o bwys, yn haeddu sylw; **signs of n. improvement** – (bod wedi) gwella tipyn/ cryn dipyn, arwyddion o welliant pendant

nothing – yr un dim; **if n. else** – yn un peth; **n. if not ...** – yn ... iawn/dros ben; **n. very much** – dim byd mawr; **n. if not dynamic** – yn llawn cyffro; **little or n.** – fawr o ddim; **n. like as good as** – ddim hanner cystal â/ag/ddim yn yr un cae â/ag ...; **if they say n.** – os na ddywedant hwy air (o’u pennau)/ddim byd

notice: **at very short n.** – heb fawr o rybudd o gwbl; **at a moment’s notice** – ar amrantiad, ar unwaith, yn syth, yn ddi-oed, yn ddiymdroi

to notice: **to demand to be n.-ed** – mynnu sylw

noticeable: **... was n.** – gwelwyd ...

noticeably: these are n. less challenging – mae'n amlwg bod y rhain (dipyn) yn llai anodd

notoriously – yn ddiahebol/ddychrynlyd/eithriadol/enbyd/hynod/ofnadwy o

not-spot – man/lle dim-gwasanaeth, man/lle (sydd) heb wasanaeth, man/lle nad yw'n cael gwasanaeth, man/lle nad yw'r gwasanaeth yn ei gyrraedd, man/lle nad yw o fewn cyrraedd i wasanaeth/i'r gwasanaeth, man/lle nad yw'n gallu cael (y) gwasanaeth

novice – un(igolyn)/person/rhywun dibrofiad

now – heddiw; **for n.** – am y tro; **n. that ... has/have ...** – gan fod ... bellach wedi ..., ar ôl i ...; **until n.** – cyn hyn, tan heddiw/y funud hon; **from n. to ...** – o hyn hyd/tan ...; **from n. on** – o hyn allan; **do it n.** – gwnewch ef ar unwaith/yn syth; **n. consider ...** – ewch ati/ymlaen i ystyried ...; **there n. follows a list of** – isod(.) fe welwch restr/mae rhestr o; **50 years from n.** – ymhen hanner canrif; **they are only n. beginning to recover** – dim ond prin ddod atynt eu hunain y maent; ; **n. the hard work begins in/on establishing ...** – dyma ddechrau ar y gwaith caled o sefydlu ...; **unlike n.** – yn wahanol i'r drefn bresennol/heddiw *neu* i'r drefn sydd ohoni/ i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd/i'r sefyllfa heddiw

nowadays – erbyn heddiw

nowhere: to get n. – mynd i'r gwellt, peidio â bod (damaid) yn nes i'r lan/damaid callach; **they come n. near** – ni ddônt yn agos at; **n. near as good – as ...** – ddim hanner cystal, ddim yn yr un cae â/ag ...; **they were n. to be seen** – doedd dim sôn amdany'n nhw; **to appear from/out of n.** – ymddangos yn ddirybudd; **getting n.?** – dim lwc?/damaid callach?/ddim tamaid callach?

NQTs (newly qualified teachers) – athrawon sydd newydd gymhwyso

nuanced: a more n. approach is needed – mae angen ymagwedd(u'n) fwy gofalus (yma/yn y fan hon/at hwn(nw)/hon(no)/hyn(ny)/y rhain/y rheiny

nuisance: n. neighbours – cymdogion di-hid, cymdogion sy'n boen

to nullify – tanseilio

number: people in such n.-s that – cymaint o bobl nes; **n. skills** – medrau/sgiliau rhif; **any n. of** – amryw byd o, faint fynnir/fynnwch chi o, cant a mil o; **one of their n.** – un o'u plith/ohonynt; **to make Wales n. one for ...** – gosod/rhoi Cymru ar y blaen/brig o ran; **the n. one banc** – y banc ar y brig [*hysbyseb Bank HSBC*]; **it is impossible to put a n. to/on how many items** – mae'n amhosibl/nid yw'n bosibl/nid oes modd dweud faint o eitemau

to number: they n.-ed John Jones among them – yn eu plith yr oedd John Jones; **the choir n.-s 40 members** – mae 40 aelod gan y côr, mae gan y côr 40 aelod, 40 aelod sydd gan y côr; **appendices should be n.-ed and titled** – dylid rhoi rhifau a theitlau ar (yr) atodiadau

number-crunchers – y rhai sy'n ymhél â ffigurau

number-crunching – ymhél â ffigurau

to number: their days are n.-ed – mae eu hoes ar fin dod i ben/darfod/yn dod i ben, ni fyddant yma/yno'n hir

numbered: n. sections – adrannau (sydd) â rhifau iddynt

numeracy – rhifedd

numerical: n. change (*pennawd mewn tabl*) – newid yn y nifer

numerous – amryw byd/nifer dda o; **on n. occasions** – droeon; **the rules should not be so n. that** – ni ddylid cael cynifer o reolau nes bod

nut: are you n.-s? – oes colled/cnoc arnat ti/arnoch chi?; **n.-s and bolts** – elfennau ymarferol

nutshell: in a n., ... – mewn gair, ... *neu* hynny yw, ...

nutshell: (to put it) in a n. – mewn gair

oak: great o.-s from small acorns do grow – 'Y fesen yn dderwen ddaw' (*drwy Gwenllian Mair Tomos, welsh-termau-cymraeg, 07.02.03*), o fesen derwen a dyf ('*arwyddair ysgol fach yng Nghaerdydd*' yn ôl *Tim Saunders, welsh termau-cymraeg*), rhaid dechrau yn rhywle, rhaid cropian cyn cerdded

object: those who are the o.-s of charity – y rhai sy'n cael (cymorth (gan)) elusen(nau)

objective: with the o. of – gan geisio, gan anelu at

obliged: to be o. to ... – (bod) rheidrwydd ar ...

obscure – di-nod, di-sôn-amdanynt

observation: o.-s – sylwadau

to observe: to o. a principle – parchu egwyddor; **to o. rules** – parchu(r) rheolau, cadw at y rheolau

observer: to/for the casual o. – ar yr olwg gyntaf; **to an outside o.** – i rywun o'r tu allan

to obsess: they are o.-ed with turning their back on ... – maent yn awchu/ysu am gael troi eu cefn(au) ar ...

obsolete – wedi darfod o'r tir, wedi darfod amdanynt

to obtain: to be easily o.-ed – (bod) ar gael/i'w cael yn hwylus

obvious: to become/make o. – amlygu

occasion: on a future o. – rywdro eto; **on all o.-s** – bob gfael; **on numerous o.-s** – droeon; **on this o.** – y tro hwn; **on (far) too many o.-s** – yn rhy aml (o lawer); **to rise to the o.** – gwneud yn dda iawn/yn well na'r disgwyl; **on a previous o.** – o'r blaen; **aided (,) on o.(,) by ...** – gyda chymorth achlysurol gan ...

occasional – ar dro; **an o. visitor would call** – byddai ymwelydd yn galw (heibio)/fe alwai ymwelydd o dro i dro/ ambell waith/o bryd i’w gilydd/yn awr ac yn y man

occupied: not permanently o. – heb drigolion/breswylwyr parhaol

to occupy: to o. the attention of ... – mynd â sylw/bryd ..., cael sylw ...; **the place that ... should o.** – y lle a ddylai fod i ...; **to o. a house** – dod/symud i fyw mewn tŷ

to occur – codi; **other examples may o. to you** – gall enghreifftiau eraill daro ar draws eich meddwl; **meetings o. twice a term** – cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y tymor; **o.-s** – ceir, gwelir; **discussions are already o.-ring** – mae trafodaethau eisoes ar waith; **discussions o.-red between ...** – cafwyd/cynhaliwyd trafodaethau rhwng ...; **they o. here and there** – maent i’w cael yma ac acw; **such incidents may o.** – gall pethau fel hyn ddigwydd; **until this incident o.-red** – tan/nes i hyn(ny) ddigwydd

occurrence: early o. (of) – cynharwch; **to demonstrate the o. of arable land** – dangos bod tir â’r i’w gael

odd: the o. one out – yr eithriad, yr un sy’n wahanol i’r lleill; **which is the o. one out?** – p’un sy’n wahanol i’r lleill; **they have studied the o. course** – maent wedi astudio ambell gwrs/cwrs neu ddau

odds: against the o. – er gwaethaf popeth, er gwaetha’r amgylchiadau/problemau/anawsterau/trafferthion, serch yr amgylchiadau/y problemau/yr anawsterau/y trafferthion

odorant – odorant (eg), odorantau

of: some teachers of year 1 pupils – rhai athrawon sy’n addysgu disgyblion blwyddyn 1; **which are of correct form and syntax** – sy’n gywir o ran ffurf a chystrawen/eu ffurf a’u cystrawen; **of even greater concern is** – yr hyn sy’n peri mwy fyth o bryder yw; (ar *ddechrau brawddeg*) **of particular importance in this respect are the 1969 and 1982 Acts** – (y) deddfau (sy’n) arbennig o bwysig yn hyn o beth yw Deddfau 1969 a(c) 1982; **areas of overlap** – meysydd lle ceir gorgyffwrdd; **on the same grounds – of conceptual ability – we recommend ...** – am yr un rheswm, sef anhawster cysyniadol, fe argymhellwn ...; **at a time of change in ...** – ar adeg pan fo newid yn ...; **a relationship of increasing complexity** – perthynas fwyfwy cymhleth; **the release statement of the nominee** – y datganiad rhyddhau gan y person a enwebwyd; **the other themes of ...** – y themâu eraill, sef ...; **to be the name of** – bod yn enw ar; **a form of** – ffurf ar; **to come of age** – dod i’w hoed; **within a week of (= after) the meeting** – cyn pen/ymhen wythnos ar ôl y cyfarfod; **a friend of theirs** – cyfaill/ffrind iddynt, un o’u cyfeillion/ffrindiau

off: they are some way o. making a profit – ni wnânt elw am beth amser eto

off: money-o. coupons – cwponau arbed arian

off-beat: o. items – eitmau hynod/gogleisiol

off-the-shelf – parod

offence: to give o. – tramgwyddo

offended: they won’t be o. – fyddan nhw ddim dicach

offer: on o. – sydd ar gael/i’w cael

to offer: this o.-s them an opportunity to study – mae hwn yn gyfle/dyma gyfle iddynt astudio

off-hand – diserch, surbwch

office: through the good o.-s of ... – drwy garedigrwydd ...; **to run for o.** – ceisio ennill grym, ymladd/ceisio ennill etholiad

to officiate: to o. in a game – dyfarnu mewn gêm; (= *to act as officials*)— bod yn swyddogion, gweithredu fel swyddogion

offing: in the o. – ar y gweill

off-putting – (bod yn d)dychryn, dieithrio

to offset – gwneud iawn yn rhannol am, gwneud (rhywfaint o) iawn am; **but some of these savings will be o. by** – ond fe lyncir peth o’r arbedion hyn(ny) gan/caiff peth o’r arbedion hyn(ny) eu llyncu gan

off-site – heb fod ar y safle, oddi ar y safle, i ffwrdd o’r safle (*welsh-termau-cymraeg 06.02.05*)

offshore: just o. – ychydig o bellter/ffordd o’r lan, heb fod y bell o’r lan

okay/OK: to realise that ‘good enough’ can be o./OK – sylweddoli y gall ‘digon da’ wneud y tro, sylweddoli nad yw ‘nid da lle gellir gwell’ yn ddeddf gwlad/yn iawn bob tro; **they must sign to say (that) this is ok/o.** – rhaid iddynt lofnodi i ddweud/ddangos/gadarnhau bod hyn yn/hynny’n dderbyniol (iddynt/ganddynt)

old: any o. how – rhywsut rywfodd

olden: in o. days/times – ers talwm (llethol)

old-fashioned – ar ôl yr oes; **to become o.** – chwythu eu plwc

omission – diffyg; **if they contain a minor o.** – os bydd rhywbeth bach/rhyw fân beth wedi’i hepgor ohonynt; **the o. (= deliberate leaving out of) of the institution from the scheme** – (penderfynu/y penderfyniad i) hepgor y sefydliad o’r cynllun, (penderfynu) peidio â chynnwys/methu â chynnwys y sefydliad yn y cynllun, y penderfyniad i beidio â chynnwys y sefydliad yn y cynllun

on: the date on which – y dyddiad pryd y; **on their return** – pan ddychwel(as)ant, pan ddônt/ddeuant yn ôl, ar ôl iddynt ddod yn ôl; **year on year** – o flwyddyn i flwyddyn, o’r naill flwyddyn i’r llall; **what on earth?** – beth yn y byd (mawr)?; **from then on** – o hynny allan; **one year on** – flwyddyn yn ddiweddarach; **there is a programme on TV** – dangosir/darlledir rhaglen ar y teledu; **on second thoughts** – o ailfeddwl, erbyn meddwl; **on reflection** – o

ailystyried, o edrych yn ôl; **year on year** – o flwyddyn i flwyddyn; **on completion of the module, you should be able to ...** – erbyn i chi orffen y(r)/gwblhau'r modiwl, dylech (chi) allu ...

once – ar un adeg; **o. they have ...** – ar ôl iddynt ..., (cyn) gynted ag y byddant wedi ...; **trying to do too many things at o.** – bod â gormod o hëyrn yn y tân, ceisio gwneud gormod o bethau yr un pryd; **o. understood** – o'u deall; **a o. in a lifetime journey** – taith unwaith(-)mewn(-)oes; **o. there was ...** – gynt yr oedd ...; **o. a year has elapsed** – ymhen blwyddyn; **they were o. thought of as ...** – arferid tybio'u bod yn ..., tybid gynt eu bod yn ...; **o. through the entrance, turn left** – (yn syth) ar ôl/wedi i chi ddod/fynd drwy'r drws, trowch i'r chwith

one: a o.-year course – cwrs blwyddyn; **at any o. time** – ar unrhyw adeg benodol; **during any o. financial year** – yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol unigol; **o. day** – r(h)yw ddydd; **o. of the best** – gyda'r goreuon; **the o. aspect which has ...** – yr agwedd sydd wedi ...; **to o. side** – naill ochr; **o. of the best** – halen y ddaear; **from day o.** – o'r diwrnod cyntaf (un) (ymlaen)

one-off – unigol; **on a o. basis** – am un tro'n unig

one-size-fits-all – yr-un-peth-i-bawb

onerous: to make the task less o. – ysgafnhau'r dasg

one-size-fits-all: there is not o. solution/there are no o. solutions – nid oes unrhyw/yr un ateb sy'n datrys pob problem/yr holl broblemau; **a 'o.' provision** – darpariaeth unfurf; **a o. strategy** – strategaeth 'run fath i bawb; **a o. strategy was not feasible** – na wnâi dim ond un strategaeth (gynhwysfawr) y tro, na wnâi dim ond un strategaeth (gynhwysfawr) ateb y diben, na wnâi un strategaeth yn unig y tro, na wnâi un strategaeth yn unig ateb y diben, bod angen mwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), bod rhaid cael mwy/bod rhaid bod â mwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), bod (yn) rhaid wrth fwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), na ellid bodloni ar (gael) un strategaeth (yn unig), na fyddai('r) un strategaeth yn ddigon, na ellid/nad oedd modd llunio strategaeth (gwbl) gynhwysfawr (gw. *welsh-termau-cymraeg*, 22-23.10.04)

one-stop: a o. service/shop – gwasanaeth cynhwysfawr/cwbl gynhwysfawr

on(-)going – parhaus, yn parhau, yn dal i fynd rhagddynt/yn eu blaen; **most of the assessment is o.** – mae'r rhan fwyaf o'r asesu yn broses barhaus, proses barhaus yw'r rhan fwyaf o'r asesu, mae'r rhan fwyaf o'r asesu'n dal i gael i wneud

onion: to know one's o.-s – gwybod be 'di/'dy be

only: we can o. endeavour to ... – ni allwn wneud mwy na(g) ...; **they have o. just received ...** – maent newydd gael ..., cael a chael oedd hi iddynt ...; **they are o. interested in ...** – eu hunig ddiddordeb yw ...; **o. just** – o drwch blewyn; **the o. thing that could be done was to ...** – doedd dim amdani ond ...; **this is o. limited/limited o. by ...** – yr unig gyfyngiad ar hyn yw ...; **to be o. too pleased to help** – bod yn falch iawn o allu helpu; **you will know o. too well** – fe wyddoch chi cystal â neb/'n well na neb/'n hen ddigon da; **beginning to recover** – dim ond prin ddod atynt eu hunain y maent; **one of the o. governments that have been considering ...** – un o'r ychydig lywodraethau/o'r dyrniad o lywodraethau sydd wedi bod yn ystyried ...

onset – dyfodiad

open: it is o. to you to ... – yr ydych yn rhydd i ..., mater i chi yw ...; **this is o. to interpretation** – mae sawl/llawer ffordd (wahanol)/amryw o ffyrdd (gwahanol) o ddehongli hwn/hon/hyn(ny), gellir dehongli hwn/hon/hyn(ny) mewn sawl/llawer ffordd; **this view is o. to question** – gellir amau'r farn hon(no)

to open: to o. up further opportunities – cynyddu'r cyfle, esgor ar gyfle(oedd) pellach

opening: the o. decades of the nineteenth century – degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg

open-mindedness – cadw'r meddwl yn agored

open-ness – bod yn/gweithredu'n agored

open-top(ped): an o. bus – bws to-agored, bws â tho agored, bws heb do, bws di-do

to operate: to o. a project – cynnal/rhedeg prosiect; **to o. an alarm** – seinio larwm (*arwydd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth*)

operation: to put into o. – gweithredu

operational – **it would not be practicable for this to become o. until ...** – ni fyddai'n ymarferol gweithredu hyn(ny) tan ...

to operationalise – rhoi ar waith, plethu i'r drefn weithredu, cynnwys yn y drefn weithredu

operative: to become o. – dod i rym; **the o. word** – y gair pwysig/hollbwysig

opinion-formers – pobl ddylanwadol eu barn

opportune: to be an o. time to ... – bod yn gyfle da i ...

opportunity: o.-ies for projects – cyfle(oedd) i gynnal/wneud prosiectau; **at the earliest o.** – cyn gynted â phosibl; **this provides them with/offers/gives them the o. to ...** – mae hwn yn gyfle iddynt ..., dyma gyfle iddynt ...

opposed: as o. to ... – o'u cymharu â/ag, yn hytrach na(g) ...; **to be very o. to ...** – gwrthwynebu ... yn fawr/daer/ gryf/bendant iawn

opposing: the o. argument – dadl yr ochr arall, ochr arall y ddadl

opposite: people of o. sexes – pobl o'r ddau ryw; **the o. is true in winter** – fel arall y mae hi yn (ystod) y gaeaf; **a lack of understanding of the 'o. side'** – diffyg dealltwriaeth o'r 'ochr arall'

to optimise: to o. their chances of success – rhoi iddynt y cyfle gorau posibl i lwyddo, cynyddu hyd yr eithaf eu cyfle i lwyddo, cynyddu cymaint â phosibl ar eu cyfle i lwyddo

optimum: the o. period – y cyfnod mwyaf manteisiol

option: o. choices – dewisiadau; **there was no o./they were left (with) no o. but to walk** – nid oedd dim amdani ond cerdded

optional: the ...'s name is o. – cewch roi, neu beidio â rhoi, enw'r ...; **membership of the Union is o.** – chi sy'n/fydd yn penderfynu a fyddwch chi'n ymaelodi â'r Undeb

or: 20 o. more years ago – 20 mlynedd a rhagor yn ôl; **some five years or so** – rhyw bum mlynedd

orbit – dalgylch

ordeal: they have been through a real o. – maent wedi bod drwy'r felin, ydynt wir

order: higher o. learning – dysgu o radd uwch (*e.e. y gallu i gymhwyso medrau a gwybodaeth mewn sefyllfaoedd newydd*); **higher o. skills** – uwch(-)fedrau; **a high o. of inventiveness** – cryn lawer o ddyfeisgarwch; **of the o. of 5%...** – rhyw/tua/o ryw 5%...; **absolute precision is the o. of the day** – cywirdeb llwyr yw'r nod; **in good o.** – mewn cyflwr da; **in good working o.** – yn gweithio'n dda; **cooked to o.** – wedi'u coginio'n unol â'r archeb, cânt eu coginio pan ddaw('r) archeb (amdanynt)/pan archebir hwy; **out of o.** – ddim yn gweithio; **support of the highest o.** – cymorth o'r radd flaenaf; **o. as per election date** – fe'u rhestrir yn nhrefn eu hethol; **although/while adaptations will be the o. of the day** – er mai addasu fydd y drefn/fydd raid

to order: to o. priorities – gosod (y) blaenoriaethau yn eu trefn; **to order: the Home Secretary has o.-ed an inquiry into ...** – mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi gorchymyn cynnal ymchwiliad i ...

orderly: an o. routine – trefn gyson

organigram – organigram

organisational – trefniadaethol; **o. arrangements** – patrwm trefniadaethol/patrwm y drefniadaeth

organisationally: o.(-speaking) – o ran (eu) trefniadaeth, a siarad ar ran/o safbwynt y sefydliad; **o.(-speaking), we could do it** – fe allem ni, fel corff/sefydliad/cymdeithas, wneud y gwaith/wneud/gyflawni hynny

to organise: they couldn't o. a piss-up/drink-up in a brewery – allen nhw ddim trefnu'r peth symlaf/mwyaf elfennol, does dim siâp o gwbl arnyn nhw

organised: they haven't really got things o. – does dim llawer o siâp arnyn nhw

to orientate: these/such centres are o.-ed to the needs of their community – mae'r canolfannau'n/canolfannau hynny'n ceisio ateb/diwallu anghenion eu cymuned, (ceisio) ateb/diwallu anghenion eu cymuned yw nod y canolfannau (hynny)/nod y canolfannau (hynny) yw (ceisio) ateb/diwallu anghenion eu cymuned

orientated: work which is examination-o. or not – gwaith, p'un a yw'n gwrs arholiad neu beidio; **market(-)o.** – marchnad-gyfeiriedig, yn hoelio'u sylw/yn canolbwyntio ar y farchnad, yn rhoi sylw manwl/mawr i'r farchnad, yn dwys ystyried y farchnad; **product(-)o.** – cynnyrch-gyfeiriedig, yn hoelio'u sylw/yn canolbwyntio ar y cynnyrch, yn rhoi sylw manwl/mawr i'r cynnyrch, yn dwys ystyried y cynnyrch

to originate: to o. material – cynhyrchu/llunio deunydd(iau) (gwreiddiol); **enquiries o.-ing from local bodies** – ymholiadau (a ddaw/a geir) gan/oddi wrth gyrff lleol

ornate – cywrain

ostensibly – (/ –) fe honnir (/ –), i bob golwg, fel petaent yn .../am ...

osteoarchaeology – osteoarchaeoleg (*eb*)

other: o. than – ac eithrio ..., ar wahân i ...; **some are better than o.-s** – mae rhai (ohonynt) yn well na'i gilydd; **o.-s** – pobl eraill; **the work of o.-s** – gwaith gan eraill; **the o. day** – pa ddydd; **the o. side of the hedge from them** – am y clawdd â hwy; **the other s. of the world** – pen draw'r byd

othering – aralleiddio [?]

otherwise: the success or o. of ... – llwyddiant neu aflwyddiant/fethiant ...; **the substance or o.** – sylwedd neu ddiffyg sylwedd; **those who fondly imagine that things are otherwise** – y rhai sy'n credu'n ddiiniwed nad felly y mae; **or o. adapt/modify ...** – neu addasu mewn rhyw ffordd arall; **o., ...** – os na wnewch chi/wneir hyn(ny) ..., os na ddigwydd hyn(ny) ..., os methwch chi/methir â gwneud hyn(ny) ...

otoacoustic – otoacwsteg (*eb*) [Meddygaeth]

out: the jury is still o. – amser a ddengys, does dim penderfyniad wedi'i wneud eto, rhaid aros i weld; **to be tired o.** – (bod) wedi blino'n lân; **to die o.** – marw/darfod o'r tir; **there are thousands of courses o. there** – mae miloedd o gyrsiau i'w cael/ar gael (yn y byd mawr); **o. and about** – (wrth fynd) ar hyd y lle; **o. and about in ...** – crwydro ...; **o. of breath** – â'u gwynt yn eu dwrn; **o. of date** – hen, anghywir, ar ei hôl hi, heb fod yn gyfoes; **to get o. of hand** – mynd dros ben llestri; **to be o. of line with** – bod yn anghyson â/ag; **not to be o. of line with** – cydweddu â; **o. of order** – ddim yn gweithio; **o. of place** – amhriodol, anaddas, annifyr, anghydawns; **o. of reach** – y tu hwnt i gyrraedd; **to be o. of step with** – bod yn anghyson â/ag; **o. of the blue** – yn ddisymwth; **o. of true** – heb fod yn hollol union; **they were out of u. by 1875** – ni ddefnyddiwyd hwy/mohonynt ar ôl 1875, rhoddwyd y gorau i'w defnyddio erbyn 1875; **to take time o. to ...** – treulio tipyn o amser/peth amser i/yn ... ; **these are currently o. for consultation** – maent yn/mae'r rhain/mae'r rheiny'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yr ydym/maent yn ymgynghori yn eu cylch/ynghlân â'r rhain/rheiny ar hyn o bryd; **to blow things up o. of all proportion** – gwneud môr a mynydd o bethau; **the problem was o. of all proportion to the official figures**

– yr oedd y problem yn fwy/helaethach/ddwysach o lawer nag a awgrymid gan y ffigurau swyddogol, doedd y ffigurau swyddogol ddim yn cyfleu hanner maint y problem

outbreak: since the o. of the war – ers dechrau'r rhyfel; **o. (of disease)** – haint yn brigo, brigiad haint (*awgrymiadau Delyth Prys mewn ymateb i gais gan David Bullock, 06.07.1999*)

outcome – ffrwyth; **failure to submit (work) will be deemed a fail o.** – os methir â chyflwyno(r) gwaith, bydd yr ymgeisydd yn methu *neu* methu wnaiff/fydd hanes yr ymgeisydd os bydd yn methu â chyflwyno(r) gwaith

outcry: a public o. – cwyno/protestio mawr ymhlith y cyhoedd

out(-)dated: to become o. – mynd yn hen, colli cyfoesedd; **they will soon become o.** – byddant yn hen hanes cyn hir/yn fuan/toc; **it's o.** – mae'n perthyn i oes a fu/i ddydd iau fu

to out-distance – bod dipyn/gryn dipyn/ymhell ar y blaen i

outer: o. space – y gofod pell; **the o. extremes of the universe** – cyrion eithaf y bydysawd

outgoing – allblyg

to outlaw: to o. the practices – gwneud yr/peri bod yr arferion yn anghyfreithlon

outlet: a natural o. for your talents – cyfle naturiol i chi arfer eich doniau [*hysbyseb y Cyngor Gwlad yn y Western Mail, 20.6.96*]

to outlive: many have long (since) o.-ed their usefulness – darfu defnyddioldeb llawer ohonynt ers tro byd

out-of-town: o. superstores – archfarchnadoedd ar gyrion trefi/dinasoedd/ar gyrion trefi a dinasoedd

to outperform – rhagori ar ..., gwneud yn well na(g) ...; **they far o.-ed the others** – gwnaethant yn well o lawer na'r lleill

outpouring: and not an aimless o. – ac nid malu awyr/yn falu awyr (yn unig)

outreach – allgymorth

outright: to be killed o. – cael eu lladd yn y fan a'r lle

to outrun – bod (dipyn/gryn dipyn/ymhell) ar y blaen i

outsourcing – contractio gwaith i ffynonellau allanol [*Delyth Prys, welsh-termau-cymraeg, Hydref 2001*]

outstanding – (cwbl) arbennig/nodedig; heb ei wneud (eto); **an o. success** – llwyddiant ysgubol; **o. problems** – problemau sy'n weddill/sydd heb eu datrys/trafod (eto); **there are many o. problems to be resolved** – mae llawer o broblemau i'w datrys o hyd; **to provide (a) truly o. service** – darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf; (=not materialised) – heb gyrraedd

to outstrip; to (far) o. .../to o. ... by far – bod yn fwy (o lawer)/uwch na(g) ...

outturn: (*fel teitl*) – cyflawnwyd

outward-looking: an o. approach – ymagwedd iach

to outweigh: to o. ... heavily – bod yn drech o lawer na(g) ...; **the advantages far o. the time allocated to the scheme** – mae'r manteision yn mwy na chyfiawnhau'r amser a neilltuir i'r cynllun

to outwit – curo, bod yn drech na(g) ...

over: (to be) o. – (bod) ar ben; **o. and above ...** – rhagor ..., yn ychwanegol at ..., yn ogystal â/ag ...; **to move ... o. to** – symud ... draw i; **to start all o. again** – dechrau o'r dechrau unwaith eto; **the world o.** – ledled y byd, dros y byd i gyd; **7,500 and o.** – 7,500 a rhagor; **to be o. concerned about ...** – gwneud môr a mynydd o ...; **to be all o. the place (condemniol)** – ar draws ac ar hyd; **o. and o. again** – dro ar ôl tro; **from all o. the world** – o bedwar ban (y) byd; **an additional discount o. and above that normally applicable will be given** – rhoir disgownt ychwanegol o 2% at yr hyn sy'n gymwys fel arfer/rheol; **to be o. specific** – manylu gormod

over(-)abundance – gormod

overall – cyfannus; ar y cyfan; **the o. winner** – enillydd y brif wobwr/rownd derfynol

overarching – rhychwantol (*penderfyniad Dr. John Lloyd, ACCAC, 21.5.98*); **three o. principles** – tair egwyddor gyffredinol/lywodraethol, tair prif egwyddor, tair egwyddor bwysig/hollbwysig; **my o. approach is to utilise an extended means of expression where a more diminutive selection would suffice** – Wi fel rheol yn defnyddio gair hir yn lle un byr (*David Bullock, welsh-termau-cymraeg, 13.06.03*), byddaf fel rheol yn amlhau geiriau gan osgoi/ac yn osgoi ymadroddi'n gynnil/gryno, fy arfer yw amlhau geiriau gan/ac osgoi ymadroddi'n gynnil/gryno

to overburden – bod yn ormod o faich ar ..., gosod/rhoi gormod o faich ar ...

overcast – eithaf/reit cymylog, cymylog iawn

to overcome: they were o. by jealousy – yr oedd cenfigen yn eu bwyta'n fyw; **to overcome: this o.-s any criticism** – mae hyn yn/hynny'n ateb unrhyw feirniadaeth

overdue: ... is (long) o. – mae'n hen bryd ...

to overemphasise: to o. the importance of ... – gorliwio pwysigrwydd ...

to overestimate: to o. the problem of crime – meddwl bod problem troseddu'n fwy nag yw hi/ydyw mewn gwirionedd, camsynied ynghylch hyd a lled problem troseddu

overflow: o. car park – parc ceir wrth gefn

overflowing: full to o. – gorlawn, llawn dop, dan eu sang

overhaul: ... is in need of drastic o. – mae angen chwyntu'n arw ar ...

to overhaul – ailwampio

over-indebted: those who are o. – y rhai/rheiny sydd dros eu pennau a'u clustiau mewn dyled

to overlook – diystyru, methu â rhoi sylw i ..., bod heb sylwi ar ...; **they are all too easily o.-ed** – (ond) peth ffôl yw/fyddai eu hanwybyddu; **don't o. the chance to ...** – paid/peidiwch â cholli'r cyfle i ...; **to o. the problems** – colli golwg ar y problemau

overly: to be o. optimistic – bod yn rhy optimistaidd, bod yn or-optimistaidd; **to be o. concerned about** – gwneud môr a mynydd o

to overrate: these should not be o.-ed – ni ddylid rhoi gormod o bwys ar y rhain/armynt

to over-ride – bod yn drech na(g) ...; **this does not o. the need to ...** – nid yw hyn yn/hynny'n dileu'r angen i ...

overriding – cyffredinol, llywodraethol; **the o. duty of the institution is to ...** – dyletswydd y sefydliad, uwchlaw popeth arall, yw ...; **if there's one o. message** – os oes unrhyw/yr un neges sy'n bwysicach na'i gilydd

to overrun: a garden o. with weeds – gardd sy'n llawn/gyforiog/fôr o chwyn; **a garden increasingly o. with weeds** – gardd (sydd) â chwyn yn lledu drosto fwy a mwy

to overshadow – dod o dan gysgod

oversight – (= *supervision*) goruchwyliaeth

to overstate – gwneud gormod o; **it is not to o. the case to say that ...** – nid gormod(iaith) yw dweud ...

to overstep: to o. their powers – mynd y tu hwnt i'w pwerau

oversubscribed: the course was o. – yr oedd mwy o ymgeiswyr nag (a oedd) o leoedd ar y cwrs, yr oedd y cwrs wedi denu mwy o ymgeiswyr nag y gallai/gellid eu cymryd; **if the summer school is o.** – os bydd gormod o geisiadau am le yn yr ysgol haf

to overtake – cael y blaen ar ...; **to have been o.-en by events** – bod ar ei hôl hi; **to have o.-en** – bod ar y blaen i

to overturn: to o. decisions – gwyrdroi penderfyniadau

overview – gorolwg, golwg cyffredinol ar, darlun cyffredinol o

overwhelmed: if you feel a little bit o. by the process – os teimlwhch (chi) fod/os ydych chi'n teimlo bod y broses yn dechrau mynd yn drech na chi/yn dechrau'ch llethu

to owe: this may well o. much to their ... – gall hyn yn hawdd ddeillio, i raddau helaeth, o'u ...; **we o. it to you to ...** – mae'n rheidrwydd arnom i ..., mae'n ofynnol ein bod yn ..., ein cyfrifoldeb yw ... (*Huw Roberts, welsh-termau-cymraeg, 09.05.06*); **the responsibilities they o. to each other** – y cyfrifoldeb sydd ganddynt i'w gilydd; **the responsibilities they all o.** – cyfrifoldebau pob un ohonynt

own: he is/he's his own man – dyn sy'n torri ei gwys ei hun (*Annes Gruffydd ar welsh-termau-cymraeg, 23.10.08*), dyn annibynnol ei farn (*Ann Corkett ar welsh-termau-cymraeg, 23.10.08*), dyn (sydd) â'i farn bendant ei hun

to own: to o. up – syrthio ar eu bai, cyfaddef

oyster: the world's your o. – mae'r byd i gyd o'ch blaen

pace: to keep p. with ... – datblygu yr un mor gyflym â/ag ..., cyd-fynd â/ag ..., cynyddu'n gymesur â; **to keep p. with inflation** – codi/cynyddu mor gyflym â chwyddiant; **to inject p. into ...** – cyflymu; **slow p.** – arafwch; **to learn p. judgement for a running activity** – dysgu pryd mae cyflymu ac arafu mewn gweithgaredd rhedeg; **the p. of the lesson slackens** – mae'r wers yn arafu; **to set the p.** – bod ar flaen y gad, bod ar y blaen; **the p. of the competition is quickening** – mae'r gystadleuaeth yn ffyrnigo, mae'r cystadlu'n ffyrnigo; **to step up the p.** – cyflymu; **it doesn't mean we're not up with the p. as far as technology goes** – nid yw'n/yw hyn yn/yw hynny'n golygu nad ydym yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf (*addasiad o un o hysbysebion Heddlu De Cymru*)

to pace: to p. oneself – gweithio'n gall, gweithio heb wylltu/wylltio, peidio â gorweithio, gweithio heb orweithio/heb fynd dros ben (*awgrymiadau i welsh-termau-cymraeg, 24.01.07*), gweithio'n gyson/heb or-wneud (*Siân Roberts, welsh-termau-cymraeg, 24.01.07*); **to p. their studies** – amseru eu hastudiaethau('n ofalus/drefnus)

pack: to tell a p. of lies – rhaffu/palu celwyddau; **a p. of lies** – dim byd ond celwydd, tomen o gelwydd(au), rhaffu/palu celwyddau

packed: p. lunch – pecyn cinio; **to be p. with ...** – bod yn llawn (dop)/gyforiog o ...; **the place was p.** – yr oedd llond y lle o bobl

to pack: to send them p.-ing – dweud wrthynt am ei heglu/gwân hi

to page-number: copies must be p.-ed – rhaid rhifo tudalennau'r copïau

pagination – rhifo(r) tudalennau

pain: to be at p.-s to – bod wrthi'n ddyfal/ddiwyd, bod yn ceisio/gwneud eu gorau glas i; **to be a p.** – bod yn farn; **p. or gain?** – budd neu boen?

to pain: it p.-s me to say – mae'n ofid i mi/gen i ddweud

painstaking – manwl

pair: in p.-s – mewn deuoedd

palace: bishop's p. – plas yr esgob

palomino: a p. horse – ceffyl lliw llaeth a chwrw (*ffarmwr ar Cefn Gwlad, S4C, 30.1.98*)

panic: to adopt a p. response – ymateb yn wyllt

panoply: the whole p. of requirements – yr holl ofynion amrywiol, y cruglwyth o ofynion

paper: before putting pen to p. – cyn dechrau ysgrifennu/llunio(r) (cais/traethawd/llith/llythyr ...);

paper-thin – eithriadol o denau, **a p. majority** – mwyafrif eithriadol o fach

par: not on a p. with ... – heb fod mor bwysig/cystal/cymaint â/ag ...; **a golf course p. excellence** – cwrs golff tan gamp; **to function below p.** – heb fod yn/beidio â gweithio cystal â'r disgwyl; **on a p., perhaps, with ...** – tebyg, efallai/hwyrach, i ...

paradise: a distant p. – man gwyn(,) man draw

paradoxically: p., some of us are ... – yn rhyfedd iawn, mae rhai ohonom yn ... *neu* y paradocs yw bod rhai ohonom yn

...
parallel: a p. document – chwaer-ddogfen; **this has not gone down/decreased in p.** – nid yw (hwn/hon/hyn) wedi gostwng i'r un graddau

to parallel – cyd-redeg/cyd-fynd â

parameter – ffiniau

paramount – o'r pwys pennaf; **to be p.** – bod yn ben, yw'r/oedd y (peth/un) pwysicaf

parcel: to be part and p. of ... – bod yn rhan (annatod) o ...

parity – un i un; **to ensure greater p. in class sizes** – cael dosbarthiadau mwy cyfartal eu maint; **to enjoy p. f esteem** – cael yr un faint o barch, cael yr un parch; **during this period, England managed to keep broad p.** – yn ystod y cyfnod hwn(nw). llwyddodd Lloegr i ddal ei thir gan mwyaf/at ei gilydd/ar y cyfan

parlance: in this organisation's p. – yn ieithwedd y sefydliad hwn(nw)

Parliamentary: P. enclosure – cau tir(oedd) (comin) o dan Ddeddfau Seneddol

parochial: p. church council – cyngor plwyf eglwysig (*gweler welsh-termau-cymraeg, Gorffennaf 2002*)

part: for the most p. – gan mwyaf, yn bennaf; **for their p.** – o'u hochor/rhan hwy; **there is an understandable reluctance on the p. of schools** – mae ysgolion, yn ddealladwy ddigon, yn gyndyn i; **a feeling on the p. of some (of them)** – teimlad ymhlith/ymysg rhai ohonynt; **to be p. and parcel of** – bod yn rhan (annatod) o; **in p.** – yn rhannol; **from all p.-s of Wales** – o bob cwr o Gymru; **is due in no small p. to** – i'w briodoli i gryn raddau/i raddau helaeth i; **to depend in no small p. on** – dibynnu llawer (iawn) ar

to part: to p. with – gollwng (eu) gafael ar; **to p. with your money-** ffarwelio â'ch arian, canu'n iach i'ch arian

to partake – cynnwys

participant: conference p.-s – cynadleddwyr; **p.-s (at a meeting)** – y rhai sy'n/a oedd/a fydd yn bresennol

participation: committee p. (= *participating in committees*)- pwyllgora

particular: this p. course – y cwrs hwn; **a p. aspect of** – rhyw agwedd neu'i gilydd ar; **with p. care** – yn arbennig o ofalus; **nothing in p.** – dim byd arbennig/neilltuol/penodol; **in p.** (*ar ddechrau brawddeg os na wnaiff 'yn arbennig' y tro*) – pwynt/datblygiad arbennig (yw/oedd etc) ... (*neu ei hepgor!*); **they have p. expertise in ...** – mae ganddynt arbenigedd helaeth yn/mewn ...; **of p. note. is ...** – datblygiad/digwyddiad/rhywbeth/ peth nodedig/o bwys yw ..., datblygiad/ digwyddiad/rhywbeth/peth gwerth sylwi arno yw ..., dylid sylwi'n arbennig ar

...
particularity – arbenigedd

particularly: p. good – da ar y naw; **this was p. desirable** – yr oedd mawr angen (gwneud) hynny; **they are not p. helpful** – nid ydynt o ryw gymorth mawr; **it is particularly look i. to at ...** – mae modd dysgu/gellir dysgu llawer iawn wrth/drwy astudio ...

partnership: in p. with ... – law yn llaw â/ag ...; **p. (-) type approaches** – ymagweddau partneriaethol; **p. bodies** – cyrff sy'n bartneriaid (i ni/iddynt (hwy))

part-writing – rhan-ysgrifennu

party: to be p. to ... – cyfrannu at ..., cymryd rhan yn/mewn ...; **to other interested p.-ies** – i eraill sydd â diddordeb; **p.-political** – pleidiol-wleidyddol; **they have information that we are not p. to** – mae ganddynt wybodaeth nad yw hi gennym ni; **both p.-ies should sign the form** – dylai'r naill ochr a'r llall lofnodi'r ffurflen; **this information will not be released to any third p.** – ni chaiff y wybodaeth hon ei/honno'i rhyddhau/datgelu/dadlennu i neb arall. ni rhyddheir/ddatgelir/ddadlennir y wybodaeth hon(no) i neb arall;

to pass: (= not to answer) – peidio ag ateb; **to p. on** – trosglwyddo; **it would be remiss of me if I were to let this occasion p. without ...** – byddwn ar fai petawn i'n peidio/methu â manteisio ar y cyfle hwn i ..., byddwn ar fai pe na bawn i'n manteisio ar y cyfle hwn i ...; **to be p.-ed into legislation** – dod yn gyfraith gwlad; **to p. off another's work as your own** – cyflwyno gwaith rhywun arall fel eich gwaith chi (eich hun); **after the threat p.-ed** – ar ôl/wedi i'r bygythiad gilio; **as if life is p.-ing them by** – fel petai bywyd yn eu gadael yn ei sgîl/yn eu gadael ar ôl (*awgrym Dr Bruce Griffiths ar welsh-termau-cymraeg, 2201,08*), fel petai/pe bai bywyd yn llifo/llithro heibio heb gyffwrdd â hwy, fel pe na bai bywyd yn cyffwrdd â hwy bellach/mwyach/ ragor *neu* bywyd yn mynd yn ei flaen, ond (a) hwythau o'r neilltu/allan ohoni *neu* fel petai/pe bai bwrlwm byw(yd) wedi llithro o'u gafael *neu* fel petaent/pe baent wedi colli gafael ar fywyd, rywsut *neu* fel petai/pe bai bywyd yn mynd (o'r tu arall) heibio (iddynt), nad ydyn nhw ddim yng nghanol bwrlwm byw(yd) bellach/mwyach/ragor, nad ydyn nhw'n cael blas ar fyw/fawr o flas ar fyw, nad oes dim blas byw; **to p. into the hands of ...** – mynd i ddwylo ...

passage: with the p. of time – ymhen hir a hwyr; **prose p.** – darn o ryddiaith

passing: a p. fancy – ffansi'r funud; **more than a p. interest** – mwy nag ychydig o ddiddordeb; **in p.-** wrth sôn am bethau eraill, wrth drin a thrafod pethau eraill

passion – ysfa; **he has a p. for walking/his main p. is walking** – cerdded yw ei ddilêit /ei hoff ddifyrrwch, mae'n dwli ar gerdded, mae'n well ganddo gerdded na (gwneud) dim (byd) arall; **a p. for Wales** – o'r galon dros Gymru [slogan S4C, 1997]; **their p. has always been to work in the media** – maent bob amser wedi dyheu am gael gweithio yn y cyfryngau, maent yn ysu erioed am gael gweithio yn y cyfryngau, nod sydd (wedi bod) ganddynt erioed yw gweithio yn y cyfryngau; **to have a p. for ...** – bod â diddordeb ysol/mawr/angerddol yn/mewn ...

passphrase – cyfrinymadrodd

passport: to be a p. to ... – bod yn allwedd/fodd i ...; ; **your p. to the libraries of ...** – cyfrwng/modd i chi gysylltu â llyfrgelloedd ...

past: to know from p. experience – gwybod o brofiad; **in days long p.** – ddyddiau fu, slawer dydd; **(from (both) the) p. and (the) present/now and in the p.** – ddoe a heddiw; **a p. master at** – hen law ar; **p. their best** – wedi gweld eu dyddiau gorau; **to be long p.** – bod wedi hen ddarvoud (amdanynt); **in the p.** – gynt, slawer dydd, ers talwm; **for many years p.** – am flynyddoedd maith, am flynyddoedd bwygilydd, ers blynyddoedd maith, ers blynyddoedd bwygilydd; **this will be(come) a thing of the p.** – atgof yn unig fydd hwn(nw)/ hyn(ny), perthyn i(r) oes a fu fydd/wnaiff hwn(nw)/hyn(ny); **their own p. decisions** – eu penderfyniadau blaenorol eu hunain

patch: our own p. – ein milltir sgwâr, ein tomen ein hunain; **he's not n. a p. on his father** – nid yw (ef) hanner cystal (dyn) â'i dad

patchy – tameidiog; **they have a p. relationship to** – nid oes ganddynt fawr o gysylltiad â

patented – patentedig, y cafwyd patent(au) iddynt, sy'n destun patent(au)

paternal: p. grandmother – mam y tad; **p. grandfather** – tad y tad

paternalist – tadolaethol

pathobiology – pathobiolog (*eb*) [Optometreg]

pathogenicity – pathogenigrwydd (*eg*) [Meddygaeth]

to pathologise – patholegu

pathophysiology – pathoffisioleg (*eb*) [Astudiaethau Gofal Iechyd]

patient: p. capital – cyfalaf tymor estynedig (*y cynnig gan John Puw a gymeradwywyd gan Eirian Youngman ar ôl iddi ofyn am awgrymiadau ar welsh-termau-cymraeg ar 19.09.07. Y nodyn cefndir oedd: 'Cyllido mentrau cymdeithasol yw'r maes "Patient capital works like a loan, but the provider allows the borrower an extended period before repayments are due".')*

pattern: to plan on a two-week p. – cynllunio fesul pythefnos

to pave: p.-ing the way for ... – gan agor/ledu'r ffordd i ...; **to p. the way to ...** – agor y drws i ...

to paw – byseddu

pay: p. spine – colofn dâl [Cyngor Sir Caerfyrddin]

to pay: to p. off/dividends – dwyn ffrwyth; **to pay rich d.-s** – talu ar ei ganfed; **it p.-s to** – mae'n werth; **to p. heed to ...** – rhoi sylw i ..., cadw ... mewn cof; **I wouldn't go there if you paid me** – awn/elwn i ddim yno am bris yn y byd/dros fy nghrogi; **there'll be hell to p.** – bydd lle ar (y) cythraul/diawl yma/yno; **to p. their way** – cael dau ben llinyn ynghyd; **p. attention to the order DDMYY** – cofiwch ddilyn y drefn DDMBB (yn ofalus)

payable: £300 is p. in advance – mae £300 i'w dalu ymlaen llaw

payoff: there was an immediate p. for ... – talodd hynny i ... yn syth/ar unwaith, elwodd ... o hynny'n syth/ar unwaith

peak: there are very high p.-s on Thursday mornings – ceir adegau prysur dros ben ar fore Iau; **p.-s and troughs** – llanw a thrai; **the p.-s and troughs of your relationship** – uchafbwyntiau ac isafbwyntiau'ch perthynas; **p.-s and troughs of life** – hynt a helynt bywyd (*David Bullock, welsh-termau-cymraeg, 17.09.03*)

pecking: to stay at the head/top of society's then p. order – aros ar frig/cadw ei le/eu (l)le ar frig y drefn gymdeithasol a oedd ohoni

peculiar – priod; **to be p. to** – bod yn gyfyngedig i

pedagogy – pedagogaeth (*gw. y Geiriadur Termau*)

to peddle: to p. a myth – taenu'r stori (gelwyddog/ddi-sail) ar led, lledu stori (gelwyddog/ddi-sail)

pedestrian – di-sbonc, araf

pedigree: these two bodies have different p.-s – tarddiad gwahanol sydd i'r ddau gorff (hyn); **this type of research has a remarkable p.** – mae hanes rhyfeddol i'r math hwn o ymchwil

to peel: to p. off – tynnu ymaith

peer: those who only identify with their p. group – y rhai sy'n cadw at eu tebyg; **p. group organisations** – cyrff tebyg (iddynt (hwy eu hunain))

peer-reviewed – wedi'i (h)adolygu/wedi'u hadolygu gan gyfoedion/gydweithwyr/gydysgolheigion/gydfyfyrwyr

to peg: to p. the number of ... – cadw nifer y(r) ... yr un fath/fel y mae/fel yr oedd

pen: before putting p. to paper – cyn dechrau ysgrifennu/llunio(r) (cais/traethawd/llith/llythyr ...)

to penalise: candidates will be p.-ed if they fail to ... – bydd ymgeiswyr yn colli marciau os methant â/ag...

penalty: it will incur a grave p. – caiff ei gosbi'n llym, fe'i cosbir yn llym

pending – nes/tan; (fel ans.) ar y gweill; **p. the outcome of the meeting** – tan/nes y ceir gwybod (beth yw) canlyniad y cyfarfod, tan y cawn ni wybod (beth yw) canlyniad y cyfarfod, tan i ni gael gwybod (beth yw) canlyniad y cyfarfod; tan i ganlyniad y cyfarfod fod yn hysbys

penetrating – treiddgar

penetration: to secure greater p. of the awareness of the Centre within each institution – sicrhau bod pob sefydliad yn fwy ymwybodol o fodolaeth y Ganolfan

pen-friend – ffrind post

pen-portrait – argrafflun, disgrifiad cryno

penny: p. numbers – nifer fach, niferoedd bach, llond dwrn, dyrnaid; **it won't cost you a p.** – fe'i cewch (ef/hi) yn rhad ac am ddim

per: p. se – fel y cyfryw; **p. person** – y pen; **as p. timetable** – yn unol â'r amserlen

to perceive: the success of ... (as p.-ed by secondary staff) – llwyddiant/pa mor llwyddiannus yw/oedd/fydd/fu ... (ym marn (y) staff uwchradd)

perceived: p. benefit – mantais amlwg

percentage: p. change – y newid yn y ganran

perceptible: this has no p. relevance to ... – nid yw hyn yn/hynny'n amlwg berthnasol i ///, nid yw'n amlwg bod hyn yn/hynny'n berthnasol i ...

perception: there is a false p. that ... – tybir/fe dybir ar gam fod/mai/y(r) ...; **your p. of your ability to ...** – eich barn am eich gallu i ..., y darlun/yr argraff sydd gennych o'ch gallu i ...

perennial: p. problems – problemau oesol

perennially: p. popular – cyson boblogaidd, bob amser yn boblogaidd

perfect – i'r dim; **to make oneself/itself more p.** – ymberffeithio

perfectly: p. reasonable – cwbl/hollol resymol; **to be p. right** – bod yn llygaid eu lle

perforation – tyllau mân

to perform: (= to do well) gwneud yn dda; **to p. well in ...** – cael hwyl dda ar ...; **to p. as an effective ...** – gweithredu fel/bod yn ... effeithiol; **applicants are required to p. certain skills** – mae gofyn/mae'n ofynnol i ymgeisywr ddefnyddio/arfer rhai sgiliau/roi rhai sgiliau (peneodol) ar waith; **others are p.-ing competitively in the sector** – mae eraill yn cystadlu'n frwd yn y sector

performance: to put on a repeat p. – gwneud hynny eto, gwneud yr un peth eto

performativity – perfformedd *eg (gw. welsh-termau-cymraeg, 19.03.07)*

performing: the best p. pupil – y disgybl sy'n gwneud orau/sy'n trechu pob un arall/sy'n rhagori ar bob un arall

perfunctory – diofal; **they received p. attention** – ni chawsant fawr o sylw, prin oedd y sylw a gawsant

perhaps: p. you would be so kind as to ...? – tybed a fydddech chiystal â/ag ...?

peril: we neglect them at our p. – peth peryglus yw/fyddai eu hesgeuluso; **this is information (that/which) you ignore at your p.** – dyma wybodaeth y tâl/talai (hi) i chi beidio â'i hanwybyddu *neu* peidiwch, da chi, ag anwybyddu'r wybodaeth hon(no)

perimetric – perimetrig (*ans*) [Optometreg]

perimetry – perimetreg (*eb*) [Meddygaeth]

perioperative – amlawdriniaethol (*ans*) [Meddygaeth]

period: for a considerable p. (of time) – am/ers cryn amser; **within a short p. (of time)** – yn fuan; **for a p. exceeding one year** – am fwy na blwyddyn; **it's a p. piece** – mae'n ddarn sy'n perthyn i/i'w gyfnod

periodic – achlysurol

periodically – o bryd i'w gilydd

permanent: to make this p. – gwneud hwn/hyn yn drefniant parhaol

to permeate: they p. all subjects – maent yn codi ym mhob pwnc

to permit – bod yn fodd i; **if time p.-s** – os oes/bydd (digon o) amser

permissible: it is p. to use more than one source – cewch ddefnyddio mwy nag un ffynhonnell

permitting: time p. – os oes/bydd (digon o) amser

perpetual: they are not a p. source of funds – nid ydynt yn bwl diwaelod/ffynhonnell ddiwaelod o arian, nid pwl diwaelod/ffynhonnell ddiwaelod o arian mohonynt

to persist: the arrangement p.-s – cedwir at y drefn; **this kind of thinking p.-s** – ceir y meddylfryd hwn o hyd

persistent – cyson; **be prepared to be p.** – byddwch yn barod i ddyfalbarhau; **p. hopelessness** – teimlo'n gyson anobeithiol

person: per p. – y pen

to personalise – rhoi gwedd bersonol ar

personally: it was opened by the headmaster p. – fe'i hgorwyd gan y prifathro ei hun

perspective: a wider p. – ehangach gorwelion

persuasive: p. arguments – dadleuon cryf (iawn/dros ben); **their arguments are p.** – mae eu dadleuon yn darbwyllo'n effeithiol, mae eu dadleuon yn tueddu i argyhoeddi dyn/rhywun

to pertain: the same situation p.-s to ... – ceir yr un sefyllfa ym maes/o ran ..., yr un yw'r sefyllfa o ran ...

pertaining: p. to ... – ynghlân â/ag ..., ynghylch ...; **the conditions p. to their introduction** – amodau eu cyflwyno

perusal: p. of ... suggests that ... – o edrych ar/fwrw golwg dros/ddarlenn ..., ceir yr argraff bod/mai ...

to pervade: they p. all parts of ... – maent i'w gweld ym mhob rhan o ...

pervasive – ymledol (?)

petrified – wedi eu dychryn yn llwyr, yn ofn/ddychryn i gyd

petty – holli blew; **p. point-scoring against the Government** – tynnu blew o drwyn y Llywodraeth
pharmacodynamics – ffarmacodynnameg (*eb*)
pharmacoeconomics – ffarmacoeconomeg (*eb*) [Fferylliaeth]
pharmacokinetics – ffarmacocineteg (*eb*) [Fferylliaeth]
pharmaco-vigilance – ffarmacowyliadwriaeth (*eb*) [Fferylliaeth]
pharmo-vigilance – ffarmowyliadwriaeth (*eb*) [Meddygaeth]
pharology (*the study of lighthouses*) – ffaroleg
phase: to be in p. with – cyd-fynd â/ag, mynd law yn llaw â/ag
to phase – amseru; **to p. out** – diddymu'n raddol; **to p. in** – cyflwyno ... yn raddol/gan bwyll/dros gyfnod/o dipyn i beth
phased: a p. programme – rhaglen a gyflwynir/weithredir *neu* a gaiff ei chyflwyno/gweithredu *neu* sydd wedi'i chyflwyno/gweithredu *neu* a gyflwynwyd/weithredwyd dros gyfnod/fesul cam
phenomenon – peth
photobiology – ffotobioleg (*eb*) [Meddygaeth]
photocall – cyfle i dynnu lluniau/ffotograffau
photodermatology – ffotodermatoleg (*eb*) [Meddygaeth]
photodermatoses – ffotodermatosau (*ell*) [Meddygaeth]
photoinducible – ffoto-ysgogol (*ans*) [Optometreg]
photomedicine – ffotofeddygaeth (*eb*) [Meddygaeth]
photonic – ffotonig (*ans*) [Ffiseg a Seryddiaeth]
phototherapy – ffototherapi (*eg*) [Meddygaeth]
phraseology – ymadroddi
physical: p. strength – nerth bôn braich; **the p. environment (of the office)** – amgylchedd y swyddfa [*gw. w-t-c, 26.08.02*]; **keep them free from p. damage** – cadwch hwy rhag difrod/rhag cael eu difrodi
physically – yn y fan a'r lle; **they were p. and emotionally/mentally drained** – yr oeddent wedi blino/ymlâdd, gorff ac enaid
to pick: the effects of light and shadow can help to p. out the shapes of the remains with clarity – gall effeithiau cysgod a goleuni helpu i amlygu siapiau'r olion yn glir; **this can just be p.-ed out on the photograph** – gellir gweld/gallwch (*chi*) weld hwn/hon/hyn drwy graffu ar y llun/ffotograff; **to p. their brains** – eu holi (*nhw*)'n fanwl/dwll, manteisio ar eu gwybodaeth/eu holl wybodaeth/ar ffrwyth eu profiad a'u gwybodaeth, gofyn am eu syniadau; **to p. up the tab** – talu'r pris/gost, talu am y(r) ...
pictorial – darluniadol
pictorially: to communicate p. – cyfathrebu drwy (gyfrwng l)luniau/mewn lluniau
picture: to get the p. – deall
pictured: p. left is ... – yn y llun/darlun ar y chwith mae/gwelir/fe welir/fe welwch (*chi*) ...
picturesque – hardd, hyfryd, dymunol (*iawn*)
pie: p. in the sky – breuddwyd gwrach (wrth ei hewyllys) (?), siarad gwag
piece: to say their p. – dweud eu dweud; **to be of a p. with ...** – cyd-fynd â/ag ...; **to tear it to p.-s** – ei dorri/dynnu'n gareiau; **in p.-s** – yn deilchion; **to give ... a p. of one's mind** – ei dweud hi wrth ..., rhoi llong pen i ...; **he arrived in one p.** – cyrhaeddodd yn ddianaf/yn iach ei groen/yn holliach; **a p. of information** – gwybodaeth, pwt/ychydig o wybodaeth
pigeonholes – blychau gohebiaeth (*Prifysgol Cymru, Aberystwyth*)
piggybacking – arlwytho
pikestaff: as clear/plain as a p. – mor glir â hoel ar bost
pillar: the twin p. of our belief – dwy garreg sylfaen ein cred(o)daliadau
to pin: to p. back their ears – moeli eu clustiau; **to p. down** – disgrifio ... yn union, crisialu, diffinio
pinch: it is wise to take this information with a p. of salt – peth doeth yw amau'r wybodaeth honno; **to feel the p. more painfully than ...** – teimlo'r boen yn fwy na(g) ...
to pinch: I have to p. myself that ... – rwy'n/dwi'n dal i'w chael hi'n anodd credu fy mod i'n ...
to pinpoint – darganfod union ..., nodi union leoliad ..., dweud sut/ble/pam yn union ..., amlygu, tynnu sylw (at y fan/y manna); **it's impossible to p. with any accuracy the ...** – mae'n amhosibl/does dim modd manylu('n gywir/union) ar (y(r)) ...; **can you p. the origins of your new methods?** – (a) allwch (*chi*) fanylu ar darddiad eich dulliau newydd?
pinprick – twll bach bach; **p.-s** – tyllau mân
to pioneer – bod ar flaen y gad; **to p. the use of ...** – torri tir newydd drwy ddefnyddio ...
pipeline: in the p. – ar y gweill
piss-up: they couldn't organise a p. in a brewery – allen nhw ddim trefnu'r peth symlaf/mwyaf elfennol, does dim siâp o gwbl arnyn nhw
pitch: up to p. – cywir eu cywair
pitfall: the p.-s they encountered – y problemau a gawsant
pity: what a p.! – hen dro!
pivotal – allweddol; **to be p. to** – bod yn hanfodol bwysig i

place: in **p.** – ar waith; **the money is in p.** – mae'r arian yno/ar gael (yn barod); **they have a strategy in p. to ...** – mae ganddynt strategaeth (, sy'n barod i'w gweithredu,) i ..., maent wedi llunio strategaeth (,sy'n barod i'w gweithredu,) i ...; **to be out of p. in** – bod yn (gwbl/hollol) anghydnaws â/ag ...; **to be all over the p.** (*condemnatory*) – ar chwâl/wasgar, ar draws ac ar hyd; **p. of worship** – addoldy; **the department is a p. where students can study ...** – mae'r adran yn yn lle gall (y) myfyrwyr astudio ...; **out of p.** – amhriodol, anaddas, annifyr, anghydnaws

to place – nodi; **if ... really has the value outside bodies p. (up)on it** – os yw ... mor werthfawr ag y dywed/ tybia/cred cyrff allanol ...; **to p. on record** – cofnodi

placed: **to be well p. to** – bod mewn sefyllfa dda i

placement – lleoliad, dosbarthu

to investigate: **they are i-ing whether this can be done** – maent yn/wrthi'n ymchwilio i weld a oes modd/a ellir/a yw'n bosibl gwneud hyn(ny)

to plague – bod yn bla ar ...

plan: **there are no p.-s for ...** – nid oes ... ar y gweill; **to go according to p.** – mynd yn iawn

planful – cynllungar

plank: **another major p. of the legislation is ...** – rhan bwysig arall o'r elfen bwysig arall yn y ddeddfwriaeth yw ...

plan: **there are p.-s to ...** -- bwriedir ...

planned – trefnus; **being p.** – ar y gweill; **to help them in the p. development of their business** – eu helpu i gynllunio datblygiad eu busnes

planning: **to be at the p. stage** – bod ar y gweill

plasmid – plasmid (*eg*) [Fferylliaeth]

plate: **they have too many things on their p.** – mae ganddynt ormod o heyrn yn y tân

to plateau – aros yn ei unfan/ei hunfan/eu hufan, heb wella (a heb ddirywio), (cyflwr heb fod d)dim gwell na gwaeth

platform: **a p. on which to build** – sylfaen i adeiladu arni; **computer p.** – llwyfan cyfrifiadur (*Mary Wiliam, MEU*)

play: **p. house** – tŷ bach twt; **work and p.** – gwaith a hamdden; **the present state of p.** – y sefyllfa (fel y mae (hi)ar hyn o bryd, y sefyllfa sydd ohoni; **this is where the strategy comes into p.** – dyma lle mae'r strategaeth yn (dechrau) magu pwysigrwydd, dyma lle y gweithredir y strategaeth/lle y dechreu'r gweithredu'r strategaeth, dyma lle mae'r strategaeth yn (dechrau) dangos ei dannedd, dyma lle y rhoir y/y dechreu'r rhoi'r strategaeth ar waith

to play: **they have a part to p.** – mae iddynt eu rhan; **to p. down** – rhoi llai o bwys ar; **to p. to the strengths of ...** – elwa/manteisio ar gryfderau ...

player: **to become a leading p. in the market** – dod yn/datblygu'n rym/gystadleuydd blaenllaw/un o'r prif gystadleuwyr yn y farchnad; **a leading p.** – ceffyl blaen; **to be a key p. in** – bod yn allweddol yn/mewn

playing: **to secure a level p. field** – sicrhau bod yr amodau yr un fath i bawb (*w-t-c, 29.10.02*), sicrhau'r un amodau i bawb, sicrhau maes cystadlu gwastad/teg

playlet – dramodig

pleasant: **it was most/very p. to see her** – pleser o'r mwyaf oedd ei gweld hi

pleasantly: **they were p. surprised** – cawsant eu siomi ar yr ochr orau

to please: **p. ask** – gofynnwch; **p. ...** – cofiwch ... *neu* byddwchystal â ... *neu* a fydddech chiystal â ...; **p. find enclosed ...** – amgaeaf ...; **before you register, p. find out more about ...** – cyn cofrestru/i chi gofrestru, ewch ati i ddarganfod rhagor am ...

pleased: **they are very p.** – maent uwchben eu digon; **they are very p. with ...** – maent yn fodlon iawn ar ...

pleasing – difyr, braf, boddhaol; **it is p. to ...** – pleser/da (o beth) yw(/)gweld ...

pleasure: **to request the p. of your company** – eich gwahodd; **it was a very great p. to see her** – pleser o'r mwyaf oedd ei gweld hi

to pledge: **the company has p.-ed £90,000 to ...** – mae'r cwmni wedi addo rhoi £90,000 i ...

plenary – llawn

plentiful – digon o

plenty: **to have p.** – bod uwchben eu digon; **p. of ...** – hen ddigon o ...

plethora: **a p. of ...** – myrdd o ..., llu o ..., peth wmbredd o ..., ... rif y gwllith, llond gwlad o ..., amryw byd o ...; **a p. of activity** – bwrllwm o weithgarwch; **a p. of advice** – digonedd o gyngor

plight – sefyllfa

to plot: **to p. a course through problems** – llywio cwrs/llwybr/ffordd drwy broblemau, penderfynu ar ffordd o ymdrin/ymgodymu â phroblemau

ploy – ystryw; **this may have been a deliberate p. to counteract this problem** – efallai iddo fod/i hyn(ny) fod yn gam (a gymerwyd) i leddfu'r broblem (hon), efallai i'r cam hwnnw gael ei gymryd i leddfu'r broblem (hon)

to plummet – gostwng yn fawr/sydyn (iawn)/arw/syfrdanol/aruthrol/dychrynlyd/enbyd, gostwng llawr iawn (iawn); **its support (= the support for it) p.-ted** – bu/gwelwyd gostyngiad mawr/sydyn (iawn)/garw/syfrdanol/aruthrol/dychrynlyd/enbyd yn y gefnogaeth iddo/iddi

plurality: **the p. of views** – y llu safbwyntiau

plus – ynghyd â/ag, a(c), hefyd, a hefyd; **Jobcentre P.** – Canolfan Byd Gwaith

pocket: we have choices for/to suit every p. – mae gennym ddewisiadau y gall pawb eu fforddio (?)

poetism – barddiaeth (?)

point: the p. has been made that ... – dywedwyd eisoes fod/mai/y(r) ...; **to the p. where ...** – i'r graddau/i gymaint graddau nes (bod) ...; **to deteriorate to the p. that ...** – dirywio cymaint/i'r graddau/i gymaint graddau/nas ...; **at this p. (in time)** – yma, yn awr, yn y fan hon, ar hyn o bryd, dyma pryd y/lle'r; **the school in p.** – yr ysgol dan sylw; **this may be a case in p.** – gall hyn fod yn enghraifft (o hynny); **up to this p.** – hyd yn hyn, hyd/tan hynny; **up to that p.** – hyd at/tan yr adeg hon(no); **to make a p. of ...** – bwrw/mynd ati('n benodol/ arbennig/unsydd) i ..., gwneud rhywbeth o fwriad/yn fwriadol; **they make a p. of ...** – o fwriad, maent/ byddant yn ...; **to the p.** – perthnasol, i bwrpas, diwastraff; **to give additional p. to ...** – ychwanegu at bwrpas ...; **at the p. at which the document is issued** – adeg cyhoeddi'r ddogfen; **at the p. of death** – ar fin trigo; **at what p.?** – pryd?; **from this p. on** – o hyn(ny) ymlaen; **what is the p. of ...?** – pa bwrpas/ddiben sydd i/mewn ...?; **to see the p.** – ei gweld hi; **a focal p.** – man amlwg; **to refuse to do something p. blank/to refuse p. blank to do something** – pallu'n deg/gwrthod yn llwyr/lân â gwneud rhywbeth; **make your tutor your first p. of contact** – trowch at eich tiwtor yn gyntaf; **your first p. of contact should be...** – dylech gysylltu'n gyntaf â/ag ...; **to stray from the p.** – colli'r trywydd, codi sgwarnog; **make a p. of mentioning the benefits** – cyfeiriwch yn bendol at y manteision, soniawch yn benodol am y manteision, cofiwch sôn (, da chi,) am y manteision; **at any p.** – ar unrhyw adeg, unrhyw bryd; **the p. at which ...** – yr adeg (pryd) y(r) ...; **to be a talking p.** – bod yn destun siarad; **at some p.** – r(h)ywbryd; **at the half(-)way p. in their journey** – hanner (y) ffordd drwy eu taith; **at various p.-s in the text** – hwnt ac yma yn y testun; **petty p.-scoring against the Government** – tynnu blew o drwyn y Llywodraeth; **this could be a big selling p. in attracting visitors to Wales** – gallai hwn/hyn fod yn elfen bwysig/o bwys mawr/fod yn ddefnyddiol iawn/fod yn atyniadol iawn/fod yn atyniad mawr wrth ddenu ymwelwyr i Gymru; **as a final p.** – i gloi; **at no p. is there any attempt to ...** – ni wneir/nid oes ymgais yn unman/yn y byd/o gwbl i ..., ni cheisir ... o gwbl; **concise to the p. of brevity** – mor gryno/fachog nes bod yn fyr/gwta/swta

to point: to p. out – nodi, cyfeirio at y ffaith, dweud; **to p. to the need** – amlygu'r angen; **to p. to ...** – cyfeirio at ..., tynnu sylw at ...; **this p.-s to their being ...** – mae hyn yn awgrymu('n gryf) eu bod yn ...; **with the report p.-ing to an upturn being unlikely** – a dywed yr adroddiad nad oes fawr o argoel o gynnydd/y bydd cynnydd/y gwelir cynnydd; **this booklet is designed to p. you in the right direction** – cynlluniwyd i'r llyfryn hwn fod yn ganllaw i chi

pointed: a p. remark – sylw deifiol

pointer: a few p.-s about ... – ambell air i gall ynghylch ...

pointless – di-fudd

poise – urddas

polar: p. opposites – gwrthwyneb llwyr i'w gilydd, gwrthgyferbyniad llwyr i'w gilydd, yn gwbl wahanol, mor wahanol ag y gallant fod/y gall ddau beth fod, yn gwbl groes i'w gilydd

pole-axing: a p. effect – effaith (gwbl) loriol

polemicist: the great p. for/for not ... – y gwr/dyn/wraig/yr un a ddadleuodd gyda'r fath angerdd/argyhoeddiad/ gyda chymaint o argyhoeddiad o blaid/yn erbyn ...

to police – cadw llygad ar

polished – graenus

political: a p. football – cocyn hitio

politically: p. correct – eithafol gywir (*cyynnig Gerallt Lloyd Owen*)

to politicise: to p. Wales – troi Cymru'n genedl wleidyddol ei naw

poltruded – mewnwthiedig (*y gwrthwyneb i 'extruded'*) (*ans*) [Peirianeg]

polymyalgia – polymyalgia (*eg*) [Meddygaeth]

to ponder – dyfalu, pendroni

to pool – cyd-grynhoi; **to p. ideas** – rhannu syniadau; **to p. resources** – cyfuno adnoddau

poor: the p. man – y dyn druan; **... was the p. relation in comparison to ...** – digon prin fu'r sylw a'r adnoddau a roddwyd i ... o'i gymharu â/ag/â'r; **those with p. concentration** – y rhai/rheiny sy'n methu â chanolbwyntio'n gyson/rhyw lawer; **p. you!** – druan â ti; **their French is (very) p.** – mae eu Ffrangeg yn goch

poorly: p. matched to ... – ymhell o fod yn gymesur â/ag ...; **this reflects p. on ...** – nid yw hyn yn fawr o glod i ...

poorly-motivated – prin o/ei gymhellriad

pooter – potel sugno (â dau diwb)

to pop: to p. over – bwrw draw

pop-up: p. books – llyfrau codi (?)

popular: ... is p. – mae mynd mawr ar ...; **back by p. demand** – yn ôl/unwaith eto – ar gais y miloedd/y bobl, ar gais y cyhoedd (*Annes Gruffydd, welsh-termau-cymraeg, 13.06.03*); **due to p. demand** – am/gan fod cymaint o alw/gan gymaint y galw, mae/yr oedd/bu/cafwyd cymaint o alw (amdano/amdani/amdanynt)/cymaint o fynd arno/arni/arnynt nes ...

port: make your tutor your first p. of call – trowch at eich tiwtor yn gyntaf; **your first p. of call should be the special helpline** – dylech fynd ati'n gyntaf i ffonio'r llinell gymorth arbennig

portfolio: a p. of courses – casgliad/rhaglen/amrywiaeth o gysiau

portion – darn

portmanteau: a p. of new careers – cruglwyth o yrfaoedd newydd; **a p. word** – gair eang (ei ystyr)

to portray: do we p. a professional image? – a ydym ni'n cyfleu delwedd broffesiynol?

to pose: to p. a problem – cynnig/peri/achosi/codi problem, bod yn broblem; **to p. questions** – codi cwestiynau, holi; **the dangers p. ed by the proliferation of nuclear arms** – y peryglon sy'n codi yn sgil amlhau arfau niwclear; **to p. an obstacle/a challenge** – bod yn rhwystr/yn her/sialens; **the risk they p.** – y peryglon a all godi/ sydd ynghlwm wrth ... (*Ann Corkett, welsh-termau-cymraeg, 23.10.07*), y risg sy'n codi yn eu sgil (*Tim Saunders, welsh-termau-cymraeg, 23.10.07*), y risg a ddaw yn eu sgil, y risg y maent yn ei chreu/yn esgor arni

position: they are in a p. to go – mae modd iddynt fynd, mae'n bosibl iddynt fynd; **to put into p.** – rhoi ... i'w/yn ei le; **a p. paper** – papur safbwynt (*Cyngor Cwricwlwm Cymru*); **it starts from the p. that ...** – ei fan/ei man cychwyn yw ..., man cychwyn ei (d)dadl yw ...

positive: a p. effort – ymdrech o ddifrif (calon); **to have a p. effect on their confidence** – rhoi hwb i'w hyder; **to have a p. attitude towards ...** – ymagweddu'n gadarnhaol (tuag) at ...; **a huge p.** – peth/cam/datblygiad cadarnhaol dros ben, sefyllfa gadarnhaol dros ben

positively: the university p. welcomes applications from ... – mae'r brifysgol yn croesawu'n gynnes geisiadau gan/oddi wrth ...; **they p. welcome visitors** – maent wrth eu bodd yn croesawu ymwelwyr; **behaviour which p. or negatively affects the pupil's progress** – ymddygiad sy'n effeithio er gwell neu er gwaeth ar gynnydd y disgybl; **we p. encourage ...** – yr ydym yn hybu ... yn frwd, yr ydym yn frwd o blaid ...

to possess – bod â/ag ...; **the features they should p. include ...** – mae'r nodweddion a ddylai berthyn iddynt yn cynnwys ...

possibility: to allow for the p. of ... – rhag ofn y ceir/bydd/daw ...

possible: made p. by – oherwydd ...; **this has been made p. by ...** – mae hwn/hyn yn bosibl oherwydd bod/mai/y(r)/ am fod/mai/y(r) ... neu oherwydd + (berf)enw; **to reduce such occurrences to the lowest p. level** – cwtogi hyd yr eithaf ar ddigwyddiadau o'r fath; **with the p. exception of ...** – ac eithrio, efallai/hwyrach/o bosibl, ...; **if it has not been/proved p. to ...** – os na lwyddwyd i ...

possibly: I couldn't p. – allwn i byth (â)

to post: the details will be p.-ed on the noticeboard – bydd y manylion (i'w gweld) ar yr hysbysfwrdd, caiff y manylion eu rhoi/dangos/gosod ar yr hysbysfwrdd, cewch y manylion ar yr hysbysfwrdd, fe welwch chi'r manylion ar yr hysbysfwrdd

posterity – yr oesoedd a ddêl

post-experience – ôl-brofiad, ar ôl magu profiad

potent – cryf; **this is a p. reminder to us of ...** -- mae hyn yn/hynny'n ein hatgoffa ni'n glir (iawn) o ...

potential: the p. exists for – mae modd cael; **to attain their p.** – gwireddu eu potensial; **the programme recorded the structures before the p. for enemy action** – cofnododd y rhaglen yr adeiladweithiau cyn i'r gelyn gael cyfle i'w dinistrio

potentially: a p. large contribution to ... – cyfraniad – (un) mawr, efallai – at/i ...

poverty: to avoid p. of expectation – osgoi peidio â disgwyl digon, osgoi disgwyl rhy ychydig

power: p. struggle – ymgiprys am rym/oruchafiaeth

to power: to p. the service – i weithio'r gwasanaeth [*yn hytrach na'i redeg*]

powerful: a p. force – grym mawr/aruthrol/enbyd/dychrynlyd

practical: to turn your ideas into p. reality – gwireddu'ch syniadau; **this/that is not/isn't a p. proposition** – nid yw hynny'n ymarferol bosibl, nid oes modd gwneud hynny, elli di/all ef/all hi/allwn ni/allwch chi/allan nhw ddim (â) gwneud hynny

practicality: p.-ies – camau/ystyriaethau ymarferol

practically: to be p. impossible – bron â bod yn (gwbl) amhosibl/anymarferol; **to work for p. nothing** – gweithio am y nesaf peth i ddim, gweithio heb gael fawr ddim tâl/fawr o dâl (o gwbl), gweithio bron yn gwbl ddi-dâl

practice: good p. – arferion da; **in p.** – mewn gwirionedd; **the p. of workers being expected to** – bod disgwyl i'r gweithwyr; **to put into p.** – gweithredu; **this is the p.** – dyma/dyna a wneir; **in primary p.** – yn y maes cynradd; **(the) normal p.** – y drefn arferol

to practise: this was widely p.-ed – yr oedd hyn yn/hynny'n arfer/beth digon cyffredin

practising: p. teachers – athrawon wrth eu gwaith

to pray: let us p. (together) – cydweddiwn

pre- : the p.-White Paper situation – y sefyllfa cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn

precarious – yn y fantol

pre-cancer – cyn-ganser (*ans*) [*Meddygaeth*]

precaution: strict p.-s – camau trylwyr/trwyadl; **use the same p.-s if/when ...** – dilynwch yr un drefn/byddwch yr un mor ofalus os/wrth/pan ...

to precede: a lecture p.-ed by a dinner – darlith ar ôl cinio

precedence: for A to take p. over B – i B ddod o flaen A, i A fod yn bwysicach na B; **the provisions of A take p. over B** – mae darpariaethau A yn drech na B

precious: your time is p. – mae'ch amser yn brin; **we have seen p. few improvements** – prin ryfeddol/i'w ryfeddu yw'r gwelliannau yr ydym (ni) wedi'u gweld

precise – pendant; **p. details** – manylion llawn/perthnasol, holl fanylion; **at that p. moment** – (ac) ar y gair

precisely – i'r dim

precision: to measure with p. – mesur (yr) union; **p. teaching** – addysgu manwl gywir ("*to concentrate teaching efforts on a sub-skill that has been identified as an important learning need for the child*")

to preclude – gwahardd, peidio â chaniatáu, ddim yn caniatáu; **unless the nature of the ... p.-es this** – onid yw natur y(r) ... yn golygu na ellir/nad oes modd gwneud hyn(ny); **to p. the need** – diystyru'r posibilrwydd bod/y bydd angen

precondition: A is a p. of B – cyn cael B, rhaid wrth/cael A

preconditioned – rhagamodedig (*ans*) [Mathemateg]

precursor – rhagarweiniad; **Dyfed or its p. counties** – Dyfed neu'r siroedd a'i rhagflaenodd/blaenorodd; **an essential p. to** – cam hanfodol cyn; **as a p. to** – cyn bwrw/mynd ati i

to predate: this p.-ed advances in medical treatment – a hynny cyn dyddiau'r datblygiadau mewn triniaethau meddygol, digwyddodd hyn(ny) cyn i driniaethau meddygol ddatblygu/gael eu datblygu, cyn oes y datblygu (a fu) ar driniaethau meddygol, digwyddodd hyn(ny) cyn dyfodiad y datblygiadau mewn triniaethau meddygol

predetermined – rhagbenodedig, y penderfynwyd arno/arni/arnynt ymlaen llaw

predicament – picil

to predicate: to be p.-ed on – bod yn seiliedig ar ...

predictable: monotonous and p. exercises – ymarferion undonog a di-sbonc

predictably – wrth gwrs, wrth reswm

prediction: group p. – rhagfynegi mewn grwpiau

predilection – dymuniad

predisposition: to develop a p. to(wards) – ymserchu/ymhoffi (mwyfwy/mwy a mwy) yn/mewn, ymagweddu mwyfwy at, ymagweddu'n fwyfwy ffafriol at, rhywbeth yn apelio (mwy a mwy) at/yn cydio (mwy a mwy) yn/mewn, coleddu mwy a mwy ar, gafael rhywbeth yn fwyfwy tynn, magu, â thuedd i fagu, a thuedd/yn tueddu i fagu ... ynddo/ynddi/ynddynt, â thuedd/yn tueddu i fod yn hoff/debyg o

predominance – trwch; **given the p. of small businesses** – o gofio mai busnesau bach a geir amlaf, gan mai busnesau bach a geir amlaf

to predominate – a wneir/geir/welir (gan) amlaf/gan mwyaf, bod mewn bri, tra-arglwyddiaethu, cael y lle blaenaf

predominantly – ran amlaf

pre-eminence: to have p. – bod yn fwyaf blaenllaw

pre-eminent: p. importance – pwysigrwydd hanfodol

to pre-empt – bod yn drech na

to preface – crynhoi mewn rhagymadrodd (byr) *neu* ar/wrth ddechrau ... (ceir/nodir) *neu* ar/wrth ddechrau ei sylwadau, dywedodd

to prefer: to p. charges – dod â chyhuddiadau/dwyn achos yn erbyn

preferable: to be p. to – rhagori ar; **it is p. to try to ...** – y drefn orau/y cam gorau/y peth gorau yw ..., trefn well/ cam gwell yw ...

preferably: or p. ... – neu, yn well byth/fyth, ...

preference: if your p. is for ... – os yw/byddai'n well gennych (weld ...); **in p. to** – yn lle; **the council would not express any p.(-s)** – ni fyddai'r cyngor yn mynegi dymuniad y naill ffordd na'r llall; **to reflect student p.** – parchu dymuniadau'r myfyriwr/myfyrwyr; **their language of p.** – eu dewis iaith; **to give p. to ...** – rhoi blaenoriaeth/rhoi'r flaenoriaeth i ...

preferred: p. time of student arrival – yr amser y dymunir i'r myfyriwr/myfyrwyr gyrraedd; **p. time of student arrival?** – pryd y dymunir i'r myfyriwr/myfyrwyr gyrraedd

to prejudice – amharu/cyfyngu ar; **do not p. your safety** – peidiwch â pheryglu'ch diogelwch, peidiwch â rhoi'ch diogelwch yn y fantol; **to p. the use of ...** – amharu ar ddefnyddio ...

prejudicial: p. to – (yn) amharu ar

prelude: as a p. to – cyn bwrw/mynd ati i

premalignant – cyn-falaen (*ans*) [Meddygaeth]

to premise: to be p.-ed on – (bod) wedi'u seilio ar

premises: we could arrange for a representative to call at your p. – gallem drefnu i gynrychiolydd alw heibio (i chi)

premium: a p. service – gwasanaeth o'r radd flaenaf, gwasanaeth arbennig (iawn); **these skills are at a p.** – mae galw (mawr) am y medrau/sgiliau hyn(ny), mae'r medrau/sgiliau hyn(ny) yn bwysig iawn; **to put a p. on ...** – rhoi pwys ar ...

preoccupation: a p. with ... – rhoi sylw gormodol/gormod o sylw i ..., meddwl gormod am ...; **a major p.** – peth/rhywbeth/maes/mater sy'n cael sylw mawr/helaeth/llawer o sylw; **this was a major p.** – rhoddid/ rhoddwyd sylw mawr i hyn(ny); **the children's p.-s** – yr hyn sy'n bwysig/o ddiddordeb i'r plant; **their p. with science** – eu diddordeb ysol mewn gwyddoniaeth

preoccupied: they are p. with ... – ... sy'n mynd â'u bryd/(holl) sylw

to preoccupy: they were p.-ied with ... – yr oeddent â'u meddwl ar ..., yr oedd eu meddyliau ymhell (i ffwrdd); **they are p.-ied with ...** – ... sy'n mynd â'u bryd/(holl) sylw

preparation – arlwy; **in p. for the survey** – cyn ymgymryd â'r/gwneud yr arolwg; **the p.-s for** – y paratoi ar gyfer

to prepare – llunio; **to p. the ground** – braenaru'r tir; **being p.-ed** – ar y gweill

preponderance: a p. of – llu/toeth o

preponderant – llywodraethol

prerequisite – rheidrwydd, i/cyn ... rhaid ...; **p.-s** – rhagofynion (?); **a p. for the job** – un o ofynion allweddol/ hanfodol y swydd *neu* i gael y swydd, rhaid bod gennych/rhaid i chi fod/rhaid bod wedi cael ...

presence: to have the p. of mind to ... – meddwl yn ddigon cyflym/call i ..., bod ddigon o gwmpas eu pethau i ...; **to establish a major p. in ...** – ennill/sicrhau lle blaenllaw (iddynt eu hunain) yn/mewn ...

present: (from (both) the) past and (the) p. – ddoe a heddiw; **no better time than the p. to ...** – mae hwn cystal amser/adeig â dim/â'r un i ...; **this p. exercise** – yr ymarfer hwn

to present: to p. problems – achosi problemau; **p.-ing ...** – dyma (gyflwyno (i chi) ...); **if you are p.-ed with a variety of scenarios-** os caiff amrywiaeth o sefyllfaoedd eu cyflwyno i chi/i'ch sylw; **they often p. a bowed and bent appearance** – fe'u gwelir yn aml wedi camu a phlygu

present-day – heddiw; **in the p. education system** – yn y gyfundrefn addysg sydd ohoni; **today(,) archaeologists realise that the p. landscape needs to be recorded** – erbyn hyn, mae archaeolegwyr yn sylweddoli bod angen cofnodi tirwedd heddiw/y dirwedd sydd ohoni

presently: to be p. engaged in ... – bod wrthi'n ...

preserve: these are the p. of the able pupils – meysydd i'r disgyblion galluog (yn unig) yw'r rhain; **ability is not the p. of the privileged few** – nid eiddo'r ychydig breintiedig yn unig yw gallu, nid yw gallu yn eiddo/yn gyfyngedig/ yn perthyn i'r ychydig breintiedig yn unig, nid peth/rhywbeth sy'n perthyn i'r ychydig breintiedig yn unig yw gallu; **these are not the p. of academic study only** – nid ydynt/nid yw'r rhain yn/ rheiny'n gyfyngedig i faes astudio academiaidd yn unig; **studying abroad tends to be the p. of students from wealthier homes** – y duedd yw i fyfyrwyr o gartrefi cyfoethocach/mwy cyfoethog/mwy cefnog astudio dramor

to press: to p. ahead with ... – bwrw ymlaen â/ag ..., pwyso o blaid ...

pressed: they are already hard p. – maent eisoes (o) dan bwysau

pressing: the most p. need – yr angen pennaf; **a p. need** – dwys angen, angen mawr/mawr angen; **the most p. problem** – y broblem fwyaf uniongyrchol

pressure: to exert p. on – pwyso ar; **to bring p. to bear on** – pwyso ar; **p. pad** – pad gwasgedd (?); **p. period** – cyfnod prysur (iawn/dros ben)

to pressurise: to p. them into going – pwyso('n drwm/daer iawn (iawn)) arnynt i fynd, rhoi pwysau mawr iawn) arnynt i fynd; **don't get p.-ed into going** – peidiwch ag ildio i bwysau (mawr) i fynd

prestige – (ans) nodedig

prestigious – nodedig, arbennig

presumption: excuse my p. – maddeuwch i mi am fod mor hy, maddeuwch fy hyfdra

pretend: use chairs as 'p.' cars – defnyddiwch gadeiriau (fel petaent) yn geir

pretext: under the p. of – (o) dan gochl

pretty: p. much on the close and narrow – yn agos i'w lle; **a p. penny** – ceiniog go dda/fach nêt

to prevail – ennill y dydd, a geir; **where high prices p.** – lle ceir prisiau uchel, lle mae'r prisiau'n uchel; **a majority verdict shall p.** – derbynnir penderfyniad y mwyafrif, penderfyniad y mwyafrif a dderbynnir; **these are the considerations that/which should p.** – dyma'r ystyriaethau a ddylai fod o'r pwys pennaf, dylai'r ystyriaethau hyn(ny) fod yn drech na'r un arall/nag unrhyw ystyriaeth arall

prevailing: the p. legislation – y ddeddfwriaeth sydd mewn grym; **the p. policy** – y polisi presennol/ar y pryd; **the p. economic conditions** – (*presennol*) yr amodau economaidd sydd ar waith/i'w cael (ar hyn o bryd), (*dyfodol*) yr amodau economaidd a fydd ar waith/i'w cael (bryd hynny), (*gorffennol*) yr amodau economaidd a oedd ar waith/i'w cael (bryd hynny/ar y pryd)

prevalent: (= rampant) rhemp; the most p. approach – y dull a geir/geid amlaf

to preview: to p. a video – gwyllo fideo ymlaen llaw

previous: p. experience – profiad; **on a p. occasion** – o'r blaen; **aren't you a little bit p.?** – wyt ti/ydych chi ddim yn rhoi'r cart o flaen y ceffyl?; **in p. times** – gynt, yn yr oes o'r blaen, ddyddiau fu

previously – cyn hyn(ny), y tro(eon) cynt; **he/she p. worked** – arferai weithio; **having p. been headteachers** – ar ôl bod/iddynt fod yn brifathrawon

price: to pay a heavy p. for ... – talu'n hallt am ...

prickly – croendenau

pride: to take p. in ... – ymhyfrydu yn/mewn ...; **an ornate truss which was the p. and joy of its owner** – nenfforch gywrain yr ymfalchïai'r/ymhyfrydai'r perchennog yn fawr ynddi/y meddyliai'r perchennog y byd ohoni

to pride: to p. themselves in – ymhyfrydu yn/mewn

primacy – safle blaenllaw; **to have p.** – bod yn ben; **to afford/give p. to ...** – rhoi'r pwys pennaf ar ..., rhoi'r lle blaenaf/lle mwyaf blaenllaw i ..

primarily – yn fwy na dim; **p., they provide an opportunity to ...** – eu prif ddiben/bwrpas yw cynnig/darparu cyfle i

primary: a p. objective – blaenoriaeth
prime: a p. consideration – ystyriaeth flaenllaw; **a p. example** – enghraifft dda/ardderchog/ragorol/wych/arbennig o dda/benigamp/gampus
primitive: in p. times – yn oes yr arth a'r blaidd
principality: the P. – Cymru; **in the P. ... and in Wales ...** – yng Nghymru ... ac yma ...; **in the P. and, indeed, throughout Wales, ...** – yng Nghymru ac, yn wir, ar hyd a lled y wlad hon, ...
printmaking – gwneud printiau
prior – ymlaen llaw; **p. to the project** – cyn i'r prosiect ddechrau/gychwyn, cyn dechrau'r/cychwyn y prosiect; **p. to the site visit** – cyn ymweld â'r safle
to prioritise – blaenoriaethu
priority: to give them p. over us – rhoi mwy o flaenoriaeth iddynt hwy nag i ni
pristine: in p. condition – mewn cyflwr perffaith
private: to have p. means – bod ag arian wrth gefn, bod â digon o fodd
privately: he thought p. that ... – meddyliai'n ddistaw bach bod/mai/yr ...
to prize – mawrygu
probabilistic – tebygolrwyddol (*ans*) [Mathemateg]
probably – mae'n siŵr, siŵr o fod, mae'n/yn fwy na thebyg
problem: not p.-free – ddim yn fêl i gyd; **p.-free** – didrafferth; **the p. with this is ...** – y broblem ynghylch hyn(ny)/ynglŷn â hyn(ny) yw ...; **without any p.(-s)** – yn ddidrafferth, yn ddigon didrafferth/hwylus
problematic – (yn) achosi/peri/codi problemau; **... is more p.** – tipyn mwy o broblem yw ...
procedure: during the login p. you will receive a message – wrth fewngofnodi(,) fe gei di/fe gewch chi neges; **please follow this p.** – gwnewch hyn
to proceed – bwrw ati; **to p. to the second floor** – mynd i'r ail lawr; **to p. with** – gweithredu
proceeds: the p. of the fraud – ffirwyth y twyll(o), yr arian a ddeilliodd/gafwyd/ddaeth o'r twyll(o)
process: to be in the p. of ... – bod wrthi'n ...; **in the p.** – wrth wneud hynny; **during the p. of obtaining consent** – wrth geisio cael/sicrhau caniatâd/cydsyniad; **the whole p.** – hyn(ny) i gyd, yr holl beth
prokaryote – procaryot (*eg*) procaryotau (*fe'i bathwyd ym mis Hydref 2007 ar sail 'eukaryote = ewcaryot' yn y Termiadur*)
to procrastinate – llusgo('u) traed
to produce – llunio; **to p. an effect** – creu effaith; **they p. good work** – ceir gwaith da ganddynt; **to be p.-ed by** – sy'n deillio/tarddu o; **the process that p.-ed it** – y broses a roddodd/roes fod iddo; **this will p. a mor effective outcome** – bydd hyn yn/hynny'n sicrhau canlyniad mwy effeithiol, bydd hyn yn/hynny'n esgor ar ganlyniad mwy effeithiol, bydd hyn yn/hynny'n rhoi bod i ganlyniad mwy effeithiol, daw canlyniad mwy effeithiol o hyn, daw hyn(ny) â chanlyniad mwy effeithiol
product – ffirwyth; **to produce p.-s** – cynhyrchu nwyddau; **p.(-)orientated** – cynnyrch-gyfeiriedig, yn hoelio'u sylw/yn canolbwyntio ar y cynnyrch, yn rhoi sylw manwl/mawr i'r cynnyrch, yn dwys ystyried y cynnyrch
profile: a comprehensive p. of pupils' performance – darlun cynhwysfawr o berfformiad (y) disgyblion; **to give ... a high p.** – rhoi amlygrwydd/sylw mawr i; **pupils for whom reading has a low p.** – disgyblion nad ydynt yn rhoi pris mawr/rhyw lawer o bwys ar ddarllen; **to keep a low p.** – peidio â thynnu/osgoi tynnu sylw atynt eu hunain, cadw o'r golwg, tynnu cyn lleied o sylw â phosibl, cadw draw, cadw eu pennau i lawr; **to be on p.** – bod yn unol â'r proffil; **where a subject has a particularly high p.** – os yw pwnc yn cael llawer iawn (iawn) o sylw
profitability: our plan to return it to p. – ein cynllun i sicrhau ei fod/ei bod yn gwneud elw unwaith eto
profitable – gwneud elw, o fantais
profitably: could p. be – deilliai budd o, byddai ar ei ennill o; **to help the market grow p.** – helpu'r farchnad i dyfu a gwneud elw
profound: p. learning difficulties – anawsterau dysgu difrifol; **a p. comment** – sylw treiddgar; **to have a p. belief** – credu o ddifrif calon; **a p. effect** – effaith aruthrol; **to exercise/exert a p. effect on ...** – dylanwadu'n drwm (iawn/dros ben) ar ...; **despite its p. relevance to ...** – er ei fod/ei bod yn arbennig o berthnasol i ...; **a p. change** – newid pellgyrhaeddol
profoundly: to affect p. – effeithio cymaint ar, effeithio'n ddifawr ar; **p. deaf** – hynod fyddar, byddar iawn iawn
profusely: to bleed p. – gwaedu fel mochyn/afon; **to be sweating p.** – bod yn foddfa o chwys
prognosis: they were given a terminal p. – cawsant wybod nad oedd dim gwella i fod/nad oedd unrhyw obaith, cawsant wybod bod y dyfodol yn ddu iawn
to programme: as p.-ed – yn unol â'r rhaglen
progress: to follow someone's p. – dilyn hynt a helynt rhywun; **in p.** – ar waith, ar y gweill, a wneir, yn mynd yn eu blaen; **those making greater/faster p.** – y rhai sy'n cael y blaen arnynt; **not to make much p.** – peidio â gwneud llawer/rhyw lawer ohoni; **great p.** – camau mawr/bras; **to make (good) p.** – dwyn ffirwyth; **a p. report** – adroddiad ar gynnydd; (*arwydd*) **selection in p.** – wrthi'n dewis; **a work in p.** – gwaith sy'n mynd rhagddo
to progress: to p. an initiative – hybu/hyrrwyddo menter (*Sylvia Prys Jones, welsh-termiau-cymraeg, 18.06.08*), **to p. an objective/initiative** – datblygu amcan/menter (*Tim Saunders, welsh-termiau-cymraeg, 18?.06.08*), **to p.** – dwyn ymlaen/yn ei flaen/yn ei blaen/yn eu blaen(au) (*Annes Gruffydd, welsh-termiau-cymraeg, 18?.06.08*); **to p. to** –

symud ymlaen i/at; **as the year p.-es** – wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi/yn ei blaen; **to p. through the school** – symud/mynd drwy'r ysgol; **to p. routes to educational opportunities** – datblygu llwybrau i gyfleoedd addysgol; **to p. with a campaign** – bwrw/mynd ymlaen ag ymgyrch, ymgyrch yn mynd yn ei blaen; **to p. an idea** – datblygu (a gweithredu) syniad, symud syniad yn ei flaen; **to p. a scheme** – bwrw ymlaen â chynllun; **to p. an application** – ymdrin â chais; **to p. an initiative to ...** – gweithredu menter i ..., symud/bwrw ymlaen â menter i ...

progressively: in p. greater depth – yn ddyfnach dyfnach; **to become p. more urgent** – (gwelwyd) bod mwy a mwy o frys am ...; **to become p. more interesting** – bod yn fwy a mwy diddorol

prohibitive: p. costs – costau llethol; **the cost would be p.** – byddai'r gost yn ormod (o lawer), byddai'n rhy ddrud, byddai'n ddychrynlyd o gostus, byddai'r gost wedi bod yn drech na(g) .../wedi trechu ...; **otherwise, the problems of access would be p.** – fel arall, byddai problemau (sicrhau) mynediad yn rhwystr mawr (iawn)/yn (rhwystr) anorthrech/yn llethol/yn llethu dyn

prohibitively: p. expensive – (yn) rhy ddrud o lawer (iawn), (yn d)dychrynlyd o ddrud

to project: they need to be positively p.-ed – mae angen cyflwyno darlun cadarnhaol ohonynt

to proliferate – helaethu'n ddirfawr

proliferation: a p. of – llu o; **there has been a p. of magazines about ...** – mae cylchgronau ar/ynghylch/ynghlŷn â/ag ... wedi amlhau'n brysyr (yn ddiweddar)/wedi prysur amlhau('n ddiweddar), mae toreth/amryw byd/cant a mil/llond gwlad/llu o gylchgronau (newydd) wedi cychwyn (yn ddiweddar)/wedi codi fel madarch (yn ddiweddar)

prolific: p. and persistent offenders – troseddwy'r cyson a mynych (*Sylvia Prys Jones, welsh-termau-cymraeg, 20-08-05*), mynych a di-baid (*John Puw, welsh-termau-cymraeg, 22-08-05*), y rhai sy'n mynnu troseddu dro ar ôl tro, troseddwy'r mynych a chyson

prominence – lle blaenllaw

prominently: to feature p. in – mae i le blaenllaw yn/mewn; **this will be displayed p.** – caiff hwn ei arddangos/fe'i harddangosir mewn lle(oedd)/man(nau) amlwg

promiscuous: they are notoriously p. – maent yn ddjarhebol am lacrydd eu moesau

promise: they fulfilled their p.(-s) – buont cystal â'u gair; **to hold p.** – bod yn addawol

to promise: we do not p. the earth – nid ydym yn addo cyflawni gwyrthiau

promising – argoeli'n dda

to promote: to p. confidence in ... -- cynyddu ffydd y cyhoedd yn/mewn ...

to prompt – bod wrth wraidd; **you will be p.-ed to move forward** – cewch eich/chi'ch cyfarwyddo i symud ymlaen/yn eich blaen; **p.-ed by this change, ...** – oherwydd y newid (hwn(nw)), ...

prompting: they will need hardly any p. to – prin y bydd angen unrhyw arweiniad arnynt i/ysgogiad iddynt; **without any p.-ing from me** – heb i mi ddweud/orfod dweud dim

promptly – yn syth

prone: p. to – yn agored i; **they were seen as the group most p. to (be on) low income** – credid/ystryd mai hwy oedd y grŵp a oedd debycaf o fod ar incwm isel

prong: one p. in a strategy – un elfen mewn strategaeth

pronounced: to become more p. – bod yn fwyfwy felly

pronouncement – gosodiad

to proof: access must be f.-ed – rhaid i fynediad fod wedi'i ddiogelu/sicrhau/warantu('n bendant/gadarn) at y dyfodol (*awgrym i welsh-termau-cymraeg, 05.12.07 mewn ymateb i gais gan Huw Garan*)

proper – dyladwy

proportion: to blow things up out of all p. – gwneud môr a mynydd o bethau; **the problem was out of all p. to the official figures** – yr oedd y broblem yn fwy/helaethach/ddwysach o lawer nag a awgrymid gan y ffigurau swyddogol, doedd y ffigurau swyddogol ddim yn cyfleu hanner maint y broblem

proposition: this/that is not/isn't a practical p. – nid yw hynny'n ymarferol bosibl, nid oes modd gwneud hynny, eelli di/all ef/all hi/allwn ni/allwch chi/allan nhw ddim (â) gwneud hynny

prosaic: the challenges are much more p. – mae'r heriau'n/sialensiau'n (rhai) llawer mwy ymarferol (eu natur)/fwy ymarferol o lawer/llawer llai uchelgeisiol

prospect: if there is a/any/the p. that – os oes posibilrwydd (bod/y); **there is every p. that** – mae pob argoel bod/mai/y (bydd); **rather than leaving them with the p. of having to go back** – yn hytrach na'u bod yn gorfod mynd yn ôl; **I hated the p. of going there** – arswydw'n rhag mynd yno; **they hold (out) the p. of affecting ...** – maent yn debyg/eithaf tebyg o effeithio ar ...

protection: a veranda provides p. for kitchen staff – mae feranda'n cysgodi staff y gegin

proteoglycans – proteoglycanau (*ell*) [Optometreg]

proteome – proteom (*eg*) [Fferylliaeth]

proteomics – proteomeg (*eb*) [Meddygaeth]

protestation: p.-s to the contrary – gwadu

protoporphyrin – protoporffyrin (*eg*) [Meddygaeth]

to prove: this p.-ed fruitful – bu hyn yn/hynny'n gam ffrwythlon; **the cat has p.-ed its worth as a rat-catcher** – mae'r gath yn llygotwr tan gamp, mae'r gath (wedi dangos ei bod) yn hen law ar ddal llygod

mawr

proven: **p. ability** – prawf o’ch gallu, maent wedi profi eu gallu; **p. track(-)record** – hanes/record o lwyddo/ gyflawni (campau (mawr/cyson/trawiadol)), record (arbennig o) dda am lwyddo/ gyflawni (campau (mawr/cyson/trawiadol))wedi llwyddo’n aml/fynych/gyson, wedi llwyddo droeon, wedi llwyddo drwodd a thro; **they have a proven t. of ...** maent wedi dangos/profi (droeon/yn gyson/drwodd a thro) y gallant/eu bod yn gallu/medru/yn bencampwyr/yn feistri (corn) ar ...

to provide – rhoi, cyflwyno; **to p. the means to ...** – bod yn fodd i ...; **to p. with ...** – rhoi ...; **to be p.-ed with ...** – cael ...; **to p. evidence of ...** – bod yn dystiolaeth o ...; **to p. a focus for ...** – bod yn ganolbwynt i ...; **to be amply p.-ed with ...** – bod â digonedd o ...; **to p. for ...** – bod yn fodd i ...; **to be well-p.-ed for in terms of opportunities** – cael digon o gyfle; **to p. support (for) ...** – bod yn gefn i ...; **the course p.-es an introduction to ...** – mae’r cwrs yn gyflwyniad i ...; **this p.-es them with an opportunity to study** – mae hwn yn gyfle/dyma gyfle iddynt astudio; **the programme will p. students with a valuable understanding of ...** – erbyn diwedd y rhaglen, bydd gan y myfyrwyr ddealltwriaeth werthfawr o ... *neu* bydd y rhaglen yn fodd i’r myfyrwyr fagu dealltwriaeth werthfawr o ...; **to ask for a delay to p. a short period between ...** – gofyn am oedi fel bod cyfnod byr rhwng ...; **a successful placement will p. you with an important ‘selling point’ when ...** – bydd lleoliad llwyddiannus yn ‘bwynt gwerthu’ pwysig (i chi) pan ...; **to p. a detailed account of ...** – manylu ar ...; **please p. an outline of ...** – amlinellwch ...; **this event will p. you with information about ...** – yn y digwyddiad hwn(nw), cewch (chi)/cei (di) wybodaeth am ...

provided – os sicrhair; **p. that they remember to ...** – ond iddynt gofio ...

province: **these processes should not simply be the p. of a small group** – ni ddylid cyfyngu’r prosesau hyn(ny) i sylw grwp bach (yn unig)

provision – arlwy

provisional: **the book’s p. title is ...** – teitl y llyfr ar hyn o bryd yw ..., teitl y llyfr – ar hyn o bryd, beth bynnag – yw ...

provisionally: **the book is p. entitled ...** – teitl y llyfr ar hyn o bryd, teitl y llyfr – ar hyn o bryd, beth bynnag/o leiaf – yw ...

provocative: **p. issues** – materion dadleuol

to provoke – tynnu blewyn o drwyn, tynnu ... yn eu pennau; **to p. thought** – procio’r meddwl; **to p. discussion** – ysgogi trafodaeth

proximity: **to be in close p. to ...** – bod yn ymyl/ger(llaw) ...

to prune: **to p. the syllabus** – chwynnu’r maes llafur

pshaw! – twt y baw!

psycho-acoustical – seico-acwstegol (*ans*) [Ffiseg a Seryddiaeth]

psychologicistic – seicolegyddol (?)

psychophysiology – seicoffisioleg (*eb*)

to publish: **the details are p.-ed in ...** – mae’r manylion i’w gweld/cael yn/mewn ...

publishing: **p. house** – gwasg

to pull: **p. the other one!** – gad dy gelwydd!; **the play p.-s no punches** – nid yw’r ddrama’n arbed teimladau neb/teimladau ei chynulleidfa, nid yw’r ddrama’n arbed dim ar deimladau neb/ar deimladau ei chynulleidfa, mae’n ddrama gignoeth/ddiflewyn-ar-dafod/ddiarbed/ddiymatal

to pulsate: **a spirit p.-ing through Wales** – ysbryd sy’n cyniwair drwy Gymru

pulsating: **a p. game** – gêm gyffrous/drydanol (iawn/dros ben/tu hwnt)

pump-priming: **a p. scheme** – cynllun ysgogi

punch: **the play pulls no p.-s** – nid yw’r ddrama’n arbed teimladau neb/teimladau ei chynulleidfa, mae’n ddrama gignoeth/ddiflewyn-ar-dafod/ddiarbed/ddiymatal

pup: **they feel (that) they were sold a p.** – teimlant/maent yn teimlo na chawsant fargen deg, teimlant/maent yn teimlo iddynt gael cam

pure: **it’s just the text, p. and simple** – dim ond y testun (sydd yma/yno), a dim (byd) arall/a dim mwy; **avoid p. description** – osgowch ddisgrifio’n unig, osgowch wneud dim ond disgrifio, gwnewch fwy na dim ond disgrifio/na disgrifio’n unig

purely: **this question is p. to find out more about** – unig ddiben y cwestiwn hwn yw darganfod/dod i wybod rhagor am **purpose:** **for the express p. of ...** – yn unsydd er mwyn ...; **to have a sense of common p.** – anelu(’n bendant/gadarn) at yr un nod; **for reference p.-s** – i gyfeirio/er mwyn cyfeirio/fel bod modd cyfeirio ato/ati/atynt

pursuance: **to be actively engaged in the p. of ...** – wrthi’n ...

to pursue – mynd/bwrw ymlaen â; **to be actively p.-ing other possibilities** – ymchwilio’n ddiwyd/wrthi’n ymchwilio i bosibiliadau eraill; **to p. negotiations** – cynnal trafodaethau

pursuit: **in p. of their own advantage** – er eu lles eu hunain; **to take drugs in p. of pleasure** – cymryd cyffuriau er mwyn (ceisio cael) pleser; **students in p. of their studies** – myfyrwyr sy’n/sydd wrthi’n ymgymryd â’u hastudiaethau

purview – maes sylw

push: **at a p.** – os oes/bydd/oedd brys (mawr)

to push: to p. forward the frontiers of knowledge – ehangu terfynau (eithaf) gwybodaeth; **to be p.-ing it (a bit)** – dweud mawr, dweud go fawr, ei mentro hi; **if they decline to answer, don't p. the issue/them** – os ydynt/byddant yn gwrthod ateb/os gwrthodant ateb, peidiwch â rhoi pwysau arnynt/peidiwch â phwyso arnynt/peidiwch â mynnu ateb/derbyniwch hynny/gadewch i bethau fod; **to p. ahead with** – bwrw ymlaen â/ag; **to p. apart** – lledu/cynyddu('r) bwlch

to put: it is impossible to p. a number to/on how many items – mae'n amhosibl/nid yw'n bosibl/nid oes modd dweud faint o eitemau; **to p. a stop to ...** – rhoi taw ar ...; **to p. down roots** – bwrw gwreiddiau; **to p. it down to experience** – ei droi'n/wneud yn rhan o'u stôr o brofiadau, ei droi'n ddim (byd) ond profiad arall; (*mewn deialog ac fel anogaeth gysurlon*) profiad arall i ti, achan/'machgen i/twel (*neu ryw ymadrodd tebyg*)!; (*mewn deialog, a rhywun yn sôn amdano 'i hun:*) wel, roedd e'n brofiad, ta beth; (*tric*) fel y dywed y Sais/ys dwedai'r Sais/chwedl y Sais, 'put it down to experience'!; **to p. a great deal of effort into...** – gwneud ymdrech fawr i ..., ymdrechu'n ddygn i ...; **to p. forward** – awgrymu, cynnig; **to p. in hand a range of actions** – rhoi amrywiaeth/ystod o gamau ar waith; **work should be p. in hand to ...** – dylid bwrw/mynd ati i ...; **p. in other words** (*ar ddechrau brawddeg*) – a'i roi mewn geiriau eraill; **to p. in (= to do) the work** – gwneud y gwaith; **to p. into action/practice/ operation** – gweithredu; **to p. so much effort into ... as we do** – ymdrechu cymaint â ni i.../ag a wnawn ni i ...; **considerable effort has been p. into ...** – gwnaed cryn ymdrech i ...; **what you p. into it** – yr ymdrech a wnewch (i'w (l)lunio/i'w gyflawni/i'w chyflawn/i'w gwblhau/i'w chwblhau); **they were not p. off by ...** – ni chawsant eu digalonni gan ...; **he said that his military experiences had p. him off the army** – dywedodd fod ei brofiadau milwrol wedi peri iddo ddiflasu ar y fyddin; **they had considered using the program but had been p. off by disappointing reports from those who had tried it** – yr oeddent wedi ystyried defnyddio'r rhaglen ond o glywed/ond gan iddynt glywed bod pobl wedi'i siomi ganddi, nid oeddent wedi gwneud hynny *neu* ond o glywed iddi siomi pobl eraill, nid oeddent wedi gwneud hynny; **don't be p. off if you can't ...** – peidiwch â phoeni (gormod) os na allwch ...; **it was enough to p. them off the ...** – yr oedd yn ddigon i beri/ wneud iddyntgadw draw oddi wrth y(r) ...; **don't be p. off** – paid â chael dy rwystro/peidiwch â chael eich rhwystro; **graduates of other subjects should not be p. off applying** – ni ddylai graddedigion pynciau eraill/ni ddylai'r rhai sydd â gradd mewn pwnc arall/pynciau eraill ymatal rhag ymgeisio/rhag anfon cais/rhag cyflwyno cais; **to p. on a course** – cynnal cwrs; **to p. on a repeat performance** – gwneud hynny eto, gwneud yr un peth eto; **it has enabled them to p. on £30k of turnover** – mae ef/hi/hyn(ny) wedi bod yn fodd iddynt /wedi'u galluogi i ychwanegu £30k at y trosiant/ gynyddu £30k ar y trosiant; **they p. themselves out to help him /her** – aethant allan o'u ffordd i'w helpu; **to p. them out of their misery** – rhoi terfyn ar eu dioddefaint/trallod; **to p. over a message** – cyfleu neges; **to p. right** – cywiro; **to p. limited resources to maximum effect** – cael y budd pennaf o adnoddau cyfyngedig; **to p. to flight** – gyrru ar ffo; **the purposes to which they will be p.** – y dibenion a fydd iddynt; **before p.-ting pen to paper** – cyn dechrau ysgrifennu/llunio('r) (cais/traethawd/llith/llythyr ...); **to p. together** – cyfuno, cysylltu; **to p. together a strategy** – llunio strategaeth; **to p. together a scheme** – creu cynllun; **to p. up with ...** – goddef, dioddef ...; **to p. it another way** – hynny yw, mewn geiriau eraill

to quadruple – dyblu – a dyblu eto

to qualify: if you q. – os ydych yn gymwys; **to q. for progression to Year 2** – i gael mynd ymlaen i Flwyddyn 2

qualifying – cymwys; **Q. for Success** – Ennill Cymhwyster i Lwyddo (*teitl ymgynghoriad gan y Swyddfa Gymreig*)

quality – o safon, safonol, chwaethus, graenus, naw; **high/good q.** – o safon, graenus; **land of q. (slogan)** – gwlad y gorau; **of the best/highest q.** – o'r radd flaenaf; **q. time** – amser gwerthfawr/pwrpasol (*welsh-termaw-cymraeg, 19.04.05*); **q. as well as quantity** – ansawdd yn ogystal â('r) niferoedd, safon yn ogystal â hyd a lled

quantity – helaethrwydd; **usually in q.-ies of 5,000** – fesul 5,000 fel arfer; **in q.** – niferoedd o gopïau; **vast q.-ies of ...** – miloedd ar filoedd o, miliynau ar filiynau o ...; **quality as well as q.** – ansawdd yn ogystal â('r) niferoedd, safon yn ogystal â hyd a lled

quantum: q. dot – dot (*eg*) cwantwm [Ffiseg a Seryddiaeth]; **q. well** – ffynnon cwantwm [Ffiseg a Seryddiaeth]; **a q. leap forward** – naid enfawr ymlaen

to quarry: to q. in sources – chwilota mewn ffynonellau

quartercentenary – pedwarcanmlwyddiant

quest: in their q. to ... – yn eu hymgais i ...

question: in q. – hwnnw/honno/hynny; **to be in q.** – bod yn y fantol; **this view is open to q.** – gellir amau'r farn hon(no); **on time, no q.** – mewn pryd a dim lol; **there can be no q. of their going** – yn sicr (ddigon)/yn bendant, ni chânt fynd *neu* does dim modd yn y byd y cân nhw fynd *neu* chân nhw ddim mynd, a dyna ben/ddiwedd arni/ar y mater

to question: I would q. whether ... – byddwn yn amau a/ai ...

questionable: this is q. – tybed?, rhaid amau a yw hyn/hynny'n (gy)wir/iawn, rhaid amau ayw'n iawn/(gy)wir dweud hynny

to queue – sefyll mewn rhes

quibble: q.-s! – manion!

to quibble: we won't q. about that – awn ni ddim i boeni am (ryw)beth (bach) fel 'na/am (ryw)beth/fater mor fân/ddibwys/ bitw/am ryw fanion felly
quick – parod, awyddus; **for q. reference** – er hwylustod
to quicken: the pace of the competition is q.-ing – mae'r gystadleuaeth yn ffyrnigo, mae'r cystadlu'n ffyrnigo
quickly: they very q. reached/arrived at ... – fe gyrhaeddodd nhw ... cyn pen dim
quite: to be q. adequate – bod yn hen ddigon; **q. simply, this is the ...** – mewn gair, dyma'r ...; **at q. a rate** – yn eithaf cyflym, yn bur gyflym, yn gyflym (iawn); **q. soon** – cyn hir, cyn pen dim; **they don't q. meet the conditions** – o drwch blewyn, maen nhw'n methu â chyflawni/bodloni'r amodau
quizzical: a q. look – golwg ddryslyd/amheus/gwestiyngar; **they looked q.** – yr oedd hi'n amlwg nad oeddent yn deall, dangosai'r olwg/dryswch ar eu hwynebau nad oeddent yn deall, 'beth/sut?' gofynnodd y ddau/ddwy
to quote: to q. ... – chwedl ..., ys dywed(odd) ...

to race: to r. through ... – mynd drwy ... fel y gwynt; **many questions r.-ed through their minds** – llifodd llond gwlad o gwestiynau drwy eu meddyliau, yr oedd eu meddyliau/pennau'n ferw o gwestiynau, ffrydiodd cwestiynau drwy eu meddyliau, llanwyd eu meddyliau â llu/llond gwlad o gwestiynau

rack: to go to r. and ruin – mynd i'r gwellt/yn adfeilion

radical: r. reappraisal – ailwerthuso/ailgloriannu trylwyr/trwyadl/helaeth; **this is a r. departure from ...** – mae hyn yn dra gwahanol i ...; **r. pruning of** – chwynnu/tocio sylweddol/helaeth ar; **a r. upheaval** – newid mawr/helaeth (iawn); **a r. restructuring** – ailwampio/ailstrwythuro helaeth/llawer (iawn) ar ...; **r. different** – gwahanol iawn iawn

radically: to change ... r. – newid llawer iawn ar ...; **r. different** – gwahanol iawn (iawn), cwbl wahanol

radiobiology – radiobiolog (*eb*) [Astudiaethau Gofal Iechyd]

radioligand (*a radioactive biochemical substance that is used to study the receptor*) – radioligand (*eg*), radioligandau [Fferylliaeth]

radionuclide – radioniwclid (*eg*), radioniwclidau [Astudiaethau Gofal Iechyd]

radius: within a r. of 3 miles – o fewn cylch/pellter o 3 milltir

raft: a whole r. of – llu o

to rage: the debate has r.-ed for years – mae'r ddadl yn mynd yn ei blaen/yn corddi ers blynnyddoedd, mae'r ddadl wedi bod yn mynd yn ei blaen/yn corddi am flynyddoedd, mae'r dadlau'n mynd yn ei flaen ers blynnyddoedd, mae'r dadlau wedi bod yn mynd yn ei flaen am flynyddoedd

ragtag: a r. coalition of ... – clymblaid druenus/di-glem/di-asgwrn-cefn o ...

railway: r. mania – clefyd y cledrau

to raise: to r. the quality of ... – gwella ansawdd ...; **to r. (the level of) awareness of ...** – cynyddu/dwysáu'r ymwybyddiaeth o ...; **to r. the profile of ...** – rhoi mwy o amlygrwydd i ..., tynnu sylw at ...; **to r. a commitment from ...** – sicrhau ymrwymiad oddi wrth/gan ...; **to r. one's game** – mynd ati'n/ymdrechu/gweithio'n fwy dyfal/egniol/ddynach, cystadlu'n ffyrnicach, anelu'n uwch, mynd amdani o ddifri(f) (calon); **to r. the possibility that ...** – awgrymu bod/mai/y(r) ...

to rake: to r. up old grievances – codi hen grach

rambling: long and r. questions – cwestiynau hirwyntog a throfaus

ramification: r.-s – ystyriaethau/cymhlethdodau (cysylltiedig), effeithiau, goblygiadau

random – hwnt ac yma, yma ac acw; **in (a) r. fashion** – hwnt ac yma, yma ac acw, yma a thraw

range – ystod, amrywiaeth, cylch, cyfres, ehangder; **because of the wide r. of ...** – am/gan fod y(r) ... yn amrywio cymaint, am/gan fod cymaint o amrywiaeth o ...; **a w. range of reasons** – amrywiaeth mawr o/llond gwlad/amryw byd o resymau; **a whole r. of matters** – pob math o faterion; **the Snowdonia r.** – yr Wyddfa a'i chriw

to range: projects that r. across questions of ... – prosiectau sy'n ymwneud ag amrywiaeth o gwestiynau am/ ynglŷn â/ag/ynglŷn ...

to rank – trefnu, gosod, rhoi; **it r.-s in importance with ...** – mae ef yr/hi'r un mor bwysig â/ag ...; **to r. with the best** – bod gyda'r gorau, bod yn un o'r goreuon; **they r. consistently highly in ...** – mae iddynt le cyson uchel yn/mewn ...

rapid: in keeping abreast of r. strides in today's technological world – drwy fanteisio ar ddatblygiadau diweddaraf yr oes dechnolegol sydd ohoni; **r. acceleration** – cyflymu(n) sydyn

rapprochement: to come to a r. – cymodi

rare: prin iawn (*i wahaniaethu rhwng 'scarce' a 'rare'* – gw. *welsh-termau-cymraeg*, 14.07.06); **it would be r. for a candidate to go there** – byddai'n ddigwyddiad prin petai ymgeisydd yn mynd yno, byddai'n beth prin i ymgeisydd fynd yno

rarely – anaml

raring: r. to go – yn dyheu (am gael) mynd

rate: a far greater r. of change among the staff – llawer mwy o fynd a dod ymhlith y staff; **a slow r. of progress** – cynnydd araf; **to be moving at an inadequate r.** – heb fod yn symud yn ddigon/hanner digon cyflym; **at quite a**

r. – yn eithaf cyflym, yn bur gyflym, yn gyflym (iawn); **information accumulated at an expanding r.** – gwybodaeth sy'n cael ei chronni'n gynt ac yn gynt; **at the same r.** – yr un mor gyflym

to rate: how do you r. our service? – beth yw eich barn am ein gwasanaeth?, sut olwg sydd gennych ar ein gwasanaeth?; **how do you r. the usefulness of ...** – pa mor ddefnyddiol, yn eich barn/tyb chi, yw/fydd(ai) ...; **r. each aspect of the programme** – rhwch/nodwch eich barn am bob agwedd ar y rhaglen; **voters r. their local MP more highly than politicians in general** – mae pleidleiswyr yn uwch eu parch i'w AS lleol nag i wleidyddion yn gyffredinol; **these facilities r. with the best in Britain** – mae'r cyfleusterau hyn gyda'r gorau ym Mhrydain; **they were r.-ed against ten criteria** – cawsant eu barnu/cloriannu yn erbyn deg maen prawf, fe'u barnwyd/cloriannwyd yn erbyn deg maen prawf; **I r. them highly** – mae gen i feddwl mawr ohonynt; **I r. them very highly (indeed)** – mae gen i feddwl y byd ohonynt; **they are highly r.-ed by me** – mae gen i feddwl mawr ohonynt; **they are very highly r.-ed by me** – mae gen i feddwl y byd ohonynt

rather: r. below average – ychydig yn is na'r/islaw'r cyffredin; **the r. infrequent meetings of a few** – cyfarfod go/ pur anfyfyrnha ambell un (ohonynt); **r. more complex** – tipyn yn fwy cymhleth; **to be r. disappointing** – bod yn dipyn o siom

rating (= *opinion*) – barn

to rattle: to r. off – rhaffu, rhyfynu

ravage: despite the r.-s of 250 years ... – er i 250 o flynyddoedd adael eu hôl, er bod 250 o flynyddoedd wedi gadael eu hôl

to ravage: to be r.-ed by ... – cael eu sigo gan ...

ravaged: drought-r. areas – ardaloedd lle mae sychder yn rhemp, ardaloedd sydd wedi'u taro droeon gan sychder

re – pwnc:, ynglŷn â/ag ..., ynghylch, (*ei hepgor*)

reach: the lonely r.-es of the night – oriau unig/maith y nos

to reach – dod at; **to r. a decision** – gwneud penderfyniad; **the message has yet to r. many employers that ...** – nid argyhoeddwyd llawer cyflogwr eto o wirionedd y neges bod/mai ...; **I can be r.-ed on 01248 ...** – gallwch fy ffonio ar 01248 ..., gallwch gysylltu â mi ar 01248 ...

reactive – ymatebol

to read: the proviso r.-s (as follows) – yr amod yw, union eiriau'r amod yw, dyma'r amod, mae'r amod yn dweud; **r. all about it in ...** – cewch wybod y cyfan yn ...; **they are asked to r. through the guidelines** – gofynnir iddynt ddarllen y canllawiau (o'r dechrau i'r diwedd/o'u cwr/yn fanwl/yn ofalus, gofynnir iddynt ddarllen yr holl ganllawiau

readability – rhwyddineb darllen, (bod) yn ddarllenadwy

reader – darn darllen, darl'n i'w ddarllen

readership – (nifer y) darllenwyr; **to extend the r.** – ehangu cylch y darllenwyr; **the magazine's r. is 3,000** – mae/bydd 3,000 o bobl yn darllen y cylchgrawn

readily – yn hwylus/eiddgar/rhwydd

readiness: in r. (for ..) – i baratoi ar gyfer hyn(ny)

reading: the Welsh figures make less than edifying r. – mae ffigurau Cymru/mae'r ffigurau am Gymru yn llai na boddhaol, dydy ffigurau Cymru/ffigurau am Gymru ddim yn rhyw foddhaol iawn, braidd yn druenus yw ffigurau Cymru/yw'r ffigurau am Gymru

to reaffirm – ailgadarnhau

real: r. concern – pryder dwfn; **r. anguish** – gofid calon; **r. evidence** – tystiolaeth bendant/gadarn; **little r. worth** – fawr o werth; **the r. battle will be between A and B** – rhwng A a B y bydd y frwydr fawr; **this is a r. drag** – mae hwn yn boendod llwyr; **a r. interest in ...** – diddordeb byw yn/mewn ...; **in a very r. sense** – mewn ffordd arbennig iawn; **they will enable us to inform the public, in a very r. way, of the work we do** – byddant yn fodd i ni roi gwybod i'r cyhoedd yn glir iawn am y gwaith a wnawn/yr ydym yn/wrthi'n ei wneud, byddant yn fodd i ni gyfleu'n glir i'r cyhoedd (natur) y gwaith a wnawn/yr ydym yn/wrthi'n ei wneud; **you're a r. asset** – rwy'ti'n/rydych chi'n werth y byd; **they have been through a r. ordeal** – maent wedi bod drwy'r felin, ydynt wir; **nothing of r. importance** – dim byd o anfeidrol bwys; **r. people** – pobl o gig a gwaed; **in r. life** – mewn gwirionedd; **to give them a r. bollocking/dressing-down/row/ talking-to/ ticking-off/tongue lashing/wigging** – rhoi pryd llym o dafod iddynt, dweud y drefn yn hallt wrthynt; **a r. challenge** – her/sialens fawr/aruthrol, tipyn (go lew) o her/sialens, her/sialens a hanner, her/sialens sy'n ddigon mawr i ti ddweud 'chi' wrthi; **a r. character** – cymeriad a hanner; **a r. surprise** – peth/rhywbeth/digwyddiad/ datblygiad cwbl annisgwyl

to realise: inclusiveness is r.-ed by... – sicrhau cynhwysiant drwy ...

realisable – y gellir ei/eu sicrhau/ei gyflawni/ei chyflawni/eu cyflawni/ei (g)wireddu, eu gwireddu

realistically – a bod yn realistig

reality: to turn/make your ideas into (a) practical r. – gwireddu'ch syniadau; **to make our plans a (practical) r.** – cyflawni'n cynlluniau, gweithredu'n cynlluniau('n llawn); **in r.** – yn y byd go-iawn; **the r. is (that) ...** – y gwir/ffaith amdani yw ...; **nothing could be further from the r.** – ni allai('r un) dim fod ymhellach oddi wrth y gwir, fel arall (yn union) y mae hi, (rhoi) camargraff (llwyr) fyddai (dweud) hynny; **a r. check** – (gorfod) wynebu'r gwir, (gorfod) wynebu realiti (creulon) bywyd (*awgrymiadau i welsh-termau-cymraeg, 31.01.07*), wynebu llym herfeidiol fyd (*Beryl Jones, welsh-termau-cymraeg, 31.01.07*), sobri am eiliad (*Non, welsh-*

termau-cymraeg, 31.01.07), dod at ei goed//ei choed/eu coed (*Catrin Alun, welsh-termau-cymraeg, 31.01.07*); **the r. is (that) ...** – y ffaith amdani yw (bod/mai) ...

really: they don't r. like the idea of ... – nid yw'r syniad o ... yn apelio fawr atynt; **to r. listen to ...** – gwrando o ddifrif (calon) ar ...; **no-one r. knows** – (ni) ŵyr neb yn iawn/i sicrwydd; **to r. matter** – bod o wir bwys/yn bwysig dros ben; **to r. feel** – teimlo i'r byw; **they r. hate him** – maent yn ei gasáu (ef) â chas perffaith; **to have a r. good time** – cael hwyl fawr (arni); **to be r. worried about ...** – poeni'n ofnadwy/eu henaidd am ...; **this r. improves the look of ...** – mae hwn/hyn yn/hwnnw'n/hynny'n gwella llawer ar olwg ..., mae hwn/hyn yn/hwnnw'n/hynny'n gwella golwg ... yn aruthrol; **it was r. good to see you** – yr oedd hi'n braf iawn/dda calon dy weld (di)/eich gweld (chi); **you're r. marvellous/wonderful** – rwyf ti'n/rydych chi'n werth y byd; **r.?** – ife (wir), wir yr?, do (fe) wir?; **we r. missed her** – gwelsom ei cholli'n fawr (iawn); **she r. felt that ...** – teimlai (hi) ar ei chalon fod/mai/y(r) ...; **nothing r. important** – dim (byd) o anfeidrol/dragwyddol bwys; **to r. regret** – difaru eu henaidd, difaru'n fawr/ofnadwy; **to r. scold/berate them, to r. lay down the law, to r. give them a piece of one's mind, to r. tell/tick them off, to r. let them have it (with both barrels)** – rhoi pryd llym o dafod iddynt, dweud y drefn yn hallt wrthynt; **you should r. not miss this** – ddylech chi ddim colli hwn/hon/hyn am bris yn y byd *neu* peidiwch, da chi, â cholli hwn/hon/hyn am bris yn y byd

realm: the higher r. of policy – uchel amcanion polisïau; **in the r. of** – ym maes ...

to reap: to r. the rewards – elwa o'r canlyniadau; **this scheme is r.-ping rewards** – mae'r cynllun hwn yn talu (ar ei ganfed); **they are r.-ing the benefit** – maent ar eu hennill/yn elwa (o hwn/hyn); **to r. the benefits of diversity** – sicrhau'r manteision sy'n dod/a ddaw o amrywiaeth; **to r. results** – esgor ar ganlyniadau (da/gwerthfawr)

to reappraise – ailwerthuso, adolygu

reason: (it is/was) for this/that r. (that) – dyna pam y; **the only logical r. they can offer** – yr unig esboniad rhesymegol y gallant ei gynnig; **for r.-s of ill-health** – oherwydd afiechyd, am/oherydd eu bod yn sâl/ wael; **r. dictates that we act with caution** – pwyll piau hi'; **it stands to r. that ...** – mae'n rhesymol/deg tybio ..., (cam) teg/rhesymol yw tybio ...

reasonably: r. good – yn bur dda

reassurance: this is a great r. – mae hyn yn/hynny'n gysur mawr

reassuring: it is therefore r. that – calondid, felly, yw bod/mai; **this is very r.** – mae hyn yn/hynny'n gysur mawr

to rebuild: to r. confidence – adfer ffydd/hyder

to recall – galw i gof; **in his autobiography he r.-ed (that)...** – yn ei hunangofiant (fe/mi) soniodd am .../soniodd fod/dywedodd fod/ crybwyllodd fod ...

to recapture: to r. their interest – aildanio'u diddordeb, ailennyn/ailgyffroi eu diddordeb

to recast – ailwampio, ail-lunio, aileirio

to receive – cael; **the group's objective r.-s enthusiastic support** – mae cefnogaeth frwd i nod/amcan y grŵp; **if we r. your letter by** – os bydd eich llythyr yn ein cyrraedd/yn dod i law erbyn; **the applications must be r.-ed by the central office by ...** – rhaid i'r ceisiadau gyrraedd y swyddfa ganolog erbyn ...; **to r. a good response from farmers** – ennyn ymateb da ymhlith ffermwyr

receiving: those at the r. end – (*cadarnhaol*) y rhai sy'n elwa/ar eu hennill/cael budd, (*negyddol*) y rhai sy'n dioddef; (*ariannol*) y rhai sy'n cael (yr) arian/(y) grantiau' (*gw. y drafodaeth ar welsh-termau-cymraeg, 7 Chwefror 2002*)

receivership – derbynyddiaeth (*eb*) (*gw. welsh-termau-cymraeg, 03.10.07*); **to go into r.** – mynd i ddwylo'r derbynnnydd

recent: a r. fire had ... – yr oedd tân ychydig ynghynt wedi ...

recently: this information has r. been updated – does dim llawer ers/oddi ar i'r wybodaeth hon(no) gael ei diweddarau; **the work complemented the r. established initiative** – yr oedd y gwaith yn ategu'r fenter/cynllun a sefydlwyd/a gawsai ei sefydlu ychydig yn gynt/a oedd newydd gael ei sefydlu

reception: r. class – dosbarth derbyn

receptive: r. to advice – parod i wrando (ar (air o) gyngor)

recess – encil

to recharge: to r. one's batteries – ymatgyfnerthu

recipe – patrwm; **this is almost certainly a r. for disaster** – mae hyn yn sicr/siŵr o esgor ar/arwain at drychineb, mae hi bron yn sicr/siŵr mai trychineb fydd diwedd y stori/yr hanes, trychineb ddaw o hyn, yn siŵr i chi; **such an attitude is usually a r. for non-completion** – canlyniad yr agwedd hon(no), fel rheol, yw methu â chwblhau *neu* canlyniad arferol yr agwedd hon(no) yw methu â chwblhau

recipient: if you find yourself the r. of such messages – os cewch chi negeseuon o'r fath; **the first r. of the award** – y(r) un) cyntaf/gyntaf i gael/ennill y wobr

reciprocally – yn ei dro

to reciprocate: he bade/wished me good morning and I r.-ed – 'Bore da,' meddai (ef) wrthyf. 'Bore da,' meddwn i wrtho yntau

to reckon: this is a bike to be r.-ed with – dyma feic rhagorol/rhyfeddol/i ryfeddu ato

reckoning: the day of r. will come – fe ddaw nos Sadwrn; **on a narrow economic r.** – o safbwynt economaidd cul

to reclaim – adfer

to recognise: to r. the importance of – canfod/gweld/sylweddoli/deall pwysigrwydd/pa mor bwysig yw; **to r. when to ...** – gwybod/sylweddoli pryd mae ...; **to r. the company that has ...** – cydnabod camp/cyfraniad/ llwyddiant y cwmni sydd wedi ...

recognition: to grow out of all r. – cynyddu/codi'n aruthrol/enbyd; **to gain r.** – ennill eu plwyf; **for them to show a r. that** – i ddangos eu bod yn sylweddoli bod/mai/y; **this is gaining r. as an issue which ...** – mae hwn yn ennill tir fel mater sy'n ...; **to change almost beyond recognition** – (gwedd)newid bron yn llwyr; **this has been established in r. of the growing demand for ...** – mae hwn/hon/hyn wedi'i sefydlu oherwydd bod/am fod cynnydd yn y galw am .../am fod mwy a mwy o alw am .../am fod *neu* oherwydd bod y galw am ... yn cynyddu

recollection: my r. of what happened is that – fy nghof i/y cof sy 'da fi/gen i o'r hyn ddigwyddodd yw bod/mai ...

to recommend: you are r.-ed to ... – fe argymhellir eich bod yn ...; **I would r. Cardiff because ...** – byddwn i'n argymhell dod i Gaerdydd am fod/gan fod/oherwydd ...

to reconcile: to r. oneself to ... – ymgysgu/ymgyfarwyddo â/ag ...; **Britain sought to r. Germany to the status quo** – ceisiodd/ymdrechodd Prydain i gael yr Almaen i dderbyn y status quo/y sefyllfa fel yr oedd hi/realiti'r sefyllfa

to reconfigure: to r. a programme – ailwampio/aildrefnu/ail-lunio rhaglen

reconnaissance: aerial r. – taith/teithiau hedfan

record: the r. of recent years shows – mae hanes y blynyddoedd diwethaf yn dangos; **on r.** – ar gof a chadw; **to place on r.** – cofnodi; **people are leaving in r. numbers** – mae mwy o bobl nag erioed yn gadael/ymadael; **the evidence is disappearing without r.** – mae'r dystiolaeth yn diflannu heb i neb ei chofnodi; **a r. amount** – mwy nag erioed o'r blaen; **a r.(-breaking) summer** – haf prysurach/mwy llwyddiannus nag erioed (o'r blaen) (sy'n/a oedd yn/fu'n) brysurach/fwy llwyddiannus nag erioed (o'r blaen); **to be at a r. high** – bod yn fwy/uwch nag erioed (o'r blaen)

to record – rhoi ar gof a chadw; **Wales r.-ed a growth of** – gwelodd Cymru gynnydd o

to recount – disgrifio, adrodd (yr) hanes, dweud

to recoup – adennill

recourse: they had no r. but to – ni allent ond; **to have r. to large classes** – gorfod/dewis cael dosbarthiadau mawr; **to have r. to best practice** – dilyn yr arferion gorau, gweithredu'r arferion gorau

to recover – cael eu gwynt atynt; **they are r.-ing** – maent ar wellhad

recovering – ar wellhad

recruiter – recriwtiwr/recriwtwraid (ll. recriwtwyr)

to recuperate – dod atynt eu hunain

to recur – (sy'n/a oedd yn/a fydd yn) codi/digwydd droeon/dro ar ôl tro/yn gyson/eto, a arferai godi/ddigwydd

recurrence: to prevent a r. of this – atal hyn(ny) rhag digwydd eto

recurrent: r. themes which occur in – themâu sy'n codi droeon yn/mewn

recurring: r. processes – prosesau ailadroddus; **r. favourites** – ffefrynnau cyson; **r. themes** – themâu sy'n/a oedd/ fydd yn codi droeon, themâu a arferai godi; **to keep r.** – digwydd dro ar ôl tro

red: a r. letter day – dydd o lawen chwedl, diwrnod arbennig iawn (yn hanes ...)

redeemable: these vouchers are r. against any product – gellir defnyddio'r talebau hyn i/wrth dalu am unrhyw gynnyrch

to redeploy – symud, trosglwyddo

redress – camau cywiro

to redress: to r. the balance – cywiro/unioni'r cydbwysedd

to reduce – cwtogi ar, lleddfu; **they are r.-ed to reading...** – y cyfan a wnânt yw darllen ...; **to be r.-ed to a heap** – cael eu dymchwel i'r llawr/yn garn; **it r.-es them to slavery/to being slaves** – mae'n eu troi'n ddim (byd) ond caethweision; **to r. (= adversely affect) levels of efficiency** – amharu ar effeithlonrwydd

reduced – cwtogedig

redundancy: r. payment – taliad colli swydd (DSS)

redundant – diystyr, di-rym; **they are now r.** – does dim diben/pwrpas iddynt mwyach/bellach/erbyn hyn

to re-engage: to r. in community life – dod yn rhan o fywyd y gymuned unwaith eto, ailymuno â bywyd y gymuned

to re-engage: to r. with education – ailgydio mewn addysg, ailgamu i faes addysg, ailymuno â byd addysg

to re-enter: to r. education – ailgydio mewn addysg, ailgamu i faes addysg, ailymuno â byd addysg

to re-experience – ail-fyw'r profiad

to refer: to r. a document to a College – cyfeirio dogfen i sylw Coleg; **my letter of the 16th r.-s** – mae fy llythyr ar/dyddiedig yr 16eg yn cyfeirio at hyn(ny); **please r. to page 36** – trowch i dudalen 36

reference: r. books – llyfrau cyfeirio/cyfair; **for quick r.** – er hwylustod; **for future r.** – i gyfeirio atynt yn y dyfodol

to reference – cynnwys cyfeiriad(au) at

to refine – mireinio, cyfoethogi, caboli, crisialu

refined: r. research skills – sgiliau chwilio hynod ddatblygedig

refinement: strategies of some r. – strategaethau pur gywrain

to reflect – amlygu, ystyried, ailystyried, ystyried ymhellach; **this r.-s two factors** – mae hyn i'w briodoli i ddau ffactor; **to r. creditably/well on** – bod yn glod i; **to r. back on (= creditably) ...** – bod o fudd i ..., goleuo ...; **we can**

also r. on a year of progress – gallwn (ni) hefyd edrych yn ôl ar flwyddyn o gynnydd/o symud ymlaen; **r.-ing reduced d.** – am fod llai o alw

reflection: on r. – o feddwl eto, o edrych yn ôl; **which may provide a useful focus for their r.-s on** – a all gynnig canolbwynt iddynt wrth (iddynt) fyfyrio ar/ynghylch; **this is not a r. on ...** – nid yw hyn yn feirniadaeth ar ..., nid gweld bai/lladd ar ... yw (dweud) hyn(ny); **this centre is a r. of the expertise of staff** – mae'r ganolfan hon yn arwydd o arbenigedd y staff

to refrain: to r. from – ymgadw rhag ...

refreshment: professional r. – ymadnewyddu proffesiynol

to refurbish – gweddnwid (tu mewn) ...

to refute – gwrthod

to regain: it did not r. this level of support until ... – nid tan ... y cafodd/sicrhodd y lefel honno o gefnogaeth am yr eildro

regard – pwys; **to pay proper r. to rules** – parchu rheolau; **to be held in high r.** – bod yn uchel eu parch; **I have no very high r. for them** – nid oes gennyf fawr o olwg arnynt; **to hold them in positive r.** – bod â chryn feddwl ohonynt, bod ag agwedd gadarnhaol (tuag) atynt, ymagweddu'n gadarnhaol (tuag) atynt; **to have r. to ...** – rhoi sylw i ..., parchu ...; **with a high r. for** – gan roi pwyslais mawr ar; **with no r. for** – heb ystyried; **with r. to ...** – mewn perthynas â/ag ..., o ran ...; **with due r. for the need for brevity** – gan barchu'r angen i fod yn gryno

to regard: they are highly r.-ed – maent yn uchel eu parch, mae parch mawr iddynt; **they are highly r.-ed. by ...** – mae gan ... barch mawr atynt, mae ... yn uchel eu clod iddynt; **children r.-ed as requiring help** – plant y bernir bod angen cymorth arnynt; **they r. this as ...** – iddynt hwy(,) mae hyn yn/hynny'n ... *neu* mae hyn(ny), iddynt hwy, yn ...; **we r. this as (being) one of our major strengths** – i ni, dyma un o'n prif gryfderau/cryfderau mwyaf/pennaf; **which of these do you r. as (being) the most important change?** – p'un o'r rhain/o'r rheiny/ohonynt, yn eich barn chi, yw'r newid pwysicaf/mwyaf pwysig?; **they should r. these commitments as absolutely as they do their other commitments** – dylent roi'r un parch/ddangos yr un parch (yn union) i'r hymrwymadau hyn ag i'w hymrwymadau eraill; **an indication of the seriousness with which they r. their role** – arwydd o ddifrifoldeb eu hagwedd at eu rôl; **a school which r.-s research so highly** – ysgol sydd â chymaint o barch i/at ymchwil

regarded: they are highly r. – maent yn uchel eu parch

regardless: r. of – beth bynnag fo/yw/oedd/fydd

regimentation: strict r. – caeth-batrymu

region: in the r. of – rhyw, oddeutu; **Cardiff and the surrounding r.** – Caerdydd a'r cylch; **in all r.-s of the world** – ym mhobcwr o'r byd, ym mhedwar ban y byd; **the r.-s of the brain** – rhannau'r ymennydd, y rhannau o'r ymennydd

regret: with deep r. – gyda thristwch mawr

to regret: you won't r. it – chewch chi mo'ch siomi

regrettable: though it is r. that – er mai gresyn o beth yw bod

regrettably – ysywaeth, testun gofid yw bod, yn anffodus

regulatory – rheoliadol

to rehearse: to r. the meanings of ... – ailegluro ystyron ...; **there arguments have been r.-ed many times** – mae'r dadleuon hyn(ny) wedi'u lleisio/wedi'u trin a'u trafod droeon, rydyn ni wedi bod drwy'r/dros y dadleuon hyn(ny) droeon

to reimburse – digolledu

rein: free r. – rhyddid (llwyr), rhwydd hynt

to reinforce – to r. a sense of – dwysáu/cynyddu ymwybyddiaeth o

to reinstate: to r. a pupil – aildderbyn disgybl

to reinvent: to r. the wheel – dyblygu'r ddarpariaeth, cychwyn o'r cychwyn unwaith eto, dechrau o'r dechrau unwaith eto

to reiterate – ailbwsleisio, ailddatgan

to reject – hepgor; **to r. (disdainfully)** – wffio

rejection: the Council's r. of the application by ... – penderfyniad y Cyngor i wrthod cais ...

to rejoice: to r. in – ymlawenhau

to relate: to r. to – cyplysu/ymwneud/perthnasu â, rhoi sylw i; **needs that r. to a disability** – anghenion sy'n codi/ deillio o anabledd

Relate (*y corff cyngori priodasol*) – Cyd-ddeall

related: health-r. issues – materion sy'n ymwneud ag ieuchyd; **for closely r. reasons** – am resymau tebyg iawn

relating: the circumstances r. to the request – yr amgylchiadau sydd ynghlwm wrth yr achos

relation: to be in r. to – ymwneud â; **... was the poor r. in comparison to ...** – digon prin fu'r sylw a'r adnoddau a gafodd/a roddwyd i ... o'u cymharu

relative: r. to pupils' abilities – o ystyried gallu'r plant; **r. merits** – priod rinweddau (?)

relatively: this is, r. speaking, a minor matter – mater (go/pur d)dibwys yw hwn yn nhrefn pethau/yn y byd sydd ohoni/o'i gymharu â materion eraill/o ystyried popeth

to relax: to r. vigilance – peidio â bod mor wyliadwrus

relaxed – diddig, diddan, pleserus, ymlaciol

to release: to r. them from the necessity of having to – eu harbed rhag gorfod ...
reliability: to be sure of its r. – bod yn sicr/siŵr ei fod/ei bod yn ddibynadwy
to relieve: this r.-s them from having to pay – mae hwn yn eu harbed rhag gorfod talu
religion: minister of r. – gweinidog yr efengyl
religiously – yn ddi-ffael
to relish: they r. it – mae'n fêl ar eu bysedd
reluctant: r. praise – canmoliaeth grintach
reluctantly – yn groes i'r graen (?)
to remain: there r.-s much to be done – mae llawer eto i'w wneud; **which r.-s to be provided** – sydd heb ei ddarparu eto; **this will r. an authoritative account of ...** – fe erys hwn yn ddisgrifiad awdurdodol a safadwy o ...; **this r.-s entirely unaltered/unchanged/the same** – nid oes/ni fu unrhyw newid yn hwn/ynddo o gwbl, nid yw hwn/hyn wedi newid dim/o gwbl, does dim newid (o gwbl) wedi bod ar hyn; **it only r.-s for me to ...** – ni allaf ond ... *neu* y cyfan sy'n weddill/sydd ar ôl i mi ei wneud yw ...; **she r.-s chairman** – mae'n/mae hi'n dal/parhau i fod yn gadeirydd; **there r.-s uncertainty about ...** – mae ansicrwydd o hyd am/ynghylch/ynghlŷn â/ag ...; **the grant for the year r.-ed at £ ...** – y grant a gafwyd oedd £.... eleni eto *neu* eleni eto, y grant a gafwyd oedd ...
remaining: the three r./the r. three – y tri/tair arall
to remark: to be r.-ed upon – cyfeirio at
remarkable – anghyffredin; **remarkable: that this has survived is r.** – mae'n syndod/y syndod/yr hyn sy'n synnu dyn/rhywun yw bod hwn wedi goroesi/bod hwn yma o hyd; **there was nothing r. about it** – doedd dim arbennig /hynod/anghyffredin yn ei gylch/yn ei chylch/amdano/amdani/ynghlŷn af eg/â hi
remarkably – yn rhyfedd ddigon/iawn; **r. well** – yn syndod/arbennig/anghyffredin/rhyfeddol o dda, yn dda i'w ryfeddu
remedial: r. action – camau cywiro
to remediate: to r. contaminated land – adfer tir llygredig i'w gyflwr blaenorol/cysefin
to remind: she was r.-ed (= she remembered) of a visit she had made to ... – cofiodd (hi) am ymweliad yr oedd (hi) wedi'i wneud â/ag ..
reminder: a final r. [fel pennawd] – i'ch atgoffa cyn cloi
remit – cylch gwaith; **with the r. of** – i
to remit: time r.-ted from teaching – amser yn rhydd o addysgu; **the responsibilities r.-ted to** – y cyfrifoldebau a ro(dd)ir/roddwyd i
remittance: r. advice – manylion y taliad (ACCAC), cyfarwyddyd taliad (Prifysgol Cymru), taleb (Y Swyddfa Gymreig), **r. advice** – cyfarwyddyd talu [Prifysgol Cymru, Aberystwyth], hysbysiad talu (*fy newis i!!*)
to remonstrate: to r. with – dweud y drefn wrth (??)
remote: to be r. from their experience – bod yn ddieithr iawn i'w profiad; **a r. possibility** – posibilrwydd bach iawn *neu* go brin, a dweud y lleiaf ...
remove: at one r. – un cam i fwrdd
to remove – carthu; **to r. an item** – cymryd/mynd ag eitem; **to r. from schools their responsibility for** – amddifadu ysgolion o'u cyfrifoldeb i/dros, cymryd oddi ar ysgolion eu cyfrifoldeb dros/i; **this is not too far r.-ed from ...** – nid yw hyn mor wahanol â hynny i/yn rhyw wahanol iawn i ...
Renaissance (fel ansoddair) – yn null y Dadeni (Dysg)
to render – golygu, cyfleu, cyflwyno; **these changes r. the task more urgent** – gan fod cymaint o newid(iadau) wedi bod, mae mwy o frys i wneud y dasg/i gyflawni'r dasg; **they are on a slope, r.-ing them useless** – gan eu bod ar oled, maent yn ddiwerth *neu* maent ar oled ac felly'n ddiwerth
renewed – o'r newydd; **to assume r. importance** – dod yn bwysig unwaith eto
to reoccur – digwydd eto/drachefn
to repay: this well r.-s study – mae astudio hwn/hyn yn talu ar ei ganfed
repeat: to put on a r. performance – gwneud hynny eto, gwneud yr un peth eto
to repeat – gwneud yr un peth eto/drachefn; **to r. an exercise** – ailgynnal ymarfer; **steps 1-3 are r.-ed** – bydd camau 1-3 yn digwydd dro ar ôl tro
repeatedly: to tell them r. – dweud a dweud wrthynt
repellent: I find it r. – mae'n troi arnaf
repercussion: the probable r.-s – yr hyn sy'n debyg(ol) o ddigwydd
repertoire: a r. of skills – cronfa o fedrau
repetition: that there will be no r. of ... – na cheir rhagor o/eto ...
to replace – adnewyddu, yn lle ... ceir; **once damaged, they cannot be replaced** – os difrodir hwy, fe'u collir am byth; **these cannot be r.-ed if lost** – os collir hwy/y rhain, ni ellir/nid oes modd/ni cheir rhai (newydd) yn eu lle; **what did these buildings r.?** – beth oedd yma cyn i'r adeiladau hyn gael eu codi?, beth a arferai fod/sefyll ar y safle hwn?; **he/she r.-ed (= succeeded) Mr Williams in this post** – fe olynodd ef/hi Mr Williams yn y swydd hon(no), fe olynwyd Mr Williams ganddo/ganddi yn y swydd hon(no), ef/hi oedd olynwydd Mr Williams yn y swydd hon(no), ef/hi ddaeth i swydd Mr Williams, ef/hi gafodd (hen) swydd Mr Williams; **certain details have been r.-ed** – mae rhai (o'r) manylion wedi'u newid
replete: r. with errors – yn frith o wallau

report: to be placed on r. – cael cerdyn disgyblaeth

to report – rhoi gwybod am, cyflwyno adroddiad(au) ar; **they r. improved attendance** – fe geir, meddant, well presenoldeb; **to r. for work** – eu cyflwyno’u hunain i weithio; **the circumstances as r.-ed** – yr amgylchiadau fel y’u disgrifiwyd (mewn/yn yr adroddiad)

to represent: this may r. – gall hyn(felly,) fod yn; **they r. a good balance of** – mae iddynt gydbwysedd da o ran; **which r.-s** – sef; **this r.-s** – dyma/dyna; **the main religions r.-ed in Britain** – y prif grefyddau sydd i’w cael ym Mhrydain; **in any manner that r.-s that we approve of ...** – mewn unrhyw ffordd/ddull sy’n cymryd arno/sy’n awgrymu/esgus ein bod yn cymeradwyo ...

representing – sef

reputable – safonol

reputation: to gain a r. for – bod/dod yn enwog am/oherwydd

reputedly: r., he was a thief – dywedir/dywedid iddo fod/arfer bod yn lleidr, dywedir/dywedid mai lleidr oedd ef (yn arfer bod), y si/sôn yw/oedd mai lleidr oedd ef (yn arfer bod)/ei fod (arfer bod) yn lleidr, lleidr oedd ef (yn arfer bod,) yn ôl y sôn

to request: as r.-ed by ... – ar gais ...; **translation as r.-ed** – dyma’r cyfieithiad

to require – hawlio; **pupils are r.-ed to go** – mae gofyn i’r disgyblion fynd; **the specific skills r.-ed of them** – y medrau/sgiliau y mae gofyn iddynt eu harfer; **have you ever been r.-ed to resign?** – a gawsoch chi erioed eich gorfodi i ymddiswyddo?; **this r.-es high efficiency** – felly, rhaid bod/rhaid i hwn fod yn effeithlon dros ben; **work that may r. adjustments to be made to ...** – gwaith a all olygu bod angen addasu .../gwneud addasiadau i ...; **this programme does not r. any previous study of ...** – nid oes/does dim rhaid bod wedi astudio ... i/cyn ymgymryd â’r rhaglen hon, nid oes/does dim rhaid bod wedi astudio ... i gymryd/i ddilyn/cyn cymryd/dilyn y rhaglen hon; **this diploma is r.-ed for further professional training** – rhaid wrth/(bod wedi) cael/(bod wedi) ennill y diploma hwn cyn (cael) mynd/symud ymlaen i gael rhagor o hyfforddiant proffesiynol

requiring: points r. clarification – pwyntiau aneglur

requirement: the r. to answer – gorfod ateb; **material r.-s** – (y) gofynion o ran deunyddiau/defnyddiau; **this is due to the r. placed on them to pay ...** – mae hyn i’w briodoli i’r ffaith fod gofyn iddynt dalu ...

requisite – dyladwy

to re-rehearse: these themes do not need to be r. – nid oes angen trin a thrafod y themâu hyn(ny) unwaith eto/does dim angen manylu rhagor (eto) ar y themâu hyn(ny)

to re-roof – ail-doi

research: our customer r. – ymchwil ymhlith/ymysg ein cwsmeriaid; **all our staff are returned as r. active** – mae’n/mae ein holl staff yn/ni’n gwneud ymchwil/yn ymgymryd ag ymchwil

research-based – ymchwilgar, chwilotgar

resentful: to be r. – dal dig

resident: r. since – yno ers

residential: areas of high r. mobility – ardaloedd lle mae/ceir llawer o fynd a dod ymhlith/ymysg y boblogaeth

resignation: to lapse into cynical r. – troi’n ddiymadferth o sinigaidd

resigned: r. compliance – ufudd-dod di-sbonc; **to be r. to** – (yn/wedi) gorfod derbyn

resilience – dyfalbarhad, gwrthod ildio

resilient – di-ildio; **to be r. under pressure** – (bod yn) gallu dwyn (y) pwysau; **to be r. enough to ...** – bod â digon o ddyfalbarhad i ...

to resist – peidio â derbyn, na dderbynnir, ymatal rhag; **(please) r. the temptation to ...** – peidiwch ag ildio i’r demtasiwn i ...

to resize – ailfeintio (*cyngor gan Gruffydd Prys, Canolfan Bedwyr, 11.12.12*), chwyddo (maint), lleihau (maint)

resolutely: r. opposed to – gwrthwynebu’n bendant/chwyrn/ffyrnig, bod yn bendant/chwyrn/ffyrnig eu gwrthwynebiad

resonance: does this have any r.-s today? – a oes iddo/i hyn(ny) unrhyw arwyddocâd/ddylanwad heddiw?, a(a) oes unrhyw arwyddocâd i hwn(nw)/hyn(ny) heddiw?, a yw’n/yw hwn/hwnnw/hyn(hynny) canu unrhyw glychau heddiw?

to resonate: to r. with ... – bod yn gyforiog o ...; **does this r. with your (own) view?** – ydy hyn yn/hynny’n cyd-fynd â’ch barn chi/â’th farn di?

resort – lle/pentref gwyliau, tref wyliau; **a last r.** – cam terfynol, cam olaf, cam eithaf; **as a last r.** – os bydd popeth aros yn.wedi methu; **the status bar should be your first r.** – dylech fynd yn gyntaf at y bar statws

to resort: to r. to ... – troi i/at ...; **we can even r. to criminal proceedings** – gallwn ni hyd yn oed ddwyn achos llys/troseddol; **without having to r. to (the use of) ...** – heb orfod defnyddio ...; **to r. to litigation** – mynd i gyfraith, troi at y llysoedd; **courts sometimes r. to making an example of ...** – bydd (y) llysoedd weithiau’n penderfynu gwneud esiampl o ...

resounding: a r. ‘no’ – ‘na’ pendant ‘iawn’, ‘na’ yn bendant

resource – ffynhonnell, caffaeliad; **on r. grounds** – am resymau sy’n ymwneud ag adnoddau; **a r. bank of ...** – cronfa o ...; **as well as being a r. for members to find out ...** – yn ogystal â bod yn fodd i(r) aelodau gael gwybod ...

to resource – darparu adnoddau, talu am; **materials which can be easily r.-ed** – defnyddiau/deunyddiau y gellir gael gafael arnynt yn rhwydd/hawdd, defnyddiau/deunyddiau y gellir eu prynu/pwrcasu’n rhwydd/hawdd

respect: in some r.-s – mewn rhai ffyrdd; in other r.-s – fel arall; in many r.-s – ar lawer ystyr; in most r.-s – gan mwyaf, at ei gilydd; in all r.-s – ym mhob ffordd; in r. of – o ran ...; in all material r.-s – ym mhob agwedd berthnasol (*cynnig Mary Jones wrth ymateb i gais gan Rhian Huws ar welsh-termau-cymraeg, 12.08.08*), ym mhob ffordd o bwys

respected: they are highly r. – mae parch mawr iddynt, mae gan bobl feddwl mawr ohonynt

respectful: he was r. to(wards) her – dangosodd ef barch (tuag) ati, yr oedd yn barchus tuag ati, yr oedd ei ymddygiad tuag ati'n barchus

respective: in their r. schools – yn eu gwahanol ysgolion

respectively – (*ei hepgor!*); they were given £10 and £5 r. – cafodd y naill £10 a'r llall £5; the elder and younger sisters received £10 and £5 r. – cafodd y chwaer hynaf £10 a chafodd y chwaer ifancaf £5; what puposes can they r. be said to serve? – pa ddibenion y dywedir eu bod, fesul un, yn eu cyflawni/eu hateb?

response: in r. to – yn wyneb; this programme is a r. to that comment – y sylw hwnnw sydd wedi esgor ar y rhaglen hon/wedi symbylu/ysgogi (creu)'r rhaglen hon (*ystyr wahanol sydd i: mae'r rhaglen hon yn ymateb i'r sylw hwnnw*)

responsibility: to take r. – arddel cyfrifoldeb; to carry r. – bod yn gyfrifol

responsibly: we cannot r. do so – ni allwn, a bod yn gyfrifol, wneud hyn(ny) neu a bod yn gyfrifol, ni allwn wneud hyn(ny)

responsive: to be more r. to ... – bod yn barotach/yn fwy parod i ymateb i ...

rest: give it a r.! – rho'r gorau iddi/rhowch y gorau iddi, taw/tewch; to lay to r. the view that ... – chwalu'r farn fod/mai/y ..., rhoi ergyd farwol i'r farn fod/mai/y ...

to rest: responsibility r.-s with ... – cyfrifoldeb ... yw ...; mae'r cyfrifoldeb dros ... yn nwylo .../yn nwylo ... y mae'r cyfrifoldeb dros ..., ... sy'n gyfrifol am ...; to r. on – dibynnu ar; this r.-s on the idea that ... – sylfaen hyn(ny) yw'r syniad bod/mai/y(r) ...; r. assured (*is-deitl*) – tawelwch meddwl; please r. assured that ... – gallaf/gallwn/gellir eich sicrhau bod/mai/y(r) ...; the final decision r.-s with them – hwy sydd â'r penderfyniad terfynol/gair olaf, yn eu dwylo hwy y mae'r penderfyniad terfynol, hwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, hwy sydd â'r hawl i wneud y penderfyniad terfynol

resting-place: their last r. – tŷ eu hir gartref

restricted: which can only be used on a r. basis – na ellir defnyddio mwy na mwy arnynt; a club with r. membership to students – clwb na chaiff neb ond/heblaw myfyrwyr ymaelodi ag ef

result – ffrwyth; to be the r. of – deillio o; with the r. that – ac felly; to deliver r.-s – dwyn ffrwyth

to result – canlyniad yw ...; to r. in – esgor ar, peri; this r.-s in – oherwydd hyn(ny), ceir neu am/gan ei bod yn neu ac felly ...; which will r. in damage – a fydd yn achosi niwed/difrod

resultant – o ganlyniad, yn eu sgil, sy'n deillio ohonynt/o hynny

resulting – (a geir) o ganlyniad/yn eu sgil, sy'n deillio ohonynt/o hynny; the r. effect – yr effaith a gaiff hyn(ny)

resurgence – adfywiad

to retain: the town retains its weekly market – mae gan y dref farchnad wythnosol hyd heddiw, cynhelir marchnad wythnosol yn y dref hyd heddiw

retainer: to pay an accommodation r. for the summer – talu tâl i gadw llety dros yr haf

retarded – ôl-gynnydd; children with r. language – plant araf eu hiaith

to retell: to r. events – disgrifio digwyddiadau

retention: the other copy is for your r. – copi i chi ei gadw yw'r copi/yw'r un arall/yw'r llall

to rethink – ailystyried

to retrace: r. your steps – (d)ewch yn ôl yr un ffordd

retraction: the r. of the service – y cwtogi ar y gwasanaeth

to retrieve: to r. information from a text – didoli gwybodaeth o destun

return: r.-s (*in terms of extra effort etc*) – y wobr; gwybodaeth a ddaeth i law, canlyniad(au); in r. – yn gyfnewid am hynny; in r. I received a letter – cefais lythyr yn ôl; questionnaire r.-s – atebion i holiadur; difficult cases which offer (them) little (by way of) r. – achosion anodd nad ydynt fawr elwach o fynd ar eu trywydd; by r. of post – gyda throad y post; for us, this campaigning role has no financial r.-s – nid yw'r rôl ymgyrchu hon yn/honno'no yn esgor ar gyllid /yn dod â chyllid/ag elw i ni, nid ydym fawr elwach/ar ein hennill yn ariannol o gyflawni'r rôl ymgyrchu hon(no); a r. to profitability – gwneud elw unwaith eto

to return: to r. to a topic – ailgodi topig; our plan to r. it to profitability – ein cynllun i sicrhau ei fod/ei bod yn gwneud elw unwaith eto; all our staff are r.-ed as research active – mae'n/mae ein holl staff yn/ni'n gwneud ymchwil/yn ymgymryd ag ymchwil; to r. to training – ailddechrau ymarfer, ailgydio mewn ymarfer

returner: r.-s to learning – y rhai sy'n ailgydio yn eu haddysg

to reveal – dinoethi; the project may r. enough evidence to ... – gall y prosiect esgor ar ddigon/ildio digon o dystiolaeth i ...

to revel: they r.-led in it – yr oedd yn fêl ar eu bysedd

to revere: to r. statistics as the only dependable form of ... – credu'n bendant mai ystadegau yw'r unig ffurf ddibynadwy ar ...

reverse: the r. is true/we find the r. – fel arall y mae (hi); ... **are the r.** – fel arall y mae (hi) (yn); **on the r. of the card** – ar gefn y cerdyn

to reverse: the order will probably r. – mae'n debyg/mae'n fwy na thebyg mai fel arall y bydd hi

review: under r. – a arolygir

to revisit: to r. a decision – ailystyried penderfyniad, mynd yn ôl at benderfyniad (a'i ailystyried), bwrw golwg eto dros benderfyniad

to revitalise – aildanio (brwdfrydedd)

revolting: I find it r. – mae'n troi arnaf

to revolve: the club around which their social life r.-ed – y clwb a oedd yn ganolbwynt i'w bywyd cymdeithasol

revolving: it is planned to hold these meetings on a r. basis – y bwriad yw i bob sefydliad gynnal cyfarfod yn ei dro; **the revolving door of mental illness and crime** – cylch (*Helen Smith, welsh-termau-cymraeg, 24.09.07*)/cylch cas (*Meg Elis, welsh-termau-cymraeg, 24.09.07*) salwch meddwl a throseddau

reward: to provide rich r.-s – bod o fantais fawr/o fudd mawr, talu ar ei ganfed; **they have won the award, (which is) a just r. for their efforts** – maent wedi ennill y wobr ..., cydnabyddiaeth deilwng o'u hymdrechion; **to reap the r.-s** – elwa o'r canlyniadau; **this is the r. they get for ...** – dyna'r diolch y maent yn ei gael/a gânt am ...

to reward: you will be r.-ed with ... – y wobr i chi/a gewch (chi) fydd ...

rewarding – buddiol; **satisfying and r.** – o fudd ac o fantais; **a r. career** – gyrfa lewyrchus

to reword – aralleirio

to re-work – ail-lunio, ailwampio

rich: to pay r. dividends – talu ar ei ganfed; **to be r. in/with ...** – bod yn frith/gyforiog o ...; **r. opportunities** – cyfle(oedd) (arbennig o d)da; **the limestone is r. in copper** – mae llawer o gopr (i'w gael) yn y calchfaen, mae'r calchfaen yn cynnwys llawer o gopr

richly: the valley is r. endowed with archaeological remains – mae'r cwm/dyffryn yn gyforiog o olion archaeolegol

rid: to get r. of a cold – bwrw annwyd

ridden: a quango r. country – gwlad sy'n frith o gwangos, gwlad lle mae cwangos yn bla/rhemp

riddled: r. with errors – yn frith o wallau, yn wallus (iawn)

rider: with the r. that ... – ar yr amod ..., ac ychwanegir bod ..., gan ychwanegu bod ..., gan ychwanegu nodyn i ddweud

...

to ridicule – difrïo, wfftio

to rig: the selection had been r.-ged – cawsai'r dewis ei drefnu ymlaen llaw

right: in its own r. – ynddo'i hun, (*ei hepgor*), yn ei haeddiant ei hun(an), yn unigol; **to be (quite/perfectly) r.** – bod yn llygad eu lle; **to be (about) r.** – bod yn (weddol/eithaf) agos at eu lle; **to be just r. for you** – taro deuddeg i chi; **the time may well be r. to ...** – gall yn hawdd fod yn bryd i ...; **to put the world to r.-s** – rhoi'r byd yn ei le; **r. at the beginning** – ar y cychwyn (cyntaf), ar y dechrau'n deg; **to get things r.** – rhoi trefn ar bethau; **r. and proper/fitting** – priodol; **I am within my r.-s to/in ...** – mae gennyf (bob) hawl i ...; **the time is r. for them to go** – mae amser wedi dod iddynt fynd; **on the r. (= right-hand side) of the screen** – ar ochr dde'r sgrin; **he's a r. (= useless) one!** – un coch yw e!; **r. on cue** – ar y gair, i'r eiliad; **to get the answer r.** – rhoi'r ateb cywir

rightful – haeddiannol

rightly – yn gwbl gywir/haeddiannol, yn ddigon cywir, yn gywir ddigon; **they r. argue that ...** – maent yn iawn/gywir with ddadlau bod/mai/y(r)

rigidity – diffyg hyblygrwydd

rigour – manylder, trylwyredd; **to cope with the r.-s of looking after people** – ymdopi â chymhlethdodau/problemâu/trafferthion/anawsterau gofalu am bobl, ymdopi â holl gymhlethdodau/broblemau/drafferthion/anawsterau gofalu am bobl

rigorous – trylwyr, pendant

rigorously: our services are r. monitored – cedwir llygad barcud ar ein gwasanaethau

ring: these terms have no great r. of precision – nid yw'r termau hyn yn/hynny'n (rhyw) arbennig o fanwl-gywir, does dim rhyw lawer o fanwl-gywirdeb (yn perthyn) i'r termau hyn(ny), does neb wedi manylu rhyw lawer ar (union) ystyr y termau hyn(ny)

to ring – ffonio; **to r. true** – taro deuddeg (?), argyhoeddi

ring-binder – ffeil fodrwy

to ring-fence – rhoi cylch cadw am/o amgylch

ring-fenced – â chylch cadw amdano/o'i amgylch, clustnodi/gwarchod yn yr Atodiad i Eiriadur yr Academi – *Siân Roberts, welsh-termau-cymraeg, 05.03.03*), neilltuo (*ynghyd-destun grantia a ballu*) sydd yn rhestr termau Cyngor y Celfyddydau – *Annes Glyn, welsh-termau-cymraeg, 05.03.03*) ('Wedi eu cylchamddiffyn' (*Wyn Hobson, welsh-termau-cymraeg, 05.03.03*), (*Dw i wedi gweld 'clustnodi', h.y. cyllid wedi'i glustnodi, mewn rhai dogfennau o Wynedd* – *Sue Roberts, welsh-termau-cymraeg, 05.03.03*), cyllid /arian wedi'i warchod yn benodol (*Magi Lewis, 'wedi'i weld yn rhywle', welsh-termau-cymraeg, 05.03.03*); sylw *Claire a Falmai o gwmni Pennawd: Y drafferth gyda defnyddio 'neilltuo' neu 'clustnodi' yw nad oes gennych wedyn dim byd i gyfieithu 'set aside' nac 'earmarked'. Beth bynnag, mae modd i gorff newid ei feddwl ynghylch arian sydd wedi'i 'neilltuo' neu 'i glustnodi' a'i wario ar rywbeth arall; holl ergyd y term 'ring fenced' yw na allwch*

ddefnyddio'r arian at ddiben arall. Felly byddai rhywbeth ar hyd llinellau'corlannu', 'cylchamddiffyn' neu 'gwarchod' yn nes ati, welsh-termau-cymraeg, 05.03.03)

ringing: a r. endorsement – cymeradwyaeth wresog/frwd(frydig)/danbaid

riot: to be a r. of colours – bod yn gyforiog/yn fôr/yn wledd o liwiau

to rip: when fire r.-s through a building – pan fydd tân yn lledu'n gyflym drwy adeilad

ripe: the time is r. for us to develop this – mae'r adeg/amser wedi dod i ni ddatblygu hwn/hyn, dyma'r adeg/amser iawn i ni ddatblygu hwn/hyn

rise: to give r. to – rhoi bod i, arwain at; **to give r. to questions** – codi cwestiynau; **this gives r. to several problems** – mae sawl problem yn codi o hyn, mae hyn yn esgor ar/codi sawl problem; **to be on the r.** – bod yn cynyddu/ar gynydd; **to give r. to a complaint** – ysgogi cwyn; **the r. of the internet** – datblygiad/ymlediad y rhyngwrwyd/y we

to rise: to r. to the occasion – mynd i ysbryd y darn (?); **to r. by four per cent** – codi/cynyddu bedwar y cant; **to r. to a challenge** – mynd i'r afael â her/sialens

rising: the r. tide of – y don gynyddol o; **r. numbers of ...** – mwy a mwy o ...

risk: at r. – mewn perygl; **to run the r. of** – perygl gwneud ... yw ...; **without r. to** – heb beryglu

to risk: you'd better not r. it! – gwell peidio (â) (mentro), gwell i ti/chi beidio (â) (mentro)

risky: men are more likely to drive in r. ways – mae dynion yn fwy tebyg(ol) o'i mentro hi wrth yrru

to rival: that no other can r. – diguro

rite: a r. of passage – un o gamau/ddefodau mawr/pwysig bywyd

riveting – eithriadol o ddiddorol

road: by r. – mewn car/ar fws; **others are just down the r.** – mae eraill (i'w cael) yn gyfleus (o agos); **just a few miles d. the road** – ymhen ychydig filltiroedd, cyn pen dim;

roadshow – sioe deithiol

to rob: I was r.-bed! – cefais gam! rwy'/dwi wedi cael cam!

robbery: bank r. – lladrad banc, lladrad o fanc

robust: a r. complaints procedure – trefn gwyno gadarn; **to receive r. endorsement** – cael ei gymeradwyo/ei cymeradwyo/eu cymeradwyo'n bendant iawn, cael cymeradwyaeth bendant iawn

rock-bottom: r. wages – cyflogau pitw (dros ben); **to reach r.** – cyrraedd y gwaelodion; **I never reached r.** – wnes i erioed anobeithio/ddiffygio/ddigalonni [gw. *welsh-termau-cymraeg*, 14.11.06]

rocker: are you off your r.? – oes colled/cnoc arnat ti/arnoch chi?, wyt ti'n gall (,dwed)?/ydych chi'n gall (dwedwch)?,

to rocket: your success rate will r. – bydd eich cyfradd lwyddo/siawns o lwyddo'n cynyddu/gwella'n aruthrol

role: to play a leading r. – bod yn flaenllaw o ran/wrth; **to be a r. model** – bod yn esiampl i; **the l. role** – rhan y prif gymeriad

to roll: if successful, the scheme will be r.-led out – os bydd y cynllun yn llwyddiant/llwyddiannus, caiff ei gyflwyno('n raddol/ o dipyn i beth) mewn mannau eraill/mewn rhannau/adrannau eraill (o'r un sefydliad)/yng ngweddill y sefydliad/ledled y sefydliad

roll: on r. – ar y gofrestr; **falling r.-s** – y gostyngiad yn y niferoedd/yn nifer(oedd) y disgyblion; **r. on r. off** – gyrru ymlaen/ymaith [nid llong bob amser – gall fod yn drên, e.e. trên Twnnel y Sianel]

rolling: a r. programme – rhaglen dreigl

room – gofod

root: problems which may have their r.-s in – problemau a all ddeillio o; **to be at the r. of it** – bod yn wreiddyn y drwg; **r. causes** – achosion gwaelodol; **to take r.** – cydio; **r. and branch reform of the system** – diwygio'r system drwyddi draw, diwygio'r system o'r bôn i'r brig

rooted: r. to the spot – sefyll yn eu hunfan yn stond

rope: to be on the r.-s – gwegian; **to learn the r.-s** – dysgu'r grefft, dysgu'r hanfodion, dysgu sut mae gwneud (hyn(ny))

rosy: don't paint too r. a picture of – peidiwch â pheintio/creu darlun rhy braf o

rough: a r. and ready indication of ... – arwydd bras o ...

roughly: r. twenty yards – rhyw ugain llath

round: to meet people's expectations in the r. – bodloni pob agwedd ar ddyheadau pobl; **the first time r.** – y tro cyntaf, (ar) y cynnig cyntaf; **in case word gets r.** – rhag i'r si fynd ar led, rhag i bobl ddechrau siarad (am hynny)

to round: to r. it all off – i goroni'r cwbl/cyfan i gyd; **to r. off an activity** – cau pen y mwdwl, dod â gweithgaredd i ben, tynnu gweithgaredd at ei derfyn; **the morning was rounded off with ...** – ddiwedd y bore, cafwyd ...; **the day was r.-ed off by a ...** – diwedd glo'r diwrnod oedd ...; **to r. off the meeting** – i gloi'r cyfarfod

rounded – cyfannol (?); **a r. education** – addysg gyflawn

roundly: the decision was r. condemned – condemniwyd y penderfyniad gan bawb/yn llwyr/yn ddi-flewyn ar dafod

round-up – crynodeb, newyddion

route: to be an entry r. into ... – agor y drws i ...

to route – llwybreiddio

router: r. box – blwch llwybreiddio

routine- patrwm gweithredu/gwaith; **traditional education r.-s** – defodau addysgol traddodiadol; **equipment capable of regular and r. use** – offer y gellir eu defnyddio'n rheolaidd a chyson; **orderly r.** – trefn gyson; **r. correspondence** – gohebiaeth arferol; **in a r. manner** – heb frysio

routinely – fel rhan o'r drefn, yn gyson, bob amser/tro/cynnig

rubbish – lol botes maip; **r.!** – twt y baw!; **to talk r.** – mwydro

rubicon: to cross the r. – croesi'r gwahanfur mawr

ruin: in r.-s – yn deilchion; **they were facing r.** – yr oedd hi bron â bod ar ben arnynt

ruinous: this building is in a r. state – mae'r adeilad hwn mewn adfeilion/mewn cyflwr adfeileidig/wedi mynd â'i ben iddo

rule: a hard and fast r. – trefn gaeth; **as a r. of thumb** – fel rheol gyffredinol/canllaw cyffredinol; **your r.-s of engagement** – rheolau'ch ymwneud â'ch gilydd

to rule – deddfu, bod yn ben; **this led them to r. that ... should be ...** – parodd hyn(ny) iddynt bennu y dylid ..., hynny a barodd iddynt bennu y dylid ...; **to r. out ...** – atal ..., (penderfynu) peidio â/ag ..., dweud na ddylid ...; **we r. this out** – ni fyddwn (ni) yn gwneud hyn(ny) **to r. out proposals** – rhwystro gweithredu cynigion; **the relationship is not so clear-cut as to r. out an important role for interpretation** – nid yw'r berthynas mor bendant/glir nes golygu nad oes rôl bwysig i ddehongli/nad oes i ddehongli rôl bwysig; **other reasons must/have to be r.-ed out** – rhaid gwneud yn siŵr/rhaid ymchwilio i wneud yn siŵr nad oes rhesymau eraill/nad oes unrhyw resymau eraill, rhaid (ymchwilio i) sicrhau nad oes rhesymau eraill/nad oes unrhyw resymau eraill; **this is not to r. out the proposal** – nid dweud (rydw i/rydym ni)/yw hyn y dylid peidio â mynd ar drywydd y cynnig/na ddylid mynd ar drywydd y cynnig; **they have r.-ed out joining** – maent wedi gwrthod addo peidio ag ymuno/gwrthod rhoi eu gair na fyddant yn ymuno

ruler: (*yn yr hen oesoedd*) – pendefig

ruling: to seek a r. from ... – gofyn i ... ddeddfu; **r. factors** – ffactorau allweddol

to rumble: to r. on – rhygnu ymlaen

rumour – si/swn ym mrig y morwydd; **r. has it that** – yn ôl y sôn, (mae) ...

to rumor: it is r.-ed that – yn ôl y sôn, (mae) ...; **they are r.-ed to be slow** – maent yn cael y gair o fod yn araf

run: in the long r. – yn y tymor hir, yn y pen draw

to run: with costs now r.-ning at ... – gan fod y gost/costau bellach yn ...; **to be r. down** – wedi dirywio; **the project has been r.-ning for years** – mae'r prosiect ar waith ers blynnyddoedd; **to r. for office** – ceisio ennill grym, ymladd/ceisio ennill etholiad, sefyll (mewn) etholiad; **to have r. their course/run out of steam** – wedi chwythu eu plwc; **to r. out a hose** – dirwyn pibell allan; **time is r.-ning out** – does fawr (ddim)/dim llawer o amser ar ôl; **this is a trait r.-ning through ...** – mae hyn yn/dyma nodwedd ar ...; **this theme r.-s through the play** – mae'r thema hon yn hydreiddio'r ddrama; **could you r. through that again?** – a allet ti/a allech chi fynd dros/drwy hynny eto?, a allet ti/allech chi ddweud/wneud hynny eto?; **to r. with the horses and the hounds** – gweiddi hai efo'r cwn a hwi gyda'r cadno

run-down: a r. area – ardal dlawd/dlodaidd/ddiraen (yr olwg)

runner: r.-s-up – y rhai ail(-)orau; goreuon y gweddill; y rhai a wnaeth orau o blith y gweddill, (yn) agos at y brig, (yn) agos ati (*y ddau gynnig olaf gan Catrin Alun, w-t-c, 11.02.03*); **to do a r.** – ei gwân/gwadnu/heglu hi, cymryd y goes

running: for the second year r. – am yr ail flwyddyn o'r bron/yn olynol; **during the period of dual r. of the old and new addresses** – tra bydd/yn ystod y cyfnod y bydd yr hen gyfeiriadau a'r cyfeiriadau newydd ar waith; **r. total** – y cyfanswm ar y pryd/hyd yn hyn

run-up: in the r. to Christmas – yn ystod y cyfnod/y dyddiau/yr wythnosau (yn union) cyn y Nadolig, ychydig cyn y Nadolig

ruthless – diegwyddor, digydwytod

SACRE(s) (Standing Advisory Conference on Religious Education) – CYSAG(au) (Cynhadledd Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol)

sad: it is s. beyond belief/a (particularly/depressingly/desperately) fact/s. state of affairs – mwy trist na thristwch

safe: it is a s. assumption that ... – gellir tybio'n ddigon teg *neu* fe ellir, yn ddigon teg, gymryd yn ganiataol bod/mai/y(r); **to play s.** – peidio â mentro (gormod); **better s. than sorry** – gwell gofalu na difaru; **s. in the knowledge that ...** – gan fod yn ffyddiog bod/y bydd/mai ...; **to make a hazard s.** – dileu perygl; **it's a (fairly) s. bet that ...** – mae'n fwy na thebyg mai/bod/y(r) ...; mae'n bur debyg mai/bod/y(r) ...; **s. in the knowledge that ...** – gan wybod bod ..., gan wybod i sicrwydd fod ..., gan fod yn (hollol/gwbl) sicr/siŵr bod ...

safeguard – mesur gwarchod/diogelwch, trefn i sicrhau bod, ffordd o sicrhau bod; **regulation can only be a partial s.** – ni all rheoleiddio ond cynnig diogelwch rhannol/rhywfaint o ddiogelwch/hyn a hyn o ddiogelwch

to safeguard – gwarchod

to sag – arafu, pylu

to sail: we are s.-ing close to the wind (*economically-speaking*) – does fawr o lewyrch ar bethau, cael a chael fydd hi i ni gael y cwch i'r lan, mae hi'n (o) fain arnom ni, dydyn ni ddim yn gwneud fawr o elw, bach iawn (iawn) o elw rydyn ni'n ei wneud

sailing: all was not plain s. – cododd ambell broblem, cafwyd ambell anhawster/broblem/drafferth

sake: change for change's s. – newid (dim ond) er mwyn newid

salary: s.-ies and wages – cyflogau wythnosol a misol

sale: series forwhich large s.-s are expected – cyfresi y mae disgwyl/disgwylir iddynt werthu'n dda

salient – prif, pwysig, pwysicaf, perthnasol

salutary: a s. reminder – awgrym iachus i'n hatgoffa; **a s. lesson** – gwers fuddiol/werthfawr

salute: this prize is a s. to ... – mae'r wobr hon yn cydnabod/gydabyddiaeth o ...

salt: it is wise to take this information with a pinch of s. – peth doeth yw amau'r wybodaeth honno; **we're going through this work like a dose of s.-s** – rydyn ni'n tasgu drwy'r gwaith (hwn/'ma)

same: these s. teachers – yr (union) athrawon hyn(ny); **change and progress are not the s.** – nid yw newid a chynnydd yn gyfystyr; **to stay the s.** – aros yr un fath, aros fel y maent/yr oeddent; **a tendency to regard these processes as being one and the s.** – tuedd i ystyried/gredu mai'r un broses yw pob un ohonynt; **at the s. time** – ar yr un gwynt; **this remains the s.** – nid yw hwn wedi newid; **tell your colleagues to do the s.** – dywedwch wrth eich cydweithwyr am wneud yr un peth

sample: a s. sheet – enghraifft o ddalen/daflen

sanctuary: s. system – system neilltuo

sand: don't bury your head in the s. – paid ag/â cheisio anwybyddu dy broblemau, peidiwch ag/â cheisio anwybyddu'ch problemau, paid/peidiwch ag/â cheisio anwybyddu'r broblem/problemau; **in these shifting economic s.-s** – ynghanol y newidiadau hyn yn y sefyllfa economaidd, wrth i'r sefyllfa economaidd (sydd ohoni) newid (fel hyn), gan fod y sefyllfa economaidd (sydd ohoni) yn newid/mor anwadal/mor ddryrs

sandwich: s. course – rhyng-gwrs

sarcastic – crafog

satisfaction: to your s. – mewn ffordd sy'n eich bodloni; **you have been allowed to ask questions which have been answered to your s.** – cawsoch ofyn cwestiynau ac mae'r atebion wedi eich bodloni; **if I cannot show to your s. that ...** – os na allaf eich bodloni bod/mai/y ...

satisfying – rhoi boddhad i; **s. and rewarding** – o fudd ac o fantais; **a s. career** – gyrfa sydd/a oedd/a fydd wrth eu bodd

saunarium – sawnariwm (*gwefan prifysgol Aberystwyth, 03.02.10*)

sausage: not a s. – dim, dim byd (hyn)

save – ond, heblaw (am)

to save: to s. the day – dod i'r adwy

saviour: s. sibling – plentyn/brawd/chwaer achubol; **old buildings may fail to find .-s** – gall hen adeiladau fethu â dod o hyd i rywun/rywrai eu hachub, fe all na ddaw neb/nad aiff neb ati i achub hen adeiladau

say: to have the final s. – cael y/bod â'r gair olaf

to say: that is to s. – hynny yw, sef; **that is not to s., however, ...** – ond ni olyga hynny ...; **to s. much for** – bod yn glod i; **what would you s. is ...?** – beth(,) yn eich barn chi(,) yw ...?; **it is said that ...** – yn ôl y sôn/yr hanes, **so it is said** – yn ôl yr hanes, **he is (once) said to have written a poem** – yn ôl yr hanes, fe ysgrifennodd gerdd; **to s. nothing of ...** – heb sôn am ...; **what the law s.-s (pennawd)** – geiriau'r gyfraith

scalability – graddiadwyedd (*Delyth Prys mewn e-bost ataf ar 01.09.05*)

scale: the s. of the broblem – maint/hyd a lled y broblem, pa mor fawr yw'r broblem

to scale: to s. back/down (on) investment – buddsoddi llai, cwtogi ar fuddsoddi/ar y buddsoddi, peidio â buddsoddi cymaint; **to s. back/down (on) the need for ...** – lleihau/graddol leihau'r angen i/am ...

scam – twyll

to scan – bras-ddarllen, llithr-ddarllen

scant – fawr/ychydig o

scarcely: this is s. surprising – nid yw hynny'n fawr o syndod

scary – codi ofn (arnynt), yn ddigon i godi ofn ar

scathing – dilornus, hallt, llawdrwm

scattered: s. between the farms are woods – yma ac acw/hwnt ac yma rhwng y ffermydd ceir coedlannau

scattergun: a 's.' approach – ymagwedd 'tanio hwnt ac yma'/tanio'n wyllt/tanio'n ddigyfeiriad

scenario – sefyllfa, darlun, (*ei hepgor*); **worst case s.** – yn y sefyllfa waethaf (y gellir ei dychmygu), petai pethau'n mynd i'r pen, petai gorfod wyneb'r gwaethaf

scene: on the statutory s. – yn y maes statudol; **a change of s.** – newid byd

scenery: a change of s. – newid byd

scenic: s. route – ffordd olygfeydd; **areas of great s. attraction** – ardaloedd hynod o hardd/brydferth; **the most s. railway** – y rheilffordd odidocaf ei golygfeydd; **their s. beauty** – harddwch eu golygfeydd;

scenography – sgenograffeg eb

sceptically – yn feirniadol

schedule: to start on s. – cychwyn/dechrau yn unol â'r amserlen; **to be on s.** – cadw at yr amserlen

to schedule – amserlennu

scheduled: s. building – adeilad cofrestredig

school: although there used to be a s. of thought that ... – er i rai/garfan/un garfan arfer credu/tybio bod/mai/y(r) ...;
one s. of thought – un farn, barn un garfan; **s.-based** – yn(-)yr(-)ysgol

science: s. education – addysg wyddonol

scope – cwnpawd, cylch, lle (i); **there is s. for** – gellir, mae modd, mae'n bosibl, mae lle i; **to consider the s. for rationalisation** – ystyried i ba raddau y gellir rhesymoli; **it is beyond the s. of this book to describe** – ni all y llyfr hwn ddisgrifio; **s. for initiative** – faint o gyfle (sydd/oedd etc) i ddangos/amlygu menter; **when considering the s. for attracting funding** – wrth ystyried sut mae denu cyllid, wrth ystyried y posibilrwydd o ddenu cyllid, wrth ystyried y posibiladau o ran denu cyllid, wrth ystyried hyd a lled y cyfle(oedd) o ddenu cyllid; **there is s. to** – mae cyfle('n bod) i

to scope: to s. a study – sefydlu/pennu cwmpas astudiaeth

scorched: s. earth tactics – tactegau cwbl ddinistriol

score: all that can be said on that s. – y cyfan y gellir ei ddweud am hynny/ynghylch â/ynghylch hynny

to score: petty point-s.-ing against the Government – tynnu blew o drwyn y Llywodraeth

scourge: to be a s. of ... – bod yn felltith ar ...

scrap: s.-s of paper – darnau mân o bapur

to scrap – dileu, cael gwared ar/â/ag/o

scrapheap: the Tories condemned a whole generation to the s. – condemniodd y Torïaid genhedlaeth gyfan i fyw(yd) ar y dŵl

scratch: to come up to s. – cyrraedd y/bod o'r safon briodol, bod yn ddigon dda; **to escape without a s.** – dianc yn iach eu croen; **to create them from s.** – eu creu o'r cychwyn cyntaf

screen: s. horror – sgrin sgrech [rhaglen yr Wyl Ffilmiau, 1997]

to screw: the 's. you' effect – yr effaith 'yma i fod yn lletchwith/i wneud pethau'n anodd/i ddrysu'r trefniadau/i droi'r drol'

scribe – cofnodwr (?)

scruffy – diraen

to scrunch – crychu

scrupulous: in s. detail – yn drylwyr o fanwl

to scrutinise – bwrw golwg dros

scrutiny: under s. – a astudir, (yn/sy'n) cael sylw; **careful s.** – edrych yn dra gofalus ar, bod yn destun sylw manwl

sea: a s. change – newid llwyr, trawsnewid; **their attitude underwent a s. change** – newidiodd eu hagwedd yn llwyr/bu newid llwyr yn eu hagwedd

seal: s. of approval – cymeradwyo

seamless – di-dor, di-fwlch; **a s. process** – proses gynhwysfawr

seamlessly – yn ddi-dor, yn ddi-fwlch, heb unrhyw fwlch/doriad (o gwbl/o fath yn y byd)

seascape – morwedd (eb), morweddau

seasonal: s. vegetables – llysiau'r tymor

seasoned : a s. traveller – teithiwr profiadol

seat: to be in the driving seat – bod wrth y llyw; **I was on the edge of my s. to register for it** – roeddwn i'n ysu am gael cofrestru i'w gael/i'w chael/ar ei gyfer/ar ei chyfer, roeddwn i ar dân (o) eisiau cofrestru i'w gael/i'w chael/ar ei gyfer/ar ei chyfer; **to take a back s. to ...** – bod yn ail/eilbeth i ...

second: s. to none – diguro; **without giving it a s. thought** – heb feddwl dim/ddwywaith (am y peth); **s.to the United States, Britain attracts the most international students** – heblaw am yr Unol Daleithiau, Prydain sy'n denu'r nifer fwyaf o fyfyrwyr rhyngwladol

to second – rhyddhau

to second guess: to s. decisions – dyfalu beth fydd (y) penderfyniadau, ceisio rhag-weld penderfyniadau

secondary: to be s. to – bod/dod yn ail i

secret: to make no s. of the fact – peidio â cheisio celu'r ffaith

section – grŵp; **heads of s.** – penaethiaid ysgolion/blynyddoedd; **s. of road** – darn o ffordd

secure: less s. conditions – amodau llai caeth

to secure: to s. their u. attention – hoelio'u sylw

security – diogelwch cyffredinol [*pan fydd angen gwahaniaethu rhyngddo a 'safety'*], diogeled; **safety and s. considerations** – yn ymwybodol o bob agwedd ar ddiogelwch

to see: this is seen as desirable – credir/tybir/ystyir bod hyn yn ddymunol; **their influence is (to be) most clearly seen in** – mae eu dylanwad ar ei amlycaf yn; **here can be seen** – dyma (lun o); **to s. to it that ...** – sicrhau bod/mai/y(r) ...; **we s. this as one of our major strengths** – i ni, dyma un o'n cryfderau pennaf/mwyaf neu i ni, dyma un o'n prif gryfderau; **to s. the process through** – parhau â'r broses hyd y diwedd; **they were nowhere to be seen** – doedd dim sôn amdany'n nhw; **October saw them performing in ...** ym mis Hydref buont yn perfformio yn/mewn ...; **this is seen as vital business** – barn byd busnes yw bod hyn yn hanfodol; **to s. this as an opportunity** – gweld/ystyried/tybio/barnu bod hyn yn gyfle; **please s. the end of this document for**

information – ewch i ddiwedd y ddogfen hon i gael/weld y wybodaeth (honno), cewch y/chi'r wybodaeth (honno) ar ddiwedd y ddogfen hon; **justice is seen to be done** – gwelir gweithredu cyfiawnder

to seek: there is a balance to be sought – rhaid ceisio sicrhau cydbwysedd; **the Authority s.-s/is s.-ing to appoint ...** – mae'r Awdurdod yn dymuno penodi/yn awyddus i benodi ...

to seem: it s.-s unlikely that ... – go brin y ...

seemingly – fel petai'n, mae'n debyg

seething: s. with excitement – yn ferw gwyllt

segment – cam

to seize: to s. the opportunity – bachu ar y cyfle, gwneud yn fawr o'r cyfle

seldom: too s. are pupils given an opportunity to ... – ni chaiff (y) disgyblion gyfle'n hanner digon aml i/hanner digon o gyfle i ...

selected: in s. places – mewn detholiad o leoedd

selective: we reserve the right to be s. in the services we provide – cadwn yr hawl i ddewis a dethol y gwasanaethau a ddarparwn/yr ydym yn eu darparu

self-appraisal – hunanwerthuso

self-contained – cyflawn ynddynt eu hunain

self-defeating: the process would become s. – byddai'r broses yn drech na'i diben

self-evident – (cwbl) amlwg

self-explanatory: to be s. – bod yn ddigon clir/amlwg/ddigon hawdd eu deall; **to be clear and s.** – bod yn glir a diamwys

self-image: a child's s. – delwedd y plentyn ohono'i/ohoni ei hun

self-limiting – hunangyfngol (*rhyw 20 o enghreifftiau ohono ar y we, 28.03.17*)

to self-medicate – hunanfeddyginiaethu

self-motivated: s. work – gwaith o'u pen a'u pastwn eu hunain

self-motivation: from s. – ohonynt eu hunain

self-plagiarism (= *to submit a very similar piece of work for two assignments*) – hunan-lên-ladrad (*eg*)

to self-reflect – hunanfyfyrrio

self-reflection – hunanfyfyrrio

to self-select: some of the people s.-ed their exclusion from ... – yr oedd rhai pobl yn dewis eu cau eu hunain allan o .../yn dewis cadw draw o ..., dewis rhai pobl oedd eu cau eu hunain allan o .../cadw draw o ...

self-study – hunan-ddysgu

sell: the hard s. – gwerthu'n ymosodol

selling: this could be a big s. point in attracting visitors to Wales – gallai hwn/hyn fod yn elfen bwysig/o bwys mawr/fod yn ddefnyddiol iawn/fod yn atyniadol iawn/fod yn atyniad mawr wrth ddenu ymwelwyr i Gymru

to send: to s. a signal that ... – cyfleu'r neges bod/mai/y(r) ...

to sensationalise – codi bwganod ynglŷn â/ag ..., ynghylch ...

sensationalist – ymfflamychol (?)

sense: this is in no s. a ... – nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn ...; **it makes s. to ...** – cam synhwyrol yw ..., peth call yw ...; **to lose their s.-s** – colli arnynt eu hunain; **to produce a s. of movement** – rhoi'r argraff fod pethau'n symud; **in a sense** – ar ryw olwg; **this is/makes sound business s.** – mae hwn/hyn yn/hynny'n synhwyrol o safbwynt (y) busnes; **to convince them that this makes sound s.** – eu hargyhoeddi mai doeth o beth yw gwneud hyn(ny), eu hargyhoeddi ei bod hi'n ddoeth/beth doeth gwneud hyn(ny); **in a very real s.** – mewn ffordd arbennig iawn; **to see s.** – callio, dod at eu coed; **to share in a s. of achievement** – cyd-ymfalchïo mewn (cyflawni) camp; **to have a s. of common purpose** – anelu('n bendant/gadarn) at yr un nod

sensible: to be s. to ... – ymdeimlo/ymglywed â/ag ..., bod yn ymwybodol o ...

to sensitise: to s. the profession to ... – sicrhau bod y proffesiwn yn effro i ...

sensitive: to be s. to ... – bod yn effro i ..., ymdeimlo/ymglywed â/ag ...

sentiment: to agree with the s.-s expressed – cytuno â'r hyn a ddywedwyd/sylwadau a wnaed; **the Court endorsed these s.-s with acclamation** – cymeradwyodd y Llys y sylwadau hyn yn/hynny'n frwd

to separate: a large gulf s.-es the best and the worst – mae bwlch mawr rhwng y gorau a'r gwaethaf

separately – fesul un

separation: there is a lack of s. between the categories – nid oes ffin/llinell bendant rhwng y categorïau

sequentially: with each component falling (= being put) into place s. – a phob cydran yn ei thro yn dod i'w lle, a phob cydran yn dod i'w lle fesul cam, a phob cydran yn cael ei rhoi yn ei lle/yn ei phriod le yn ei thro/fesul cam

serial: s. changes – ton ar ôl ton o newidiadau

series: a whole s. of ... – amryw byd o ..., llond gwlad o ...

serious: there is a s. lack of – nid oes hanner digon o; **to make s. headway** – gwneud cryn gynnydd, gwneud cynnydd mawr/sylweddol; **it is not known how s. the party is about defending the case** – nid yw'n hysbys/ni wyddom/wyddon ni ddim pa mor benderfynol yw'r parti arall o amddiffyn yr achos

seriously: very s. – o ddifrif calon; **there's something s. wrong** – mae rhywbeth mawr o'i le

to serve – bod (yn/yn fodd i/o fudd/o gymorth); **to s. their purpose** – ateb eu diben; **to s. a useful purpose** – bod o fudd; **no purpose is s.-ed by mixing them** – nid oes diben/pwrpas eu cymysgu; **they s. little purpose** – nid oes fawr o

bwrpas/ddiben iddynt; **to s. as a guide** – bod yn ganllaw; **they will have s.-ed their purpose** – byddant wedi gwneud eu gwaith; **to s. to** – bod yn fodd i; **this has s.-ed to** – effaith hyn yw/oedd/fu; **an example may s. to illustrate** – gall enghraifft ddangos; **this s.-ed to highlight that ...** – tynnodd hyn(ny) sylw at (y ffaith fod/mai/y(r)) ...; **the data recorded s.-es as a point of reference** – defnyddir y data a gofnodir/gofnodwyd yn fan cyfeirio; **this will s. an important role** – bydd hyn yn/hynny'n cyflawni rôl bwysig/bydd i hyn(ny) rôl bwysig; **what aims the structure should s.** – pa nodau/amcanion a ddylai fod i'r strwythur; **to s. notice** – hysbysu; **to s. an apprenticeship** – bwrw prentisiaeth; **to s. a need** – ateb/diwallu angen; **this relationship has s.-ed them well** – mae'r berthynas hon(no) wedi bod yn gaffaeliad/llesol/ fuddiol/fanteisiol iddynt, maent wedi elwa o'r berthynas hon(no); **to s. a probationary period of 6 months** – cwblhau cyfnod prawf o 6 mis

service: to bring into s. – dechrau defnyddio, rhoi ar waith; **these machines should be in s. for ... of the time** – dylai'r peiriannau hyn(ny) fod ar gael (i'w defnyddio) am ... o'r amser

serviceable: the equipment must be s. – rhaid bod yr offer mewn cyflwr digon da iddo gael ei ddefnyddio/iddynt gael eu defnyddio, rhaid bod modd defnyddio'r offer

serving: a school s. a catchment area – ysgol â dalgylch; **s. teachers** – athrawon wrth eu gwaith; **a s. room** – ystafell gweini bwyd; **a s. member** – aelod sy'n gwasanaethu/o ... ar hyn o bryd

set: a whole s. of ... – amryw byd o ...; **our suspicion turned into a s. -in-stone certainty** – trodd ein hamheuaeth/hamheuron yn sicrwydd llwyr, cadarnhawyd ein hamheuaeth/hamheuron yn llwyr/i'r eithaf, cadarnhawyd pob un o'n hamheuron; **the rules are not s. in stone.** – nid yw'r rheolau'n gwbl haearnidd/anhwblyg, mae modd newid y rheolau, nid deddf y Mediaid a'r Persiaid mo'r/yw'r rheolau hyn

to set – gosod (mewn setiau); **to s. payments** – pennu taliadau; **to s. the scene** – amlinellu'r cefndir; **to s. the pace** – bod ar y blaen/ar flaen y gad; **to s. free** – rhyddhau, gollwng yn rhydd; **by s.-ting them the task of asking three questions** – drwy beri iddynt/eu hysgogi i ofyn tri chwestiwn; **to s. about** – bwrw ati, ymgodymu â, ymroi i; **to s. aside** – neilltuo, rhoi o'r neilltu (?); **to s. back** – amharu ar, peri oedi; **fatigue can s. in when drivers are travelling long distances** – gall blinder daro/lethu gyrwyr wrth iddynt deithio pellteroedd maith; **to s. in hand/motion** – cychwyn, rhoi ar waith; **to s. in train** – rhoi ar waith; **to s. off** – ysgogi, symbylu; **to be dead s. on winning** – bod yn awyddus iawn/dros be i ennill, bod yn ysu am gael ennill, bod â'u bryd ar ennill; **to s. out** – nodi, darlunio, portreadu, cyflwyno; **to s. out the history of ...** – adrodd hanes ...; **to s. out to ...** – mynd ati i ..., ymroi i ...; **this s.-s out to prove that ...** – mae hwn/hon/hyn yn ceisio/hwnnw'n/honno'n/hynny'n profi bod/mai/y(r) ...; **to s. ... out in detail** – manylu ar ...; **these are s. out in appendix 1** – maent/mae'r rhain/mae'r rheiny i'w gweld/fe'u gwelir yn atodiad 1; **the provisions s. out in the act** – darpariaethau'r ddeddf; **to s. you up for a successful career** – eich rhoi chi ar ben y ffordd i gael gyrfa lwyddiannus; **this process looks/is s. to continue** – mae'r broses hon yn/fel petai'n mynd i barhau, mae'n debyg/fwy na thebyg y bydd y broses hon yn parhau, yn ôl pob tebyg bydd y broses hon yn parhau; **they are s. to go** – maent ar fin mynd, maent yn barod i fynd, byddant yn mynd, y gobaith yw y byddant yn mynd/y llwyddant i fynd, mae'n debyg y byddant yn mynd/mae'n debyg mai mynd wnân nhw; **this game looks s. to go down to the wire** – mae'r gêm (hon/'ma) yn edrych fel petai hi'n mynd i lawr i'r chwiban olaf (*sylwebydd ar y BBC*), fydd canlyniad y gêm ddim wedi'i setlo tan y chwiban olaf; **to s. their face towards ...** – bod â'u pryd ar ..., rhoi eu pryd ar ...; **to s. the ball rolling** – gwrthio'r cwch i'r dŵr

setback – problem, ergyd

set-in-stone: our suspicion turned into a s. certainty – trodd ein hamheuaeth/hamheuron yn sicrwydd llwyr, cadarnhawyd ein hamheuaeth/hamheuron yn llwyr/i'r eithaf, cadarnhawyd pob un o'n hamheuron

setting: in the secondary s. – yn y maes uwchradd

to settle: to s. into a role – ymgysylltu/ymgynefino â rôl

set-up – sefyllfa, trefn(iant); cynllwyn, trap, magl; **a s. fee** – ffi sefydlu

to sever: to s. connections – rhoi'r gorau i gysylltiadau

severe – difrifol iawn

severely – yn ddifrifol iawn; **to restrict s.** – cyfyngu'n ddirfawr ar; **the school was s. criticised** – beirniadwyd yr ysgol yn hallt; **to be s. criticised** – bod o dan yr ordd

sexfoil – chwedalen

to shackle – caethiwo

shaded – lled(-)dywyll

shadow: without a s. of a doubt – heb ronyn o amheuaeth, heb os nac oni bai

shady: a s. character – aderyn brith

to shake: to s. up – ailwampio

shambles – ffradach, cawl potsh

shape: the s. of things to come – dyma fel y bydd hi/pethau, fel hyn y bydd hi, dyma (ragargoel o)'r dyfodol; **of all s.-s and sizes** – o bob lliw a llun; **to take s.** – datblygu; **to establish a full-time body in the s. of a commission** – sefydlu corff amser-llawn, sef comisiwn

to shape: to s. their destiny – llywio'u tynged

shake-up – ailwampio

to share: **to s. the view that** – cyd-fynd/cytuno/cydsynio (â'r farn) (fod/mai); **we s. ...** – mae gennym ... yn gyffredin; **they s.-ed my opinion** – yr oeddent o'r un farn â mi; **to s. the same values** – arddel yr un gwerthoedd; **to s. in the excitement of** – blasu/profi/teimlo peth/tipyn o gyffro; **s. (information about) your work with others** – rhowch wybod i eraill am eich gwaith; **we ask you to s. your concerns with each other** – gofynnwn i chi sôn wrth eich gilydd/roi gwybod i'ch gilydd am eich pryderon; **to s. in a sense of achievement** – cyd-ymfalchïo mewn (cyflawni) camp; **the four English counties that s. a border with Wales** – y pedair sir yn Lloegr sy'n ffinio â Chymru; **they s. our priorities** – yr un yw'n blaenoriaethau ni â'u rhai hwy, maent yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ni; **they did not s. the same ideas** – yr oedd ganddynt syniadau gwahanol (i'w gilydd), nid oedd eu syniadau'n cyd-fynd; **they didn't share the same beliefs** – nid oeddent yn arddel yr un daliadau/credoau; **I know that you s. with us a commitment to ...** – gwn eich bod chi, fel ni, wedi ymrwymo i ...

shared: **s.-ownership** – rhan-berchnogaeth; **a s. vision and commitment** – cyd-weledigaeth a chyd-ymrwymiad; **there is interest in the importance of a s. vision for a school** – mae rhai'n/nifer/amryw'n ymddiddori ym mhwystrwydd rhannu gweledigaeth ar gyfer ysgol, mae tipyn o ddiddordeb/mae peth diddordeb ym mhwystrwydd rhannu gweledigaeth ar gyfer ysgol *neu* i nifer/amryw o bobl, mae'n bwysig rhannu'r weledigaeth ar gyfer ysgol/bod y weledigaeth ar gyfer ysgol yn cael ei rhannu (*welsh-termau-cymraeg*, 21.10.05)

sharp – crafog; **a s.-er focus** – canolbwynt cliriach; **in s. contrast to** – yn wahanol iawn i; **a short s. presentation** – cyflwyniad byr a phwrpasol; **those at the s. end of delivering patient care** – y rhai sydd wrthi'n rhoi gofal i gleifion; **to bring the principle into s. focus** – hoelio sylw'n bendant iawn ar yr egwyddor

to sharpen: **to s. responses** – cyflymu ymateb

sharply: **crime has risen s.** – mae troseddu/tor-cyfraith wedi cynyddu llawer iawn (yn sydyn/dros nos (bron))

to shed: **to s. workers** – cael gwared ar weithwyr, diswyddo gweithwyr; **to s. superstitions** – cael gwared ar/dileu ofergoelion

sheer: **the s. number of applications they received made it impossible to know whether ...** – am/gan fod cynifer o geisiadau, yr oedd hi'n/yn amhosibl iddynt wybod a(i) ..., yr oedd y ffaith iddynt gael cynifer o geisiadau'n golygu ei bod hi'n amhosibl gwybod a(i) ...; **the s. breadth of activities** – holl ehangder y gweithgareddau

shift: **cultural s.** – newid agwedd (yn/ledled y sefydliad), newid yn meddylfryd (y sefydliad)

shifting: **in these s. economic sands** – ynghanol y newidiadau hyn yn y sefyllfa economaidd, wrth i'r sefyllfa economaidd (sydd ohoni) newid (fel hyn), gan fod y sefyllfa economaidd (sydd ohoni) yn newid/mor anwadal/mor ddryys

shit: **s. happens** – does dim dal (*Gorwel Roberts, welsh-termau-cymraeg*, 15.06.06), be' nei di 'de? (*mab Siân Roberts, welsh-termau-cymraeg*, 15.06.06), fel 'na mae (hi), felly (y) mae hi

shock: **short sharp s.** – gwers gyflym ac effeithiol (?); **a s. result** – canlyniad syfrdanol

shocking: **s. experiences** – profiad ysgytwol/ysgytiol; **a s. thing** – cythraul/diawl o beth

to shoot: **to have shot their bolt** – wedi chwythu eu plwc; **to s. one's mouth off** – ei dweud hi('n (o) hallt); **to s. out** – tasgu allan

shop: **a one-stop s. solution** – ateb cyflawn/cynhwysfawr; **a 'one-stop s.' guide** – canllaw cynhwysfawr

shore: **naval s. establishment** – sefydliad llyngesol tirol; **if they make it to our s.-s** – os llwyddant i gyrraedd ein gwlad ni; **beyond our s.-s** – dros y môr

short: **at s. notice** – ar fyr o dro; **within a s. period/space of time** – yn fuan; **s. items** – pytau; **to fall (well) s. of ...** – (bod) (gryn dipyn) yn llai na(g) ...; **the Act fell s. of imposing a duty to ...** – nid aeth y Ddeddf mor bell â gosod dyletswydd i ...; **in s. supply** – prin, annigonol; **s. cut** – ffordd fer; **in so s. a time** – mewn cyn lleied o amser; **I did a s. stint working at ...** – bûm yn gweithio/gweithiais am ychydig (bach) yn ..., treuliais gyfnod byr yn gweithio yn ...; **to f. (well) short of** – (bod) (tipyn) yn llai na(g); heb fod yn ddigon (difrifol/cadarn *neu* ryw *ansoddair priodol arall*) (o bell ffordd); *o dan 'fall' yng Ngeiriadur yr Academi ceir hefyd:* **to fall s. of expectations** – siomi'r disgwyliadau

to short-change – methu â rhoi digon o sylw i

shortcut – llwybr tarw, llwybr llygad, llwybr union

shortfall: **to bridge a s.** – pontio'r bwlch

to shortlist – cyrraedd y rhestr fer, cael eu rhoi ar y rhestr fer

short-listed: **the s. candidates** – yr ymgeiswyr (sydd/a fydd/a oedd) ar y rhestr fer, yr ymgeiswyr sydd/a fydd/a oedd wedi cyrraedd y rhestr fer

shortly – cyn hir; **s. before** – ychydig cyn; **s. to** – ar fin

shortness: **s. of breath** – colli'ch anadl/gwynt

short-sighted: **this could be (a) s. action** – gallai hwn(nw)/hyn(ny) fod yn gam gwag

short-termism – meddwl yn nhermau'r tymor byr yn unig, meddylfryd tymor-byr

shot: **give the examinations your best s.** – gwnewch eich gorau glas yn yr arholiadau; **to be in the s.** – bod yn y golwg, bod i'w (g)weld

should: **it is important that attention s. be given to** – mae'n bwysig rhoi sylw i; **in order that there s. be** – er mwyn sicrhau; **the main aim s. be to** – yr hyn a ddylai fod yn brif amcan/nod yw, y prif nod/amcan y dylid ei arddel yw, dylid anelu'n fwy na dim at/bennaf oll at; **a request that any ... should be referred to ...** – cais am/ar i unrhyw ... gael ei gyfeirio at; **they s. become more aware of ...** – dylid meithrin eu hymwybyddiaeth o ...; **Who**

s. make the decision? S. it be a, b or c? – Pwy ddylai benderfynu? Ai a, b neu c?/Pwy ddylai benderfynu – a, b neu c?

shoulder: the s. seasons – y tymhorau (sydd) bob pen i'r prif dymor, y tymor cynt a'r tymor wedyn/sy'n dilyn

show: you will be recorded as a 'no s.' – fe gofnodir eich bod heb ddod/fod yno (/yn y gweithdy/yn y ddarlith *ac ati*)

to show: to s. results – dwyn ffrwyth; **to s. up** – (eu) (h)amlygu (eu hunain), dod i'r amlwg, cyrraedd, ymddangos; **to s. up** – i'w (g)weld; **to s. concern** – ymboeni am; **to s. caution** – bod yn wyliadwrus, bod ar eu gwyliadwraeth; **to s. care**(= *to be careful*)— bod yn ofalus, arfer gofal

showcase – siop ffenest; **to provide a s. for** – rhoi cyhoeddusrwydd i, tynnu sylw at

to showcase – rhoi cyhoeddusrwydd i, tynnu sylw at; **to s. Wales** – cyflwyno Cymru i'r byd

shown: s. left is ... – yn y llun/darlun ar y chwith mae/gwelir/fe welir/fe welwch (chi) ...

showpiece: a s. brewery – patrwm o fragdy

shrift: the judges gave the case short s. – ni roes/roddodd y barnwyr fawr o sylw/ystyriaeth i'r achos, wfftiodd y barnwyr (at) yr achos, gwrthododd y barnwyr yr achos ar ei ben

to shrink – encilio

shrouded: s. in dust – o dan haen drwchus o lwch, o dan drwch o lwch, yn llwch i gyd, â thrwch o lwch drosto/drosti/drostynt

to shun: to s. the improper use of ... – ymwrthod â defnyddio ... yn amhriodol, ymwrthod â'r defnydd amhriodol o ...

shy: they scored two minutes s. of half-time – fe sgorion nhw ddwy/ddau funud cyn hanner amser

to shy: to s. away from ... – petruso rhag ..., (dewis/penderfynu) peidio â/ag ..., bod heb eisiau ..., ymgadw rhag ..., osgoi

sick: to be s. with worry – poeni'n ofnadwy/eu henaidd; **to be worried s.** – bod ar bigau'r drain; **s. joke** – jôc drist [R Gerallt Jones yn *T. H. Parry-Williams*]

side: the other s. of the ... – am y ... â/ag ...; **the other s. of the world** – pen draw'r byd; **s. by s. with** – ochr yn ochr â/ag; **to err on the s. of caution.** – peidio â bod yn rhy fentrus, peidio â mentro gormod, peidio â'i mentro hi, bod yn ofalus/bwyllog, pwylllo, peidio â bod yn rhy uchelgeisiol/yn or-uchelgeisiol, gweithredu/mentro gan bwyl (bach); **to be on the ambitious s.** – bod braidd yn uchelgeisio/yn bur uchelgeisiol/yn eithaf uchelgeisiol; **to be on the cautious s.** – heb fod/peidio â bod yn or-uchelgeisiol/or-fentrus; **with us by your s., you'll never be alone** – a ni(nnau)'n gefn i chi, fyddwch chi byth ar eich pen eich hun/ar eich pennau'ch hunain

sideline: on the s.-s – ar yr ymylon

to sideline – rhoi i'r naill ochr, rhoi o'r neilltu

to sidetrack – codi/mynd ar ôl sgwarnog(od), bwrw oddi ar eu hechel (?)

to sift: to s. information – dethol/didoli gwybodaeth; **to s. applications** – pwyso a mesur ceisiadau

sight: without s. of – heb (iddynt) weld; **to have s. of** – gweld

sign – argoel; **s.-s of wear and tear** – ôl traul; **there was no s. of them** – nid oeddent i'w gweld yn unman

to sign: to s. up to the idea of ... – cyd-fynd/cyd-weld/cysynio/cytuno â'r syniad o ..., cefnogi'r syniad o ...; **to s. up to an agreement** – ymrwymo i gytundeb (*awgrym Glenys Roberts ar welsh-termau-cymraeg ar 29.10.07*), llofnodi cytundeb; **to s. up** (= *to join*) **to a scheme** – ymuno â chynllun (*awgrym Glenys Roberts ar welsh-termau-cymraeg ar 30.10.07*); **they need to s. up to a values statement** – mae angen iddynt lofnodi i ddangos eu bod yn cytuno/cyd-fynd â datganiad o werthoedd; **to s. up to our monthly newsletter** – gofyn am gael ein newyddlen fisol

signal: a s. failure – methiant llwyr; **to send a s. that** – cyfleu'r neges bod/mai/y(r)

to signal – dynodi, bod yn arwydd o, cyfleu, dangos (bwriad i .../eu bwriad i .../eu bod yn bwriadu ...); **this s.-s a need to ...** – mae hwn yn nodi/dangos bod angen ...

signalised: s. junctions – cyffyrdd sydd â goleuadau traffig

significant: s. variation – cryn amrywiaeth; **s. areas of** – rhannau helaeth o; **in a s. number/proportion of schools** – mewn nifer dda o ysgolion

significantly: not s. – ddim rhyw lawer; **s. larger than** – tipyn yn fwy na; **s. different** – yn bur wahanol, yn eithaf gwahanol; **to be s. late** – bod yn eithaf hwyr/yn o hwyr

to signify: to s. their support for – datgan/dweud eu bod o blaid

signpost: to provide s.-s for (a) more detailed analysis – cyfeirio'r ffordd at ddadansodd(iad) manylach

to signpost – dangos; **we're here to s. the options** – yr ydym yma i'ch cyfeirio/i gyfeirio/dynnu'ch sylw at y dewisiadau/opsiynau; **to s. to the reader the arguments you are developing** – cyfleu/dangos i'r darllynydd gyfeiriad/drywydd y ddadl yr ydych chi'n/wrthi'n ei datblygu

silently – heb ddweud dim

similar: s. comments apply to ... – mae'r un peth yn wir (, fwy neu lai,) am ...; **in s. fashion** – yn yr un modd

similarity: by their s. to – gan debyced ydynt i; **to bear a s. to ...** – bod yn debyg i ...

simple: in s. terms – yn syml, a siarad yn gyffredinol, mewn gair, o'i roi'n syml, o ddweud y peth/o fynegi'r peth yn syml; **s. and efficient distribution** – dosbarthu hwylus ac effeithlon; **it's just the text, pure and s.** – dim ond y testun (sydd yma/yno), a dim (byd) arall/a dim mwy

simplicity: for s.'s sake – i hwyluso pethau, i gadw pethau'n syml, rhag i bethau fynd yn rhy gymhleth, rhag bod yn afradus

simplistic: to be s. – gorsymleiddio

simply – (*ei hepgor*), yn ddim amgen na, nid ydynt ond (yn) ..., y cyfan a wnânt/wneir yw ...; **it is not s. a case of** – nid....yn unig a wneir; **put s./to put it s.** – mewn gair, yn syml; **s. because** – am y rheswm syml bod; **quite s., this is the ...** – mewn gair, dyma'r ...; **there are s. too many of them** – y ffaith amdani yw bod gormod ohonynt; **do more than s. read this book** – gwnewch fwy/dipyn mwy na darllen y llyfr hwn; **their fears are s. imaginary** – mae eu hofnau'n gwbl ddychmygol; **by s. going** – drwy wneud dim mwy na mynd, heb (orfod g)wneud dim mwy na mynd; **the data simply do not support the claim** – nid yw'r data'n ategu'r honiad o gwbl; **these processes should not s. be the province of a small group** – ni ddylid cyfyngu'r prosesau hyn(ny) i sylw grwp bach (yn unig);

since: ever s. – hyd heddiw

single: s.-age groups – grwpiau cyfoed; **s.-subject** – pwnc-unigol; **in s. units** – un ar y tro, fesul un; **the s. most important thing** – y peth pwysicaf un

to single: to be s.-ed out for attention – cael sylw (arbennig); **to s. out an individual** – targedu unigolyn; **to s. them out** – eu henwi'n arbennig/benodol, cyfeirio'n arbennig/benodol at rywun; **they were s.-ed out for praise** – fe'u canmolwyd yn/hwy'n benodol, cyfeiriwyd atynt/fe'u henwyd yn benodol a'u canmol/ac fe'u canmolwyd

singleton: activities with s. posts – gweithgareddau lle nad oes un swydd ar eu cyfer/i'w cyflawni; **s. posts** – swyddi nad oes ond un person yn eu cyflawni

singular: a s. honour – anrhydedd o'r mwyaf, anrhydedd arbennig (iawn)

singularly: they have s. failed to – maent wedi methu'n lân/llwyr/deg â/ag

to sit: this does not s. comfortably with – nid yw hyn yn cyd-fynd yn esmwyth/gyffyrddus/hwylus â; **which model s.-s most comfortably with ...** – pa fodel sydd fwyaf cydnaws â/ag ...

to situate: this evidence s.-es learners in their learning – mae'r dystiolaeth hon yn/honno'n dangos ble y mae'r dysgwyr arni/wedi'i gyrraedd yn eu haddysg

situated: the clinic is s. at 47 ... – cyfeiriad y clinig yw 47 ...

six: s. of one and half a dozen of the other – roedd (llawn) cymaint o fai arno fe ag arna i

size: with a business the s. of ours – oherwydd maint ein busnes, gan fod/oherwydd bod ein busnes mor fawr/fach; **businesses of every s.-s/of all shapes and s.-s** – busnesau mawr a mân; **a 'one s. fits all' provision** – darpariaeth unfurfur/run peth i bawb; **a one s. fits all strategy** – strategaeth 'run fath i bawb; **a one s. fits all strategy was not feasible** – na wnâi dim ond un strategaeth (gynhwysfawr) y tro, na wnâi dim ond un strategaeth (gynhwysfawr) ateb y diben, na wnâi un strategaeth yn unig y tro, na wnâi un strategaeth yn unig ateb y diben, bod angen mwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), bod rhaid cael mwy/bod rhaid bod â mwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), bod (yn) rhaid wrth fwy nag un strategaeth (i gyrraedd y nod/i fod yn effeithiol/i wneud y gwaith), na ellid bodloni ar (gael) un strategaeth (yn unig), na fyddai(r) un strategaeth yn ddigon, na ellid/nad oedd modd llunio strategaeth (gwbl) gynhwysfawr (*gw. welsh-termau-cymraeg*, 22-23.10.04); **its academic community is the s. of a small town** – mae ei chymuned academiaidd yr un faint/mor fawr â thref fach/fechan, yr un yw maint ei chymuned academiaidd â thref fach/fechan

sizeable: they trail by a s. margin – maen nhw gryn dipyn ar ei hôl hi

sizzle: sell the s., not the sausage/steak – gwerthwch y cyffro, nid y cawl *neu* gwerthwch y cyffro, nid y cocos *neu* gwerthwch yr heulwen, nid yr hin *neu* gwerthwch yr hwyl, nid yr helbul *neu* (dewis y cwsmer) gwerthwch y swn, nid y sylwedd *neu* trech delwedd na sylwedd *neu* gwerthwch y sawr, nid y selsig/saig *neu* gwerthwch y sawr, nid y sebon *neu* gwerthwch y crensiann, nid y creision *neu* (*hysbyseb i gefn gwlad Cymru*) gwerthwch ei heddi, nid ei ffaeleddau *neu* gwerthwch yr hwyl, nid yr holics *neu* gwerthwch y sglein, nid y sgldodyn *neu* gwerthwch y rhin, nid y rhinwedd (*gw. welsh-termau-cymraeg*, 30.01.03)

skeletal: s. guidelines – canllawiau bras (iawn); **this gives you a s. idea of ...** – mae hwn yn rhoi (rhyw) (fras) amcan i chi o ..., mae hwn yn rhoi (rhyw) syniad bras/rhyw syniad (cyffredinol) i chi o ..., dyma roi (rhyw) syniad bras/cyffredinol/rhyw syniad i chi o ...

sketchy – tameidiog; **the detail is too s.** – nid oes (hanner) digon o fanylu/fanylion (yma/ynddo/ynddi/ynddynt)

skill: receptive s.-s – medrau/sgiliau derbyn; **productive s.-s** – medrau/sgiliau cynhyrchu; **manipulative s.-s** – medrau/sgiliau trafod; **study s.-s** – medrau/sgiliau astudio; **active and passive s.-s** – medrau/sgiliau derbyn a defnyddio; **higher order s.-s** – uwch(-)fedrau/sgiliau

to skim: to s. read – cip-ddarllen

to skip: s. to the last section – ewch (yn syth/ar eich union) i'r adran olaf

sky: the s.'s the limit! – gorau po fwyaf!

sky(-)high – arswydus o uchel

to slacken: the pace of the lesson s.-s – mae'r wers yn arafu

to slag: to s. ... off – rhoi pryd o dafod/llond pen i ...

to slam: to s. home the point – cyfleu'r pwynt yn glir/fyw iawn

slap: s. bang in the middle of it – (reit) yn ei chanol hi

to slash – cwtogi llawer iawn ar, cwtogi'n llym ar

slavish – caeth

sleeve: to have a question up your s. – bod â chwestiwn wrth gefn

slender: to win by the s.-est of margins – ennill o drwch blewyn
to slide: they are s.-ing into irrelevance – maen nhw'n prysur droi'n amherthnasol
slight – prin; **although there are s. differences between** – er nad yw ... yn union debyg; **at the s.-est difficulty** – pan geir y mymryn lleiaf o anhawster; **slight: s. injury** – anaf bach; **s. injuries/changes** – mân anafiadau/newidiadau
slightly: to be s. better than ... – rhagori o (ryw) ychydig (bach)/o ryw fymryn ar ...; **six people were s. injured** – cafodd chwech o bobl fân anafiadau
slim: a s. majority – mwyafrif o drwch blewyn, trwch blewyn o fwyafrif, ychydig iawn (iawn) o fwyafrif, mwyafrif o ychydig (iawn) o bleidleisiau
to slim: a s.-ming down of numbers of ... – cwtogi ar nifer y ...; **to s. down the operation** – cwtogi ar/tocio nifer y gweithwyr (cyflog), cwtogi ar y/tocio'r gweithlu, cwtogi ar raddfa'r gweithrediadau, gweithio ar raddfa lai
slip: one s. of the tongue and you're out – gair o'i le ac allan â ti/chi
to slip: my knowledge base is beginning to s. – mae sylfaen/hyd a lled fy ngwybodaeth yn dechrau crebachu, mae'r wybodaeth sydd gen i'n dechrau prinha/crebachu
slipper: s. chapel – capel lle byddai pererinion yn diosg/lle'r arferai pererinion ddiosg eu hesgidiau [*cyn cwblhau eu taith i'r gysegrfan yn droednoeth*]
to slouch: to s. in a chair – diogi mewn cadair
slovenly – diolwg
slow: s.-learning children – plant araf; **to get off to a s. start** – dechrau/cychwyn gan bwyll (bach)/yn araf deg; **they're (so) s. (to get a move on)** – maen nhw fel heddiw a(c y)fory
to slump: to s. to an all-time low – (bod) yn/syrthio'n is nag erioed o'r blaen
small: to indulge in s. talk – clebran; **in a s. way** – ar raddfa fach; **a s.-er selection is available in the ...** – mae detholiad llai helaeth/mwy cyfyngedig ar/i'w gael yn y(r) ...; **to win by the s.-est of margins** – ennill o drwch blewyn; **as the world becomes s.-er** – wrth i'r byd grebachu/leihau
smart – graenus, chwaethus; **s. card** – cerdyn smart (*gwiriwyd gyda Mary Wiliam, MEU Cymru*); **new and s.-er viruses** – fyrsau newydd a mwy treiddgar/sy'n fwy treiddgar
smartly: to move on s. to ... – symud ymlaen yn ddi-oed at/i
smartypants – rhywun clyfar/clyfrach na'i gilydd
smash – damwain gas/fawr
smashed: s. to atoms/bits/pieces/smithereens – yn chwilfriw
smattering – ychydig (iawn)
smile: to wear a broad s. – bod yn wên o glust i glust
smokescreen – ymgais i greu dryswch; **the speaker set up a s.** – aeth y siaradwr(aig) ati i godi sgwarnogod/i daflu'r gwrandawyr oddi ar y trywydd
smooth – diffwdan
smoothly: this works most s. when ... – bydd hwn yn gweithio'n fwyaf hwylus pan ...
smothering – llethol
snag – anhawster, problem
snappy – bachog
snapshot – cipolwg; **a 's.' opportunity** – cyfle yn y fan a'r lle
to sneeze: not to be s.-ed at – go lew, rhy dda i'w golli
to snowball – tyfu/cynyddu'n gyflym/rhyfeddol/aruthrol/wyllt/arswydus
snug – clyd
so: they are able to do so – gallant wneud hynny; **every so often** – bob (rhyw) hyn a hyn; **so much the better** – gorau oll; **so long as they remember** – ond iddynt gofio; **so that** – ac felly mae, a thrwy hynny gellir, (er mwyn) i; **so enthusiastically** – gyda'r fath frwdfrydedd; **to be so ... that** – bod mor ... nes (bod); **but never more so than** – ac yn arbennig felly wrth/pan; **so that they do not become ...** – rhag iddynt droi/ ddatblygu'n ...; **and so on** – ac ati; **it is important that this is done quickly so that you do not face difficulties** – mae'n bwysig gwneud hyn yn/hynny'n gyflym rhag i chi wynebu anawsterau/trafferthion; **this is so that ... can ...** – gwneir hyn er mwyn i ... allu ...; **if so** – os oes/oedd etc; **as things change, so too do people's attitudes** – wrth i bethau newid, bydd agweddau pobl yn newid hefyd/newid hefyd wnaiff agweddau pobl; **for a week or so** – am ryw wythnos; **over the last/past two years or so** – dros y ddwy flynedd diwethaf(,) neu oddeutu hynny; **all these have been collected – so what?** – mae hyn/hynny i gyd wedi'i gasglu/maent (hwy)/mae'r rhain i gyd wedi'u casglu – beth fydd ffrwyth hyn/y canlyniad?/i ba ddiben/at ba ddiben?/beth nawr 'te?
to soak: to s. in the atmosphere – ymdeimlo/ymglywed ag/ymgolli yn/mwynhau awyrgylch/naws y lle/y fan
so-and-so – hwn a hwn, hwn a hon a'r llall; **the old s.** – yr hen sinach/ddiawl (ag ef/â hi)
so-called: that s. doctor – y tipyn doctor 'na
societal: the s. response to ... – ymateb cymdeithas i ...
sod – cythraul mewn croen, sinach
soft: to be s. on crime – bod yn llipa ar droseddu/dor-cyfraith, bod yn llipa ynghylch troseddu/tor-cyfraith, bod yn llipa'u hagwedd at droseddu/dor-cyfraith, bod yn llipa'u hymateb i droseddu/dor-cyfraith
soft-hearted – yn galon i gyd

soil: the true children of the s. – hen yd y wlad

sole – llwyr

solely – yn llwyr/unsydd

solidarism – solidariaeth (*eb*)

solidarity: the s. of these links is reflected in ... – adlewyrchir cadernid y cysylltiadau/clymau hyn(ny) yn ...

solo: s. performing [*ym maes cerddoriaeth*] – perfformio'n unigol

some: at s. length – yn burfaith; **to go s. way towards** – bod o ryw gymorth i, gwneud rhywfaint/tipyn i; **in s. detail** – yn burfanwl; **for s. time** – ers tro, dro'n ôl; **s. chance!** – gobaith caneri!; **s. string** – darn o llyn; **s. party!** – parti a hanner!

something: the new principle is 's. for s.' – yr egwyddor newydd yw/dyma'r egwyddor newydd: 'cyfrannwch/rhowch ac fe gewch'; **I always felt s. of a fraud** – yr oeddwn i bob amser yn teimlo'n annigonol/yn teimlo braidd yn annigonol; **I saw s. of him then** – gwelais ryw gymaint arno bryd hynny

somewhat: it is s. worrying – mae'n peri peth pryder

somewhere: they should keep them s. safe – dylent eu cadw mewn man/lle diogel

sonographer – seingraffydd, seingraffwyr (*eg*) [Meddygaeth]

sonoporation (*bathwyd y term gan Dr Ludwig Weimann o'r Lumar Corporation, Burlington*)
seingorffori (*be*) [Meddygaeth]

soon: (quite) s. – cyn hir, cyn pen dim; **s.-er or later** – ymhén hir a hwyr; **who are s. to be** – sydd ar fin bod yn; **no s.-er had they said that than he put in an appearance** – ar y gair/yr eiliad honno, dyma fe'n cyrraedd/(fe d)daeth i'r golwg/fe ymddangosodd

soothing: a letter of apology can be a s. balm on a difficult situation – gall llythyr o ymddiheuriad wneud byd o les mewn/leddfu llawer (iawn) ar sefyllfa anodd

sophistication: with increasing s. – yn fwyfwy soffistigedig, mewn ffordd fwyfwy soffistigedig

sorely: to be s. in need of – bod â dwys angen; **they will be s. missed** – bydd colled fawr ar eu hôl

to sort: to s. out problems – rhoi trefn ar broblemau

sortie – taith hedfan

so-so – digon pethma/symol/llegach, ddim yn ffôl

sought: a much s.-after item – eitem boblogaidd iawn, eitem y mae pobl yn dyheu am gael gafael arni, eitem yr hoffai llawer gael gafael arni

sound: s. writing – cysylltu llythrennau; **this is/makes s. business sense** – mae hwn/hyn yn/hynny'n synhwyrol o safbwynt (y) busnes; **to convince them that this makes s. sense** – eu hargyhoeddi mai doeth o beth yw gwneud hyn(ny), eu hargyhoeddi ei bod hi'n ddoeth/beth doeth gwneud hyn(ny)

to sound: to s. off – bod yn uchel eu cloch; **if this/that (description) s.-s like you** – os un/rhai felly ydych chi

sounding: to act as a s. board – bod yn glust i wrando, bod yn rhywun sy'n gwrando ar sylwadau/awgrymiadau

source: to be a s. of criticism – bod yn destun beirniadaeth; **s. of reference** – man cyfeirio; **to be a s. of concern** – peri pryder; **this is a possible s. of tension** – gall hwn/hyn(ny) greu tensiwn; **to be a s. of ...** – esgor ar ...; **to tackle problems at s.** – tacio problemau wrth iddynt godi/lle maent yn codi/yn y fan a'r lle/yn ddi-oed

to source – dod o hyd i ...; **to s. lists from ...** – cael rhestr gan/oddi wrth/o ..., cael gafael ar restr gan/oddi wrth/o ...; (= *to provide*) – darparu

space – man, lle, llcyn, ystafell; **within a short s. of time** – yn fuan; **write in the s. below** – ysgrifennwch isod; **watch this s.!** – rhagor maes o law/yn y man!; **s. invaders** – goresgynwyr o'r gofod; **over the s. of a month** – dros gyfnod o fis

spaced: they are more widely s. – mae mwy o fwllch rhyngddynt

spacious: s. accommodation – digon(edd) o le, ystafelloedd eang/mawr (braf)

speculative: s. applications – ceisiadau gobeithiol

spade: bad things happened, in s.-s – digwyddodd pethau drwg – cant a mil ohonynt/llond gwlad ohonynt/mil a mwy ohonynt

spadework – gwaith caib a rhaw

span: to have a short life s. – para am gyfnod byr yn unig

to span – cynnwys

sparingly: this is used s. – ychydig (iawn) o ddefnyddio sydd ar hwn/hyn; **this is to be used s.** – dylid defnyddio cyn lleied â phosibl ar hwn/hyn; **to live s.** – byw'n llwm

spark: calling all bright s.-s! – galwad i bawb/bob un sydd â syniadau(g) gwyb!

to spark: to s. off – ysgogi, symbylu

spasmodic – bylchog

spate: a s. of publications – llu o gyhoeddiadau; **the current s. of correspondence** – y gohebu prysur/bryd (sydd) ar hyn o bryd

spatialities – gofodoldebau (*yr unigol yn unig sydd yng Ngeiriadur yr Academi*)

to spawn: this has s.-ed a number of new technologies – mae hwn/hyn wedi esgor ar amryw/nifer o dechnolegau newydd; **these developments have been s.-ed by local policies** – polisïau lleol sydd wedi esgor ar/arwain at y datblygiadau hyn, polisïau lleol sydd wedi rhoi bod i'r datblygiadau hyn; **these developments**

have been s.-ed by local policies which insist on ... – cafwyd y datblygiadau hyn am fod polisïau lleol wedi mynnu bod/mai...

to speak: that they have won the prize s.-s for itself – digon yw dweud iddynt ennill y wobwr; **the facts s. for themselves** – mae'r ffeithiau'n dweud y cyfan; **the figures s. for themselves** – mae neges/ergyd y ffigurau'n ddigon clir/yn glir iawn; **an opportunity for them to s. out** – cyfle iddynt gael dweud eu dweud/iddynt ddweud eu dweud; **to s. one's mind** – siarad yn ddiflwyn ar dafod

speaking: organisationally-s. – o ran (eu) trefniadaeth, a siarad ar ran/o safbwynt y sefydliad; **organisationally s., we could do it** – fe allem ni, fel corff/sefydliad/cymdeithas, wneud y gwaith/wneud/gyflawni hynny

to spearhead: to s. the development of – bod ar flaen y gad o ran datblygu; **to s. curriculum development** – hybu/hyrrwyddo datblygu'r/datblygiad y cwricwlwm

special a very s. thank you to ... – diolch o galon i ...

specialism: their subject s. – maes eu harbenigedd

specific – pendant; **for the s. purpose of** – yn unswydd er mwyn; **to learn terminology s. to their subject** – dysgu termau sy'n perthyn yn benodol i'w pwnc; **they talk in generalities rather than (in) s. details** – maent yn cyffredinol yn hytrach nag yn manylu; **to be over s.** – manylu gormod; **skills that/which are not discipline-s.** – sgiliau nad ydynt /sydd heb fod yn ymwneud â disgyblaeth benodol/yn perthyn i ddisgyblaeth benodol

specifically: more s., some of these are – dyma fanylu ar rai ohonynt

specification: job s. – disgrifiad o(r) swydd

specificity: without this degree of s. – heb fanylu fel hyn/cymaint â hyn

to specify: please s. – enwch ef/hi/hwy, rhwch ef/hi/hwy, nodwch p'un; **unless the terms so s.** – onid yw'r termau'n datgan hynny; **to specify: we cannot s. how many** – ni allwn ddweud/ddatgelu faint

specified: to review the situation at a s. point – adolygu'r sefyllfa ymhen hyn(-)a(-) hyn o amser

specimen: that miserable little s. of a doctor – y tipyn doctor 'na

spectacular – godidog, trawiadol dros ben; **to make s. strides** – gwneud cynnydd rhyfeddol (o dda), dod yn eu blaen yn rhyfeddol (o dda); **the s. Heritage Coast** – yr Arfordir Treftadaeth a'i ryfeddodau, rhyfeddodau'r Arfordir Treftadaeth

spectrum: across the whole community s. – ledled y gymuned; **across the whole s. of this discipline** – ar draws (holl faes) y ddisgyblaeth hon(no)

speculative: s. approaches to employers – (mentro) cysylltu â chyflogwyr i ofyn/holi a oes/fydd swyddi/gwaith ganddynt, (mynd ati i/mentro) holi nifer/amryw o gyflogwyr am waith, (mynd ati i/mentro) holi cyflogwyr am waith'

speech – llefaru; **in s.** – ar lafar

to spend: the cost is money well spent – mae'r gost yn werth pob ceiniog

spent: to be a s. force – wedi chwythu eu plwc

spine: pay s. – llinell gyflogau (?); **pay s.** – colofn dâl [*Cyngor Sir Caerfyrddin*]

spiral – dyrchafol droellog

to spiral: costs have s.-led (upwards) – mae(r) costau wedi codi'n aruthrol; **costs have s.-led (downwards)** – mae(r) costau wedi disgyn/gostwng yn aruthrol

spirit: to give one's s.(-s) a lift – codi calon dyn/rhywun, calonogi dyn/rhywun; **to boost your s.(-s)** – eich calonogi; **these need to be done in the s. of actively seeking opportunities to ...** – mae angen gwneud y rhain gan fynd ati'n fwriadol i chwilio am gyfleoedd i ... ; **generosity of s.** – ysbryd/natur haelionus [*gw. welsh-termau-cymraeg, 22.09.03*]

spirited: we are looking for a community-s. individual to run ... – yr ydym yn chwilio am unigolyn sy'n barod/awyddus i wasanaethu'r gymuned drwy redeg ...

spitting: to be within s. distance of ... – bod o fewn ergyd carreg i ...

to splatter – hap-dasgu

splendid :in s. isolation – ar (ei) ben ei hun bach

spoil: s. heaps – tomenni gwastraff

spontaneity: to speak with s. – siarad o'r fron/frest

spontaneously – o'r fron/frest; **to rise s.** – codi yn y fan a'r lle/ar y pryd

to spoon-feed – bwydo

sporadically – yn awr ac yn y man

sporting: good s. behaviour – ymddygiad da wrth chwarae

spot: to be s. on – bod yn llygaid eu lle; **to change one's s.-s** – newid eich gwedd/pryd a(ch) gwedd

to spot: to s. potential dangers – gweld/canfod peryglon posibl yn gyflym, sylwi'n gyflym ar beryglon posibl

spotless – fel pin mewn papur, yn lân fel y pin

spotlight: to be thrust into the s. – tyfu'n ganolbwynt sylw

to spotlight – tynnu sylw at ...; **to s. variations** – amlygu amrywiadau

spring: to be no s. chickens – bod yn eu hoed a'u hamser

spread: (e.e. jam spread) taeniad

to spread – estyn; **training is s. over five weeks** – rhoir yr hyfforddiant dros gyfnod o bum wythnos

to spring: to s. from – deillio o

springboard – sbardun, cyfrwng; **to act as/be a s. to ...** – bod yn sylfaen/ysgogiad/sbardun/gyfrwng i ..., arwain ymlaen at ..., agor y drws i ..., hwyluso ...

spur – hwb

spurious : a s. belief – cred (gwbl) ddi-sail; **in the s. belief that ...** – gan gredu ar gam fod/mai

squarely: (fairly and) s. – yn blwmp ac yn blaen; **it will have to rely s. on sound research** – bydd (yn) rhaid iddo/iddi ddibynnu'n bendant/llwyr ar ymchwil gadarn *neu* yn bendant, bydd (yn) rhaid iddo/iddi ddibynnu ar ymchwil gadarn

squatter: s.'s hut/house – tŷ unnos

to squeeze: to s. out – gwthio o'r neilltu

to staff: it is s.-ed by full-time workers – staff o weithwyr amser-llawn sydd yno, mae yno staff o weithwyr amser-llawn

stage: pupils at every s. – disgyblion o bob oed; **by/in s.-s** – gam wrth gam, yn raddol, fesul tipyn, bob yn dipyn, gan bwyll (bach); **at any s.** – ar unrhyw adeg, unrhyw bryd; **at an early s.** – yn gynnar; **at this (comparatively) early s.** – mor gynnar â hyn(ny); **both are in their early/embryonic s.-s** – mae'n ddyddiau cynnar ar y ddau/ddwy (ohonynt); **to be at the planning s.** – ar y gweill; **in easy s.-s** – gan bwyll, fesul tipyn, bob yn dipyn, gam wrth gam; **the s. has now been reached** – erbyn hyn; **the s. had now been reached** – erbyn hynny; **by this/that s.** – erbyn hyn(ny); **at this s.** – bellach, yn y cyfnod hwn, bryd hynny, ar y lefel hon, ar yr adeg honno, yn y cyfnod hwn, wrth wneud hyn(ny); **at that s.** – bryd hynny, ar y lefel/yr adeg honno, yn y cyfnod hwnnw; **at some s.** – ar ryw adeg (neu'i gilydd); **at far too early a s.** – yn llawer rhy gynnar, yn rhy gynnar o lawer; **to be approaching their final s.-s** – tynnu at eu terfyn; **at the s. when plans are being devised** – adeg dyfeisio/llunio cynlluniau; **at this s.** – dyma pryd y(r) ...; **at that s.** – dyna pryd y(r) ...; **key s.** – cyfnod allweddol; **at every s.** – bob cam o'r ffordd; **the festival has reached this s. due to ...** – mae'r wyl wedi dod/datblygu/cyrraedd mor bell â hyn oherwydd/am fod/gan fod/drwy ...; **at all s.-s of the process** – drwy gydol y broses; **at a later s.** – yn ddiweddarach; **at the short(-)listing s.** – wrth lunio'r rhestr fer; **to put/place the citizen centre s.** – hoelio sylw ar y cwsmer

staggering – ysgytwol

staging: an important s. post for ... – cam pwysig/pendant ar y daith at/ffordd i ...

to stagnate – troi yn eu hunfan

staithe – storfa lo ar lan y dŵr/yr afon

stake: that they have their s. in – bod iddynt eu cyfran yn/mewn

stale – di-sbonc

stalemate – sefyllfa ddisymud; **it caused a s. in which the jury were unable to reach a decision** – fe achosodd (hynny) sefyllfa lle na allai'r rheithgor ddod i benderfyniad

to stalk – llech-ddilyn (?)

stalwart: s.-s – selogion

stamp: s. of approval – sêl bendith, cymeradwyo

stance: to take a critical s. to ... – ymagweddu'n feirniadol at ...

to stand: as things s. – y sefyllfa sydd ohoni (yw); **to s. comparison with ...** – dal cannwyll i ...; **it s.-s comparison with the best of ...** – gellir (yn deg/yn ddigon teg) ei gymharu/ei chymharu â goreuon ..., mae ef/hi cystal â goreuon ...; **to remain s.-ing** – aros ar eu traed; **to s. the test of time** – dal eu tir; **to s. the first £100 of the loss** – talu £100 cyntaf y gollod; **they s. to make a fortune** – fe allent wneud (eu) ffortiwn, mae'n ddigon/eithaf posibl y gwnânt (eu) ffortiwn, mae ganddynt gyfle da i wneud (eu) ffortiwn, maent mewn sefyllfa dda i wneud (eu) ffortiwn **which now s.-s at £30 million** – sef £30 miliwn ar hyn o bryd; **pupil numbers s. at 100** – mae 100 o ddisgyblion yno/yn yr ysgol, mae gan yr ysgol 100 o ddisgyblion; **to s. by a decision** – glynu wrth benderfyniad; **to s. down as ...** – ymddiswyddo o/rhoi'r gorau i fod yn ..., ildio swydd ...; **to s. down from office** – rhoi'r gorau i fod yn aelod/swyddog, peidio â sefyll eto; **to s. out** – rhagori; **some themes will s. out** – daw rhai themâu i'r amlwg, bydd rhai themâu i'w gweld yn glir; **to s. out from the crowd** – bod yn wahanol i bawb arall, bod yn fwy amlwg/trawiadol/yn amlycach na'r gweddill/na phawb arall, rhagori ar y rhelyw; **what makes this example s. out is that it is ...** – yr hyn sy'n peri bod hwn yn safle arbennig/bod y safle hwn yn un arbennig yw ei fod (yn) ..., arbenigrwydd y safle hwn yw ei fod (yn) ...; **the results that s. out are ...** – y canlyniadau mwyaf trawiadol yw ...; **to s. to gain** – (bod) mewn sefyllfa i elwa; **which can s. up to the test of parental enquiries** – a all fodloni ymholiadau rhieni; **to s. up (to examination)** – dal dŵr; **to s. opposed to ...** – gwrthwynebu ...; **the house stood empty for a century** – bu'r tŷ'n wag am ganrif; **to s. in contrast to ...** – bod yn wahanol i ...; **it s.-s to reason that ...** – mae'n rhesymol/deg tybio ..., (cam) teg/rhesymol yw tybio ...

stand-off – gwrthod ildio

standard: of the highest s./to the highest s.-s – o'r radd flaenaf; **by any s.** – yn ôl unrhyw linyr mesur; **a good s. of English/Welsh** – Cymraeg/Saesneg graenus

standard-bearer: to act as a s. to – arwain, bod ar flaen y gad

standing: to enhance the s. of – hybu statws, cynyddu bri/statws, ychwanegu at fri/statws; **to be in good s.** – bod heb dramgwyddo

Stanley: S. Embankment (*ger Caergybi*) – Pont Lasinwen

staple (=usual ingredients/features): **the s.-s of ...** – y cnwd arferol o ...

star: you're a s.! – rwyd ti'n/rydych chi'n werth y byd!

stark – diaddurn; **in s. contrast to** – yn dra gwahanol i; **the choice is s.** – dau ddewis sydd, does fawr o ddewis/bach iawn o ddewis sydd (mewn gwirionedd/a dweud y gwir); **a s. choice** – dewis clir; **a s. decline in ...** – dirywiad/gostyngiad amlwg/clir/trist yn/mewn ...

starkly: s. different choices – dewisiadau go/cwbl wahanol/gwahanol iawn

start: to get off to a good/flying s. – cael cychwyn campus/rhagorol/ardderchog/gwych/(arbennig o d)da/tan gamp, cychwyn yn gampus/yn rhagorol/yn ardderchog/yn wych/yn (arbennig o d)da dechrau'n dda; **to get off to a slow s.** – dechrau/cychwyn gan bwyll (bach)/yn araf deg, araf (yw'r/oedd yr/fu'r) ymateb; **to give you a head s.** – eich rhoi (chi) (dipyn) ar y blaen; **a head s. in life** (*fel pennawd*) – dechrau ar y blaen

to start: with most letters s.-ing life on a computer screen, they ... – gan mai ar sgrin cyfrifiadur y creir/llunir y mwyafrif o lythrau/y caiff y mwyafrif o lythrau eu creu/llunio; **to get them s.-ed** – eu rhoi ar ben y ffordd; **it s.-s from the position that ...** – ei fan/ei man cychwyn yw ..., man cychwyn ei (d)dadl yw ...

starter – man cychwyn; **for s.-s, ...** – y cwrs cyntaf yw ...

start-up: a s. company – cwmni sydd newydd ei sefydlu

state: to be in a (right old) s. – bod mewn byd; **the s. of the art** – cyflwr (y byd) ... ar hyn o bryd, y (...) (d)diweddaraf un; **the present s. of affairs is unsatisfactory** – nid yw hyn yn/hynny'n foddhaol; **the present s. of play** – y sefyllfa (fel y mae (hi)ar hyn o bryd, y sefyllfa sydd ohoni

to state: s. county name – enwch y sir, rhwch enw'r sir

stated – hysbys; **there is no alternative to the s. prizes** – ni ellir cael arian/unrhyw beth yn lle'r gwobrau a enwir/ enwyd

statement: s. of fact – ffaith, datganiad ffeithiol; **mission s.** – datganiad cenhadaeth; **s. of purpose** – datganiad o bwrpas; **a s. that they are not guilty** – dataniad (sy'n dweud) eu bod yn ddieuog

statemented: s. pupils – disgyblion (sydd) â datganiad/sy'n destun datganiad

static – digyfnwid, bod heb newid; **to remain s.** – aros yn eu hunfan

station: a breeding s. – bridfa

statistically: mature drivers are s. (-speaking) less likely to have accidents – yn ôl yr ystadegau, mae gyrrwyr aeddfed yn llai tebyg(ol) o gael damweiniau

status: their health s. – cyflwr eu hiechyd

to stay: to s. within the limits – peidio â thorri'r terfynau; **to s. abreast of developments** – ymglyfarwyddo'n gyson â(r) datblygiadau (diweddaraf), cael gwybod yn gyson am ddatblygiadau/am y datblygiadau (diweddaraf); **to s. true to their mission** – glynu('n dynn/ffyddlon) wrth eu cenhadaeth; **to s. dry** – cadw'n sych; **to s. the course** – dal ati hyd/tan y diwedd; **to s. on track with your research schedule** – cadw at/glynu wrth amserlen eich ymchwil, dal gafael/cadw rheolaeth ar amserlen eich ymchwil, peidio â cholli gafael/golwg ar amserlen eich ymchwil, peidio â gadael i amserlen eich ymchwil lithro

stead: this will stand them in good s. – bydd hyn yn/hynny'n gaffaeliad/gefn/gymorth/help mawr iddynt

steam: you can learn these under your own s. – gallwch ddysgu'r rhain/rheiny drosoch eich hunain

steely: s. determination – penderfyniad ddi-ildio

steep: s. learning curve – dysgu'n gyflym/sydyn, dysgu llawer mewn dim o dro (*gw.welsh-termau-cymraeg, 28.11.01*)

steeped: to be s. in history – bod yn gyforiog o hanes, bod yn wybodus iawn am hanes

to steepen – codi'n fwy serth

Steepholm – Ynys Ronech

steeply: their numbers have risen s. – mae eu nifer(oedd) wedi codi/cynyddu'n fawr/llawer iawn

steer: to provide a clear s. for the work – rhoi/cynnig/darparu cyfeiriad clir i'r gwaith, cyngor, gair o gyngor

step: before any s.-s are taken to – cyn bwrw/mynd ati i; **take s.-s to ...** – ewch ati i ...; **to be in s. with** – cyd-fynd â; **lecturers need to keep in s. with the rapidly changing world of work** – mae angen i ddarlithwyr ymglydnabod/ymglyfarwyddo'n gyson â'r newidiadau cyflym (sy'n digwydd) ym myd gwaith; **to be out of s. with** – peidio â chyd-fynd â, bod yn anghyson â/ag; **a s. change** – newid sylweddol

to step: to s. down from office – rhoi'r gorau i fod yn aelod/swyddog, peidio â sefyll eto; **to s. down from office** – rhoi'r gorau i fod yn aelod/swyddog, peidio â sefyll eto; **this is where the social worker s.-s in** – dyma lle (y) daw'r gweithiwr cymdeithasol i'r adwy; **to s. up (the pace)** – cyflymu; **she s.-ped up the questioning** – dechreuodd (hi) holi'n gynt/gan bwysu mwy ar y(r) ...; **to s. up our interventions** – cynyddu (cryn dipyn ar) ein hymyrryd, ymyrryd yn amlach (o lawer)

stepped: s. questions – cwestiynau mwyfwy anodd/sy'n fwyfwy anodd, cwestiynau sy'n cynyddu – fesul cam – o ran eu hanhawster

stepping: as a s.-stone to – fel cam tuag at; **s.-stones** – cerrig croesi; **to be a s. stone to ...** – bod yn gam (pendant) ymlaen at ...

sterling: s. efforts – ymdrechion dygn

to stick: to s. in their gullet – bod yn dân ar eu croen; **to be stuck in the middle** – bod yn y canol, cael eu dal yn y canol; **to be stuck for cash** – bod yn brin o arian; **to be stuck in the past** – (bod) yn byw yn y gorffennol, (bod yn) dal i fyw/rygnu byw yn y gorffennol, (bod) yn perthyn/yn dal i berthyn i'r gorffennol/i oes a fu; **don't get stuck on one question** – peidiwch â mynd i'r gors wrth ateb un cwestiwn; **problems they are stuck with and have to s.**

with – problemau y maent yn eu hwynebu ac yn gorfod eu hwynebu, problemau sy'n eu hwynebu ac nad oes modd/na allant eu hosgoi/eu hochrgamu; **stuck for something to say?** – heb allu meddwl am rywbeth/ddim (byd) i'w ddweud?; **I'm stuck for something to say** – does gen i ddim syniad beth rwy'n mynd i'w ddweud

stiff: s. competition – cystadlu brwd/ffyrnig, cystadleuaeth frwd/ffyrnig

to stifle: to s. innovation – ffrwyno datblygiadau newydd/pellach

still – hyd (y dydd) heddiw; **you must s. pay** – rhaid i chi dalu yr un fath; **to stand s.** – sefyll yn eu hunfan/yn stond

stilletto: s. shoes – esgidiau sodlau main

stilted – afrwydd

to stimulate: to s. the imagination – gogleisio/procio'r dychymyg; **to s. an interest in** – codi diddordeb yn/mewn

stimulating – difyr; **intellectually s. ideas** – syniadau sy'n ysgogi'r deall/procio'r meddwl

stint: I did a short s. working at ... – bŵm yn gweithio/gweithiais am ychydig (bach) yn ..., treuliais gyfnod byr yn gweithio yn ...

to stipulate – pennu union, nodi, datgan yn bendant

stipulated – penodedig, a osodwyd

to stir: to s. up – corddi; **to s. up a hornet's nest** – tynnu nyth cacwn am eu pennau

stirring: a s. speech – araith danbaid

stock: a laughing s. – testun sbort; **to take s.** – edrych yn ôl, ailedrych ar bethau; **to take s. of their present position** – pwysu a mesur/bwrw golwg dros eu sefyllfa bresennol

to stock: this post office s.-s a variety of stamps – mae'r swyddfa bost hon yn gwerthu amrywiaeth o stampiau

to stoke: to s. the ego – porthi'r ego

stone: to leave no s. unturned – gweithio'n ddiflino; **these regulations have been turned into tablets of s.** – mae'r rheoliadau hyn(ny) bellach yn rhai cwbl haearnaidd; **our suspicion turned into a s.-in-stone certainty** – trodd ein hamheuaeth/hamheuron yn sicrwydd llwyr, cadarnhawyd ein hamheuaeth/hamheuron yn llwyr/i'r eithaf, cadarnhawyd pob un o'n hamheuron; **the rules are not set in s.** – nid yw'r rheolau'n gwbl haearnaidd/anhwblyg, mae modd newid y rheolau, nid deddf y Mediaid a'r Persiaid mo'r/yw'r rheolau (hyn)

stone: our suspicion turned into a s.(-cold)/set-in-s. certainty – trodd ein hamheuaeth/hamheuron yn sicrwydd llwyr, cadarnhawyd ein hamheuaeth/hamheuron yn llwyr/i'r eithaf, cadarnhawyd pob un o'n hamheuron

stone-cold: our suspicion turned into a s. certainty – trodd ein hamheuaeth/hamheuron yn sicrwydd llwyr, cadarnhawyd ein hamheuaeth/hamheuron yn llwyr/i'r eithaf, cadarnhawyd pob un o'n hamheuron

stony: a s. silence – tawelwch llethol/anghysurus

stop: to put a s. to – rhoi taw ar; **a one-s. shop solution** – ateb cyflawn/cynhwysfawr; **a 'one-s. shop' guide** – canllaw cynhwysfawr

stop-go – herciog

to stop: to s. talking – tewi; **he/she doesn't stop t.-ing** – mae'n siarad fel pwll y môr/fel pwll tro

store – casgliad; **they set great s. by ...** – mae ... o bwys mawr/yn bwysig iawn iddynt; **what's in s. for us** – yr hyn sydd o'n blaen

storm: a s. in a teacup – stor(o)m daranau neu ffws, a dim byd mwy

story: the s. goes that – yn ôl yr hanes

to straddle: to s. the private/public interface – pontio'r bwlch rhwng y preifat a'r cyhoeddus

straight: to keep a s. face – cadw wyneb syml; **s. in the(ir) eye** – ym myw eu llygaid; **a s. answer** – ateb call; **a s. 3-year course** – cwrs 3-blynedd di-dor; **ten s. wins** – deg buddugoliaeth (yn) olynol (*Sgorio, SAC, 06.02.06*); **it's a s. fight between him and her** – brwydr yw hi rhyngddo ef a hi – a neb arall neu dim ond ef neu hi (a) all ennill y frwydr (hon(no))

straightforward – digon/bur/gymharol syml, didrafferth, diffwdan; **the s. adoption of Scottish-style powers** – mabwysiadu holl bwerau Senedd yr Alban

strain: to the s.-s of – i gyfeiliant

strait-jacket: to act/serve as/be a s. – caethiwo

strand – trywydd

to strand – dal; **to be s.-ed** – cael eu dal

strange – chwithig

to strap: to be s.-ped for cash – bod yn brin o arian

to stray: to s. from the point – colli'r trywydd, codi sgwarnog

stream: on s. – ar waith/gael; **to see services coming on s.** – gweld cyflwyno gwasanaethau; **they will come on s. during ...** – byddant ar gael dros/yn ystod ..., cânt eu cyflwyno dros/yn ystod ...; **a s. of** – rhibidires o

to streamline – hwylyso, ystwytho

strength: physical s. – nerth bôn braich; **they drew s. from ...** – calondid/hwb iddynt oedd ...

to strengthen: to s. the focus on – canolbwyntio mwy (a mwy) ar

stress: a period of s.-es and strains – cyfnod o straen a thyndra/thensiwn

to stress: to s. the importance of ... – pwysleisio ..., tanlinellu pwysigrwydd .../pa mor bwysig yw ...; **to s. out their staff** – llethu eu staff yn llwyr, gorlethu eu staff, gorlwytho'u staff

stressful: s. situations – sefyllfaoedd anodd (iawn)

to stretch: s. your imagination – rhwch rwydd hynt i'ch dychymyg
strewn: estates s. with litter – ystadau sy'n frith/llawn o sbwriel; **s. with mistakes/errors neu error-s.** – yn wallus (iawn), yn frith o wallau/gamgymeriadau
strict: in s./the s.-est confidence – yn gwbl gyfrinachol; **s. limitations** – cyfyngiadau tynn; **in s. compliance/ conformity with** – yn gwbl unol â/ag
strictly: s. chronological – cwbl gronolegol; **a s. limited number** – nifer cyfyngedig iawn; **s. in accordance with ...** – yn gwbl unol â/ag ...; **to work s. within the guidelines** – gweithio'n gyfan gwbl o fewn y canllawiau, gweithio heb dorri dim ar y canllawiau, gweithio heb dorri'r canllawiau o gwbl, gweithio heb fynd yn groes i'r canllawiau (o gwbl)
strictures – (*heb fod yn feirniadol*) cynghorion, anogaethau
stride: in keeping abreast of rapid s.-s in today's technological world – drwy fanteisio ar ddatblygiadau diweddaraf yr oes dechnolegol sydd ohoni; **she has taken up her new duties in her s.** – mae hi wedi ymgymryd yn hwylus â'i dyletswyddau newydd; **he has taken the situation in his s.** – mae'n feistr (corn) ar y sefyllfa
strike: two s. – and you're out (am dwyllo) – os twyllwch ddwywaith, allan â chi *neu* os cewch eich dal yn twyllo ddwywaith, allan â chi *neu* byddwch chi allan ar eich pen(nau) *neu* allan ar eich pen(nau) y byddwch chi
to strike: to s. a balance – ceir/sicrhau/amlygu cydbwysedd; **to be struck by** – cael eu swyno gan; **to s. out in new directions** – torri cwys (cwbl) newydd; **to s. up a conversation** – cychwyn/dechrau sgwrs(io)/siarad
striking: in s. contrast to – yn dra gwahanol i
strikingly: to contrast s. with – (bod) yn dra gwahanol i
string: a s. of – rhibidires o
to string: to s. ... together – creu/trefnu rhes o ... (y naill ar ôl y llall)
to strip: to s. out a level of bureaucracy – dileu haen o fiwrocratiaeth, cael gwared ar haen o fiwrocratiaeth
to strive – brwydro, ceisio; **this is the standard all businesses should s. for** – dyma'r safon y dylai pob busnes geisio'i/ymdrechu i'w chyrraedd
stroke: at a s. – dros nos
strong: to make something s.-er – cryfhau rhywbeth; **the wind at its s.-est** – y gwynt yn ei anterth; **a 240-s. choir** – côr (sydd) â 240 o aelodau; **a s. emphasis on ...** – pwys(lais) mawr ar ...
stronghold – cadarnle
strongly: ... was s. criticised – beirniadwyd y(r) ... yn hallt; **to be s. of the opinion that** – bod yn bendant o'r farn fod/mai/y(r); **I s. hope that ...** – rwy'n mawr obeithio bod/mai/y(r) ..., rwy'n gobeithio'n fawr bod/mai/y(r) ..., fy ngobaith mawr yw bod/mai/y(r) ...; **a s. practical subject** – pwnc hynod ymarferol/arbennig o ymarferol/ymarferol iawn/ymarferol dros ben; **this should feature s. in our discussions** – dylai fod lle amlwg i hwn/hyn yn ein trafodaethau, dylai'n trafodaethau roi lle amlwg/sylw mawr i hwn/hyn; **to be s. influenced by ...** – bod/dod o dan ddylanwad trwm/cael eu dylanwadu'n drwm gan ...
structural: s. analysis of ... – dadansoddi(ad o) adeiledd/adeiladwaith/strwythur ...; **their s. complexity** – cymhlethdod eu hadeiladwaith; **no s. remains were found** – ni chafwyd hyd i olion (unrhyw) adeiladwaith
structured: tightly s. – tynn eu gwead; **they are similarly s.** – mae patrwm tebyg iddynt/ganddynt, tebyg yw ei patrwm
struggle: an uphill s. – talcen caled
to struggle: I would really, really s. to continue to contribute/to keep on contributing to ... – byddwn i'n ei chael hi'n anodd iawn iawn/dros ben dal (ati)/parhau i gyfrannu i/at ... *neu* byddwn i'n cael trafferth mawr (iawn)/dychrynlyd/ofnadwy i ddal (ati)/i barhau i gyfrannu i/at ...; **to s. with** – cael (peth) trafferth i
struggling: s. candidates – ymgeiswyr sy'n cael trafferthion
stuck: s. for something to say? – heb allu meddwl am rywbeth/ddim (byd) i'w ddweud?; **I'm s. for something to say** – does gen i ddim syniad beth rwy'n mynd i'w ddweud; **to be s. in the past** – (bod) yn perthyn/yn dal i berthyn i'r gorffennol/i oes a fu, (bod) yn byw yn y gorffennol; **s. in the middle** – bod yn y canol, cael eu dal yn y canol; **to be s. for cash** – bod yn brin o arian; **s. for a stamp?** – yn brin o stamp?; **to be s. in the past** – (bod) yn byw yn y gorffennol, (bod yn) dal i fyw/rygnu byw yn y gorffennol, (bod) yn perthyn/yn dal i berthyn i'r gorffennol/i oes a fu; **don't get s. on one question** – peidiwch â mynd i'r gors wrth ateb un cwestiwn; **problems they are s. with and have to stick with** – problemau y maent yn eu hwynebu ac yn gorfod eu hwynebu, problemau sy'n eu hwynebu ac nad oes modd/na allant eu hosgoi/eu hochrgamu
studded: s. tyres – teiars stydiog
study: course of s. – cwrs (astudio); **nature s.** – byd natur
to study: the topic s.-ied – y topig dan sylw/perthnasol
to stump: I was s.-ed – aeth hi'n nos arna i
stunning – trawiadol dros ben
to stunt: to s. the improvements already made – amharu ar y newidiadau sydd wedi'u gwneud eisoes
style: s. of language – ieithwedd; **teachers with an expository s. of teaching** – athrawon sy'n addysgu drwy draethu; **different s.-s of teaching and learning** – gwahanol ffyrdd o ddysgu ac addysgu
to stymie: I was s.-ed – aeth hi'n nos arna i
subject: s. teams – timau pwnc, timau pynciol; **s. departments** – adrannau pwnc (pynciol); **s. to ...** – os ..., os bodlonir ..., os bydd ..., ar yr amod bod ..., cyhyd â bod ..., yn unol â/ag ..., yn amodol ar ..., yn gorfod bodloni ..., yn agored i

...; **(s. to terms and conditions)**– (rhaid bodloni'r telerau a'r amodau); **the s. matter being tested** – yr hyn a brofir/y rhoir prawf arno; **aspects of the course(,) other than its s. matter** –agweddau ar y cwrs (heblaw am ei gynnwys); **departments s. to considerable financial constraints are ...** – mae adrannau sy'n wynebu cryn gyfyngiadau yn ...; **the schemes have been s. to/the s. of informal discussion** – bu'r cynlluniau'n destun trafod anffurfiol; **they are s. to influences** – maent yn agored i ddylanwadau, mae arnynt ddylanwadau; **the figures may be s. to slight error** – gall y ffigurau fod ychydig yn wallus; **the projects were the s. of diligent efforts** – yr oedd y prosiectau'n ffrwyth ymdrechu diwyd; **they can be s. to refusal/change** – gellir eu gwrthod/newid, mae modd eu gwrthod/newid; **where the offer is s. to conditions** – os oes amodau ynghlwm wrth y cynnig; **procedures to ensure that the marking is s. to a second opinion** – gweithdrefnau/trefn(iadau) i sicrhau cael ail farn ar y marcio; **their wish not to be s. to second-hand smoke** – eu dymuniad i beidio ag anadlu mwg ail-law; **work that might be publishable s. to substantial revision** – gwaith y gellid ei gyhoeddi, o'i ddiwygio'n helaeth; **s. to validation** – heb ei/eu (d)dilysu eto; **these courses are s. to validation** – nid yw'r cyrsiau hyn wedi'u dilysu eto

to subject: the land has not been s.-ed to use and reuse – nid yw'r tir wedi gweld defnyddio ac aildddefnyddio arno, nid yw'r tir wedi'i ddefnyddio a'i aildddefnyddio

subjectivity – goddrychedd (*gw. Y Geiriadur Cymraeg Cyfoes*)

sublime: from the s. to the ridiculous – o'r gwyd i'r gwachul

to submit: I would s. that ... – byddwn i'n dadlau bod/mai ...

subordinate: A is s. to B – mae/bydd/daw A yn ail i B

subscript – is-rifau

subsequent – wedyn; **s. to their arrival** – ar ôl iddynt gyrraedd; **the s. advice** – y cyngor a ddeilliodd o hynny

subsequently – ers hynny

subservient: to be s. to – dod yn ail i

to subside – (*of a flow*) arafu

subsidiarity – isreolaeth

subsidiary: country houses and their s. buildings – plastai a'r adeiladau sy'n/a oedd yn perthyn iddynt; ... **should be s. to ...** – dylai ... fod/ddod yn ail i ...

to subsidise: our outside jobs s. the farm – ein gwaith/swyddi (ni) y tu allan i'r fferm sy'n ei chynnal (hi)/sy'n ei chadw hi i fynd

substance – cynnwys

sub(-)standard – islaw'r safon

substantial: a s. number – nifer helaeth; **a s. amount of** – cryn dipyn/lawer o

substantially – at ei gilydd; **to benefit s. from** – elwa llawer ar; **not s.** – ddim rhyw lawer; **it was s. completed when ...** – yr oedd y rhan fwyaf o ddigon ohono/ohoni wedi'i chwblhau pan ...

to substantiate: if this is s.-ed – os gwelir/dangosir/ceir/profir bod hyn yn wir/hynny'n wir/bod hyn(ny) wedi digwydd, os ceir prawf fod hyn yn wir/hynny'n wir/bod hyn(ny) wedi digwydd; **to s. their assumptions** – cadarnhau gwirionedd/cywirdeb eu tybiaethau

substantiated – (bod) â sail gadarn iddynt

substantive – o bwys; **to be s.** – bod â sylwedd iddynt; **this will be given a much more s. examination** – caiff hwn/ hon ei (h)archwilio'n fwy trylwyr/ trwyadl o lawer/'n drylwyrach/'n llawer mwy trylwyr/trwyadl/'n llawer trylwyrach

substitute: there is no s. for ... – nid oes (yr un) dim a wna'r tro yn lle/a all guro/ddisodli ...; **they provide (= are) a necessary s.** – maent yn llenwi'r bwlch; **these notes are no s. for attending the meeting** – nid yw darllen y nodiadau hyn yn esgus dros beidio â dod/mynd i'r cyfarfod

to subsume – plethu i, llyncu; **the breadth of activities s.-ed within it** – amrywiaeth y gweithgareddau sy'n cael/a gaiff eu cwmpasu ganddo

subtly: to be s. different from/to differ s. from ... – bod ychydig bach (bach) yn wahanol i ..., bod mân wahaniaethau rhwng ... a(c) ..., bod gwahaniaethau bach (bach)/mân (mân) rhwng ... a(c) ...

subvention: s. costs – costau cyfrannu (?)

succeeding: by s. generations – ar draws y cenedlaethau; **in the s. sixty years** – yn ystod y trigain mlynedd wedi/ar ôl hynny

success: a s. story – llwyddiant; **competitive s.** – cystadlu llwyddiannus; **to achieve s.** – cael y maen i'r wal; **with great s.** – yn llwyddiannus iawn

successful: it would not be so s. – ni fyddai cystal; **to be s.** – taro deuddeg; **they were asked why they had been so s.** – gofynnwyd iddynt esbonio pam yr oeddent wedi llwyddo cystal

successor: their s. organisations – y cyrff a'u olynodd/a fydd yn eu holynu/sy'n mynd i'w holynu

succinct: a s. summary – crynodeb (diwastraff)

to succumb: the boat s.-ed to the waves – trechodd y tonnau'r cwch/bad, suddodd y bad/cwch

such: ['such' + 'that' – gw. isod] **s. schemes** – y cynlluniau hyn(ny); **in accordance with s. codes of practice as may be in force** – yn unol ag unrhyw god(au) ymarfer a all fod mewn grym; **that s. and s. a thing is not ...** – nad yw'r peth a'r peth yn ...; **s. activities as/activities s. as ...** – gweithgareddau tebyg i/megis ...; **as s.** – felly, fel y cyfryw; **without acknowledging them as s.** (= *that that is what they are*) – heb gydnabod hynny, heb gydnabod

mai dyna ydynt; **s. as to ...** – (*ei hepgor*), yn ddigon i ...; **until s. time as ...** – tan i/y(r) ...; **s. reflection about ... is ...** – mae myfyrio fel hyn am ... yn ...; **the handover must be s. as to allow us seven days on which to deliver them** – rhaid trosglwyddo'r ... mewn pryd i ni gael saith diwrnod i'w dosbarthu; **under s. conditions** – bryd hynny, **the evidence, s. as it is, is ...** – mae'r dystiolaeth, hynny sydd (ohoni), yn ...; **this hotel, s. as it is, is ...** – mae'r tipyn gwesty hwn yn ...; **s. a volume of ...** – cymaint/cynifer o ...; os felly ...; **they are firmly committed to ... and as such wish to ...** – gan eu bod wedi ymrwymo'n bendant i ..., eu dymuniad yw/dymunant ...

[such + that:]

the ... are s. that/such are the ... that ... – cymaint/cystal/cynddrwg yw ... nes/fel bod ...; **to be s. that/s. is the ... that ...** – mae ... yn golygu bod ...; oherwydd ... (rhaid) *neu* mae ... mor ... nes bod ...; **in s. a way that they ...** – mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod ...; **s. is their composition that ...** – maent wedi eu llunio yn y fath fodd fel/nes bod ...; **s. is their fluency that ...** – maent mor rhugl nes/fel ...; **is the ... s. that they are able to ...?** – a yw'r ... yn sicrhau y byddant yn gallu/y gallant ...?; **to be taught in s. a way that ...** – cael eu haddysgu mewn ffordd sy'n peri bod/sy'n gwneud (i) ...; **people in s. numbers that ...** – cymaint/cynifer o bobl nes ...; **to s. effect that ...** – cymaint (felly) nes ..., i gymaint graddau (felly) nes ...; **to show s. interest that ...** – dangos cymaint o ddiddordeb nes ...; **the conditions are s. that it is necessary to ...** – mae'r amodau'n ei gwneud yn angenrheidiol .../oherwydd yr amodau, rhaid ...; **s. is their work that ...** – cystal/ cynddrwg yw eu gwaith nes/fel bod ...; **the tasks should be s. that the adjudicators can award ...** – dylai'r tasgau alluogi'r beirniaid i ddyfarnu ...; **they will s. that they can be completed within three years** – byddant yn rhai y gellir/y bydd modd eu cwblhau ymhen/cyn pen tair blynedd

to suffuse: to be s.-ed with – bod yn gyforiog o

to suggest: there is little evidence to s. that – nid oes fawr o dystiolaeth bod; **comparison of ... and ... s.-s that ...** – o gymharu ... a ... fe welir bod/mai/y(r) ...

suggestive: please note that this is s. (= suggested), not definitive – sylwch mai awgrym yw hwn, nid gorchymyn *neu* sylwch mai awgrymu a wneir, nid deddfu

suicidal: to feel s. – teimlo fel ei (l)ladd ei hun/fel rhoi terfyn ar y cyfan, teimlo awydd mawr/cryf/llethol i'w (l)add ei hun(an)/i roi terfyn ar y cyfan

suit: to follow s. – gweithredu yn yr un modd, dilyn yr un drefn

to suit: at times which s. teachers best – ar (yr) adegau sydd fwyaf hwylus i'r athrawon; **best s.-ed to** – sy'n cyd-fynd orau â; **to s. people in different time zones** – er hwylustod i bobl mewn gwahanol barthau amser; **this won't s. everyone** – fydd hyn ddim at ddant/wrth fodd pawb

suitable – yn taro; **more s.** – yn taro'n well

suite: a s. of ... – cyfres o ..., casgliad o ...

to sully: to s. an advantage – amharu ar fantais

sum: in s., there are eighteen projects in the pipeline – mae cyfanswm o ddeunaw prosiect, felly, ar y gweill

to sum: to s. up – crisialu

summary: s. session – sesiwn grynhoi; **in s.** – i grynhoi, mewn gair, a bod yn gryno

super: a s. enquiry – ymholiad penigamp/ardderchog/rhagorol, ymholiad difyr dros ben; **s.-profits** – elw aruthrol

to supercede – olynu, disodli

superior; to be s. to – rhagori ar; **to be much s. to** – tra-rhagori ar

superstructure – uwch-strwythur, uwch-fframwaith

supervisory: a s. session – sesiwn goruchwyllo

supplement: a 100% s. – tâl ychwanegol o 100%

supplementary: s. questions – cwestiynau pellach

supply – arlwy; **s. teachers** – athrawon llanw; **in short s.** – annigonol

to supply: to s. information – cyflwyno/rhoi gwybodaeth; **they must s. their own shoes** – rhaid iddynt ddod â'u hesgidiau eu hunain (gyda hwy/nhw)

support – canllawiau; (= *material/financial assistance*) cymorth; **evidence in s. of** – tystiolaeth yn garn i/sy'n ategu; **s. staff** – staff cynorthwyo; **to provide s. for** – cynnal breichiau; **the scheme has the s. of the council** – mae'r cyngor yn cefnogi'r cynllun

to support – bod o blaid, bod yn gefn i, cynorthwyo, helpu; **experience s.-ed by a minimum of knowledge** – profiad ynghyd ag ychydig (iawn)/â'r mymryn lleiaf o wybodaeth

supportive – cynhaliol, parod eu cymorth; **to be s. of** – bod yn bleidiol i, bod yn gefn i

to suppose: just s. that they ... – a bwrw am funud eu bod yn ...

supposedly: as this would s. hinder their assimilation – am/gan y bernid/am/gan mai'r farn oedd y byddai hynny'n rhwystro'u cymathu/hynny'n eu rhwystro rhag cael eu cymathu/rhag cymathu

suppositional – dyfaliadol

sure: be s. of that – mae hynny'n bendant (i chi); **make s. that you go** – cofiwch fynd

surely – yn sicr ddigon

to surface: a problem which has s.-ed – problem sydd wedi codi (ei phen)/(i'r wyneb)

surge: **that's when there are s.-s in the costs of living** – dyna pryd y gwelir/ceir/bydd/mae cynnydd/cewch (chi)/ gwelwch (chi) gynnydd sydyn mewn costau byw, dyna pryd y bydd costau byw'n cynyddu'n sydyn

surgery – cymhorthfa

to surmount – goresgyn

to surpass: **to s. all understanding** – bod uwchlaw pob deall (*Y Beibl/Y Llawlyfr Gweddi Cyffredin*)

surplus: **these are s. to requirements** – nid oes angen y rhain, nid oes eu hangen, does mo'u hangen

surprise: **the report should contain no s.-s** – ni ddylai'r adroddiad gynnwys unrhyw beth/yr un dim sy'n annisgwyl; **it was a very great s. to see her** – syndod o'r mwyaf oedd ei gweld hi; **this often takes researchers by s.** – bydd hyn yn/hynny'n aml yn synnu ymchwilwyr; **a real s.** – peth/rhywbeth/digwyddiad/datblygiad cwbl annisgwyl

to surprise: **are there any results you are s.-ed about?** – a oes unrhyw ganlyniad(au) sy'n eich synnu/sy'n peri syndod i chi

surprising: **to a s. extent** – i raddau sy'n synnu dyn/rhywun, **it was most/very s. to see her there** – syndod o'r mwyaf oedd ei gweld hi yno

surprisingly – yn rhyfedd iawn/ddigon; **the s. high percentage of** – y canran syndod o uchel o

surrogate: **s. mother** – mam ddirprwyol

to surround: **the confusion which s.-s ...** – y dryswch ynghylch... (gw. surrounding)

surrounding: **s. areas** – ardaloedd cylchynol; **the confusion s.** – y dryswch ynglŷn â/ynghylch; **their s.-s** – y byd o'u hamgylch; **Cardiff and the s. region** – Caerdydd a'r cylch; **the circumstances s. the incident** – amgylchiadau'r digwyddiad

surveillance – goruchwyllo

suspect: **the usual s.-s** – y criw/clic (bach) arferol, y rhai y byddech chi'n disgwyl iddynt fod yno/wrth y llyw, y rhai y byddech chi'n disgwyl eu gweld yno/wrth y llyw

to suspect – rhyw amau/dybio

suspected: **any s. shift in ...** – unrhyw amheuaeth o newid yn/mewn/o ran

to suspend: **to s. the timetable** – rhoi'r amserlen o'r neilltu

to sustain – ymgynnal; **to s. continuity** – sicrhau parhad; **this set a standard which is still s.-ed** – gosododd hyn safon y delir i'w harddel; **the loss s.-ed to the ... by** – y golled i'r ... yn sgil; **to s. (a) defeat** – colli('r dydd), cael eu gorchfygu/trechu; **to s. criticism** – cael eu beirniadu

sustained: **a s. effort** – ymdrech ddyfal

sustenance – arlwy

to swallow: **she was unable to s. Hitler's regime** – ni allai (hi) oddef llywodraeth Hitler, ni allai hi yn ei byw â dygymod â llywodraeth Hitler

swansong: **this saw/sang/was the s. of the ...** – (a) dyna'r/(a) dyna i chi'r/(a) honno oedd yr hoelen olaf yn arch (y(r) ...)/yr act (ogoneddus/fawreddog/wych/nodedig) olaf yn hanes .../yr act olaf yn hanes (gogoneddus/mawreddog/gwych/ nodedig) ...

swathe: **a large s. of land** – darn mawr/helaeth o dir, tir(oedd) helaeth

sway: **to hold s.** – bod mewn grym; **the majority ruling held s.** – penderfyniad y mwyafrif (a) aeth â hi

sweeping: **s. views** – golygfeydd eang; **to make s. statements** – dweud pethau mawr

sweetness: **not all s. and light** – ddim yn fêl i gyd

swift: **a s. rebuke** – cerydd yn y fan a'r lle/cyn pen dim, ceryddu'n syth/ddiymdroi/ar unwaith

swing: **s.-s and roundabouts** – rhai'n ennill, rhai'n colli *neu* ennill ar y mennyn, colli ar y caws

to swing: **to s. round to the north** – troi('n sydyn) tua'r gogledd

to switch: **to s. off altogether** – colli pob diddordeb; **to s. between** – symud yn ôl ac ymlaen rhwng; **to s. on** – dechrau; **to be/get s.-ed off by ...** – diflasu ar ..., cael eu diflasu gan ...

to symbolise – bod yn symbol o

sympathetic: **a s. result** – canlyniad cydnaws/sy'n cyd-daro; **to be s.** – dangos cydymdeimlad

synergy – cyfegni

systematically – bob yn dipyn, gam wrth gam, fesul un/eitem, pob un yn ei dro/ei thro, yn eu tro

to systematise: **to be s.-ed into** – trefnu'n

tab: **thumb t.-s** – bylchau bawd; **to pick up the t.** – talu'r pris/gost, talu am y(r) ...

to table – cyflwyno

tablets: **these regulations have been turned into t.-s of stone** – mae'r rheoliadau hyn(ny) bellach yn rhai cwbl haearnaid

tack: **to change t.** – torri cwys newydd

to tackle: **to t. all aspects of ...** – rhoi sylw i bob agwedd ar ...

tactfully – yn ddiplomatig

tag (= name) – enw, teitl

to tail: **the work begins at a high standard and then t.-s off** – ar y cychwyn, bydd y gwaith o safon (uchel) ond yna bydd (y/ei safon) yn dirywio

to tailor – anelu at; **to t. assignments to** – trefnu bod tasgau'n gweddu i
tailor-made: a plan t. to suit your needs – cynllun pwrpasol i gyd-fynd â'ch anghenion/i ateb eich anghenion
to take: to t. action – gweithredu, cymryd camau, gwneud; **t. action to** – ewch ati i ...; **to t. an interest in** – ymddiddori yn/mewn; **to t. a (very) long time to** – cymryd hydoedd i; **to t. apart** – datgymalu; **to t. every opportunity** – dal/bachu/manteisio ar bob cyfle; **to t. the initiative** – mentro; **to t. issue with** – anghytuno/ anghydwydd â; **to t. leave of their senses** – colli arnynt eu hunain; **as fast as their feet would t. them** – nerth eu traed; **to t. measures to** – mynd ati i, ymroi i; **to t. note of** – nodi, sylwi ar; **t. note** – dalier sylw; **the idea has t.-en off** – mae'r syniad wedi cydio; **to t. office** – dod i rym (*am lywodraeth*), dod i swydd (*am berson*); **to t. on** – mynd i'r afael â; **to t. on board** – rhoi sylw i, mabwysiadu, cynnwys, cymryd i ystyriaeth, cofio; **to t. on educational opportunities** – manteisio ar gyfleoedd addysgol; **to t. (on) the shape of ...** – ymdebygu i ..., mynd i edrych fel ..., ymrithio yn ffurf ... **to t. the uncertainty out of recruitment** – dileu'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth recriwtio; **to t. over duties** – ymgymryd â dyletswyddau; **to t. over responsibility** – mynd yn gyfrifol am; **to t. place** – digwydd, bod (ar waith); **the visits/meetings took place at a time when** – cynhaliwyd yr ymweliadau/cyfarfodydd ar adeg pan/pryd y(r); **the discussions that have t.-en place** – y trafodaethau a gafwyd; **the consultation is t.-ing place as a two- stage process** – mae/byddau gam i'r ymgynghori; **to t. pupils for science** – addysgu gwyddoniaeth i ddisgyblion; **to t. root** – gwreiddio, bwrw gwreiddiau, cydio; **to t. revenge/retaliatory action** – talu'r pwyth yn ôl; **to t. shape** – ymfurfio; **to t. steps to** – bwrw/mynd ati i; **to t. their time to go** – mynd wrth eu pwysau; **to t. to their heels** – ei gwadnu hi, ac i ffwrdd â hwy nerth eu traed/am fywyd; **to t. up a job/post** – dod i swydd, cymryd swydd, ymgymryd â swydd; **to t. up a matter** – cyfeirio mater at/i sylw; **to t. up a problem/idea** – mynd ar drywydd problem/syniad; **to t. up a lot of energy** – di(hy)sbyddu llawer o egni; **time t.-n up by** – amser a neilltuir/neilltuwyd i; **t.-ing that** – o gymryd/a bwrw bod; **t.-en together** – gyda'i gilydd; **to t. the view that** – bod o'r farn, barn ... yw (bod/mai); **to t. the seminar approach** – arfer yr ymagwedd seminar; **what form does it t.?** – pa ffurf sydd iddo/iddi?, pa siâp sydd iddo/iddi?; **the different forms information can t.** – y gwahanol ffurfiau a all fod ar wybodaeth; **to decide what form these should t.** – penderfynu pa ffurf a ddylai fod iddynt/i'r rhain/i'r rheiny, penderfynu ar ba ffurf y dylent fod/y dylai'r rhain/rheiny fod; **if you would like to t. up any of these services** – os hoffech (chi) fanteisio ar unrhyw un neu rai o'r gwasanaethau hyn; **to t. forward** – mynd ymlaen â; **to t. a (phone)call** – ateb galwad ffôn; **they would be the first to t. issue with us** – hwy fyddai'r cyntaf i godi'r mater (hwn/nw) gyda ni/i dynnu'n sylw at y mater (hwn/nw); **they have t.-n to sending ...** – maent wedi mynd ati i anfon ...; **to t. responsibilities** – ysgwyddo cyfrifoldebau; **to t. on increasing importance** – bod yn fwyfwy pwysig, magu pwysigrwydd; **to t. in the atmosphere** – ymdeimlo/ymglywed ag/ymgolli yn/mwynhau awyrgylch/ naws y lle/y fan; **to t. stock** – ailedrych ar bethau; **they t. the view that ...** – eu barn hwy yw bod/mai ..., maent yn arddel y farn fod/mai ...; **to t. the lead** – cymryd yr awenau, arwain, mynd ar y blaen; **to t. the lead in arranging** – mynd/bwrw ati i drefnu; **to t. no action** – gwneud dim; **I was t.-n by the way they are portrayed** – fe'm cyfarwyddwyd/swynwyd/hudwyd/trawyd gan y ffordd y cânt eu portreadu, dotiais at y ffordd y cânt eu portreadu; **these opportunities were fully t.-en up** – manteisiwyd yn llawn ar y cyfleoedd hyn(ny) ; **to have what it t.-s to ...** – bod â'r gallu/ddawn/doniau/priodoleddau/ nodweddion (angenrheidiol) i ..., gallu ...; **do you have what it t.-s to be a champion?** – a oes defnydd pencampwr(aig) ynoch chi?, a oes gennych chi'r/a ydych chi'n meddu ar y ddawn/doniau/priodoleddau/ nodweddion (sy'n) angenrheidiol i fod yn bencampwr(aig)?; **this is an offer they can t. or leave** – dyma gynnig y cânt fanteisio arno neu ei anwybyddu; **we will not take lessons from him about ...** – chaiff ef ddim pregethu wrthym ni am/ynghylch ...; **to t. time out to ...** – treulio tipyn o amser/peth amser i/yn ...; ; **to t. their eye off the ball** – methu/peidio â chanolbwyntio'n llwyr; **you must t. great care to ensure that ...** – rhaid i chi arfer gofal mawr wrth sicrhau bod ...; **to t. you through the steps** – eich tywys drwy'r camau; **don't just t. our word for it** – nid ni'n unig sy'n dweud hyn(ny), nid ni yw'r unig rai sy'n dweud hyn(ny)

takeover: they could become vulnerable to t. bids – gallent fod yn fwyfwy agored i gynigion i'w prynu

take-up: the t. of ... – y defnydd a wneir o ...; **these women's low t. of antenatal care** – y ffaith nad yw/oedd y menywod hyn(ny) yn manteisio rhyw lawer/mwy na mwy ar ofal cyn-geni, y ffaith mai prin yw/oedd y defnydd a wnâi'r menywod hyn(ny) o ofal cyn-geni, y ffaith mai bach/ychydig o ddefnydd a wna'r/wnâi'r menywod hyn(ny) o ofal cyn-geni

talk: to walk the t. – gweithredu eu geiriau, gwneud yr hyn y maent yn ei bregethu

to talk: to stop t.-ing – tewi; **they t. in generalities rather than in specific details/specifcs** – maent yn cyffredinol yn hytrach nag yn manylu; **to t. things over/through with** – trin a thrafod pethau gyda(g) ...; **t. things over/through with ...** – mynnwch air â/ag ...; **through: to talk it t. with you** – trin a thrafod y mater/sefyllfa ac ati/trafod y mater/sefyllfa ac ati gyda chi; **to t. down** – (i) siarad/sôn yn ddirmygus/ddilornus, dilorni, (ii) bychanu (*awgrym Elin Davies ar welsh-termau-cymraeg, 30.04.08*)

talking: to be a t. point – bod yn destun siarad

tall: to feel ten feet t. – bod uwchben eu digon/ar ben y byd/wrth eu bodd [*gw. y drafodaeth ar welsh-termau-cymraeg, 03.09.03*]

tallescope – talesgob (*eg*), talesgobau

tally: to keep a t. of – cofnodi nifer y(r)

tandem: **in t.** – hefyd, ar y cyd, yr un pryd, gyda’i gilydd; **in t. with** – ynghyd â/ag

tangenital: **matters that/which are purely t. to ...** – materion nad ydynt ond yn braidd gyffwrdd â/ag ...

tangent: **to go off at t.-s** – codi sgwarnogod

tangible – amlwg, pendant; **t. evidence** – tystiolaeth (*weithiau mae’r gair yn ddiystyr*); **to make t.** – diriaethu

tantalising: **a t. prospect** – syniad apelgar/atyniadol, syniad sy’n tynnu dŵr o’ch dannedd, syniad sy’n ddigon i dynnu dŵr o’ch dannedd; **a t. observation** – sylw awgrymog

tantamount: **it could be argued that promoting ... is t. to doing just this** (= *offering false hope*) – gellid dadlau mai dyna(’n union) a wneir i bob pwrpas wrth hyrwyddo ...

to tap: **to t. (into) a source for information** – cyfeirio/troi at ffynhonnell am wybodaeth, cysylltu â ffynhonnell am wybodaeth, manteisio/tynnu ar ffynhonnell am wybodaeth; **to t. into the opinions of ...** – ymglywed â barn/safbwyntiau ...; **they will be able to t. into their local history (by) using ...** – byddant yn gallu troi at eu hanes lleol/cael gafael ar eu hanes lleol drwy ddefnyddio ...; **to t. into an interest** – cyffwrdd â diddordeb

target: **on t.** – yn unol â’r amodau; **the programme is on t.** – mae’r rhaglen yn mynd rhagddi yn unol â’r amserlen/ yn cadw at yr amserlen; **they are on t. to make a profit** – disgwylir iddynt wneud elw, dylent wneud elw; **t.-driven** – a thargedau’n nod iddynt/ganddynt, yn anelu/cyrchu at dargedau, sy’n seiledig ar dargedau/ar gyrraedd targedau, targedau sy’n gyrru’r ... (yn eu blaen)

targeted – penodol; **to offer t. and specialist support** – targedu cymorth arbenigol

tart: **a t. reply** – ateb crafog

task: **it is no easy t. to ...** – nid ar chwarae bach y mae ...; **t. force** – tasglu; **everyone should make it his/her t. to ...** – dylai pawb fynd/fwrw ati’n gyntaf peth/syth/ar unwaith i ...; **to set about the t. of establishing ...** – mynd/bwrw ati i sefydlu; **to ensure that the groups are kept ‘on t.’** – sicrhau bod y grwpiau’n gweithio’n ddyfal/ddiwyd ar eu tasgau; **by setting them the t. of asking three questions** – drwy beri iddynt/eu hysgogi i ofyn tri chwestiwn; **t. and finish group** – tasg gorchwyl a gorffen; **to help you with this task** – i’ch helpu (chi) i wneud hynny

to task: **to t. them with looking after** – rhoi iddynt/cael y dasg/gwaith o warchod/o ofalu am...

taskforce – tasglu

taste: **more to their t.** – mwy at eu dant

taster: **t. courses** – cyrsiau blasu

tatter: **in t.-s** – yn deilchion, yn gyrbibion ulw mân, yn sgithion

to tax – bod yn dreth ar

taxation: **it should be paid for from general t.** – dylid talu amdano/amdani o bwrs y wlad

taxing – anodd; **quite a t. period** – cyfnod eithaf trwm/go drwm

tea: **for all the t. in China** – am bris yn y byd

teacher: **university t.-s** – addysgwyr (mewn) prifysgol

teacup: **storm in a t.** – stor(o)m daranau

to tear: **she felt torn in several directions by this case** – câi hi ei thynnu i sawl cyfeiriad gan yr achos hwn(nw)

to tease – tynnu coes; **to ‘t.’ out answers from pupils** – ysgogi(’r) disgyblion i ateb; **to t. out the tensions arising in ...** – manylu ar y tensiynau sy’n codi yn/mewn ...; **to t. apart the different elements** – gwahanu’r elfennau(’n gelfydd/’n ofalus/gan bwyll (bach)

teaser – eitem i/sy’n ysgogi/ennyn diddordeb

tedium – syrffed

teeming: **t. with** – yn fyw o

teenage: **through(out) their t. years** – drwy gydol eu harddegau; **he had an interest in ... going back to his teenage years** – yr oedd (ef) yn ymddiddori mewn ... ers ei lencyndod/ers iddo fod yn llanc

to tell: **t. me more** [*fel pennawd*] – hoffwn wybod rhagor, a ga i wybod rhagor?; **but it was his strength that told in the end** – ond ei gryfder (ef) a orfu/oedd drechaf yn y pen draw/yn y diwedd; ; **time will t.** – cawn (ni) weld, cewch (chi) weld

telling: **a t. comment** – sylw deifiol; **these are the most t. features of ...** – dyma’r/y rhain yw’r nodweddion sy’n dadlennu/datgelu mwyaf am ...

tellingly – yn arwyddocaol (ddigon); **to contrast t. with ...** – cyferbynnu/gwrthgyferbynnu’n amlwg iawn/boenus o amlwg â/ag ...

temper: **to lose one’s t. completely** – gwylltio’n lân

to temper: **to t. their enjoyment** – amharu ar eu mwynhad

temporalities – amseroldebau (*yr unigol yn unig sydd yng Ngeiriadur yr Academi*)

temporary: **just a t. thing** – tân siafins o beth

ten: **to feel t. feet tall** – bod uwchben eu digon/ar ben y byd/wrth eu bodd [*gw. y drafodaeth ar welsh-termau-cymraeg, 03.09.03*]; **ten: t.-s of thousands** – miloedd ar filoedd

tenacity – dyfalbarhad

to tend: **children t. to feel the cold more** – mae plant yn fwy tueddol o deimlo’r oerfel/oerni/deimlo’n oer

tender: **even at their t. age** – er eu bod mor ifanc

tenet: **to be a central t. in** – bod yn elfen ganolog yn/mewn

tense: **very t.** – llawn tyndra

tentacles – hir grafangau

tentative: if your thinking is at a more t. stage – os nad ydych (chi) wedi meddwl mor bell â hynny, os ydych (chi) heb feddwl mor bell â hynny

tentatively – fel arbrawf

tenuous: a t. connection – cysylltiad brau; **the relevance of the information to the question is t.** – gall y wybodaeth beidio â bod yn (rhyw) berthnasol (iawn) i'r cwestiwn

tenuously: t. related to – nad oes fawr o gysylltiad rhyngddynt a

tenure: after eight years' t. – ar ôl wyth mlynedd yn y swydd, ar ôl dal y swydd am wyth mlynedd

term: in t.-s of – o ran; **in similar t.-s** – i'r un perwyl; **in practical t.-s** – yn ymarferol; **problems they have tried to come to t.-s with** – problemau y maent wedi ceisio mynd i'r afael/dygymod â hwy; **in simple t.-s** – yn syml, mewn gair, mewn geiriau/iaith syml, a siarad yn gyffredinol, mewn gair, o'i roi'n syml, o ddweud y peth/o fynegi'r peth yn syml; **in the simplest possible t.-s** – cyn symled/mor syml â phosibl; **expressed in percentage t.-s** – o'u mynegi fel canran; **in broad t.-s** – (a siarad) yn gyffredinol

terminal: they were given a t. prognosis – cawsant wybod nad oedd dim gwella i fod/nad oedd unrhyw obaith, cawsant wybod bod y dyfodol yn ddu iawn

to terminate – dileu

terrible: their French is t. – mae eu Ffrangeg yn goch (ryfeddol)

test: to act as t. beds for – arbrofi gyda; **to stand the t. of time** – dal eu tir

testament: to be t. to – tystio i

to testify – bod yn dystiolaeth o; **to t. to the seriousness of...** – amlygu difrifoldeb ...

testimony: to be t. to – bod yn brawf o

textuality – gweadoledd (?)

thank: our t.-s to ... – hoffem ddiolch i ...; **many t.** – diolch o galon; **t.-s to an investment of ...** – yn sgil/dilyn buddsoddiad o .../buddsoddi ...; **a very special t.-you to ...** – diolch o galon i ...

thankfully – diolch i'r nefoedd/mawredd

that: t. said, ... – ar ôl/wedi dweud hynny, ...; **a request that** – cais am, cais ar i ...; **similar to t. which** – tebyg i'r un/rhai; **t. they do so is ...** – mae'r ffaith eu bod yn gwneud hyn yn/hynny'n ...; **the conference in 1993, not t. in 1992** – y gynhadledd ym 1993, nid yr un ym 1992; **they are not t. good/bad** – nid ydynt cystal/ cynddrwg â hynny; **t.'s life** – fel 'na mae (hi) (yn yr hen fyd 'ma) *neu* yn y byd ('ma), gorthrymder a gewch; **t. is to say** – hynny yw; **colours are important and t. is why people ...** – gan fod lliwiau'n bwysig, mae/bydd pobl yn ...

the: she was none t. wiser – doedd hi ddim callach

then: t. and now – ddoe a heddiw; **from t. on** – o hynny allan; **very well t.** – o'r gorau; **t. and there** – yn y fan a'r lle, y foment honno, yr eiliad honno

there: t. is – mae ... i'w cael, ceir; **although t. is** – er bod; **although t. is no ...** – er nad oes ...; **but the story does not end t.** – ond nid dyna ddiwedd y stori; **t. and then** – yn y fan a'r lle, y foment honno, yr eiliad honno; **out: t. are thousands of courses out t.** – mae miloedd o gyrsiâu i'w cael/ar gael (yn y byd mawr); **we've all been t.** – profiad cyffredin i bawb/i bob un ohonom/i ni i gyd, profiad yr ydym ni i gyd wedi'i gael/y mae pob un ohonom wedi'i gael, profiad sydd wedi dod i ran pob un ohonom/i'n rhan ni i gyd; **t. is interest in the importance of a ...** – mae rhai'n/nifer/amryw'n ymddiddori ym mhwysigrwydd ..., mae tipyn o ddiddordeb/peth diddordeb ym mhwysigrwydd ... *neu* i nifer/amryw o bobl, mae'n bwysig rhannu'r weledigaeth/bod y weledigaeth yn cael ei rhannu (*welsh-termau-cymraeg, 21.10.05*); **the limit is t. to stop them speeding** – diben y terfyn (hwn(nw)) yw eu hatal rhag goryrru

thereby – gan, a thrwy/drwy wneud hynny; **or that hatred is likely to be stirred up t.** – neu fod gwneud hynny'n debyg(ol) o gyffroi atgasedd; **t. causing an accident** – gan achosi damwain

thereof: I note the contents t. (h.y. am lythyr) – nodaf ei gynnwys

thermoelectrics – thermodydaneg (*eb*)

thermofluid – thermohylif (*eg*)

these: t. being ... – sef ...

thick: through t. and thin – drwy'r chwith a'r chwerw (*Alan Llwyd, Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu, td 248*), drwy'r dyddiau da a'r dyddiau drwg

thin: through thick and t. – drwy'r chwith a'r chwerw (*Alan Llwyd, Gronwy Ddiafael, Gronwy Ddu, td 248*), drwy'r dyddiau da a'r dyddiau drwg; **time is a little t. on the ground** – (peth) braidd yn brin/(peth) prin yw amser sbâr

thing: the essential t. here is – yr hyn sy'n hanfodol yma yw; **t.-s have changed** – daeth tro ar fyd, mae'r byd/oes wedi newid; **this is how t.-s are** – dyna'r drefn; **not a t.** – dim byd (o gwbl); **if statistics are your t.** – os ydych chi'n dotio/dwl/ffoli am ystadegau, os ystadegau sy'n mynd â'ch bryd (chi), os yw ystadegau'n eich cyfareddu

think: have a little t. about it – meddylia/meddyliwch ychydig bach amdano, meddylia/meddyliwch amdano am ychydig bach/funud fach/bach, ystyriwch ef am ychydig bach

to think: to t. through – meddwl/ystyried yn ddwys/drwyadl am/ynghylch/ynghlân â/ag; **which of the following do you t. best describes you** – p'un/pa rai o'r canlynol, ddywedech chi, sy'n eich disgrifio orau/sydd, yn eich barn chi, yn eich disgrifio orau; **clearly thought out** – trylwyr, trwyadl; **to t. about** – ystyried; **this is best thought of as ...** –

y ffordd orau o synio am hyn yw meddwl amdano fel, y ffordd orau o feddwl am hyn yw synio amdano fel ...;
those who had thought to escape from poverty – y rhai a oedd wedi gobeithio dianc rhag tlodi
thinking – syniadaeth, ffordd o feddwl; **put your t. caps on for a great idea** – ewch ati i feddwl am syniad gwych;
wishful t. – breuddwyd gwrach wrth ei hewyllys, (gwag d)delfrydu; **t. time** – amser i feddwl
thinner: to become t. – teneuo
third: every t. year – bob tair blynedd; **this information will not be released to any t. party** – ni chaiff y wybodaeth hon ei/honno'i rhyddhau/datgelu/dadlennu i neb arall. ni rhyddheir/ddatgelir/ddadlennir y wybodaeth hon(no) i neb arall
thirst: a t. for knowledge – gwanc am wybodaeth
this: t. is to confirm that – nodyn i/dyma gadarnhau (bod/mai); **t. being a ...** – sef ...; **t. September, we will be going to ...** – ym mis Medi eleni, byddwn ni'n mynd i ...; **to help me in t.** – i'm helpu i wneud hynny; **colours are important and t. is why people ...** – gan fod lliwiau'n bwysig, mae/bydd pobl yn ...
thorough: to have a t. working knowledge of – bod yn hyddysg yn; **to give them a t. grounding in ...** – eu trwytho mewn/yn/ym/yng ...
thoroughbred: the Post Office and the Welsh Cob are two t.-s – dau geffyl blaen/o'r iawn ryw yw Swyddfa'r Post a'r Cob Cymreig
thoroughly: they t. enjoy an interview – maent wrth eu bodd mewn cyfweiliad, cânt flas arbennig ar gael eu cyf-weld; **I have enjoyed this t.** – yr wyf wedi mwynhau hwn/hon/hyn yn fawr iawn, yr wyf wedi cael blas arbennig/mawr iawn ar hwn/hon/hyn
those: all t. – pawb, pob un; **some of t. who** – rhai o'r bobl/pethau/...; **reflecting on one's own values and t. of others** – myfyrio ar eich gwerthoedd eich hun a'r rhai sydd gan (bobl) eraill/a gwerthoedd pobl eraill
though: good t. they are – erystal ydynt
thought – syniadaeth; **t.-s** – yr hyn sydd ar eu meddwl; **those in your t.-s** – y rhai sy'n annwyl i chi; **it's the t. that counts** – y consyrn/syniad sy'n cyfrif; **I hated the (very) t. of going there** – arswydwn rhag mynd yno; **with t.** – yn feddylgar; **final t.-s** (*fel pennawd*) i gloi
thought-provoking – yn procio'r meddwl, treiddgar, diddorol; **t. questions** – cwestiynau (digon) dyrys
thousand: not in a t. years – byth bythoedd
throat: they were at each other's t.-s – yr oeddent yn ffraeo/cwmpo ma's fel cath a chi
threefold: its role will be t. – bydd tair elfen/rhan i'w rôl
to thrive: these are t.-ing – mae'r rhain/maent yn dod yn eu blaen yn dda dros ben
throes: to be in the t. of – bod wrthi('n)
through – drwy gyfrwng/gael/gynnig/weithredu; **to think it t.** – meddwl yn ofalus, ystyried ... yn ofalus, **t. no fault of their own** – heb fod bai amynt/ar neb; **t. which to** – sy'n fodd i; **t. and t.** – o'i gorun i'w sawdl; **to see the process t.** – parhau â'r broses hyd y diwedd; **t. time** (= *through/down the ages*) – ar hyd yr oesoedd
throughout – o'r cychwyn (cyntaf), drwy'r cyfan, ar ei hyd, ar hyd a lled; **to appear t. a document** – britho dogfen; **to maintain interest t.** – cadw('r) diddordeb o'r dechrau i'r diwedd
to throw: his question threw me – fe daflodd ei gwestiwn fi oddi ar fy echel; **to t. one's weight behind ...** – cefnogi ...; **to t. up questions about ...** – codi cwestiynau am/ynghylch/ynglŷn â/ag; **to t. up problems** – codi problemau, esgor ar broblemau; **to t. up gaps** – amlygu bylchau
thrust – nod
thumb: t. tabs – bylchau bawd; **as a rule of t.** – fel rheol gyffredinol/canllaw cyffredinol
thumbnail: a t. sketch/description of ... – disgrifiad bras o ...
thus: t. taking – gan gymryd
thyroidology – thyroidoleg (*eb*) [Meddygaeth]
to tick: what makes them t.? – beth sy'n eu hysgogi/symbylu?
to tide: that was (just) a little to t. you over – tamaid i aros pryd oedd hwnna
tidy: desk t. – taclusyn desg
to tie: to t. in with – cyd-fynd â; **they spend too much of their time tied up in bureaucracy** – treulio ormod o'u hamser yn delio/ymgodymu â biwrocratiaeth/â'r fiwrocratiaeth/yn bodloni gofynion biwrocratiaeth
to tier – haenu
tiered – haenedig
tight: time is t. – mae('r) amser yn brin, dim ond hyn a hyn o amser sydd
to tighten: to t. one's belt – byw'n gynnil, byw'n fwy cynnil
tightly: this pattern is t. defined – mae patrwm pendant iawn i'r gwaith hwn, mae i'r gwaith hwn batrwm pendant iawn
tightrope: to walk a t. – troedio'r llwybr cul
time: in t. – ymhen tipyn, maes o law, yn y man; **at other t.-s** – dro arall; **several t.-s** – sawl tro; **for some t.** – dro'n ôl; **for all t.** – am byth; **all the t.** – ar hyd yr amser, yn gyson; **the t. when** – yr adeg, adeg y(r); **at a t. of/when** – (ar) adeg (pan) (welir); **at a t. of change in ...** – wrth i bethau newid (*Huw Roberts, welsh-termau-cymraeg, 21.04.06*), ar adeg pan fo (pethau'n)/welir newid; **in t.-s of change** – (*Huw Roberts, welsh-termau-cymraeg, 21.04.06*), at **the same t. as you ...** – wrth i chi ...; **the life and t.-s of ...** – hanes (oes) ...; **for the t. being** – (*cyfreithiol ?*) ar y pryd; **in next to no t./in a short t.** – cyn pen dim, yn fuan; **there's no t. like the present/no**

better t. than the present – mae hon gystal adeg/hwn gystal amser â dim/â'r un, cystal taro tra bo'r haearn yn boeth; **the t. has come for them to go** – mae'n bryd iddynt fynd; **moving in t. to the music** – symud i amseriad/guriad y gerddoriaeth; **how are you this long t.?** – sut ydych chi ers llawer dydd/talwm?; **within a short period of t.** – yn fuan; **once upon a t.** – un tro; **for a long t.** – am yn hir; **it is high t. that** – mae'n hen bryd i; **to last a long t.** – para'n hir; **some t. back/ago** – dro'n ôl; **to tell them t. and (t.) again** – dweud a dweud wrthynt; **in the shortest possible t.** – cyn gynted â phosibl; **to stand the test of t.** – dal eu tir; **at the proper t.** – yn ei bryd; **at the best of t.-s** – ar y gorau; **by which t.** – (ac) erbyn hynny; **to have a really good t.** – cael hwyl fawr; **at the t. of writing** – adeg ysgrifennu'r geiriau hyn/y daflen hon/y llyfr(yn) hwn, adeg ysgrifennu/llunio hyn o lith; **the greatest of all t.** – y gorau erioed/yr orau erioed, yr un (g)orau erioed, y rhai gorau erioed; **they take their t.** – maen nhw fel heddiw a(c y)fory; **t. will tell** – cawn (ni) weld, cewch (chi) weld; **to lose no t. in ...** – mynd ati'n syth i ...; **at all t.-s of the year** – ar hyd y flwyddyn; **at any t. of the year** – ar hyd y flwyddyn; **on t. and within budget** – yn unol â'r amserlen a'r gyllideb; **to take t. out to ...** – treulio tipyn o amser/peth amser i/yn ...; **it will be Wednesday by the t. he has an opportunity to ...** – bydd yn ddydd Mercher arno'n cael cyfle i ...

time-consuming – hir, cymryd/treulio cryn amser, (sy'n) llyncu llawer o amser; **too t.** – (sy'n) cymryd gormod o amser; **a t. process** – proses (hir)faith; **this is enormously t.** – mae hwn/hyn yn cymryd llawer iawn iawn o amser; **this is so t.** – mae hwn/hyn yn/hwnnw'n/hynny'n cymryd cymaint o amser

time-critical – lle mae amser yn hollbwysig/o'r pwys pennaf

timeframe – amserlen

timeless – oesol

time-line – llinell amser

timely: a t. word – gair i gall

timescale – amserlen, cyfnod

timeshare – cyfran-rannu

timid: t. projects – prosiectau dof

tinge – tinc

to tinge: to be t.-d with – bod â thinc o (ynddynt)

tip: a handy t. – gair i gall; **the south-west(ern) t. of Wales** – pen de-orllewinol eithaf Cymru, pen eithaf de-orllewin Cymru; **this figure is just the t. of the iceberg** – dydy'r ffigur hwn(nw) ddim yn rhoi'r darlun i gyd o bell ffordd

tip(-)top: in t. condition – mewn cyflwr rhagorol/ardderchog

tizzy: to get into a t. about – mynd i stêm/cynhyrfu'n lân ynghylch/ynghlân â/ag

to: this is to – diben hyn yw; **this is to s. that ...** – gair i ddweud bod/mai/y(r)...; **training to industry requirements** – hyfforddiant sy'n bodloni gofynion (y) diwydiant; **to name but a few** – ac enwi dim ond ychydig/dyrnaid (ohonynt)

today: in the world of t./in t.'s world – yn y byd sydd ohoni; **t.(,) archaeologists realise that the present-day landscape needs to be recorded** – erbyn hyn, mae archaeolegwyr yn sylweddoli bod angen cofnodi tirwedd heddiw/y dirwedd sydd ohoni; **here t. and g. tomorrow** – tân siafins, dro dro, am gyfnod byr *neu* pwysig/enwog heddiw, di-nod/di-sôn amdanynt yfory; **not a here today gone tomorrow company** – ac nid cwmni byrhoedlog” (*Garmon Davies ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), cwmni sydd yma i aros (*John Puw ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), seren wib o gwmni (*Ann Corkett ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), cwmni dros nos (*Dr Bruce Griffiths ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), nid cwmni undydd unnos (*Rhisiart Hincks ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*)

together: to put things t. – rhoi pethau wrth ei gilydd; **they're not very t. / they haven't really got things t.** – does dim llawer o siâp arnyn nhw; **a more 't.' team** – tîm mwy unedig/unol, tîm sy'n cydchwarae'n well/fwy celfydd/fwy unol; **t., we're stronger** – mewn undeb mae nerth; **t. we can make it happen** – ar y cyd gallwn newid y byd (*Helen Smith ar welsh-termau-cymraeg, 11.03.05*), ar y cyd gallwn lwyddo o hyd, drwy gydymdrechu mae cyflawni, gyda'n gilydd gallwn gael y maen i'r wal; **to eat t.** – cydfwyta

token: t. advice – gair o gyngor; **t. reference** – cyfeirio at ... yn fras, brasgyfeirio at

tolerable: more t. – llai annioddefol

toll: taking their toll – yn gadael eu hôl; **a disease which takes a heavy t. in terms of suffering** – clefyd sy'n achosi/peri llawer iawn o ddioddefaint

tomorrow: here today and gone t. – tân siafins, dro dro, am gyfnod byr *neu* pwysig/enwog heddiw, di-nod/di-sôn amdanynt yfory; **not a here today gone tomorrow company** – nid cwmni byrhoedlog” (*Garmon Davies ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), cwmni sydd yma i aros (*John Puw ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), seren wib o gwmni (*Ann Corkett ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), cwmni dros nos (*Dr Bruce Griffiths ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*), nid cwmni undydd unnos (*Rhisiart Hincks ar welsh-termau-cymraeg, 30.06.04*)

ton: there are t.-s of them – mae llond gwlad ohonynt

tongue-twister – pos clymu tafod

tongue-lashing: to give them a t. – dweud y drefn (yn hallt) wrthynt, rhoi pryd (llym) o dafod iddynt

tonight: t. the night! – heno fydd y noson fawr!

tonne: there's a **t. of help** available – mae llong gwlad o gymorth/help ar gael

too: **t. many** – gormod, ar y mwyaf o; **it is not t. much to say that ...** – nid gormodiaith yw dweud bod/mai/y(r) ...; **to be only t. pleased to help** – bod yn falch iawn o (allu) helpu; **they will know only t. well** – fe wyddant hwy cystal â neb/yn well na neb; **this is not t. far removed from ...** – nid yw hyn mor wahanol â hynny i/yn rhyw wahanol iawn i ...

tool: **t.-s** – offer llaw; **to use ... as a revision t.** – defnyddio ... er mwyn adolygu/yn gyfrwng i adolygu/yn fodd i adolygu; **useful t.-s for ...** – caffaeliad/cymorth (mawr) wrth ...; **this will be a useful t. for ...** – bydd hwn yn ddefnyddiol ar gyfer/wrth

toolbox – (*Cmptr*) cronfa o feddalwedd

toolkit – pecyn; (*Cmptr*) cronfa o feddalwedd

toothpick – pric dannedd (?)

top: **the winter is on t. of** – mae'r gaeaf ar ein gwarthaf; **on t. of ...** – yn ychwanegol at ...; **(the) t. table** – y prif fwrdd

to top – mynd/cyrraedd dros ..., codi i fwy na ...; **to t. up their knowledge** – ychwanegu at eu gwybodaeth, cynyddu/diweddaru eu gwybodaeth

top(-)class – o'r radd flaenaf

top(-)line: **a t. priority** – blaenoriaeth fawr, un o'r prif flaenoriaethau

Topsy: **like T., it just grewed** – tyfodd/chwyddodd yn afreolus/aflywodraethus/ddireol, chwyddodd yn wyllt, tyfodd heb i neb sylwi (arno('n tyfu)) [*gweler y drafodaeth ar welsh-termau-cymraeg, Medi 2003*]

torch: **to take forward the t. of social justice** – bod yn llawn sêl dros gyfiawnder cymdeithasol

torment: – (even thinking about) **going there was a t.** – arswydwn rhag mynd yno

tortuous: **t. terrain** – tir anodd/bryniog/ponciog/twmpathog/anwastad iawn/hynod anwastad

total: **the concentration is t.** – mae'r canolbwyntio'n ddwys; **grand t.** – prif gyfanswm

totally: **to agree t.** – cytuno i'r carn, cytuno o lwyfrfyd calon; **to wear t. away** – treulio'n ddim; **to fail t. to** – methu'n lân/deg â; **to become t. confused** – drysu'n lân; **t. blind** – yn ddall bost; **t. lifeless** – yn farw gorn; **to lack ... t./to be t. lacking in ...** – bod heb ronyn/fymryn/owns o ...; **we reject t. their belief that ...** – yr ydym yn gwrthod ar ei phen eu cred bod/mai/y(r) ...; **100 in t.** – 100 i gyd

touch: **their personal t.** – eu helfen bersonol; **a friendly t.** – cysylltiad cyfeillgar, agwedd gyfeillgar; **to put the final t.-es to ...** – rhoi'r wedd derfynol ar ...

to touch: **league: there is no-one to t. him** – nid oes neb yn yr un cae ag ef; **to t. base** – cadw mewn cysylltiad

touch-talker – offeryn cyffwrdd-siarad

tough – grymus; **a t. act to follow** – (*w-t-c, 29.10.02*) camp fydd cael neb (hanner) cystal, go brin y cawn ni rywun/neb hanner cystal (ag ef/â hi), bydd hi'n anodd llenwi sgidiau hwn/hon, ddaw neb i lenwi'i (h)esgidiau (am dipyn/am sbel go lew), rwy'n cydymdeimlo â'i (h)olynydd, druan â'i (h)olynydd, druan â'r sawl ddaw ar ei (h)ôl, bydd talcen caled o flaen/yn wynebu ei (h)olynydd, bydd hi'n anodd i neb arall gyflawni campau hwn/hon, bydd hi'n anodd i unrhyw un gyflawni'r fath gamp, os gwnaiff ei (h)olynydd hanner cystal ag ef/â hi bydd wedi cyflawni camp/cryn gamp/orchest; **t. love** – cariad cadarn (*Dr Sylvia Prys Jones, welsh-termau-cymraeg, 28.03.09*)

to tour: **the Minister t.-ed the office** – aeth y Gweinidog o amgylch/gwmpas y swyddfa

tour-de-force – campwaith

towards: **the grant can go a long way t. paying the costs of the course** – gall y grant dalu llawer iawn o gostau'r cwrs

toxicovigilance – gwenwyn-wyliadwriaeth (*eb*) [*Meddygaeth*]

trace: **t.-s of buildings** – mân olion adeiladau

track: **to stay on t. with your research schedule** – cadw at/glynu wrth amserlen eich ymchwil, dal gafael/cadw rheolaeth ar amserlen eich ymchwil, peidio â cholli gafael/golwg ar amserlen eich ymchwil, peidio â gadael i amserlen eich ymchwil lithro; **to keep Wales on t.** – cadw Cymru ar y trywydd iawn/cywir

to track – cadw llygad ar, dilyn (hynt (a helynt))

track-record – record ((arbennig o) dda/wael); **their present t.** – eu gwaith hyd yn hyn, yr hyn y maent wedi ei wneud/gyflawni hyd yn hyn; **a t. of planning** – record o gynllunio'n llwyddiannus; **a proven t.** – hanes/record o lwyddo/gyflawni (campau (mawr/cyson/trawiadol)), wedi llwyddo'n aml/fynych/gyson, wedi llwyddo droeon, wedi llwyddo drwodd a thro; **they have a proven t. of ...** maent wedi dangos/profi (droeon) y gallant ...

tractable: **more t. ideas** – syniadau (sy'n) haws eu trafod

trade: **there are plenty of opportunities for then to 'learn the t.'** – mae digon/cânt ddigon o gyfle(oedd) i gael eu rhoi 'ar ben y ffordd'

trademark – nodwedd amgen(?)/amlycaf, prif nodwedd, bod yn enwog am; **their t. calligraphy** – eu caligraffi unigryw, eu math unigryw o galigraffi, y caligraffi sydd mor nodweddiadol ohonynt

trade-off – yn gwneud iawn am

traditionalist – un sy'n glynu wrth draddodiad

traditionally: **work t. done by ...** – gwaith sy'n arfer cael/a arferai gael ei wneud gan ...; **t., this was seen as a ...** – y darlun traddodiadol ohono/ohoni oedd ei fod/ei bod yn ..., y traddodiad oedd ei fod/ei bod yn ...

tragedy: **it is nothing short of a t. that** – mwy trist na thristwch yw bod/mai

tragic: **it is t. that** – mwy trist na thristwch yw bod, mae'n fwy trist na thristwch bod

to trail: Sweden **t.-s** Denmark **in having ...** – daw Sweden yn ail i Ddenmarc o ran bod â/ag ..., mae Denmark ar y blaen i Sweden o ran bod â/ag ...

trailing: **t. wires** – gwifrau ar lawr dan draed/dan draed ar lawr

train: **to set in t.** – rhoi ar waith, arwain at; **they brought ... in their t.** – daethant â ... yn eu sgil/gyda hwy /i'w canlyn

tramline: **t.-s** (*yn ffigurol*) – rhigolau

tranquil: **more t.** – llai cythryblus

tranquillity: **Sea of T.** – Môr Llonyddwch (ar td. 309 o Wyddoniadur Mawr y Plant, Gwasg Prifysgol Cymru, 1991)

to transact – cyflawni, gweithredu

transactional: **t. writing** – ysgrifennu cofnodol

to transcend: **to t. national boundaries** – heb fod yn parchu ffiniau cenedlaethol/gwledydd

transdermal – trawsgroenol (*ans*) [Fferylliaeth] (*i'w weld ar wefan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol*)

transfection – trawsheintio (*be*) [Meddygaeth]

transferable – y gellir eu trosglwyddo

transgenic knockout – llorio'n drawsennynol (*be*) [Y Biowyddorau]

transgenics – trawsgeneg (*eb*) [Meddygaeth a Fferylliaeth]

transit: **in t.** – yn ystod y daith/eu taith, wrth (iddynt) deithio, yn teithio

transition – symud; **this allows (for) an easy t. to ...** – mae hwn/hyn yn hwyluso llawer ar y newid i ...

transitional: **a t. year** – blwyddyn o newid(iadau), blwyddyn a welodd newidiadau mawr/helaeth; **a t. period** – cyfnod pontio

to translate: **to t. objectives** – diriaethu amcanion; **to t. ideas (into action)** – gweithredu syniadau; **to t. understanding (into action)** – rhoi dealltwriaeth ar waith; **these usually t. as ...** – ystyr hyn(ny)(,) fel rheol/arfer(,) yw ... *neu sef*, fel rheol/arfer, ...; **their plans t. into massive increases in ...** – mae eu cynlluniau'n golygu y bydd cynnydd/codiadau enfawr mewn/yn/ym/yng ...; **this is likely to t. into ...** – effaith/canlyniad hynny, mae'n debyg, yw/fydd ...; ; **the following descriptions will t. into these marks** – bydd y disgrifiadau isod yn rhoi'r marciau hyn (i chi)

translatable: **their effect is not easily t. into words** – nid yw'n hawdd cyfleu eu heffaith mewn geiriau

translational – trawsgymhwysol (*Eluned Mai, welsh-termau-cymraeg, 10.07.08*)

to transmit – cyflwyno

to transpire: **it t.-ed that they knew** – daeth hi'n amlwg eu bod yn gwybod

to transport – mynd â

transprofessional – trawsbroffesiynol (*ans*) [Meddygaeth]

transvaginal – trawsweiniol (*ans*) [Meddygaeth]

trap: **to avoid the t. of** – osgoi'r perygl o

to trawl: **to t. through** – chwilio drwy, chwilota mewn

treat: **to look a t.** – edrych yn bictiwr

tree: **t.-lined avenues** – rhodfeydd coediog

tremendous: **t. opposition** – gwrthwynebiad ffyrnig; **to pay a t. amount for ...** – talu crocbris am ...; **a t. amount of ...** – llawer iawn iawn o ...

trepidation: **with t.** – yn betrus/ofnus

to trespass: **to t. on the responsibilities of ...** – ymyrryd â chyfrifoldebau ...

trial: **t. and error** – cynnig a chynnig; **to learn by t. and error** – dysgu o'u pen a'u pastwn eu hunain

tribute: **in t. to** – er cof am; **it is a t. to ... that** – mae'n glod i ... fod/mai

trick: **the t. is to ...** – y gamp yw ...; **there are no t. questions** – nid bwriad unrhyw gwestiwn yw eich baglu [*John Puw, welsh-termau-cymraeg, 30.09.03*], nid bwriad unrhyw gwestiwn yw'ch twyllo/yw'ch dal chi

tricky: **to be t./a t. task** – bod yn dipyn o waith/dasg

tried: **t. and tested methods** – dulliau cadarn/cwbl gadarn, dulliau sydd/a oedd wedi hen ennill eu plwyf/brofi eu gwerth

trigger – sbardun, symbyliad, ysgogiad

to trigger: **to t. a reaction** – ysgogi ymateb; **actions that could t. (a) conflict** – gweithredoedd/camau/gwneud rhywbeth a allai arwain at wrthdaro; **to t. lights** – cynnau goleuadau

trippage: **bottle 't.' problem** – problem 'colli' poteli

to triumph – ennill, rhagori

trot: **on the t.** – y naill ar ôl y llall

trouble-making – corddi('r dyfroedd)

troubleshooting – datrys problemau; **a 't.' approach** – ymagwedd ymarferol a blaengar

troubling: **t. behaviour** – ymddygiad trafferthus

trough: **peaks and t.-s** – uchafbwyntiau ac isafbwyntiau, llanw a thrai

true: **the opposite is t. in winter** – fel arall y mae hi yn (ystod) y gaeaf; **to ring t.** – taro deuddeg (?); **the t. children of the soil** – hen yd y wlad; **t. to form** – yn ôl y disgwyl, peth/ymddygiad sy'n nodweddiadol (ohonynt), yn unol â'u harfer; **out of t.** – heb fod yn hollol union; **no t.-er word was ever said/spoken** – dyna ddweud calon y gwir, gwir pob gair; **to stay t. to their mission** – glynu('n dynn/ffyddlon) wrth eu cenhadaeth

truly: to be well and t. a thing of the past – (bod yn) perthyn yn gyfan gwbl i'r gorffennol, (bod yn) hen hen hanes; **my surfing days are well and t. over** – mae fy nyddiau syrffio wedi hen ddod i ben; **this programme is w. and truly established** – mae'r rhaglen (hon) wedi gwreiddio/ymsefydlu'n gadarn/wedi ennill ei phlwyf (yn bendant); **Britain is t. a land of immigrants** – yn bendant/sicr (ddigon/iawn)/yn bendifaddau, gwlad o fewnfudwyr yw Prydain *neu* gwlad o fewnfudwyr yw Prydain, yn bendant/sicr (ddigon/iawn)/yn bendifaddau

to trump: this consideration will t. all others – bydd yr ystyriaeth hon yn/honno'n drech na'r lleill i gyd/na'r un o'r lleill

to truncate – hepgor y gweddill, torri ar

trundle: t. wheel – olwyn fesur

to trust – rhoi eich ffydd yn/mewn

trusted: the most t. – yr un y mae pobl yn ymddiried fwyaf ynddo/ynddi, yr un y mae gan bobl fwyaf o ffydd/ymddiriedaeth ynddo/ynddi, yr un y mae gan bobl y ffydd fwyaf ynddo/ynddi, yr un sy'n ennyn fwyaf o ffydd/ymddiriedaeth ynddo/ynddi; **the most t. adviser/advisor-** yr ymgynghorydd cadarnaf (*gw. welsh-termau-cymraeg, 05.10.07*)

trusting: a t. person – un/rhywun/unigolyn/person sy'n barod (iawn) i ymddiried

truth: far from being the t. – ymhell o fod yn wir

truthfully: I can't t. say – ni allaf ddweud yn onest/â'm llaw ar fy nghalon

trusting: a t. professional community – cymuned broffesiynol sy'n ymddiried yn ei gilydd

to try: to t. out – arbrofi gyda; **keep t.-ing!** – dyfal donc!, daliwch ati!; **to t. it on with her** – trio'i lwc gyda hi

trying: (s)he can be very t. – mae angen amynedd Job gydag ef/gyda hi

tubular: t. packages – pecynnau ar ffurf tiwb

tumble-printing – argraffu gefn(-)wrth(-)gefn/gefngefn (*os yw'r Gymraeg ar un ddalen a'r Saesneg ar y cefn*), argraffu deuben (*os yw'r Gymraeg y naill ben i'r ddogfen a'r Saesneg yn y pen arall*)

to tune: each degree programme is finely t.-ed to meet the needs of students – mae rhaglen pob gradd/pob rhaglen gradd wedi'i chynllunio'n/threfnu'n ofalus i ateb/ddiwallu/fodloni anghenion (y) myfyrwyr

turbulence: (= turbulent events) – (holl) helyntion

turbulent: t. changes – newidiadau carlamus

turmoil: the town was in t. – yr oedd y dref yn ferw gwyllt/mewn anrhefn llwyr

turn: they take t.-s to prepare – yn eu tro, paratoant/lluniant; **U.-t.** – newid meddwl (yn) llwyr; **at every t.** – bob cyfle posibl, bob gafael, bob cam o'r ffordd, bob cyfle a gânt/gaent, drwodd a thro, dro ar ôl tro; **to take a t. for the better** – dechrau gwella

to turn: to t. out in force – dod yn llu;; **students have been 't.-ed around' by this scheme** – mae'r cynllun hwn(nw) wedi gweddnewid/trawsnewid agweddau(r) myfyrwyr; **we have begun to t. this (a)round** – yr ydym wedi dechrau newid hyn (i gyd), yr ydym wedi dechrau cael/rhoi gwell siâp ar bethau, mae gwell siâp ar bethau (yma) erbyn hyn; **to t. a company (a)round** – gweddnewid/trawsnewid (hynt/hanes) cwmni, adfer cwmni, achub cwmni rhag mynd i'r wal/i ddifancoll, sicrhau bod llawer gwell siâp ar y cwmni, gwella llawer iawn ar y ffordd (y) mae'r cwmni'n mynd; **to t. around an area/to t. an area around** – sicrhau tro ar fyd i ardal; **to t. in a profit** – gwneud elw; **this t.-s on whether ...** – mae hyn yn/hynny'n dibynnu ar ..., yr ystyriaeth bwysicaf/hollbwysig yw ..., y ffactor pwysicaf/hollbwysig yw ...

turnaround: 't.' companies – cwmnïau sydd wedi codi yn eu holau, cwmnïau sydd wedi gweld tro ar fyd – er gwell, cwmnïau sydd wedi troi at wella, cwmnïau sydd wedi troi'r gornel, cwmnïau sydd wedi'u hadfer

turnout: (i'w ychwanegu at y cyfieithiad sydd yng Ngeiriadur Treftadaeth y Cynulliad) canran y rhai a bleidleisiodd/a wnaeth bleidleisio/a wnaeth fwrw eu pleidlais, y ganran o'r rhai a bleidleisiodd/a wnaeth bleidleisio/a wnaeth fwrw eu pleidlais

turnover: a t. of ideas – ton ar ôl ton o syniadau; **staff t.** – newid yn/ymhlith/ymysg y staff

to turtle: pre-t.-ing activities – gweithgareddau cyn-grwbau

tutee: their t.-s – y rhai/myfyrwyr y maent yn diwtoriaid iddynt

to tutor – tiwtora

to tweak – tincran â/ag ..., ffidlan â/ag ...

twin: these t. developments – y ddau ddatblygiad (cysylltiedig) hyn(ny)

two: the T. Ticks – y Tic Dwbl

two-centred: a t. door – drws pigfain

two-edged: email communication is something of a t. sword – mae i gyfathrebu drwy e-bost ei anfanteision yn ogystal â'i fanteision

twofold: their role will be t. – bydd dwy elfen/ran i'w rôl; **the intention here is t.** – mae dau ddiben i hyn

two-thirds – dau o bob tri, dwy (ran) o bob tair, dwy ran o dair

two-timing – chwarae'r ffon ddwybig

type: partnership (-) t. approaches – ymagweddau partneriaethol

typical: t. features – nodweddion arferol

typically – er enghraifft, hynny yw, sef (tua) ... fel arfer/rheol; **t. ...** – fel rheol, ... *neu* y drefn arferol yw ... *neu* gan mwyaf, y drefn yw ...

to typify – bod yn nodweddiadol o

ubiquitous – bondigrybwyll, cyffredin iawn (iawn), (i’w gael/chael/i’w cael) yn gyffredin/ym mhobman; **it is not necessarily an u. phenomenon** – nid yw’n ffenomen sy’n/a fydd, o raid/ anghenraid, yn digwydd bob tro, nid yw’n ffenomen sy’n/a fydd, o raid/anghenraid, sydd i’w gweld bob tro

ugly: to make u. – hagru

umbrella: an u. organisation – corff cynhwysfawr (?); **under the u. of** – o dan fantell

unable: to be u. to – heb lwyddo i

unacknowledged – heb gydnabod y/ei/eu ffynhonnell

unadulterated: make sure that this message is/gets passed on u. – gwnewch yn siŵr y caiff y neges hon ei hanfon ymlaen heb i neb ei newid/heb iddi gael ei newid/heb i neb newid dim arni

unaltered: this remains u. – nid oes/ni fu unrhyw newid yn hwn/ynddo; **this is broadly/largely u.** – nid oes fawr o newid wedi bod yn hwn/hyn

unappealing – diflas

unattended – heb neb ar eu cyfyl, heb neb yn eu/i’w gwarchod, heb neb i gadw llygad arnynt

unattractive – heb fod yn apelio at

unavoidable – na ellir/na ellid ei/eu (h)osgoi, na ellir/na ellid mo’i/mo’u (h)osgoi, nad oes/oedd modd ei/eu (h)osgoi

unavoidably: he was u. away on business – yr oedd (ef) i ffwrdd ar fusnes ac nid oedd modd newid ei drefniadau

unbreachable – anorthrech, di-ildio

unbreakable: the u. rule is ... – y rheol (gwbl) gaeth yw ..., y rheol (gaeth) bob amser/bob tro yw ...

unchanged: this is broadly/largely u. – nid oes fawr o newid wedi bod yn/ar hwn/hyn; **this remains u.** – nid oes/ni fu unrhyw newid yn hwn/ynddo o gwbl, nid yw hwn/hyn wedi newid dim/o gwbl, does dim newid (o gwbl) wedi bod ar hyn

unchecked: these tendencies, (if) left u., will ... – bydd y tueddiadau hyn(ny), o beidio â’u cywiro/o’u gadael fel y maent/o’u gadael heb eu cywiro/o’u gadael heb eu gwrthweithio/o roi rhwydd hynt iddynt/os na chywirir mohonynt/os na chânt eu cywiro os na wneir rhywbeth yn eu cylch, yn ...

unclear – annelwig; **the meaning is u.** – mae’r ystyr yn dywyll; **if they were u. about how to respond** – os nad oeddent yn siŵr/os na wyddent sut oedd ymateb; **to be u. about** – bod yn ansicr ynghylch

uncluttered: u. statements – datganiadau diamwys

uncommon: it is not u. (for) ... – peth gweddol gyffredin yw (i) ..., peth eithaf/digon cyffredin yw (i) ...

uncomplaining – dirwgnach

uncompromising – cignoeth

uncongenial: he found the work u. – nid oedd y gwaith wrth ei fodd/wrth fodd ei galon

unco-ordinated – digyswllt

uncritically – (llyncu) yn ddi-halen

undecided – cloffi rhwng dau feddwl

undemanding – arwynebol; **an u. presence** – presenoldeb digynnwrf

undeniably: this is u. correct – mae hyn(ny), rhaid cyfaddef, yn gywir *neu* rhaid cyfaddef bod hyn yn/hynny’n gywir *neu* ni ellir gwadu nad yw hyn yn/hynny’n gywir

undercurrent: an u. of feeling – teimlad o dan yr wyneb

to underestimate – methu â llawn sylweddoli (pa mor anodd yw ...), ni lawn sylweddolir, peidio/methu â/ddim yn rhoi’r pwys priodol/dyladwy ar, peidio/methu â rhoi digon o sylw i/rhoi’r sylw priodol i, diystyru (gwerth); **this difficulty has been severely u.-ed** – o’r braid y sylweddolwyd cymaint oedd yr anhawster hwnnw/maint yr anhawster hwn(nw)/hyd a lled yr anhawster hwnnw/pa mor anodd (yd)yw/(yd)oedd; **employers are urged not to u. the contribution they can make** – anogir cyflogwyr i sylweddoli cymaint o gyfraniad y gallant ei wneud; **we should not u. the scale of this challenge** – dylem (fynd ati i) amgyffred hyd a lled y sialens hon, dylem (geisio) amgyffred hyd a lled y sialens (hon) (o ddifrif); **the importance of this should not be u.-ed because/since/as** – mae hwn/hyn yn/hynny’n bwysig am/gan fod ...

to undergo: they underwent a total transformation – bu newid llwyr ynddynt, fe’u newidiwyd yn llwyr; **they underwent cellular confinement** – cawsant eu cyfyngu i gell; **to u. a process** – bod yn destun proses; **they underwent a test for ...** – cawsant brawf am ...

under-informed: they are (somewhat) u. about ... – nid ydynt wedi cael gwybod yn llawn am ..., nid ydynt wedi cael y wybodaeth lawn/yr holl wybodaeth am ...

underlying – (*ei hepgor*), sydd wrth wraidd, sy’n sail/sylfaen i, sy’n seiliedig ar

to underplay: to u. the importance of – peidio/methu â/ddim yn rhoi’r pwys priodol/dyladwy ar, peidio/methu â rhoi digon o sylw i/rhoi’r sylw priodol i

to underpin – bod yn sylfaen i; **in order to u. the strategy** – er mwyn gosod/i osod sylfaen gadarn i’r strategaeth; **the scientific foundations u.-ing practice** – sylfeini gwyddonol ymarfer

to underplay: to u. their involvement in ... – osgoi sôn yn llawn am eu hymglymiad/hymwneud â/ag ..., osgoi cyfaddef yn llawn/datgelu’n/dadlennu’n llawn eu rhan mewn/yn ...

to under-represent: this number may vastly u. the true number of people who are ... – gall y rhif hwn(nw) fod ymhell islaw'r nifer go-iawn o bobl sy'n .../fod ymhell islaw'r nifer o bobl sydd mewn gwirionedd yn ...; **they are very seriously u.-ed in** – ni chynrychiolir hanner digon arnynt yn/mewn/ar

undersigned: by me, the u. – gennyf fi, sydd â'm llofnod isod

understatement: to say that it was annoying is an u. – dyw/dydy dweud ei fod/ei bod yn boen ddim yn cyfleu ei hanner hi/hanner y peth/hanner y rhwystredigaeth/ddim yn hanner digon cryf/ddim yn dod yn agos ati (o bell ffordd)

to understand: please u. that it's possible that there may not be anyone there – cofiwch: fe all na fydd neb yno; **what do you u. by ...?** – beth, i chi, yw ystyr ...? *neu* beth yw ystyr ... i chi? *neu* beth y mae ... yn ei olygu i chi?

understandable: this is easily u. – mae'n hawdd deall hyn(ny), mae hyn yn/hynny'n (ddigon) hawdd ei ddeall

to understate: to u. the importance of – peidio/methu â/ddim yn rhoi'r pwys priodol/dyladwy ar

under-structured – heb fod yn ddigon strwythuredig

to undersubscribe: this course is u.-ed – nid oes digon (o fyfyrwyr/bobl) wedi dewis dod ar/dilyn/cymryd y cwrs hwn, nid yw'r cwrs hwn wedi (llwyddo i d)denu digon (o fyfyrwyr/bobl), nid oes digon (o fyfyrwyr/bobl) wedi'u denu i ddod ar/dilyn/cymryd y cwrs hwn

to undertake – cyflawni; **to u. work** – gwneud gwaith; **to u. a project** – cynnal/gwneud prosiect; **to u. further consultation** – ymgynghori ymhellach

undertaking: this mammoth u. – y gwaith/cwmni aruthrol hwn; **it is no small u. to ...** – nid ar chwarae bach y mae ...

to under-use: to be greatly u.-ed – ni ddefnyddir hanner digon ar

to undervalue: to be u.-ed – ni roir digon o barch i, ni roir y parch priodol i, ni pherchir digon ar

underway – yn mynd yn eu blaen/rhagddynt, ar waith, ar y gweill; **to be well and truly u.** – wedi cael eu traed danynt

underweight: they are u. – maent yn pwyso llai nag y dylent, nid ydynt yn pwyso cymaint ag y dylent

to underwrite: to u. the costs of ... – gwarantu talu costau ...

undeservedly: the u. lucky – y rhai sy'n digwydd bod yn ffodus

undiminished: the candle burned u. for nine years – llosgodd y gannwyll yn ddi-baid/heb bylu (na threulio) dim/heb ddiffodd (unwaith) (na threulio dim) am naw mlynedd

undisciplined – ar draws ac ar hyd

undisturbed – diymyrraeth, heb ymyrraeth, mewn heddwch

undivided: u. attention – sylw llawn/llwyr; **to get/secure their u. attention** – hoelio'u sylw

undoubted: the u. fact – y ffaith ddiymwad (amdani)

undoubtedly – yn ddiddadl, nid oes dwywaith nad

undreamed: on a scale u. of – ar raddfa na fyddai neb wedi breuddwydio amdani

undue: they did not cause u. concern – nid oeddent yn achosi/peri rhyw lawer/fawr o bryder

undulating – yn codi a(c yn) disgyn

unduly: u. weighted with responsibilities – (bod) ag ar y mwyaf o gyfrifoldebau; **any effort to influence ... u.** – unrhyw ymdrech i ddylanwadu'n amhriodol ar; **to restrict u.** – cyfyngu mwy nag sydd raid ar

unencumbered: u. by their past – heb eu llyffetheirio gan eu gorffennol, heb fod eu gorffennol yn eu llyffetheirio, heb fod eu gorffennol yn llyffethair (o gwbl/o fath yn y byd) arnynt

unequivocally: we u. reject their belief that ... – yr ydym yn gwrthod ar ei phen eu cred bod/mai/y(r) ..., yr ydym yn gwrthod yn lân eu cred bod/mai/y(r) ...

unexpected: in case of the u. – rhag ofn i rywbeth annisgwyl ddigwydd, os digwydd rhywbeth annisgwyl

unfading: in u. memory of – er cof bythol am

unfairly: to be dealt with u. – cael cam

unfettered: u. criticism – beirniadaeth ddiflewyn ar dafod

unfocused – di-ganolbwynt, heb ganolbwynt

to unfold: as the story u.-s – wrth i'r stori gael ei hadrodd/datgelu

unforced – di-straen

unforeseen: in an age of u. opportunities – mewn oes o gyfleoedd cwbl newydd

unfortunate: the u. lack of collaboration impedes... – yn anffodus, mae'r diffyg cydweithio yn rhwystro

unhelpful – heb fod o les/yn llesol, nad yw/oedd/na fydd o les/yn llesol

unhelpfully: u. vague – yn rhy niwlog

unhypothesized – heb ei/eu neilltuo

unidentifiable: u. answers will be marked as incorrect – os nad oes/na fydd modd deall atebion, cânt eu amrcio'n atebion anghywir

uniformly: teachers may not be u. accurate in – nid yw('r) athrawon yr un mor gywir â'i gilydd wrth

uninhibited – dilyffethair

uninspiring – di-fflach

uninterrupted – heb (unrhyw) doriad (ynddynt), heb yr un toriad (ynddynt)

uninviting – digroeso, llwm

uniquely: to be u. concerned with – bod yn ymwneud yn unig â/ag

unison: in u. – gyda'i gilydd

unit: in single u.-s – fesul un, un ar y tro

unitisation – unedeiddio

universal: a u. truth – gwirionedd oesol; **the pattern is not u.** – nid yr un yw'r patrwm ymhobman/ym mhobman/ym mhob man, nid yw'r patrwm yr un (fath) ymhobman/ym mhobman/ym mhob man

universally: to be u. valid – bod yn ddilys ym mhob cyfnod a sefyllfa

unjustifiable – di-sail

unjustifiably: if they fail u. to ... – os ydynt, heb gyfiawnhad, yn methu (â/ag) ...

unjustified – di-sail

unknowingly – heb sylweddoli hynny

unknown – di-sôn-amdanynt; **fear of the u.** – ofni'r anghyfarwydd; **it is not u. for ...** – ceir ambell enghraifft o ..., fe ddigwyd ambell waith fod/mai ...; **to venture into the u.** – mentro i'r dwfn

unlikely: it seems u. that – go brin y; **it is not u.** – mae'n bur bosibl/debyg, mae'n ddigon posibl/tebyg

unlimited: an u. fine – dirwy o unrhyw faint

unloved: they are u. and unwanted – nid oes ar neb eu hangen na'u heisiau

unmanageable: before your finances become u. – cyn i bethau/i'ch sefyllfa ariannol fynd dros ben llestri, cyn i chi golli rheolaeth/eich gafael ar eich sefyllfa ariannol, cyn i'ch sefyllfa ariannol fynd yn drech na chi

unmatched: these facilities are u. by any other department – nid oes gan unrhyw adran/yr un adran gystal cyfleusterau/gyfleusterau cystal â (rhai'r adran) hon

unmitigated: an u. good thing – peth cwbl dda

unnecessarily: to worry u. – mynd o flaen gofid

unobtrusively: he/she leaves u. – mae'n gadael yn ddistaw bach/heb i neb sylwi (arno/arni('n mynd)), mae'n gadael heb dynnu sylw (ato'i hun/ati ei hun)

unparalleled – dihafal, digymar; **they are u. elsewhere** – nid oes eu tebyg/cystal/rhagorach yn unman (arall)

to unpick: to u. an argument – dadansoddi dadl, tynnu dadl yn rhacs/yn rhydd oddi wrth ei gilydd

unpleasing – anhyfryd

unprecedented – na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, mwy nag erioed (o'r blaen), y cyntaf o'i fath (erioed)/y gyntaf o'i bath (erioed)/y (rhai) cyntaf o'u bath (erioed); **they have increased at an u. rate** – maent wedi cynyddu'n gynt nag erioed (o'r blaen); **an u. opportunity** – cyfle cwbl arbennig; **homelessness has increased to u. levels** – mae nifer y digartref yn uwch nag erioed

unpredictable – anwadal, annisgwyl

unproblematic – nad yw'n achosi/codi/peri problem(au), nad yw'n broblem, didrafferth, digon clir a syml/didrafferth; **relatively u.** - heb godi/achosi/beri rhyw lawer o broblem(au)

unproblematically – heb broblem (yn y byd), heb fawr o broblem/drafferth, yn ddidrafferth; **relatively u.** - heb ryw lawer o broblem(au)

unproductive – diffwrwyth

unquestionably: it u. adds to – nid oes dwywaith nad yw'n ychwanegu at

to unravel: to u. the evolution of ... – olrhain datblygiad/esblygiad (cymhleth) y(r); **to u. what went wrong** – dod o hyd i'r hyn/darganfod yr hyn a aeth o'i le

unrecognisable: the system is u. compared to five years ago – mae'r system/drefn wedi'i thrawsnewid (yn llwyr) dros y pum mlynedd diwethaf

unrecognised: they could have gone u. – gellid bod wedi methu â sylwi arnynt

unrecorded – heb i neb ei eu cofnodi

unrelated: in wholly u. fields – mewn meysydd cwbl/hollol wahanol

unremitting: u. efforts – ymdrechion diflino

unrequited: u. love – ymserchu diymateb [T.H. Parry-Williams yn yr ysgrif 'Mynwent', *Casgliad o Ysgrifau*, td. 107]

unreserved: an u. success – llwyddiant diamheuol

unreservedly: to apologise u. – ymddiheuro'n fawr/llaes/o waelod calon

unrestrained – di-flewyn ar dafod

unrestricted: books to which pupils have u. access – llyfrau y gall (y) disgyblion fynd atynt yn ddi-rwystr

unrewarding – di-fudd

unrivalled – diguro; **an u. reputation for ...** – enw arbennig o dda am ...; **an u. service** – gwasanaeth nad oes mo'i well/na chewch chi mo'i well/ragorach

unruly: to become u. – mynd dros ben llestri

unsolicited – diwahoddiad

unstinting – diflino

unsung: u. heroes -glewion sydd heb gael hanner digon o glod/ganmoliaeth, glewion na chawsant eu haeddiant/y clod a haeddant/haeddent, glewion di-sôn-amdanynt; **famous and u.** – enwog neu anenwog/beidio [gw.welsh-termau-cymraeg, 30.08.03]

unsurprisingly – yn naturiol ddigon; **u., these are thought to be ...** – nid yw'n syndod mai'r farn yw mai'r rhain yw ...

unsustainable: an u. argument – dadl gloff

to untangle – datglymu

untapped: this perspective remains u. – ni fanteisiwyd/ni cheisiwyd manteisio ar y persbectif hwn(nw), nid oes fawr (o ddim) wedi'i wneud o hyd i fynd ar drywydd y persbectif hwn(nw)/i ymchwilio i'r persbectif hwn(nw), nid oes neb eto wedi mynd ar drywydd y persbectif hwn(nw)/wedi ymchwilio i'r persbectif hwn(nw)

until: u. now – cyn hyn

untouched: the building has survived u. – mae'r adeilad wedi goroesi'n ddigyfnawid, mae'r adeilad fel yr oedd yn wreiddiol

untrammelled – heb eu llyffetheirio gan ...

untried: u. ideas – syniadau nad oes neb wedi rhoi cynnig arnynt (eto/o'r blaen), syniadau nad oedd neb wedi rhoi cynnig arnynt (cynt/o'r blaen)

untrustworthy: they are u. – does dim dal arnynt

unturned: to leave no stone u. – gweithio'n ddiplino

unusually: u. for such a scheme, its outline were not decided (up)on immediately – trefn anarferol mewn cynllun o'r fath oedd peidio â phenderfynu'n syth ar yr amlinelliad ohono/peidio â'i amlinellu ar unwaith

unwelcome: to attract u. attention – denu sylw rhywun/rhywrai/person(au) amheus

unwieldy: to be less u. – bod yn llai o goflaid

unwittingly – heb sylweddoli

up: for up to 4 years – am gymaint â 4 blynedd; **up to expectation(s)** –ystal â'r disgwyl; **up and down the country** – ledled y wlad; **to be up to standard** – bodloni(r) safon, cyrraedd y safon; **before the six months is up** – cyn i'r chwe mis ddod i ben; **it's up to them** – rhyngddydd nhw a'u ffair/pethau; **sales are up by 20%** – mae(r) gwerthiant wedi codi/cynyddu 20%, mae cynnydd o 20% wedi bod yn y gwerthiant, gwelwyd/cafwyd cynnydd o 20% yn y gwerthiant; **the scheme is up and running** – mae'r cynllun ar waith/yn mynd rhagddo; **to get your career up and running** – rhoi cychwyn cadarn i'ch gyrfa; **to be up for it** – bod yn barod i fentro/i gymryd rhan; **they're not up to much** – does dim llawer o siâp arnydd nhw, dydyn nhw ddim yn llawer/yn rhyw lawer o beth; **to keep up to date with ...** – ymgysguddo â'r datblygiadau diweddaraf ym maes/o ran ...; ; **are you up for the challenge?** – wyt ti/ydych chi'n barod am yr her/y sialens?, wyt ti/ydych chi'n barod i wynebu'r her/sialens?; **to pay up front** – talu'n syth; **to be u.(-)front about it** – bod yn agored amdano/am y peth

to up: to up the number of ... – cynyddu nifer y ..., cynyddu'r nifer o ...; **to up: by upping their game against ...** – drwy ffyrnigo/ddwysáu eu brwydr yn erbyn ..., drwy (iddynt) weithredu'n ddwysach/gyfrwysach/yn fwy cyfrwys/soffistigedig yn erbyn ..., drwy (iddynt) gymryd camau dwysach/mwy soffistigedig yn erbyn ..., drwy godi safon eu chwarae (*mewn camp*), drwy (iddynt) wneud llawer yn rhagor i ..., drwy (iddynt) ymdrechu'n ddyncach (lawer) i ..., drwy (iddynt) ddwysáu/cynyddu eu hymdrechion i ...

update: please give us an u. on – rhwch i ni'r newyddion diweddaraf am/ynghylch/ynghlân â/ag

to update: please u. us if you decide to ... – rhwch wybod i ni os penderfynwch ...; **to u. a committee about** – rhoi'r newyddion diweddaraf i bwyllgor am/ynghylch/ynghlân â/ag; **this information has recently been u.-ed** – does dim llawer ers/oddi ar i'r wybodaeth hon gael ei diweddarau

upfront – agored; **to pay u.** – talu ymlaen llaw

to upgrade: to u. (= to up) the number and quality of ... – cynyddu nifer a chodi safon/gwella ansawdd ...

upheaval – (yr holl) newid (mawr), cythrwf(w)l; **it'll be quite an u. for them** – maent yn wynebu cryn newid byd, bydd yn gryn newid byd iddynt

uphill: an u. struggle – talcen caled

to uphold: to u. a principle – arddel egwyddor; **to u. an appeal** – cymradwyo apêl, cadarnhau apêl (*ond gw. David Bullock, welsh-termau-cymraeg, 31.03.06 a 14.10.09*); **to u. a commitment** – cadw at ymrwymiad/eu gair, glynu wrth ymrwymiad

upon: u. receipt of – pan geir, o gael, os ceir, os daw ... i law; **winter is (almost) u. us** – mae'r gaeaf ar ein gwarthaf

to upregulate – uwchreoleiddio (*be*) [Optometreg]

upset: the Jews were very u. when their temple was destroyed – yr oedd yr Iddewon yn ddig iawn pan ddinistriwyd eu teml

to upset – tarfu ar, codi gwrychyn, tynnu blewyn o(u) trwyn, corddi teimladau; **not to u. things** – dal y ddysgl yn wastad; **to u. their equanimity** – tarfu arnynt

upskilling – cynyddu a chaboli sgiliau (*gw. welsh-termau-cymraeg, 21.02.02*)

upside: the u. of this analysis is ... – y newyddion da/calonogol o'r dadansoddiad hwn(nw) yw ... , ochr olau'r dadansoddiad hwn(nw) yw ...

up-to-date to keep u. with ... – ymgysguddo â'r datblygiadau diweddaraf ym maes/o ran ...

up-to-the-minute: the u. figures – y ffigurau cyfoes

upturned – (wedi'u troi) wyneb i waered

urban: u. myth – chwedl/stori (ddi-sail), stori ddychmygol, stori tylwyth teg, cred/coel (gyffredin), stori tylwyth teg, celwydd [*welsh-termau-cymraeg, 03.09.03*]

to urge – hybu, pwyso ar; **to u. that they should be developed** – pwyso o blaid eu datblygu; **to u. caution** – argymhell pwylllo (tipyn)/bod yn bwylllog

urgent: u. vacancy (pennawd ar hysbyseb) – yn eisiau ar frys

usability: to enhance the u. of ... – cynyddu hwylustod defnyddio ..., sicrhau bod modd/y gellir defnyddio ... yn fwy hwylus, ei gwneud hi'n haws defnyddio ...

use: it's no u. going – nid oes diben mynd; **to bring into u.** – rhoi ar waith; **to make good u. of opportunities** – manteisio ar gyfleoedd; **to make maximum u. of** – manteisio i'r/hyd yr eithaf ar; **u. of ... enables them to ...** – drwy/gan ddefnyddio ..., gallant/mae modd iddynt ...; **they were out of u. by 1875** – ni ddefnyddiwyd hwy/mohonynt ar ôl 1875, rhoddwyd y gorau i'w defnyddio erbyn 1875; **whether it will be of much u.** – a fydd yn/ef yn/hi'n rhyw ddefnyddiol iawn

to use: to u. Welsh – arfer y Gymraeg; **u. this as a prompt or a summary** – defnyddiwch hwn i symbylu/ysgogi neu grynhoi; **to become (more) used to** – ymgwyfarwyddo â; **to u. up** – dihysbyddu; **to u. ... to your advantage** – manteisio ar ..., i chi fanteisio ar ...

useful: u. hint(s) – gair i gall; **a u. opportunity** – cyfle da

usefully: there is nothing I can u. add – nid oes yr un dim/unrhyw beth o bwys y gallaf ei ychwanegu

user: to all u.-s of ... – at bawb sy'n defnyddio ...

user-friendly – (digon) hwylus/symml (i'w (d)defnyddio), (digon) hawdd ei ddefnyddio

useless: he's u./a u. one! – un coch yw e!

to usher: to u. in a transformation – arwain at drawsnewid(iad)/weddnewid(iad), agor y drws i drawsnewid(iad)/weddnewid(iad)

usual – cyffredin; **worse than u.** – gwaeth/yn waeth na'r cyffredin; **the u. suspects** – y criw/clic (bach) arferol, y rhai y byddech chi'n disgwyl iddynt fod yno/wrth y llyw, y rhai y byddech chi'n disgwyl eu gweld yno/wrth y llyw; **as u.** (= *as is usual*) – fel sy'n arferol, yn unol â'u harfer, yn ôl yr arfer, fel y byddant yn arfer ei wneud

to usurp: without u.-ing the time available – heb wastraffu/afradu'r amser sydd ar gael

utilitarian – ymarferol

U-turn – newid meddwl (yn) llwyr, tro pedol

utmost: with the u. integrity – yn gwbl ddidwyll; **with the u. seriousness** – yn ddifrifol iawn iawn

utter: u. folly – ffolineb noeth/o'r mwyaf; **(complete and) u. hypocrisy** – rhagrith noeth

utterly: to fail u. – methu'n lân/deg â; **u. stupid** – yn ddwl/wirion bost; **we u. reject their belief that ...** – yr ydym yn gwrthod ar ei phen eu cred bod/mai/y(r) ..., yr ydym yn gwrthod yn lân eu cred bod/mai/y(r) ...; **they are u. sick and tired of ...** – maent wedi cael/wedi hen gael llond bol ar ..., maent wedi cael mwy na llond bol ar ...

utterance: u.-s – traethiadau, datganiadau

vacancy: as v.-ies occur – wrth i swyddi ddod yn wag; **urgent v. (sign)** – yn eisiau ar frys

vacant: a v. look – golwg goll (*Siân Roberts, welsh-termau-cymraeg, 12.07.06*)

vacuum: in a v. – heb (unrhyw) gyd-destun, heb yr un cyd-destun, yn ddi-gyd-destun; **these experiments do not exist in a v.** – nid yw'r arbrofion hyn yn/hynny'n bodoli ar eu pennau eu hunain

vagary: the v.-ies of the post – chwit-chwatrwydd y post

vain: a v. hope – breuddwyd gwrach wrth ei hewylllys; **more social equality was a v. hope** – go brin y gwelid rhagor o

validity: of doubtful v. – o werth amheus, amheus eu gwerth

valuable: to be a v. aid to – bod o gymorth mawr i/wrth/o ran

value: to place a high v. on the support provided by ... – bod â pharch mawr at gymorth ...; **people place a high v. on local access to services** – mae pobl yn awyddus (iawn) i wasanaethau fod ar gael yn lleol; **to be of v.** – bod yn werthfawr; **production v.-s** – diwyg; **this material would have v. for all departments** – byddai'r deunydd hwn o werth i bob adran; **the v. of the idea is that** – mantais y syniad yw bod/mai/y

to value – gwerthfawrogi, bod yn werthfawrogol o, pwyso a mesur; **to v. their opinion** – parchu eu barn; **I do not v. their opinion** – nid oes gennyf fawr o barch i'w barn/fawr o olwg ar eu barn; **to v. an opportunity** – bod yn falch o gael (y) cyfle, bod yn falch o'r cyfle; **they would greatly v. your views** – byddent yn ddiolchgar iawn/dros ben i chi am eich sylwadau, byddent yn falch iawn o gael gwybod eich barn/o gael eich sylwadau

valued: they weren't v. – nid oedd lle teilwng iddynt, ni roddwyd lle teilwng iddynt

vantage: v. point – safbwynt

variable: to be v. – amrywio

variability: to permit (the) v. of content – caniatáu amrywio'r cynnwys, er mwyn i'r cynnwys allu cael ei amrywio, fel bod modd amrywio'r cynnwys

varied: to be so v. that – amrywio cymaint nes

variety: of all v.-ies – o bob lliw a llun

various: at v. points in the text – hwnt ac yma yn y testun

variously – yn eu hamryfal/gwahanol ffyrdd; **v. attributed to ... by some, and to ... by others** – a briodolir gan rai i ... ac i ... gan eraill

to vary: children v. in their rate of mental development – mae/bydd cyfradd datblygiad meddyliol plant yn amrywio

vast: a v. amount of – toreth; **v. quantities of ...** – miloedd ar filoedd o, miliynau ar filiynau o ...; **a v. array of ...** – llond gwlad o ...

vastly: v. improved – canmil gwell, yn well o lawer iawn; **in a v. different context** – mewn cyd-destun cwbl, cwbl wahanol; **this has v. increased their ability/capacity to ...** – mae hyn(ny) wedi cynyddu llawer iawn iawn ar eu gallu i ...

vehemently: to complain v. – achwyn/cwyno'n chwyn/groch

vein: in a similar v. – gan ddilyn yr un trywydd (yn fras)/trywydd tebyg

venue – man perfformio/cynnal; **the v. will be ...** – cynhelir y cyfarfod/gynhadledd/sioe/ddrama yn/mewn ...

verbal: v. communication – cyfathrebu'n eiriol/mewn geiriau

to verbalise – disgrifio; **to v. and articulate** – geirio a gwyntyllu

to verify: to v. (that) this (is so) – dangos bod hyn yn/hynny'n wir

veritable: a v. feast – gwledd a hanner

versatile: this theme is so v. that ... – mae'r thema hon mor benagored nes ...

vertical cavity laser – laser (eg) ceudod fertigol [Ffiseg a Seryddiaeth]

very – hynod; **the v. best** – y goreuon, y rhai gorau (un); **from the v. first** – o'r cychwyn cyntaf; **v. gently** – gan bwyll bach; **it is with v. great pleasure that I say that ...** – pleser o'r mwyaf (i mi) yw (cael) dweud bod/mai/y(r) ...; **to the v. last** – i'r diwedd un; **(just) at that v. moment** – (ac) ar y gair; **to be v. much the exception** – bod yn eithriad prin (iawn), eithriad prin (iawn) yw hwn, yn sicr ddigon/bendifaddau/siŵr i chi; **they v. much want to see ...** – maent yn awyddus iawn i weld ...; **nothing v. much** – dim byd mawr; **to feel the loss of ... v. much** – teimlo colli ... i'r byw, teimlo'n chwithig iawn o golli, gweld colli ... yn fawr iawn; **it is v. much a draft** – drafft yn unig yw hwn/ydyw; **our philosophy is one which very m. addresses the needs of ...** – mae'n/mae ein hathroniaeth yn (un sy'n) mynd i'r afael o ddifrif ag anghenion ...; **this is v. much a problem** – mae hon/hyn yn broblem fawr; **this is v. much a privilege rather than a right** – braint yn hytrach na hawl, wrth gwrs, yw hwn/braint yn hytrach na hawl yw hwn, wrth gwrs; **they are v. much a minority** – lleiafrif bach iawn ydynt, maent yn lleiafrif bach iawn; **v. old** – mewn gwith o oedran; **the v. power of the computer means that ...** – gan fod/oherwydd bod y cyfrifiadur mor bwerus, ...; **v. seriously** – o ddifrif calon; **to be v. variable** – amrywio'n fawr; **something is v. wrong** – mae rhywbeth mawr o'i le; **v. well then** – o'r gorau; **the v. idea of ...** – yr holl syniad o ...; **they will enable us to inform the public, in a v. real way, of the work we do** – byddant yn fodd i ni roi gwybod i'r cyhoedd yn glir iawn am y gwaith a wnawn/yr ydym yn/wrthi'n ei wneud, byddant yn fodd i ni gyfleu'n glir i'r cyhoedd (natur) y gwaith a wnawn/yr ydym yn/wrthi'n ei wneud; **v. many** – llu mawr (o); **you will see that this is v. much a team effort** – fe weli di/fe welwchi'n glir iawn mai ymdrech gan dîm yw hwn/hon/hyn; **to be v. opposed to ...** – gwrthwynebu ... yn fawr/daer/gryf/bendant iawn

to vest: responsibility is v.-ed in ... – mae'r cyfrifoldeb yn nwylo .../yn nwylo ... y mae'r cyfrifoldeb

vested: anyone with a v. interest in ensuring ... – unrhyw un sy'n awyddus i sicrhau ...

vestigial: v. remains – mân olion, olion mân mân

to vet: you will be allowed to v. their suggestions – cewch dderbyn neu wrthod eu hawgrymiadau

vexed: the v. question of ... – cwestiwn anodd ...

viable: a v. group – grwp digon o faint/digon mawr

vibrant – byrlymus, byw(iog) iawn, byrlymus, yn fwrllwm i gyd; **a v. economy** – economi ffyniannus

vicissitudes – hynt a helynt, trafferthion

victim: if you find yourself the v. of such messages – os cewch chi negeseuon (annymunol) o'r fath; **the dead v.-s** – y rhai a fu farw, y meirwon, y rhai a laddwyd/lofruddiwyd (*os bu llofruddio*)

view: in v. of – yn wyneb, oherwydd (bod), gan (fod); **in v. of the fact that** – gan fod/mai/y, oherwydd bod/mai/y; **to have a clear v. of** – bod â darlun clir o; **to have a reasonably clear v. of their strengths** – bod â syniad go dda o'u cryfderau; **to come into public v.** – dod i lygaid y cyhoedd; **to make their v.-s known** – dweud eu dweud, lleisio'u barn; **to come to a v.** – ffurfio barn; **they take the v. that ...** – eu barn hwy yw bod/mai ...; **in this v. of the town centre** – yn y llun hwn o ganol y dref

to view – dehongli; **v.-ed in this light** – yng ngoleuni hynny, o edrych arni fel hyn(ny), os felly; **they are encouraged to v. such openness positively** – fe'u hanogir/cânt eu hannog i ymagweddu'n gadarnahaol at fod yn agored fel hyn

viewing: we have set up a v. of the house for tonight (for you) – yr ydym wedi trefnu i chi weld y tŷ heno

view()point – golygfan

vigour – bywiogrwydd; **with v.** – yn egniol

vigorously: to oppose v. – gwrthwynebu'n frwd/ffyrnig

to vindicate – cadarnhau cywirdeb

violent: a v. storm – storm arw/wyllt

VIPs – pobl o bwys (mawr) [important people – pwysigion]

to vire – trosglwyddo, symud

virtual: they have a v. monopoly of ... – mae ganddynt fonopoli, bron, ar ...

virtually: the additional cost is v. nil – bach iawn yw'r gost ychwanegol, mae'r gost ychwanegol yn fawr iawn

virtue: they have made a v. of ... – maent yn brolio ..., maent yn brolio eu bod wedi ...; **by v. of ...** – am (fod)/oherwydd bod/fod ...

virtuous: a v. circle – cylch bendithiol (?)

vis-à-vis ... – mewn perthynas â/ag ...

visibility: to enhance the house's v. – gwneud y tŷ'n haws ei weld, ei gwneud hi'n haws gweld y tŷ
visible: they are clearly v. – maent i'w gweld yn glir; **they will be more v. to others** – byddant yn haws i eraill eu gweld, bydd hi'n haws i eraill eu gweld
visibly: the door was used to v. mark the social distance between ... -- defnyddid y drws/câi'r drws ei ddefnyddio i amlygu'r/ddynodi'r/gyfleu'r pellter cymdeithasol rhwng ...
vision: there is interest in the importance of a shared v. for a school – mae rhai'n/nifer/amryw'n n ymddiddori ym mhwysigrwydd rhannu gweledigaeth ar gyfer ysgol, mae tipyn o ddiddordeb/mae peth diddordeb ym mhwysigrwydd rhannu gweledigaeth ar gyfer ysgol *neu* i nifer/amryw o bobl, mae'n bwysig rhannu'r weledigaeth ar gyfer ysgol/bod y weledigaeth ar gyfer ysgol yn cael ei rhannu (*welsh-termau-cymraeg*, 21.10.05)
to vision – gweledigaethu
visionary: this isn't v. nonsense – nid geiriau gwag mo'r rhain, nid geiriau rhyw broffwyd dwl/ffôl mo'r rhain; nid geiriau rhyw gau broffwyd mo'r rhain; **a v. document** – dogfen sy'n cynnig/llawn gweledigaeth
visioning – gweledigaethu
to visit: v. our stand – dewch i'n stondin
visiting: v. teachers – athrawon teithiol
visitor: v. cairn – carnedd ymweld
visual: in v. terms – o ran (eu) golwg/(eu h)ymddangosiad; **v. literature** – llunyddiaeth, llenyddiaeth weledol
visualities – gweledolrwyddau (*yr unigol yn unig sydd yng Ngeiriadur yr Academi*)
visually: v. attractive – yn ddeniadol i'r llygad, yn cyfareddu'r llygad, â golwg gyfareddol arnynt; **to be v. heavier** – bod yn drymach ei/yr olwg
vital: data v. to – data y mae'n rhaid wrthynt; **of no (really) v. import(ance)** – heb fod o dragwyddol bwys
vividly: this conveys their discomfort v. – mae hyn yn/hynny'n cyfleu eu hanniddigrwydd i'r dim
vocal: v. opposition – gwrthwynebu'n gryf/groch, mynegi gwrthwynebiad i
vocationalism – galwedigiaeth (?)
to vocationalise – galwedigaetho (?)
vogue: ... is in v. – mae mynd mawr ar ...
volatile – amrywio; **more v.** – llai sefydlog/sicr
volatility – ansefydlogrwydd
volume: the large v. of answers – y toreh o atebion; **such a v. of** – cymaint/cynifer o; **to send large v.-s of bills** – anfon niferoedd enfawr o filiau; **a considerable v. of ...** – cryn lawer o ..., ... helaeth; **large v.-s of useful information** – llond gwlad o wybodaeth ddefnyddiol
voluminous: v. information – pentwr/llond gwlad o wybodaeth
to vouch: to v. for – dweud gair dros
to vow: she v. to find out whether ... – (fe) addawodd iddi ei hun y byddai'n darganfod a(i) ...
vulnerability – natur/sefyllfa fregus; **their v. is increasing** – mae eu sefyllfa'n fwyfwy bregus
vulnerable – diamddiffyn; **to be v. to** – bod mewn perygl (o)/ar drugaredd, gallu dioddef (yn enbyd) oddi wrth

wage: salaries and w.-s – cyflogau misol ac wythnosol
to wait: to w. and see – aros cyn mentro; **to have to w. for ...'s seal/stamp of approval before ...** – rhaid i ... gymeradwyo'r ... cyn ...; **they couldn't w. to go home** – yr oeddent ar dân (o) eisiau mynd adref; **nothing that can't w.** – dim byd o anfeidrol bwys; **they are a recession w.-ing to happen** – dirwasgiad gewch chi ganddyn nhw(, yn siŵr i chi); **an accident w.-ing to happen** – damwain sy'n rhwym/siŵr o ddigwydd
to waive – rhoi o'r neilltu, anwybyddu, caniatáu eithriadau i
wake: in the w. of – o ganlyniad i
wall: to drive them up the w. – eu gyrru'n gaelwm wyllt/benwan; **to 'get over the w.'** – cael y maen i'r wal
walk: every w. of life – ym mhob maes/galwedigaeth; **w. and talk** – lonc a chlonc; **the 'w. the way to health'** – menter 'llwybr cerdded iechyd'
to walk: to w. the talk – gweithredu'ch geiriau, gweithredu eu geiriau, gwneud yr hyn y maent yn ei bregethu
wand: there is no magic w. that will ensure that ... – nid ar chwarae bach y sicrheir bod/mai ...
to want: they very much w. to see ... – maent yn awyddus iawn i weld ...; **as many as you w.** – faint a fynnwch
war: to be in the w.-s – bod yn ei chanol hi
warmly: to speak w. of – bod yn fawr eu clod/yn hael/yn helaeth eu canmoliaeth i
to warn: be w.-ed – cofiwch hyn(ny)
warning: such websites should come with/carry a health w. – peidiwch â llyncu cynnwys y gwefannau hyn(ny)/gwefannau o'r fath yn ddihalen, dylid bod/dylech (chi) fod yn ofalus iawn wrth gredu cynnwys/wrth dderbyn geirwiredd y gwefannau hyn(ny)/gwefannau o'r fath
warp: the w. and weft of everyday life – holl batrwm/gymhlethdodau bywyd bob-dydd/beunyddiol
to warrant – peri, haeddu

wary: **to be w.** – bod yn ofalus, bod ar eu gwyliadwriaeth; **to be w. of exposing/showing/revealing (a) weakness** – bod yn betrus ynghylch dangos/amlygu/datgelu gwendid, ofni dangos/amlygu gwendid, peidio â bod yn (arbennig o awyddus) i ddatgelu/amlygu gwendid

to wash: **this story won't w.** – wnaiff neb gredu/lyncu'r stori hon, wnaiff pobl ddim credu/llyncu'r stori hon

washing: **w. line** – lein ddillad

wash-up: **a w. meeting** – cyfarfod ôl-drafod

waste: **to go to w.** – mynd yn ofer

to waste: **I was w.-ing my breath** – waeth i mi fod yn siarad â'r wal ddim; **they w.-ed no time in ...** – aethant ati'n syth/ddiymdroi i ...; **to w. away** – dihoeni

to watch: **w. this space!** – rhagor maes o law/cyn hir!

watchdog: **consumer w. body** – corff sy'n gwarchod buddiannau'r defnyddwyr/buddiannau ein defnyddwyr

watchful: **to keep a w. eye on** – cadw llygad barcud ar

watchword: **a w. for** – gair i'w gysylltu â

watershed: **the nine o'clock w.** – trothwy naw o'r gloch (*welsh-termau-cymraeg*, 09.08.04)

to wave: **to w. goodbye** – canu'n iach i

way: **to give w. to** – cael eu disodli gan; **(in) this w.** – o/wrth/drwy wneud (hynny), drwy hyn(ny); **in a w.** – ar ryw olwg; **by w. of/in the w. of ...** – o ran ...; **by w. of demonstration** – (ac) i ddangos hynny; **either w.** – yn y naill achos neu'r llall, beth bynnag a benderfynir/wneir/ddigwydd; **much in the w. of ...** – rhyw lawer o ...; **there is some some w. to go before ...** – ni chyrhaeddwyd eto y pwynt lle (y/yr) ...; **to go some w. towards helping** – bod o ryw gymorth (i ...), gwneud tipyn i ...; **that w. you can do ...** – o/drwy wneud hynny, gallwch ... *neu* byddwch (chi) felly'n gallu ...; **the/a w. in which ... can be ...** – sut mae; **in many w.-s** – ar lawer ystyr; **one w. or another** – rhywsut rywfodd; **that's the w. it is** – dyna fel y mae (hi)/pethau, dyna'r drefn; **to show the w.** – gosod esiamp; **in a small w.** – ar raddfa fach; **I enclose, by w. of confirmation, ...** – amgaeaf, i gadarnhau hynny, ... *neu* i gadarnhau hynny, amgaeaf ...; **to get in the w. of progress** – llesteirio cynnydd; **in this w.** – yn hyn o beth; **to pay their w.** – cael dau ben llinyn ynghyd; **the correspondence that comes my w.** – yr ohebiaeth a gaf/a wela/y digwyddaf ei chael/y digwyddaf ei gweld/sy'n dod ataf fi/a ddaw ataf fi; **they are some w. off making a profit** – ni wnânt elw am beth amser eto; **the programme is over half w. to completion** – mae dros hanner y rhaglen wedi'i gwblhau; **they're clean, so keep them that w.** – gan eu bod yn lân, cadwch hwy felly/cadwch hwy'n lân; **to put it another w.** – hynny yw, mewn geiriau eraill

waymarked: **w. path** – llwybr ag arwyddion

wayside: **plans to ... have fallen by the w.** – mae(r) cynlluniau i ... wedi eu rhoi o'r neilltu

weak: **a w. excuse** – esgus cloff

wealth – helaethrwydd; **a w. of experience** – profiad helaeth

wealthy: **to be extremely w.** – bod yn graig o arian

weapon: **an increasingly important w. in the armoury of ...** – elfen fwyfwy pwysig yn arfogaeth ...

to wear: **after their novelty wore off** – ar ôl i'w newydd-deb bylu; **to w. away completely/totally** – treulio'n ddim/llwyr; **she's w.-ing well** – mae cas cadw da arni; **their patience was w.-ing thin** – yr oedd eu hamynedd yn dechrau pallu

weather: **to make heavy w. of** – gwneud môr a mynydd o

weight: **a w. of evidence** – cryn (dipyn o) dystiolaeth; **to put the same/equal w. on ... as on ...** – rhoi'r un pwyslais ar ... ag ar ...; **this consideration carries the most w.** – dyma'r ystyriaeth bwysicaf; **to add extra w. to the importance of ...** – tanlinellu rhagor ar bwysigrwydd ..., ychwanegu rhagor (eto) at bwysigrwydd

to weight: **to be unduly w.-ed down with responsibilities** – bod ag ar y mwyaf o gyfrifoldebau, ysgwyddo ar y mwyaf o gyfrifoldebau, bod â baich trwm o gyfrifoldebau

weightless: **they appear to be w.** – maent fel petaent yn pwyso dim, mae hi fel pe na baent yn pwyso dim

weighty – swmpus

welcome: **W. Host** – Cynllun Croeso [*cynllun y Bwrdd Croeso*]; **you are most w. to come** – mae/bydd croeso cynnes i chi ddod; **a w. letter** (*a letter of welcome*) – llythyr i'ch croesawu; **a w. sight** – golygfa braf; **these figures make very w. reading** – yr ydym ni'n croesawu'r ffigurau hyn yn fawr iawn, mae'n braf iawn gweld y ffigurau hyn

to welcome: **although.....is to be w.-ed** – er y gall ... fod yn dderbyniol iawn; **they would w. a synopsis to help them** – fe groesawent gael crynodeb i'w helpu; **please w.** – rhowch groeso i ...

well: **to be w. aware of** – sylweddoli'n iawn/glir; **to be w. on the way to** – yn/wedi cymryd camau bras i/(tuag) at; **work is w. under way** – mae'r gwaith wedi hen gychwyn/ddechrau; **this may w. be possible** – gall hyn(ny) fod yn ddigon posibl, gall hyn yn/hynny'n hawdd fod yn bosibl; **they may w. have a role** – mae'n ddigon posibl/bosibl iawn bod ganddynt rôl; **as w. as** – ynghyd â; **it would be as w. to ...** – llawn cystal fyddai ...; **to be/fall w. short of the ...** – bod (gryn) dipyn islaw'r ...; **schools would do w. to** – buddiol fyddai i ysgolion; **until students are w. into their fifth year** – tan ymhell ar ôl i'r myfyrwyr gychwyn/ddechrau ar eu pumed flwyddyn; **they are all very w.** – maent yn iawn yn eu lle; **the work went w.** – cafwyd hwyl ar y gwaith; **to assess how w. (a) ... has been understood** – deall i ba raddau y deallwyd ...; **not (at all) w.** – ddim (yn) hanner da; **a machine is all very w., but ...** – mae peiriant yn iawn yn ei le, ond ...; **very w. then** – o'r gorau; **to do w.** – cael hwyl arni; **you will know only too w.** – fe wyddoch chi cystal â neb/yn well na neb; **to keep w. away from ...** – cadw'n ddigon pell

oddi wrth ...; **to leave w. alone** – gadael i bethau fod; **the work is w. in hand** – mae'r gwaith wedi hen gychwyn/ddechrau/yn mynd rhagddo'n dda; **to be w. behind schedule** – bod ymhell ar ei hôl hi; **w. done to them all!** – llongyfarchiadau i bob un ohonynt!; **to be w. and truly a thing of the past** – (bod yn) perthyn yn gyfan gwbl/yn bendant i'r gorffennol, (bod yn) hen hen hanes; **my surfing days are w. and truly over** – mae fy nyddiau syrffio wedi hen ddod i ben; **this programme is w. and truly established** – mae'r rhaglen (hon) wedi gwreiddio/ymsefydlu'n gadarn/wedi ennill ei phlwyf (yn bendant); **they are w. above this age** – maent (hwy) gryn dipyn yn hŷn na hynny

well-advanced – wedi hen gychwyn/ddechrau; **the work is w.** – mae'r gwaith yn (dechrau) tynnu at ei derfyn, mae llawer (iawn) o'r gwaith wedi'i wneud, mae'r rhan fwyaf (o ddigon/lawer) o'r gwaith wedi'i wneud; **the disease is w.** – mae'r clefyd wedi cydio o ddifrif

well-advised: they would be w. to listen – fe dalai (hi) iddynt wrando, byddai'n talu iddynt wrando, byddent ar eu hennill o wrando/petaent yn gwrando, byddent dipyn elwach o wrando

well-appointed: a w. room – ystafell (sydd wedi'i dodrefnu'n) chwaethus, ystafell chwaethus ei chelfi/dodrefn

well-attended: the meetings are always w. – bydd y cyfarfodydd bob amser yn denu nifer dda/cynulleidfaoedd da/helaeth, bydd pobl yn tyrru i'r cyfarfodydd bob amser, bydd nifer dda (o bobl) yn dod i'r cyfarfodydd bob amser; **an innovative and w. session** – sesiwn arloesol a helaeth ei gynulleidfa, sesiwn arloesol a gafodd/ddenodd gynulleidfa fawr/helaeth, sesiwn arloesol a ddenodd gynulleidfa fawr/helaeth/lond (y) lle o bobl

well-briefed – hyddysg (yn eu maes)

well-cared-for: a w. garden – gardd a graen arni

well-composed – wedi eu saernïo'n dda/gelfydd/grefftus

well-considered – meddylgar

well-crafted – celfydd, crefftus

well-deserved – haeddiannol iawn; **this is a w. honour for her** – mae hi'n llawn haeddu'r anrhydedd hwn(nw)/ hon(no), dyma anrhydedd cwbl/gwbl haeddiannol iddi/y mae hi'n llawn haeddu ei gael/ei chael

well-designed – pwrpasol eu cynllun, graenus, celfydd, chwaethus, wedi eu saernïo'n dda/gelfydd/grefftus

well-disposed: w. to – ffafrio, bod yn bleidiol i

well-endowed: w. in terms of resources – cyfoethog eu hadnoddau/o ran adnoddau

well-equipped – helaeth eu hoffer; **w. laboratories** – labordai â digonedd o offer (a chyfleusterau), labordai ac ynddynt ddigonedd o offer (a chyfleusterau)

well-established – hen, wedi'u sefydlu'n gadarn/ers tro (byd); **collabotation with (the) other departments is w.** – mae cydweithio â'r adrannau eraill yn beth digon cyfarwydd

well-founded – a sail gadarn iddo

well(-)heeled: to be less w. – bod yn llai cyfoethog/yn dlotach

well-honed: w. skills – sgiliau celfydd

well-informed – gwybodus; (*ar ffurflen arolwg staff*) **I am w. about the organisation's activities** – rwyf wedi cael gwybodaeth helaeth am weithgareddau'r sefydliad

well-intentioned – llawn bwriadau da

well-known – amlwg, cyfarwydd

well-led: a w. department – adran lle ceir arweinyddiaeth gadarn

well-made – wedi eu saernïo'n dda/gelfydd

well-meaning – digon didwyll

well(-)off: to be less w. – bod yn llai cyfoethog/yn dlotach

well-placed: w. to – mewn safle da/sefyllfa dda i

well-positioned: w. to – mewn safle da/sefyllfa dda i

well-prepared – wedi eu llunio/saernïo'n dda/gelfydd

well-presented – graenus

well-received: to be w. – cael derbyniad da

well-rehearsed: w. arguments – dadleuon a glywyd/grybwyllwyd/wyntyllwyd droeon

well-represented – niferus; **they were w. at the meeting** – yr oedd nifer dda/teilwng ohonynt yn y cyfarfod

well-respected: they are w. – maent yn fawr eu parch, mae parch mawr iddynt

well-seized: to be w. of – bod yn ymwybodol iawn o/effro iawn i

well-served – ffodus; **those aspects of ... which are not w. by ...** – yr agweddau (hynny) ar ... na thrafodir digon arnynt gan/mewn ..., yr agweddau (hynny) ar ... na chânt ddigon o sylw gan/mewn ...

well-stocked: a w. library – llyfrgell helaeth; **... is w. with ...** -- mae yno ddigonedd/lond y lle/lond gwlad o ..., yno ceir digonedd/lond y lle/lond gwlad o ..., yno cewch (chi) ddigonedd/lond y lle/lond gwlad o ...

well-structured – wedi'u strwythuro/saernïo'n gelfydd/ofalus

well(-)thought(-)out – celfydd, eglur, trylwyr, trwyadl; **the answers are w.** – mae'r atebion yn ffrwyth meddwl, mae ôl meddwl ar yr atebion

well-trained – helaeth eu hyfforddiant

well-versed: they are w. in ... – maent wedi'u trwytho yn/mewn ...

well-wrought – wedi eu saernïo'n dda/gelfydd/grefftus

Welsh – yng Nghymru, (*enw*) + Cymru; **W.-medium studies** – astudiaethau cyfrwng Cymraeg; (*limited /applies (only) to Wales*) **the remit is specifically W.** – mae'r cylch gwaith yn ymwneud yn benodol â Chymru/yn ymwneud â Chymru'n benodol; **the W. border** (*a siarad o safbwynt Cymru*) – y ffin â Lloegr, Clawdd Offa

Welshness – Cymreigrwydd

welter – toreth

Wendy house – tŷ bach twt

whammy: a double w. – ergyd ddrwg/fawr; **to suffer a double w. by way of a lack of a ...** – dioddef dau ddiffyg, sef diffyg ... a diffyg ...

what: w. to do now – y cam nesaf; **w. rubbish!** – y fath ddwli!; **w. wonder is it that they went?** – pa ryfedd iddynt fynd?; **w. little there is** – hynny sydd (ohonynt); **w. is more** – at hynny; **and w. with the ...** – a rhwng bod y ... yn ...; **what?** – sut? (*gogleddol*); **w.'s left** – y gweddill; **revolutionary or w.?** – am chwyldroadol!; **tell us w. you hope to gain from it** – dywedwch wrthym pa fudd y gobeithiwch ei gael ohono, soniwch wrthym am y budd y gobeithiwch ei gael ohono; **w. more could they do?** – pa bethau eraill y gallent eu gwneud? beth arall y gallent ei wneud; **w. you will need** (*fel pennawd, neu fôn brawddeg*) – bydd arnoch angen; **are they crazy or w.?** – ydyn nhw'n gall?

what(so)ever – unrhyw (dan haul); **no reason w.** – dim (un) rheswm o gwbl/yn y byd, dim rhithyn o reswm

when: w. properly planned – o'i gynllunio'n gywir; **w. marking** – wrth farcio; **as and w. necessary** – yn ôl yr angen; **or £20 w. ordering more than one copy** – neu £20 os archebir mwy nag un copi; **w. they had gone** – ar ôl iddynt fynd; **w. they carried out the task again** – yr ail dro/eildro iddynt gwneud y dasg; **w. it comes to entertainment** – o ran adloniant

whenever: discussion is promoted w. possible – hybir trafodaeth bob cyfle posibl/os oes modd yn y byd

where: w. (= if) you have ... – os ydych (chi) wedi ...; **to be scored on a scale w. 1 = poor** – i'w sgorio ar raddfa, sef 1 = gwael

whereas – lle; (= *since*): **w. the University wishes to purchase ...** – gan mai dymuniad y Brifysgol yw ...

whereby: an arrangement w. ... – trefniant lle ..., trefniant sy'n fodd i ...; **a special condition applies w. ...** – mae amod arbennig yn gymwys, sef

wherever: w. possible – bob cyfle posibl, os oes modd yn y byd

whereupon – (a) dyna pryd y(r), a dyma

to whet: advertisements to w. the appetite of potential candidates – hysbysebion i ennyn diddordeb (y) darpar ymgeiswyr

which: w. of the following are relevant – pa rai o'r canlynol sy'n berthnasol; **the point at w.** – y pwynt pryd y(r); **ten days in w. to seek** – deg diwrnod i geisio/chwilio; **days on w.** – dyddiau pryd y(r); **by w. time** – (ac) erbyn hynny

while – ond, heb i hynny; **w. on a course** – yn ystod cwrs; **a w. back** – beth amser yn ôl; **a good w. back** – dipyn o amser yn ôl; **after/in a w.** – ymhen tipyn; **this quiz should help them w. still being fun** – dylai'r cwis hwn eu helpu – a bod yn hwyl; **this may take a little w.** – gall hwn/hyn gymryd ychydig (o amser); **stay for a (little) w.** – aros/arhosa/arhoswch am ryw hyd; **driving w. under the influence of alcohol** – gyrru (o) dan ddylanwad alcohol (*gw .td 322 'Geiriadur Newydd y Gyfraith' o dan 'driving'*)

whilst – ond; **driving w. under the influence of alcohol** – gyrru (o) dan ddylanwad alcohol (*gw .td 322 'Geiriadur Newydd y Gyfraith' o dan 'driving'*)

to whip: to w. up – cyffroi

whirlwind: a w. of activity – bwrlwm o weithgarwch

whisker: to be within a w. of – bod o fewn dim

to whizz: cars w.-ing by – ceir yn gwibio heibio

whole: as a w. – yn eu cyfanrwydd/crynsyth; **in the school as a w.** – yn yr ysgol yn gyffredinol; **the w. course is** – mae'r cwrs drwyddo draw yn ...; **a coherent w.** – cyfanwaith crwn; **on the w.** – gan mwyaf, at ei gilydd, ar y cyfan; **a w. host of** – cant a mil o, llond gwlad o, llu mawr o, cannoedd ar gannoedd o, miloedd ar filoedd o; **a w. range/series of reasons** – amrywiaeth mawr o/llond gwlad/amryw byd o resymau; **a w. range of matters** – pob math o faterion

whole(-)school – ysgol-gyfan

wholehearted: to be less than w. – heb fod/nid yw/peidio â bod yn gwbl amlwg

wholeheartedly: to agree w. – cytuno'n llwyr/i'r carn; **to welcome w.** – croesawu'n gynnes/wresog (iawn); **to join a scheme w.** – ymuno'n frwd (iawn) â chynllun; **to thank them w.** – diolch o galon iddynt, diolch iddynt o lwyrfryd/ddifrif calon

wholeheartedness: reflective teaching requires attitudes of open-mindedness, responsibility and wholeheartedness – i addysgu'n fyfyrion, rhaid bod â meddwl agored, bod yn gyfrifol ac ymroi i'r gwaith o lwyrfryd calon

wholeness: w. of the curriculum – cyflawnrwydd y cwricwlwm

wholesale: w. revision – adolygu helaeth/trylwyr/trwyadl

why: we closed the shop and that is w. they went home – gan i ni gau'r siop, fe aethant adref; **colours are important and this/that. is why people ...** – gan fod lliwiau'n bwysig, mae/bydd pobl yn ...

wicked: **w. issues** – materion milain (*awgrym Catrin Alun ar welsh-termau-cymraeg, 14.12.07*), (*fy ymateb i ar welsh-termau-cymraeg, 14.12.07*:) materion anniben/blêr/annifyr/trafferthus? problemau anniben/blêr/annifyr? Rwy'n hoffi'r cyflythreniad yn 'problemau piwis' ond efallai nad dyna'r ansoddair gorau!

wide: **a w. variety** – amrywiaeth mawr; **there is a w. variation in ...** – mae(r) ... yn amrywio'n fawr; **a w. gap** – bwlch mawr

widely: **in Europe and more w.** – yn Ewrop a thu hwnt; **to make this more w. known** – gwneud hyn yn/hynny'n hysbys i gylch ehangach; **they are w. regarded as (being) the best** – ym marn llawer (o bobl), hwy yw'r rhai gorau/yw'r gorau/yw'r goreuon; **this was w. practised** – yr oedd hyn yn/hynny'n arfer/beth digon cyffredin

widely-abused: **we will remove the w. right to ...** – gan fod cymaint o gamddefnyddio arno, byddwn yn dileu'r hawl i ...

wider: **to be worthy of w. emulation** – haeddu cael eu hefelychu'n helaethach

widespread: **they are w.** – maent i'w cael/gweld mewn llawer man, fe'u ceir/gwelir/cewch/gwelwch mewn llawer man

wildly: **w. different to/from** – yn wahanol dros ben/iawn iawn i, yn amrywio llawer iawn

will: **the king could dismiss them at w.** – gallai'r brenin eu diswyddo pryd bynnag y dymunai/fel y dymunai/yn (gwbl) fympwyol

wily: **a w. old bird** – hen ben

win: **a w.-w. situation** – sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill/lle mae'r ddwy ochr ar eu hennill, sefyllfa lle mae/bydd pawb yn elwa (*Eirian Youngman, welsh-termau-cymraeg, 16.02.07*), sefyllfa sy'n fuddiol i bawb (*Huw Tegid, welsh-termau-cymraeg, 16.02.07*); **I'm in a w. situation** (= *I'll benefit whatever happens*) – fi fydd yn ennill bob ffordd, does dim posibil/modd colli/i mi golli

to win: **to w. through** – ennill y dydd; **progress has been hard won** – drwy ymdrech fawr/ddygyn/drwy ymdrechu'n ddygyn/galed y mae cynnydd wedi'i sicrhau/y cafwyd cynnydd/y sicrhawyd cynnydd

wind: **we are sailing close to the w. (economically-speaking)** – does fawr o lewyrch ar bethau, cael a chael fydd hi i ni gael y cwch i'r lan, mae hi'n (o) fain arnom ni, dydyn ni ddim yn gwneud fawr o elw, bach iawn (iawn) o elw rydyn ni'n ei wneud

window: **a w. of opportunity** – cyfle (da); **the so-called 'c. window'** – y cyfnod allweddol bwysig/hollbwysig/ pwysig iawn/pwysig dros ben [*gw. welsh-termau-cymraeg, 29.10.07*]

to wipe: **to w. the floor with someone** – rhoi pryd/yffach o bryd o dafod i rywun, rhoi llond pen/yffach o lond pen i rywun; **to w. down** – glanhau'n fras

wire: **this game looks as if it's going/looks set to go down to the wire** – mae'r gêm (hon/'ma) yn edrych fel petai hi'n mynd i lawr i'r chwiban olaf (*sylwebydd ar y BBC*), fydd canlyniad y gêm ddim wedi'i setlo tan y chwiban olaf

wise: **it is w. to ...** – cam/peth doeth yw ...; **to be w. enough not to** – bod yn ddigon o hen ben i beidio â/ag; **it's easy (enough) to be w. after the event** – (ond) (digon) hawdd doethinebu heddiw/drannoeth; **they are none the w.-er** – maent yn dal i fod yn y niwl

to wish: **as many as you w.** – faint (a) fyynnwch; **w. you were here!** – trueni nad ydych yma!, dylech fod yma!, lle braf dros ben!**I w. I had done this years ago** – petawn i ond wedi gwneud hyn flynyddoedd yn ôl

wishful: **w. thinking** – breuddwyd gwrach wrth ei hewyllys, (gwag d)delfrydu

wit: **to scare them out of their w.-s** – rhoi llond twll o ofn iddynt

witchhunt: **a w. meeting** – cyfarfod erlidgar

with: **as w. ...** – fel yn achos; **w. particular care** – yn arbennig o ofalus; **w. the danger that ...** – a'r perygl yw ...; **w. the setting up of ...** – yn sgil sefydlu ...; **w. costs now running at ...** – gan fod y gost/costau bellach yn ...; **w. this in mind** – gan gadw hyn(ny) mewn cof, o gofio hyn(ny); **an approach w. the emphasis in ...** – ymagwedd lle mae'r pwyslais ar ...; **w. the result that they ...** – a'r canlyniad yw eu bod yn ..., ac felly maent yn ...; **this can vary w. the location** – gall hyn amrywio o ardal i ardal/o le i le/o fan i fan; **w. fluency and expression** – yn rhwydd ac yn llawn mynegiant; **w. increasing sophistication** – yn fwyfwy soffistigedig; **they are w. the printers** – maent yn nwylo'r argraffwyr; **w. love (as a greeting, on a card etc)** – cariad mawr, llawer o gariad; **a city w. character and ambition** – dinas (sy'n/a oedd yn/a fydd yn l)lawn cymeriad ac uchelgais; **this will help us w. valuable research** – bydd hwn/ yn/hyn yn/hwnnw'n/honno'n/hynny'n ein helpu i wneud ymchwil werthfawr

to withdraw – neilltuo; **to w. courses** – dileu cyrsiau; **the courses were w.-n** – daeth y cyrsiau i ben; **to w. from a meeting** – ymneilltuo o gyfarfod, gadael cyfarfod; **to be w.-n** – rhoi'r gorau i'w (d)efnyddio; **to w. into oneself/to become w.-n** – mynd i'w gilydd (i gyd); **the less successful units will be w.-n** – caiff yr unedau llai/lleiaf llwyddiannus eu hepgor, fe hepgorir yr unedau llai/lleiaf llwyddiannus; **to be asked to w. (= to leave) from an oral examination** – cael cais i ymadael ag/adael arholiad llafar

withdrawal: **remedial w.** – tynnu-allan adferol, addysgu plant adfer

to withhold – dal yn ôl, ymatal rhag, peidio â

within: **a context w. which to promote ...** – cyd-destun y gellir, o'i fewn, hybu ... *neu* cyd-destun ar gyfer/lle gellir hybu/y gellir hybu ynddo ...; **w. hours of her death** – oriau'n unig ar ôl iddi farw; **I am w. my rights in ...** – mae gennyf (bob) hawl i ...; **w. the day** – cyn diwedd y dydd

without: **w. doubt** – nid oes dwywaith (nad); **not w. its problems** – ddim/heb fod yn fêl i gyd; **w. an understanding of the problems, you can decide** – os nad ydych chi/oni bai eich bod chi'n deall y problemau, ni allwch/ fedrwch benderfynu

to witness: **the country has w.-ed ...** – mae'r wlad wedi gweld/cael

woe-begone – fel iâr ar y glaw

wolf: to cry w. – codi bwganod

wonder: **little w. that ...** – nid yw'n (fawr o) syndod bod/mai/i ...; **it's no w. that ...** – does dim syndod bod ... **to do w.-s for** – gwneud byd o les i; **to stare in w. at ...** – rhythu a rhyfeddu at ...

to wonder – dyfalu, gofyn iddynt eu hunain (tybed a ...); **to w. if/whether ...** – ystyried a(i) ...; **she w.-ed whether this made her colleagues think about ...** – doedd hi ddim yn siŵr a fyddai hyn(ny) wedi gwneud/peri i'w chydweithwyr feddwl am/ynghylch ...

wonderful – gwych, anfarwol, yn werth y byd; **we had a w. time** – cawsom amser wrth ein bodd(au); **it is w. to see that ...** – calondid yw gweld bod ...; **it would be w to be able to ...** – gwych o beth fyddai gallu ...

wood: **unable to see the w. for the trees** – methu â gweld pethau mewn persbectif/yn y persbectif cywir/iawn, methu â gweld pethau fel y maent mewn gwirionedd, methu â gwahaniaethu rhwng y (pethau) pwysig a'r (pethau) dibwys, wedi colli golwg ar (drefn) y blaenoriaethau, wedi drysu rhwng y pwysig a'r dibwys/llai pwysig, , methu â gweld beth sydd bwysigaf

word: **a w. of caution** – gair i gall; **w. of mouth** – (clywed) rhywun yn sôn (amdanynt); **in case w. gets (a)round** – rhag i'r si fynd ar led, rhag i bobl ddechrau siarad (am hynny); **don't just take our w. for it** – nid ni'n unig sy'n dweud hyn(ny), nid ni yw'r unig rai sy'n dweud hyn(ny)

wordcount: **a w. must be included at the end of the essay** – rhaid nodi nifer y geiriau ar ddiwedd y traethawd

work: **at w.** – i'w gweld; **a w. of art** – campwaith; **to be at w. doing something** – bod wrthi'n gwneud rhywbeth; **to be hard at w.** – bod wrthi'n ddyfal/ddygn; **w. began on updating ...** – dechreuwyd diweddararu ...; **what changes are in the w.-s?** – pa newidiadau sydd ar y gweill; **w. ethic** – ymroddiad i'w/i'ch (g)waith, awydd/ sfa i weithio

to work: **which, on a crude estimation, w.-s out as ...** – sef, yn fras, ...; **to w. to ensure that** – mynd/bwrw ati i sicrhau bod/mai/y ...; **to w. through ideas** – trin a thrafod syniadau, gwyntyllu syniadau; **to w. to guidelines/ a timetable** – gweithio'n unol â chanllawiau/ag amserlen; **my brain (just) stopped w.-ing** – aeth hi'n nos arnaf; **this led to the w.-ing out of the structure of ...** – arweiniodd hyn(ny) at ganfod strwythur/adeiledd ...; **they would need to w. up those policies** – byddai angen iddynt ddatblygu'r polisiau hynny, byddai angen iddynt weithio (digon) ar y polisiau hynny; **to w. towards ...** – ymdrechu mwy a mwy i ...; **to w. the land** – trin y tir

workable: **a w. solution** – ateb/datrysiaid (sy'n) ymarferol bosibl

worked: **to be/get (all) w. up** – cynhyrfu (i gyd), mynd i stêm/cynhyrfu'n lân ynghylch/ynghlân â/ag

worked-out: **a fully w. strategy** – strategaeth sy'n ffrwyth myfyrio gofalus/ystyriaeth ofalus

working: **to have a thorough w. knowledge of** – bod yn hyddysg yn/mewn; **to have a w. knowledge of** – bod â gwybodaeth weithredol o; **W. Welsh Zone** – Cylch Iaith Gwaith; **w. statement** – darpar-ddatganiad; **to understand the w.-s of ...** – deall sut mae ... yn gweithio

worklessness – diffyg gwaith

world: **a w. faith** – crefydd fyd-eang; **in keeping abreast of rapid strides in today's technological w.** – drwy fanteisio ar ddatblygiadau diweddaraf yr oes dechnolegol sydd ohoni; **Wales W. Nation** – Cymru Cenedl Ryngwladol (gw. *welsh-termau-cymraeg, neges Dafydd Tomos, 03.03.03*); **they have all the t. in the world** – maen nhw fel heddiw a(c y)fory

world-class – o safon fyd-eang

world-renowned – yn enwog drwy'r byd (i gyd)

worldwide: **to anywhere/any destination w.** – i unrhyw le yn y byd, i unman yn y byd

Worm's Head – Pen Pyrod [gw. *Gazetteer*, td. 94]

to worry: **to be worried sick** – poeni'n ofnadwy, becco'u henaidd, bod ar bigau'r drain

worse: **to be w. off** – bod ar eu colled

to worsen – difrifoli

worship: **collective w.** – cydaddoli

to worship: **she w.-s money** – arian yw ei duw (hi)

worst: **if it should come to the w.** – petai'n mynd i'r pen; **w. case scenario** – y sefyllfa waethaf (un/bosibl/y gellir ei dychmygu), petai pethau'n mynd i'r pen, petai gorfod wyneb'r gwaethaf

worth: **the cat has proved its w. as a rat-catcher** – mae'r gath yn llygotwr tan gamp, mae'r gath (wedi dangos ei bod) yn hen law ar ddal llygod mawr; **it is not w. their w.** – nid yw'n talu ffordd iddynt

worthwhile – boddhaol, realistig, bod yn werth y drafferth, bod yn werth eu gwneud/eu cyflawni/eu cael; **it is not w.** – nid yw'n talu ffordd

would: **it w. appear that** – mae'n ymddangos bod, fe ymddengys fod; **I w. confirm that ...** – hoffwn/gallaf gadarnhau bod/mai/y; **they wouldn't listen** – roedden nhw'n pallu gwrando

would-be – darpar

to wow – cyfareddu, swyno

to wreak: the economic destruction they w.-ed- y dinistr economaidd a achoswyd ganddynt/y bu iddynt ei achosi/y gwnaethant ei achosi

wreck: a w. of a car – rhacsyn o gar; **he looks a w.** – mae golwg y cythraul/diawl arno, mae golwg arswydus/ddychrynlyd arno

wrecked: a w. coal barge – gweddillion cwch glo

to wrest: to w. control from – cipio rheolaeth oddi ar

to write: much is written about them elsewhere – sonnir llawer amdanynt ... mewn man arall/mannau eraill; **to w. something down** – ysgrifennu/taro/rhoi rhywbeth ar (ddarn o) bapur, cofnodi; **w. in** (*on a questionnaire*) – enwch ef/hi/hwy; **show that the individual will not be written off for failings** – dangoswch na chaiff yr unigolyn ei (d)diystyru oherwydd ei fethiannau/ei methiannau; **they were written off as stupid at school** – credai eu hathrawon eu bod yn dwp/ddwl *neu* yn yr ysgol, caent eu trin fel petaent yn dwp/ddwl/yn blant/disgyblion dwl/twp *neu* yn yr ysgol, caent eu trin fel plant twp/dwl; **you could w. all these off as (being) the result of changes in ...** – gallech (chi) briodoli'r cyfan (hyn/ohonynt) i(r) newid(iadau) mewn .../yn y(r) ...; **here are some guidelines to w. to** – dyma rai canllawiau i'w dilyn wrth i chi ysgrifennu, dyma rai canllawiau i chi eu dilyn wrth ysgrifennu; **to w. up an account of ...** – llunio disgrifiad (gorffenedig) o ...

writing: at the time of w. – adeg llunio/ysgrifennu'r geiriau hyn/y daflen hon/y llyfr(yn) hwn, adeg ysgrifennu/llunio hyn o lith; **orally and in w.** – ar lafar ac ar bapur; **how to structure the w. (of a report)** – sut mae strwythuro (adroddiad), sut mae llunio (adroddiad)/ysgrifennu adroddiad yn drefnus/yn gelfydd

wrong: a w. impression – camargraff; **something is very w.** – mae rhywbeth mawr o'i le; **to admit to being (in the) w.** – syrthio ar eu bai; **it would be w. to** – camgymeriad fyddai

to wrong: to be w.-ed – cael cam

wrong-headed - cyfeiliornus

Wroxeter – Caerwrygion (*gw. mynegai Hanes Cymru John Davies*)

year: for y.-s and y.-s/y.-s on end – am flynyddoedd bwygilydd; **many y.s ago** – flynyddoedd mawr yn ôl; **in future y.-s** – yn y dyfodol, yn y blynyddoedd sydd i ddod; **through(out) their teenage y.-s** – drwy gydol eu harddegau

yearning – ysfa

yes: think big, y., but don't ... – anelwch yn uchel/byddwch yn uchelgeisiol ar bob cyfrif, ond peidiwch â/ag ...

yesteryear – slawer dydd, ddyddiau fu, ers talwm

yet – ac eto, ond eto; **as y.** – ar hyn o bryd; **although these have y. to be ...** – er nad yw'r rhain eto wedi'u ..., er eu bod yn dal heb eu ...; **y. again** – eto fyth

to yield – esgor ar; **the survey y.-ed sixteen sites** – daeth yr arolwg o hyd i un safle ar bymtheg

yours: the decision is y. – chi sydd i benderfynu; **the prize is y.!** – chi sydd wedi ennill y wobrl!; **the prize will be y.!** – cewch (chi) gadw'r wobrl!

zero: there will be z. tolerance during the campaign – ni fydd unrhyw oddefgarwch/ni chaiff yr un pechadur mo'i
esgusodi/unrhyw faddeuant/ei ollwng yn ddigyhuddiad yn ystod yr ymgyrch (hon)
zilch – dim, dim byd (hyn)
zone: Welsh Working Z. – Cylch Iaith Gwaith